Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Cyllideb Ddrafft 2024-25

## Tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidogion i bwyllgorau craffu'r Senedd ar y dyraniadau o fewn pob Prif Grwp Gwariant Rhagfyr 2023

llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49339, ISBN digidol 978-1-83577-143-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Mynegai


Papur 01 – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – 11 Ionawr 2024 – tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Papur 02 – Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – 17 Ionawr 2024 – tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Papur 03 – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – 17 Ionawr 2024 – tystiolaeth ysgrifenedig gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a Gweinidog yr Economi

Papur 04 – Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 17 Ionawr 2024 – tystiolaeth ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi

Papur 05 – Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai – 18 Ionawr 2024 – tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Papur 06 – Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai – 18 Ionawr 2024 – tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd

Papur 07 – Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – 18 Ionawr 2024 – tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Papur 08 – Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – 18 Ionawr 2024 – tystiolaeth ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi

Papur 09 – Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol – 22 Ionawr 2024 – tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Papur 10 – Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 11 Ionawr 2024 – tystiolaeth ysgrifenedig gan y Prif Weinidog

Papur 11 – Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 11 Ionawr 2024 – tystiolaeth ysgrifenedig gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg

Papur 12 – Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith – 25 Ionawr 2024 – tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd

# Gwybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Cynnwys


1. Dyraniadau i blant a phobl ifanc ........ 2
2. Asesiadau Effaith ........ 5
3. Y Rhaglen Lywodraethu ........ 10
4. Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ........ 18
5. Cronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o Ofal ........ 22
6. Gweithlu Gofal Cymdeithasol Plant ........ 23
7. Iechyd Plant ........ 25
8. Costau byw ........ 33
9. Costau deddfwriaeth ........ 35

## 1. Dyraniadau i blant a phobl ifanc

**Cais 1**

Dyraniadau ym Mhrif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd drwy Weithredu, a Llinell Wariant yn y Gyllideb (fel sy'n uniongyrchol berthnasol i blant a phobl ifanc):

- Cyllideb Ddrafft 2024-25
- Dyraniadau Cyllideb Derfynol 2023-24
- Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24
- Rhagolygon alldroeon 2023-24
- Cyllideb ddangosol 2025-26 (os pennwyd)

Disgrifiad o unrhyw newidiadau i'r llinell sylfaen yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 o'r Gyllideb Atodol Gyntaf, Mehefin 2023.

**Ymateb**

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2023-24 | 2023-24 Cyllideb Atodol Gyntaf | Rhagolygon Alldro P8 2023-24 | Cyllideb Ddrafft 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m |
| Cymru Iachach – (Y Blynyddoedd Cynnar) – BEL 0060 | 7.200 | 7.200 | 6.493 | 6.850 |
| Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae – BEL 310 | 100.951 | 99.727 | 88.404 | 82.378* |
| Cymorth ar gyfer Hawliau Plant – BEL 311 | 1.020 | 1.020 | 0.920 | 1.020 |
| Cefnogi Plant – BEL 410 | 3.865 | 3.865 | 3.883 | 3.865 |
| Cefnogi Teuluoedd a Phlant – BEL 1085 | 11.710 | 11.710 | 5.465 | 5.960* |
| Grant Plant a Chymunedau – BEL 1087 | 171.045 | 172.269 | 171.861 | 174.583* |
| CAFCASS Cymru – BEL 1268 | 15.195 | 15.195 | 15.195 | 15.873 |
| **CYFANSWM** | 310.986 | 310.986 | 292.221 | 290.529 |

**Sylwer – mae elfennau o'r gyllideb yn symud o BEL 310 a BEL 1085 i BEL 1087 yn 24-25 wrth i grantiau symud i'r prif Grant Plant a Chymunedau.*

**Cymru Iachach – (Y Blynyddoedd Cynnar) – BEL 0060**

**Gostyngiad o £0.350m yn y gyllideb**

Cafodd gostyngiad cymesur ei wneud yn y BEL hon fel rhan o'r adolygiad o'r gyllideb a'r ymarfer ailflaenoriaethu a gynhaliwyd yn MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024-25. Cafodd yr effeithiau eu hystyried a'u trafod â Gweinidogion. Bydd hyn hefyd yn berthnasol isod lle cyfeirir at 'ostyngiadau yn y gyllideb'.

**Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae – BEL 310**

Gostyngiad o £14.7m yn y gyllideb o gyllideb ddangosol 2024-25, sef £99.151m, a throsglwyddiad cyllideb o £2.073m yn y Prif Grŵp Gwariant i BEL 1087 – Grant Plant a Chymunedau. Hefyd mae trosglwyddiad cyllideb wedi'i gynnwys ar gyfer Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 o £1.224m yn symud i'r Grant Plant a Chymunedau ar sail anghylchol.

Cafodd y gostyngiad yn y gyllideb ei gwneud o brif linell y gyllideb Cynnig Gofal Plant, £11.2m, llinell y gyllideb Cynlluniau Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar, £3m, a'r gyllideb AGC / GCC a'r Gweithlu, £0.5m

**Cymorth ar gyfer Hawliau Plant – BEL 311**

Dim newid

**Cefnogi Plant – BEL 410**

Dim newid

**Cefnogi Teuluoedd a Phlant – BEL 1085**

Gostyngiad o £4m yn y gyllideb a symudiad cyllideb o £1.1m yn y Prif Grŵp Gwariant i BEL 1087 – Grant Plant a Chymunedau.

O ran y gostyngiad o £4m yn y gyllideb, daw £3.5m o Bwndeli Babi a £0.5m o'r gyllideb Cyfathrebu â Phlant a Theuluoedd.

**Grant Plant a Chymunedau – BEL 1087**

Gostyngiad o £7.085m o ddyraniad cyllideb ddangosol y Grant Plant a Chymunedau 2024-25 o £178.495m

Trosglwyddiad cyllideb rhwng Llinellau Gwariant yn y Gyllideb o £3.173m o'r Prif Grŵp Gwariant, o BEL 310 a BEL 1085, gyda grantiau'n cael eu hychwanegu at y Grant Plant a Chymunedau mwy, gan olygu mai cyfanswm cyllideb 2024-25 yw £174.583m.

**CAFCASS Cymru – BEL 1268**

Cynnydd o £0.678m yn y gyllideb sy'n ymwneud ag addasiad y llinell sylfaen ar gyfer dyfarniad cyflog 2023-24 i staff CAFCASS.

## 2. Asesiadau Effaith

**Cais 2**

- **Asesiad cyfun o’r Effaith ar Hawliau Plant ar draws pob portffolio:** Yr Asesiad cyffredinol o’r Effaith ar Hawliau Plant a gynhaliwyd i lywio’r dyraniadau yng Nghyllideb ddrafft 2024-25.
- **Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:** Yr Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2024-25.
- **Effeithiau eraill:** Manylion a/neu enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau yn MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ôl ystyried cydraddoldeb, cynaliadwyedd, y Gymraeg, a Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

**Ymateb**

Mae’r Asesiad Effaith Integredig Strategol a gyhoeddwyd fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2024-25 yn rhoi ystyriaeth briodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn. Mae’r dull integredig sy’n sail i’r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o effeithiau croestoriadol ac anfwriadol penderfyniadau gwario, ac i gynyddu effaith unrhyw gyllid sydd ar gael, gan leihau effeithiau anghymesur ar unrhyw grŵp neu ardal benodol. Mae perygl y bydd ystyried maes effaith ar ei ben ei hun yn arwain at ganlyniadau anfwriadol, fel effaith negyddol mewn un maes yn cael ei sbarduno gan effaith gadarnhaol mewn maes arall.

Mae hyn yn hollbwysig er mwyn dangos bod Llywodraeth Cymru’n bodloni gofynion Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru). Mae cyhoeddi Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant yn cyd-fynd â’r gofynion y mae Llywodraeth Cymru ei hun wedi’u rhoi ar waith, sydd wedi sefydlu’r Asesiad hwn fel y mecanwaith ‘y cytunir arno’ i helpu Gweinidogion i gyflawni’r dyletswyddau o dan y Mesur hwnnw yn y Cynllun Hawliau Plant ei hun ac yn y llawlyfr cysylltiedig ar y Cynllun i staff Llywodraeth Cymru.

Mae realiti llwm yr amgylchiadau ariannol eithriadol yr ydym yn eu hwynebu wedi golygu bod angen dull mwy sylfaenol o weithredu. Rydym wedi ail-lunio’r dyraniadau

gwariant dangosol yn ein cyllideb i ddarparu cyllid ac amddiffyniad ychwanegol i'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl a chymunedau ledled Cymru, sef y GIG a'r setliad llywodraeth leol craidd sy'n ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, a gwasanaethau bob dydd eraill. Rydym wedi gwneud hynny yn unol â'n hegwyddorion, sef:

- Diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen, craidd cyn belled ag y bo modd.
- Sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd sy'n cael eu taro galetaf.
- Blaenoriaethu swyddi, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.
- Gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus i wynebu'r storm ariannol hon gyda'i gilydd.
- Ail-ffocysu cyllid draw oddi wrth feysydd nad ydynt wedi'u datganoli, y dylai Llywodraeth y DU fod yn eu hariannu.

Rydym wedi defnyddio'r dull hwn i sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio cyllid lle gall gael yr effaith fwyaf cadarnhaol yn yr amgylchiadau a chymryd camau i sicrhau ein bod yn lliniaru effeithiau uniongyrchol ar bobl a lleoedd, cyn belled ag y bo modd. O wario mwy mewn rhai meysydd, mae llai i'w wario mewn meysydd eraill. Pan fo angen gwneud penderfyniadau anodd, rydym wedi ceisio canfod y meysydd hynny lle mae'r effeithiau cymharol yn llai na'u dewisiadau eraill ac rydym wedi ceisio cymryd camau i liniaru'r effeithiau cyn belled ag y bo modd. O ystyried yr amgylchiadau, ni fu modd osgoi effeithiau negyddol ym mhob achos.

Mae rhagor o fanylion yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol, Atodiad A yn y ddolen isod:

Naratif Cyllideb Ddrafft 2024-2025 (llyw.cymru)

Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'n bwysig nodi bod dros £10.5 biliwn (93% o'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) yn cael ei ddyrannu i gyllid uniongyrchol i'r GIG, a bod nifer o linellau eraill y gyllideb yn cefnogi gwasanaethau'r GIG hefyd. Ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25, cyhoeddwyd dyraniad y gyllideb i Fyrddau Iechyd ac mae gofyn iddynt gyflwyno eu cynlluniau ar gyfer 2024/-25, gan

gadw i'r cyllidebau sydd ar gael. Bydd pob penderfyniad gan y byrddau iechyd yn destun asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, penderfyniadau ar gydbwysedd risg ac ymgyngoriadau posibl, os bydd penderfyniadau'n effeithio ar wasanaethau. Bydd pob bwrdd iechyd yn wynebu heriau gwahanol o ran anghenion y boblogaeth leol a chyfluniad gwasanaethau. Bydd y camau a gymerir i reoli unrhyw bwysau costau yn amrywio yn ôl sefydliad a byddant yn destun penderfyniad lleol.

Gweledigaeth *Cymru Iachach* yw canolbwyntio mwy ar atal ac ymyrryd yn fuan. Rydym yn parhau i gefnogi hyn drwy gymorth cyffredinol a chymorth wedi'i dargedu. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni drwy Magu Plant. *Rhowch amser iddo*, sydd wedi cael ei ehangu i gefnogi rhieni plant o 0 i 18 oed; cymorth parhaus ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu drwy'r cynllun a'r ymgyrch *Siarad Gyda Fi*; a rhagor o fuddsoddiad i leihau neu liniaru effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Yn nyraniad MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, caiff cyllid ei ddyrannu i gefnogi ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu mewn cysylltiad â'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

Mae ein cefnogaeth i'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn cyfrannu at yr holl nodau llesiant, ac yn benodol at y rhai sy'n ymwneud â Chymru lewyrchus ac iachach. Mae buddsoddi mewn gofal plant a chwarae o ansawdd uchel yn gallu helpu plant ifanc i ddatblygu'n oedolion iach ac egnïol. Mae'n datblygu eu llesiant gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol, ac yn lliniaru effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae gofal plant hefyd yn gallu galluogi rhieni i weithio a hyfforddi, ac yn codi teuluoedd allan o dlodi.

Mae ein Cynnig Gofal Plant yn cefnogi amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, yn benodol i wneud y canlynol:

- Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant.
- Hybu iechyd da a llesiant i bawb.
- Helpu pobl ifanc i wireddu eu potensial.
- Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw.

Rydym wedi parhau i lunio ein dyraniadau cyllideb i gyd-fynd â chamau gweithredu ataliol, gan ganolbwyntio ar ymyriadau cadarnhaol sy'n diogelu ac yn adeiladu ar y sylfeini presennol, gan gynnwys ein hymrwymiad i hawliau plant. Gwelir tystiolaeth o hyn, er enghraifft, drwy ein buddsoddiad parhaus yng ngwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru; ein buddsoddiad parhaus mewn gwasanaethau atal allweddol fel rhaglenni imiwneiddio ar gyfer plant; a gweithgareddau hybu iechyd ehangach ar gyfer plant a phobl ifanc fel yr amlinellir yn adran 7 isod.  Fodd bynnag, rydym wedi gorfod lleihau cyllidebau a fydd yn effeithio ar blant, fel yr esbonnir yn yr enghreifftiau isod.

<u>Y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, gan gynnwys y Cynnig Gofal Plant a'r Gweithlu</u>

Mae'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn cael ei arwain gan y galw ac mae £2.5m yn cael ei ddyrannu fel Grant Cymorth Ychwanegol. Mae gostyngiadau yn y gyllideb ar gyfer 2024-25 wedi cael eu modelu ar y defnydd yn 2023-24. O ystyried bod y rhaglen yn seiliedig ar y galw, bydd cyllideb ychwanegol yn cael ei dyrannu os bydd angen.

<u>Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar</u>

Mae Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn canolbwyntio ar ddatblygu system blynyddoedd cynnar fwy cydgysylltiedig ac ymatebol sy'n rhoi anghenion unigryw pob plentyn wrth galon y system, ac sy'n cynnwys y cyfnod cyn-geni hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (0-7).

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru i ystyried sut i ddarparu gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar mewn ffordd fwy systematig, gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'n rhaglenni presennol, fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

Mae mwyafrif y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cymryd rhan yn y rhaglen fel cynllun braenaru, gan brofi elfennau craidd system blynyddoedd cynnar a threialu gwahanol fodelau a dulliau gweithredu amlasiantaeth, gan adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda mewn rhaglenni sydd eisoes yn bodoli, fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

Bydd y cyllid hwn yn dod i ben fis Mawrth 2024 nawr, sy'n golygu y bydd y rhaglen yn dod i ben flwyddyn yn gynharach na'r disgwyl.

Roedd disgwyl y byddai gan y rhaglen derfyn amser o'r cychwyn cyntaf, gan mai rhaglen beilot yw hi, a'r bwriad oedd y byddai'n dod i ben diwedd 2024-25. Er y bydd y rhaglen yn dod i ben yn gynharach na'r disgwyl, byddwn yn gweithio'n agos gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i nodi'r cymorth anariannol mwyaf priodol i'w galluogi i wreiddio'r dysgu fel rhan o'u model busnes fel arfer.

Rhaglen Bwndeli Babi

Bwriad y Rhaglen oedd cynnig cymorth i tua 26,000 o rieni newydd a darpar rieni. Gyda chyllideb is, bydd angen targedu'r Rhaglen ar sail ddaearyddol lai fel Dechrau'n Deg a/neu dynnu cynnwys Bwndeli er mwyn lleihau costau. Os caiff ei darparu mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, gellid cefnogi tua 8,000 o rieni newydd a darpar rieni.

Bydd y gostyngiad yn y gyllideb yn golygu na fydd rhai teuluoedd, sydd mewn perygl o dlodi neu'n profi tlodi sy'n byw y tu allan i'r ardal darged, yn elwa ar y cymorth a gynigir drwy'r Rhaglen.

## 3. **Y Rhaglen Lywodraethu**

**Cais 3**

Dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 a'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllid ar gyfer:

**3.1 - Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu:** Gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ymuno â'r system ofal.

Dyraniadau ar gyfer cyflwyno cymorth i rieni y mae eu plant ar gyrion gofal, sydd i'w darparu yn unol â fframwaith cenedlaethol.

**Ymateb**

Dyrannwyd cyllid o £506,000 o'r Gronfa Newid Plant sy'n Derbyn Gofal yn 2024-25 ar gyfer cyflwyno cymorth eiriolaeth annibynnol a phroffesiynol i rieni y mae eu plant ar gyrion gofal, gyda'r nod o leihau nifer y plant sy'n ymuno â'r system ofal yng Nghymru. Cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd i'r ymrwymiad hwn ar draws pedair blynedd 2022/23-2025/26 yw £1,606,400.

**3.2 - Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu:** Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.

Dyraniadau ar gyfer 2024-25 ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer yr wyth prosiect sydd bellach yn weithredol (a sawl lleoliad ychwanegol y mae hyn yn ei ariannu).

Dyraniadau ar gyfer cyflawni unrhyw brosiectau newydd (a sawl lleoliad newydd ychwanegol y mae hyn yn ei ariannu).

**Ymateb**

Ers cyhoeddi adroddiad blynyddol y Rhaglen Lywodraethu ym mis Gorffennaf eleni, mae saith prosiect rhanbarthol ychwanegol wedi dod yn weithredol. Cyfanswm nifer y prosiectau sydd bellach yn weithredol yw 15, sy'n darparu 26 o welyau ar gyfer plant ag anghenion cymhleth. Mae'r prosiectau'n cael eu hariannu drwy wahanol

ffrydiau cyllido gan gynnwys y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, yn ogystal â chyllid craidd. Felly, nid yw gwybodaeth am gyfanswm y dyraniadau cyllid ar gyfer y prosiectau yn cael ei chadw'n ganolog.

**3.3 - Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu:** Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal.
Dadansoddiad blynyddol o sut mae'r ymrwymiad i wario £68m yn cael ei ddadansoddi yn ôl cyfanswm dros dair blynedd, 2022-23, 2023-24, 2024-25.

- **Yr alldro terfynol ar gyfer 2022-23** / dadansoddiad o bwy gafodd y dyraniadau hynny ac at ba ddiben (yn ôl awdurdod lleol a'r trydydd sector).

- **Rhagolygon alldro ar gyfer 2023-24** / dadansoddiad o bwy gafodd y dyraniadau hynny ac at ba ddiben (yn ôl awdurdod lleol a'r trydydd sector).

- **Dyraniadau manwl wedi'u cynllunio ar gyfer 2024-25** (neu'r broses ar gyfer penderfynu ar hynny).

**Ymateb**

Dadansoddiad Blynyddol o £68m

| | |
|---|---|
| 2022/23 | £13m |
| 2023/24 | £26m |
| 2024/25 | £29m |

Yn 2022-23 gofynnwyd i awdurdodau lleol gyflwyno ceisiadau tair blynedd am gyllid (2022/23-2024/25) i'w helpu i gyflawni'r ymrwymiad i ddileu elw a'u helpu i leihau nifer y plant mewn gofal a chefnogi plant sy'n derbyn gofal, a'u teuluoedd.

Cafodd y ceisiadau hyn eu hasesu gan swyddogion a'u defnyddio i bennu dyraniad y £68m dros y tair blynedd i awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd y ceisiadau'n canolbwyntio'n glir ar adeiladu darpariaeth gofal preswyl a maeth mewnol neu nid-er-elw, ar symud plant allan o ofal preswyl yn ôl i leoliad teulu, ar ddarparu gwasanaethau lleol ac wedi'u dylunio, gan gynnwys darpariaeth arbenigol i blant ag

anghenion mwy cymhleth ac, yn anad dim, ar wella canlyniadau i blant.  Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o gynigion a gafwyd:

- Gwell cymorth i ofalwyr maeth, gan gynnwys datblygu gwasanaethau cefnogi arbenigol.
- Gwella'r ystod o ddewisiadau gofal maeth i blant.
- Mwy o recriwtio ac asesu gofalwyr maeth awdurdodau lleol.
- Lleoliadau maeth Camu i Lawr.
- Adeiladu darpariaeth a gwytnwch gofal preswyl mewnol, gan gynnwys uwchsgilio staff ac ymarferwyr awdurdodau lleol.
- Datblygu gwasanaethau seibiant byr mewnol.
- Trosi Lleoliadau gyda Rhieni yn Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig.
- Datblygu/Ehangu Timau Cymorth mewn Argyfwng.
- Diddymu Gorchmynion Gofal.

Yn 2022-23, cafodd y cyllid a ddyrannwyd ei wario'n llawn ar y gweithgareddau hyn i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu elw.  Rhagwelir y bydd cyllid yn cael ei ddefnyddio'n llawn unwaith eto yn 2023-24.

**3.4 - Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu:** Cymorth arbenigol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal.

Mae manylion y 32 prosiect a nodwyd hyd yma gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cwmpasu Cymru gyfan a sut mae'r rhain yn cael eu hariannu gan Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol diweddaraf y Rhaglen Lywodraethu.

**Ymateb**

Ar gyfer ein Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, roedd blwyddyn gyntaf (2022-23) y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn un o drawsnewid, wrth inni gyfuno ffrydiau cyllido a oedd ar wahân yn flaenorol i sicrhau bod adnoddau'n cyd-fynd yn well, er mwyn inni gael yr effaith fwyaf bosibl a lleihau'r baich gweinyddol. O ganlyniad, mae llawer o'r 32 prosiect gwreiddiol bellach wedi'u cyfuno i'r 20 rhaglen waith a restrwyd. Er ei

bod yn ymddangos bod hyn yn ostyngiad mewn prosiectau, mae lefel y buddsoddiad cyffredinol ym mlwyddyn 2 (2023-24) yn dal yn debyg i flwyddyn 1 y Gronfa.

Mae cyllid y Gronfa yn mynd i bob un o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol sy'n gweithredu fel 'bancwyr' ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol: mae partneriaid yn tynnu'r cyllid hwn i lawr yn ôl yr angen, gyda ffurflenni cyllid a chyfarfodydd chwarterol wedi'u trefnu i drafod cynnydd yn erbyn y cynllun yn ystod y flwyddyn. Felly, nid yw'n bosibl rhagamcanu'r union ddyraniad y bydd rhanbarthau'n ei roi tuag at y model gofal perthnasol ym mlwyddyn 3 (2024-25), ond ni fyddem yn disgwyl unrhyw newidiadau mawr ar hyn o bryd.

O dan y Model Gofalu 'Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o ofal', cyfanswm rhagamcanol y dyraniad 2023-4 erbyn diwedd y flwyddyn yw £18,243,533, a fydd, yn ein barn ni, yn eithaf tebyg ar gyfer 2024-25. Rhennir y dyraniad fel a ganlyn:

<u>Caerdydd a'r Fro £2,084,429</u>

- Cymorth iawn, yr amser iawn, y person iawn
- Plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth – cymuned

<u>Cwm Taf Morgannwg £802,796</u>

- Prosiect Dewis.
- Gwasanaeth Cymorth Therapiwtig MAPSS.
- Model Newid Systemig.

<u>Gwent £1,474,163</u>

- Iechyd a Datblygiad Emosiynol Plant.
- Ymyrraeth Gynnar a Chadernid i Blant.

<u>Gogledd Cymru £9,867,139</u>

- Ymyrraeth gynnar.
- Gwasanaethau dychwelyd ac atal.
- Meithrin gwytnwch teuluoedd i atal problemau rhag dwysáu.

- Cymorth preswyl dwys i blant ag anghenion cymhleth.
- Cymorth arbenigol i blant ag anghenion cymhleth / arbenigol.
- Timau cymorth dwys i blant ag anghenion cymhleth.

Powys £610,000

- Ar gyrion gofal.

Gorllewin Morgannwg £1,894,177

- Gwasanaeth Therapiwtig Newydd.
- Gweithio gyda'n Gilydd – Rhanbarthol.
- Ar ôl mabwysiadu – Rhanbarthol.

Gorllewin Cymru £1,510,829

- Camu i fyny / Camu i lawr.
- Ar gyrion gofal.
- Anghenion cymhleth.

**3.5 - Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu:** Ariannu gofal plant i ragor o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant, neu ar gyrion gwaith.

Dyraniadau cyffredinol ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn 2024-25.
Cost y 438 o deuluoedd ychwanegol yn 2023-24 a chyfanswm y costau a ddyrannwyd yn 2024-25 ar gyfer yr amcangyfrif o 3,000 yn rhagor o deuluoedd cymwys fel y cyfeirir ato yn Adroddiad Blynyddol diweddaraf y Rhaglen Lywodraethu.

**Ymateb**

Yn 2024-25, mae dros £76m yn cael ei ddyrannu i raglen Cynnig Gofal Plant Cymru. Mae hyn yn cynnwys prif grant y Cynnig Gofal Plant, Grant Gweinyddu Awdurdodau Lleol, Grant Cymorth Ychwanegol y Cynnig Gofal Plant, a chostau rhaglenni digidol a mewnol. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o tua £11m o gyllideb 2023-24.

Erbyn diwedd y flwyddyn academaidd 22/23, rhoddwyd cymorth i 675 o deuluoedd ychwanegol oherwydd bod y Cynnig wedi'i ehangu i gynnwys rhieni cymwys sydd mewn addysg/hyfforddiant. Mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant yn cael eu hariannu o fewn prif grant y Cynnig Gofal Plant. Oherwydd y ffordd y mae'r data a'r wybodaeth fonitro'n cael eu datblygu o dan y System Ddigidol Genedlaethol, ar hyn o bryd nid yw'n bosibl dadgyfuno'r costau hyn o gyfanswm grant y Cynnig Gofal Plant.

Mae'r cyfraddau defnydd presennol yn adlewyrchu tua 55% o rieni cymwys, ac mae'r gyllideb a ddyrannwyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gyflawni'r holl rwymedigaethau presennol a pharhau i hybu defnydd, gan annog rhagor o rieni cymwys i fanteisio ar y cymorth sydd ar gael iddynt.

**3.6 - Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu:** Mynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwyflwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg.

Dyraniadau a'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni yn 2024-25.
Gwybodaeth ynghylch a fydd yn cynnig 30 awr llawn i bob plentyn dwyflwydd oed, ac erbyn pryd y bydd hyn yn cael ei ddarparu.

**Ymateb**
Mae gofal plant yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru, a'n huchelgais yw cynnig darpariaeth gofal plant a blynyddoedd cynnar i bob plentyn dwyflwydd oed yng Nghymru.

Mae ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i fynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwyflwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg sy'n cynnig 12.5 awr o ofal plant o ansawdd uchel a ariennir gan y llywodraeth bob wythnos am 39 wythnos y flwyddyn. Ein huchelgais yw bod hyn yn cael ei gynnig yn gyffredinol i bob plentyn dwyflwydd oed. Darperir rhagor o wybodaeth am ddyraniad 2024-25 ar gyfer Dechrau'n Deg mewn ymateb i 3.7 isod.

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth am hyd at 48 wythnos y flwyddyn ar gyfer rhieni cymwys sydd mewn addysg/hyfforddiant, a rhieni plant 3 a 4 oed yng Nghymru sy’n gweithio. Mae Dechrau’n Deg a’r Cynnig Gofal Plant yn rhaglenni ar wahân ond cysylltiedig.

O ran gofal plant Dechrau’n Deg, fel rhan o’n Cytundeb Cydweithredu â Phlaid Cymru, rydym wedi ymrwymo i ehangu’r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ar gyfer pob plentyn dwyflwydd oed ledled Cymru.

Dechreuodd cam presennol y rhaglen ehangu ym mis Ebrill 2023 ac mae’n canolbwyntio’n benodol ar ehangu gofal plant Dechrau’n Deg i ragor o blant dwyflwydd oed.
Mae canolbwyntio adnoddau ar ein cymunedau mwyaf difreintiedig, yn y lle cyntaf, yn sicrhau bod cymorth yn cyrraedd y teuluoedd mwyaf anghenus cyn gynted ag y bo modd.

**3.7 - Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu:** Dechrau’n Deg

Refeniw a chyfalaf

**Ymateb**

<u>Dechrau’n Deg - Refeniw</u>

Mae cyllideb Dechrau’n Deg yn rhan o’r Grant Plant a Chymunedau. Mae’r Grant Plant a Chymunedau yn helpu awdurdodau lleol i ystyried sut i ddarparu eu gwasanaethau mewn ffordd fwy strategol. Gall hyblygrwydd yn y grant hwn gefnogi a hybu cynllunio a chomisiynu ar y cyd i wneud defnydd mwy effeithiol o’r cyllid er mwyn cyflawni nodau ac amcanion y rhaglenni cyfansoddol.

Mae’r Grant Plant a Chymunedau yn mynd i’r afael ag anghenion y plant, y bobl ifanc a’r oedolion mwyaf difreintiedig a/neu agored i niwed yn ein cymdeithas drwy amrywiaeth o ddulliau ymyrraeth gynnar, atal, a chymorth.

Nod y rhaglenni yn y grant hwn yw lliniaru neu ddileu anfanteision pobl difreintiedig a/neu agored i niwed i'w galluogi i gael yr un cyfleoedd mewn bywyd ag eraill, ac i gyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal.

Y gyllideb ar gyfer y Grant yn 2024-25 yw £174.583m. O hyn, mae £142.028m yn Gyllid Hyblyg ar gyfer wyth rhaglen, gan gynnwys cynnig craidd Dechrau'n Deg.

Yn 2024-25 byddwn yn buddsoddi £32.555m i ehangu Dechrau'n Deg. Bydd £24.3m ohono'n helpu dros 5,200 o blant ychwanegol i gael gafael ar ofal plant Dechrau'n Deg o ansawdd uchel i gefnogi effeithiau cadarnhaol hirdymor ar fywyd y plant a'r teuluoedd hynny ledled Cymru sy'n wynebu'r heriau mwyaf.

Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar

Cafodd y Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar ei rhoi ar waith ym mis Hydref 2022 ac mae ar gael tan fis Mawrth 2025, gyda chyfanswm dyraniad cyllideb o £70m. Mae'r rhaglen yn cefnogi Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant, a'i nod yw gwella ac ehangu darpariaeth gofal plant newydd a'r ddarpariaeth sydd eisoes yn bodoli.

Mae'r gyllideb wedi'i rhannu'n ddwy ffrwd gyllido benodol: cyllid grantiau bach a chyllid cyfalaf mawr. Bydd y dyraniadau cyllideb sydd ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 yn £10m ar gyfer cyllid grantiau bach. Bydd yr holl ddarparwyr gofal plant a chwarae sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gymwys i wneud cais drwy broses weinyddu eu hawdurdod lleol. Defnyddir yr elfen grantiau bach i gefnogi prosiectau ac eitemau hyd at £20,000, ac mae'r cyfanswm fesul prosiect yn seiliedig ar nifer y lleoedd gofal plant AGC yn y lleoliad.

Bydd dyraniad cyllideb o £15m ar gyfer 2024-25 ar gael i brosiectau cyfalaf mawr ar gyfer cynigion o hyd at £20,000 ac mae'n amrywio o waith adnewyddu bach i gyflwyno estyniadau ac adeiladau annibynnol ar gyfer darpariaethau gofal plant. Mae'r cyllid ar gael i ddarparwyr sydd wedi cofrestru ag AGC ac mae'n rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno achos cyfiawnhad busnes i wneud cais am gyllid cyfalaf drwy dîm cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar.

## 4. Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy

**Cais 4**

Cyfanswm y Cynllun a dadansoddiad o'r holl grantiau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc.

**Ymateb**

Cyfanswm gwerth y cyllid drwy'r Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn 2024-25 yw £9,299,209, ac mae £2,912,428 ohono'n ymwneud â grantiau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc.

Dyma ddadansoddiad o'r grantiau hyn:

| | | |
|---|---|---|
| Gweithredu dros Blant | Skills **PLUS** (Skills+): Gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc 14-24 oed sydd â phrofiad o ofal yw Skills+. Bydd y prosiect yn darparu **Llwybrau** pwrpasol sy'n helpu pobl ifanc â phrofiad o ofal i bontio i fod yn oedolyn, drwy amrywiaeth o ymyriadau cysylltiedig sydd wedi'u cynllunio'n benodol i leihau eu gwendidau a'u cyflenwi â'r gwytnwch a'r sgiliau/adnoddau i'w helpu i ymdopi'n gadarnhaol â heriau byw'n annibynnol. | **£599,747** |
| Cymorth i Fenywod Cyfannol | Ar Trac: Bydd Ar Trac yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi profi neu fod yn dyst i gam-drin domestig, ac sy'n dangos anawsterau o ran eu perthynas â'u teulu a'u cyfoedion. Drwy fynd i'r afael â'r anawsterau hyn ac adeiladu ar gryfderau yn ystod plentyndod, nod Ar Trac yw lleihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a gwella | **£619,762** |

| | | |
|---|---|---|
| | llesiant corfforol a meddyliol yn nes ymlaen mewn bywyd.<br><br>Mae'r prosiect yn cael ei ddarparu gan asiantaethau cam-drin domestig lleol sydd â chyfoeth o brofiad a dealltwriaeth o'u cymunedau lleol, ac a fydd yn gallu addasu'r prosiect yn lleol i fodloni anghenion plant a phobl ifanc yn well. | |
| Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru | Cefnogi Plant a Phobl Ifanc Du ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru: Nod y gwasanaeth yw gwella canlyniadau llesiant Plant a Phobl Ifanc Du ac Ethnig Leiafrifol sydd ag anghenion gofal cymdeithasol drwy wasanaeth cymorth sy'n ystyriol o hil, ffydd a diwylliant, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar hawliau, gan adeiladu ar waith Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru gyda Phlant a Phobl Ifanc Du ac Ethnig Leiafrifol yn Abertawe.<br><br>Mae'r gwasanaethau'n wasanaeth atgyfeirio i Blant a Phobl Ifanc Du a Lleiafrifoedd Ethnig 0-25 oed sydd ag anghenion cymorth 'ychwanegol' neu 'luosog', gan weithio'n uniongyrchol gyda nhw drwy ymyrraeth gynnar ac atal i gyflawni canlyniadau llesiant penodol: sicrhau hawliau, gwella iechyd corfforol a meddyliol, cefnogi'r broses o bontio i fod yn oedolyn annibynnol, a diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod. | **£138,552** |
| Sefydliad Lucy Faithfull | Cadw Plant yn Ddiogel rhag Cam-drin Rhywiol – addysg, hyfforddiant ac adnoddau cyhoeddus i wella gallu rhieni, gofalwyr a'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd i atal niwed rhywiol, a chymryd camau priodol os oes ganddynt bryder | **£97,152** |

| | | |
|---|---|---|
| Sefydliad Lucy Faithfull | Ymyrraeth gynnar i deuluoedd agored i niwed neu sydd mewn perygl: prosiect atal a gweithredu'n gynnar ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol: Cadw plant yn ddiogel rhag cam-drin rhywiol – addysg, hyfforddiant ac adnoddau cyhoeddus i wella gallu rhieni, gofalwyr a'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd i atal niwed rhywiol, a chymryd camau priodol os oes ganddynt bryder | **£94,612** |
| Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol | Rhaglen Eiriolaeth Rhieni: Cefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu cymorth ymyriadau teuluol gyda'r nod o leihau nifer y plant sy'n ymuno â'r system ofal yng Nghymru. Prif nod y prosiect yw ymyrraeth ataliol a sicrhau bod hawliau'r plentyn yn cael eu cynnal yn llawn. | **£297,399** |
| Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol | Project Unity: Torri'r cylch o blant mamau sydd â phrofiad o ofal yn cael eu rhoi mewn gofal, ac atal plant rhag bod yn destun prosesau diogelu plant. Drwy ddarparu cymorth cofleidiol dwys a meithrin rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid. | **£343,707** |
| Platfform (yn ffurfiol - Gofal ) | Prosiect Pobl Ifanc 13-16 oed: Bydd Prosiect Pobl Ifanc Platfform, mewn cydweithrediad â Vibe Youth a Barod, yn darparu lle diogel i bobl ifanc 13-16 oed gael saib, anadlu a chysylltu. Drwy ddarparu rhaglen llesiant deuddeg wythnos, cymorth gan gymheiriaid a chymorth un-i-un, bydd pobl ifanc yn cael cyfle i archwilio beth mae iechyd meddwl a llesiant yn ei olygu iddyn nhw. Bydd pobl ifanc yn cael cyfle i gwrdd ag eraill sy'n wynebu heriau tebyg ac i rannu straeon am adfer a strategaethau dydd i ddydd ar gyfer llesiant. Bydd y prosiect yn rhoi cyfle i bobl ifanc hyfforddi i | **£362,397** |

| | | |
|---|---|---|
| | fod yn fentoriaid cymheiriaid ac yn rhoi llwyfan i bobl ifanc ddylanwadu ar gyfeiriad y prosiect. | |
| Y Rhwydwaith Maethu | Cymunedau Maethu: Mae **Cymunedau Maethu** yn ddull system gyfan o gefnogi plant sy’n derbyn gofal a’u teuluoedd maeth ar hyd a lled Cymru. Wrth ei wraidd mae model arloesol, cydgynhyrchu, sy’n hwyluso dull rhannu pŵer o ddylunio, darparu a gwerthuso rhaglenni. Bydd y prosiect yn grymuso’r gymuned faethu i wella canlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal o fewn y fframwaith llesiant cenedlaethol | **£279,429** |
| Whizz-Kidz | Moving On: Gwella bodlonrwydd a hapusrwydd bywyd pobl ifanc sy’n defnyddio cadair olwyn yng Nghymru drwy raglenni sgiliau chwaraeon a seiliedig ar symudiadau mewn lleoliadau iechyd ac addysg. | **£79,671** |

## 5. Cronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o Ofal

**Cais 5**

Cyfanswm y Gronfa a dadansoddiad o'r holl ddyraniadau.

**Ymateb**

| **Prosiect** | **Dyraniad ar gyfer 2024/25 - £3,820,853** |
|---|---|
| Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | £669,492 |
| Maethu Cymru | £2,074,999 |
| Camu i fyny, Camu i lawr | £301,300 |
| Maethu Lles | £269,062 |
| Eiriolaeth Rhieni | £506,000 |
| **Cyfanswm** | **£3,820,853** |

## 6. Gweithlu Gofal Cymdeithasol Plant

**Cais 6**

Unrhyw ddyraniadau sy'n gysylltiedig â helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag ansefydlogrwydd y gweithlu ym maes gofal cymdeithasol plant, fel cyfraddau swyddi gwag a defnyddio staff asiantaeth, a nodwyd yn ein Hadroddiad ar Ddiwygio Radical ar gyfer Plant sydd wedi bod mewn Gofal ac adolygiad cyflym diweddar Arolygiaeth Gofal Cymru o drefniadau amddiffyn plant Medi 2023

**Ymateb**

Fel llywodraeth, rydym yn canolbwyntio ar greu sylfaen gadarn y gallwn adeiladu ein gweithlu gofal cymdeithasol arni.

Nod ein cyllid sylweddol drwy Gofal Cymdeithasol Cymru yw arwain a chefnogi gwelliannau mewn gofal cymdeithasol drwy recriwtio a chadw gweithlu proffesiynol o ansawdd uchel. Mae'r meysydd gwaith gyda chyllid wedi'i ddyrannu sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol i blant yn cynnwys:

Buddsoddiad o £10 miliwn dros dair blynedd yn y bwrsari i weithwyr cymdeithasol i sicrhau bod y radd mewn gwaith cymdeithasol yn gyraeddadwy yn ariannol, ac yn yrfa ddeniadol. Mae rhagor wedi manteisio ar y bwrsari i weithwyr cymdeithasol yn 2023-24 o'i gymharu â 2022-23. Rydym yn hyderus bod y cynnig cynyddol o gymorth wedi helpu i ddenu mwy o fyfyrwyr i ddilyn gwaith cymdeithasol fel gyrfa, ac y bydd hyn yn parhau yn 2024-25.

Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r grant hwn ar gael i gefnogi awdurdodau lleol ac mae'n cynnig cyfleoedd i ariannu rhaglenni ardderchog fel y 'cynllun datblygu eich hun' sy'n cefnogi cyflogaeth am dâl a hyfforddiant gwaith cymdeithasol wedi'i ariannu. Mae'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun hwn wedi cynyddu bob blwyddyn ac mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn amcangyfrif cynnydd yn nifer y myfyrwyr "datblygu eich hun" ar gyfer blwyddyn academaidd 2023-24.

Mae cyllid Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael ei ddarparu i Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gyflawni darn o waith sy’n canolbwyntio ar delerau ac amodau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, gan gynnwys dulliau gweithredu cenedlaethol. Pwrpas hyn yw cefnogi a denu unigolion i’r proffesiwn, a lleihau symudiad staff cymwysedig rhwng awdurdodau lleol oherwydd amrywiadau mewn telerau ac amodau.

I gydnabod y rôl bwysig y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol craidd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid rheolaidd i’r sector ar ffurf grant Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae’r meini prawf ar gyfer defnyddio’r grant wedi’u gosod yn fras. Mae awdurdodau lleol wedi gallu defnyddio’r cyllid i gefnogi codiadau cyflog, ond hefyd ar gyfer ymyriadau eraill sydd â’r nod o gefnogi darpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol cynaliadwy i sicrhau eu bod mewn sefyllfa well i ateb galw cynyddol neu annisgwyl. Y dyraniad i awdurdodau lleol ar gyfer 2024-25 yw £34.4 miliwn.

Daw’r rhaglenni gwaith cadarnhaol hyn gyda’r realaeth y bydd yn cymryd amser i deimlo’r effaith yn y gweithlu, ond mae hyn yn addawol ar gyfer dyfodol gofal cymdeithasol plant.

## 7. Iechyd Plant

**Cais 7**

Dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 a’r sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllid ar gyfer:

- Iechyd y cyhoedd fel y mae’n berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys brechu.
- Strategaeth gordewdra.
- Gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, a gwasanaethau i gefnogi iechyd meddwl amenedigol a’r berthynas rhwng rhieni a phlant.
- Gwasanaethau anhwylderau bwyta.
- Atal hunanladdiad fel y mae’n berthnasol i blant a phobl ifanc.
- Camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys fepio ymysg plant a phobl ifanc.
- Gwasanaethau niwroddatblygiadol.

**Ymateb**

Gwasanaethau niwrowahaniaeth (Gwasanaethau awtistiaeth)

Drwy ein Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth, rydym yn parhau i flaenoriaethu gwelliannau mewn gwasanaethau niwrowahaniaeth, gan gynnwys gwasanaethau niwroddatblygiadol i blant. Cyhoeddais gyllid ychwanegol o £12m dros dair blynedd hyd at fis Mawrth 2025, ac mae £6m ar gael yn 2024-25. Drwy’r rhaglen wella, rydym wedi darparu canllawiau clir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar y trawsnewid gofynnol.

Er bod cyllid y rhaglen wella yn creu capasiti ychwanegol mewn gwasanaethau diagnostig sy’n cael eu harwain gan iechyd, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cael eu hannog i fuddsoddi mewn prosiectau peilot newydd ac arloesol i roi gwybodaeth, cyngor ac ymyrraeth gynnar i deuluoedd cyn eu hatgyfeirio ar gyfer diagnosis. Mae amrywiaeth o brosiectau’n cael eu treialu mewn gwahanol ardaloedd ledled Cymru. Mae’r canlynol yn enghreifftiau o gynlluniau peilot cyfredol:

- Mae Caerdydd a’r Fro yn treialu rôl Cysylltwyr Cymunedol i gyfeirio a chysylltu teuluoedd â phlant ifanc â gwasanaethau cymorth lleol cyn neu wrth aros am asesiad diagnostig.

- Aeth Cyngor Castell-nedd Port Talbot ati i gyflogi Seicolegydd Addysg cynorthwyol i ddarparu sesiynau galw heibio cymunedol i rieni/gofalwyr un diwrnod yr wythnos ym mhob cymuned ar draws Castell-nedd Port Talbot.

- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn treialu arloesi gyda modelau rhagnodi meddyginiaeth ADHD ar gyfer plant er mwyn osgoi amseroedd aros hir, o ystyried y cynnydd yn y galw ar hyn o bryd. Y nod yw byrhau’r broses ddiagnostig a chwblhau asesiad ac ystyriaeth o feddyginiaeth ar yr un diwrnod. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, maent hefyd yn datblygu llwybr i rieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol gael gafael ar gyngor, ymgynghoriad a chymorth cyn atgyfeirio am asesiad neu ar adeg atgyfeirio.

Edrychwn ymlaen at weld yr arloesi hwn yn datblygu er mwyn dysgu a mabwysiadu unrhyw arferion gorau sy’n dod i’r amlwg ar raddfa ehangach.

Ffocws 2024-25 fydd dysgu o’r cynlluniau peilot cynnar lleol hyn a datblygu prosiectau llwyddiannus i fodel cenedlaethol o ddarparu gwasanaethau. Rydym wedi sefydlu Grŵp Llywio a Chymuned Ymarfer Niwroddatblygiadol i Blant er mwyn i ni allu rhannu’r arferion gorau. Rydym eisoes wedi gallu dangos gwaith Hywel Dda a’i lwybr atgyfeirio ar gyfer Syndrom Tourette. Roeddem hefyd yn falch bod Aneurin Bevan a Lleisiau Gofalwyr Cymru wedi cyflwyno eu gwaith arobryn yn GIG Cymru ar gydgynhyrchu ac ailgynllunio eu llwybr niwroddatblygiadol. Bydd astudiaethau achos o’r gwaith hwn ar gael ac yn cael eu rhannu ar draws gwasanaethau ar gyfer dysgu pellach.

Mae pob rhanbarth yn mynd i’r afael â rhestrau aros ac yn creu cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar drwy adolygu llwybrau atgyfeirio. Cefnogir y gwaith hwn gan Dîm Perfformiad a Sicrwydd Gweithrediaeth y GIG, sydd wedi cwblhau darn sylweddol o waith i ddeall y rhwystrau a’r heriau o ran lleihau amseroedd aros. Bydd gweithredu

eu hargymhellion yn y Flwyddyn Newydd yn sbarduno gwelliannau i wasanaethau yn 2024-25. Bydd rhanbarthau'n gallu ail-lunio gwasanaethau presennol neu ddatblygu gwasanaethau newydd ar sail yr argymhellion hyn.

Byddwn yn parhau i gefnogi a datblygu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig llwyddiannus a'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ein nodau gwella. Mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wedi sefydlu swydd Swyddog Datblygu Niwrowahaniaeth Cymorth i Deuluoedd yn benodol i ddatblygu adnoddau ychwanegol ar gyfer teuluoedd â phlant niwrowahaniaeth.

Ochr yn ochr â hyn i gyd, byddwn yn gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i weithredu canfyddiadau'r adolygiad o weithrediad y Cod Ymarfer Awtistiaeth i gryfhau'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ymhellach, a sicrhau cydymffurfedd â dyletswyddau. Bydd ail gam y gwerthusiad i sicrhau gwell cydymffurfedd ar lefel ranbarthol, sef ei gam olaf, yn dechrau yn ystod haf 2024.

Iechyd Meddwl

Byddwn yn parhau i glustnodi cyllid iechyd meddwl ar gyfer y GIG ac mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys £800m ar gyfer hyn. Mae'r gyllideb hon yn cefnogi gwasanaethau ar draws yr ystod oedran, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed.

Rydym hefyd yn buddsoddi £2.2m yn flynyddol yng Ngweithrediaeth y GIG i ddatblygu Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl a Rhaglen Diogelwch Cleifion. Bydd hyn yn darparu adnodd penodol i GIG Cymru i sbarduno gwelliannau mewn perfformiad, ansawdd a diogelwch, a bydd yn cynnwys ffocws ar blant a phobl ifanc drwy Rwydwaith Clinigol. Bydd y gwaith hwn yn parhau i gefnogi byrddau iechyd i fodloni safonau amseroedd aros ar sail gynaliadwy ac i leihau amrywiadau drwy fanyleb gwasanaethau CAMHS.

Byddwn yn cyhoeddi ein strategaeth iechyd meddwl ddrafft yn gynnar yn y flwyddyn newydd, ac mae'r amseru'n ein galluogi i gael rhagor o eglurder ynghylch ein cyllidebau ar gyfer 2024-25 ac yn rhoi cyfle i ni fyfyrio ar ymrwymiadau newydd,

ymrwymiadau trawslywodraethol ac aml-sector sy'n sail i'n strategaethau i sicrhau ei bod yn dal yn bosibl eu cyflawni yn yr amgylchiadau ariannol heriol.

Rydym wedi datblygu'r strategaeth gyda'r ddealltwriaeth y bydd angen ffordd o bennu blaenoriaethau, sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau presennol a chyfle i fod yn glir ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni'n realistig. Mae hyn wedi cynnwys ystyried gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ac mae'n cynnwys ffocws ar gefnogi iechyd meddwl amenedigol a'r berthynas rhwng rhieni a babanod. Ochr yn ochr â'r strategaeth gyhoeddedig, bydd cynllun cyflawni wedi'i gostio a fydd yn cael ei adnewyddu dros oes y strategaeth. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ddarparu rhagor o fanylion am y gwaith sydd ei angen i gefnogi'r strategaeth ac i nodi buddsoddiadau newydd pe bai'r sefyllfa economaidd yn newid.

Yn ystod y cyfnod hwn o gyfyngiadau ariannol, rydym wedi gweithio'n galed i gefnogi buddsoddiad parhaus mewn iechyd meddwl, ac rydym yn parhau i flaenoriaethu iechyd meddwl fel maes sydd angen y buddsoddiad hwn, felly nid oes gostyngiad wedi'i wneud i ddyraniadau byrddau iechyd.

Camddefnyddio Sylweddau

Fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein hagenda camddefnyddio sylweddau sy'n werth cyfanswm o £69 miliwn. Mae dros £41 miliwn o hyn yn mynd i'n Byrddau Cynllunio Ardal drwy ein Cronfa Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau.

Drwy'r Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau i Fyrddau Cynllunio Ardal, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £5.25 miliwn o arian wedi'i glustnodi ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn sgil y cynnydd yn y galw am gymorth, **yn 2024-25 bydd y gyllideb hon yn codi £1 miliwn arall i £6.25 miliwn**.

Cyn bo hir, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (disgwylir dechrau 2024). Mae'r Fframwaith yn crynhoi tystiolaeth a'r arferion gorau i arwain y rhai sy'n cefnogi Plant a Phobl Ifanc sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Byddwn hefyd yn cyhoeddi

fersiynau sy’n addas i blant o’r Fframwaith.

Y Gwasanaeth Di-waith

Gan adeiladu ar lwyddiant a gwersi’r Gwasanaeth Di-waith a oedd yn cael ei ariannu gan Ewrop rhwng 2016 a 2022, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Gwasanaeth Di-waith olynol i helpu pobl sy’n adfer ar ôl camddefnyddio sylweddau a/neu salwch meddwl. Prif amcan y gwasanaeth yw helpu cyfranogwyr i gael cyflogaeth (cyfranogwyr 25 oed neu hŷn) neu i mewn i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (cyfranogwyr nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant 16-24 oed). Dechreuodd y gwasanaeth newydd ym mis Hydref 2022 ac mae dros 900 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed wedi cofrestru ac wedi cael cymorth gan y gwasanaeth erbyn mis Medi 2023.

Bydd y gyllideb ar gyfer darparu’r gwasanaeth hyd at fis Mawrth 2025 dros £13 miliwn (£2.64 miliwn yn 2022-23 a £5.4 miliwn yn 2023-24 a 2024-25) a’i nod yw rhoi cymorth i hyd at 10,000 o bobl, gan gynnwys 3,000 o bobl ifanc ledled Cymru.

Bydd y Gwasanaeth Di-waith yn cyflawni nifer o ymrwymiadau strategol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rhoi cymorth i bobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau a/neu iechyd meddwl, nid yn unig drwy driniaeth strwythuredig a gofal iechyd, ond drwy amrywiaeth o fesurau eraill hefyd. Mae hyn wedi’i nodi mewn amrywiaeth o strategaethau allweddol gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach – Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau, a’r Warant i Bobl Ifanc.

Fepio

Ym mis Gorffennaf 2022, fe wnaethom gyhoeddi ein strategaeth Tybaco newydd *Cymru Ddi-fwg*, lle roeddem wedi nodi ein huchelgais i Gymru fod yn ddi-fwg erbyn 2030. Mae’n nodi tair thema y byddwn yn eu defnyddio i lywio ein gweithredoedd. Un o’r rhain yw Cenedlaethau’r Dyfodol. Tuag at Gymru Ddi-fwg 2022-2024 yw’r cynllun cyflawni dwy flynedd cyntaf sy’n nodi ein camau gweithredu a fydd yn cyfrannu at wireddu’r weledigaeth hon. Bydd ein cynlluniau’n helpu pawb yng Nghymru i fyw mewn cymdeithas lle mae bod yn ddi-fwg yw’r norm.

Wrth fwrw ymlaen â'n strategaeth rheoli tybaco, *Cymru Ddi-fwg*, rydym wedi ei gwneud yn glir ein bod yn bwriadu gweithio'n agos gyda'r bobl y mae tybaco yn effeithio arnynt, gan gynnwys pobl ifanc, i ddeall eu cymhellion dros ysmygu neu dros ddefnyddio e-sigarennau, a pha ymyriadau a dulliau cyfathrebu fydd yn gweithio, er enghraifft mewn lleoliadau addysg. Er bod tystiolaeth bod fepio yn llai niweidiol nag ysmygu tybaco ac y gellir ei ddefnyddio fel adnodd rhoi'r gorau i ysmygu, mae ein neges yn glir. Os nad ydych chi'n fepio, peidiwch â dechrau.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei blaenoriaethau polisi newydd ar dybaco a dyfeisiau fepio ym mis Ebrill 2023. Roedd hyn yn cynnwys lansio galwad am dystiolaeth ar fepio ymysg pobl ifanc i nodi cyfleoedd i leihau nifer y plant sy'n cael gafael ar gynnyrch fepio a'u defnyddio – ac archwilio lle gall y llywodraeth fynd ymhellach. Ar 4 Hydref 2023, gwnaeth y Prif Weinidog gyhoeddiad i fynd i'r afael â'r niwed a achosir gan ysmygu ac i leihau'r cynnydd mewn fepio ymysg pobl ifanc. Roedd y cynigion polisi a gyhoeddwyd yn cynnwys newid i'r gyfraith i gynyddu'r oedran gwerthu i sicrhau na fydd plant sy'n troi'n 14 oed neu'n iau eleni byth yn gallu prynu sigarennau yn gyfreithlon. Hefyd, ymgynghori ar fesurau i leihau apêl ac argaeledd fêps i blant er mwyn lleihau'r cynnydd mewn fepio ymysg pobl ifanc.

Cyhoeddwyd y Bil Tybaco a Fêps yn ffurfiol yn Araith y Brenin yn ystod agoriad swyddogol Senedd y DU ar 7 Tachwedd 2023. Daeth yr ymgynghoriad 'Creating a smokefree generation and tackling youth vaping' i ben ar 7 Rhagfyr. Cafwyd dros 25,000 o ymatebion ac mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i'w dadansoddi. Rydym yn disgwyl i'r ymateb i'r ymgynghoriad gael ei gyhoeddi erbyn 18 Ionawr 2024.

<u>Dechrau'n Deg</u>

Dylai pob plentyn a theulu sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg gael eu rhaglen o ymweliadau iechyd a gwasanaethau iechyd eraill a ddarperir gan y rhaglen gan dîm iechyd Dechrau'n Deg.

Mae'r rhaglen iechyd Dechrau'n Deg yn pennu rhaglen uwch o ymyriadau y dylid ei darparu i holl deuluoedd Dechrau'n Deg. Gall teulu sy'n elwa ar wasanaethau iechyd Dechrau'n Deg ddisgwyl cynifer â saith 'cyswllt' ychwanegol gan eu hymwelydd

iechyd. Mae hybu negeseuon allweddol ynghylch iechyd y cyhoedd a ffordd iach o fyw yn rhan allweddol o gymorth iechyd ychwanegol Dechrau'n Deg sy'n cael ei gynnig gan ymwelwyr iechyd a'r gweithlu ehangach.

Iechyd y Cyhoedd

Mae amrywiaeth o strategaethau gwella iechyd sy'n cefnogi iechyd a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys ein Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach a'n Strategaethau Rheoli Tybaco. Mae'r ddau'n cymryd camau penodol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys cefnogi cynlluniau peilot i blant a theuluoedd drwy Pwysau Iach: Cymru Iach, cefnogi'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, a chymryd camau i leihau ysmygu yn ystod beichiogrwydd ac i leihau nifer y bobl ifanc sy'n fepio ac yn ysmygu.

Pwrpas craidd Iechyd Cyhoeddus Cymru yw cefnogi gwell iechyd a llesiant, lleihau anghydraddoldebau iechyd a chynyddu disgwyliad oes iach i bawb yng Nghymru, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys gwaith i gefnogi pobl ifanc, boed hynny drwy gefnogi rhaglenni brechu a mesur plant, neu'r Rhwydwaith Ysgolion Hybu Iechyd. Mae hyn yn rhan o'u dyraniad cyllideb craidd ar gyfer 2024-25.

Brechu

Mae pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn cael brechiadau fel rhan o'r amserlen arferol. Mae cyllid ar gyfer y rhaglen hon yn rhan o ddyraniadau craidd y byrddau iechyd, a byrddau iechyd sy'n gyfrifol am weithredu'r amserlen.

Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. Yn 2021/22, cymerodd 202 (95%) o ysgolion ran yn yr Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr uwchradd, i fyny o 198 yn 2019/20. Cafodd yr arolwg ei lenwi gan gyfanswm o 123,204 o fyfyrwyr ym mlynyddoedd 7 i 11 (cyfradd ymateb o 75%), sef yr ymateb mwyaf i'r arolwg hyd yma.

Yn 2022-23, roedd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion wedi treialu ehangu i ysgolion cynradd, gyda'r Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr cyntaf yn cael

ei gynnal ar gyfer blynyddoedd 3-6, gan adeiladu ar beilot 2021 a oedd yn cynnwys blwyddyn 6 yn unig. Roedd cyfanswm o 354 (29%) o ysgolion wedi cymryd rhan, a llenwodd 32,606 (23%) o fyfyrwyr yr adolygiad.

Mae cyllid dangosol ar gyfer y flwyddyn nesaf o tua £400k o'r Gyllideb Gwella Iechyd wedi cael ei ddyrannu i gefnogi datblygiad parhaus y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion i roi data lefel poblogaeth i ni, er mwyn llywio ein dulliau iechyd y cyhoedd o wella iechyd a llesiant plant a phobl ifanc.

Strategaeth Gordewdra

Ein Strategaeth *Pwysau Iach: Cymru Iach* yw ein strategaeth hirdymor i fynd i'r afael â gordewdra a gorbwysau. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu'r cynllun cyflawni a fydd yn cwmpasu 2024-2026. Bydd cyfanswm o £6.9m i gefnogi'r cynllun yn 2024-25. Yn benodol, rydym yn buddsoddi £2.9m i barhau i ddarparu'r llwybr rheoli pwysau Cymru gyfan. Rydym hefyd wedi dyrannu £600k i Iechyd Cyhoeddus Cymru i barhau i gefnogi Cynlluniau Peilot Plant a Theuluoedd am flwyddyn arall, sy'n cael eu cynnal mewn tair ardal – Caerdydd, Merthyr Tudful ac Ynys Môn. Rhan graidd o'r dull hwn yw gweithredu Ymyriadau yn y Cartref, sy'n ddull atal eilaidd ar gyfer teuluoedd â phlant yn y blynyddoedd cynnar, rhwng 3 a 7 oed, sy'n cyd-fynd â'r cyfnod sylfaen.

Ar ben hynny, mae'r Gronfa Atal a'r Blynyddoedd Cynnar yn gyfanswm o £6.85m ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 ac mae'n cael ei buddsoddi gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi ymyriadau'n benodol ym meysydd polisi gordewdra a thybaco, yn unol â'n strategaethau Pwysau Iach: Cymru Iach a Thybaco.

## 8. Costau byw

**Cais 8**

- **Byrddau Iechyd:** Darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc gan y Byrddau Iechyd yng Nghymru ac effaith costau cynyddol ynni ar y ddarpariaeth hon.
- **Gwasanaethau Cymdeithasol:** Polisi a goruchwyliaeth ar ddarpariaeth holl weithgareddau gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac unrhyw drafodaethau cysylltiedig gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.
- **Tlodi plant:** Manylion pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda Gweinidogion perthnasol eraill ynghylch dyraniadau sy'n cael effaith sylweddol ar iechyd a gofal cymdeithasol plant, er enghraifft y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol o ran cyllideb Comisiynydd Plant Cymru a materion polisi ehangach, fel tlodi plant.

**Ymateb**

<u>Byrddau Iechyd</u>

Yn yr un modd â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, mae'r pwysau ar gostau ynni wedi bod yn her sylweddol i'r GIG yn 2023-24. Bydd y cyllid ychwanegol a roddir i'r GIG eleni yn darparu ar gyfer pwysau costau ynni uwchben y lefelau a gynlluniwyd. Ar gyfer 2024-25, bydd y cyllid ychwanegol hwn yn cael ei ddefnyddio fel llinell sylfaen a'i ychwanegu at brif ddyraniad y GIG.

<u>Gwasanaethau Cymdeithasol</u>

Mae'r rhan fwyaf o gymorth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau plant yn cael ei ddarparu drwy'r setliad refeniw llywodraeth leol heb ei neilltuo, er bod ffrydiau cyllid grant penodol sylweddol hefyd. Roedd cynnydd o 7.9% yn y setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2023-24, ar ôl cynnydd o 9.4% yn y flwyddyn ariannol flaenorol.  Lefel y cymorth ar gyfer 2024-25 yw £5.688bn, cynnydd o 3.1%. Bydd Awdurdodau Lleol wedi gweld cynnydd sylweddol o ran chwyddiant a'r galw ar draws ehangder eu swyddogaethau yn 2023-24, a bydd cyfran sylweddol ohonynt yn cael eu defnyddio fel llinell sylfaen gan eu bod yn ymwneud â chostau staff boed yn fewnol neu drwy wasanaethau a gomisiynir. Mae

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar ran llywodraeth leol, yn darparu ei hasesiad o'r pwysau, y blaenoriaethau a'r cyfleoedd i awdurdodau lleol bob blwyddyn i'w trafod gan yr Is-grŵp Cyllid [Cyfarfod yr Is-grŵp Cyllid: 25 Hydref 2023 | LLYW.CYMRU]. Bydd Awdurdodau Lleol hefyd yn ystyried lefel y dreth gyngor y mae pob un yn dymuno ei gosod ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Bydd Awdurdodau Lleol yn pennu eu cyllidebau eu hunain ar gyfer pob gwasanaeth cyn 10 Mawrth 2024. Mae manylion gwariant awdurdodau lleol fesul gwasanaeth yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol Gwariant refeniw ac alldro cyfalaf awdurdodau lleol: Ebrill 2022 i Fawrth 2023 | LLYW.CYMRU. Y duedd dros y blynyddoedd diwethaf yw bod gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn cael cyfran gynyddol o gyfanswm gwariant refeniw awdurdodau lleol, gyda gwasanaethau cymdeithasol wedi gweld y cynnydd mwyaf mewn gwariant yn 2022-2023. Nid yw ffigurau alldro ar gael ar gyfer 2023-2024 tan haf 2024, ond roedd y cynnydd a gyllidebwyd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer 2023-2024 yn gynnydd o dros 11% ar gyfer gwariant gwasanaethau cymdeithasol (h.y. i £2.653bn).

Tlodi Plant

Mae trafodaethau wedi'u cynnal yn rheolaidd gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol o ran effaith gyfunol gwneud penderfyniadau ar dlodi plant. Ym mis Ionawr, mis Ebrill a mis Tachwedd, cynhaliwyd cyfarfodydd cabinet a oedd yn canolbwyntio ar dlodi plant, gan gynnwys yr angen i ystyried y potensial ar gyfer effeithiau cronnus ar benderfyniadau rhaglenni a chyllidebol.

Ym mis Mai 2023, cynhaliwyd trafodaethau Gweinidogol Dwyochrog yn atgyfnerthu ymrwymiad y Cabinet i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb plant ar draws llywodraeth fel sbardun canolog ar gyfer cyllidebau a datblygu polisi.

Y Gweinidogion Cyfiawnder Cymdeithasol a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg sy'n gyfrifol am gyllidebau ein comisiynwyr statudol.

## 9. Costau deddfwriaeth

**Cais 9**

- Goblygiadau ariannol neu’r rhai a ragwelir yn 2022-23 a 2023-34 ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth sy’n berthnasol i blant a phobl ifanc ym mhortffolio’r Gweinidog.
- Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol gan Senedd y DU.

**Ymateb**

Nid oes is-ddeddfwriaeth yn ymwneud â chostau perthnasol wedi’i nodi.

HSC(6) 33-24 Papur 1

# Tystiolaeth Llywodraeth Cymru i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Cynnwys


**Blaenoriaethu** .... 2

**Cwestiwn 1** .... 2

**Amseroedd aros** .... 6

**Cwestiwn 2** .... 6

**Iechyd meddwl** .... 8

**Cwestiwn 3** .... 8

**Gweithlu** .... 10

**Cwestiwn 4** .... 10

**Cwestiwn 5** .... 12

**Trawsnewid gwasanaethau** .... 14

**Cwestiwn 6** .... 14

**Atal** .... 16

**Cwestiwn 7** .... 16

**Ystadau a seilwaith** .... 19

**Cwestiwn 8** .... 19

**Anghydraddoldebau iechyd** .... 24

**Cwestiwn 9** .... 24

**Cwestiwn 10** .... 26

**Asesu effaith/gwerth am arian** .... 30

**Cwestiwn 11** .... 30

**Perfformiad ariannol byrddau iechyd** .... 35

**Cwestiwn 12** .... 35

**Gofal cymdeithasol** .... 40

**Cwestiwn 13** .... 40

## Blaenoriaethu

**Cwestiwn 1**

Manylion y dull a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu meysydd gwariant – ar draws y gyllideb gyfan ac o fewn iechyd a gofal cymdeithasol, ac i dargedu adnoddau tuag at y rheini sydd â'r angen mwyaf (yng ngoleuni'r pwysau cyllidebol sylweddol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2023).

**Ymateb:**

Ers pennu'r cynlluniau gwariant yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24, rydym wedi gweld lefelau uchel o chwyddiant am gyfnodau nas gwelwyd erioed o'r blaen ynghyd â heriau parhaus yn y cyd-destun cyllidol, yn enwedig mewn meysydd fel cyflogau'r sector cyhoeddus. Ar ben hynny, mae'r argyfwng costau byw wedi cynyddu'r pwysau ar bob gwasanaeth cyhoeddus.

O ganlyniad, yn gyffredinol, rydym yn gorfod gwario mwy na'r hyn a gynlluniwyd yn flaenorol yn 2023-24, ac mae hyn yn rhoi pwysau nas gwelwyd o'r blaen ar Gyllideb ddatganoledig Cymru. Cyhoeddodd y Prif Weinidog ddatganiad ysgrifenedig ar 9 Awst 2023. Ynddo, dywedodd y byddai gwaith yn cael ei wneud dros fisoedd yr haf i fynd i'r afael ag effaith ein cyllideb sy'n werth tua £900m yn llai na phan gafodd ei phennu yn 2021.

Er mwyn delio â'r pwysau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru eleni, yn enwedig y GIG a gwasanaethau rheilffyrdd, gwnaeth Gweinidogion benderfyniadau i ailflaenoriaethu cyllid i'r meysydd gwariant hyn. Rydym wedi cymryd camau darbodus drwy ailedrych ar gynlluniau gwariant ar gyfer 2023-24, er mwyn gallu cydbwyso ein dyletswydd ar gyfer rheolaeth ariannol gadarn ac ymrwymiad y llywodraeth hon i barhau i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus craidd a chyfeirio cymorth at y rheini sydd â'r angen mwyaf.

Fe wnaethom y penderfyniadau anodd hyn cyn gynted ag y gallem yn 2023-24 er mwyn atal penderfyniadau anoddach fyth yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25.

O ran Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, roedd hyn yn golygu dyraniad refeniw ychwanegol o £425m yn ogystal ag ailddyraniad sylweddol

o gyllid o fewn y Prif Grŵp Gwariant er mwyn cefnogi'r GIG. Cafodd y GIG hefyd gyfansymiau rheoli targed ar gyfer eu diffyg disgwyliedig, a'r dasg o gymryd camau i leihau eu gwariant disgwyliedig 10%, tua £64m.

Mae'r her ariannol i'r GIG, sy'n gyffredin i bob rhan o'r DU, yn ymwneud â nifer o ffactorau pwysig:

- yr her o ran rheoli costau uwch ar ôl y pandemig, lle mae gwasanaethau newydd yn bodoli erbyn hyn, a lefelau staffio a chapasiti wedi cynyddu.
- pwysau chwyddiant ar draws pob maes, sydd y tu hwnt i reolaeth y bwrdd iechyd – er enghraifft, chwyddiant cyflogau a chwyddiant nad yw'n ymwneud â chyflogau, gan gynnwys costau meddyginiaethau a chostau cynyddol pecynnau gofal.
- y galw cynyddol ar wasanaethau.

Ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024-25, cafodd y gyllideb yn ystod y flwyddyn 2023-24 ei hailadrodd, gan gynyddu'r refeniw ddangosol £207m ac aildrefnu cyllideb Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Drwy broses y gyllideb, dyrannwyd £450m arall i'r Prif Grŵp Gwariant, gan gydnabod y bydd y GIG yn parhau i wynebu pwysau sylweddol o ran chwyddiant a'r galw yn 2024-25. Hyd yn oed gyda'r dyraniad sylweddol hwn o gyllid ychwanegol i helpu gyda'r pwysau o ran chwyddiant a'r galw, ynghyd â'r camau gweithredu i leihau costau a ragwelir, bydd hyn yn dal i olygu y bydd angen sicrhau arbedion ar lefelau 2023-24. Felly, bydd angen gwneud rhagor o ddewisiadau anodd yn ystod y flwyddyn a'r flwyddyn nesaf er mwyn i Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r GIG reoli o fewn y cyllidebau a nodir.

Mae Grant Cynnal Refeniw llywodraeth leol yn darparu cyllid craidd i awdurdodau lleol drwy'r setliad llywodraeth leol.

Mae awdurdodau lleol yn darparu amrediad eang o wasanaethau cyhoeddus, yn aml i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas neu'r rhai sydd dan anfantais economaidd. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau sylweddol i blant, drwy addysg a gwasanaethau cymdeithasol, ac amrediad eang o wasanaethau i oedolion a allai

fod yn wynebu heriau yn eu bywydau bob dydd, drwy wasanaethau cymdeithasol, cymorth tai a gwasanaethau cymunedol eraill. Caiff chwe deg chwech y cant o adnoddau awdurdodau lleol eu cyfeirio at addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

Gan gydnabod yr angen i ddiogelu'r gwasanaethau pwysig hyn a ddarperir gan awdurdodau lleol, ni effeithiwyd ar lefel y cyllid drwy'r Grant Cynnal Refeniw ac fe arhosodd ar y lefel a nodwyd yn y cynlluniau gwariant gwreiddiol yn 2023-24.

Mae rhagor o wybodaeth am y penderfyniadau a wnaed yn 2023-24 ar gael yn y ddogfen Asesiad Effaith Integredig Strategol.

Wrth ail-lunio'r gyllideb ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024-25, rydym wedi ailflaenoriaethu'r gyllideb o bob rhan o'r Prif Grŵp Gwariant i gefnogi gwasanaethau rheng flaen yn y GIG (yn Llinell Wariant yn y Gyllideb 20). Byddwn yn rhoi dyraniad diwygiedig i'r GIG sy'n ymgorffori'r newidiadau ar gyfer 2023-24 ac yn dyrannu cynnydd newydd ar gyfer 2024-25 i gydnabod y pwysau anochel o ganlyniad i chwyddiant a'r galw.

Rydym yn gallu cynnal y £170m o gyllid a ddyrannwyd gennym i gefnogi'r gwaith o adfer gofal wedi'i gynllunio, a bydd hyn yn digwydd eto ar gyfer 2024-25 ac wedi'i glustnodi'n llawn o fewn y prif ddyraniad i'r GIG.

Fel rhan o'r gwaith o aildrefnu ein cyllideb, nid oeddem yn gallu cynnal y cynnydd a gynigiwyd yn y gyllideb ar gyfer 2024-25 ar gyfer Iechyd Meddwl, Gofal Cymdeithasol, a Phlant a Blynyddoedd Cynnar. Mae rhagor o wybodaeth am y penderfyniadau hyn ar gael yn nes ymlaen yn yr ymateb hwn.

Rydym wedi adolygu'r buddsoddiad parhaus mewn meysydd ymateb i Covid ac wedi gallu lleihau'r cyllid hwnnw yn unol â'r rhagolygon gwariant presennol ac ailgyfeirio'r cyllid hwnnw at gostau rheng flaen y GIG. Rydym hefyd yn bwriadu defnyddio'r dyraniad hwn fel llinell sylfaen ym mhrif ddyraniad y GIG ar sail reolaidd, gan roi sicrwydd i sefydliadau'r GIG gynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion eu poblogaeth mewn meysydd fel brechu.

Rydym wedi adolygu'r cyllid yn ofalus i gefnogi cynllun comisiynu Addysg a Hyfforddiant y GIG ar gyfer 2024-25, a byddwn yn cynnal y lefel gyllido ar y lefel a osodwyd yn 2023-24. Bydd hyn yn cynnal ein buddsoddiad mwyaf erioed mewn hyfforddiant i'r gweithlu ar gyfer y GIG. Byddwn hefyd yn parhau i gynnal ein hymrwymiad i sefydlu ysgol feddygol newydd yn y Gogledd yn ogystal â'r ymrwymiadau o dan y cytundeb cydweithio gyda Phlaid Cymru ar gyfer model noddfa ym maes iechyd meddwl, ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ar gyfer pob plentyn 2 oed ledled Cymru, a dileu elw preifat o'r sector gofal plant sy'n derbyn gofal.

Yn ein cyllideb ar gyfer 2024-25 hefyd mae cynnydd o £20m mewn cyllid nad yw'n arian parod, ar gyfer eitemau fel costau dibrisiant.

Mae cyllideb cyfalaf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024-25 yn dal yn £399m yn unol â'r sefyllfa ddangosol a gyhoeddwyd y llynedd. Mae hyn yn cynnwys cynnydd mewn cyllid ar gyfer Cronfa Cyfalaf Gofal Cymdeithasol ar gyfer 2024-25.

Mae'r cynnydd yn y gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn ymwneud â'r asesiad diweddaraf o'r gyllideb sydd ei hangen ar gyfer pethau fel symudiadau disgwyliedig mewn amhariadau a darpariaethau, yn bennaf yn y GIG.

Mae'n werth nodi bod tabl y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25 yn cynnwys nifer cymharol uchel o symudiadau cyllideb yn y Prif Grŵp Gwariant. Nid yw'r rhain yn rhan o'r ymarfer ailflaenoriaethu cyllideb, ac maent yn adlewyrchu'r broses o gynnal ein cyllidebau a sicrhau bod cyllid yn y lle cywir.

## <u>Amseroedd aros</u>

### Cwestiwn 2

Dyraniadau i adennill yr ôl-groniad o ran amseroedd aros a darparu triniaethau a gafodd eu hoedi gan y pandemig.

**Ymateb:**

Rydym yn parhau i gefnogi'r buddsoddiad ychwanegol blynyddol o £170m i GIG Cymru i gefnogi'r ymrwymiad cenedlaethol i leihau oedi mewn triniaethau.

Ers cyhoeddi'r Cynllun Adfer ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd ym mis Ebrill 2022, a'r buddsoddiad ychwanegol wedi cael ei ddarparu, rydym wedi gweld gostyngiadau misol olynol yn nifer y llwybrau agored sy'n aros dros 104 wythnos.

- Roedd cyfanswm nifer y llwybrau agored a oedd yn aros dros 104 wythnos yn 26,439 ddiwedd mis Medi, i lawr 18 mis yn olynol a'r isaf ers mis Awst 2021. Roedd hyn 62.5% yn is na'r nifer uchel ym mis Mawrth 2022.

- Ddiwedd mis Medi 2023, roedd 17 arbenigedd gyda llwybrau agored dros 104 wythnos; ers mis Medi 2022, mae'r amseroedd aros hir wedi'u clirio ar gyfer 13 arbenigedd ychwanegol.

Yn 2023-24, fe wnaethom gadw £50m o'r dyraniad blynyddol (£170m) i gyflawni mewn ffordd fwy rhanbarthol. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod ardaloedd yn cael eu targedu ar gyfer modelau darparu mwy hirdymor o ran gweithio rhanbarthol.

- Ar gyfer De-orllewin Cymru – roedd y dyraniad yn targedu orthopaedeg ranbarthol gyda datblygiadau yng Nghastell-nedd Port Talbot lle mae llawer o driniaethau aciwtedd isel ar lefel ranbarthol. Mae buddsoddiad wedi cael ei dargedu hefyd at ddiagnosteg, yn enwedig cynlluniau endosgopi. Mae gweithio rhanbarthol hefyd mewn offthalmoleg ar draws y ddau fwrdd iechyd i ddarparu llawdriniaeth cataract fwy effeithlon.
- Ar gyfer De-ddwyrain Cymru – mae'r dyraniad yn targedu offthalmoleg ranbarthol, a diagnosteg, i gefnogi datblygiad Llantrisant yn y dyfodol.

- Gogledd Cymru - targedu orthopaedeg ranbarthol, a chapasiti ychwanegol i reoli lle mae bregusrwydd.

Mae'r dyraniad hwn wedi cael ei roi ar sail reolaidd sydd wedi'i neilltuo o fewn dyraniad y GIG, ac mae hyn yn golygu bod y £170m llawn yn cael ei ddyrannu i Fyrddau Iechyd ar sail reolaidd wedi'i neilltuo.

**<u>Iechyd meddwl</u>**

**Cwestiwn 3**

Dadansoddiad o ddyraniadau i wella iechyd meddwl a llesiant yng Nghymru, gan gynnwys dyraniadau at y dibenion a ganlyn:

- cefnogi gweithredu strategaeth iechyd meddwl newydd Llywodraeth Cymru;
- gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chanlyniadau i oedolion a phlant a phobl ifanc;
- gweithredu argymhellion y Pwyllgor ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl.

**Ymateb:**

Byddwn yn parhau i glustnodi cyllid iechyd meddwl ar gyfer y GIG ac mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys £800m ar gyfer hyn. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o £25m ar gyfer pwysau o ran chwyddiant a'r galw ar gyfer 2024-25.

Rydym hefyd yn buddsoddi £2.2m yn flynyddol yng Ngweithrediaeth y GIG i ddatblygu Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl a Rhaglen Diogelwch Cleifion. Bydd hyn yn darparu adnodd pwrpasol i GIG Cymru i sbarduno gwelliannau mewn perfformiad, ansawdd a diogelwch.

Byddwn yn cyhoeddi ein strategaeth ddrafft ar gyfer iechyd meddwl yn gynnar yn y flwyddyn newydd, a bydd amseriad hyn yn ein galluogi i gael mwy o eglurder ynghylch ein cyllidebau ar gyfer 2024-25. Mae'r oedi byr hwn yn rhoi cyfle i ni feddwl am ymrwymiadau newydd, ymrwymiadau ar draws y llywodraeth ac mewn nifer o sectorau sy'n sail i'n strategaethau i sicrhau bod modd eu cyflawni o hyd yn yr amgylchiadau ariannol heriol.

Mae'r strategaeth ddrafft yn seiliedig ar nifer o egwyddorion sy'n cynnwys mynediad teg, profiad a chanlyniadau, a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac mae wedi

cael ei llywio gan argymhellion y Pwyllgor.

Rydym wedi datblygu'r strategaeth gyda'r ddealltwriaeth y bydd angen ffordd o bennu blaenoriaethau, sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau presennol, a chyfle i fod yn glir ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni'n realistig. Mae hyn wedi cynnwys ystyried gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ac argymhellion y Pwyllgor ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn iechyd meddwl. Bydd ein diweddariad blynyddol cyntaf yn erbyn adroddiad y pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Ionawr.

Ochr yn ochr â'r strategaeth a gyhoeddir, bydd cynllun cyflawni wedi'i gostio a fydd yn cael ei adnewyddu dros oes y strategaeth. Bydd hyn yn rhoi cyfle i nodi buddsoddiadau newydd pe bai'r sefyllfa economaidd yn newid.

Yn ystod y cyfnod hwn o gyfyngiadau ariannol, rydym wedi gweithio'n galed i gefnogi buddsoddiad parhaus mewn iechyd meddwl, ac rydym yn parhau i flaenoriaethu iechyd meddwl fel maes sydd angen y buddsoddiad hwn

## <u>Gweithlu</u>

**Cwestiwn 4**

Dyraniadau i gefnogi gweithredu'r strategaeth 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, a chynllun gweithredu cenedlaethol y gweithlu, gan gynnwys cyfeiriad penodol at gadw staff, a gwella llesiant staff.

**Ymateb:**

Er gwaethaf yr hinsawdd ariannol anodd, rydym yn parhau i fuddsoddi yng nghynaliadwyedd gweithlu'r GIG. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi yn y gweithlu sydd ei angen i gefnogi ein system iechyd yng Nghymru, a bydd yn parhau i wneud hynny. Buddsoddwyd £281.98 miliwn yn 2023-24 a byddwn yn cynnal y lefel hon ar gyfer 2024-25. Bydd hyn yn cefnogi rhaglenni addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru.

Mae hyn yn parhau i fod y lefel uchaf erioed o gyllid, a bydd yn helpu i gynnig y nifer uchaf erioed o gyfleoedd hyfforddi yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi

ymrwymo i ddarparu'r gweithlu sydd ei angen ar y GIG i ateb y galw cynyddol. Rydym yn cyflawni hyn drwy gynyddu nifer y lleoedd hyfforddi, gan annog pobl ifanc i ddilyn proffesiynau iechyd, a recriwtio y tu allan i Gymru pan fo angen.

Er gwaethaf yr hinsawdd ariannol anodd, rydym wedi parhau i fuddsoddi i sicrhau bod ein gweithlu yn y GIG yn gynaliadwy.

Rydym yn darparu cyllid craidd i Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), ein corff gweithlu statudol, i gyflawni blaenoriaethau allweddol fel gwella ffyrdd o gadw staff a chymryd camau cadarnhaol i wella lles staff. Er enghraifft, eleni mae AaGIC wedi rhoi'r Cynllun Cadw Nyrsys ar waith a fersiwn gyntaf yr arolwg staff blynyddol newydd. Bydd canlyniadau'r arolwg yn ein galluogi i gael asesiad cyffredinol o'r meysydd y mae angen eu gwella ac, yn y pen draw, darparu'r broses dysgu angenrheidiol i wella iechyd a lles staff.

Mae AaGIC hefyd yn defnyddio ei gyllid craidd i barhau i gyflawni'r Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r camau gweithredu sydd wedi'u neilltuo iddo yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu.

## Gofal sylfaenol

### Cwestiwn 5

Sut bydd y gyllideb yn cefnogi'r broses o gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwygio gofal sylfaenol, a symud mwy o ofal o ysbytai i leoliadau gofal sylfaenol/cymunedol.

**Ymateb:**

Nid yw'r rhan fwyaf o'r cyllid a ddyrennir i fyrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau iechyd wedi'i neilltuo. Felly, nid yw'n ymarferol nac yn fuddiol defnyddio cyllidebau craidd yn unigol fel ffordd o fesur y newid o ofal o ysbytai i ofal yn y gymuned ac atal yn unol â'r weledigaeth yn *Cymru Iachach*. Serch hynny, disgwylir i'r cyllid ac adnoddau'r gweithlu sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau sy'n symud i'r gymuned, ddilyn y gwasanaeth.

Yn ogystal â'r cyllid craidd sylweddol sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o gyllidebau byrddau iechyd, mae cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn 2024-25 yn cynnwys y cyllid canlynol ar gyfer meithrin gallu cymunedol a modelau darparu gwasanaethau mwy ataliol ac integredig, gan wneud defnydd effeithiol o'r adnoddau, y sgiliau a'r dechnoleg ddigidol sydd ar gael:

- £20m – i glystyrau benderfynu sut i fuddsoddi er mwyn cyflawni blaenoriaethau lleol;
- £146.7m – Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i ddatblygu gallu cymunedol;
- £11.95m – rhag-gynlluniau gofal ar gyfer y bobl sydd fwyaf mewn perygl o fod angen gofal brys a mwy o nyrsys cymunedol ar benwythnosau;
- £5m – mwy o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn y gymuned.
- Buddsoddi dros £55m hyd yma, i ddatblygu hybiau cymunedol iechyd a gofal integredig drwy'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF).

Y prif fecanwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i arwain byrddau iechyd a'u partneriaid wrth ddefnyddio eu dyraniadau cyllid yw Fframwaith Cynllunio blynyddol y GIG, sy'n gosod blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae blaenoriaethau cynllunio ar gyfer 2024-25 yn cynnwys meithrin gallu ac integreiddio gofal yn y gymuned i wella mynediad at ofal wedi'i gydlynu gan y gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol mwyaf addas sy'n agos at y cartref.

Rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr yn y GIG i ddiwygio'r contractau cenedlaethol ar gyfer y pedwar gwasanaeth gofal sylfaenol i ddiwallu'r rhan fwyaf o anghenion iechyd a gofal pobl fel rhan o system iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn y gymuned, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

**<u>Trawsnewid gwasanaethau</u>**

**Cwestiwn 6**

Sut bydd y gyllideb hon yn cydbwyso'r angen i ddiwallu pwysau uniongyrchol/tymor byr (er enghraifft, yr ôl-groniad o ran amseroedd aros, prinder gweithlu) gyda thrawsnewid gwasanaethau yn y tymor hwy.

**Ymateb:**

Wrth ddatblygu'r dull cyllidebol ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024-25, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i gydbwyso'r angen i gydnabod y pwysau na ellir ei osgoi o ran chwyddiant a'r galw, cyflawni gwelliannau mewn blaenoriaethau tymor byr, a pharhau i gefnogi camau i drawsnewid gwasanaethau yn y tymor hwy.

I ddangos hyn, o safbwynt gofal a gynlluniwyd, mae cyllideb gwerth £15m i drawsnewid gofal a gynlluniwyd ar gael i gefnogi prosiectau trawsnewid lleol a chenedlaethol.

Defnyddir £2 filiwn o'r gyllideb i staffio'r Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd ac arweinwyr clinigol, sy'n gyfrifol am ddatblygu'r prosiectau trawsnewid a'u rhoi ar waith yn sefydliadau'r GIG, gan adlewyrchu polisi a chanllawiau cenedlaethol.

Mae'r cyllid ar gyfer 2024-25 wedi'i rannu'n fras yn bedwar maes:

1. Cymorth canolog i drawsnewid darpariaeth cleifion allanol – wedi'i ddylunio i ddatblygu gallu yn y timau cleifion allanol i sbarduno trawsnewidiad, gan gynnwys cymorth i ddefnyddio ffyrdd newydd o weithio.
2. Prosiectau trawsnewid darpariaeth cleifion allanol – cefnogi'r gwaith o weithredu dulliau a mentrau arloesol sy'n cyfrannu at gamau trawsnewid cynaliadwy, fel dewis amgen yn lle apwyntiadau dilynol i gleifion allanol drwy 'sylw yn ôl symptomau', apwyntiadau dilynol ar gais y claf, ac edrych ar lwybrau profi'n syth.
3. Adfer Gofal Llygaid – cefnogi'r gwaith o weithredu camau adfer a dulliau a mentrau arloesol sy'n benodol ar gyfer gofal llygaid, gan gysylltu ag optometreg gofal sylfaenol i gefnogi trefniadau'r contract newydd.
4. Mae'r rhaglenni cenedlaethol yn cynnwys gweithredu'r rhaglen hunanreoli â chymorth ar gyfer canser y prostad, y rhaglen teledermosgopeg (dermatoleg), cyngor ac arweiniad arbenigol, arweinwyr clinigol a thîm y rhaglen rhwydwaith orthopedig.

Un elfen newydd yn 2023-24 oedd cyflwyno cynghrair y Llwybr Gofal Iechyd ar gyfer atgyfeiriadau rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd, ac adolygiad mwy penodol o arferion gorau drwy adolygiadau 'Ei Gael yn Iawn y Tro Cyntaf' (GIRFT) mewn wroleg, gynaecoleg ac offthalmoleg. Mae orthopedeg wedi cael ei gynnal yn 2022-23.

Mae GIRFT hefyd yn cefnogi'r rhaglen optimeiddio genedlaethol ar gyfer theatrau, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mae'r cyllid trawsnewid hwn yn ychwanegol at y £170m o gyllid wedi'i neilltuo ar gyfer gofal a gynlluniwyd, sy'n canolbwyntio ar sicrhau gwelliant parhaus mewn perfformiad gofal a gynlluniwyd a lleihau amseroedd aros hir am driniaeth.

**<u>Atal</u>**

**Cwestiwn 7**

A yw'r gyllideb yn dangos mwy o ffocws ar atal hynny yw, drwy ddangos yn glir bod adnoddau yn cael eu symud er mwyn atal/ymyrryd yn gynnar. (Er enghraifft, mae Cydffederasiwn GIG Cymru yn dweud nad yw'r GIG yn gynaliadwy heb y symudiad dan sylw)

**Ymateb:**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar wreiddio newid tuag at atal ac ymyrryd yn gynnar, fel yr amlinellir yn *Cymru Iachach*.

Mae'n dal yn wir bod atal yn hanfodol i amrywiaeth eang o weithgarwch ar draws iechyd a gofal cymdeithasol a GIG Cymru, gan gefnogi pobl yng Nghymru i fyw bywydau hirach ac iachach.

Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw'r rhan fwyaf o'r cyllid a ddyrennir i fyrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau iechyd wedi'i neilltuo. Felly, nid yw'n ymarferol nac yn fuddiol defnyddio cyllidebau craidd yn unigol fel ffordd o fesur y newid tuag at atal ac ymyrryd yn gynnar.

Serch hynny, gallwn dynnu sylw at ffrydiau ariannu penodol sydd wedi'u hanelu at atal, gan gynnwys cyllid drwy ein strategaeth *Pwysau Iach: Cymru Iach*, ein cyllid Atal a Blynyddoedd Cynnar yn ogystal â gweithgarwch sydd o natur ataliol, fel brechu a sgrinio. Mae'r ymatebion i Gwestiwn 5 uchod yn dangos y buddsoddiad mewn gofal sylfaenol, sydd hefyd yn dangos y newid i ymyrryd yn gynnar.

Rydym wedi cynnal y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol werthfawr sy'n werth £146.7m sy'n helpu'r sector iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu modelau gofal integredig a fydd yn helpu pobl i ofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain, byw'n dda gartref, atal yr angen i gael eu cludo neu fynd i'r ysbyty a'u helpu i ddychwelyd adref yn gyflym os oes angen gofal eilaidd arnynt.

Mae'r Fframwaith Cynllunio a gyhoeddwyd i Fyrddau Iechyd ym mis Rhagfyr 2023 yn ailadrodd yr angen am ffocws o'r newydd ar atal, a cheir camau gweithredu penodol yn amcanion cadeiryddion byrddau iechyd sy'n edrych ar ysmygu yn ystod beichiogrwydd ac ar gynyddu capasiti gwasanaethau rheoli pwysau ledled Cymru. Mae'r fframwaith cynllunio hefyd yn amlinellu ein dymuniad i weld mwy o gyllid yn cael ei symud i ofal sylfaenol a chymunedol.

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael cyllid o dros £150m yn 2024-25. Oherwydd natur y rhan fwyaf o'r gwaith a wneir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae'r buddsoddiad hwn yn canolbwyntio ar atal, boed hynny drwy raglenni sgrinio neu ein gwaith i annog newid mewn ymddygiad iach yn y boblogaeth, drwy weithgarwch fel parhau i gefnogi pobl i fod o bwysau iach neu i roi'r gorau i ysmygu.

Mae cyflawni'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol yn elfen allweddol o'n gwaith atal i ddiogelu ein poblogaeth. Mae cyllid ar gyfer brechu o dan yr ymateb cenedlaethol i Covid wedi cael ei nodi fel llinell sylfaen ar ffurf dyraniad dewisol rheolaidd i fyrddau iechyd. Bydd hyn yn darparu dull mwy cynaliadwy o gyflawni ein rhaglenni gwanwyn a gaeaf ochr yn ochr â datblygiadau brechu pwysig eraill yn ystod 2024.

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein strategaeth *Pwysau Iach: Cymru Iach* i fynd i'r afael â gorbwysau a gordewdra, gyda £2.9m yn cael ei ddyrannu i gefnogi byrddau iechyd i barhau i ddatblygu a chyflwyno eu llwybrau rheoli pwysau. Dyrannwyd £4.042m i gefnogi gweithgareddau eraill, fel ein cynlluniau peilot a'n systemau Plant

a Theuluoedd sy’n gweithio ar draws holl ardaloedd byrddau iechyd.

Byddwn yn cyhoeddi ein strategaeth ddrafft ar gyfer iechyd meddwl yn gynnar yn y flwyddyn newydd, a bydd amseriad hyn yn ein galluogi i gael mwy o eglurder ynghylch ein cyllidebau ar gyfer 2024-25. Mae’r strategaeth newydd yn cynnwys cymryd camau i ddiogelu a hyrwyddo lles meddyliol pobl. Bydd hyn yn helpu i amddiffyn rhag cyflyrau iechyd meddwl ac yn helpu pobl i ymdopi’n well pan fyddant yn cael symptomau neu’n cael diagnosis.

Fe wnaethom lansio ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol (NFfSP) yn ein digwyddiad ar-lein ar 7 Rhagfyr 2023.

Un o egwyddorion presgripsiynu cymdeithasol yw defnyddio dull ataliol cynnar i wella iechyd a lles pobl, gyda thystiolaeth yn dangos y gallai helpu i ysgafnhau’r baich ar wasanaethau sydd fwy rheng flaen ac arbenigol.

Nod y fframwaith yw datblygu cyd-ddealltwriaeth o’r iaith a ddefnyddir a’r dull a ddefnyddir o ran presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru; cefnogi ymarferwyr presgripsiynu cymdeithasol a gwella sgiliau; nodi’r canlyniadau a ddisgwylir o safbwynt defnyddiwr, sefydliad, comisiynydd ac atgyfeiriwr; a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth gan asedau cymunedol. Bydd hefyd yn monitro ac yn gwerthuso datblygiad presgripsiynu cymdeithasol wrth iddo barhau i dyfu ledled Cymru.

**<u>Ystadau a seilwaith</u>**

**Cwestiwn 8**

Dyraniadau cyfalaf a refeniw i ddatblygu, gwella a chynnal ystadau a seilwaith y GIG, gan gynnwys seilwaith digidol.

**Ymateb:**

Rydym yn parhau i fuddsoddi symiau sylweddol yn ystad y GIG ledled Cymru. Er bod heriau amlwg i'r ystad o ganlyniad i stoc adeiladau sy'n heneiddio, mae sefydliadau'r GIG wrthi'n datblygu asesiad o geisiadau am gyllid â blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

Er mwyn cynnal yr ystad bresennol, mae dal angen buddsoddiad sylweddol ac mae £83m ar gael i sefydliadau'r GIG fel cyfalaf dewisol i gefnogi'r gwaith o redeg yr adeiladau o ddydd i ddydd. Yn ogystal â chefnogi'r gwaith o ddarparu ystad ddiogel sy'n cydymffurfio, mae £20m wedi cael ei ddarparu i gefnogi buddsoddiad wedi'i flaenoriaethu ar draws y canlynol:

- Seilwaith prif safle
- Tân
- Datgarboneiddio

Y buddsoddiadau mwyaf sy'n cael eu cefnogi yn 2024-25 o hyd yw adnewyddu Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful (cynllun gwerth £220m) a fydd yn golygu bod y safle'n cael ei drawsnewid yn y dyfodol gyda'r gwaith i fod i gael ei gwblhau yn 2026.

Yn 2024-25 bydd datblygiad y ganolfan orthopedig yn Ysbyty Llandudno yn cael ei gwblhau. Bydd hyn yn darparu manteision i gleifion, staff a chymuned ehangach gogledd Cymru drwy ddarparu 1,900 o driniaethau sydd wedi'u cynllunio bob blwyddyn. Disgwylir i'r gwaith ddechrau ym mis Chwefror 2024 gyda'r gobaith y bydd y ganolfan yn gweithredu'n llawn ddechrau 2025.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r Uned Radiotherapi Lloeren yn ysbyty Nevill Hall yn mynd rhagddo'n gyflym – a disgwylir i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau ddechrau 2025. Bydd y datblygiad sylweddol hwn yn golygu y bydd gwasanaethau oncoleg yn nes o lawer at drigolion dwyrain Cymru.

Mae presenoldeb Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) yn gofyn am fuddsoddiad parhaus ar draws dau brif safle yn GIG Cymru – Llwynhelyg a Nevill Hall. Mae'r gwaith hwn nad oedd wedi'i gynllunio, yn ei hanfod, yn dangos rhai o'r

heriau sy’n gysylltiedig â delio â’r ystad sy’n heneiddio.

Digidol, technoleg ac arloesi

Mae’r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol (DPIF) yn cael ei defnyddio i ariannu cyfleoedd trawsnewid digidol strategol yn GIG Cymru, a’i bwriad yw cefnogi’r dasg o gyflawni blaenoriaethau GIG Cymru ar gyfer newid gwasanaethau drwy gyflymu’r gwaith o gyflawni gwelliannau ym maes gwybodeg. Wrth gyflawni hyn, mae angen i’r gwaith gyd-fynd ag un o bum thema:

- Trawsnewid gwasanaethau digidol i gleifion a’r cyhoedd
- Trawsnewid gwasanaethau digidol i weithwyr proffesiynol
- Buddsoddi mewn data a gwybodaeth ddeallus
- Moderneiddio dyfeisiau a symud i wasanaethau cwmwl
- Seiberddiogelwch a seibergadernid

Mae’r themâu hyn yn cyd-fynd â’r prif genadaethau a nodir yn y Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Mae’r Strategaeth yn adeiladu ar y cyfeiriad strategol a nodir yn ein strategaeth yn 2015 sydd wedi bod yn un o brif alluogwyr *Cymru Iachach.*

Fel enghraifft o waith yn 2023, mae Llywodraeth Cymru, gyda phartneriaid allweddol yn GIG Cymru, wedi:

- Lansio Ap GIG Cymru, sydd wedi cael ei gyflwyno i dros 200 o feddygfeydd o ddiwedd mis Tachwedd gyda’r bwriad o’i gyflwyno’n llawn erbyn diwedd mis Mawrth 2024.
- Ariannu ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno gwasanaeth presgripsiynu electronig cydgysylltiedig ledled Cymru sy’n mynd ar draws lleoliadau iechyd. Lansio’r Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig, wedi’i integreiddio rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd, gan arbed amser sylweddol i bresgripsiynwyr mewn treialon sylfaenol ac eilaidd.
- Parhau i ddarparu Uned Seibergadernid GIG Cymru fel rhan o Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
- Ariannu Rhaglen Seilwaith Cymru (sy’n canolbwyntio ar ddarparu un ateb i reoli manylion adnabod ar draws holl sefydliadau GIG Cymru).
- Ariannu buddsoddiad cyfalaf gwerth £6m mewn seilwaith a dyfeisiau

seiberddiogelwch ar draws ystad GIG Cymru.

- Lansio Cofnod Gofal Nyrsio Cymru ar gyfer pob ward cleifion mewnol i oedolion ledled Cymru, a disgwylir i hyn gael ei gyflwyno mewn wardiau pediatrig yn 2024-25.
- Parhau i ddarparu'r Adnodd Data Cenedlaethol a ddaeth i rym ar 1 Awst 2023. Ei nod yw ei gwneud yn haws i gyfuno data Iechyd a Gofal Cymdeithasol o wahanol ffynonellau. Bydd hyn yn gwella'r gallu i rannu, cysylltu a defnyddio data. Mae'r ffrydiau data cyntaf wrthi'n cael eu creu i gefnogi'r cofnod meddyginiaethau a rennir erbyn diwedd mis Mawrth 2024, a bydd y gwaith o gyflawni amrywiaeth o eitemau seilwaith a chymorth data yn parhau yn 2024-25.

Mae cronfa DPIF wedi cael ei hail-flaenoriaethu i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau digidol trawsnewidiol sy'n hanfodol. Cyllideb DPIF ar gyfer 2024-25 yw £20m ar gyfer Cyfalaf a £43m ar gyfer Refeniw. Bydd y cyllid hwn yn arwain at fuddsoddiad parhaus mewn amrywiaeth o welliannau data a seilwaith digidol. Mae hyn yn cynnwys parhau i safoni System Gweinyddu Cleifion Cymru, parhau i gyflwyno gwasanaeth Cofnod Gofal Nyrsio Cymru mewn lleoliadau pediatrig, Unedau Gofal Dwys digidol mewn lleoliadau gofal critigol, digideiddio'r broses atgyfeirio ar gyfer gofal llygaid, cyllid ar gyfer y rhaglen Strategol Genedlaethol ar gyfer Gofal a Alluogir gan Dechnoleg, ac edrych ar sut gellir darparu gofal yn nes at adref.

Bydd DPIF yn parhau i ddatblygu Ap GIG Cymru, gan symud i wasanaeth datblygu parhaus ar ôl cyflwyno'r ap ym mis Mawrth 2024. Bydd hefyd yn datblygu'r gwaith o gaffael a gweithredu system Mamolaeth Ddigidol ar gyfer Cymru yn ogystal â chyllid i barhau i weithredu a mabwysiadu'r Adnodd Data Cenedlaethol.

Yn 2024-25 bydd DPIF yn parhau i ariannu cyfanswm o £16m o gyfalaf a £1.7m o refeniw ar gyfer y broses hanfodol o ddisodli'r System Wybodaeth Radioleg, a'r System Rheoli Gwybodaeth Labordy, yn ddi-oed gyda gwasanaeth modern.

Bydd DPIF hefyd yn parhau i ariannu ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno gwasanaeth presgripsiynu electronig cydgysylltiedig ledled Cymru sy'n mynd ar draws lleoliadau iechyd. £5 miliwn o gyllid cyfalaf a £17m o gyllid refeniw ar draws

ffrydiau cyllido Meddyginiaethau Digidol gan gynnwys y Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig mewn gofal sylfaenol, Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig (ePMA) mewn gofal eilaidd ar draws y saith bwrdd iechyd ynghyd â Felindre, cyflwyno'r Cofnod Meddyginiaethau a Rennir, a gwaith atodol ychwanegol.

Mae cyllid ychwanegol wedi cael ei ddyrannu'n ganolog ar gyfer rhaglenni a mentrau digidol, y gellid eu defnyddio i gefnogi *Cymru Iachach* a rhaglenni adfer.

Mae llywodraethu cenedlaethol mwy cadarn ar waith erbyn hyn, a bydd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod y ffrydiau ariannu amrywiol hyn a DPIF yn cael eu defnyddio i sicrhau bod buddsoddiadau yn cael eu cysoni a'u cydlynu i gyflawni ac i sicrhau'r elw gorau posibl ar fuddsoddiadau.

Fel rhan o'r gwaith o ailflaenoriaethu cyllid ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, rydym wedi lleihau ein cyfraniad i'r gwaith ar Gynhwysiant Digidol, drwy raglen Cymunedau Digidol Cymru, ym Mhrif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol. Ers 2019, mae'r Prif Grwpiau Gwariant ar Gyfiawnder Cymdeithasol ac Iechyd wedi buddsoddi £9.5m mewn gwasanaethau cynhwysiant digidol drwy raglen Cymunedau Digidol Cymru. Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau digidol yn dal yn ymrwymiad allweddol ac felly mae'r gyllideb wedi'i diogelu cyn belled ag y bo modd. Bydd y buddsoddiad parhaus yn canolbwyntio ar gynnal rhaglen Cymunedau Digidol Cymru gan gydnabod y bydd y gostyngiad yn y gyllideb yn effeithio ar weithgareddau, allbynnau a chanlyniadau yn gyffredinol. Bydd y tîm hefyd yn ceisio cysylltu a gweithio gyda sefydliadau eraill sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant digidol a pharhau i nodi rhwystrau i gynhwysiant digidol drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Ar wahân, bydd cyllideb ddiwygiedig y Rhaglen Arloesi a Thechnoleg (ITP) o £13m ar gyfer 2024-25 yn parhau i gefnogi proffil ar lefel genedlaethol ar gyfer arloesi ledled Cymru. Mae ein hymrwymiad parhaus i gefnogi arloesi trawsnewidiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflenwi gwasanaethau, doethineb ariannol, ac arbedion effeithlonrwydd economaidd sydd, yn ei dro, yn cyflawni'r newid strategol sydd ei angen i wella canlyniadau iechyd y

boblogaeth.

Mae llawer o'r prosiectau a'r llwyfannau y mae'r cyllid yn eu cefnogi yn ysgogi cydweithio pwysig a chyllid rhannol gan y byd academaidd, y sector cyhoeddus a diwydiant. Mae'r rhaglen ITP hefyd yn cefnogi llawer o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol ar draws y sector, ac rydym wedi ceisio osgoi'r angen am golli swyddi ar draws ein rhaglenni a ariennir ond eto'n dal i sicrhau arbedion ar gyfer 2024-25.

Rydym wedi parhau i gefnogi buddsoddiad yn natblygiad proffesiynol uwch arweinwyr y dyfodol ar draws iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a ddarperir gan yr Academïau Dysgu Dwys. Er mwyn osgoi pwysau ariannol sylweddol ar y prosiectau a'r sefydliadau arloesi llwyddiannus hyn, rydym wedi nodi arbedion drwy fuddsoddi'n ddarbodus i gefnogi prosiectau a mentrau newydd wrth roi Cymru'n Arloesi ar waith, ac wedi sicrhau cydweithio mwy clyfar a manteisio i'r eithaf ar gyd-gynhyrchu ar draws y rhaglenni presennol.

**<u>Anghydraddoldebau iechyd</u>**

**Cwestiwn 9**

Tystiolaeth o ddull trawslywodraethol o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a phenderfynyddion ehangach iechyd, a bod 'iechyd y boblogaeth' yn ystyriaeth ar draws cyllidebau adrannau'r llywodraeth.

**Ymateb:**

Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn ei holl ffurfiau yn 'edefyn aur' sy'n rhedeg drwy ein Rhaglen Lywodraethu. Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn iechyd yn ei ystyr ehangaf yn golygu edrych ar ofal iechyd, yn ogystal ag ar benderfynyddion ehangach iechyd, sydd yn aml y tu allan i'r GIG. Mae'r rhain yn feysydd fel tai, cyflogaeth ac addysg. Ym mhob un o'r meysydd hyn, mae iechyd y boblogaeth yn ystyriaeth allweddol o ran yr effaith a'r canlyniadau. Gellir gweld hyn wrth gyflwyno'r Maes Profiad Dysgu Iechyd a Lles fel rhan o'r Cwricwlwm newydd i Gymru, y buddsoddiad parhaus yn ein rhaglenni sy'n cefnogi cyflogaeth, ac wrth ymgysylltu â swyddogion i ddiwygio deddfwriaeth ar ddigartrefedd.

Bydd £10 miliwn o gyllid yn parhau i ddarparu cymorth mentora cymheiriaid gan y Gwasanaeth Di-waith i bobl sy’n gwella o gamddefnyddio sylweddau a/neu salwch meddwl i fynd yn ôl i addysg a chyflogaeth ac, ar wahân, Cymorth yn y Gwaith i bobl sy’n absennol o’r gwaith neu sydd mewn perygl o fynd yn absennol oherwydd eu salwch corfforol neu feddyliol.

Mae gweithredu Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn gosod Dyletswydd Ansawdd ar Weinidogion Cymru a chyrff y GIG i ganolbwyntio ar wella ansawdd gwasanaethau iechyd a chanlyniadau cyfartal o ran iechyd y boblogaeth drwy'r amser. Bydd datblygu Datganiadau Ansawdd mewn meysydd sy’n benodol i wasanaethau yn helpu byrddau iechyd i gynllunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau ynghylch adnoddau i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd yn cael eu darparu ar draws y boblogaeth gyfan.

Cyn bo hir, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gyfres o reoliadau drafft i orfodi’r defnydd o Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd mewn amgylchiadau penodol. Bydd y rheoliadau hyn yn hyrwyddo ystyriaeth ehangach o ffactorau economaidd-gymdeithasol, fel bod modd sicrhau cymaint o effeithiau cadarnhaol ar iechyd ag y bo modd, a dileu, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol posibl. Bydd hyn yn cyfrannu rhywfaint at sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ystyried beth fydd effaith eu penderfyniadau ar iechyd meddwl a chorfforol eu poblogaeth ac yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd. Nid oes cyllideb wedi’i dyrannu ar gyfer y gweithgarwch hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwyslais cryf ar degwch a chynhwysiant ym maes iechyd a gofal. Mae hyn yn golygu sicrhau bod gan bawb yng Nghymru fynediad at yr un gofal iechyd o ansawdd uchel, waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau. Mae *Cymru Iachach* – ein cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol – wedi mynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd fel thema graidd sy’n rhedeg drwy’r cyfan. Mae rhan o’n gwaith yn cynnwys sefydlu Grŵp Anghydraddoldebau Iechyd y GIG, sy’n cael ei gyd-gadeirio gan Lywodraeth Cymru a GIG Cymru, i ganolbwyntio a sbarduno ymdrechion i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy lens y GIG.

**Cwestiwn 10**

Sut mae effaith dyraniadau cyllid ar wahanol grwpiau/cymunedau wedi cael ei hystyried wrth ddatblygu cynigion y gyllideb.

**Ymateb:**

Rydym yn disgwyl i'r rhagolygon ariannol ar gyfer y GIG, y flwyddyn nesaf, fod yn un o'r heriau mwyaf i ni eu hwynebu erioed.

Rydym wedi ystyried yr effaith bosibl ac wedi ailflaenoriaethu ar draws y Prif Grŵp Gwariant. Bydd yr ymarfer hwn yn helpu i liniaru'r effeithiau mwy difrifol ar wasanaethau rheng flaen, gofal cleifion, mynediad a thargedau perfformiad. Ein nod yw gwrthbwyso'r effeithiau mwyaf difrifol ar draws pob rhan o Gymru a darparu amddiffyniad i'r bobl fwyaf agored i niwed, gan gynnwys plant, pobl anabl, pobl hŷn a phobl agored i niwed.

Er ein bod wedi ailgyfeirio cyllid o bob rhan o Lywodraeth Cymru, mae hyn yn dal yn golygu y bydd byrddau iechyd yn wynebu penderfyniadau heriol i'w rheoli o fewn eu cyllidebau unigol. Gyda phob penderfyniad a wneir gan y Byrddau Iechyd, bydd angen asesiadau o'r effaith ar ansawdd, penderfyniadau ar gydbwysedd risg ac ymgyngoriadau posibl, os bydd penderfyniadau'n effeithio ar wasanaethau. Mae pob bwrdd iechyd yn wynebu heriau gwahanol o ran anghenion y boblogaeth a ffurfweddiad gwasanaethau; bydd y camau a gymerir i reoli unrhyw bwysau cost yn amrywio yn ôl sefydliad, a phenderfynir ar hyn yn lleol.

Wrth flaenoriaethu cyllid i'r GIG, rydym wedi adolygu'r holl gyllidebau sy'n cael eu cadw'n ganolog yn y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol ac wedi ailgyfeirio cyllid o nifer o feysydd. Dyma rai enghreifftiau:

<u>Gwasanaethau Cymunedol Integredig</u>

Rydym wedi cynnal cyllid drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol o £146.7m sy'n datblygu modelau gofal ataliol a meithrin gallu yn benodol ar gyfer y grwpiau poblogaeth allweddol canlynol;

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth.
- Plant ag anghenion cymhleth.

- Gofalwyr Di-dâl.
- Pobl ag anableddau dysgu a niwrowahaniaeth.
- Pobl ag iechyd meddwl ac emosiynol gwael.

Iechyd Meddwl

Byddwn yn parhau i ddiogelu'r arian sydd wedi'i neilltuo i'r GIG ar gyfer iechyd meddwl, sy'n darparu cymorth craidd i wasanaethau iechyd meddwl ledled Cymru, gan gynnwys i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Ni allwn roi'r £15m o gyllid ychwanegol yn 2024-25, fel y bwriadwyd yn wreiddiol, ac mae'r gyllideb ganolog bresennol ar gyfer iechyd meddwl £6m yn llai hefyd.

Fel y soniwyd yng Nghwestiwn 3, byddwn yn cyhoeddi ein strategaeth ddrafft ar gyfer iechyd meddwl yn gynnar yn y flwyddyn newydd a fydd yn amlinellu ein blaenoriaethau gwario. Mae'r strategaeth ddrafft yn seiliedig ar nifer o egwyddorion sy'n cynnwys mynediad teg, profiad a chanlyniadau, a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae wedi'i llywio gan argymhellion y Pwyllgor ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn iechyd meddwl. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth, rydym wedi ystyried effaith y camau gweithredu ar wahanol grwpiau/cymunedau, ac mae hyn yn cael ei gynnwys yn yr asesiadau effaith perthnasol. Bydd yr asesiadau effaith drafft hyn hefyd yn destun ymgynghoriad a byddant yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r strategaeth ddrafft.

Rhagsefydlu

Roedd bwriad i roi buddsoddiad ychwanegol gwerth £3m i dargedu'n benodol y bobl sydd ar restrau aros a allai elwa o gymorth ychwanegol i wella eu hiechyd a'u lles cyffredinol, ond ni fydd hyn yn mynd rhagddo mwyach. Er hynny, mae Byrddau Iechyd yn buddsoddi yn y dulliau hyn o'u cyllidebau craidd, ac rydym wedi datblygu cynnig digidol a fydd yn cael ei gyflwyno o fewn yr adnoddau sydd eisoes ar gael. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau rheoli pwysau drwy fyrddau iechyd, a'n gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer rhoi'r gorau i ysmygu, Helpa Fi i Stopio.

Diogelu Iechyd

Rydym yn ailflaenoriaethu £22m o gyllid o fewn ein cyllidebau diogelu iechyd, sy'n cefnogi ystod eang o fesurau sydd â'r nod o ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau posibl i iechyd. Drwy ailflaenoriaethu byddwn yn cryfhau'r ddarpariaeth mewn rhai meysydd penodol, gan gynnwys cynllunio at argyfyngau, ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) a chyflawni'r cynllun gweithredu HIV, a dyrannu cyllid yn uniongyrchol i'r GIG i gefnogi gwasanaethau diogelu iechyd rheng flaen o'r ymateb cenedlaethol i Covid.

Gofal Cymdeithasol

Rydym wedi ailflaenoriaethu £10.5m o Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Er mwyn sicrhau bod y gweithgarwch presennol yn parhau i gael ei gyflawni, gan gynnwys diogelu gwariant ar ddileu elw o fewn gofal plant sy'n derbyn gofal, rydym yn adolygu gweithgarwch sydd wedi'i gynllunio ac yn edrych ar arbedion effeithlonrwydd ac ail-gwmpasu gweithgarwch tan 2025-26. Rydym hefyd yn gwarchod y setliad llywodraeth leol craidd, sy'n ariannu gofal cymdeithasol.

Rydym wedi adolygu cyllid o'n cyllidebau Buddsoddi i Arbed gan gynnwys cyllid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Byddwn yn parhau i gefnogi'r cynlluniau rydym eisoes wedi ymrwymo iddynt yn 2024-25, cyfanswm o £3.8m ond ni fyddwn yn gallu bwrw ymlaen â rhagor o gynlluniau a oedd wedi'u cynllunio.

Ni fydd y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol yn derbyn y cynnydd gwreiddiol o £5m a fwriadwyd. Mae swyddogion yn gweithio i ddiogelu gwariant sy'n ymwneud â gwasanaethau er mwyn osgoi neu leihau'r effaith bosibl o gael llai o wasanaethau, gostyngiadau posibl yn nifer staff, ac osgoi'r angen i leihau'r gefnogaeth sydd eisoes yn cael ei chynnig naill ai'n ffurfiol neu'n ymddangosol, gan osgoi neu leihau'r effeithiau ar awdurdodau lleol a phartneriaid gofal cymdeithasol a allai effeithio ar bobl anabl, yr henoed a'r aelodau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Un enghraifft o ystyried effaith dyraniadau cyllid ar wahanol grwpiau fyddai parhau i ddarparu cyllid ychwanegol (£3.5m 2024-25) i ofalwyr di-dâl gymryd seibiant o'u rôl gofalu, a £1.75m yn 2024-25 i gael grantiau bach ar gyfer cymorth hanfodol, gan gynnal trefniadau gofalu ar gyfer pobl yn eu cartrefi a lleihau'r galw ar ofal preswyl a'r GIG.

Y Cynnig Gofal Plant

Mae'r Cynnig Gofal Plant yn cefnogi rhieni i weithio. Mewn arolwg, soniodd rhieni a holwyd am amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol yn sgil defnyddio'r Cynnig:

dywedodd 75 y cant o rieni fod y Cynnig wedi'i gwneud yn haws iddynt ymgymryd â'u gwaith;

- dywedodd 37 y cant o rieni y byddent yn gweithio llai o oriau pe na fyddai'r Cynnig ar gael iddynt. Roedd yr effaith hon yn uwch i rieni a oedd yn ennill llai na £26,000 y flwyddyn (dywedodd 42 y cant y byddent yn gweithio llai o oriau heb y Cynnig);
- dywedodd 10 y cant o rieni y byddent mewn swydd gyda llai o gyfleoedd i gamu ymlaen yn eu gyrfa, a dywedodd 10 y cant arall na fyddent yn gweithio o gwbl pe na bai'r Cynnig wedi bod ar gael iddynt.

Mae'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn cael ei arwain gan y galw, ac mae £2.5m yn cael ei ddyrannu fel Grant Cymorth Ychwanegol. Mae gostyngiadau yn y gyllideb ar gyfer 2024-25 wedi cael eu modelu ar y nifer sydd wedi manteisio ar y cynnig yn 2023-24. Gan fod y rhaglen yn seiliedig ar y galw, bydd cyllideb ychwanegol yn cael ei dyrannu os bydd angen.

Bwndeli Babi

Bwriad y Rhaglen Bwndel Babi oedd cynnig cymorth i tua 26,000 o rieni newydd a darpar rieni. Gyda chyllideb is, bydd angen targedu'r Rhaglen ar sail ddaearyddol lai fel Dechrau'n Deg a/neu dynnu cynnwys Bwndeli er mwyn lleihau costau. Os caiff ei darparu mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, gellid cefnogi tua 8,000 o rieni newydd a darpar rieni.

Bydd y gostyngiad yn y gyllideb yn golygu na fydd rhai teuluoedd, sydd mewn perygl o dlodi neu'n profi tlodi sy'n byw y tu allan i'r ardal darged, yn elwa ar y cymorth a gynigir drwy'r Rhaglen.

**<u>Asesu effaith/gwerth am arian</u>**

**Cwestiwn 11**

Y mecanweithiau sydd ar waith (o fewn y system iechyd a gofal ac ar lefel Llywodraeth Cymru) i asesu a yw gwariant gan ymddiriedolaethau /byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn cyflawni ei nodau ac yn sicrhau gwerth am arian. Beth/ble mae Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yw'r prif heriau wrth asesu canlyniadau/gwerth am arian.

**Ymateb:**

<u>GIG</u>

Mae gan y GIG brosesau ers tro sy'n adrodd ar berfformiad a monitro ariannol. Mae tîm Cyllid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn derbyn ac yn craffu ar wybodaeth adroddiadau ariannol yn fisol ac yn flynyddol.

Mae gennym hefyd dîm Cyflawni a Chynllunio Ariannol o fewn Gweithrediaeth y GIG sy'n gweithio rhwng y GIG a'r Llywodraeth i sicrhau darpariaeth a chynaliadwyedd ariannol yn y GIG, ochr yn ochr â chynyddu effaith a defnydd gwariant iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi mynd ar drywydd agenda ansawdd a diogelwch integredig, gan ganolbwyntio ar sut mae'r GIG yn defnyddio ei adnoddau a'r canlyniadau y mae'n eu cyflawni i nodi cyfleoedd i wella.
Fel rhan o'r Fframwaith Adfer a Monitro Uwch ar gyfer Systemau, cafodd y Grŵp Defnyddio Adnoddau ei ail-lunio ym mis Awst 2023 ar ffurf Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd GIG Cymru, sy'n cyfarfod bob mis. Bydd y Bwrdd yn sbarduno dull systematig o gryfhau gweithio ar draws systemau, i gyflawni camau gweithredu i sicrhau gwelliannau ariannol, ac i ddarparu gofal iechyd mwy cynaliadwy yn gyson.

Yr egwyddor yw bod dull cenedlaethol cryfach yn cefnogi ac yn ategu trefniadau cynllunio a darparu lleol er mwyn gwella prosesau adnabod, datblygu a defnyddio cyfleoedd ar gyfer gwelliannau ariannol yn ystod y flwyddyn ac yn rheolaidd ar draws GIG Cymru.

Mae sefydlu'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd yn Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i dynnu sylw at yr amrywiadau ar draws sawl maes cyllideb arwyddocaol, ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol.

Dechreuodd y gwaith hwn yn gynharach eleni ac mae wedi darparu dull o oruchwylio nifer o lwybrau gwerth i hybu gwerth am arian. Mae rhai enghreifftiau cynnar ym maes rheoli meddyginiaethau, caffael a gofal iechyd parhaus wedi dangos bod mwy o ffocws ar amrywiaeth a safoni yn cael effaith ar wahaniaethau gwerth am arian ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi llwybrau clinigol drwy'r gwerth mewn canolfannau iechyd i gefnogi nodau tymor canolig y gwaith hwn. Rydym yn edrych ar nifer o lwybrau effaith isel gwerth uchel, sy'n cefnogi mwy o werth am arian yn ogystal hefyd â gwella canlyniadau clinigol a phrofiad cleifion. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan holl Fyrddau Iechyd GIG Cymru, ac ar hyn o bryd mae pum cyflwr iechyd wedi'i nodi fel ffocws ar gyfer eleni a'r flwyddyn nesaf.

Bydd rhagor o gyfleoedd yn parhau i gael eu datblygu i safoni dulliau a llwybrau, ond mae cyflawni'r rhain heb ymgysylltu clinigol clir a chyfathrebu â chleifion yn dal i fod yn her. Gan ddefnyddio'r rhaglenni cenedlaethol strategol yng Nghymru, mae'r GIG a Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â chydweithwyr clinigol a rhanddeiliaid i wreiddio arferion gorau a dulliau gwerth am arian.

Mae cyflwyno dull gweithredu unwaith i Gymru ym mhob ardal yn dal i fod yn her oherwydd yr amrywiadau yn iechyd y cyhoedd ar draws gwahanol gymunedau, a hefyd bydd argaeledd gweithlu mewn rhai ardaloedd yn cyfyngu ar ddull gweithredu sy'n cael ei arwain gan effeithlonrwydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu materion cynaliadwyedd pellach wrth ddarparu gwasanaethau a nodi cyfleoedd i ddileu'r ffactorau sy'n sbarduno costau gormodol yn y meysydd heriol hyn.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn dulliau adfer sy'n seiliedig ar werth yn y tymor canolig, gan ganolbwyntio ar wella'r canlyniadau sy'n bwysig i gleifion; mae £14m wedi'i ddyrannu ar gyfer hyn yn 2024-25. Bydd y dyraniad hwn hefyd yn helpu i adfer y GIG, gyda phwyslais ar ddarparu ymyriadau gwerthfawr sy'n sicrhau gwell canlyniadau i gleifion ac yn cefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau, ac yn lleihau'r

amseroedd aros am driniaeth yn y tymor canolig. Bydd y buddsoddiad hwn yn rhoimwy o bwyslais ar sicrhau canlyniadau sy'n bwysig i gleifion, a bydd yn ategu'r gwaith o weithredu cynlluniau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i ddelio â'r cleifion sy'n aros am driniaeth.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gwella ac wedi gwreiddio ein fframweithiau cynllunio a darparu gyda'r GIG. Mae hyn wedi cynnwys canolbwyntio ar nifer o feysydd i gyflawni gwelliannau mewn cynaliadwyedd ariannol, er enghraifft, gweithredu mentrau a blaenoriaethau sy'n ymwneud â'r rhaglen Ei Gael yn Iawn y Tro Cyntaf (GIRFT) fel apwyntiadau dilynol ar gais y claf mewn gofal a gynlluniwyd a gweithredu dull gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth mewn nifer o feysydd cyflyrau, i wella canlyniadau wrth gymharu â'r adnoddau a ddefnyddir.

Mae gennym hefyd Ganolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn ei chynnal yn 2023-24 (ond yn symud i Weithrediaeth y GIG ar gyfer 2024-25). Mae'n darparu capasiti a chymorth i Fyrddau Iechyd Lleol wrth ddarparu gweithgarwch gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth a fydd yn gwella canlyniadau i'n poblogaeth.

<u>Gofal Cymdeithasol</u>

Bwriad buddsoddiad uniongyrchol Llywodraeth Cymru mewn gofal cymdeithasol yw cefnogi gwariant prif ffrwd awdurdodau lleol mewn perthynas ag agweddau penodol ar ddatblygu a gwella gwasanaethau. Mae buddsoddiad o'r fath yn amodol ar gytundebau grant unigol sy'n cynnwys darpariaethau cymesur mewn perthynas ag asesu canlyniadau a gwerth am arian.

Mae bron y cyfan o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn cael ei ariannu drwy'r setliad refeniw cyffredinol heb ei neilltuo ac adnoddau'r awdurdodau lleol eu hunain o'r dreth gyngor, ffioedd a thaliadau, a mathau eraill o incwm. Mae'r gwariant hwn mewn perthynas â gofal cymdeithasol dan reolaeth awdurdodau lleol unigol, gan gynnwys pennu'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer y gwariant hwnnw a'r asesiad cysylltiedig o werth am arian, o fewn gofynion darpariaethau statudol perthnasol.

Mae gofynion sy'n ymwneud â gwasanaethau penodol (fel drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) a darpariaethau mwy cyffredinol, sy'n sefydlu neu'n diweddaru Llywodraeth Leol yng Nghymru (fel yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) ac sy'n gosod y fframwaith y mae awdurdodau lleol yn gweithredu o'i fewn ac yn atebol iddo. Drwy hyn, mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod fframwaith cyffredinol o sicrwydd a rheolaeth ar gael yn lleol a chenedlaethol.

Dyma brif elfennau'r fframwaith hwn:

- gofynion ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd lleol, ar graffu ac ar berfformiad
- gofynion ar gyfer archwiliad allanol
- cyhoeddi data (fel Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol) i alluogi tryloywder lleol a chenedlaethol, monitro a chraffu ac arolygu drwy Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd gyffredinol i sicrhau gwasanaethau darbodus, effeithiol ac effeithlon y mae'n rhaid i Awdurdodau eu hadolygu'n gyson (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

Yn yr un modd, er mwyn darparu ar gyfer diwylliant cyffredinol lle mae cynghorau yng Nghymru yn ceisio gwneud yn well drwy'r amser, mae Llywodraeth Cymru wedi deddfu i fynnu bod yn rhaid i Gynghorau adolygu eu perfformiad drwyddi draw. Mae hyn yn cynnwys mynnu eu bod yn ceisio barn dinasyddion ac yn cyhoeddi hunanasesiad blynyddol o ba mor effeithiol maent yn cyflawni eu swyddogaethau. Hefyd, rhaid i bob awdurdod lleol sicrhau o bryd i'w gilydd bod asesiad panel o'i berfformiad yn cael ei gynnal.

Mae craffu ar lefel leol yn elfen hanfodol o'r sicrwydd hwn, yn ogystal â chraffu sy'n benodol i awdurdodau lleol, a chafodd y rôl hon ei chryfhau ar gyfer pob gwasanaeth drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am archwilio cyfrifon awdurdodau lleol a'u gwerth am arian.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar gyllidebau a gwariant gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill awdurdodau lleol bob blwyddyn. I ategu hyn, mae darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn cael ei monitro, yn fisol, drwy adroddiad Pwynt Gwirio Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn darparu, er enghraifft, data ynghylch nifer y cysylltiadau, y nifer sy'n gysylltiedig â diogelu, asesiadau, plant ac oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth, a phlant sy'n derbyn gofal.

Ategir hyn ymhellach gan ddata mesur gweithgarwch a pherfformiad y Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Mae data o'r fath yn ased pwysig o ran deall amgylchedd gofal cymdeithasol yn lleol ac yn genedlaethol, ac mae'n cael ei ddefnyddio i asesu nifer y bobl y mae awdurdodau lleol yn darparu gofal a chymorth iddynt a'r galw ar wasanaethau a swyddogaethau penodol. Mae hefyd yn adnodd y gall awdurdodau lleol ei ddefnyddio i fonitro eu gallu i gyflawni yn erbyn gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae adroddiad ar ddata mesur gweithgarwch a pherfformiad y Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol. Mae'r data hwn yn rhoi crynodeb blynyddol o weithgarwch gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru.

Ategir yr uchod gan drefniadau i ystyried gweithrediadau, effeithlonrwydd ac ati adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol drwy'r rheoleiddiwr, Arolygiaeth Gofal Cymru.

<u>Perfformiad ariannol byrddau iechyd</u>

**Cwestiwn 12**

Yr wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad ariannol cyffredinol byrddau iechyd, gan gynnwys y canlynol:

- y sefyllfa ariannol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer byrddau iechyd, a pha rai sydd wedi parhau i fethu â chyflawni eu dyletswyddau ariannol;
- pa fyrddau iechyd sydd wedi cael cymorth ariannol ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn ac yn ystod y flwyddyn, a hyd a lled y cymorth hwnnw a'r cyfnod arfaethedig;
- manylion am sut bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn gweithio gyda

byrddau iechyd i adfer cydbwysedd ariannol GIG Cymru.

**Ymateb:**
Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon, cyfanswm y diffyg arfaethedig a amlinellwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol oedd £648m. Mae Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Strategol y GIG wedi amlinellu cynlluniau i sicrhau sefyllfa ariannol gytbwys.

Mae'r hyn sy'n sbarduno'r sefyllfa hon i Fyrddau Iechyd Lleol yn ymwneud â diffyg sylfaenol sylweddol ers y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a phwysau sylweddol o ran chwyddiant a'r galw yn ogystal â'r cyllid sydd ar gael. Nid yw'r pwysau hyn yn unigryw i GIG Cymru, ond maent yn heriau sy'n wynebu'r holl wasanaethau gofal iechyd ledled y DU. Wrth nodi'r sefyllfa hon, roedd sefydliadau'r GIG yn bwriadu sicrhau arbedion o £221m, lefel o arbedion sy'n fwy na'r hyn a gyflawnwyd yn flaenorol.

Mae sefydliadau'r GIG wedi bod yn wynebu heriau yn ystod y flwyddyn i gyflawni'r cynlluniau a nodwyd, oherwydd heriau gweithredol a phwysau chwyddiant parhaus.

I gydnabod yr heriau hyn, dyrannwyd £425m ychwanegol i feysydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i helpu i gefnogi'r GIG yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Ar ben hynny, fe wnaethom adolygu cyllidebau canolog ac ailgyfeirio cyllid i sefydliadau'r GIG lle bo hynny'n bosibl. Er bod y cymorth ariannol ychwanegol hwn wedi'i groesawu a'i fod yn hanfodol, roedd Byrddau Iechyd yn dal i wynebu penderfyniadau anodd i gydbwyso eu cyllidebau yn ystod y flwyddyn ariannol hon a'r flwyddyn nesaf.

O ganlyniad i'n camau gweithredu, bydd cyllid hefyd yn cael ei ddarparu i sefydliadau i gefnogi ymrwymiadau ynghylch dyfarniadau cyflog y cytunwyd arnynt gyda'n partneriaid undeb ac yr ymrwymwyd iddynt. Mae Byrddau Iechyd Lleol hefyd wedi cael gwybod am y dyraniadau ychwanegol sy'n cael eu gwneud i gydnabod yr heriau a wynebir. Fe wnaethom gadarnhau ei bod yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol leihau'r diffygion arfaethedig 10%

Yn dilyn y dyraniadau hyn a'r disgwyliadau o ran lleihau diffyg, mae cyfansymiau rheoli targedau diwygiedig wedi cael eu pennu ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol sydd, ar draws y saith Bwrdd, yn rhoi cyfanswm o £123m o ddiffyg. Diffygion targed yw'r rhain i Fyrddau Iechyd Lleol weithio tuag atynt, ac maent yn cael eu gwrthbwyso gan gyllid o fewn cyllidebau canolog.

Cafodd manylion llawn am sefyllfa'r GIG o ran y dyraniadau hyn a'r cyfansymiau rheoli targed a bennwyd ar gyfer pob sefydliad eu cyhoeddi fel rhan o ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 8 Tachwedd 2023.

Ar 17 Hydref 2023, darparodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ddatganiad llafar i'r Senedd ar sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. Roedd y datganiad hwnnw'n manylu ar ganlyniad y gwaith dros yr haf i fynd i'r afael ag effaith cyllideb Llywodraeth Cymru sy'n werth tua £900m yn llai nag yr oedd pan gafodd ei gosod yn 2021. Mae'r datganiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y cyfansymiau rheoli targed ar gyfer Byrddau Iechyd.

Mae perfformiad yn erbyn y cyfansymiau rheoli targed hyn wedi cael ei fonitro'n agos ers iddynt gael eu cyhoeddi, ac mae hyn yn parhau i fynd rhagddo. Rydym yn parhau i weithio gyda holl sefydliadau GIG Cymru yn gyson ar lefel genedlaethol, ac ar sail sy'n benodol i sefydliadau, i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni'r rhagolygon targed a nodir ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol hon.

Y disgwyliad yw bod pob Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud cynnydd gan gydnabod, er bod rhai heriau sy'n effeithio ar bob sefydliad sydd wedi cael eu cydnabod gyda chyllid ychwanegol fel pwysau chwyddiant, y bydd heriau eraill sy'n unigryw i sefydliadau wrth ystyried gwahanol anghenion poblogaethau, daearyddiaeth a ffurfweddiad gwasanaethau ar draws Byrddau Iechyd. Efallai na fydd camau cyflawni sy'n bosibl mewn rhai Byrddau Iechyd yn bosibl mewn rhai eraill.

Disgwylir i bob Bwrdd Iechyd wneud y penderfyniadau gorau posibl i gydbwyso risg ariannol, risg i'r gwasanaeth a'r gweithlu o fewn y paramedrau cyflawni hyn. Disgwylir i sefydliadau sicrhau bod effaith penderfyniadau'n cael eu hasesu'n gadarn

o ran ansawdd, diogelwch, risg a'r gallu i gyflawni, a bod y cydbwysedd gorau posibl rhwng barn am risg a gwneud penderfyniadau. Byrddau Iechyd Lleol fydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pa gamau yw'r rhai mwyaf priodol i sicrhau gwelliannau ariannol wrth gydbwyso'r holl newidynnau a risgiau eraill.

Mae Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn adrodd y rhagwelir diffyg ar Adnoddau Cyllidol (refeniw) yn M08 o £92.7m ar gyfer 2023-24.

Mae'r rhagolygon canlynol ar gyfer y GIG wedi'i gynnwys yn hyn:

| **Organisation**<br>**Surplus/-Deficit** | **M08 Forecast £000s** | **Target Control Total £000s** | **Distance to TCT M08 £000s** |
|---|---|---|---|
| Swansea Bay | -17,134 | 17,000 | -134 |
| Aneurin Bevan | -57,627 | 13,000 | -44,627 |
| Betsi Cadwaladr | -33,033 | 20,000 | -13,033 |
| Cardiff & Vale | -16,460 | 16,000 | -460 |
| Cwm Taf Morgannwg | 0 | 0 | 0 |
| Hywel Dda | -72,700 | 45,000 | -27,700 |
| Powys | -12,000 | 12,000 | -0 |
| HEIW | 0 | 0 | 0 |
| DHCW | 0 | 0 | 0 |
| PHW | 0 | 0 | 0 |
| Velindre | 0 | 0 | 0 |
| WAST | 0 | 0 | 0 |
| **NHS Wales** | **-208,953** | **123,000** | **-85,953** |

Ar hyn o bryd, o'r saith Bwrdd Iechyd, mae pedwar yn rhagweld y bydd y cyfansymiau rheoli targed yn cael eu cyflawni, ac mae tri yn rhagweld na fyddant ac y byddant yn debygol o wynebu heriau wrth wneud hynny.

Mae'r camau sy'n cael eu cymryd i reoli'r sefyllfa hon yn canolbwyntio ymhellach ar y canlynol:

- Sicrhau bod pob sefydliad yn glir ynghylch y gofyniad a'u bod yn nodi camau gweithredu i gyflawni'r Cyfansymiau Rheoli Targed a amlinellir.

- Adolygiad parhaus o'r holl opsiynau a dewisiadau yn y Prif Grŵp Gwariant drwy ddulliau rheoli ariannol cadarn, i gyflawni arbedion a gwella'r rhagolygon cyffredinol (dros £240m o arbedion a chyfleoedd wedi'u graddio'n wyrdd yn M08).

- Gwella dulliau rheoli a phrosesau systemau i gefnogi gwelliannau ariannol.

- Fel y soniwyd uchod, cynhaliwyd cyfarfodydd adolygu ffurfiol gyda holl sefydliadau'r GIG, gyda phwyslais ar adrodd ar welliannau ar gyfer mis naw.

- Ar 13 Medi 2023 cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod pob un o'r saith Bwrdd Iechyd bellach yn destun mesurau uwchgyfeirio, a bod y fframwaith uwchgyfeirio sy'n cefnogi darpariaeth ariannol wedi'i gryfhau.

- Mae camau gweithredu i sicrhau mwy o arbedion yn cael eu nodi a'u datblygu drwy'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd Cenedlaethol dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol.

- Swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gweithio gyda Gweithrediaeth y GIG, i fonitro cynnydd yn erbyn y cyfansymiau rheoli targed a nodir, ochr yn ochr â rhoi camau ar waith gyda phob sefydliad fel rhan o'r fframwaith uwchgyfeirio. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda sefydliadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni arbedion y mae byrddau iechyd wedi'u nodi mewn cynlluniau a rhoi prosesau ar waith I gryfhau camau gweithredu yn gyson ar lefel genedlaethol i gefnogi'r dasg o gyflawni arbedion yn lleol.

**<u>Gofal cymdeithasol</u>**

**Cwestiwn 13**

Dyraniad a gynlluniwyd ar gyfer gofal cymdeithasol, gan gynnwys y canlynol:

- Unrhyw gyllid ychwanegol a nodwyd ar gyfer 2024-25, a sut bydd y cyllid hwnnw'n cael ei dargedu.
- Sut bydd y dyraniadau yn helpu i sicrhau hyfywedd a sefydlogrwydd parhaus gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal preswyl a gofal cartref.
- Pa gymorth y bydd y gyllideb ddrafft yn ei ddarparu i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys tystiolaeth o unrhyw gynlluniau cymorth newydd a gwariant penodol ar ofal seibiant a chymorth ariannol i ofalwyr.
- Mesurau yn y gyllideb ddrafft a fydd yn gwella cynaliadwyedd y gweithlu gofal cymdeithasol, yn enwedig prinder staff gofal cartref..

- Sut y bydd y gyllideb ddrafft yn helpu’r sector gofal cymdeithasol i ymateb i’r cynnydd mewn costau byw, gan gynnwys gwariant penodol i gefnogi gweithwyr gofal cartref, a gofalwyr di-dâl a phobl anabl, a’u teuluoedd.
- Manylion y gwariant arfaethedig ar y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth gan gynnwys costau staff.

**Ymateb:**

Fel y nodwyd uchod, mae bron y cyfan o’r cyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn cael ei ariannu drwy’r setliad refeniw cyffredinol heb ei neilltuo ac adnoddau’r awdurdodau lleol eu hunain o’r dreth gyngor, ffioedd a thaliadau, a mathau eraill o incwm. Yr awdurdodau lleol unigol sy’n rheoli’r cyllid.

Bwriad buddsoddiad uniongyrchol Llywodraeth Cymru mewn gofal cymdeithasol yw cefnogi gwariant prif ffrwd awdurdodau lleol mewn perthynas ag agweddau penodol ar ddatblygu a gwella gwasanaethau.

Un enghraifft o’r pwynt diwethaf fyddai’r Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2022, i gefnogi gweithgarwch i hybu’r gwaith o ddiwygio a gwella gofal cymdeithasol, er mwyn ategu’r cyllid a ddarperir yn y setliad Llywodraeth Leol.

Defnyddir y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol i gefnogi’r gwaith o ddiwygio Gofal Cymdeithasol, i wella’r ddarpariaeth ac i wella cynaliadwyedd gwasanaethau ar draws y sector gofal cymdeithasol. Mae’r cyllid yn cael ei ddefnyddio i helpu i gyflawni ymrwymiadau’r Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio gofal cymdeithasol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal ac i ddiogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed ac ar gyfer gofalwry di-dâl, ac i sefydlu Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol.

O ran gofalwyr di-dâl, bydd y Gronfa Gymorth i Ofalwyr (£1.75m yn 2024-25) yn helpu gofalwyr di-dâl i ymdopi â chostau byw cynyddol drwy ddarparu grantiau i brynu eitemau hanfodol sylfaenol, fel bwyd, eitemau i'r cartref ac eitemau electronig, neu fynediad at gwnsela, cyngor ariannol, llesiant a chymorth gan gymheiriaid.

Mae'r Cynllun Seibiant Byr ar gyfer gofalwyr di-dâl (£3.5m yn 2024-25) hefyd yn cael ei ariannu gan y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol ac mae'n darparu cyfleoedd i ofalwyr di-dâl gael seibiant o'u rôl gofalu.

Nid oes dim cyllid ychwanegol i alluogi ehangu cymorth ariannol/cynlluniau newydd ar gyfer gofalwyr di-dâl.

Yn ogystal â'r cyllid hwn, mae £1m yn cael ei ddarparu i fyrddau iechyd drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i gefnogi gofalwyr di-dâl lle mae'r unigolyn sy'n cael gofal yn cael ei dderbyn i'r ysbyty neu'n cael ei ryddhau.

Yn olaf, mae cyllid ar gael i sefydliadau cenedlaethol o'r cynllun Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i ddarparu gwasanaethau a chymorth i ofalwyr di-dâl ac i gyflawni amcanion strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gofalwyr di-dâl.

Ar ben hynny, mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys nifer o ymrwymiadau sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru. Ein huchelgais yw newid y system gyfan ac, wrth ei gwraidd, rydym am weld mwy o blant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i fyw gyda'u teuluoedd ac yn eu cymdogaethau gyda llawer llai angen mynd i ofal. Rydym hefyd am sicrhau bod pobl ifanc mewn gofal am gyfnod mor fyr â phosibl.

Rydym wedi ymrwymo i gadw teuluoedd gyda'i gilydd. Ein gweledigaeth yw ailgynllunio'r ffordd rydym yn gofalu am blant a phobl ifanc er mwyn gallu gwneud y gorau dros ein pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau drwy ddarparu gwasanaethau sy'n lleol, wedi'u cynllunio'n lleol ac yn atebol yn lleol. Mae'n ymwneud â rhoi'r math iawn o ofal ar waith ar gyfer pob plentyn: diwygio a chydgysylltu gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth, a chefnogi'r rhai sy'n gofalu am blant yn well.

Bydd cynnal y cynnydd o £10m yn y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol a roddwyd y flwyddyn flaenorol i £52m ar gyfer 2024-25 yn cael ei ddefnyddio i wella’r cymorth a roddir i Ymrwymiadau’r Rhaglen Lywodraethu ac felly i’n gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru. Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i Awdurdodau Lleol i gefnogi cynigion i gyflawni’r ymrwymiadau hyn.

<u>Dileu elw o ofalu am blant sy’n derbyn gofal</u>

Yn benodol, mae’r dyraniad yn y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol ar gyfer dileu elw o ofalu am blant sy’n derbyn gofal wedi cynyddu o £10m yn 2022-23 i £20m yn 2024-25.

Fel rhan o’r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae ymrwymiad clir i ‘ddileu elw preifat o ofalu am blant sy’n derbyn gofal’ fel elfen allweddol o’n hagenda radical.

Mae adborth gan blant a phobl ifanc yn awgrymu bod ganddynt deimladau cryf am gael gofal gan sefydliadau preifat sy’n gwneud elw o’u profiad o fod mewn gofal. Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y dylid cael marchnad ar gyfer gofal i blant, nac y dylid gwneud elw o ofalu am blant sy’n wynebu heriau penodol yn eu bywydau ac mae’n bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i roi terfyn ar hyn. Mae hyn yn golygu y bydd y gofal i blant sy’n derbyn gofal yng Nghymru yn y dyfodol yn cael ei ddarparu gan sefydliadau sector cyhoeddus, elusennol neu nid-er-elw.

Ein nod yw sicrhau nad yw'r arian cyhoeddus sy’n cael ei fuddsoddi mewn gofal i blant sy’n derbyn gofal yn gwneud elw i unigolion nac endidau corfforaethol, ond ei fod yn hytrach yn cael ei wario ar wasanaethau plant i ddarparu gwell profiadau a chanlyniadau i blant a phobl ifanc, gan roi sylw i ddatblygu a gwella gwasanaethau a datblygiad proffesiynol pellach i staff. Rydym yn bwriadu canolbwyntio, yn y lle cyntaf, ar ofal preswyl a gofal maeth i blant.

Dros weddill tymor y Senedd hon, mae angen i ni ganolbwyntio ar weithio gyda phlant sydd â phrofiad o ofal, awdurdodau lleol a phartneriaid i gynyddu darpariaeth gyhoeddus ac nid-er-elw, er mwyn sicrhau bod sylfaen gref i bontio i ofal nid-er-elw sy’n diwallu anghenion a hawliau plant a phobl ifanc.

Diwygio Radical

Yn yr un modd, mae'r dyraniad yn y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol ar gyfer diwygio gwasanaethau plant yn radical wedi cynyddu o £3m yn 2022-23 i £9m yn 2024-25.

Rydym wedi ymrwymo drwy ein Rhaglen Lywodraethu i edrych ar ddiwygiad radical y gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn gwireddu gweledigaeth ac uchelgais newydd ar gyfer gwasanaethau plant, yn seiliedig ar ymarfer cyson, ymddygiadau llai gwrth-risg a dulliau adferol cenedlaethol a fabwysiedir ledled Cymru. Nid cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn unig yw cyflawni'r weledigaeth hon; mae'n gofyn am weithio mewn partneriaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus a mudiadau'r trydydd sector.

Bydd y rhaglen yn darparu ymyriadau ataliol i deuluoedd sydd â phlant ar ffiniau gofal, gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth i rieni, cynadleddau grŵp i deuluoedd, diwygio Cyfiawnder Teuluol a fframwaith ymarfer cenedlaethol. Bydd hefyd yn gofyn am fwy o ymyrraeth a chefnogaeth i awdurdodau lleol nad ydynt yn cyflawni ein huchelgais i leihau'n sylweddol nifer y plant mewn gofal.

Cyflog Byw Gwirioneddol

Bydd y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25 yn cynnwys cyllid i godi cyflogau gweithwyr gofal cymdeithasol, fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen. Bydd y cynnydd yn berthnasol i weithwyr cofrestredig mewn cartrefi gofal ac ym maes gofal cartref (gwasanaethau oedolion a phlant) a gweithwyr gofal cartref cofrestredig mewn lleoliadau byw â chymorth. Bydd hefyd yn cael ei dderbyn gan bob cynorthwyydd personol sy'n cael ei ariannu drwy daliad uniongyrchol gan yr awdurdod lleol.

Bydd sicrhau gwell cyflog drwy'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn helpu i fynd i'r afael â chyflogau isel sy'n gysylltiedig â'r sector, gan gynnwys yng nghyd-destun costau byw cynyddol, a gwneud gwaith gofal cymdeithasol yn fwy deniadol. Mae hyn yn sicrhau gwelliannau i'r gweithlu gofal cymdeithasol, yn ogystal â gwella lefelau cadw'r gweithlu a'r canlyniadau i bobl sy'n cael gofal a chymorth. Er na fydd y cynnydd yn y

Cyflog Byw Gwirioneddol ar ei ben ei hun yn mynd i'r afael â phob her ym maes Gofal Cymdeithasol, bydd yn cyfrannu at gynaliadwyedd ac uchelgais tymor hwy i godi proffil y sector fel lle proffesiynol i weithio, gwella cyfleoedd i unigolion ddatblygu eu gyrfaoedd, a helpu i wella'r broses recriwtio a chadw staff. Nod y Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer y gweithlu Gofal Cymdeithasol yw integreiddio â chydnabyddiaeth y Fforwm Gwaith Teg mewn Gofal Cymdeithasol o heriau sy'n ymwneud â chyflogau isel yn y sector. Mae hefyd yn cysylltu ag amcanion polisi Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ynghylch hybu iechyd a llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae'n cyfrannu at alluogi unigolion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol, a gall gael effaith gadarnhaol ar gapasiti a morâl y gweithlu.

<u>Bwrsari Gweithwyr Cymdeithasol</u>

Darperir cyllid ar gyfer bwrsari gweithwyr cymdeithasol i fyfyrwyr sy'n astudio gradd mewn gwaith cymdeithasol ac mae'n cynnig cymorth ariannol ychwanegol. Mae hyn yn gwneud y radd gwaith cymdeithasol yn gyraeddadwy yn ariannol a bydd yn sicrhau bod gennym gyflenwad cynaliadwy o weithwyr cymdeithasol yn y dyfodol. Mae'r cynnydd i'r bwrsari o £10m dros dair blynedd a gyhoeddwyd yn 2022 wedi bod ar gael i fyfyrwyr sydd wedi cychwyn ar y cwrs ers 2021-22.

Bydd y cymorth ariannol ychwanegol ar gael i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig yng Nghymru drwy'r Bwrsari Gwaith Cymdeithasol. Mae cynyddu'r bwrsari yn golygu bod ein cyllid ar gyfer y rhaglen hon bron yn £10m dros dair blynedd i helpu i hyfforddi gweithwyr cymdeithasol y dyfodol. O'r pecyn cyllid hwn sy'n werth £10m, mae'r newidiadau rydym yn eu gwneud yn costio cyfanswm o £3.5m dros y tair blynedd. Mae hyn yn gynnydd o fwy na 50 y cant i'r bwrsari gwreiddiol i israddedigion ac ôl-raddedigion.

Mae gweithwyr cymdeithasol yn cyflawni rôl hanfodol yn ein cymunedau, gan gefnogi pobl i fod yn gyfrifol am eu bywydau eu hunain. Maent wrth wraidd ein system gofal cymdeithasol ac maent yn allweddol i ddarparu gofal effeithiol. Mae'r bwrsari Gwaith Cymdeithasol i fyfyrwyr yn cefnogi pobl sydd â'r priodoleddau a'r sgiliau priodol i allu ymgymryd â hyfforddiant gwaith cymdeithasol. Ei nod yw cyfrannu at dwf gweithlu gwaith cymdeithasol cynaliadwy yng Nghymru ac mae'n

cyfrannu at y costau a wynebir gan unigolion sy'n hyfforddi i fod yn weithwyr cymdeithasol.

Grant Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy (grant gweithlu)

I gydnabod y rôl bwysig y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol craidd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid rheolaidd i'r sector ar ffurf grant Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r grant wedi'u gosod yn fras. Mae awdurdodau lleol wedi gallu defnyddio'r cyllid i gefnogi codiadau cyflog, ond hefyd ar gyfer ymyriadau eraill sydd â'r nod o gefnogi darpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol cynaliadwy i sicrhau eu bod mewn sefyllfa well i ateb galw cynyddol neu annisgwyl. Yn ymarferol, mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth o fesurau – o godi cyflogau i gamau gweithredu sydd wedi'u hanelu at gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Mae'r grant hwn wedi cael ei roi i awdurdodau lleol bob blwyddyn ers 2019 a bydd yn £34.4m ar gyfer 2024-25.

Dyraniad y gost staffio ar gyfer swyddi'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth yw £464,512.

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

**Dyddiad: 17 Ionawr 2024**

**Amser: 10:00-12:00pm**

**Teitl: Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) y Gymraeg ac Addysg**

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gynigion Prif Grŵp Gwariant (MEG) y Gymraeg ac Addysg a amlinellir yng Nghyllideb ddrafft 2024-25,[1] a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2023. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

Cyllideb Ddrafft 2024-25 yw blwyddyn olaf yr adolygiad tair blynedd o wariant, sy'n adeiladu ar y gwaith a wnaed ar gyllideb 2023-24 ac yn dilyn Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ar 22 Tachwedd.

## 1. Meysydd Trawsbynciol

### 1.1 Tryloywder y cyflwyniad o'r gyllideb

1.1.1 Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r cynlluniau dangosol ar gyfer MEG y Gymraeg ac Addysg yng Nghyllideb ddrafft 2024-25:

| Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg - Crynodeb | Cyllideb Ddangosol 2024-25 (Cyllideb Derfynol 2023-24 – Chwefror 2023) | Cyllid a Ailflaenoriaethwyd i Gronfeydd Wrth Gefn 2024-25 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2024-25 | Newidiadau Eraill 2024-25 | Cyllideb Ddrafft 2024-25 (Rhagfyr 2023) |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000s | | | | |
| Adnoddau anghyllidol (refeniw) | 1,814,255 | -102,985 | 1,711,270 | 7,500 | 1,718,770 |
| Adnoddau anghyllidol (nad ydynt yn arian parod) | 517,950 | 0 | 517,950 | 478 | 518,428 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **2,332,205** | **-102,985** | **2,229,220** | **7,978** | **2,237,198** |
| Cyfalaf | 355,614 | -10,000 | 345,614 | 2,788 | 348,402 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a'r Cyfalaf** | **2,687,819** | **-112,985** | **2,574,834** | **10,766** | **2,585,600** |
| AME Adnoddau [1] | 73,225 | 0 | 73,225 | -66,641 | 6,584 |
| AME Cyfalaf | 1,181,714 | 0 | 1,181,714 | 103,513 | 1,285,227 |
| **Cyfanswm yr AME** | **1,254,939** | **0** | **1,254,939** | **36,872** | **1,291,811** |
| **Cyfanswm – MEG y Gymraeg ac Addysg[2]** | **3,942,758** | **-112,985** | **3,829,773** | **47,638** | **3,877,411** |

### *Adnoddau anghyllidol (refeniw)*

1.1.2 Pan wnaethom gyhoeddi Adolygiad o Wariant Cymru 2022, gwnaethom nodi cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer addysg hyd at 2024-25. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd o £188m yn refeniw'r MEG yn 2022-23, a chynnydd pellach o £50m yn 2023-24 a £38m yn 2024-25.

[1]Yn y papur hwn, mae '/' yn cyfeirio at flwyddyn academaidd, sef y cyfnod rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf, ac mae '-' yn cyfeirio at flwyddyn ariannol, sef y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth.
*[1] Gwariant a Reolir yn Flynyddol*
*[2] Prif Grŵp Gwariant*

Darparodd cyllideb ddrafft y llynedd gynnydd pellach mewn refeniw o £13.5m yn 2023-24 a 2024-25.

1.1.3 Fodd bynnag, mae maint yr heriau ariannol a wynebir gan Lywodraeth Cymru wedi golygu bod penderfyniadau anodd wedi'u gwneud i ail-lunio ein cyllideb ar gyfer 2024-25. Gofynnwyd i bob portffolio gynnal ymarfer ail-gwmpasu er mwyn nodi cyllid i'w ryddhau i liniaru'r pwysau a wynebwn ar draws y llywodraeth, ac mae'r newidiadau'n gymesur yn fras â maint y cyllidebau adrannol fel cyfran o gyllideb gyffredinol Cymru. O ran y portffolio Addysg, mae hyn yn wedi golygu ail-flaenoriaethu ychydig yn llai na £103m (5.68% o linell sylfaen ddangosol 2024-25) er mwyn darparu cyllid a sicrwydd ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl a chymunedau ledled Cymru – y GIG a'r setliad llywodraeth leol craidd, sy'n ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, a gwasanaethau pob dydd eraill. O fewn y portffolio Addysg, rydym wedi diogelu cyllidebau addysg ôl-16 cymaint â phosibl, sydd wedi golygu bod dewisiadau anodd wedi'u gwneud i ailffocysu cyllid o addysg bellach ac addysg uwch, gan gynnwys ein cyllideb seiliedig ar alw ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Ceir crynodeb o'r newidiadau hyn yn Atodiad A, ynghyd â manylion pellach yn Atodiad B a'r adran ar feysydd penodol yn y papur hwn. Mae'r broses wedi cael ei llywio gan egwyddorion y gyllideb, sef diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen craidd cymaint â phosibl, sicrhau'r buddiannau mwyaf i'r aelwydydd yr effeithir arnynt fwyaf, blaenoriaethu swyddi, lle bynnag y bo'n bosibl, a gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus i wynebu'r storm ariannol gyda'n gilydd.

1.1.4 Mae'r ailflaenoriaethu wedi'i wrthbwyso gan werth £7.5m o ddyraniadau o gronfeydd wrth gefn canolog. Mae hyn yn cynnwys £3.5m i ailflaenoriaethu cyllid er mwyn darparu Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd drwy'r Cytundeb Cydweithio, a £4m ar gyfer Model Buddsoddi Cydfuddiannol Addysg i dalu taliadau gwasanaeth blynyddol. Ceir rhagor o fanylion am y newidiadau hyn yn yr adrannau perthnasol o'r papur hwn (adran 2.3 ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd) ac yn Atodiad B.

### *Adnoddau anghyllidol (nad ydynt yn arian parod)*

1.1.5 Mae'r gyllideb nad yw'n arian parod ar gyfer MEG y Gymraeg ac Addysg wedi cynyddu £0.478m yn 2024-25 drwy'r dyraniadau canlynol o Gronfeydd Wrth Gefn:

| Y Gymraeg ac Addysg: Dyraniadau'r Gyllideb Nad ydynt yn Arian Parod | Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2024-25 £000 |
|---|---|---|
| Darpariaeth ar gyfer amorteiddio asedau sefydlog anniriaethol yn ymwneud â datblygu cronfa ddata a dibrisiant cyfarpar TG mewn perthynas â Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) | Datblygu a Chefnogi Athrawon | 400 |
| Gofyniad ychwanegol ar gyfer y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil | Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil | 78 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Nad ydynt yn Arian Parod o Gronfeydd Wrth Gefn** | | **478** |

### *Cyfalaf*

1.1.6 Nododd yr adolygiad tair blynedd o wariant a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 gynlluniau gwario cyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 2022-23 a 2024-25. Roedd hyn yn cynnwys £300m y flwyddyn ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, £20m y flwyddyn ar gyfer Addysg Uwch, £15m y flwyddyn ar gyfer cyfalaf addysg cyfrwng Cymraeg a £25m yn 2024-25 ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (mae £8m wedi'i ailbroffilio o 2023-24 i

2024-25 er mwyn cynyddu cyllid i£33m) (gweler adrannau 2.21-2.23). Yn y gyllideb ddrafft hon, rydym wedi ailflaenoriaethu £10m o gyllidebau cyfalaf addysg er mwyn rhoi cyfle i newid o gyfalaf i refeniw yn 2024-25. Er mwyn lleihau effeithiau'r newid hwn mewn dyraniad i'r eithaf, byddwn yn blaenoriaethu prosiectau craidd o fewn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

1.1.7 Ceir dyraniad o £2.788m o gronfeydd wrth gefn i ddarparu cyfalaf Trafodion Ariannol ar gyfer benthyciadau'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol drwy Fanc Datblygu Cymru ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (dwy ysgol gynradd) a Choleg Caerdydd a'r Fro (campysau'r Fro).

***Gwariant a Reolir yn Flynyddol***

1.1.8 Mae'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn ymwneud â benthyciadau myfyrwyr, sy'n seiliedig ar alw ac yn sensitif i gyfraddau llog a ffactorau macro-economaidd eraill ac, felly, sy'n anodd eu rhagweld. Cytunir ar y gyllideb hon ar y cyd â'r Trysorlys bob blwyddyn, a chaiff ei hariannu'n llawn. Mae ffigurau'r Gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol ddrafft yn adlewyrchu'r rhagolygon a gyflwynwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Medi 2023.

## 1.2 Sylwadau ar Gamau Gweithredu a Manylion Dyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

1.2.1 Ceir dadansoddiad o'r newidiadau i MEG y Gymraeg ac Addysg yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer 2024-25 yn **Atodiad A.** Mae'r adroddiad yn manylu ar ddyraniadau Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24, alldro a ragwelir (cyfnod 7) 2023-24 ac alldro terfynol 2022-23, ar gais y Pwyllgor. Ceir hefyd esboniad o'r newidiadau i bob Cam Gweithredu o fewn y MEG yn **Atodiad A.** Rhoddwyd esboniad tryloyw o'r naratif er mwyn esbonio unrhyw gynnydd a lleihad, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y papur tystiolaeth, a chadarnhau i/o ble y mae'r trosglwyddiadau wedi'u dyrannu. Ar gyfer cyllideb ddrafft 2024-25, defnyddiwyd y dyraniadau dangosol ar gyfer 2024-25 a gyflwynwyd yng Nghyllideb Derfynol 2023-24, a gyhoeddwyd ar 28 Chwefror, fel cyllideb waelodlin at ddibenion cymharu.

## 1.3 Blaenoriaethau Addysg a Blaenoriaethau Strategol Eraill

1.3.1 Ein cenhadaeth genedlaethol yw sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb drwy fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a chefnogi pob dysgwr. Gan weithio gyda'n partneriaid ym mhob rhan o'r sector addysg, rydym yn cyflawni ein rhaglen uchelgeisiol o ddiwygiadau addysg, yn ogystal ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio.

1.3.2 Ym mis Mawrth 2023, gwnaethom gyhoeddi Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb, i olynu cynllun gweithredu blaenorol Addysg yng Nghymru. Mae'n cynnig map trywydd strategol ar gyfer ein camau gweithredu ar y cyd yn y sector addysg i sicrhau gwelliannau i bob dysgwr. Nid yw'r map trywydd yn cynnwys unrhyw ymrwymiadau polisi newydd ac, am y tro cyntaf, mae'n adlewyrchu'r camau sy'n cael eu cymryd ar draws bortffolio cyfan y Gymraeg ac Addysg, o dan chwe thema graidd:

- Dysgu am oes
- Chwalu rhwystrau
- Profiad addysg cadarnhaol i bawb
- Addysg ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel
- Dysgu yn y gymuned

- Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd.

1.3.3 Fel rhan o'r paratoadau cyllidebol, mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a minnau, ochr yn ochr â chydweithwyr yn y Cabinet, wedi trafod lefel yr adnoddau i gefnogi addysg, ac yn arbennig, cyllid rheng flaen i ysgolion. Er mwyn diogelu cyllid craidd i ysgolion cymaint â phosibl, rydym wedi diogelu Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Leol fel rhan o'r newidiadau i'r gyllideb ar gyfer 2023-24, a gyhoeddwyd ar 17 Hydref. Ar gyfer 2024-25, rydym yn parhau i ddiogelu'r setliad Llywodraeth Leol, drwy gynnal y cynnydd arfaethedig o 3.1% rhwng 2023-24 a 2024-25.

1.3.4 Fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol, er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio ar eu gwaith hollbwysig wrth ddarparu gwasanaethau. Wrth wraidd y gwaith hwn y mae ein hawydd i sicrhau nad yw awdurdodau lleol yn cael eu llesteirio gan fiwrocratiaeth ddiangen. Er mwyn lleddfu'r pwysau ar lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn o bwysau ar adnoddau, gwyddom fod yr angen i nodi, lleihau a dileu prosesau beichus neu ddiangen a darparu mwy o hyblygrwydd yn gryfach nag erioed. Rydym wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol er mwyn deall eu pryderon, a rheoli grantiau oedd y maes allweddol a nodwyd ar gyfer newid er budd pawb.

1.3.5 Yn y gyllideb ddrafft hon, rydym yn cynnig dull newydd o ymdrin â chyllid grantiau addysg ôl-16, gyda'r nod o leihau'r baich ar ein hawdurdodau lleol a'n hysgolion. Byddwn yn rhesymoli ac yn cyfuno ein grantiau a ddarperir i awdurdodau lleol a phartneriaethau a chonsortia rhanbarthol ar hyn o bryd. Rhwng 2024-25, rydym yn cynnig cyfuno Grant Addysg Awdurdodau Lleol, Consortia Rhanbarthol, y Grant Datblygu Disgyblion a grantiau'r Gymraeg yn un cynllun, sef Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Bydd y cynllun grantiau hwn yn cynnwys pedair elfen o gyllid addysg: Safonau Ysgolion, Tegwch, Diwygio a Cymraeg 2050, a chaiff pob llinyn ei gyflwyno fel Llinell Wariant ar wahân yn y Gyllideb er mwyn helpu i sicrhau tryloywder. Bydd y cyllid hwn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'n hawdurdodau lleol partner wrth iddynt ein helpu i gyflawni ein hamcanion polisi. Darperir cyfanswm o £379m drwy Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn 2023-24, sy'n gyson â'r darpariaethau cyllid ar gyfer grantiau tebyg yn 2023-24 ac yn gynnydd o 3.2% (£11.8m) o gymharu â chyllideb ddangosol 2024-25 ar gyfer y grantiau sy'n trosglwyddo i mewn. Ceir crynodeb o'r meysydd sydd wedi'u cynnwys yn y broses cyfuno grantiau a'r trosglwyddiadau cysylltiedig yn **Atodiad C**.

1.3.6 Er gwaethaf yr ymarfer ailgwmpasu, rydym wedi gallu cynnal cyllid sy'n cefnogi ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys:

- hybu cyllid mewn perthynas â'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, a sefydlwyd er mwyn helpu dysgwyr i oresgyn effeithiau negyddol y pandemig a chefnogi'r dysgwyr mwyaf agored i niwed a dan anfantais, wrth i £10.9m o gyllid ychwanegol gael ei gyfeirio drwy'r llinyn Safonau Ysgolion y Grant Addysg Awdurdodau Lleol newydd;
- diogelu'r £9m ychwanegol a fuddsoddwyd y llynedd ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) sy'n ariannu ysgolion i gefnogi'r dysgwyr mwyaf agored i niwed yn economaidd, wrth i gyllid gael ei drosglwyddo i linyn Tegwch mewn Addysg Grant Addysg newydd Awdurdodau Lleol (gweler adran 2.3);
- diogelu'r £4.5m ychwanegol a fuddsoddwyd y llynedd i gefnogi'r broses o roi'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol ar waith, wrth i werth £22m o gyllid bellach gael ei drosglwyddo drwy Grant Addysg Awdurdodau Lleol (gweler adran 2.10).

1.3.7 Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r dyraniadau canlynol sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb Cydweithio â Plaid Cymru:

- £93.5m yn 2024-25 i gyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd, sy'n cynnwys £3.5m ychwanegol o Gronfeydd Wrth Gefn y cytunwyd arnynt â Plaid Cymru yn dilyn ailbroffilio cyllid o 2022-23 (gweer adran 2.3);
- £4.5m yn 2024-25, drwy rewi cyllid ar lefel 2023-24 (sydd wedi rhyddhau £3.5m fel rhan o'r ymarfer ailgwmpasu), ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynyddu cyfran y prentisiaethau a'r cyfleoedd addysg bellach sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, a darparu cyfleoedd dysgu Cymraeg i bobl ifanc 16-25 oed (gweler adran 2.19).

1.3.8 O ran effeithiau trawsbynciol ein cynlluniau gwario, mae cefnogi'r rheini y mae'r argyfwng costau byw yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt, yn ogystal â chyllid i gefnogi iechyd a llesiant corfforol, emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc, yn flaenoriaeth o hyd wrth ddyrannu adnoddau.

1.3.9 Mae gwerth am arian ac eglurder ynghylch y ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithiol yn ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau, yn arbennig wrth inni adfer ar ôl y pandemig. Pan fydd gwariant wedi'i gynllunio yn unol â blaenoriaethau, mae gennym brosesau sydd wedi'u sefydlu'n dda ar waith i sicrhau y caiff adnoddau eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd. Mae'r gweithdrefnau llywodraethu a monitro sydd ar waith yn adlewyrchu natur ein cydberthnasau â'n partneriaid cyflawni. Mae'r cynigion cyllidebol hyn yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i ddiogelu a blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol cymaint â phosibl.

## 1.4 Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill

### *Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant*

1.4.1 Cynhelir asesiadau effaith manwl, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, fel rhan o'n gwaith parhaus i ddatblygu ac adolygu polisïau. Mae Asesiad Effaith Integredig Strategol yn un o gyfres o ddogfennau a gyhoeddir fel rhan o'r Gyllideb ddrafft ac mae'n hanfodol i nodi tueddiadau allweddol ac effeithiau strategol a chyfunol ar lefel portffolio, ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys rhoi ystyriaeth ddyledus i'r gofynion statudol.

1.4.2 Rydym yn parhau o'r farn bod y dull integredig sy'n sail i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn ein galluogi i feithrin dealltwriaeth well o effeithiau croestoriadol ac anfwriadol penderfyniadau ynghylch gwariant ac i sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael yr effaith fwyaf posibl, gan leihau'r effaith anghymesur ar unrhyw grŵp neu faes penodol. Gallai ystyried maes effaith ar ei ben ei hun arwain at ganlyniadau anfwriadol fel effaith negyddol mewn un maes wedi'i llywio gan effaith gadarnhaol mewn maes arall.

1.4.3 Rydym wedi bod yn gweithio gyda Bwrdd Prosiect Cymru Ifanc Plant yng Nghymru a swyddogion ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru i gyd-lunio fersiwn i bobl ifanc o Gynllun Gwella'r Gyllideb, a gaiff ei gyhoeddi ar ddiwedd mis Ionawr 2024. Mae fersiwn wedi'i hanimeiddio wedi'i datblygu hefyd, er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc a'u helpu i ddeall sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio a'r hyn y mae Trysorlys Cymru yn ei wneud. Disgwylir i'r animeiddiad gael ei lansio ym mis Ionawr, yn y Senedd.

### *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

1.4.4 Rydym yn parhau i gael ein harwain gan bum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn gwella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau. Rydym yn cydnabod bod angen inni gydweithio â'n partneriaid a defnyddio ein hadnoddau cyfunol yn effeithiol i gynllunio ar gyfer y dewisiadau anodd sydd i ddod. Mae ein penderfyniad i ddiogelu cyllid ar gyfer y PDG ac ADY yn cydnabod pwysigrwydd blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol.

1.4.5 Rydym yn parhau i weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac amrywiaeth o arbenigwyr i asesu'r modd rydym yn mynd i'r afael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ein cwricwlwm newydd yn eang, yn gytbwys, yn gynhwysol ac yn heriol, ond rydym yn cydnabod na fydd diwygio'r cwricwlwm ynddo'i hun yn sicrhau newid cynaliadwy. Dyluniwyd y cwricwlwm newydd i gynyddu ei gyfraniad at bob un o'r nodau llesiant i'r eithaf.

## 1.5 Costau Deddfwriaeth

***Manylion y dyraniadau yng nghyllideb 2024-25 ar gyfer rhoi Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a diwygiadau cysylltiedig i gymwysterau ar waith.***

1.5.1 Mae'r costau sy'n gysylltiedig â rhoi Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ar waith wedi'u nodi yn adran 2.5 ar ddiwygio'r cwricwlwm.

***Manylion y dyraniadau ar gyfer rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach ar waith.***

1.5.2 Mae'r costau sy'n gysylltiedig â rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach ar waith yn 2024-25 wedi'u nodi yn adran 2.10 ar ddiwygio ADY.

***Manylion y dyraniadau yng nghyllideb 2024-25 ar gyfer rhoi Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ar waith.***

1.5.3 2023-24 yw'r flwyddyn bontio olaf yn y broses o sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ac nid oes unrhyw gostau penodol sy'n gysylltiedig â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 wedi'u nodi y tu hwnt i'r adeg hon. Ceir rhagor o fanylion am y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn adran 2.8.

***Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol gan Senedd y DU.***

1.5.4 Ni wyddom am unrhyw ddeddfwriaeth gan Senedd y DU a all effeithio ar ein cyllideb ar gyfer 2024-25. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fonitro Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU a byddwn yn sicrhau y caiff asesiadau effaith, gan gynnwys datblygu Asesiadau Effaith Rheoleiddiol eu cynnal lle bo angen.

***Goblygiadau ariannol unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol yn 2024-25.***

1.5.5 Bydd y gyllideb yn parhau i ystyried is-ddeddfwriaeth yn 2024-25. Mae asesu costau rhoi deddfwriaeth ar waith a'r effaith ar y rheini mae'n effeithio arnynt yn hanfodol er mwyn sicrhau y dilynir egwyddorion "Cyfraith Dda". Mae rheoliadau drafft yn destun asesiad cadarn o gostau a buddiannau, a gynhelir drwy ymgynghori ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, wrth ddatblygu'r Asesiadau Effaith Rheoleiddiol. Diben hyn yw sicrhau bod ein penderfyniadau'n cael eu llywio gan y bobl y byddant yn effeithio arnynt.

## 1.6 Effaith pandemig COVID-19

***Gwybodaeth am unrhyw effaith sy'n weddill ar MEG y Gymraeg ac Addysg yn 2023-24 ac unrhyw oblygiadau parhaus yn 2024-25 yn sgil y pandemig, gan gynnwys diweddariad ar ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer mynd i'r afael â'r rhain, er enghraifft a yw'r rhaglen "Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau" yn parhau yn 2024-25.***

1.6.1 Mae ysgolion a lleoliadau addysg yn parhau i weithredu mewn cyd-destun heriol iawn ac yn parhau i reoli effeithiau pellgyrhaeddol pandemig COVID-19, gan gynnwys lefelau cyson o absenoldeb ac ymddygiad gwaeth mewn ystafelloedd dosbarth, a phroblemau iechyd meddwl a llesiant. Prin yw'r dystiolaeth bod effeithiau COVID-19 wedi diflannu, a bydd pwysau ariannol pellach yn effeithio ar y ffordd y mae ysgolion a lleoliadau addysg yn rheoli effeithiau parhaus pandemig COVID-19 ar blant a phobl ifanc.

1.6.2 Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, ar gyfer 2024-25, bydd y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau bellach yn rhan o'r elfen cyllid Safonau Ysgolion a ddarperir i awdurdodau lleol drwy Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Roedd disgwyl i gyllid y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau leihau'n raddol o £37.5m yn 2023-24 i £28.5m yn 2024-25. Er mai'r bwriad oedd i'r rhaglen fod ar waith am gyfnod penodol o amser, mae'n amlwg bod effeithiau'r pandemig yn bodoli o hyd.

1.6.3 Felly, ar gyfer 2024-25, rydym wedi gallu ailflaenoriaethu cyllid o fewn y MEG i gynyddu elfen Safonau Ysgolion Grant Addysg Awdurdodau Lleol £10.9m er mwyn cefnogi ysgolion ymhellach yn ystod y cyfnod ariannol heriol hwn. Bydd hyn, nid yn unig yn golygu ein bod yn sicrhau bod y lleihad graddol arfaethedig yng nghyllid y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (£9m) yn cael ei wrthdroi er mwyn cynnal y lefel gyson honno o gyllid i ysgolion, ond bod 1.9m ychwanegol hefyd yn cael ei ddarparu er mwyn cynyddu'r elfen hon o'r grant. Mae hyn yn cynyddu'r cyllid Safonau Ysgolion o fewn Grant Addysg Awdurdodau Lleol i £159.9m ar gyfer 2024-25, sy'n cynnwys cyllid a gefnogwyd yn flaenorol drwy'r Grant Gwella Addysg (£115.2m) a darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen (£5.3m).

***Manylion a dadansoddiad o'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer ymateb y sector addysg i'r pandemig, yn 2022-23, ac unrhyw ddyraniad yn 2024-25 (yn ei hanfod, diweddariad i baragraffau 1.6.5-1.6.6 o bapur y llynedd).***

1.6.4 Ar gyfer 2022-23, nid oedd unrhyw newidiadau i'r cyllid a amlinellwyd ym mhapur y llynedd. Yn 2023-24, dyrannwyd y symiau canlynol:

- £37.5m i barhau â'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau;
- £5.33m i gefnogi llesiant a chynnydd dysgwyr mewn ysgolion;
- £12m ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- £2m ar gyfer darpariaeth cwnsela ychwanegol;
- £3.5m ar gyfer presenoldeb i gefnogi ac annog dysgwyr sydd wedi ymddieithrio neu sy'n wynebu risg o wneud hynny.

1.6.5 Yn 2024-25, caiff y mwyafrif o'r cyllid hwn ei ddyfarnu i awdurdodau lleol drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol newydd.

1.6.6 Mae Gwerthusiad o'r Cyllid Adferiad COVID-19 Ôl-16 2022-2023 ac ymchwil Llywodraeth Cymru ar effaith y pandemig ar ddysgwyr mewn Sefydliadau Addysg Bellach wedi dangos bod angen parhaus am sesiynau dysgu ychwanegol am fod bylchau yng ngwybodaeth a

sgiliau dysgwyr. Mae angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr drwy gyfarwyddwyd gyrfaoedd a help i ddewis llwybrau addysg a hyfforddiant priodol. Bydd swyddogion yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn ystyried y ffyrdd mwyaf priodol o wella a datblygu cadernid a pharodrwydd y systemau addysg ôl-16 ymhellach ar gyfer heriau hirdymor.

1.6.7 Gan gydnabod effeithiau parhaus pandemig COVID-19 ar ddysgwyr ôl-16, diogelwyd cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr Ôl-16 rhag gostyngiadau yn 2024-25, gan sicrhau y caiff £10.562m pellach ei ddyrannu i gefnogi dysgwyr drwy ymyriadau grŵp neu un i un ychwanegol.

## 1.7 Effaith Brexit

***Diweddariad ar b'un a oes unrhyw oblygiadau ariannol ar gyfer MEG y Gymraeg ac Addysg 2024-25 rhag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, ac unrhyw ddyraniadau a wneir i liniaru'r rhain.***

1.7.1 Nid oes unrhyw brosiectau Ewropeaidd o fewn MEG y Gymraeg ac Addysg ar hyn o bryd nac, felly, unrhyw effaith ar ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer 2024-25. Ceir rhagor o fanylion am ein rhaglen Taith i ddysgwyr, a gyflwynwyd yn lle cynllun poblogaidd Erasmus+, yn adran 2.19. Mae'n golygu y gall Cymru a'i phartneriaid rhyngwladol barhau i gael budd o gynlluniau cyfnewid mewn ffordd debyg i'r cyfleoedd a ddeilliodd o Erasmus+, yn Ewrop a thu hwnt.

## 1.8 Effaith pwysau costau byw ar ddarparu gwasanaethau addysg

***Diweddariad ar oblygiadau pwysau costau byw a phrisiau ynni uchel ar ddarpariaeth weithredol sefydliadau addysg – ar draws lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, ysgolion, colegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant.***

1.8.1 Fel pob gwasanaeth cyhoeddus, mae pwysau chwyddiant a chostau byw (costau ynni, costau bwyd, cyflog) yn rhoi pwysau sylweddol ar bob sefydliad addysg, gan gynnwys ysgolion, sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rydym wedi gweld costau ynni yn cynyddu'n barhaus wrth i gontractau presennol ddod i ben a chapiau ar brisiau gael eu tynnu. Rydym yn cydnabod y pwysau ar awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill ac nad oes unrhyw atebion hawdd. Rydym yn parhau i ymgysylltu'n agos â'n rhanddeiliaid ynghylch y materion hyn. Maent yn parhau i ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain i dalu costau nifer o fesurau i gefnogi staff a myfyrwyr drwy'r argyfwng costau byw parhaus.

1.8.2 Darperir cyllid craidd i ysgolion drwy'r setliad Llywodraeth Leol ac rydym wedi diogelu'r Grant Cynnal Refeniw er mwyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ysgolion.

1.8.3 Mae sefydliadau addysg bellach wedi wynebu costau cynyddol nwyddau traul a ddefnyddir i ddarparu rhaglenni dysgu galwedigaethol. Mae costau pren, dur a deunyddiau ac adnoddau eraill wedi cynyddu'n gyflym. Yn ystod blynyddoedd blaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu dros £2m o gyllid ychwanegol i gydnabod y costau hyn a sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd addas i roi gwersi a ddysgwyd ar waith. Fodd bynnag, mae blaenoriaethu cyllideb 2023-24 yn ystod y flwyddyn wedi golygu na allem barhau i gefnogi hyn yn 2023/24, a fydd yn cael rhywfaint o effaith ar allu dysgwyr i ymarfer dysgu drwy lwybrau galwedigaethol penodol.

### 1.9 Monitro cyllidebau

***Gwybodaeth am y prosesau sydd ar waith i fonitro cyllidebau yn ystod y flwyddyn, gan nodi diffygion a gwargedau, a chymryd camau unioni neu ddyrannu cronfeydd ychwanegol i wrthbwyso unrhyw ddiffygion, yn enwedig yng ngoleuni'r pandemig.***

1.9.1 Mae rheolaeth ariannol ofalus yn hanfodol o ystyried y pwysau ariannol eithriadol a wynebir gan wasanaethau cyhoeddus. Parheir i fonitro a herio'r holl gyllidebau'n fisol yn ystod 2023-24, er mwyn ystyried y rhagolygon diweddaraf a throsglwyddiadau mewn cyllidebau yn ôl yr angen a sicrhau cyllideb gytbwys erbyn diwedd y flwyddyn. Rwy'n cael diweddariadau ariannol ar y rhagolygon ar gyfer y MEG er mwyn sicrhau bod cyllidebau yn parhau ar y trywydd cywir i gyflawni blaenoriaethau.

***Goblygiadau'r materion y cyfeiriwyd atynt yn natganiad Prif Weinidog Cymru ar 9 Awst 2023 ar gyfer MEG y Gymraeg ac Addysg ac adroddiadau am yr arbedion y mae angen eu gwneud yn ystod y flwyddyn ariannol hon.***

1.9.2 Cadarnhaodd diweddariad y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, a gyhoeddwyd ar 17 Hydref, leihad o £74.7m (4.1%) mewn cyllidebau refeniw Addysg a lleihad o £40m (11.2%) mewn cyfalaf o gymharu â Chyllideb Derfynol 2023-24 (Chwefror 2023). Cyhoeddwyd crynodeb o'r prif newidiadau ochr yn ochr â'r datganiad hwn, a chaiff ei ffurfioli yn Ail Gyllideb Atodol 2023-24 ar 20 Chwefror 2024. Yn ogystal ag adolygiad o'r holl gyllidebau heb eu neilltuo, mae'r meysydd lle rydym wedi gallu lleihau cyllid refeniw yn deillio o danwariant ar gyllidebau seiliedig ar alw a grantiau, gan gynnwys grantiau cymorth i fyfyrwyr. Mae'r tanwariant a ragwelir ar y gyllideb hon wedi llywio penderfyniadau ynghylch cyllid y gellid ei gynnig i'w ailflaenoriaethu yn 2024-25.

***Manylion unrhyw newidiadau i MEG y Gymraeg ac Addysg 2022-23 a ddisgwylir eisoes yn yr Ail Gyllideb Atodol.***

1.9.3 Yn ychwanegol at y newidiadau i'r gyllideb a amlinellir ym mharagraff 1.4.2 uchod, mae nifer bach o drosglwyddiadau eraill wedi'u cynllunio ar gyfer Ail Gyllideb Atodol 2023-24 a amlinellir yn Atodiad D (gan adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg ysgrifennu'r papur tystiolaeth hwn).

***Goblygiadau Datganiad Hydref 2023 Llywodraeth y DU ar gyfer MEG y Gymraeg ac Addysg.***

1.9.4 Nid oedd Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ar 22 Tachwedd yn cynnwys unrhyw gymorth wedi'i dargedu ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed nac unrhyw beth newydd nac ystyrlon i Gymru, ac roedd yn drychineb i wasanaethau cyhoeddus yn y DU, sy'n cael eu hamddifadu o gyllid angenrheidiol. Ni wnaed unrhyw ddyraniadau penodol i MEG y Gymraeg ac Addysg o ganlyniad i Ddatganiad yr Hydref.

## 2. Meysydd penodol

Mae'r adran hon yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol ar gais y Pwyllgor.

### 2.1 Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion

***Esboniad o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 yn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol a MEG y Gymraeg ac Addysg) ac wedi ystyried adolygiad Sibieta o wariant ysgolion wrth bennu'r gyllideb hon.***

2.1.1 Y brif ffynhonnell cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i ysgolion yw'r cyllid a roddir i awdurdodau lleol drwy'r setliad llywodraeth leol. Fel y nodwyd ar gyfer 2024-25, rydym wedi ymrwymo i gynnal y cynnydd o 3.1% yn y setliad Llywodraeth Leol, drwy gyfraniad cyllid craidd blynyddol o £5.7bn. Yn ychwanegol at hynny, rydym yn darparu £1.3m drwy'r Grant Cynnal Refeniw er mwyn sicrhau bod setliad pob awdurdod lleol yn cynyddu o leiaf 2%.

2.1.2 Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn symleiddio'r broses o fonitro a gwerthuso ein grantiau, a gellir gweld canlyniad y gwaith hwn yn nyfarniadau grantiau y flwyddyn hon. Fodd bynnag, mae angen inni gyflymu'r gwaith hwn er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu yn y ffyrdd mwyaf priodol, effeithlon ac effeithiol. Felly, mae ein dull newydd o ymdrin â grantiau ar gyfer addysg ôl-16 yn symleiddio cyllid i awdurdodau lleol ac ysgolion ymhellach, yn unol â chenhadaeth ein cenedl i sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb. O fis Ebrill 2024, byddwn yn darparu cyllid drwy Grant Addysg Awdurdodau Lleol o dan bedair elfen grant, sef: Safonau Ysgolion, Tegwch, Diwygio a Cymraeg 2050.

2.1.3 Mae symleiddio hefyd yn golygu ystyried sut mae'r grantiau hyn yn cael eu gweinyddu. Pwysleisiodd yr *Adolygiad o Wariant Ysgolion yng Nghymru* gymhlethdod diangen ein system, ac mae'r mater wedi cael ei godi fel rhan o negodiadau llwyth gwaith. Amlygodd yr Adolygiad o Rolau a Chyfrifoldebau Partneriaid Addysg yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, hefyd rwystredigaethau ynghylch y broses cyllido grantiau, y fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â hi, a'r ansicrwydd mae'n ei achosi i arweinwyr ysgolion.

2.1.4 Drwy'r dull newydd o ymdrin â grantiau, byddwn yn buddsoddi £379m fel rhan o Grand Addysg Awdurdodau Lleol yn 2024-25. Byddwn yn gweithio gyda phob partner dros yr ychydig fisoedd nesaf cyn y flwyddyn ariannol newydd er mwyn sicrhau y caiff y trefniadau newydd eu hymgorffori.

2.1.5 Erys rhywfaint o gyllid y tu hwnt i'r dull newydd hwn, sef ein cynlluniau seiliedig ar alw, lle mae hawliadau penodol ar alw gwirioneddol yn angenrheidiol at ddibenion talu, mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd, Hanfodion Ysgol, CPCP a chyllid Lleoliadau Arbenigol ôl-16.

***Diweddariad ar unrhyw waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ystyried diwygiadau i Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.***

2.1.6 Mae amrywiaeth eang o bortffolios Llywodraeth Cymru yn rhan o'r system addysg a'r cyllid sydd ar gael i'n pobl ifanc. Mae llawer o feysydd trawsbynciol sy'n berthnasol i nifer o'r argymhellion a wnaed yn adolygiad Luke Sibieta ac adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cyllido Ysgolion yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn 2019. Felly, rydym wedi sefydlu grŵp rhanddeiliaid mewnol i gydgysylltu a rheoli'r gwaith hwn.

2.1.7 Rydym hefyd wedi gwahodd awdurdodau lleol ac undebau llafur i gwblhau holiadur anffurfiol a sefydlu gweithgor o gynrychiolwyr awdurdodau lleol.

2.1.8 Yn ychwanegol at hyn, rydym hefyd wedi comisiynu darnau amrywiol o ymchwil er mwyn sicrhau bod gennym y dystiolaeth ddiweddaraf i helpu i lywio'r gwaith o lunio polisïau. Mae

hyn yn cynnwys ymchwil ar y defnydd o'r PDG a'i effeithiolrwydd, a gynhaliwyd gan Brifysgol Bangor. Gwnaethom gyhoeddi'r adroddiad hwn ym mis Medi 2023. Rydym hefyd yn ystyried ffyrdd amgen o nodi anfantais economaidd-gymdeithasol er mwyn cefnogi dyraniadau cyllid ymhellach yn y dyfodol, ac rydym wrthi'n comisiynu darn o ymchwil ar hyn.

***Safbwynt y Gweinidog ar lefel cronfeydd wrth gefn ysgolion, yng nghyd-destun data 31 Mawrth 2023 y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi ddiwedd mis Hydref 2023.***

2.1.9 Yn y datganiad ystadegol diweddaraf, roedd cronfeydd wrth gefn ysgolion wedi'u lleihau o £301m yn 2022, i £208m ar 31 Mawrth 2023; lleihad o £93m (31%) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Er bod lefelau cronfeydd wrth gefn ysgolion yn dal i fod yn uchel ym mis Mawrth 2023 yn ôl pob golwg, gwyddom fod rhai ysgolion yn wynebu diffyg. Rydym bellach yn gweld ysgolion yn defnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyn i reoli'r pwysau cynyddol a wynebir o ganlyniad i chwyddiant a'r argyfwng costau byw. Rydym yn cefnogi awdurdodau lleol i weithio gyda'u hysgolion i reoli eu cyllidebau mewn modd hyblyg yng ngoleuni'r amgylchiadau presennol.

2.1.10 Mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn wynebu pwysau ariannol sylweddol ac nid oes unrhyw atebion hawdd i ddatrys y problemau a wynebir. Gwyddom ei bod yn hollbwysig bod sianeli cyfathrebu ar waith yn ystod y cyfnod arbennig o anodd hwn, ac rydym yn ymgysylltu'n agos â llywodraeth leol ynghylch y gyllideb a materion eraill.

## 2.2 Cyllid ar gyfer gwella ysgolion

***Esboniad o'r modd y mae Cyllideb Ddrafft 2024-25 yn helpu i wella ysgolion a chodi safonau addysg.***

2.2.1 Mae cyllidebau ar draws MEG y Gymraeg ac Addysg yn helpu i wella ysgolion a chodi safonau ysgolion. Darperir gwasanaethau gwella ysgolion drwy awdurdodau lleol. Felly, rydym yn diogelu'r setliad llywodraeth leol, sy'n darparu cyllid craidd i ysgolion, ac o fewn y gyllideb adrannol rydym wedi ail-lunio ein cynlluniau gwario er mwyn canolbwyntio ar addysg ôl-16 a chodi safonau ysgolion.

2.2.2 Fel yr amlinellwyd, bydd symleiddio ein grantiau yn helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu yn y ffyrdd mwyaf priodol, effeithlon ac effeithiol. Drwy greu llinyn Safonau Ysgolion o Grant Addysg Awdurdodau Lleol, byddwn yn cyfeirio bron £160m o gyllid ar ysgolion a lleoliadau eraill er mwyn helpu i wella ysgolion a helpu dysgwyr i adfer ar ôl y pandemig er mwyn codi safonau. Er mwyn cydnabod pwysigrwydd helpu ysgolion i wella a chodi safonau ymhellach, a'r angen i wneud hynny, rydym wedi cynyddu'r gyllideb £10.9m (3.2%) o gymharu â sefyllfa ddangosol 2024-25. Bydd hyn yn golygu y bydd ein hysgolion a'n lleoliadau yn gallu parhau i gefnogi ein dysgwyr yn y ffordd orau posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

***Manylion dyraniadau Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol (RCSIG) ar gyfer 2023-24, wedi'u dadansoddi yn ôl amcan a/neu ddisgrifiad o'r cyllid – yn ei hanfod, diweddariad i Atodiad D i bapur y llynedd. Manylion ynglyn â faint o RCSIG a dalwyd i bob consortiwm a/neu awdurdod lleol yn 2023-24.***

2.2.3 Mae'r tablau yn **Atodiad E** yn rhoi dadansoddiad o'r £158.4m o RCSIG ar gyfer 2023-24, ynghyd â chyfanswm y cyllid yn ôl consortiwm neu awdurdod lleol.

***Gwybodaeth am elfen Grant Gwella Addysg RCSIG a'r adolygiad a oedd yn mynd rhagddo pan drafodwyd y gyllideb y llynedd.***

2.2.4 Yn dilyn gwaith ymgysylltu â'r consortia rhanbarthol, partneriaethau ac awdurdodau lleol, gwnaethom gasglu gwybodaeth am y fformiwlâu cyllido presennol a ddefnyddir ledled Cymru mewn perthynas â'r Grant Gwella Addysg. Roedd hyn yn amrywio ar draws y rhanbarthau a nodwyd cymhlethdodau mewn perthynas â'r dull hwn o ddyrannu cyllid. Mae'r Adolygiad o Rolau a Chyfrifoldebau Partneriaid Addysg yng Nghymru hefyd wedi ail-bwysleisio'r angen am lai o gymhlethdod a mwy o dryloywder mewn perthynas â'r Grant Gwella Addysg.

2.2.5 Mae cyllideb y Grant Gwella Addysg wedi'i chynnwys yn y broses o gyfuno grantiau addysg; mae'n rhan o elfen gyllid Safonau Ysgolion Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Rydym yn bwriadu cymhwyso fformiwla gyllido genedlaethol at gyllid Safonau Ysgolion. Caiff manylion y fformiwla hon eu cyhoeddi'n flynyddol, cyn y flwyddyn ariannol. Bydd hyn yn galluogi ysgolion i bennu faint o gyllid y byddant yn ei gael ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod i'w helpu i gynllunio eu cyllideb.

## 2.3 Costau byw a lleihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysgol

***Gwybodaeth am y modd y mae adnoddau o fewn MEG y Gymraeg ac Addysg yn cael eu defnyddio i gyflawni ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i leihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysgol.***

2.3.1 Mae mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad wrth wraidd ein cenhadaeth genedlaethol ym maes addysg. Mae'r PDG yn chwarae rhan allweddol i gyflawni hyn a byddwn yn adeiladu ar arferion effeithiol drwy sicrhau ein bod yn targedu'r cyllid yn y ffordd orau posibl.

2.3.2 Bydd cyllid yn parhau i gael ei ddyrannu ar sail £1,150 fesul dysgwr ac i gael ei gyfeirio'n uniongyrchol at ysgolion gan yr awdurdod lleol. Mae cyllid y PDG yn helpu ysgolion i liniaru effaith tlodi ar blant drwy ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer dysgwyr o aelwydydd incwm isel a phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae hefyd yn cefnogi amcanion Strategaeth Tlodi Plant ddrafft Llywodraeth Cymru.

2.3.3 Mae'r grant Hanfodion Ysgol hefyd yn chwarae rôl bwysig ac mae wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i lawer o deuluoedd incwm isel ledled Cymru, drwy helpu i leddfu gofidiau ynglŷn â phrynu gwisg ysgol ac offer a galluogi plant a phobl i fynychu'r ysgol a chymryd rhan mewn gweithgareddau ar yr un lefel â'u cyfoedion. Yn 2021-22, estynnwyd y grant i blant a phobl ifanc ym mhob blwyddyn ysgol orfodol sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ar sail prawf modd neu sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.

***Dadansoddiad o Linell Wariant yn y Gyllideb "Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad" ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) a'r Grant Hanfodion Ysgol a diweddariad ar y ffordd y caiff cymhwysedd ar gyfer y rhain ei asesu, gan gofio bod y prif feini prawf cymhwyso (cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim) yn newid i ddarpariaeth gyffredinol mewn ysgolion cynradd.***

2.3.4 Fel rhan o'r gwaith i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol a chydgrynhoi'r dirwedd grantiau, caiff gwerth £127.825m o gyllid y PDG ei drosglwyddo o Linell Wariant yn y Gyllideb Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad i Linell Wariant yn y Gyllideb gyfunol

newydd Tegwch mewn Addysg Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn 2024-25. Nid oes unrhyw newid i'r gyllideb hon o gymharu â 2023-24. Parheir i ddyrannu cyllid ar sail nifer y dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ar gyfer y flwyddyn flaenorol (CYBLD 2023 ar gyfer dyraniadau 2024-25).

2.3.5 Yn dilyn trosglwyddiad gweinyddol er mwyn symud cyllid ar gyfer Grant Plant y Lluoedd Arfog (£0.27m) i Linell Wariant yn y Gyllideb Grwpiau Agored i Niwed, cynigir y dylai'r gyllideb sy'n weddill o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Mynd i'r afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad (4764), sef £13.885m, gynnwys y canlynol:

- Grant Hanfodion Ysgol (£13.096m) – er bod y grant wedi'i leihau £0.5m i adlewyrchu'r lleihad yn nifer y dysgwyr a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn CYBLD 2023. Cyllideb seiliedig ar alw yw hon, ac nid oes unrhyw newid i hawl dysgwyr cymwys ((£125 fesul dysgwr neu £200 ar gyfer y rheini sy'n dechrau ym Mlwyddyn 7).
- Rhaglenni Tegwch a Chyrhaeddiad (£0.789m)

2.3.6 Cydnabu fy natganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 ei bod yn bosibl, drwy gynnig prydau ysgol am ddim i bob dysgwr ysgol gynradd, na fyddem yn gallu defnyddio cymhwysedd am brydau ysgol am ddim fel dangosydd procsi ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol ymysg plant yn y grŵp oedran hwn mwyach.

2.3.7 Nododd y datganiad fod angen inni weithio'n agosach gyda phartneriaid, ym mhob rhan o'r llywodraeth, i ystyried effaith unrhyw newidiadau posibl i'r ffordd rydym yn cofnodi'r rheini sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, ac unrhyw setiau data cysylltiedig. Diben hyn yw sicrhau ein bod yn tarfu cyn lleied â phosibl ar ddyraniadau cyllid, hawliau dysgwyr a theuluoedd, a ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Mae swyddogion yn mynd ar drywydd prosiect ymchwil tri cham i ystyried pam a sut mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn y sector cyhoeddus yn defnyddio'r dangosydd ar gyfer prydau ysgol am ddim, ac archwilio opsiynau addas i ddiwallu anghenion am ddata ar amddifadedd economaidd-gymdeithasol dysgwyr yn y dyfodol. Mae cam cyntaf y prosiect ymchwil wedi cael ei gynnig ar dendr, a disgwylir i bob cam gael eu cwblhau o fewn 12 mis.

2.3.8 Mae rhieni/gwarcheidwaid yn parhau i gael eu hannog drwy ymgyrch gyfathrebu i gofrestru eu cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim ar sail prawf modd gan fod hyn yn ffurfio rhan o'r meini prawf ar gyfer cyllid ar gyfer y PDG a Hanfodion Ysgol.

***Gwybodaeth am sut mae adnoddau o fewn MEG y Gymraeg ac Addysg yn cael eu defnyddio i helpu dysgwyr mewn addysg ôl-16 i ymdopi ag effeithiau costau byw, ac i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ddeilliannau (gan gynnwys, er enghraifft, drwy gyllid caledi ychwanegol ar gyfer darparwyr, neu drwy gyllid cymorth i fyfyrwyr presennol fel y Lwfans Cynhaliaeth Addysg).***

2.3.9 Gall dysgwyr llawnamser fanteisio ar addysg bellach am ddim, beth bynnag fo'u hoedran, sy'n lleihau rhwystrau i bob dysgwr gael addysg lawnamser. Mae'r fethodoleg gyllido ar gyfer addysg ôl-16 yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer amddifadedd addysgol, sy'n dyrannu cyllid i awdurdod lleol neu goleg addysg bellach ar sail pedwar degradd uchaf maes Addysg Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae hyn yn creu gwerth £3.732m o gyllid ychwanegol ar gyfer chweched dosbarth awdurdodau lleol a gwerth £18.933m o gyllid ychwanegol ar gyfer colegau addysg bellach.

2.3.10 Gall y Gronfa Ariannol Wrth Gefn helpu dysgwyr cymwys mewn coleg addysg bellach sy'n wynebu anawsterau ariannol. Gallai hyn helpu i dalu costau fel ffioedd, costau sy'n gysylltiedig â'r cwrs, trafnidiaeth, bwyd, a chostau gofal plant. Pennir y math o gymorth a ddarperir, a chymhwysedd, gan y coleg addysg bellach unigol. Yn 2023-24, cynyddwyd cyllid craidd y Gronfa Ariannol Wrth Gefn o £6.33m i £6.71m er mwyn cydnabod effeithiau'r cynnydd mewn costau byw a helpu'r dysgwyr hynny na fyddent fel arall yn gallu manteisio ar addysg. Mae'r gyllideb hon wedi cael ei diogelu rhag cael ei lleihau yn 2024-25.

2.3.11 Cynyddwyd cymorth cynhaliaeth statudol i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau addysg uwch 9.4% ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24. Rydym yn dal i fod yn ymwybodol o bwysigrwydd cyllid ar gyfer costau byw, ynghyd â chymorth drwy gymysgedd o grantiau a benthyciadau sy'n gynyddol; mae'r rheini o gefndir incwm isel yn gymwys i gael lefelau uwch o grant. Caiff cyfraddau 2024/25 eu cadarnhau yn gynnar yn y flwyddyn newydd a chyn mis Mawrth 2024 fan bellaf. Er bod cyllid ar gyfer y grantiau cymorth i fyfyrwyr wedi'i lleihau £53.9m yn 2024-25, mae'r gyllideb yn seiliedig ar alw a bwriedir i'r un cymorth gael ei gynnig i bob myfyriwr israddedig yn 2024/25.

2.3.12 Yn unol â'r Rhaglen Lywodraethu, nid yn unig rydym wedi diogelu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg, ond rydym hefyd wedi ei gynyddu ym mis Ebrill 2023 i £40 yr wythnos i bobl ifanc cymwys sy'n mynychu lleoliadau addysg ôl-orfodol. Bwriedir i'r LCA barhau ar y lefel honno ar gyfer 2024/25. Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, mae adolygiad annibynnol o'r LCA wrthi'n cael ei gomisiynu, a chaiff argymhellion yr adolygiad hwn eu hystyried ar gyfer 2025/26 yn unol â'r cyllidebau a fydd ar gael ar y pryd.

***Costau ehangu prydau ysgol am ddim yn 2023-24, 2024-25 ac yn y dyfodol, a diweddariad ar yr amserlen ar gyfer ehangu prydau ysgol am ddim i bob grŵp oedran ysgol gynradd.***

2.3.13 Fel rhan o'n Cytundeb Cydweithio â Plaid Cymru, ceir ymrwymiad i gyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd dros gyfnod y cytundeb. Yn wreiddiol, dyrannwyd £200m o refeniw dros dair blynedd er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn: £40m ar gyfer 2022-23, £70m ar gyfer 2023-24 a £90m ar gyfer 2024-25. Yn dilyn cytundeb Plaid Cymru, o ganlyniad i danwariant yn 2022-23, mae £7.4m wedi cael ei ailbroffilio ar gyfer 2023-24 er mwyn helpu i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol (hyd at hanner tymor mis Mai) a £3.5m ar gyfer 2024-25. Cynigiwyd £11.5m fel rhan o'r ymarfer ailflaenoriaethu yn ystod y flwyddyn, gan leihau'r gyllideb £58.5m ar gyfer 2023-24 (£65.9m yn cynnwys ailbroffilio). Grant seiliedig ar alw i awdurdodau lleol yw hwn, ac er ei fod wedi'i leihau, erys digon o gyllid i gyflawni'r cynlluniau cyflwyno presennol yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Ar gyfer 2024-25, mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu dyraniad o £3.5m o Gronfeydd Wrth Gefn ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd, gan gynyddu'r gyllideb i £93.5m yn 2024-25. Mae'r gyllideb hon yn rhoi cyfle i ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad cyfradd uned drwy gynyddu'r gyfradd uned. Mae hefyd yn caniatáu lle i dwf yn y nifer sy'n manteisio ar y cynllun, uwchlaw'r lefel bresennol o tua 70%, gan gadw £5.1m ar lefel manteisio o 80%, i roi hyblygrwydd i ymateb i unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn.

2.3.14 Dyrannwyd gwerth £60m o gyllid cyfalaf (£25m yn 2021-22 a £35m yn 2022-23) i awdurdodau lleol i'w fuddsoddi mewn gwelliannau i gyfleusterau arlwyo ysgolion, gan gynnwys prynu cyfarpar, uwchraddio cyfleusterau cegin presennol, a diweddaru systemau digidol. Rhagwelwn y bydd y cyllid hwn yn ddigon i'r mwyafrif o awdurdodau lleol, ac er nad oes unrhyw gyllid cyfalaf wedi cael ei glustnodi ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant

Ysgolion Cynradd yn 2023-24 na 2024-25, byddwn yn parhau i adolygu cynigion yn ôl yr angen fesul achos, gan ddyrannu cyllid drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

2.3.15 Mae awdurdodau lleol yn parhau i gyflwyno'r cynnig, ac mae pob un ohonynt ar y trywydd cywir i'w gyflwyno erbyn diwedd y Cytundeb Cydweithio. Ers dechrau'r flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi 2023:

- mae 13 o awdurdodau lleol wrthi'n ei gyflwyno i bob grŵp oedran ysgol gynradd;
- mae chwe awdurdod lleol wedi'i gyflwyno hyd at Flwyddyn 4, a disgwylir iddo gael ei gyflwyno i Flynyddoedd 5 a 6 ym mis Ebrill 2024;
- mae'r tri awdurdod lleol sy'n weddill wedi ei gyflwyno hyd at Flwyddyn 3, a disgwylir iddo gael ei gyflwyno i'r grwpiau blwyddyn eraill o fis Ebrill 2024 ymlaen.

2.3.16 O ganlyniad i gyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd, mae mwy na 145,000 o blant ysgol gynradd bellach yn gymwys am brydau ysgol a, ddim ac yn cael cynnig o leiaf un pryd maethlon yn ystod y diwrnod ysgol. Mae mwy nag 11 miliwn o brydau ychwanegol wedi cael eu gweini ers mis Medi 2022.

***Dadansoddiad pellach o'r cyllid a ddarparwyd i awdurdodau lleol yn 2023-24 ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd, a'r cyllid ar gyfer 2024-25 os yw'n hysbys.***

2.3.17 Cyfrifwyd y dyraniadau refeniw a wnaed i bob awdurdod lleol yn 2023-24 ar sail y canlynol:

- Cyfradd uned benodol fesul pryd;
- Cyfradd weini o 86% ymysg dysgwyr cymwys newydd yn ôl cynlluniau cyflwyno pob awdurdod lleol (mae'r cyfrifiadau yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng pob disgybl ar CYBLD 2022, llai'r rheini sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim o dan feini prawf sy'n gysylltiedig ag incwm/budd-daliadau neu drwy drefniadau Amddiffyn wrth Bontio, sy'n cynrychioli'r broses ehangu ddisgwyliedig);
- Ffi i gwmpasu'r costau gweinyddol ychwanegol yr aed iddynt.

2.3.18 Mae'r grant yn seiliedig ar alw ac mae awdurdodau lleol yn paratoi hawliadau misol ar niferoedd gwirioneddol y prydau a weinwyd. Caiff unrhyw amrywiadau sy'n fwy neu'n llai na 86% o brydau wedi'u gweini eu haddasu o fewn y taliadau a wnaed.

2.3.19 Nodir dyraniadau refeniw awdurdodau lleol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 yn **Atodiad F**. Nid yw'r dyraniadau refeniw ar gyfer 2024-25 ar gael eto a byddant yn cael eu llywio gan y broses gynllunio yn y flwyddyn newydd, mewn partneriaeth â chynlluniau cyflwyno lleol awdurdodau lleol.

***Unrhyw gyllid arall o fewn MEG y Gymraeg ac Addysg ar gyfer mentrau i fynd i'r afael â chostau byw a'r cysylltiad negyddol rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad, er enghraifft rhaglen gwella gwyliau'r haf/haf o hwyl/prosiectau bwyd a hwyl.***

2.3.20 Rydym wedi cynnal cyllid i gefnogi Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf ar £4.85m ar gyfer 2024-25, ac mae cyllid wedi'i ddyrannu o Linell Wariant yn y Gyllideb Bwyd a Maeth mewn Ysgolion. Mae hyn yn unol â'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer 2023-24, pan gynhaliwyd 175 o gynlluniau yn ystod haf 2023, gan gynnig 11,100 o leoedd bob dydd i ddysgwyr mewn ardaloedd o anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys cymorth un i un a chymorth ar gyfer ADY. Yn ogystal â hynny, eleni, mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, cynigiodd y mwyafrif o awdurdodau lleol fag bwyd (yn cynnwys nwyddau pantri) er mwyn i ddysgwyr a fynychodd y cynlluniau fynd â nhw gartref.

2.3.21 Mae gwerthusiad diweddar wedi dangos bod y Rhaglen wedi cyflawni ei nod i gefnogi ymgysylltu ag ysgolion ac uchelgeisiau yn 2022, a bod effeithiau cadarnhaol wedi'u gweld ar weithgarwch corfforol, deiet a llesiant emosiynol plant yn ystod gwyliau'r haf.

2.3.22 Rydym yn parhau i gynnal ein cynllun Llaeth Ysgol. I'r rheini sy'n dewis bod yn rhan o'r cynllun, mae Llywodraeth Cymru yn darparu llaeth am ddim ar gyfer y blynyddoedd sylfaen a llaeth am bris gostyngol i'r rheini yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae hyn yn sicrhau gwydraid o laeth am ddim i ddisgyblion yn y dosbarth derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2, ac am bris gostyngol i ddisgyblion ym mlynyddoedd 3-6, bob dydd. Er bod y gyllideb llaeth ysgol wedi'i lleihau £0.2m yn 2024-25 fel rhan o'r ymarfer ailfaenoriaethu (i £3m), mae'r gyllideb yn seiliedig ar alw ac ar gael o hyd i bob ysgol yng Nghymru sy'n dymuno cymryd rhan.

2.3.23 Rydym yn cynnal ein hymrwymiad i gynnig brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd ac yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar y ddarpariaeth hon. Dyrennir cyllid ar gyfer y cynllun Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd drwy'r Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol.

## 2.4 Y gweithlu addysg

***Manylion dyraniadau'r gyllideb i ariannu Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) a chyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon presennol, gan gynnwys yng ngoleuni'r diwygiadau addysg parhaus.***

<u>Addysg Gychwynnol i Athrawon</u>

2.4.1 Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon yn cynnwys cyllid penodol i gefnogi AGA fel a ganlyn:

- £2.85m i gynnig y ‘llwybrau AGA amgen’, sef y rhaglen TAR ran-amser a'r rhaglen TAR gyflogedig sydd, ochr yn ochr â'r rhaglen TAR lawnamser, yn ffurfio ein cyfres o lwybrau o ansawdd uchel i addysgu yng Nghymru. Bwriedir i'r llwybrau TAR amgen ehangu cyfranogiad yn y gweithlu addysgu a chefnogi ysgolion i gynyddu eu gweithlu addysgu eu hunain o'u cymuned leol. Mae ehangu a chefnogi'r llwybrau AGA amgen yn ymrwymiadau o dan gynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg a chynllun Cymru Wrth-hiliol. Bydd y ddwy raglen yn parhau i fod ar gael ym mlynyddoedd academaidd 2024/25 a 2025/26. Mae'r gyllideb wedi'i lleihau £0.5m ar gyfer 2024-25 fel rhan o'r ymarfer ailflaenoriaethu ac mae hyn yn seiliedig ar nifer rhagamcanol yr ymgeiswyr. Mae'r cyllid yn darparu grantiau, sy'n cynnwys grantiau hyfforddi i fyfyrwyr a grantiau cyfraniad cyflog i ysgolion sy'n cefnogi myfyriwr AGA ar y TAR cyflogedig, sef cymhwyster AGA seiliedig ar gyflogaeth Cymru. Mae'r rhaglen ran-amser a'r rhaglen gyflogedig yn paratoi athrawon ar gyfer y gweithlu mewn pynciau cynradd neu uwchradd â blaenoriaeth (Gwyddoniaeth, Mathemateg, Saesneg, Cymraeg, Dylunio a Thechnoleg, a Chyfrifiadura). Mae'r gyllideb yn seiliedig ar alw ac mae'r gwariant yn dibynnu'n fawr ar lefelau recriwtio i'r rhaglen.

- Tua £2.72m i barhau i gynnig cynlluniau cymhelliant ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol y bwriedir iddynt helpu i recriwtio i'r proffesiwn drwy AGA. Mae'r gyllideb yn seiliedig ar alw ac yn dibynnu'n fawr ar lefelau recriwtio i'r rhaglenni TAR llawnamser a rhan-amser. Mae'r gyllideb hon wedi'i lleihau £0.3m ar gyfer 2024-25 fel rhan o'r ymarfer ailflaenoriaethu yn seiliedig ar nifer rhagamcanol yr ymgeiswyr. Gwneir taliadau'r ddau gynllun ar adegau penodol yn ystod y rhaglen TAR

ac yn ystod gyrfa gynnar yr athro. Bydd gan ymgeiswyr nifer o flynyddoedd i hawlio'r rhandaliad olaf. Felly, bydd dyraniad cyllideb bob blwyddyn yn cwmpasu nifer o garfannau hyd at eu priod ddyddiadau cau. Bydd y dyraniad a'r gwariant terfynol yn amrywio yn dibynnu ar y galw yn ystod y flwyddyn flaenorol.

- Tua £0.745m ar gyfer cynllun cymhelliant cyfrwng Cymraeg Iaith Athrawon Yfory, sydd wedi'i anelu at athrawon dan hyfforddiant sy'n paratoi i addysgu pynciau uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg, neu'r Gymraeg fel pwnc. Mae'r gyllideb yn seiliedig ar alw ac yn dibynnu'n fawr ar lefelau recriwtio i'r rhaglenni TAR llawnamser a rhan-amser. Gwneir taliadau'r cynllun cymhelliant ar ddwy adeg benodol yn ystod gyrfa gynnar yr athro (ar ôl ennill statws athro cymwysedig ac ar ôl cwblhau rhaglen sefydlu statudol) a bydd gan ymgeiswyr nifer o flynyddoedd i hawlio pob rhandaliad. Felly, mae dyraniad cyllideb bob blwyddyn yn cwmpasu nifer o garfanu hyd at eu priod ddyddiadau cau, a bydd y dyraniad a'r gwariant terfyno yn dibynnu ar y galw yn ystod y flwyddyn flaenorol.

- Bydd £0.160m pellach yn parhau i fod ar gael yn 2024-25 i gefnogi costau sy'n gysylltiedig â datblygu polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn parhau i gefnogi diwygiadau Llywodraeth Cymru i AGA. Cynigir y dylid defnyddio'r cyllid hwn i helpu i recriwtio athrawon dan hyfforddiant Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn barhaus i AGA, yn ogystal â chefnogi digwyddiadau i aeddfedu ac ategu ein Partneriaethau AGA.

- Caiff hyd at £0.250m ei ddyrannu unwaith eto yn 2024-25 i barhau â'r ymgyrch cyfathrebu a marchnata ar gyfer Addysgu Cymru.

<u>Dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu</u>

2.4.2 Rydym am i bob ymarferydd gael cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel er mwyn ei alluogi i sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb. Bydd yr Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022, yn chwarae rôl allweddol ar ein taith i gyflawni hyn. Mae'r Hawl yn nodi'r modd y bydd datblygiad parhaus ymarferwyr yn helpu'r ysgolion neu'r lleoliadau y maent yn gweithio ynddynt a'u dysgwyr i wireddu pedwar diben Cwricwlwm i Gymru, gan gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ac ymgorffori tegwch, llesiant a'r Gymraeg ym mhob rhan o'r gymuned ysgol gyfan.

2.4.3 Yn 2024-25, byddwn yn dyrannu tua £35.5m er mwyn helpu i ddatblygu a chynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol. Mae hyn yn cynrychioli lleihad o tua £0.3m o gymharu â'r £36m a ddyrannwyd yn 2023-24. Mae'r arbediad hwn yn cael ei wneud erbyn cyflawni'r Radd Meistr Genedlaethol mewn Addysg gan ei bod yn rhaglen seiliedig ar alw ac, felly, mae'r amcanestyniadau yn seiliedig ar dueddiadau o ran nifer yr ymgeiswyr.

2.4.2 Mae tua £21.4m yn cael ei drosglwyddo i linyn Diwygio newydd Grant Addysg Awdurdodau Lleol, a bwriedir i £12m o gyfanswm y cyllid gael ei ddyrannu'n uniongyrchol i ysgolion. Mae'r £9m sy'n weddill yn cael ei ddyrannu i raglenni dysgu proffesiynol, gan gynnwys rhaglenni cynorthwywyr addysgu, arweinyddiaeth a'r Cwricwlwm i Gymru. Caiff £2.57m pellach ei drosglwyddo i linyn Cymraeg 2050 newydd Grant Addysg Awdurdodau Lleol er mwyn cefnogi dysgu proffesiynol Cymraeg a chyfrwng Cymraeg.

2.4.3 Caiff gweddill cyfanswm y cyllid dysgu proffesiynol, sef tua £11.5m, ei ddyrannu drwy wahanol lwybrau, gan gynnwys yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol

a phrifysgolion er mwyn cefnogi nifer o flaenoriaethau a galluogi pob ymarferydd, gan gynnwys athrawon, athrawon cyflenwi, cynorthwywyr addysgu ac arweinwyr i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol.

***Gwybodaeth am y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Gyngor y Gweithlu Addysg.***

2.4.4 Bwriedir i werth £7.726 o gyllid grant gael ei ddyrannu i Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn 2024-25 (o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon) i gefnogi'r gweithgareddau canlynol:

- Gweinyddu Statws Athro Cymwysedig (SAC) a chyhoeddi hysbysiadau yn ei gylch;
- Apeliadau sefydlu ac ardystio;
- Gweinyddu'r rhaglen sefydlu ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso;
- Cynnal a datblygu'r Pasbort Dysgu Proffesiynol;
- Cynnal a datblygu gwefan Addysgwyr Cymru;
- Ysgrifenyddiaeth i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru.

2.4.5 Mae hyn yn lleihad o ychydig dros £1.2m o gymharu â chyfanswm ei gyllideb adnoddau, sef £9.031m yn 2023-24 ac mae'n ymwneud yn bennaf â dileu cyfraniad Llywodraeth Cymru o £1m i sybsideiddio ffioedd cofrestru. Gofynnir i CGA barhau i gasglu ffioedd cofrestru ar yr un sail ar y cyfraddau wedi'u sybsideiddio, a thrwy wneud hynny ni fydd y lleihad yn effeithio ar y ffioedd a delir gan athrawon na gweithwyr addysg proffesiynol eraill.

***Manylion am unrhyw ddarpariaeth gyllidebol i dalu costau'r dyfarniad cyflog athrawon ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24, gan gynnwys dadansoddiad rhwng blynyddoedd ariannol 2023-24 a 2024-25 a'r priod systemau dan sylw (boed yn grant uniongyrchol neu'n ddarpariaeth wedi'i hymgorffori yn y setliad llywodraeth leol).***

2.4.6 Mae'r cynnydd o 5% ar draws yr holl bwyntiau ar y raddfa i athrawon a lwfansau o fis Medi 2023 yn gyfystyr â chynnydd amcangyfrifedig o £46.5 miliwn i'r bil cyflogau cyffredinol yn 2023-24 (o fis Medi 2023 i fis Mawrth 2024) a £79.7 miliwn ar gyfer effaith y flwyddyn lawn yn 2024-25.

2.4.7 Er nad yw'r cyllid a ddarperir drwy'r setliad llywodraeth leol wedi'i neilltuo ac mai mater i bob awdurdod lleol yw pennu ei flaenoriaethau ei hun, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol penodol tuag at elfennau Blwyddyn 1 y dyfarniad cyflog, ond nid oes unrhyw gyllid ychwanegol penodol wedi'i ddarparu ar gyfer elfennau Blwyddyn 2 y dyfarniad cyflog, h.y. y cynnydd o 5% o fis Medi 2023 ar gyfer y cynnydd sylfaenol parhaus mewn costau. Disgwylir yn rhesymol y byddai elfen blwyddyn academaidd 2023/24 y dyfarniad cyflog, a'r effaith ariannol gysylltiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24, yn cael ei hariannu o fewn y setliad llywodraeth leol presennol. Yn 2023-24, cafodd awdurdodau lleol £5.5bn gan Lywodraeth Cymru drwy gyllid refeniw craidd ac ardrethi annomestig i'w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o 7.9% neu £403 miliwn ar sail gyfatebol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (cynnydd o £412m mewn arian parod), ac ni chafodd yr un awdurdod lleol gynnydd o lai na 6.5%. Fel y nodwyd, mae'r cynnydd arfaethedig o 3.1% i'r setliad wedi'i ddiogelu ar gyfer 2024-25.

***Gwybodaeth am unrhyw gyllid i gefnogi polisi ynghylch y gweithlu athrawon cyflenwi.***

2.4.8 Ym mis Awst 2022, cytunais ar gynlluniau i ddiwygio cyflog, amodau a chyflogaeth athrawon cyflenwi, er mwy cyflawni ymrwymiadau a nodwyd o dan y Rhaglen Lywodraethu

a'r Cytundeb Cydweithio. Fel rhan o'r diwygiadau, mae fframwaith asiantaethau cyflenwi diwygiedig wedi'i gaffael, a daeth y contractau i rym ym mis Medi 2023. Hefyd, mae llwyfan archebu newydd wedi'i gaffael ac wrthi'n cael ei gyflwyno.

2.4.9 Bydd cost rhoi'r llwyfan archebu ar waith a'i weithredu yn dibynnu ar ddefnydd awdurdodau lleol ac ysgolion ohono. Bydd y costau ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 yn dibynnu ar gyflwyno a gweithredu'r model yn seiliedig ar drafodaethau ag awdurdodau lleol (amcangyfrifir y byddant rhwng £0.5m a £1.05m ym mhob blwyddyn ariannol). Nid oes unrhyw ddarpariaeth benodol yn y gyllideb o fewn MEG y Gymraeg ac Addysg ac, felly, mae'r costau hyn yn gosod ymrwymiad ychwanegol ar Linell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon.

## 2.5 Diwygio'r Cwricwlwm

***Gwybodaeth am gyllid i gefnogi'r broses o roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith, gan gynnwys cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu.***

2.5.1 Er mwn cefnogi'r broses barhaus o roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith, gan gynnwys ein pwyslais ar gefnogi cynnydd dysgwyr ac annog ysgolion i weithio mewn clwstwr, rydym yn parhau i flaenoriaethu ein buddsoddiad mewn ysgolion a lleoliadau. Fel y nodwyd yng nghyllideb y llynedd ar gyfer 2024-25, rydym yn cynnal y buddsoddiad ychwanegol hwn o £1.66m ar gyfer ysgolion yn 2024-25 i gefnogi'r gwaith hwn, gan adlewyrchu effeithiau parhaus y pandemig ar gynnydd dysgwyr. Ochr yn ochr â hyn, ac fel y nodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol ar y Cwricwlwm, a gyhoeddwyd ar 5 Gorffennaf, dyrennir llai o gyllid sylfaenol i ysgolion i'w helpu i roi'r cwricwlwm ar waith yn 2024-25 yn unol â'r costau gweithredu a ragwelir wrth i'r cwricwlwm gael ei gyflwyno mewn ysgolion a lleoliadau.

2.5.2 Bydd y cyllid i gefnogi'r cwricwlwm, sef ychydig yn llai na £11m, yn rhan o linyn Diwygio newydd Grant Addysg Awdurdodau Lleol o 2024-25. Bydd llinyn Diwygio Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn cyfeirio £54.3m ar draws y diwygiadau i'r Cwricwlwm a'r diwygiadau ADY, gan adlewyrchu ein blaenoriaeth i helpu ysgolion a lleoliadau i roi'r diwygiadau hyn ar waith. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm ein darpariaeth arfaethedig y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol ar gyfer rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith ar draws y gyllideb, sy'n cynnwys cyllid i ysgolion, oddeutu £31m yn 2024-25 (yn amodol ar y dyraniadau cyllid terfynol).

2.5.3 Erys y cyllid hwn yn hanfodol er mwyn helpu i sicrhau y caiff ein cwricwlwm gweddnewidiol ei gyflwyno'n llwyddiannus drwy gefnogi'r broses barhaus o ymgysylltu ag ymarferwyr, ysgolion a lleoliadau wrth iddynt ddiwygio eu cwricwlwm, Cymwysterau, Cymru, a'r broses barhaus o ddatblygu adnoddau dwyieithog cysylltiedig.

2.5.4 Ceir rhagor o fanylion am gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu yn adran 2.4 (y gweithlu addysg).

## 2.6 Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc

***Y ddarpariaeth gyllidebol o MEG y Gymraeg ac Addysg yn 2024-25 ar gyfer dull system/ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl.***

2.6.1 Y gyllideb sylfaenol ddangosol hon ar gyfer y dull ysgol gyfan oedd £13.6m ar gyfer 2024-25 (£7m o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a £6.6m o MEG y Gymraeg ac Addysg). Mae hyn yn cymharu â gwaelodlin gychwynnol o £12.4m ar gyfer 2023-24 (£7m o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a £5.4m o MEG y Gymraeg ac Addysg).

2.6.2 Fel rhan o'n cynlluniau cyfuno grantiau, disgwylir i'r cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer y dull system gyfan, sef £4.75m ar gyfer 2024-25, gael ei drosglwyddo i'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol cyfunedig newydd. Mae hyn yn cynnwys y cyllid a ddyrannwyd i awdurdodau lleol yn 2023-24 (£2.1m ar gyfer cwnsela mewn ysgolion, £1.1m ar gyfer darpariaeth awdurdodau lleol (hyfforddiant ac ymyriadau) a £350k ar gyfer darpariaeth UCD awdurdodau lleol) yn ogystal â'r cynnydd arfaethedig o £1.2m mewn cyllid ar gyfer 2024-25 i gefnogi'r broses o ehangu cymorth cwnsela mewn ysgolion a darparu hyfforddiant ac ymyriadau sy'n gysylltiedig â llesiant mewn ysgolion drwy awdurdodau lleol.

2.6.3 Mae'r cyllid yn cefnogi amrywiaeth o weithgarwch yn unol â gofynion y canllawiau ar Fframwaith statudol y Dull Ysgol Gyfan, a gyhoeddwyd yn 2021, iechyd meddwl yn gyffredinol ac ymrwymiadau penodol mewn perthynas â chefnogi cwnsela mewn ysgolion ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Bydd y cyllid sy'n weddill nad yw'n trosglwyddo i Grant Addysg Awdurdodau Lleol (£1.85m) yn cefnogi amrywiaeth o weithgarwch a gwaith yn y trydydd sector, datblygu adnoddau ac ymchwil a gwerthuso.

2.6.4 Ein blaenoriaeth yw cynnal y cymorth ar gyfer ymyriadau uniongyrchol awdurdodau lleol mewn ysgolion i blant a phobl ifanc a staff. Wrth bennu meini prawf ar gyfer grantiau newydd, byddwn yn ceisio sicrhau y caiff llesiant ei gydnabod fel blaenoriaeth sy'n sail i bob agwedd ar ddysgu, a'i fod yn fuddsoddiad i arbed, oherwydd gwyddom y gall atal, nodi'n gynnar a darparu cymorth sicrhau nad yw problemau'n gwaethygu i'r graddau bod angen cymorth dwys yn ddiweddarach mewn bywyd.

***Manylion am gyllid gan y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ategu gwaith mewn ysgolion yn y maes hwn.***

2.6.5 Mae gwerth £7m o gyllid yn cael ei gynnal ar gyfer y dull ysgol gyfan o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau ar gyfer 2024-25, gan gydnabod natur drawsbynciol y gwaith hwn a phwysleisio ein hymrwymiad i fynd ar drywydd yr agenda hon. Bydd y cyllid hwn, ynghyd â'r cyllid yn MEG y Gymraeg ac Addysg, yn sicrhau y gallwn gefnogi anghenion llesiant, o feithrin gwydnwch i ddarparu ymyriadau mwy penodol ar gyfer dysgwyr er mwyn sicrhau y gellir diwallu eu hanghenion heb gynnwys gwasanaethau arbenigol, gan arwain at arbedion ac arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y gwasanaethau hynny.

2.6.6 Yn 2023-24, rydym wedi darparu dros £5.3m i fyrddau iechyd er mwyn cefnogi gwasanaeth mewngymorth i ysgolion cenedlaethol CAMHS. Mae'r gwasanaeth yn darparu ymarferwyr iechyd meddwl penodol mewn ysgolion sy'n cynnig trafodaeth, cyswllt, cyngor a hyfforddiant i athrawon a staff eraill mewn ysgolion, gyda'r nod o sicrhau y caiff unrhyw anghenion eu nodi'n gynnar ac y darperir cymorth priodol ac amserol. Bydd lefel debyg o gyllid ar gael er mwyn cynnal y gwasanaeth yn 2024-25. Caiff gweddill y cyllid ei ddefnyddio i roi fframwaith statudol y dull ysgol gyfan ar waith ac ategu'r cyllid a ddarperir drwy MEG y Gymraeg ac addysg.

***Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth gyllidebol i gefnogi iechyd emosiynol ac iechyd meddwl pobl ifanc mewn addysg ôl-16.***

2.6.7 Ers 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros £20m i gefnogi iechyd meddwl a llesiant dysgwyr a staff mewn addysg bellach. Mae hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol yn ystod ac yn dilyn pandemig COVID-19, er mwyn adlewyrchu effaith y pandemig ar iechyd meddwl pobl ifanc ac oedolion.

2.6.8 Yn 2023/24, dyrennir cyfanswm o £4m o gyllid i'r sector addysg bellach ar gyfer iechyd meddwl a llesiant. Caiff y mwyafrif ohono ei ddyrannu'n uniongyrchol i sefydliadau ar gyfer cymorth rheng flaen, sy'n cynnwys cynghorwyr a staff arbenigol eraill sy'n cefnogi llesiant. Mae hefyd yn cynnwys buddsoddiad mewn prosiectau cydweithredol a chenedlaethol a gynlluniwyd er budd y sector addysg bellach cyfan.

2.6.9 Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, sy'n helpu cydweithwyr i ddatblygu ac ymgorffori arferion sy'n ystyriol o drawma. Ymhlith mentrau eraill mae ymchwil i gefnogi gofalwyr ifanc mewn addysg bellach, a chyflwyno cynrychiolwyr llesiant staff ym mhob coleg yng Nghymru, gan weithio gyda Chyd-undebau Llafur.

2.6.10 O 1 Ebrill 2024, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil fydd yn gyfrifol am gyllid ar gyfer iechyd meddwl a llesiant mewn addysg bellach. Rydym yn rhagweld y bydd gwaith yn parhau i gefnogi anghenion dysgwyr a staff, gan adeiladu ar yr arferion a ddatblygwyd dros y pedair blynedd diwethaf a'u hymestyn.

***Y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y cynllun gweithredu a'r ymateb ehangach i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr.***

2.6.11 Ar gyfer 2024-25, bydd £0.15m o Linell Wariant yn y Gyllideb Trechu Dadrithiad ar gael i gefnogi ein hymateb parhaus i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr.

## 2.7 Absenoldeb disgyblion

***Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth benodol yn y gyllideb i fynd i'r afael ag absenoldeb disgyblion neu pa linellau yn y gyllideb sy'n cefnogi gwaith o'r fath yn fwy cyffredinol.***

2.7.1 Fel rhan o'r cynlluniau cyfuno grantiau, bydd gwerth o £7.225m o gyllid o Linell Wariant yn y Gymuned Ysgolion Bro ar gyfer Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd (£6.532m) a Rheolwyr Ysgolion Bro (£0.693m) yn trosglwyddo i linyn Tegwch y Grant Addysg Awdurdodau Lleol newydd (Llinell Wariant yn y Gyllideb Tegwch mewn Addysg). Gwelwyd bod ymgysylltu'n fwy â theuluoedd yn cael effaith gadarnhaol o ran gwella presenoldeb mewn ysgolion.

2.7.2 Bydd gwerth £2.5m o gyllid hefyd yn trosglwyddo o Linell Wariant yn y Gyllideb Trechu Dadrithiad i linyn Tegwch Grant Addysg Awdurdodau Lleol, er mwyn i awdurdodau lleol gynnal eu lefel bresennol o Swyddogion Lles Addysg. Mae cynnal y cyllid hwn ar yr un lefel â'r hyn a ddarparwyd yn 2023-24 yn galluogi'r gwasanaeth Lles i ddarparu cymorth yn gynnar a chanolbwyntio ar fesurau ataliol cyn i bresenoldeb ddod yn broblem. Mae hefyd yn galluogi'r gwasanaeth i ddarparu cymorth un i un dwysach i'r disgyblion hynny â chyfraddau uchel o absenoldeb.

2.7.3 Bydd gwerth £2.5m o gyllid o Linell Wariant yn y Gyllideb Trechu Dadrithiad yn cefnogi prosiectau a all godi o ganlyniad i'r Tasglu Presenoldeb. Sefydlwyd y Tasglu er mwyn pennu

blaenoriaethau, nodi camau gweithredu diriaethol pellach, ysgogi gwelliannau i gyfraddau presenoldeb ac ailennyn diddordeb dysgwyr.

## 2.8 Chwaraeon a gweithgarwch corfforol

***Gwybodaeth am y modd y mae MEG y Gymraeg ac Addysg yn helpu i ddarparu chwaraeon a gweithgarwch corfforol i blant a phobl ifanc, yn yr ysgol a'r tu allan iddi, a sut mae hyn yn berthnasol i unrhyw gyllid yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, er enghraifft ar gyfer Pwysau Iach, Cymru Iach.***

2.8.1 Mae swyddogion sy'n gyfrifol am Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn gweithio'n agos ym mhob rhan o'r llywodraeth a chyda phartneriaid allanol i sicrhau y caiff y Maes hwn o'r cwricwlwm ei gefnogi; e.e. gyda chydweithwyr yn y Gangen Chwaraeon; cydweithwyr ym maes iechyd a llesiant sy'n gyfrifol am raglen Pwysau Iach, Cymru Iach; Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Diben hyn yw sicrhau cysondeb â'r Maes newydd hwn o'r cwricwlwm a gwneud y gorau o ddyraniadau'r gyllideb o'r meysydd cysylltiedig y cyfeirir atynt uchod.

2.8.2 Mae ysgolion newydd a ariennir drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn darparu cyfleusterau newydd fel rhan annatod o bob prosiect ysgol newydd, a chaiff addasiadau a gwelliannau hefyd eu hymgorffori drwy brosiectau adnewyddu. Mae Ysgolion Bro yn un o ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu, gyda gwerth £40m o fuddsoddiad cyfalaf dros flynyddoedd ariannol 2023-24 a 2024-25. Bydd y cyllid y canolbwyntio ar waith cyfalaf ar raddfa fach, a bydd yn galluogi cymunedau i ddefnyddio cyfleusterau sy'n bodoli eisoes drwy wella goleuadau allanol (ardaloedd chwaraeon), darparu storfeydd cyfarpar (ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol gan grwpiau cymunedol), addasu ystafelloedd newid a thoiledau, darparu cysgodfannau yn yr awyr agored, a chyflwyno mesurau diogelwch i wahanu ardaloedd penodol a ddefnyddir gan yr ysgol ac ardaloedd a ddefnyddir gan y gymuned er mwyn cefnogi gweithgarwch corfforol i bobl ifanc a'u teuluoedd y tu allan i oriau ysgol.

## 2.9 Cymorth ar gyfer dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr

***Manylion am gyllid i gefnogi addysg dysgwyr o Gefndir Ethnig Leiafrifol, Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn 2024-25 a sut y caiff y cyllid hwn ei ddosbarthu).***

2.9.1 Fel rhan o'r gwaith i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol a chydgrynhoi'r dirwedd grantiau, caiff gwerth £11m o gyllid i gefnogi dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ei drosglwyddo o Linell Wariant yn y Gyllideb y Grant Gwella Addysg i linyn Tegwch Grant Addysg Awdurdodau Lleol (Llinell Wariant yn y Gyllideb Tegwch mewn Addysg) yn 2024-25. Nid oes unrhyw newid i'r gyllideb hon o gymharu â 2023-24.

2.9.2 Yn 2021, yn dilyn argymhellion gan weithgor, cytunodd awdurdodau lleol i newid i ddefnyddio fformiwla ddosbarthu sy'n seiliedig ar nifer y plant sy'n siarad Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn ogystal â nifer y plant a phobl ifanc sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn ôl data cyfunol o'r CYBLD.

2.9.3 Er mwyn lliniaru effaith y newid hwn, ar gyfer 2023-24, mae 75% o'r dyraniadau yn seiliedig ar ddata'r CYBLD diweddaraf a 25% ar gyfran pob awdurdod lleol o'r grant yn 2022-23. Mae

hyn yn llesteirio effaith y newidiadau ariannol ar awdurdodau lleol unigol ac yn sicrhau bod y dull yn symud yn agosach at fod yn seiliedig ar y data diweddaraf.

2.9.4 Er mwyn dosbarthu'r grant yn 2024-25, caiff y Gweithgor ei ailsefydlu ym mis Ionawr 2024 i gytuno ar y cam nesaf tuag at ddefnyddio'r fformiwla ddosbarthu newydd.

**2.10 Anghenion Dysgu Ychwanegol**

***Asesiad diwygiedig o'r pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau wrth gynnig y ddarpariaeth AAA/ADY bresennol, effaith cyllid ychwanegol mewn blynyddoedd blaenorol ac a fydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu yn 2024-25.***

***Gwybodaeth am y cyllid a ddarperir er mwyn rhoi Deddf 2018 ar waith, gan gynnwys asesiad diwygiedig ynghylch a yw'r diwygiadau ADY yn niwtral o ran cost.***

2.10.1 Ar 28 Tachwedd, gwneuthum ddatganiad llafar ar roi'r diwygiadau ADY ar waith. Mae rhoi'r diwygiadau ADY a'r diwygiadau i'r Cwricwlwm yn ystod cyfnod o heriau digynsail wedi bod yn dipyn o dasg. Er bod awdurdodau lleol ac ysgolion yn rhannu'r un brwdfrydedd dros arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae angen amser ac amynedd i bontio o un system i'r llall.

2.10.2 Yn ystod 2023-24, estynnwyd yr amserlenni ar gyfer rhoi'r diwygiadau ar waith o dair i bedair blynedd, er mwyn ymateb i bwysau llwyth gwaith, creu mwy o hyblygrwydd, a diogelu ansawdd arferion, cynlluniau a darpariaeth sy'n diwallu anghenion dysgwyr. Buddsoddwyd £4.5m ychwanegol o 2023-24 er mwyn cynnig mwy o adnoddau mewn ysgolion i roi'r system ADY ar waith ac arwain strategaethau ysgol gyfan i ymgorffori addysg gynhwysol.

2.10.3 Mae'r gyllideb hon yn diogelu gwerth £25.591m o fuddsoddiad yn 2024-25 yn y costau sy'n gysylltiedig â diwygio ADY ac yn parhau i flaenoriaethu'r buddsoddiad hwnnw, ac mae'n hybu adnoddau i gefnogi dysgwyr ag ADY, y telir amdanynt o Linell Wariant yn y Gyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol. Er mwyn helpu i roi'r diwygiadau ADY ar waith yn barhaus, rydym yn parhau i flaenoriaethu ein buddsoddiad mewn ysgolion a lleoliadau, darpariaeth ôl-16 ac awdurdodau lleol yn unol â blynyddoedd blaenorol.

2.10.4 Bydd y £22m a ddarperir i awdurdodau lleol ac ysgolion er mwyn diwygio ADY yn rhan o linyn Diwygio Addysg newydd ein Grant Addysg Awdurdodau Lleol o 2024-25. Bydd y grant yn cyfeirio cyfanswm o £54.3m ar draws y diwygiadau i'r Cwricwlwm a'r diwygiadau ADY, gan adlewyrchu ein blaenoriaeth i helpu ysgolion a lleoliadau i roi'r diwygiadau hyn ar waith (yn amodol ar y dyraniadau cyllid terfynol).

2.10.5 Bydd y £22m o gyllid ADY ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion yn cynnal adnoddau ychwanegol i roi'r system ADY newydd ar waith. Fel y nodwyd yng nghyllideb y llynedd, mae hyn yn cynrychioli hwb parhaus o £4.5m ar gyfer 2024-25. Caiff tua £10m o'r cyllid sy'n trosglwyddo ei ddyrannu i ysgolion a lleoliadau yn 2024-25, gan adlewyrchu'r llwyth gwaith ychwanegol yn ystod y cyfnod pontio o AAA i ADY ar gyfer Cydlynwyr ADY, a gwaith i ymgorffori dull ysgol gyfan o gynllunio ar gyfer dysgwyr ag ADY a diwallu eu hanghenion. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwerth tua £11m o fuddsoddiad ar gyfer awdurdodau lleol i'w galluogi i gynllunio ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ac ymateb iddynt, yn ogystal â helpu i arwain a goruchwylio'r diwygiadau ADY, a'u rhoi ar waith yn lleol.

2.10.6 Erys y cyllid hwn yn hanfodol i gynnal hynt y broses o roi'r diwygiadau ar waith, ymateb i anghenion dysgwyr ag ADY a'u diwallu, a chymryd camau i ymateb i dystiolaeth ac argymhellion a nodwyd yn adolygiad thematig Estyn ar gyfer awdurdodau lleol, ysgolion a Llywodraeth Cymru.

2.10.7 Rydym yn parhau i ariannu hyfforddiant ar gyfer seicolegwyr addysgol newydd, gan sianelu dros £2.6m rhwng 2022-23 a 2024-25. Rhaid i hyfforddeion ymrwymo i dreulio dwy flynedd gyntaf eu gyrfa yn gweithio i awdurdodau lleol yng Nghymru.

2.10.8 O fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Darpariaeth Ôl-16, cynyddwyd cyllid ar gyfer dysgwyr ag ADY yn y sector addysg bellach o £15.525m to £16.871m yn 2023-24. Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddiogelu a'i gynnal ar gyfer 2024-25 er mwyn helpu cydweithwyr i ddarparu cymorth ychwanegol sy'n angenrheidiol er mwyn i ddysgwyr ag ADY lwyddo ar eu dewis raglenni astudio. Yn unol â 2023-24, mae £0.7m ar gael ar gyfer 2024-25 o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb ADY er mwyn helpu pob coleg addysg bellach i roi'r Ddeddf ADY ar waith.

2.10.9 Ar gyfer 2024-25, o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Lleoliadau Arbenigol Ôl-16, rydym yn cynnal £13.9m ar gyfer darpariaeth addysg bellach arbenigol er mwyn ateb y galw presennol ar gyfer dysgwyr ag ADY ac anghenion cymhleth hyd at 25 oed, y mae angen darpariaeth addysg bellach arbenigol arnynt er mwyn iddynt allu manteisio ar addysg bellach a hyfforddiant sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. O fis Medi 2023, caiff dyletswyddau eu trosglwyddo'n raddol i awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a sicrhau lleoliadau ar gyfer pobl ifanc (y rheini ym mlwyddyn 11 ym mlwyddyn ysgol 2022/23 a'r rheini ym mlynyddoedd 11 a 12 ym mlwyddyn ysgol 2023/24) ag ADY mewn sefydliadau ôl-16 arbenigol annibynnol. Erys Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynglŷn ag ariannu lleoliadau ar gyfer pobl ifanc ym Mlwyddyn 13 hyd at 25 oed y mae angen darpariaeth arbenigol arnynt. Caiff cyllid ei drosglwyddo i awdurdodau lleol ym mis Medi 2025.

2.10.10 Bydd y gwerthusiad yn ystyried safbwyntiau o bob rhan o'r system am effeithlonrwydd dyraniadau cyllid ar gyfer ADY. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut mae cyfyngiadau canfyddedig neu wirioneddol ar gyllid yn effeithio ar y gallu i roi'r system ADY ar waith yn llwyddiannus.

## 2.11 Estyn

***Manylion am ddyraniad cyllideb craidd Estyn ar gyfer 2024-25 o'r MEG Cyllid a Llywodraeth Leol a manylion am unrhyw gyllid ychwanegol o MEG y Gymraeg ac Addysg ar gyfer rôl Estyn mewn diwygiadau addysg.***

2.11.1 Mae'r dyraniad cyllideb cyfan ar gyfer Estyn o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Estyn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol yn cael ei gynnal ar £16.343m ar gyfer 2024-25, yn cynnwys adnoddau cyllidol (£15.893m), adnoddau anghyllidol (£0.2m) a chyfalaf (£0.25m).

2.11.2 O ran refeniw, mae hyn yn cynnwys £4.87m a drosglwyddwyd o MEG y Gymraeg ac Addysg fel rhan o Gyllideb Derfynol 2023-24. Diben y cyllid hwn oedd galluogi Estyn i gynnal mwy o arolygiadau er mwyn cwblhau'r cylch cyfredol, ar ôl i arolygiadau gael eu hatal rhwng mis Mawrth 2020 a mis Chwefror 2022. Bwriadwyd i'r cyllid hefyd helpu i ddatblygu gweithgarwch arolygu mwy rheolaidd o fis Medi 2024; ac i gefnogi'r broses o gyfuno dyfarniadau cyflog ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Er ein bod wedi diogelu cyllideb Estyn,

ni fu modd lliniaru effeithiau chwyddiant ar gyfer 2024-25, a byddwn yn gweithio'n agos gydag Estyn i reoli'r effeithiau hyn.

## 2.12 Cymwysterau

***Manylion y cyllid a ddyrannwyd i Cymwysterau Cymru yn 2024-25 a manylion unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer ei waith i ddiwygio cymwysterau yng nghyd-destun y Cwricwlwm newydd i Gymru.***

2.12.1 Mae cyllideb Cymwysterau Cymru ar gyfer 2024-25 yn cael ei chynnal ar yr un lefel â 2023-24, gyda chyfanswm cyllideb o £10.507m (gwerth £10.007m o adnoddau cyllidol, gwerth £0.25m o adnoddau anghyllidol a gwerth £0.25m o gyfalaf).

2.12.2 Mae'r grant blynyddol hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer y diwygiadau parhaus i gymwysterau 14-16 a arweinir gan Cymwysterau Cymru. Bydd y gwaith hwn yn arwain at ddatblygu cyfres newydd o gymwysterau i ddysgwyr (14-16 oed), gan gynnwys TGAU, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru ac yn gyson ag ef.

## 2.13 Addysg cyfrwng Cymraeg

***Manylion am y ddarpariaeth gyllidebol i gefnogi strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol, yn ogystal â rôl y sector addysg i gyflawni targed Cymraeg 2050 i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg.***

2.13.1 Nododd *Cymraeg 2050: Rhaglen Waith 2021 i 2026*, ein cynllun ar gyfer tymor y Senedd hon. Mae gan y sector addysg rôl bwysig i'w chwarae i gyflawni targedau uchelgeisiol *Cymraeg 2050*: dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg a sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg, a Llinellau Gwariant yn y Gyllideb eraill ar draws y MEG, yn cynnwys nifer o gyllidebau sy'n cyfrannu at ein gwaith i gyflawni'r targedau hynny yn y sector addysg.

2.13.2 Fel rhan o'n cynigion ar gyfer cyfuno grantiau addysg cyn-16, caiff cyllid sy'n helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i fodloni amcanion Cymraeg 2050 ei gyfuno yn llinyn Cymraeg 2050 Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Bydd yr elfen hon o gyllid yn hanfodol i gyflwyno'r Bil Addysg Gymraeg sydd ar ddod. Bydd Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg 2050 yn darparu gwerth £9.77m o gyllid drwy Grant Addysg Awdurdodau Lleol, gan gynnwys cyllid ar gyfer y Grant Cymraeg mewn Addysg (Llinell Wariant yn y Gyllideb y Grant Gwella Ysgolion), Dysgu Proffesiynol (Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon), darpariaeth drochi hwyr (Cymraeg mewn Addysg), a'r Siarter Iaith (Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg).

2.13.3 Rhoddodd pob awdurdod lleol yng Nghymru ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd ar waith ym mis Medi 2022 ac mae pob un ohonynt wedi cyflwyno adroddiad adolygu blynyddol ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ym mis Gorffennaf 2023 yn amlinellu'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni eu targedau yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun. Aseswyd adroddiadau adolygu blynyddol a rhoddwyd adborth i bob awdurdod lleol. Er bod y cynnydd yn nifer a chanran y dysgwyr yn amrywio ledled Cymru, mae'r adroddiadau adolygu blynyddol cyntaf yn dangos bod y mwyafrif o'r awdurdodau lleol wedi cymryd camau pendant i osod sylfeini cadarn ar gyfer cynnydd yn ystod cyfnod eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

2.13.4 Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Seilwaith Addysg y MEG yn parhau i ddarparu cyllideb i gynyddu capasiti mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cefnogi darpariaeth drochi hwyr yn ogystal â helpu dysgwyr o bob oedran i wella e sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg. Cyhoeddwyd tua £30m o gyllid ym mis Mawrth 2021 i gefnogi prosiectau cyfalaf penodol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg yn ôl anghenion Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg lleol. Dyma'r ail gyfres o fuddsoddiad drwy'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, a sefydlwyd yn 2018 i gefnogi prosiectau cyfalaf penodol i gefnogi a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg. Ym mis Hydref 2022, cymeradwywyd gwerth £7.1m o gyllid i gefnogi prosiectau cyfalaf addysg cyfrwng Cymraeg a oedd ar y rhestr wrth gefn yn flaenorol drwy'r ail gyfres o gyllid. Yn dilyn adolygiad pellach ym mis Gorffennaf 2023, cytunwyd ar werth £14.5 o gyllid ychwanegol mewn egwyddor yn amodol ar gymeradwyo achos busnes. Bydd y prosiectau hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Ers 2018, buddsoddwyd ychydig yn llai na £129m.

2.13.5 Mae trochi hwyr yn parhau i chwarae rhan bwysig yn ein gwaith i gynyddu canran y dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae gwerth £2.2m o gyllid wedi'i gynnal fel y nodwyd a bydd yn trosglwyddo o Linell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg i linyn Cymraeg 2050 Grant Addysg Awdurdodau Lleol.

2.13.6 Yn 2024-25, byddwn yn parhau i ddarparu gwerth £3m o gyllid i Mudiad Meithrin er mwyn ehangu a chryfhau'r ddarpariaeth hon. Bydd cyllid hefyd yn parhau i'w galluogi i gynnal rhaglen Sefydlu a Symud, sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar mewn ardaloedd o Gymru lle mae diffyg gwasanaethau o'r fath fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

***Gwybodaeth am gyllid a ddyrannwyd i wella'r gweithlu Cymraeg mewn addysg.***

2.13.7 Mae cyllid ar gael o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon i gefnogi'r broses o roi *Cynllun 10 mlynedd y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg* ar waith. Cyfanswm y cyllid sydd ar gael yn 2024-25 yw £8.15m, a chaiff £2.57m pellach ei drosglwyddo i Linell Wariant yn y Gyllideb newydd Cymraeg 2050 (Grant Addysg Awdurdodau Lleol.

2.13.8 Caiff tua £4.3m ei flaenoriaethu i gefnogi nodau'r cynllun, a chaiff ei dargedu'n bennaf at gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg. Caiff cyllid ei flaenoriaethu ar gyfer y gweithgareddau canlynol:

- Cynnal y rhaglen drochi o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
- Parhau i ddarparu'r grantiau i ysgolion ddatblygu atebion arloesol i fynd i'r afael â phrinder athrawon.
- Cyllid i gefnogi hyfywedd darpariaeth Safon Uwch Cymraeg mewn ysgolion a cholegau addysg bellach.
- Ail flwyddyn y bwrsari cadw athrawon.
- Cyllid ar gyfer CYDAG i gefnogi cydweithio rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn nifer o feysydd polisi.

2.13.9 Bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn parhau i ddyrannu £0.150m o'i grant (Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg) yn 2024-25 i ddatblygu dau brosiect penodol;

- treialu ysgoloriaeth ariannol a chymorth mentora i ddysgwyr israddedig er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer AGA drwy gyfrwng y Gymraeg;
- datblygu rhwydweithiau i ymgysylltu â graddedigion sy'n siarad Cymraeg sy'n astudio yn Lloegr a hyrwyddo cyfleoedd iddynt ddychwelyd i Gymru i baratoi i addysgu.

2.13.10 Rydym yn parhau i gynnig cymhellion i athrawon dan hyfforddiant o Gymru sy'n ymgymryd ag AGA, ac rydym wedi cynnal cymhelliant Iaith Athrawon Yfory, sy'n cynnig £5,000 i bob myfyriwr sy'n paratoi i addysgu pynciau uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff hyn ei ariannu o'r gyllideb AGA o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon (gweler adran 2.4).

2.13.11 Mae dysgu proffesiynol yn un o nodweddion allweddol ein dull i atgyfnerthu capasiti addysgu cyfrwng Cymraeg a chefnogi ymarferwyr i feithrin eu sgiliau Cymraeg yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau y caiff ymarferwyr eu nodi a'u cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn gwella'r broses o addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chefnogi pob ysgol i symud ar hyd y continwwm.

2.13.12 Caiff tua £3.8m ei ddyrannu o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon yn 2024-25 i'r Cynllun Sabothol er mwyn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol dwys ar fethodoleg addysgu Cymraeg ac iaith i ymarferwyr. Mae cyrsiau ar gael ar amrywiaeth o lefelau ar gyfer cynorthwywyr addysgu ac athrawon. Mae'r mwyafrif o'r gyllideb hon yn ariannu'r costau cyflenwi sy'n gysylltiedig â rhyddhau ymarferwyr o ysgolion i ymgymryd â chyrsiau. Mae'r gyllideb hon wedi cynyddu ar gyfer 2024-25 er mwyn ystyried costau uwch staff cyflenwi i alluogi ymarferwyr i ymgymryd â'r cyrsiau.

2.13.13 Mae'r cyllid a ddyrennir i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd yn cynnig gwersi Cymraeg am ddim i bob ymarferydd addysg. Lansiwyd gwefan newydd ym mis Gorffennaf 2022 i ddarparu gwybodaeth i ymarferwyr am y ddarpariaeth sydd ar gael iddynt drwy'r Cynllun Sabothol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol [Gweithlu Addysg | Dysgu Cymraeg](). Yn ystod 2024-25, bydd y Ganolfan yn datblygu darpariaeth bwrpasol newydd i ddiwallu anghenion y sector. Er enghraifft, caiff cwrs peilot ar gyfer athrawon uwchradd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg â rhywfaint o Gymraeg ei ddatblygu i'w gyflwyno'n hyblyg, ynghyd â chwrs hyder / 'gloywi' ar-lein byr i'r rheini sy'n addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau. Caiff £0.5m ei ddyrannu o Linell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon yn 2024-25 i gefnogi'r gwaith hwn.

2.13.14 Yn ogystal â'r Cynllun Sabothol a'r ddarpariaeth drwy'r Ganolfan Genedlaethol, caiff cyfanswm o £2.57m ei ddyrannu i awdurdodau lleol fel rhan o linyn cyfun Cymraeg 2050 Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn 2024-25 er mwyn helpu i ddarparu cymorth ar gyfer addysgu Cymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Defnyddir y cyllid mewn modd cydweithredol i gefnogi'r broses o ddatblygu darpariaeth ac adnoddau dysgu proffesiynol cenedlaethol, er enghraifft er mwyn helpu ymarferwyr sydd wedi cwblhau cyrsiau'r cynllun sabothol i ddefnyddio eu sgiliau newydd yn ôl yn yr ysgol; helpu cynorthwywyr addysgu i fodelu patrymau iaith i ddysgwyr a helpu penaethiaid i gynllunio'n strategol ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn eu hysgolion.

2.13.15 At hynny, mae £4.5m wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol ar hyn o bryd fel rhan o'r Grant Cymraeg mewn Addysg, a ailsefydlwyd yn 2023-24 yn dilyn trafodaethau ag awdurdodau lleol. Gyda gwerth 30% o arian cyfatebol gan awdurdodau lleol, cyfanswm gwerth y Grant

Cymraeg mewn Addysg yw £5.85m. Mae'r Grant Cymraeg mewn Addysg yn helpu i gyflawni Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol mewn tri maes allweddol:

- cymorth ar gyfer hwyrddyfodiaid a chanolfannau trochi hwyr;
- cymorth ar gyfer cynnydd ieithyddol ac ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog;
- cymorth ar gyfer datblygu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

2.13.16 Bydd y Grant Cymraeg mewn Addysg yn parhau yn 2024-25, wrth i gyllid gael ei drosglwyddo o Linell Wariant yn y Gyllideb y Grant Gwella Ysgolion a chael ei ddyrannu fel rhan o elfen gyfun Cymraeg 2050 Grant Addysg Awdurdodau Lleol.

## 2.14 Addysg a gofal plant y blynyddoedd cynnar

***P'un a wnaeth y trefniadau cyllido a oedd ar waith mewn blynyddoedd blaenorol er mwyn helpu i gysoni cyfraddau cyllido ym maes addysg a gofal plant y blynyddoedd cynnar barhau yn 2023-24, ac a ydynt yn parhau yn 2024-25***

2.14.1 Cytunodd Gweinidogion y dylid darparu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol o fis Ionawr 2021 i'w galluogi i ddyrannu mwy o gyllid i leoliadau meithrin nas cynhelir sy'n darparu addysg gynnar, er mwyn helpu i gysoni â chyfradd gyllido gyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal plant o fewn y Cynnig Gofal Plant. Er mwyn sicrhau dull teg ledled Cymru, gwnaethom gymhwyso fformiwla gyllido sylfaenol.

2.14.2 Yn 2021-22, darparwyd gwerth £3.8m o grantiau (wedi'u hariannu ar y cyd o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a MEG y Gymraeg ac Addysg) i awdurdodau lleol er mwyn helpu i gysoni cyfraddau cyllido mewn lleoliadau nas cynhelir. Yn 2022-23, cynyddwyd cyllid ar gyfer addysg gynnar £1.5m pellach o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn adlewyrchu'r cynnydd yng nghyfradd gyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal plant (o £4.50 i £5) o fewn y Cynnig Gofal Plant. Dyrannwyd trosglwyddiad rheolaidd o £3.4m o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i MEG y Gymraeg ac Addysg yng Nghyllideb Derfynol 2022-23 er mwyn sicrhau cyllid sylfaenol o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Cwricwlwm ac Asesu. Mae'r cymorth wedi parhau yn 2023-24.

2.14.3 Ein bwriad yw y bydd y cymorth yn parhau i gael ei ddarparu yn 2024-25. Darperir cyfanswm o £5.268m er mwyn cynnal y cymorth hwn a fydd, fel rhan o'n cynlluniau cyfuno grantiau, yn trosglwyddo i elfen Safonau Ysgolion (Llinyn Wariant yn y Gyllideb Safonau Ysgolion) Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Byddwn yn parhau i ystyried pwysigrwydd darpariaeth addysg gynnar wrth adolygu cyllid gyfer gofal plant.

***Manylion unrhyw gyllid arall o MEG y Gymraeg ac Addysg i gefnogi darpariaeth y sector nas cynhelir mewn perthynas ag addysg y blynyddoedd cynnar a'r Cwricwlwm i Gymru (gan gydnabod nad yw gofal plant yn rhan o bortffolio'r Gweinidog hwn).***

2.14.4 Nodwyd bod y blynyddoedd cynnar yn grŵp â blaenoriaeth yn ystod y pandemig, ac mae'n parhau felly. Darparwyd cryn adnoddau ychwanegol i gefnogi llesiant, anghenion corfforol ac anghenion dysgu. Mae'r gyllideb Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn parhau i gefnogi carfan y blynyddoedd cynnar yn 2023-24, gan gynnwys £3.75m ar gyfer lleoliadau nas cynhelir. Ar gyfer 2024-25, caiff cyllid ar gyfer Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ei gyfuno yng Ngrant Addysg Awdurdodau Lleol a bydd lleoliadau yn cael budd o gyllid parhaus drwy'r system gyllido newydd hon.

2.14.5 Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau ambarél gofal plant cenedlaethol – Blynyddoedd Cynnar Cymru, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd a PACEY Cymru – er mwyn helpu i ddarparu addysg gynnar mewn lleoliadau gofal plant. Yn 2023-24, darparwyd gwerth £375k o gymorth ariannol er mwyn gwella gwaith y sefydliadau hyn wrth gefnogi ein dysgwyr ieuengaf, ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd y gwaith hwn i gefnogi'r broses o roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith yn 2024-25. Yn benodol, rydym yn sicrhau ein bod yn ymgorffori arferion ac addysgeg dysgu sylfaenol er mwyn gwella'r ddarpariaeth.

## 2.15 Gwaith ieuenctid

***Manylion am y ffordd y mae MEG y Gymraeg ac Addysg 2024-25 yn cefnogi gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol a'r ddarpariaeth gyllidebol i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas ag atgyfnerthu gwasanaethau ieuenctid.***

2.15.1 O ganlyniad i'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2022-23 a 2024-25, cynyddwyd gwaelodlin ddangosol Llinell Wariant yn y Gyllideb Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid i £12.376m yn 2024-25 (cynnydd o £4.92m o gymharu â 2021-22). Yn unol â blynyddoedd blaenorol, disgwylir i £3.7m pellach gael ei drosglwyddo o'r MEG Newid Hinsawdd yng nghyllideb atodol 2024-25 er mwyn cynyddu cyfanswm y gyllideb i £16.076m yn 2024-25.

2.15.2 Fel rhan o'r ymarfer ail-gwmpasu trawslywodraethol (y cyfeirir ato ym mharagraff 1.1.3), nodwyd gwerth £1m o arbedion ar gyfer 2024-25, gan arwain at ddyraniad diwygiedig o £15.076m (pan fydd y £3.7m wedi'i drosglwyddo o'r MEG Newid Hinsawdd). Mae'r arbediad hwn yn adlewyrchu'r gweithgareddau a gynlluniwyd i ddatblygu a mynd ar drywydd argymhellion y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, sydd â'r nof o ddatblygu model cyflawni cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.

2.15.3 Bydd y dyraniad diwygiedig hwn yn diogelu cyllid ar gyfer grantiau er mwyn cefnogi a datblygu gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol yng Nghymru, gan gynnwys cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid a chyllid i sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol drwy'r Grant Cefnogi Sefydliadau Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol.

2.15.4 Mae dulliau partneriaeth yn parhau i fod yn ganolog i'r rhaglenni hyn. Fel parhad i'r cyllid pellach a ddarparwyd yn 2023-24, mae cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu unwaith eto i'r Grant Cymorth Ieuenctid ar gyfer 2024-25. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i gydweithio â sefydliadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol i ymgymryd â gwaith ychwanegol i wella amrywiaeth a chynhwysiant yn eu gwasanaethau, yn ogystal â datblygu rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg fel rhan o'u darpariaeth gwaith ieuenctid.

2.15.5 Mae'r gyllideb hon yn cyfrannu'n helaeth at gymorth i rai o'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed, gan gynnwys y rheini â phroblemau emosiynol, iechyd meddwl neu lesiant sy'n dod i'r amlwg, a'r rhai sy'n wynebu risg o fynd yn ddigartref. Mae'r gwaith penodol hwn yn adeiladu ar y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, gan wella gallu awdurdodau lleol a'u partneriaid i nodi a brocera ymyriadau ar gyfer y bobl ifanc mwyaf anghenus cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn cynnwys parhau i ddarparu gwerth £2.5m o gyllid penodol i gefnogi pobl ifanc ag anghenion llesiant emosiynol neu iechyd meddwl drwy ddulliau anghlinigol a chymorth gwaith ieuenctid yn y gymuned.

***Manylion am y modd y mae MEG y Gymraeg ac Addysg 2024-25 yn cefnogi Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru a gwaith y Bwrdd Gweithredu.***

2.15.6 Bydd y gyllideb yn parhau i gefnogi'r weledigaeth uchelgeisiol a nodir yn Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru yn ogystal â gwaith Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid, a benodwyd ym mis Hydref 2022. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau i fynd ar drywydd argymhellion penodol a wnaed gan y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, yn ogystal ag ymgysylltu'n barhaus â'r sector gwaith ieuenctid, rhanddeiliaid a phobl ifanc i lywio'r gwaith hwn.

## 2.16 Dysgu ar gyfer Troseddwyr

***Gwybodaeth am y ddarpariaeth gyllidebol yn 2024-25 ac unrhyw newidiadau i'r ffordd y caiff ei gwario o gymharu â blynyddoedd blaenorol.***

2.16.1 Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu (o arian a ddarperir gan Lywodraeth y DU i Weinidogion Cymru yn benodol at y diben hen) y ddarpariaeth addysg a dysgu a llyfrgelloedd mewn carchardai yng Nghymru drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS). Mae'r Memorandwm tair blynedd â HMPPS, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2022 a 2025, wedi'i lofnodi ac yn weithredol.

2.16.2 Dyrennir cyllideb o £7.328m i ariannu'r ddarpariaeth dysgu ar gyfer troseddwyr yn 2024-25, sy'n gyson â'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer 2022-23 a 2023-24. Dyrennir £3.328m o'r cyllid hwn i dalu costau'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau yng ngharchardai sector cyhoeddus de Cymru (CEF Brynbuga/Prescoed, Caerdydd ac Abertawe). Dyrennir £4m pellach i dalu costau'r ddarpariaeth dysgu yn CEF Berwyn yng ngogledd Cymru.

## 2.17 Addysg bellach, Chweched Dosbarth a Dysgu Oedolion yn y Gymuned

***Manylion am y dyraniadau cyflawn a wnaed yn 2023-24 i golegau addysg bellach, gan gynnwys symiau holl elfennau'r dyraniad (h.y. llawnamser, rhan-amser, lwfans rhan-amser, amddifadedd, teneurwydd poblogaeth a lwfansau cyfrwng Cymraeg, lwfans cynhaliaeth ac addasiad Addysg Oedolion Cymru).***

2.17.1 Mae'r wybodaeth hon wedi'i darparu yn **Atodiad G.** Yn 2022/23 gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn darpariaeth graidd a chymorth ers blynyddoedd lawer a gwelwyd cynnydd pellach yn 2023/24. Rhwng 2019/20 a 2023/24 cynyddodd cyllideb prif ffrwd AB 29.26%.

***Manylion unrhyw gyllid neilltuedig i sefydliadau addysg bellach neu chweched dosbarth y tu hwnt i'w grantiau craidd arferol.***

2.17.2 Ar adeg ysgrifennu, nid yw manylion dyraniadau chweched dosbarth 2024-25 (blwyddyn ariannol) na dyraniadau colegau addysg bellach 2024/25 (blwyddyn academaidd) ar gael. Disgwylir i gyllid neilltuedig ar gyfer Iechyd Meddwl, y Gronfa Dysgu Proffesiynol, y Biwro Cyflogaeth, cyllid Gwasanaethau Darlithwyr Cyswllt, y Gronfa Ariannol Wrth Gefn, Adferiad Dysgwyr a SEREN barhau yn 2024-25.

***Manylion unrhyw gyllid a ddarperir yng nghyllideb 2024-25 i sicrhau cydraddoldeb rhwng cyflogau a/neu dalu unrhyw ddyfarniad cyflog i sefydliadau addysg bellach a chweched dosbarth, gan gynnwys esboniad o ddigonolrwydd y cyllid i dalu unrhyw ddyfarniad cyflog y cytunwyd arno / cyfwerthedd cyflog yn llawn dros gyfnod y gyllideb hob.***

2.17.3 Ar hyn o bryd, mae dyfarniad cyflog 2023/24 yn dal i gael ei negodi rhwng y sector addysg bellach a'r undebau. Fodd bynnag, mae 5% ychwanegol wedi cael ei gynnwys yn y gyfradd fesul uned ar gyfer dyraniadau 2023-24. Hysbyswyd y sector y bydd angen i unrhyw ddyfarniad cyflog a negodir gael ei ariannu o fewn cyllid prif ffrwd, gan gynnwys y cynnydd i'r gyfradd fesul uned. Cymhwyswyd yr un cynnydd o 5% i'r gyfradd fesul uned at chweched dosbarth ysgolion. Darparwyd gwerth £6.662m o gyllid ychwanegol yn 2023-24 er mwyn sicrhau bod y dyfarniad cyflog yn cael ei ariannu'n llawn.

2.17.4 Er na fydd dyfarniadau addysg bellach 2024/25 na dyfarniadau chweched dosbarth 2024-25 ar gael tan ddiwedd mis Ionawr, gyda'r trafodaethau cyflog yn dechrau yn hwyrach yn 2024, mae'n debygol y defnyddir dull tebyg. Bydd angen i Lywodraeth Cymru bennu'r cynnydd yn y gyfradd fesul uned y bydd angen i sefydliadau addysg bellach a chweched dosbarth ei defnyddio i reoli'r dyfarniad cyflog terfynol. Caiff hyn ei reoli o fewn y gyllideb gyhoeddedig derfynol ac ni chaiff unrhyw gyllid ei ddarparu'n benodol i sicrhau cydraddoldeb rhwng cyflogau.

***Y dyraniad ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned***

2.17.5 Ar adeg ysgrifennu, nid yw manylion dyraniadau dysgu oedolion yn y gymuned 2024-25 ar gael. Caiff y dyraniadau terfynol eu cyhoeddi cyn diwedd mis Ionawr 2024.

***Gwerthoedd cyfan rhaglenni 2022-23 a 2023-24 a ddefnyddiwyd i gyfrifo cyllid addysg bellach a chweched dosbarth.***

2.17.6 Darparwyd gwerthoedd rhaglenni 2022/23 i'r Pwyllgor fel rhan o bapur tystiolaeth y llynedd (gweler Atodiad H). Mae gwerthoedd rhaglenni 2023/24 wedi'u cyhoeddi yn Y Cyfeiriadur Rhaglenni 2023/24. Ar adeg ysgrifennu, nid yw manylion gwerthoedd rhaglenni 2024/25 ar gael.

## 2.18 Cymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch ac ôl-16

***Manylion dyraniad y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, gan gynnwys manylion unrhyw gyllid neilltuedig, neu gyllid y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio at ddibenion gweithgareddau penodol, gan gynnwys iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr.***

2.18.1 Wrth i'r Comisiwn ddod yn weithredol yn 2024-25, bydd yn etifeddu'r penderfyniadau ariannol a wnaed gan Lywodraeth Cymru ynghylch cyllid craidd addysg bellach a'r argymhellion a wnaed gan CCAUC mewn perthynas â chyllid ar gyfer addysg bellach.

2.18.2 Mae'r llinellau ariannu ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach a nodwyd yn wreiddiol mewn cyllidebau Addysg sydd wedi'u clustnodi i'w trosglwyddo i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wedi'u nodi'n glir ar wyneb Cyllideb Ddrafft 2024-25, ac mae enw'r Comisiwn wedi'i ychwanegu at ddiwedd y disgrifiad o'r gyllideb. Caiff rhagor o addasiadau yn ystod y flwyddyn eu gwneud yn ystod 2024-25 o'r portffolio Addysg a phortffolios Gweinidogol eraill i ariannu'r ystod lawn o gyfrifoldebau'r Comisiwn. Caiff cyfanswm y trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn ei nodi yng nghyllidebau atodol 2024-25.

2.18.3 Bydd dyraniadau cyllid penodol, gan gynnwys unrhyw fanylion am gyllid neilltuedig, yn dilyn yn llythyr cyllido'r Comisiwn.

***Manylion unrhyw ddyraniad yn 2024-25 ar gyfer darparu prentisiaethau gradd os bwriedir iddo gael ei ddefnyddio i recriwtio prentisiaid newydd neu addysgu prentisiaid presennol ar ôl i'r cwrs ddod i ben.***

2.18.4 Fel y nodwyd uchod, caiff unrhyw fanylion am gyllid neilltuedig ar gyfer y Comisiwn newydd, gan gynnwys prentisiaethau gradd, eu hamlinellu yn llythyr cyllido'r Comisiwn. Ni ellir cadarnhau'r dyraniad ar hyn o bryd.

***Manylion unrhyw gyllid cyfalaf i'w ddarparu i'r Pwyllgor Addysg Drydyddol ac Ymchwil, gan gynnwys unrhyw amodau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gosod arno.***

2.18.5 Fel y nodwyd uchod, mae llinellau'r gyllideb ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach sydd wedi'u clustnodi i'w trosglwyddo i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wedi'u nodi'n glir ar wyneb Cyllideb Ddrafft 2024-25, ac mae enw'r Comisiwn wedi'i ychwanegu at ddiwedd y disgrifiad o'r gyllideb. Caiff rhagor o addasiadau yn ystod y flwyddyn eu gwneud o'r portffolio Addysg a phortffolios Gweinidogol eraill i ariannu'r ystod lawn o gyfrifoldebau'r Comisiwn. Caiff cyfanswm y trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn ei nodi yng nghyllidebau atodol 2024-25.

2.18.6 Bydd dyraniadau cyllid penodol, gan gynnwys unrhyw fanylion am gyllid neilltuedig, yn dilyn yn llythyr cyllido'r Comisiwn.

***Manylion unrhyw gronfeydd hapddigwyddiadau / wrth gefn / heb eu neilltuo o fewn unrhyw un o Linellau Gwariant yn y Gyllideb 2024-25 sy'n gysylltiedig ag addysg drydyddol, gan gynnwys y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb o fewn Camau Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16; manylion ynglŷn â sut y caiff y cronfeydd eu defnyddio neu sut y gellir eu defnyddio; a manylion unrhyw ddefnydd a wnaed ohonynt yn ystod 2023-24.***

2.18.7 Mae'r cyllid o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr o fewn Camau Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16 yn seiliedig ar alw, sy'n golygu ei bod hi'n anodd ei ragfynegi, ei reoli neu ei ragweld, ac y bydd yn amrywio yn ôl demograffeg a nifer y myfyrwyr addysg uwch. Caiff rhagolygon eu llunio gan ddefnyddio modelau cymorth i fyfyrwyr yr Is-adran Addysg Uwch (sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am nifer o newidynnau, gan gynnwys nifer y myfyrwyr, cyfraddau chwyddiant a data economaidd eraill), ond fel sy'n wir am y flwyddyn ariannol hon, gall y canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r rheini a ragwelwyd, a dim ond pan fydd union nifer y myfyrwyr yn hysbys y bydd cywirdeb rhagolygon yn gwella. Ar sail tanwariant hanesyddol ac fel rhan o'r angen i ddychwelyd cyllid i gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru i'w ail-flaenoriaethu, mae'r gyllideb hon £63.5m yn llai ar gyfer 2024-25 (gan gynnwys £9.6m ar gyfer grantiau i Raddedigion). Er gwaethaf y lleihad hwn, nid oes unrhyw effaith ar gymorth ariannol i fyfyrwyr israddedig sy'n hanu o Gymru, nad yw wedi newid. O ganlyniad, nid oes unrhyw gronfa hapddigwyddiadau o fewn y gyllideb hon ac mae risg o orwariant posibl os bydd yr alldro yn wahanol i'r tueddiadau presennol.

***Grantiau: Tabl yn dangos alldro 2022-23, a'r rhagolygon gwariant dros y pedair blynedd dilynol (fesul myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru a myfyrwyr sy'n astudio mewn rhannau eraill o'r DU) ar gyfer: Grant Ffioedd Dysgu myfyrwyr israddedig llawnamser; Grant Ffioedd Dysgu myfyrwyr israddedig rhan-amser; Grant Cynhaliaeth myfyrwyr israddedig rhan-amser; Elfen grant Cyllid Gradd Meistr; LCA; a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (GDLlC(AB)).***

2.18.8 Mae'r wybodaeth hon wedi'i darparu yn **Atodiad H.**

***Benthyciadau: Tabl yn dangos alldro 2022-23, a'r rhagolygon gwariant ar fenthyciadau dros y pedair blynedd dilynol (fesul myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru a myfyrwyr sy'n astudio mewn rhannau eraill o'r DU) ar gyfer: Gwariant ar fenthyciadau cynhaliaeth a ffioedd dysgu myfyrwyr israddedig llawnamser a thâl Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau, gwariant ar fenthyciadau cynhaliaeth a ffioedd dysgu myfyrwyr israddedig rhan-amser a thâl Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau, elfen grant Cyllid Gradd Meistr a thâl Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau, gwariant ar fenthyciadau Doethurol a thâl Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau.***

2.18.9 Mae'r wybodaeth hon wedi'i darparu yn **Atodiad H.**

## 2.19 Darpariaeth addysg ôl-16 arall

### *Manylion cyllid Cyfrifon Dysgu Personol*

2.19.1 O ganlyniad i'r ymarfer ail-flaenoriaethu cronfeydd wrth gefn, mae cyllid Cyfrifon Dysgu Personol o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Darpariaeth ôl-16 (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) wedi'i leihau £7.2m ar gyfer 2024-25. Er mwyn sicrhau bod gan y sector addysg bellach yr hyblygrwydd i reoli'r lleihad hwn, mae swyddogion yn cynnig y dylid prif-ffrydio a blaenoriaethu gweithgarwch Cyfrifon Dysgu Personol o fewn darpariaeth ran-amser addysg bellach. Fodd bynnag, bydd amsugno'r lefel hon o gyllid mewn darpariaeth addysg bellach ran-amser brif ffrwd er mwyn sicrhau darpariaeth barhaus mewn meysydd â blaenoriaeth drwy Gyfrifon Dysgu Personol, yn effeithio ar fathau eraill o ddarpariaeth ran-amser a ddarperir ar hyn o bryd ledled Cymru, ac yn eu lleihau.

### *Manylion y gyllideb Cymraeg mewn Addysg, gan gynnwys unrhyw ddyraniad ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.*

2.19.2 Yn 2023-24, cyfanswm cyllid craidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw £7.013m. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys gwerth £5.046m o gyllid ar gyfer rhaglen addysg uwch y Coleg a £0.684m ar gyfer ei gynllun ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg. Ym maes addysg uwch, mae gwerth £4.184m o gyllid yn cefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn prifysgolion a meysydd pwnc yn uniongyrchol. Darperir cymorth hanfodol drwy ganghennau'r Coleg i ddarlithwyr, datblygiad staff a chyhoeddiadau. Ym maes addysg ôl-16, mae cyfanswm o £1.283m wedi'i neilltuo i gefnogi'r Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg, sy'n darparu grantiau datblygu mewn meysydd â blaenoriaeth, gan gynnwys Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Cyhoeddus.

2.19.3 O fewn y cyllid craidd, mae'r Coleg yn darparu hyfforddiant a chymorth mentora drwy Sgiliaith, er mwyn galluogi tiwtoriaid ac aseswyr i feithrin hyder i addysgu'n ddwyieithog, a chymorth ar gyfer y sector prentisiaethau. Darperir cyllid grant ychwanegol o feysydd eraill er mwyn datblygu adnoddau digidol ac adnoddau eraill, y prosiect llysgenhadon a chymorth ar gyfer datblygu Cymraeg fel pwnc ac athrawon cyfrwng Cymraeg.

2.19.4 Mae'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio yn cynnwys ymrwymiad i fuddsoddi yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector prentisiaethau ac addysg bellach, a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn darparu cyrsiau dysgu Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16-25 oed. Yn y gyllideb ar gyfer 2023-24, dyrannwyd £4.5m ychwanegol fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio, y darparwyd £2.825m ohono i'r Coleg a £1.675 i'r Ganolfan Genedlaethol.

2.19.5 Mae'r dyraniad ychwanegol i'r Coleg yn 2023-24 yn ariannu rhaglen grantiau datblygu i golegau a darparwyr prentisiaethau er mwyn datblygu capasiti a darpariaeth mewn sectorau â blaenoriaeth, gan gynnwys gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol, chwaraeon a hamdden, ac amaethyddiaeth. At hynny, mae'r cyllid yn cefnogi dau brosiect penodol i feithrin hyder myfyrwyr sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a denu myfyrwyr yn ôl i Gymru i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

2.19.6 Mae cyllid y Cytundeb Cydweithio yn cael ei gynnal ar £4.5m yn y gyllideb hon, y darparwyd £2.825m ohono i'r Coleg a £1.675 i'r Ganolfan Genedlaethol. Bydd cynnal y gyllideb ar lefelau 2023-24 yn ein galluogi i ail-flaenoriaethu'r £3.5m a glustnodwyd yn wreiddiol ar gyfer blwyddyn 3 y Cytundeb Cydweithio; gan gyfyngu ar effaith y dyraniadau cyllidebol ar draws Llinellau Gwariant yn y Gyllideb y Gymraeg.

2.19.7 Bydd ail-flaenoriaethu cyllid yn y ffordd hon yn ein galluogi i ddiogelu gwasanaethau craidd sy'n cefnogi ein huchelgeisiau ar gyfer Cymraeg 2050. Yn benodol, byddwn yn gallu cynnal cyllid sy'n gysylltiedig â'r Bil Addysg Gymraeg, Mudiad Meithrin a'r gyllideb Cymraeg mewn Addysg i gefnogi darpariaeth Gymraeg.

2.19.8 Fodd bynnag, gall ail-flaenoriaethu cyllid olygu y bydd yn rhaid i'r Coleg dynnu ymrwymiadau a wnaed i golegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau yn ôl. Gall hefyd arwain at leihad yn y niferoedd sy'n dysgu Cymraeg. Byddwn yn gweithio gyda'r Coleg a'r Ganolfan Genedlaethol i ystyried opsiynau i liniaru effaith y dull hwn a chefnogi camau i gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn sectorau â blaenoriaeth, yn ogystal â darparu cyrsiau am ddim ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed a'r gweithlu addysg.

***Manylion cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu (Taith).***

2.19.9 Dyraniad y gyllideb ddrafft ar gyfer Taith (sydd hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer Rhaglen Cymru Fyd-eang) ar gyfer 2024-25 yw £6.5m, sydd £1.6m (19.75%) yn llai na dyraniad 2023-24, sef £8.1m. Yn fy natganiad ym mis Hydref, rhoddais ddiweddariad ar y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu (Taith) yn amlinellu newidiadau i'r trefniadau llywodraethu, strwythur ymgysylltu â rhanddeiliaid agored newydd, a strategaeth ddiwygiedig ar gyfer y rhaglen. Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn darparu fframwaith cadarn er mwyn gwneud yn siŵr bod y rhaglen yn cynnwys ffocws newydd ar gefnogi prosiectau sy'n sicrhau'r effaith fwyaf a'i bod yn parhau i hwyluso cyfnewidfeydd addysgol arloesol sy'n newid bywyd, gan gynnig cymorth penodol i unigolion sy'n wynebu rhwystrau i gymryd rhan mewn cyfnewidfeydd rhyngwladol.

## 2.20 Y Warant i Bobl Ifanc

***Manylion am y ddarpariaeth gyllidebol o MEG y Gymraeg ac Addysg sy'n cyfrannu at y Warant i Bobl Ifanc.***

2.20.1 Y Warant i Bobl Ifanc yw'r strwythur ambarél y mae'r holl raglenni i bobl ifanc yn dod oddi tano, gyda'r nod o greu taith syml i bobl ifanc, ni waeth beth fo'u hamgylchiadau a'u cefndir.

2.20.2 Gan gofio bod rhai rhaglenni yn seiliedig ar alw, gallai'r cwantwm cyllid y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio i ddarparu'r Warant i Bobl Ifanc yn 2024/25 gyrraedd oddeutu ar draws Prif Grwpiau Gwariant Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol, y Gymraeg a'r Economi, ond dylid

nodi hefyd fod rhai rhaglenni ar gael i bobl o bob oed a bod rhai o'r rhaglenni'n cael eu hariannu dros flynyddoedd academaidd yn hytrach na blynyddoedd ariannol.

2.20.3 Mae Bwrdd Rhaglenni ar lefel swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru yn cyfarfod i graffu ar gyfeiriad y polisi sydd mewn grym a dyraniad adnoddau – gan uwchgyfeirio materion at Weinidogion fel y bo'n briodol. Mae Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid allanol hefyd yn rhan o'r broses graffu a chynghori, ochr yn ochr â Bwrdd Cynghori ar y Warant i Bobl Ifanc a sefydlwyd yn ddiweddar.

## 2.21 Cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith ysgolion a cholegau

***Gwybodaeth am y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer Y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a chynnydd y rhaglen hyd yma, gan gynnwys gwariant a nifer y prosiectau a gwblhawyd/cymeradwywyd hyd yma, fesul Band A a Band B.***

2.21.1 Dyluniwyd Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Band A i wella ysgolion a cholegau mewn cyflwr gwael, lleihau capasiti dros ben a gwella safonau drwy ddarparu amgylchedd a all gyflwyno cwricwlwm yr 21ain ganrif. Dechreuodd y cam buddsoddi cyntaf yn 2014 ac mae bellach wedi'i gwblhau, gyda chyfanswm cyfraniad cyllid o £805m gan Lywodraeth Cymru, ar draws 178 o brosiectau unigol gyda chyfanswm buddsoddiad o £1.61bn, gan gynnwys cyfraniadau partneriaid cyflawni.

2.21.2 Mae Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Band B yn parhau i fuddsoddi cyfalaf ar draws yr ystâd addysg, gan adeiladu ysgolion a cholegau Carbon Sero Net newydd, gwella ysgolion a cholegau mewn cyflwr gwael, a sicrhau darpariaeth gynaliadwy o amgylchedd dysgu sy'n addas ar gyfer cwricwlwm yr 21ain ganrif. Cyflwynwyd y rhaglen yn 2019 ac mae'n mynd rhagddi'n dda, gyda 23 o brosiectau bellach wedi'u cwblhau, 34 wrthi'n cael eu hadeiladu, 12 yn cael eu hwyluso, 36 yn destun proses achos busnes ac 91 yn yr arfaeth. Mae cyllid ar gyfer prosiectau a gynhelir fel rhan o raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn amodol ar gwblhau proses achos busnes yn llwyddiannus.

2.21.3 Disgwylir i'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ehangach wario dyraniad llawn y gyllideb, sef £314m yn 2023-24, ar ôl i'r gyllideb gael ei lleihau £40m yn dilyn yr ymarfer ailfaenoriaethu yn ystod y flwyddyn, yn barod ar gyfer y newid arfaethedig o gyfalaf i refeniw. Drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi cyfanswm o £971.4m ers 2019-20.

2.21.4 Mae'r rhaglen wedi darparu cyllid hanfodol i bartneriaid cyflawni mewn meysydd polisi â blaenoriaeth, gan gynnwys Anghenion Dysgu Ychwanegol (£40m ar draws 2022-23 -2023-24), Grantiau Cyfalaf Hybiau Cymuned (£22m yn 2022-23), rhaglen buddsoddi mewn TGCh barhaus (£10m yn 2022-23 a 2023-24), Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd (£35m yn 2022-23) a Grantiau Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg (£5.5m yn 2022-23).

2.21.5 Ariennir y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy o Linell Wariant yn y Gymuned Seilwaith Addysg, gyda chyllideb o £343.4m ar gyfer 2024-25. Fel yr amlinellir ym mharagraff 1.1.16, mae hyn yn cynnwys y lleihad o £10m o ganlyniad i ail-flaenoriaethu cyllid i gronfeydd wrth gefn.

***Asesiad diwygiedig o oblygiadau'r cynnydd mewn costau ynni a chostau byw ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gan gynnwys unrhyw effaith ar gynnydd a chostau prosiectau.***

2.21.6 Mae'r Rhaglen wedi wynebu cynnydd sylweddol mewn costau dros y tair blynedd diwethaf, sef cynnydd o tua 25% dros y cyfnod hwnnw. Mae canlyniadau ymadawiad y DU a'r Undeb Ewropeaidd, COVID-19 yn ogystal â'r cynnydd mewn costau ynni, wedi cael effaith andwyol ar y Rhaglen a'r sector adeiladu yn gyffredinol. Er bod y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi sicrhau cynnydd iach yn y gyllideb (33% uwchlaw cyllideb sylfaenol y Rhaglen yn 2021/22) i adeiladu mwy o ysgolion a cholegau newydd, mae'r lefelau uchel o chwyddiant a welwyd yn ddiweddar wedi dileu'r cynnydd hwn bron yn llwyr. Mae'r cynnydd yn y gyllideb ers 2022/23 wedi lliniaru effaith chwyddiant, gan olygu y gallai prosiectau a oedd eisoes yn yr arfaeth barhau i gael eu datblygu. Fodd bynnag, mae effaith tymor canolig a hirdymor chwyddiant wedi llesteirio'r uchelgais i adeiladu ysgolion a cholegau newydd. Dros amser, wrth i chwyddiant barhau'n weddol uchel, mae costau adeiladu uwch yn golygu bod yr Ystad Addysg yng Nghymru yn adeiladu ac yn adnewyddu llai o ysgolion a cholegau am yr un lefel o gyllid.

2.21.7 Dylid nodi bod fforddiadwyedd cyfraniadau partneriaid cyflawni, boed yn awdurdodau lleol, yn awdurdodau esgobaethol neu'n golegau, hefyd yn mynd yn fwyfwy heriol o ganlyniad i'r cynnydd hwn.

2.21.8 Mae'r Rhaglen yn darparu adeiladau newydd ynni-effeithlon yn ogystal â sicrhau enillion effeithlonrwydd ynni drwy brosiectau adnewyddu mawr – gan leihau'r baich refeniw ar awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach.

2.21.9 Er ein bod yn cydnabod nad yw pob rhan o'r Ystad Addysg yn cael budd o raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, mae swyddogion yn rhoi mesurau ar waith er mwyn helpu awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach i fynd i'r afael â hyn drwy eu rhaglenni cyfalaf cynnal a chadw presennol. Mae swyddogion wedi caffael Arolwg Asesu Ynni a Chyflwr Adeiladau Elfennol gwerth £2m ar gyfer pob ysgol a choleg a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru, a roddwyd ar waith fis diwethaf. Caiff data o'r arolygon eu defnyddio i ddatblygu Map Trywydd Carbon Sero Net ar gyfer pob ysgol a choleg a fydd, dros amser, yn helpu i sicrhau adeiladau mwy thermol-effeithlon, lleihau allyriadau carbon, lleihau'r ynni a ddefnyddir, a lleihau costau cyfleustodau ar gyfer ysgolion a cholegau.

***Goblygiadau ariannol polisïau carbon sero net Llywodraeth Cymru a'u heffaith ar gyllideb ddrafft 2024-25.***

2.21.10 O 1 Ionawr 2022, mandadodd y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ei bod yn ofynnol i bob prosiect nad oedd wedi sicrhau cymeradwyaeth ar y cam achos busnes amlinellol gael ei gyflwyno fel Carbon Sero Net Ar Waith gyda lleihad o 20% mewn carbon ymgorfforedig; hynny yw, y carbon a gaiff ei allyrru drwy ddeunyddiau adeiladu a'r broses adeiladu. Ar hyn o bryd, mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn ymrwymo i ariannu 100% o'r gost ychwanegol (gwaelodlin Rhagorol BREEAM). Mae'r elfen hon yn gyfystyr â thua 12.5% o'r costau adeiladu.

2.21.11 Fel y nodwyd uchod, er mwyn helpu awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach i weithio tuag at Ymrwymiad Carbon Sero Net 2030 y Sector Cyhoeddus, mae tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi caffael arolwg carbon a chyflwr adeiladau elfennol ar gyfer yr ystad gyfan.

2.21.12 Mae'r rhaglen wedi dechrau a bydd wedi'i chwblhau erbyn mis Mawrth 2025. Pan fydd wedi'i chwblhau, caiff pob ysgol a choleg a ariennir gan y wladwriaeth arolwg carbon a chyflwr adeiladau elfennol ynghyd â map trywydd tuag at Carbon Sero Net. Bydd y mapiau trywydd yn dilyn dull 'Adeiledd yn gyntaf' Cyngor Adeiladau Gwyrdd y DU o sicrhau adeiladau Carbon Sero Net, h.y. inswleiddio a lleihau'r galw am ynni – sy'n cynnwys gosod cydrannau adeiladau elfennol is-optimaidd (ffenestri, toeon, systemau gwresogi a goleuo, ac ati). Mae'n debygol y bydd canfyddiadau'r arolygon hyn yn nodi'r angen am gyllid cyfalaf ychwanegol er mwyn cyflawni ymrwymiadau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bydd y Mapiau Trywydd Carbon Sero Net yn darparu adnodd gwerthfawr i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach dargedu buddsoddiad drwy eu rhaglenni cyfalaf cynnal a chadw tuag at y meysydd gwaith a fydd yn sicrhau'r arbedion mwyaf o ran yr ynni a ddefnyddir a chostau cyfleustodau.

2.21.13 Lansiais yr Her Ysgolion Cynaliadwy ym mis Medi 2022 gan wahodd ceisiadau gan awdurdodau lleol a allai ddangos proses arloesol a chydweithredol o ddylunio, datblygu, cyflawni a rheoli ysgol gynradd a fyddai'n gwneud cyfraniad cadarnhaol ar yr amgylchedd a'r dirwedd gyfagos. Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddais gyllid ar gyfer tair ysgol gynaliadwy newydd – buddsoddiad cyfalaf o £44.7 ar gyfer y tri phrosiect.

2.21.14 Bydd y prosiectau hyn, sef Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan yng Nghastell-nedd Port Talbot, ysgol newydd sy'n gwasanaethu cymuned Glyn-coch yn Rhondda Cynon Taf, ac Ysgol Bontnewydd yng Ngwynedd, yn gwthio ffiniau pob agwedd ar gynaliadwyedd drwy arloesi a chydweithio ac yn darparu astudiaethau achos defnyddiol i lywio'r rhaglen ehangach. Rhaid i'r prosiectau hyn ymgysylltu â'r gymuned a disgyblion ar bob cam, gan gysylltu â'r cwricwlwm mewn ffyrdd arloesol drwy ddulliau digidol a ffisegol. Disgwylir i'r tri phrosiect gael eu cwblhau erbyn mis Medi 2025.

## 2.22 Cyllid cyfalaf ar gyfer gofal plant

***Gwybodaeth am gyllid cyfalaf o MEG y Gymraeg ac Addysg ar gyfer y Cynnig Gofal Plant a rhaglen Dechrau'n Deg, gan gynnwys effaith hawl a chymhwysedd diwygiedig.***

2.22.1 Rhoddwyd Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar ar waith ym mis Hydref 2022 ac mae ar gyfer dros y tair blynedd nesaf hyd at fis Mawrth 2025, gyda chyfanswm dyraniad yn y gyllideb o £70m. Mae'r rhaglen yn cefnogi Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant ac yn anelu at wella a datblygu darpariaethau gofal plant newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes ledled Cymru. Mae’r gyllideb wedi'i rhannu’n ddwy ffrwd gyllido benodol: cyllid grantiau bach a chyllid cyfalaf mawr. Mae gwerth £10m y flwyddyn o gyllid grantiau bach ar gael i bob darparwr gofal plant a chwarae sydd wedi'i gofrestru ag AGC drwy broses weinyddu eu hawdurdod lleol. Defnyddir yr elfen grantiau bach i gefnogi prosiectau ac eitemau sy'n werth hyd at £20,000 ac mae'r swm mwyaf yn seiliedig ar nifer y lleoedd gofal plant a reoleiddir gan AGC o fewn y ddarpariaeth. Mae cyllideb o £15m y flwyddyn ar gael ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr ar gyfer cynigion dros £20,000, gan amrywio o waith adnewyddu bach i godi estyniadau ac adeiladau ar gyfer darpariaethau gofal plant.

## 2.23 Cyllid cyfalaf ar gyfer y fenter Ysgolion Bro

***Gwybodaeth am ddarpariaethau cyllidebol ar gyfer Hybiau Cymunedol a Chanolfannau Dysgu Cymunedol, a diweddariad ar gynnydd tuag at gynyddu natur gymunedol ystadau addysg ac addasu safleoedd at ddefnydd y gymuned.***

2.23.1 Rydym wedi adolygu effaith buddsoddi gwerth £20m o gyfalaf yn 2022-23 ar gyfer y grant Ysgolion Bro drwy gyfres o weithdai gyda rhanddeiliaid awdurdodau lleol, sydd wedi'u defnyddio i lywio cylchoedd buddsoddi ar gyfer y dyfodol. Mae'r dull cydweithredol hwn wedi galluogi swyddogion i ddatblygu rhaglen fwy strategol ar gyfer buddsoddi gwerth £40 o gyllid cyfalaf dros y flwyddyn ariannol gyfredol a'r blynyddoedd ariannol nesaf er mwyn parhau i gefnogi ysgolion i addasu eu safleoedd at ddefnydd y gymuned ehangach.

2.23.2 Er mwyn sicrhau bod y cyllid wedi'i dargedu'n strategol ac yn ddaearyddol, er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf, cafodd y cyllid ei isrannu rhwng y prosiectau hynny a oedd yn werth llai na £0.5m a'r rheini a oedd yn werth mwy na £0.5m. Yn gynharach eleni, cymeradwyais gymorth ar gyfer y prosiectau hynny a oedd yn werth £0.5 neu lai, gan ddyrannu cyfanswm o £28.2m o gyllid, i'w ddarparu dros y ddwy flynedd nesaf. Caiff prosiectau gwerth mwy na £0.5m eu cymeradwyo fesul achos yn amodol ar gwblhau proses achos busnes lwyddiannus ac argaeledd cyllid.

## Crynodeb

Cyflwynir Cyllideb Ddrafft MEG y Gymraeg ac Addysg ar gyfer 2024-25 i'r Pwyllgor i'w hystyried.

**Jeremy Miles AS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

## ATODIAD A – Dadansoddiad o MEG y Gymraeg ac Addysg yn ôl Camau Gweithredu ar gyfer 2024-25, alldro a ragwelir 2023-24 ac alldro terfynol 2022-23

### Adnodd

| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol 2022-23 | Cyllideb Derfynol 2023-24 (Chwefror 2023) | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 (Mehefin 2023) | Alldro a Ragwelir 2023-24 (Cyfnod 7) | (Cyllideb Derfynol 2023-24 – Chwefror 2023) Dangosol 2024-25 | Cyllid a Ailflaenoriaethwyd 2024-25 | Cyfuno Grantiau 2024-25 | Newidiadau Eraill 2024-25 | Cyllideb Ddrafft 2024-25 (Rhagfyr 2023) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000s | | | | | | | | |
| **Llythrennedd a Rhifedd** | Llythrennedd a Rhifedd | 5,148 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Llythrennedd a Rhifedd** | | **5,148** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cwricwlwm** | Cwricwlwm ac Asesu | 13,971 | 36,464 | 36,854 | 36,680 | 32,624 | -2,400 | -16,246 | 462 | 14,440 |
| | Diwygio'r Cwricwlwm | 18,193 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cwricwlwm** | | **32,164** | **36,464** | **36,854** | **36,680** | **32,624** | **-2,400** | **-16,246** | **462** | **14,440** |
| **Addysgu ac Arweinyddiaeth** | Datblygu a Chefnogi Athrawon | 87,642 | 54,234 | 75,825 | 74,704 | 56,234 | -2,306 | -23,945 | 0 | 29,983 |
| | Datblygu a Chefnogi Athrawon – Heb fod yn Arian Parod | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 400 | 400 |
| **Cyfanswm Addysgu ac Arweinyddiaeth** | | **87,642** | **54,234** | **75,825** | **74,704** | **56,234** | **-2,306** | **-23,945** | **400** | **30,383** |
| **Cymorth ALl Addysg Cyn-16** | Diwygio Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 54,353 | 0 | 54,353 |
| | Safonau Ysgolion (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 159,885 | 0 | 159,885 |
| | Tegwch mewn Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 155,000 | 0 | 155,000 |
| | Cymraeg 2050 (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9,770 | 0 | 9,770 |
| **Cyfanswm Cymorth ALl Addysg Cyn-16** | | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **379,008** | **0** | **379,008** |
| **Cymwysterau** | Cymwysterau Cymru | 9,177 | 10,007 | 9,928 | 10,018 | 10,007 | 0 | 0 | 0 | 10,007 |
| | Cymwysterau Cymru – Heb fod yn Arian Parod | 298 | 250 | 344 | 344 | 250 | 0 | 0 | 0 | 250 |
| **Cyfanswm Cymwysterau** | | **9,475** | **10,257** | **10,272** | **10,362** | **10,257** | **0** | **0** | **0** | **10,257** |

# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
# Cyllideb Ddrafft 2024-25
# Papur Tystiolaeth – Atodiadau

| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol 2022-23 | Cyllideb Derfynol 2023-24 (Chwefror 2023) | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 (Mehefin 2023) | Alldro a Ragwelir 2023-24 (Cyfnod 7) | (Cyllideb Derfynol 2023-24 – Chwefror 2023) Dangosol 2024-25 | Cyllid a Ailflaenoriaethwyd 2024-25 | Cyfuno Grantiau 2024-25 | Newidiadau Eraill 2024-25 | Cyllideb Ddrafft 2024-25 (Rhagfyr 2023) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000s | | | | | | | | |
| **Addysg Ôl-16** | Darpariaeth Ôl-16 (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) | 579,045 | 576,013 | 583,951 | 575,353 | 578,813 | -12,928 | 0 | 0 | 565,885 |
| | Y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu | 6,847 | 8,100 | 8,100 | 11,100 | 8,100 | -1,600 | 0 | 0 | 6,500 |
| | ~~Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol~~ Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil | 1,603 | 6,000 | 6,000 | 4,800 | 6,000 | 0 | 0 | 0 | 6,000 |
| | ~~Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol – Heb fod yn Arian Parod~~ Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil – Heb fod yn Arian Parod | 0 | 650 | 650 | 302 | 650 | 0 | 0 | 78 | 728 |
| **Cyfanswm Addysg Ôl-16** | | **587,495** | **590,763** | **598,701** | **591,555** | **593,563** | **-14,528** | **0** | **78** | **579,113** |
| **Addysg Uwch** | CCAUC – Gwariant ar Raglenni (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) | 209,094 | 198,556 | 205,230 | 203,908 | 198,556 | -11,000 | 0 | 0 | 187,556 |
| | CCAUC – Gwariant ar Raglenni – Heb fod yn Arian Parod | 41 | 100 | 100 | 100 | 100 | 0 | 0 | 0 | 100 |
| **Cyfanswm Addysg Uwch** | | **209,135** | **198,656** | **205,330** | **204,008** | **198,656** | **-11,000** | **0** | **0** | **187,656** |
| **Safonau Addysg** | Y Grant Gwella Ysgolion | 171,733 | 168,659 | 168,197 | 165,614 | 159,659 | 0 | -159,197 | -462 | 0 |
| | Codi Safonau Ysgolion | -1,171 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cymorth Safonau Ysgolion | 1,377 | 2,396 | 2,468 | 3,210 | 3,126 | 0 | 0 | 0 | 3,126 |
| **Cyfanswm Safonau Addysg** | | **171,939** | **171,055** | **170,665** | **168,824** | **162,785** | **0** | **-159,197** | **-462** | **3,126** |
| **Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad** | Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad | 149,505 | 142,480 | 142,480 | 142,270 | 142,480 | -500 | -127,825 | -270 | 13,885 |
| **Cyfanswm Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad** | | **149,505** | **142,480** | **142,480** | **142,270** | **142,480** | **-500** | **-127,825** | **-270** | **13,885** |
| **Systemau TGCh a Rheoli Gwybodaeth** | Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg | 3,743 | 3,929 | 3,929 | 3,874 | 3,929 | 0 | 0 | 0 | 3,929 |
| | Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg – Heb fod yn Arian Parod | 2,487 | 2,488 | 2,488 | 2,488 | 2,488 | 0 | 0 | 0 | 2,488 |
| **Cyfanswm Systemau TGCh a Rheoli Gwybodaeth** | | **6,230** | **6,417** | **6,417** | **6,362** | **6,417** | **0** | **0** | **0** | **6,417** |
| **Llesiant plant a phobl ifanc** | Anghenion Dysgu Ychwanegol | 18,999 | 25,591 | 24,484 | 24,381 | 25,591 | 0 | -22,000 | 0 | 3,591 |

| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol 2022-23 | Cyllideb Derfynol 2023-24 (Chwefror 2023) | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 (Mehefin 2023) | Alldro a Ragwelir 2023-24 (Cyfnod 7) | (Cyllideb Derfynol 2023-24 – Chwefror 2023) Dangosol 2024-25 | Cyllid a Ailflaenoriaethwyd 2024-25 | Cyfuno Grantiau 2024-25 | Newidiadau Eraill 2024-25 | Cyllideb Ddrafft 2024-25 (Rhagfyr 2023) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000s | | | | | | | | |
| | Bwyd a Maeth mewn Ysgolion | 58,277 | 78,915 | 78,915 | 74,662 | 98,915 | -1,000 | 0 | 3,500 | 101,415 |
| | Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 | 14,019 | 13,881 | 13,881 | 14,804 | 13,881 | 0 | 0 | 0 | 13,881 |
| | Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant | 4,253 | 5,400 | 5,400 | 4,113 | 6,600 | 0 | -4,750 | 0 | 1,850 |
| | Grwpiau Agored i Niwed | 672 | 1,150 | 1,150 | 841 | 1,150 | 0 | -500 | 270 | 920 |
| **Cyfanswm Llesiant plant a phobl ifanc** | | **96,220** | **124,937** | **123,830** | **118,801** | **146,137** | **-1,000** | **-27,250** | **3,770** | **121,657** |
| **Cymorth dysgwyr Ôl-16** | Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr | 310,426 | 346,895 | 346,895 | 295,803 | 345,895 | -63,533 | 0 | 0 | 282,362 |
| | Costau Gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr/CThEF | 21,468 | 14,643 | 14,643 | 19,750 | 18,143 | 0 | 0 | 0 | 18,143 |
| | Darpariaeth Gyllidebol Adnoddau Benthyciadau i Fyfyrwyr | -165,355 | 488,010 | 488,010 | 488,010 | 514,341 | 0 | 0 | 0 | 514,341 |
| | Dyfarniadau Cymorth i Fyfyrwyr Penodol | -316 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cymorth Dysgwyr Ôl-16** | | **166,223** | **849,548** | **849,548** | **803,563** | **878,379** | **-63,533** | **0** | **0** | **814,846** |
| **Ymgysylltu â Disgyblion** | Trechu Dadrithiad | 5,963 | 7,905 | 5,381 | 5,006 | 7,905 | 0 | -4,200 | 0 | 3,705 |
| | Ysgolion Bro | 1,129 | 5,100 | 7,600 | 7,646 | 15,920 | 0 | -15,545 | 0 | 375 |
| **Cyfanswm Ymgysylltu â Disgyblion** | | **7,092** | **13,005** | **12,981** | **12,652** | **23,825** | **0** | **-19,745** | **0** | **4,080** |
| **Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Chyflogaeth** | Dysgu ar gyfer Troseddwyr | 7,303 | 7,328 | 7,328 | 7,328 | 7,328 | 0 | 0 | 0 | 7,328 |
| | Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Chyflogaeth | 12,181 | 11,956 | 15,656 | 14,619 | 12,376 | -1,000 | 0 | 0 | 11,376 |
| **Cyfanswm Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Chyflogaeth** | | **19,484** | **19,284** | **22,984** | **21,947** | **19,704** | **-1,000** | **0** | **0** | **18,704** |
| **Cymorth Cyflawni** | Cyfathrebu ym maes Addysg | 378 | 413 | 413 | 482 | 413 | 0 | 0 | 0 | 413 |
| | Rhaglen Addysg Ryngwladol | 591 | 574 | 574 | 542 | 574 | -50 | 0 | 0 | 524 |
| **Cyfanswm Darparu Cymorth** | | **969** | **987** | **987** | **1,024** | **987** | **-50** | **0** | **0** | **937** |
| **Cymraeg mewn Addysg** | Cymraeg mewn Addysg | 17,713 | 20,775 | 19,030 | 18,830 | 24,275 | -3,500 | -2,200 | -1,675 | 16,900 |
| **Cyfanswm Cymraeg mewn Addysg** | | **17,713** | **20,775** | **19,030** | **18,830** | **24,275** | **-3,500** | **-2,200** | **-1,675** | **16,900** |

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Cyllideb Ddrafft 2024-25**
**Papur Tystiolaeth – Atodiadau**

| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol 2022-23 | Cyllideb Derfynol 2023-24 (Chwefror 2023) | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 (Mehefin 2023) | Alldro a Ragwelir 2023-24 (Cyfnod 7) | (Cyllideb Derfynol 2023-24 – Chwefror 2023) Dangosol 2024-25 | Cyllid a Ailflaenoriaethwyd 2024-25 | Cyfuno Grantiau 2024-25 | Newidiadau Eraill 2024-25 | Cyllideb Ddrafft 2024-25 (Rhagfyr 2023) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000s | | | | | | | | |
| Y Gymraeg | Y Gymraeg | 23,716 | 22,404 | 24,149 | 26,236 | 22,404 | 0 | -500 | 1,675 | 23,579 |
| | Comisiynydd y Gymraeg | 3,101 | 3,357 | 3,282 | 3,282 | 3,357 | -168 | 0 | 0 | 3,189 |
| | Comisiynydd y Gymraeg – Heb fod yn Arian Parod | 165 | 169 | 245 | 245 | 121 | 0 | 0 | 0 | 121 |
| **Cyfanswm Y Gymraeg** | | **26,982** | **25,930** | **27,676** | **29,763** | **25,882** | **-168** | **-500** | **1,675** | **26,889** |
| Ystadau a Darpariaethau TG | Seilwaith Addysg | 2,206 | 5,000 | 5,000 | 2,259 | 10,000 | -3,000 | -2,100 | 4,000 | 8,900 |
| **Cyfanswm Ystadau a Darpariaethau TG** | | **2,206** | **5,000** | **5,000** | **2,259** | **10,000** | **-3,000** | **-2,100** | **4,000** | **8,900** |
| **ADDYSG – CYFANSWM Y GYLLIDEB ADNODDAU** | | **1,595,622** | **2,269,792** | **2,308,580** | **2,243,604** | **2,332,205** | **-102,985** | **0** | **7,978** | **2,237,198** |

## Cyfalaf

| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol 2022-23 | Cyllideb Derfynol 2023-24 (Chwefror 2023) | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 (Mehefin 2023) | Alldro a Ragwelir 2023-24 (Cyfnod 7) | Cyllideb Derfynol 2023-24 – Chwefror 2023) Dangosol 2024-25 | Cyllid a Ailflaenoriaethwyd 2024-25 | Newidiadau Eraill 2024-25 | Cyllideb Ddrafft 2024-25 (Rhagfyr 2023) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000s | | | | | | | |
| Ystadau a Darpariaethau TG | Seilwaith Addysg | 347,181 | 354,400 | 354,400 | 310,480 | 353,400 | -10,000 | 0 | 343,400 |
| **Cyfanswm Ystadau a Darpariaethau TG** | | **347,181** | **354,400** | **354,400** | **310,480** | **353,400** | **-10,000** | **0** | **343,400** |
| Cymorth Dysgwyr Ôl-16 | Costau Gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr/CThEF | 3,748 | 2,500 | 2,500 | 5,267 | 2,500 | 0 | 0 | 2,500 |
| **Cyfanswm Cymorth Dysgwyr Ôl-16** | | **3,748** | **2,500** | **2,500** | **5,267** | **2,500** | **0** | **0** | **2,500** |
| Addysg Uwch | CCAUC – Gwariant ar Raglenni | 6 | 100 | 100 | 100 | 100 | 0 | 0 | 100 |
| **Cyfanswm Addysg Uwch** | | **6** | **100** | **100** | **100** | **100** | **0** | **0** | **100** |
| Addysg Ôl-16 | Darpariaeth Ôl-16 | -2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol | 0 | 0 | 0 | 2,385 | | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Addysg Ôl-16** | | **-2** | **0** | **0** | **2,385** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cymwysterau** | Cymwysterau Cymru | 275 | 250 | 250 | 250 | 250 | 0 | 0 | 250 |
| **Cyfanswm Cymwysterau** | | **275** | **250** | **250** | **250** | **250** | **0** | **0** | **250** |
| **Y Gymraeg** | Comisiynydd y Gymraeg | 242 | 50 | 50 | 50 | 50 | 0 | 0 | 50 |
| **Cyfanswm Y Gymraeg** | | **242** | **50** | **50** | **50** | **50** | **0** | **0** | **50** |
| **ADDYSG – CYFANSWM Y GYLLIDEB CYFALAF CYFFREDINOL** | | **351,450** | **357,300** | **357,300** | **318,532** | **356,300** | **-10,000** | **0** | **346,300** |
| **Ystadau a Darpariaethau TG** | Seilwaith Addysg – Llawnamser | 3,178 | 15,557 | 15,557 | 20,000 | 0 | 0 | 2,788 | 2,788 |
| | Seilwaith Addysg – Ad-daliadau | -657 | -671 | -671 | -671 | -686 | 0 | 0 | -686 |
| **Cyfanswm Ystadau a Darpariaethau TG** | | **2,521** | **14,886** | **14,886** | **19,329** | **-686** | **0** | **2,788** | **2,102** |
| **ADDYSG – CYFANSWM Y GYLLIDEB CYFALAF LLAWNAMSER** | | **2,521** | **14,886** | **14,886** | **19,329** | **-686** | **0** | **2,788** | **2,102** |
| **ADDYSG – CYFANSWM Y GYLLIDEB CYFALAF** | | **353,971** | **372,186** | **372,186** | **337,861** | **355,614** | **-10,000** | **2,788** | **348,402** |

## ATODIAD B – Sylwadau ar lefel Camau Gweithredu o fewn y MEG

### Adnodd

#### *Camau Gweithredu Cwricwlwm*

Llinell Wariant yn y Gyllideb Cwricwlwm ac Asesu ***(Gweler Adran 2.5 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Cwricwlwm ac Asesu yn ymdrin ag amrywiaeth eang o weithgarwch sy'n rhychwantu'r cwricwlwm blaenorol a'r Cwricwlwm newydd i Gymru, gan gynnwys mentrau sy'n cefnogi'r broses o gyflwyno pynciau STEM, y Celfyddydau a Cherddoriaeth, Dysgu Sylfaenol, Ieithoedd Tramor Llythrennedd a Rhifedd, a chyllid i gefnogi datblygiadau o ran trefniadau asesu.

- Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Cwricwlwm ac Asesu wedi'i lleihau £18.2m yn 2024-25, gan gynnwys:
  - Lleihad o £2.4m fel rhan o'r ymarfer ail-flaenoriaethu. Sicrhawyd y lleihad hwn mewn cyllid drwy gyfyngu ar weithgareddau a gynlluniwyd mewn perthynas ag Ieithoedd Tramor Modern (£0.1m), Dysgu Cynnar (£0.06m) a Diwygio'r Cwricwlwm (£1.61m), a lleihau cyllid ar gyfer Techniquest a Xplore! (£0.13m) a'r Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol (£0.5m);
  - mae £16.246m wedi'i drosglwyddo i'r grantiau cyfunedig newydd fel rhan o'r ymarfer cyfuno grantiau:
    - £10.978m ar gyfer Grant Diwygio'r Cwricwlwm i Ysgolion i Linell Wariant yn y Gyllideb Diwygio'r Cwricwlwm (Grant Addysg Awdurdodau Lleol); a
    - £5.268m ar gyfer Grant Addysg Feithrin y Cyfnod Sylfaen i Linell Wariant yn y Gyllideb Safonau Ysgolion (Grant Addysg Awdurdodau Lleol).
  - Trosglwyddiad rhwng Llinellau Gwariant yn y Gyllideb o £0.462m o Linell Wariant yn y Gyllideb Gwella Ysgolion ar gyfer Cymorth y Consortia Rhanbarthol ar gyfer Ieithoedd.

#### *Camau Gweithredu Dysgu ac Arweinyddiaeth (Gweler Adran 2.4 o'r Papur Tystiolaeth)*

Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon

- Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon wedi'i lleihau £25.851m yn 2024-25, gan gynnwys:
  - dyraniad nad yw'n arian parod o £0.4m o gronfeydd wrth gefn er mwyn amorteiddio asedau sefydlog anniriaethol yn ymwneud â datblygu cronfa ddata a dibrisiant cyfarpar TG mewn perthynas â Chyngor y Gweithlu Addysg;

- lleihad o £2.306m fel rhan o'r ymarfer ailfaenoriaethu, gan gynnwys lleihau cyllid i'r CGA (£1.2m), y Radd Meistr mewn Addysg (£0.3m), AGA Seiliedig ar Gyflogaeth (£0.5m) a mentrau AGA seiliedig ar alw (£0.306m);
- mae £23.945m wedi'i drosglwyddo i'r grantiau cyfunedig newydd fel rhan o'r ymarfer cyfuno grantiau:
  - £2.570m ar gyfer Dysgu Proffesiynol Cymraeg i Linell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg 2050 (Grant Addysg Awdurdodau Lleol); a
  - £21.375m o gyllid Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysgol i Linell Wariant yn y Gyllideb Diwygio Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol).

***Camau Gweithredu Cymorth ALl Addysg Cyn-16 (Gweler Adran 1.3 a 2.1 o'r Papur Tystiolaeth)***

Er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ac ysgolion ymateb i'r heriau sylweddol a wynebir mewn meysydd fel presenoldeb, ymddygiad, safonau a llesiant disgyblion, mae grantiau wedi'u cyfuno yng Ngrant Addysg Awdurdodau Lleol, sydd â phedwar llinyn.

<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb Diwygio Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol)</u>

- Mae cyfanswm o £54.353m wedi'i drosglwyddo i'r grant cyfunedig newydd, gan gynnwys:
  - £10.978m ar gyfer Grant Diwygio'r Cwricwlwm i Ysgolion o Linell Wariant yn y Gyllideb Cwricwlwm ac Asesu;
  - £21.375m o gyllid Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysgol o Linell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon; a
  - £22m ar gyfer Grantiau Gweithredu a Darpariaeth ADY o Linell Wariant yn y Gyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol.

<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb Safonau Ysgolion (Grant Addysg Awdurdodau Lleol)</u>

- Mae cyfanswm o £159.885m wedi'i drosglwyddo i'r grant cyfunedig newydd, gan gynnwys:
  - £5.268m ar gyfer Grant Addysg Feithrin y Cyfnod Sylfaen o Linell Wariant yn y Gyllideb Cwricwlwm ac Asesu;
  - £115.197m ar gyfer y Grant Gwella Addysg o Linell Wariant yn y Gyllideb y Grant Gwella Ysgolion;
  - £28.5m ar gyfer y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau o Linell Wariant yn y Gyllideb y Grant Gwella Ysgolion;
  - £0.5m drwy ail-flaenoriaethu cyllid i gefnogi'r grant newydd o Linell Wariant yn y Gyllideb Ysgolion Rhithwir;
  - £8.32m drwy ailflaenoriaethu cyllid i gefnogi'r grant newydd o Linell Wariant yn y Gyllideb Ysgolion Bro; a
  - £2.1m drwy ailflaenoriaethu cyllid i gefnogi'r grant newydd o Linell Wariant yn y Gyllideb Seilwaith Addysg.

<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb Tegwch mewn Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol)</u>

- Mae cyfanswm o £155m wedi'i drosglwyddo i'r grant cyfunedig newydd, gan gynnwys:
  - £11m ar gyfer y Grant Disgyblion o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr o Linell Wariant yn y Gyllideb y Grant Gwella Ysgolion;
  - £127.825m ar gyfer y Grant Datblygu Ysgolion o Linell Wariant yn y Gyllideb Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad;
  - £3.55m ar gyfer cyllid cwnsela mewn ysgolion a chynnydd arfaethedig o £1.2m o Linell Wariant yn y Gyllideb Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant;
  - £1.7m ar gyfer cyllid Addysg yn y Cartref o Linell Wariant yn y Gyllideb Trechu Dadrithiad;
  - £2.5m ar gyfer cyllid Swyddogion Lles Addysg o Linell Wariant yn y Gyllideb Trechu Dadrithiad;
  - £6.532m ar gyfer cyllid Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd o Linell Wariant yn y Gyllideb Ysgolion Bro; a
  - £0.693m ar gyfer swydd Rheolwr Ysgolion Bro o Linell Wariant yn y Gyllideb Ysgolion Bro.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg 2050 (Grant Addysg Awdurdodau Lleol)

- Mae cyfanswm o £9.77m wedi'i drosglwyddo i'r grant cyfunedig newydd, gan gynnwys:
  - £2.57m ar gyfer Dysgu Proffesiynol Cymraeg o Linell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon;
  - £4.5m ar gyfer y Grant Cymraeg mewn Addysg o Linell Wariant yn y Gyllideb y Grant Gwella Ysgolion;
  - £0.5m o gyllid ar gyfer y Siarter Iaith o Linell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg; a
  - £2.2m o gyllid Trochi o Linell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg.

***Camau Gweithredu Cymwysterau (Gweler Adran 2.12 o'r Papur Tystiolaeth)***

Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymwysterau Cymru

- Darparu grant er budd Cymwysterau Cymru, corff hyd braich a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru. Caiff Cymwysterau Cymru, a sefydlwyd yn 2015 gan Ddeddf Cymwysterau Cymru, ei ariannu'n llwyr gan Lywodraeth Cymru.

- Cynyddwyd cyllideb Cymwysterau Cymru £0.39m yn 2023-24 a chaiff ei chynnal yn 2024-25 yn dilyn dyraniad o Gronfeydd Wrth Gefn i sicrhau cynnydd ar gyfer cyflogau. Mae'r gyllideb cyllid a'r gyllideb nad yw'n arian parod yn cael eu cynnal ar lefelau 2023-24.

***Camau Gweithredu Addysg Ôl-16***

- Mae'r camau gweithredu hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer darparu cymwysterau UG, Safon Uwch ac amrywiaeth eang o raglenni galwedigaethol i bobl ifanc 16-19

mewn colegau addysg bellach a chweched dosbarth awdurdodau lleol. Mae hefyd yn cynnig darpariaeth ran-amser i oedolion (Sgiliau Sylfaenol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill yn bennaf, mewn colegau addysg bellach a lleoliadau dysgu cymunedol awdurdodau lleol. Mae'r camau gweithredu hefyd yn cefnogi prosiectau strategol a gweithgareddau gwella ansawdd sydd â'r nod o wella'r broses o ddarparu cyfleoedd dysgu ôl-16 yng Nghymru, gan gynnwys cymorth ar gyfer gwella ansawdd, meithrin gallu ac ymchwil ar gyfer y sector dysgu a sgiliau, cyllid grant ar gyfer y Sefydliad Dysgu a Gwaith (gan gynnwys Wythnos Dysgu i Oedolion), Cyfrifon Dysgu Personol, datblygu polisi Gofalwyr, cyllid i gefnogi'r broses o gyflwyno rhwydwaith Seren, sy'n helpu'r disgyblion disgleiriaf i gamu ymlaen i brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton; a gweithgareddau'r Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu – Taith er mwyn cefnogi staff a myfyrwyr i deithio dramor. Mae'r camau gweithredu hyn hefyd yn cefnogi costau sy'n gysylltiedig â diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol wrth sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Ceir hefyd gyllideb dibrisiant nad yw'n arian parod i gefnogi'r buddsoddiad mewn TG yn y sefydliad newydd.

2.23.3 Mae'r gyllideb hon wedi'i lleihau £14.528m yn 2024-25 i £579.113m.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Darpariaeth Ôl-16 ***(Gweler Adrannau 2.17 a 2.19 o'r Papur Tystiolaeth)***

2.23.4 Nodwyd lleihad o £12.928m fel rhan o'r ymarfer ailflaenoriaethu, a hynny yn y meysydd canlynol:

- adhawliad posibl o £2m yn erbyn y targedau ar gyfer darpariaeth ran-amser;
- £1.845m aer gyfer hyfforddiant Anghenion Cymhleth a'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth;
- lleihad o £1.045m i gyd-fynd â'r proffiliau anghenion presennol ar gyfer cyllidebau Urddas Mislif (£0.345m), Prentisiaethau Iau Addysg Bellach (£0.1m) a'r Adolygiad o Ddysgu Oedolion (£0.6m);
- lleihad £0.838m i gyllideb Seren; a
- £7.2m drwy ddileu'r gyllideb ar gyfer Cyfrifon Dysgu Personol drwy eu prif-ffrydio mewn darpariaeth ran-amser.

Llinell Wariant yn y Gyllideb y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu ***(Gweler Adran 2.19 o'r Papur Tystiolaeth)***

2.23.5 Mae'r gyllideb ar gyfer Taith a Cymru Fyd-eang wedi'i lleihau £1.6m yn 2024-25 fel rhan o'r ymarfer ailflaenoriaethu.

Llinell Wariant yn y Gyllideb y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ***(Gweler Adran 2.8 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Dyrennir £78k o gronfeydd wrth gefn i fodloni gofynion nad ydynt yn arian parod y corff hyd braich newydd. Cynhelir y gyllideb refeniw ar £6m.
- Disgwylir trosglwyddiadau pellach mewn cyllid yn y dyfodol i drosglwyddo cyllidebau addysg bellach ac addysg uwch i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

***Camau Gweithredu Addysg Uwch (Gweler Adran 2.18 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyllid Cymorth Grant ar gyfer CCAUC i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yn y llythyr cylch gwaith blynyddol. Mae CCAUC hefyd yn bartner allweddol i fynd ar drywydd gwaith i sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru. Mae hefyd yn cynnwys dyraniad nad yw'n arian parod CCAUC. Caiff cyllid ei drosglwyddo i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil mewn cyllideb yn y dyfodol.

<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb CCAUC – Gwariant ar Raglenni (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil)</u>

- Mae'r gyllideb wedi'i lleihau £11m yn 2024-25 o ganlyniad i'r ymarfer ailflaenoriaethu, gan gynnwys:
  - lleihad o 3.2m drwy ddileu bwrsarïau i raddedigion; a
  - lleihad o £7.8m yng nghyllideb heb ei chlustnodi CCAUC (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.
- Cynhelir y dyraniad nad yw'n arian parod i gefnogi buddsoddiad cyfalaf ar £0.1m yn 2024-25.

***Camau Gweithredu Safonau Addysg***

<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb y Grant Gwella Ysgolion</u> ***(Gweler Adrannau 2.2 a 2.9 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn darparu ar gyfer y Grant Gwella Addysg, gan gynnwys darpariaeth y Cyfnod Sylfaen, drwy Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol. cyllid grant i awdurdodau lleol ar gyfer dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr; a chyllid ar gyfer Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau mewn ysgolion.

- Yn 2024-25, caiff y grantiau addysg cyn-16 eu cyfuno a chaiff chyllid o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon ei drosglwyddo i'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb newydd ar gyfer grantiau cyfunedig fel a ganlyn:
  - £11m ar gyfer y Grant Disgyblion o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr i Linell Wariant yn y Gyllideb Tegwch mewn Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol;
  - £4.5m ar gyfer y Grant Cymraeg mewn Addysg i Linell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg 2050; a
  - £115.197m ar gyfer y Grant Gwella Addysg a £28.5m ar gyfer y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau i Linell Wariant yn y Gyllideb Safonau Ysgolion (Grant Addysg Awdurdodau Lleol).

- trosglwyddiad rhwng Llinellau Gwariant yn y Gyllideb o £0.462m ar gyfer Cymorth y Consortia Rhanbarthol ar gyfer Ieithoedd i Linell Wariant yn y Gyllideb Cwricwlwm ac Asesu.

<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb Safonau Ysgolion</u> ***(Gweler Adran 2.11 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae'r gyllideb hon yn ariannu systemau fel bod modd casglu data ar ysgolion, dysgwyr a'r gweithlu, ac adrodd arnynt mewn modd statudol, gan ddarparu tystiolaeth ar gyfer gweithgarwch polisi proffil uchel, ymchwil ac ystadegau. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng cyllid a thystiolaeth o wella safonau a mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad. Mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi cyfranogiad Cymru yn PISA. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r gyllideb hon wedi darparu cyllid ychwanegol i Estyn.

- Erys y gyllideb hon yn £3.126m yn 2024-25.

***Camau Gweithredu Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad***

<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad</u> ***(Gweler Adran 2.3 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae'r gyllideb ar gyfer Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad wedi'i lleihau £128.595m yn 2024-25, gan gynnwys:
  - lleihad o £0.5m fel rhan o'r ymarfer ailflaenoriaethu i'r Grant Hanfodion Ysgolion seiliedig ar alw, yn seiliedig ar niferoedd llai o blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn nata diwygiedig CYBLD 2023. Ni fydd y cyllid cyffredinol a ddarperir i ddisgyblion cymwys yn newid (£125 fesul dysgwr neu £200 ar gyfer y rheini sy'n dechrau ym Mlwyddyn 7);
  - trosglwyddiad o £127.825m ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion i Linell Wariant yn y Gyllideb gyfunedig newydd Tegwch mewn Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) fel rhan o'r ymarfer cyfuno grantiau; a
  - trosglwyddiad rhwng Llinellau Gwariant yn y Gyllideb o £0.27m ar gyfer Plant Milwyr i Linell Wariant yn y Gyllideb Grwpiau Agored i Niwed.

***Camau Gweithredu Systemau TGCh a Rheoli Gwybodaeth***

<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg</u>

- Mae'r cyllid hwn yn cefnogi'r broses o gyflawni Rhaglen Hwb, sy'n cynnig mynediad i ysgolion a gynhelir yng Nghymru at amrywiaeth eang o wasanaethau ac adnoddau dysgu digidol sydd â'r nod o ysbrydoli ein hathrawon a'n dysgwyr i ymgorffori arferion digidol yn hyderus, gan ddatblygu eu diwylliant, eu cymwyseddau, eu sgiliau a'u gwybodaeth i ategu'r Cwricwlwm i Gymru.

- Cynhelir cyllid ar gyfer Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg ar £6.417m yn 2024-25. Mae hyn yn cynnwys hyd at £3.929m bron yn arian parod a £2.488m heb fod yn arian parod.

***Camau Gweithredu Llesiant Plant a Phobl Ifanc***

<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol</u> ***(Gweler Adran 2.10 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae £22m ar gyfer Grantiau Gweithredu a Darpariaeth ADY wedi'i drosglwyddo i Linell Wariant yn y Gyllideb gyfunedig newydd Diwygio Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) fel rhan o'r ymarfer cyfuno grantiau.

<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb Bwyd a Maeth</u> ***(Gweler Adran 2.3 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Bwyd a Maeth yn ariannu nifer o raglenni, gan gynnwys Rhaglen Gwella Gwyliau’r Haf a'r cynllun i ddarparu Llaeth Ysgol am ddim yn y Cyfnod Sylfaen ac am bris gostyngol yng Nghyfnod Allweddol 2. At hynny, mae hefyd yn ariannu'r gwaith cynnal a gwella sydd ei angen i'r System Electronig ar gyfer Cadarnhau pwy sy’n Gymwys am Brydau Ysgol am Ddim

- Ceir cynnydd net o £2.5m ar gyfer Bwyd a Maeth mewn Ysgolion, gan gynnwys:
  - dyraniad o £3.5m o gronfeydd wrth gefn o ganlyniad i ailbroffilio cyllid y Cytundeb Cydweithio ar gyfer darparu Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd.
  - lleihad o £1m fel rhan o'r ymarfer ailflaenoriaethu, a lleihad o £0.2m i'r gyllideb Llaeth Ysgol seiliedig ar alw yn seiliedig ar y niferoedd presennol sy'n manteisio ar y ddarpariaeth (ni fydd yr arbedion yn effeithio ar blant sy'n cael llaeth am ddim (CA1) a llaeth am bris gostyngol (CA2)) a £0.8m yn ymwneud â'r cynllun peilot i gynnig brecwast i ddisgyblion Blwyddyn 7, a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2023.

<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb Lleoliadau Arbenigol Ôl-16</u> ***(Gweler Adran 2.10 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae'r gyllideb yn darparu cyllid ar gyfer lleoliadau mewn colegau arbenigol i ddysgwyr hyd at 25 oed y mae angen darpariaeth arbenigol arnynt er mwyn manteisio ar addysg bellach sy'n addas i ddiwallu eu hanghenion. Mae'n gyllid statudol (annewisol) sy'n seiliedig ar alw, a ddyrennir ar sail unigol yn ôl anghenion addysg a hyfforddiant a aseswyd yn unol â dyletswyddau Gweinidogion Cymru o dan Adran 41 o'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau. Mae darpariaeth addysg bellach arbenigol yn hanfodol i sicrhau bod y bobl ifanc anabl hynny na ellir diwallu eu hanghenion yn eu coleg lleol yn gallu manteisio ar addysg bellach a hyfforddiant sy'n addas i'w hanghenion.

- Cynhelir cyllid ar gyfer Llinell Wariant yn y Gyllideb Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 ar £13.881m yn 2024-25.

<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant</u> ***(Gweler Adran 2.6 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Darperir cyllid i gefnogi dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl. Roedd Cyllideb Ddrafft 2022-23 yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl,

gan gynnwys cyllid i ymestyn y ddarpariaeth gwnsela a chyflwyno mewngymorth CAMHS.

- Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant wedi'i lleihau £4.75m yn 2024-25 drwy drosglwyddo cyllid awdurdodau lleol i'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol cyfunedig newydd.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Grwpiau Agored i Niwed ***(Gweler Adran 2.3 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae'r cyllid yn cynnwys y Grant Ysgolion Rhithwir, gwaith ar wrth-hiliaeth, canllawiau ar drawsrywedd (ffioedd cyfreithiol posibl) a chyllid a ddarperir ar y cyd ag Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y Rhaglen Maethu a Llesiant.
- Lleihad net o £0.23m, gan gynnwys:
  - trosglwyddiad o £0.5m i'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol cyfunedig newydd. a
  - cynnydd o £0.27m o ganlyniad i drosglwyddiad rhwng Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer Plant Milwyr o Linell Wariant yn y Gyllideb Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad.

***Camau Gweithredu Cymorth Dysgwyr Ôl-16***

- Mae'r camau gweithredu hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer cyfrifon y rhaglenni cymorth i fyfyrwyr statudol seiliedig ar alw ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach. Mae'r gyllideb yn cefnogi Grantiau a Ffioedd Rhan-amser, Grantiau Penodol y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr, Grantiau Ffioedd Dysgu a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg Mae hefyd yn darparu'r ffi weinyddu a delir i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, ffi weinyddu CThEF, ffi'r Brifysgol Agored am weinyddu cymorth statudol i fyfyrwyr ar gyfer carfanau hanesyddol o fyfyrwyr a gwaith polisi a gweithredu, ynghyd â'r ddarpariaeth nad yw'n arian parod ar gyfer benthyciadau myfyrwyr.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr ***(Gweler Adran 2.18 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae'r gyllideb wedi'i lleihau £63.533m yn 2024-25 drwy ddileu Grantiau i Raddedigion (£9.6m) a lleihau'r gyllideb ar gyfer Grantiau Cymorth Addysg Bellach (£53.933m). Gan fod cyllidebau cymorth i fyfyrwyr yn seiliedig ar alw, maent yn amrywio yn ôl demograffeg a'r niferoedd sy'n astudio ar lefel addysg uwch. Ar sail tanwariant hanesyddol, mae'r gyllideb wedi'i hailflaenoriaethu.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Costau Gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr/CThEF

- Cynhelir y gyllideb ar y lefel gyhoeddedig, sef £18.143m yn 2024-25.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Darpariaeth Gyllidebol Adnoddau Benthyciadau i Fyfyrwyr

- Cynhelir y gyllideb ar y lefel gyhoeddedig, sef £514.341m yn 2024-25.

***Camau Gweithredu Ymgysylltu â Disgyblion***

Llinell Wariant yn y Gyllideb Trechu Dadrithiad ***(Gweler Adran 2.7 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae'r cyllid yn cefnogi gweithgareddau sydd â'r nod o wella deilliannau dysgwyr agored i niwed/difreintiedig drwy: atal bwlio a gwella presenoldeb mewn ysgolion; Gŵyl y Gelli (rhaglenni i ysgolion a dysgwyr); addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), cwnsela; addysg yn y cartref; presenoldeb; gwrth-fwlio.

- Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Trechu Dadrithiad wedi'i lleihau £4.2m yn 2024-25 o ganlyniad i drosglwyddo cyllid Addysg yn y Cartref (£1.7m) a chyllid Swyddogion Lles Addysg (£2.5m) i Linell Gwariant yn y Gyllideb gyfunedig newydd Tegwch mewn Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Addysg) fel rhan o'r ymarfer cyfuno grantiau.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Ysgolion Bro ***(Gweler Adran 2.3 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae'r cyllid yn cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i "ymchwilio i ddiwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol" er mwyn mynd i'r afael ag anfantais, lleihau anghydraddoldebau addysgol, cefnogi llesiant dysgwyr a staff a'u cysoni'n fwy â phatrymau bywyd a gwaith y teulu cyfoes.

- Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Ysgolion Bro wedi'i lleihau £15.545m yn 2024-25 drwy drosglwyddo cyllid i'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol cyfunedig newydd:
  - £7.225m i Linell Wariant yn y Gyllideb Tegwch mewn Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) ar gyfer cyllid Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd (£6.532m) a chyllid Rheolwyr Ysgolion Bro (£0.693m); ac
  - ailflaenoriaethu £8.32m yn ymwneud â chynnydd arfaethedig yn Llinell Wariant yn y Gyllideb i Linell Wariant yn y Gyllideb Safonau Ysgolion (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) BEL.

***Camau Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid***

Llinell Wariant yn y Gyllideb Dysgu ar gyfer Troseddwyr ***(Gweler Adran 2.16 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Darperir cyllid i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) i gefnogi darpariaeth dysgu a sgiliau carcharorion mewn carchardai i oedolion. Mae cyllid hefyd ar gael ar gyfer prosiectau peilot arloesol sy'n cefnogi'r agenda Dysgu ar gyfer Troseddwyr, ac i gefnogi darpariaeth sgiliau hanfodol i'r rheini sy'n bwrw dedfrydau yn y gymuned. Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i ddarparu cyllid ar gyfer addysg mewn carchardai i oedolion yng Nghymru.

- Cynhelir cyllid ar gyfer Llinell Wariant yn y Gyllideb Dysgu ar gyfer Troseddwyr ar £7.328m yn 2024-25.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid ***(Gweler Adran 2.15 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae'r cyllid hwn yn cefnogi gweithgareddau sydd â'r nod o wella deilliannau i bobl ifanc (11-25 oed), gan gefnogi eu datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol a chydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal â'u hymgysylltiad parhaus ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. At hynny, y bwriad yw i weithgareddau gwaith ieuenctid ac ymgysylltiad a chynnydd ieuenctid gyfrannu at agendâu ehangach y llywodraeth, gan gynnwys iechyd meddwl a llesiant, a digartrefedd ymysg pobl ifanc.

- Bydd y gyllideb hon yn lleihau £1m yn 2024-25 fel rhan o'r ymarfer ailflaenoriaethu. Caiff y lleihad ei sicrhau drwy arafu cynnydd y broses o helpu i roi argymhellion y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro ar waith.

***Camau Gweithredu Cymorth Cyflawni***

Linell Wariant yn y Gyllideb Cyfathrebu ym maes Addysg

- Dyrennir cyllid i gynnal gweithgareddau cyfathrebu mewn perthynas ag addysg.

- Cynhelir y gyllideb ar £0.413m yn 2024-25.

Linell Wariant yn y Gyllideb y Rhaglen Addysg Ryngwladol

- Mae'r gyllideb yn cefnogi'r Rhaglen Addysg Ryngwladol, gan gynnwys grantiau i'r British Council (gan gynnwys Prosiect yr Iaith Gymraeg, Patagonia) ac Ymddiriedolaeth Addysg yr Holocost

- Bydd cyllid ar gyfer Grant y British Council o fewn y Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn lleihau £0.05m fel rhan o'r ymarfer ailflaenoriaethu.

***Camau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (Gweler Adrannau 2.13 a 2.19 o'r Papur Tystiolaeth)***

Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg

- Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg yn cefnogi gweithgareddau sy'n ymwneud ag elfennau addysgol Cymraeg 2050:
  - Cyllid ar gyfer Mudiad Meithrin i gynyddu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg fel llwybr i addysg cyfrwng Cymraeg;

- Cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg a rhoi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd newydd ar waith;
- Comisiynu adnoddau addysgu a dysgu; ac
- Cyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16.

- Bydd Linell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg yn lleihau £7.375m yn 2024-25, gan gynnwys:
  - lleihad o £3.5m fel rhan o'r ymarfer ailflaenoriaethu drwy rewi cyllideb y Cytundeb Cydweithio ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar lefelau 2023-24;
  - trosglwyddiad o £2.2m ar gyfer grant Trochi i Linell Wariant yn y Gyllideb gyfunedig newydd Cymraeg 2050 (Grant Addysg Awdurdodau Lleol); a
  - trosglwyddiad rhwng Llinellau Gwariant yn y Gyllideb o £1.675m i Linell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg ar gyfer cyllid a ddyrannwyd drwy'r Cytundeb Cydweithio ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

***Camau Gweithredu Y Gymraeg (Gweler Adran 2.13 o'r Papur Tystiolaeth)***

Llinell Wariant yn y Gyllideb Y Gymraeg

- Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg yn cefnogi'r broses o roi strategaeth gyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, *Cymraeg 2050,* ar waith. Caiff y gweithgareddau y manylir arnynt yn y Strategaeth eu gweithredu mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol.

- Ceir cynnydd net o £1.175m yn 2024-25, gan gynnwys:
  - trosglwyddiad o £0.5m ar gyfer Siarter Iaith i Linell Wariant yn y Gyllideb gyfunedig newydd Cymraeg 2050 (Grant Addysg Awdurdodau Lleol); a
  - trosglwyddiad rhwng Llinellau Gwariant yn y Gyllideb o £1.675 o Linell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg ar gyfer cyllid a ddyrannwyd drwy'r Cytundeb Cydweithio ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb Comisiynydd y Gymraeg</u>

- Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn ariannu Comisiynydd y Gymraeg, gan gynnwys costau staff a swyddfeydd, costau cyfreithiol a phroffesiynol, hyfforddiant a recriwtio, a TG i gefnogi gwaith y Comisiynydd mewn perthynas ag amrywiaeth eang o swyddogaethau a phwerau.

- Mae cyllideb Comisiynydd y Gymraeg wedi'i lleihau £0.168m yn 2024-25 yn dilyn yr ymarfer ailflaenoriaethu. Cymhwyswyd lleihad o 5% yn unol â Chomisiynwyr eraill yn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol.

***Camau Gweithredu Ystadau a Darpariaethau TG***

<u>Linell Wariant yn y Gyllideb Seilwaith Addysg</u>

- Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn darparu'r cyllid refeniw sydd ei angen i gefnogi'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

- Dyrennir y gyllideb hon i gefnogi costau refeniw sy'n gysylltiedig â'r gwaith ehangach i gyflawni'r rhaglen, gan gynnwys arolwg Carbon Sero Net a grant ysgolion cyfrwng Cymraeg.

- Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb wedi'i lleihau £1.1m yn 2024-25, gan gynnwys:
  - lleihad o £3m fel rhan o'r ymarfer ailflaenoriaethu yn seiliedig ar ymrwymiadau sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â charbon sero net a Rhaglen Ysgolion Cyfrwng Cymraeg.
  - dyraniad o £4m o gronfeydd wrth gefn ar gyfer Taliadau Gwasanaeth Blynyddol Model Buddsoddi Cydfuddiannol Addysg; a
  - trosglwyddiad o £2.1m o gyllid wedi'i ailflaenoriaethu i gefnogi Llinell Wariant yn y Gyllideb gyfunedig newydd Safonau Ysgolion gyfunedig fel rhan o'r ymarfer cyfuno grantiau.

**<u>Cyfalaf</u>** ***(Gweler Adrannau 2.21 i 2.23 o'r Papur Tystiolaeth)***

***Camau Gweithredu Ystadau a Darpariaethau TG***

<u>Linell Wariant yn y Gyllideb Seilwaith Addysg</u>

- Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb yn cefnogi'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, sef buddsoddiad strategol hirdymor yn ein seilwaith addysg yng Nghymru, a ddatblygwyd mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r prif randdeiliaid addysg (awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach ac Esgobaethau Catholig a'r Eglwys yng Nghymru). Yn ogystal â chyllid cyfalaf ar gyfer y brif raglen, mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi gwahanol gynlluniau eraill a ariennir gan grantiau i gyflawni ein blaenoriaethau addysg, gan gynnwys y rhaglenni Ysgolion Cymunedau Bro, Cyfrwng Cymraeg, Gofal Plant, a Thechnoleg Addysg. Mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi cyllid cyfalaf ar gyfer benthyciadau cynhaliaeth addysg uwch a chyllid ar gyfer Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch, y darperir arian cyfatebol ar ei gyfer gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg.

- Bydd lleihad net yn y gyllideb yn 2024-25, yn cynnwys:
  - trosglwyddiad o £10m i gronfeydd wrth gefn fel rhan o'r ymarfer ailflaenoriaethu er mwyn rhoi cyfle i newid o gyfalaf i refeniw yn 2024-25; a
  - dyraniad o £2.788 o gronfeydd wrth gefn ar gyfer benthyciadau'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol drwy Fanc Datblygu Cymru – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (dwy ysgol gynradd) a Choleg Caerdydd a'r Fro (campysau'r Fro).

***Camau Gweithredu Cymorth Dysgwyr Ôl-16***

<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb Costau Gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr/CThEF</u>

- Cynhelir y gyllideb ar £2.5m yn 2023-24 ar gyfer gofynion cyfalaf y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.

***Camau Gweithredu Addysg Uwch***

<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb CCAUC – Gwariant ar Raglenni (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil</u>

- Cynhelir y gyllideb ar £0.1m y flwyddyn ar gyfer gofynion cyfalaf CCAUC (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil). Caiff cyllid ei drosglwyddo i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil mewn cyllideb yn y dyfodol.

***Camau Gweithredu Cymwysterau***

<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymwysterau Cymru</u>

***3.*** Cynhelir y gyllideb ar £0.25m y flwyddyn ar gyfer gofynion cyfalaf Cymwysterau Cymru.

**Camau Gweithredu Y Gymraeg**

<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb Comisiynydd y Gymraeg</u>

- Cynhelir y gyllideb ar £0.05m y flwyddyn ar gyfer gofynion cyfalaf Comisiynydd y Gymraeg.

## ATODIAD C – CYFUNO GRANTIAU GRANT ADDYSG AWDURDODAU LLEOL 2024-25 – CRYNODEB O'R TROSGLWYDDIADAU

| Y Llinell Wariant yn y Gyllideb y Trosglwyddwyd Ohoni | Disgrifiad | Sefyllfa 2023-24 £000 | Arfaethedig 2024-25 £000 | Newidiadau £000 | Grant Diwygiedig 2024-25 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cwricwlwm ac Asesu | Diwygio'r Cwricwlwm mewn Ysgolion | 14,779 | 10,978 | 0 | 10,978 |
| Datblygu a Chefnogi Athrawon | Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysgol | 21,448 | 21,375 | 0 | 21,375 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | Gweithredu a Darpariaethau ADY | 21,100 | 21,100 | 900 | 22,000 |
| **Cyfanswm Diwygio Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol)** | | **57,327** | **53,453** | **900** | **54,353** |
| Cwricwlwm ac Asesu | Addysg Feithrin y Cyfnod Sylfaen | 5,268 | 5,268 | 0 | 5,268 |
| Y Grant Gwella Ysgolion | Gwella Addysg | 115,197 | 115,197 | 0 | 115,197 |
| Y Grant Gwella Ysgolion | Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau | 37,500 | 28,500 | 0 | 28,500 |
| Ysgolion Rhithwir | Ailfaenoriaethu Cyllid | 0 | 0 | 500 | 500 |
| Ysgolion Bro | Ailfaenoriaethu Cyllid | 0 | 0 | 8,320 | 8,320 |
| Seilwaith Addysg | Ailfaenoriaethu Cyllid | 0 | 0 | 2,100 | 2,100 |
| **Cyfanswm Safonau Ysgolion (Grant Addysg Awdurdodau Lleol)** | | **157,965** | **148,965** | **10,920** | **159,885** |
| Y Grant Gwella Ysgolion | Grant Disgyblion o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr | 11,000 | 11,000 | 0 | 11,000 |
| Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad | Datblygu Disgyblion | 127,731 | 127,825 | 0 | 127,825 |
| Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant | Cwnsela yn yr Ysgol | 3,550 | 4,750 | 0 | 4,750 |
| Ysgolion Rhithwir | Grwpiau Agored i Niwed | 240 | 0 | 0 | 0 |
| Trechu Dadrithiad | Addysg yn y Cartref | 1,700 | 1,700 | 0 | 1,700 |
| Trechu Dadrithiad | Swyddogion Lles Addysg | 2,500 | 2,500 | 0 | 2,500 |
| Ysgolion Bro | Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd | 6,532 | 6,532 | 0 | 6,532 |
| Ysgolion Bro | Rheolwyr Ysgolion Bro | 693 | 693 | 0 | 693 |
| **Cyfanswm Cydraddoldeb mewn Addysg (Grant Gwella Awdurdodau Lleol)** | | **153,946** | **155,000** | **0** | **155,000** |
| Datblygu a Chefnogi Athrawon | Dysgu Proffesiynol yn y Gymraeg | 2,570 | 2,570 | 0 | 2,570 |
| Y Grant Gwella Ysgolion | Cymraeg mewn Addysg | 4,500 | 4,500 | 0 | 4,500 |
| Y Gymraeg | Siarter Iaith | 500 | 500 | 0 | 500 |
| Cymraeg mewn Addysg | Trochi | 2,200 | 2,200 | 0 | 2,200 |
| **Cyfanswm Cymraeg 2050 (Grant Addysg Awdurdodau Lleol)** | | **9,770** | **9,770** | **0** | **9,770** |
| **Cyfanswm Grantiau i ALlau** | | **379,008** | **367,188** | **11,820** | **379,008** |

## ATODIAD D – Trosglwyddiadau disgwyliedig ar gyfer MEG y Gymraeg ac Addysg yn Ail Gyllideb Atodol 2023-24

Yn ychwanegol at drosglwyddo gwerth £74.7m o refeniw a gwerth £40m o gyfalaf i gronfeydd wrth gefn fel rhan o'r ymarfer ailflaenoriaethu yn ystod y flwyddyn, caiff y trosglwyddiadau canlynol eu gwneud fel rhan o Ail Gyllideb Atodol 2023-24.

| Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Sylwadau | Swm £000 |
|---|---|---|
| **Trosglwyddiadau o MEG i MEG** | | |
| CCAUC – Gwariant ar Raglenni | I MEG yr Economi ar gyfer ei gyfran o'r tanwariant ar Brentisiaethau Gradd | -652 |
| Darpariaeth Ôl-16 | I MEG yr Economi i gefnogi rhaglen profiad gwaith a phrosiect rhwydwaith cyn-fyfyrwyr a gyflawnir gan Gyrfa Cymru | -370 |
| Darpariaeth Ôl-16 | O MEG yr Economi ar gyfer Entrepreneuriaeth Ieuenctid mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch | 360 |
| Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr | O'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o ganlyniad i ymestyn trefniadau Bwrsarïau GIG Cymru. | 350 |
| **Cyfanswm Trosglwyddiadau o MEG i MEG** | | **-312** |
| **Trosglwyddiadau Cronfeydd Wrth Gefn** | | |
| Dysgu ar gyfer Troseddwyr | O'r Weinyddiaeth Gyfiawnder drwy Gronfeydd Wrth Gefn i gefnogi'r ddarpariaeth addysg a sgiliau yn Garchar ei Fawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Y Parc. | 3,738 |
| Bwyd a Maeth mewn Ysgolion | Ailbroffilio cyllid y Cytundeb Cydweithio ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cymru. | 7,400 |
| **Cyfanswm Trosglwyddiadau Cronfeydd Wrth Gefn** | | **11,138** |
| **CYFANSWM TROSGLWYDDIADAU ADNODDAU – YR AIL GYLLIDEB ATODOL** | | **10,826** |

## ATODIAD E – Dyraniadau Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol ar gyfer 2023-24

| Disgrifiad o'r Cyllid | Cymru Gyfan 2023-24 £ |
|---|---|
| Cymorth rhanbarthol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a threfniadau asesu | £3,400,000 |
| Diwygio'r cwricwlwm a threfniadau asesu ysgolion, gan gynnwys y Rhwydwaith Cenedlaethol a chynnydd dysgu | £9,346,000 |
| Cymorth rhanbarthol ar gyfer Ieithoedd Modern (Ieithoedd Tramor Modern (Dyfodol Byd-eang)) | £462,000 |
| Ieithoedd Tramor Modern – meithrin gallu ar gyfer ITM yn y sector cynradd<br><br>Cymorth y Consortia Rhanbarthol ar gyfer ieithoedd tramor mewn ysgolion cynradd – mae'r cyllid hwn yn cefnogi datblygiadau mewn ysgolion cynradd o dan y Cwricwlwm i Gymru – **£238k**<br><br>Prosiect ieithoedd tramor ysgolion cynradd – yn cynnig cyfleoedd i athrawon cynradd fanteisio ar brosiect 'Dysgu i Addysgu Ieithoedd mewn ysgolion cynradd' y Brifysgol Agored, sy'n cynnig modiwlau Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg a Mandarin – **£33k** | £271,000 |
| Grant Llythrennedd a Rhifedd/Cymorth ar gyfer Gwella'r Cwricwlwm | £500,000 |
| Cynllun Llafaredd Ysgolion Cynradd Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol Cymru | £400,000 |
| Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol | £100,000 |
| Sgiliau Codio a Sgiliau Digidol | £300,000 |
| Cyllid Dysgu Proffesiynol ar gyfer ysgolion | £12,000,000 |
| Dysgu proffesiynol, ymholi ac ymchwilio dan arweiniad yr ysgol i wireddu'r cwricwlwm | £3,000,000 |
| Rhaglen dysgu proffesiynol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm | £2,700,000 |
| Dysgu proffesiynol ar gyfer datblygu ymarfer a myfyrio | £900,000 |
| Llwybr Dysgu i Gynorthwywyr Addysgu | £950,000 |
| Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru | £650,000 |
| Pecyn cymorth Sefydlu / Dechrau Gyrfa | £250,000 |
| Rhaglen Arweinwyr y Dyfodol (Darpar arweinwyr ac arweinwyr canol, gan gynnwys cymorth Hyfforddi a Mentora) | £850,000 |
| Y Rhaglen i Ddarpar Benaethiaid | £217,500 |
| Y Gymraeg – Datblygiad Proffesiynol | £2,500,000 |
| Y Grant Cymraeg mewn Addysg (Consortiwm Canolbarth y De a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn unig) (mae GwE ac ERW gynt wedi'u cynnwys yn Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | £1,829,316 |
| Ysgolion Pob Oed | £65,000 |
| Hyfforddi a mentora | £250,000 |
| Dylunio ymchwil addysgeg | £100,000 |
| Cefnogi Dysgwyr Agored i Niwed | £75,000 |
| Rheolwr y Prosiect Cymraeg mewn Addysg Cenedlaethol | £70,000 |
| Cynlluniau Peilot Cyfrwng Cymraeg | £33,442 |

| Disgrifiad o'r Cyllid | Cymru Gyfan 2023-24 £ |
|---|---|
| Grant meithrin gallu cyfrwng Cymraeg | £271,000 |
| Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell | £145,000 |
| Y Grant Gwella Addysg i Ysgolion – Cyfanswm (Llai £462 at gyfer ITM a £500,754 ar gyfer y Grant Cymraeg mewn Addysg) | £115,196,246 |
| Cefnogi Gwaith Cydweithredol a Helpu i Feithrin Gallu yn y Consortia – Helen Richards, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg | £70,000 |
| Meithrin y Gallu i Arwain | £60,000 |
| Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru | £20,000 |
| Dull cymorth amlasiantaeth, cost cyflog Cydymaith Rhaglenni – (y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn unig) | £3,636 |
| Cymorth ar gyfer prosiect cyfathrebu | £30,000 |
| Cymorth cenedlaethol ar gyfer Diwygio'r Cwricwlwm – Amrywiad 1 | £128,300 |
| Grant meithrin gallu cyfrwng Cymraeg blwyddyn academaidd 2023/24 – Amrywiad 1 | £614,120 |
| Arweinydd Addysgeg Cenedlaethol (Partneriaeth yn unig) – Amrywiad 1 | £60,000 |
| Asesiad CPCP ar gyfer 193 o ymgeiswyr ledled Cymru – Amrywiad 2 | £579,000 |
| Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol<br>Cynghorydd Proffesiynol – Prosiect e-ddysgu a Dysgu Digidol – ar gyfer y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn unig | £12,000 |
| **Cyfanswm** | **£158,411,560** |

| Cymru Gyfan 2023-24 £ | | | | ERW gynt | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Consortiwm Canolbarth y De | Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg | GwE | Powys | Castell-nedd Port Talbot | Ceredigion | Partneriaeth |
| **158,411,560** | 48,434,414 | 30,963,249 | 35,325,090 | 6,325,090 | 7,008,641 | 3,533,212 | 26,707,432 |

## ATODIAD F – Dyraniadau Grant Refeniw Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd 2023-24

| Awdurdod Lleol | Cyfanswm Dyraniadau 2023-24 £m |
|---|---|
| Ynys Môn | 1.592 |
| Gwynedd | 2.953 |
| Conwy | 2.231 |
| Sir Ddinbych | 1.662 |
| Sir y Fflint | 2.698 |
| Wrecsam | 3.123 |
| Powys | 2.024 |
| Ceredigion | 1.608 |
| Sir Benfro | 2.917 |
| Sir Gaerfyrddin | 3.509 |
| Abertawe | 2.289 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2.597 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1.867 |
| Bro Morgannwg | 4.494 |
| Rhondda Cynon Taf | 4.636 |
| Merthyr Tudful | 0.986 |
| Caerffili | 4.204 |
| Blaenau Gwent | 1.403 |
| Torfaen | 2.004 |
| Sir Fynwy | 2.050 |
| Casnewydd | 4.024 |
| Caerdydd | 8.116 |
| **Dyraniad Cymru** | **62.987** |

## ATODIAD G – Dyraniadau 2023-24 ar gyfer colegau addysg bellach

| | Dyraniad Llawnamser 2023/24 £ | Dyraniad Rhan-amser 2023/24 £ | Taliad Ychwanegol ar gyfer Amddifadedd £ | Taliad Ychwanegol ar gyfer Teneurwydd Poblogaeth £ | Lwfans Cyfrwng Cymraeg £ | 3% Lwfans a Gedwir yn Ganolog £ | 2% Lwfans Cynhaliaeth £ | Pontio £ | Cyfanswm Dyraniadau 2023/24 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Coleg Penybont | 14,381,711 | 3,320,870 | 869,824 | 0 | 30,000 | 531,077 | 354,052 | 462,073 | 19,949,606 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 30,215,277 | 9,460,417 | 2,914,525 | 0 | 30,000 | 1,190,271 | 793,514 | 514,173 | 45,118,176 |
| Coleg Cambria | 36,292,928 | 7,809,527 | 1,770,347 | 755,863 | 115,000 | 1,323,074 | 882,049 | 489,077 | 49,437,865 |
| Coleg Gwent | 41,231,076 | 8,391,496 | 2,989,205 | 0 | 230,000 | 1,488,677 | 992,451 | 592,416 | 55,915,322 |
| Coleg Sir Gâr | 18,003,940 | 3,511,343 | 581,030 | 593,701 | 1,061,250 | 645,458 | 430,306 | 407,541 | 25,234,569 |
| Coleg y Cymoedd | 27,512,200 | 5,493,614 | 2,903,045 | 0 | 29,756 | 990,174 | 660,116 | 368,712 | 37,957,617 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 24,410,566 | 4,082,981 | 1,855,343 | 0 | 115,000 | 854,806 | 569,871 | 0 | 31,888,567 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 31,989,185 | 6,784,553 | 1,663,234 | 2,517,412 | 2,156,250 | 1,163,212 | 775,475 | 1,281,013 | 48,330,334 |
| Grŵp NPTC | 21,362,098 | 5,409,700 | 1,278,157 | 2,532,404 | 30,000 | 803,154 | 535,436 | 202,700 | 32,153,649 |
| Coleg Merthyr Tudful | 9,740,968 | 978,398 | 866,822 | 0 | 30,000 | 321,581 | 214,387 | 154,957 | 12,307,114 |
| Coleg Sir Benfro | 11,526,790 | 1,995,069 | 292,828 | 367,873 | 30,000 | 405,656 | 270,437 | 0 | 14,888,653 |
| Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant | 7,411,258 | 242,910 | 611,056 | 0 | 15,000 | 229,625 | 153,083 | 0 | 8,662,933 |
| Addysg Oedolion Cymru | 0 | 5,698,940 | 338,497 | 190,425 | 30,243 | 170,968 | 113,979 | 0 | 6,543,052 |
| | **274,077,998** | **63,179,818** | **18,933,914** | **6,957,679** | **3,902,499** | **10,117,734** | **6,745,156** | **4,472,660** | **388,387,458** |

## ATODIAD H

### Grantiau: Alldro 2022-23 a'r rhagolygon gwariant dros y pedair blynedd dilynol ar gyfer: Grant Ffioedd Dysgu myfyrwyr israddedig llawn-amser; Grant Ffioedd Dysgu myfyrwyr israddedig rhan-amser; Grant Cynhaliaeth myfyrwyr israddedig rhan-amser; Elfen grant Cyllid Gradd Meistr; Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA); a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (GDLlC(AB)).

| | | | | | £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Grantiau** | **Gwariant 2022-23** | **Rhagamcan 2023-24** | **Rhagamcan 2024-25** | **Rhagamcan 2025-26** | **Rhagamcan 2026-27** |
| Grant Ffioedd Dysgu myfyrwyr israddedig llawnamser | 2,366 | - | - | - | - |
| Grant Cynhaliaeth myfyrwyr israddedig llawnamser | 238,239 | 233,690 | 232,679 | 234,386 | 235,732 |
| Grant Ffioedd Dysgu myfyrwyr israddedig rhan-amser | 2,029 | 497 | 535 | 576 | 623 |
| Grant Cynhaliaeth myfyrwyr israddedig rhan-amser | 34,836 | 40,380 | 42,617 | 44,197 | 44,493 |
| Elfen grant Cyllid Gradd Meistr | 20,035 | 19,550 | 19,285 | 19,136 | 19,023 |
| Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) | 12,259 | 15,836 | 17,442 | 17,451 | 17,457 |
| Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) | 3,346 | 2,982 | 2,657 | 2,368 | 2,111 |

### Benthyciadau: Alldro 2022-23, a'r rhagolygon gwariant ar fenthyciadau dros y pedair blynedd dilynol ar gyfer: Gwariant ar fenthyciadau cynhaliaeth a ffioedd dysgu myfyrwyr israddedig llawn-amser a thâl Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau, gwariant ar fenthyciadau cynhaliaeth a ffioedd dysgu myfyrwyr israddedig rhan-amser a thâl Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau, elfen grant Cyllid Gradd Meistr a thâl Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau, gwariant ar fenthyciadau Doethurol a thâl Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau

| | | | | | £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Benthyciad** | **Gwariant 2022-23** | **Rhagamcan 2023-24** | **Rhagamcan 2024-25** | **Rhagamcan 2025-26** | **Rhagamcan 2026-27** |
| Gwariant ar fenthyciadau cynhaliaeth a ffioedd dysgu myfyrwyr israddedig llawnamser | 794,516 | 846,739 | 898,339 | 934,780 | 973,243 |
| Gwariant ar fenthyciadau cynhaliaeth a ffioedd dysgu myfyrwyr israddedig rhan-amser | 33,262 | 40,314 | 45,476 | 48,469 | 50,224 |
| Elfen benthyciad Cyllid Gradd Meistr | 59,994 | 61,383 | 62,480 | 63,316 | 65,063 |
| Gwariant ar fenthyciadau Doethurol | 4,372 | 4,577 | 4,701 | 4,783 | 4,912 |

| | | | | | £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfrifyddu a Chyllidebu Adnoddau (RAB)** | **Gwariant 2022-23** | **Rhagamcan 2023-24** | **Rhagamcan 2024-25** | **Rhagamcan 2025-26** | **Rhagamcan 2026-27** |
| Ffioedd dysgu a benthyciadau cynhaliaeth myfyrwyr israddedig llawnamser @ RAB | 39,037 | 34,081 | 52,750 | 77,233 | 93,900 |
| Ffioedd dysgu a benthyciadau cynhaliaeth myfyrwyr israddedig rhan-amser @ RAB | 1,605 | 3,110 | 4,533 | 5,892 | 5,439 |
| Benthyciad Cyllid Gradd Meistr @ RAB | - | - | - | - | - |
| Benthyciad Doethurol @ RAB | 264 | 463 | 557 | 641 | 531 |

## Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 17 Ionawr 2024

## Gweinidog yr Economi, a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau Chwaraeon a Thwristiaeth

## Memorandwm ar gynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25

### 1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am ein cynlluniau gwariant fel Gweinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth mewn perthynas â chyllidebau diwylliant, creadigol, treftadaeth a chwaraeon o fewn ein portffolio. Amlinellir y cynlluniau gwariant yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25, a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2023. Mae'r papur hwn hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

Ceir dadansoddiad o'r newidiadau i'r dyraniadau cyllidebol (fel y bo'n berthnasol i'r Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth, Diwydiannau Creadigol a Chwaraeon) yn ôl maes gwariant, Cam Gweithredu, a Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer 2023-24 ac yn y dyfodol yn **Atodiad A**.

Ceir hefyd sylwebaeth yn esbonio'r newidiadau i bob Cam Gweithredu sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn yn **Atodiad B**. Rhoddwyd esboniad naratif tryloyw i egluro unrhyw gynnydd a gostyngiad, lle na chânt eu cwmpasu yn y papur tystiolaeth. Dim ond y cyllidebau y creffir arnynt fel rhan o waith y pwyllgor hwn a ddisgrifir. Ceir rhagor o fanylion am benderfyniadau cyllidebol yn yr wybodaeth ddiweddaraf am feysydd sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

### 1.1 Sylwebaeth ar Gamau Gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Cyllideb Adnoddau a Chyfalaf – Prif Grŵp Gwariant yr Economi

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o gynlluniau dangosol ar gyfer Prif Grŵp Gwariant yr Economi a gyhoeddwyd yng Nghyllideb ddrafft 2024-25.

| **Prif Grŵp Gwariant yr Economi – Crynodeb** | **2024-25 Cyllideb Derfynol Ddangosol Chwefror 2023 a Ailddatganwyd** | **2024-25 Newidiadau** | **2024-25 Cyllideb Ddrafft Rhagfyr 2023** |
|---|---|---|---|
| Adnoddau | 482,434 | -43,532 | 438,902 |
| Cyfalaf | 100,492 | 2,000 | 102,492 |
| **Cyfanswm y Gyllideb Adnoddau a Chyfalaf** | **582,926** | **-41,532** | **541,394** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol - Adnoddau | 58,525 | 0 | 58,525 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol - Cyfalaf | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | **58,525** | **0** | **58,525** |
| **Cyfanswm – Prif Grŵp Gwariant yr Economi** | **641,451** | **-41,532** | **599,919** |

**Adnoddau**

Pennir Cyllideb Adnoddau o £438.902m ar gyfer yr Economi yn 2024-25.

Mae'r Gyllideb Adnoddau ar gyfer Prif Grŵp Gwariant yr Economi wedi gostwng £43.532m yn 2024-25 o'i chymharu â llinell sylfaen cyllideb derfynol ddangosol 2024-25.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer ailflaenoriaethu yn sgil cyhoeddi datganiad yr Hydref er mwyn rhyddhau cyllid o bortffolios i'w ailddyrannu o fewn Llywodraeth Cymru o ganlyniad i'r pwysau cynyddol ar gyllideb Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb ar 19 Rhagfyr am fod y gyllideb hon yn rhoi cymaint o gymorth â phosibl i roi ein gwasanaethau cyhoeddus, pobl, busnesau, a'n cymunedau yn gyntaf.

O ganlyniad i ail-lunio cyllidebau Llywodraeth Cymru, mae'r Gyllideb Adnoddau ar gyfer Prif Grŵp Gwariant yr Economi wedi gostwng £43.532m yn 2024-25 o'i chymharu â llinell sylfaen cyllideb derfynol ddangosol 2024-25. Daw dyraniad o £6.4m o'r cronfeydd canolog wrth gefn ar gyfer rhaglen y Gororau, sy'n cael ei wrthbwyso drwy ddychwelyd £49.932m ar gyfer cyfraniad Prif Grŵp Gwariant yr Economi i'r cronfeydd wrth gefn.

Crynhoir y newidiadau hyn i linellau yn y gyllideb sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn yn **Atodiad A** ac **Atodiad B**.

**Cyfalaf**

Ceir cyllideb gyfalaf o £102.492m ar gyfer Prif Grŵp Gwariant yr Economi yn 2024-25. Cafwyd cynnydd o £2m o ganlyniad i ad-dalu Trafodiad Ariannol ar gyfer Prosiect Cadence.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol**

Mae cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol o £58.525m yn darparu ar gyfer taliadau sydd y tu hwnt i reolaeth y portffolio, megis amhariadau ar y portffolio eiddo a newidiadau ym mhrisiadau pensiwn ar gyfer Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Chwaraeon Cymru a Gyrfa Cymru. Cytunir ar y gyllideb hon â'r Trysorlys bob blwyddyn a chaiff ei chyllido'n llawn. Mae ffigurau Gwariant a Reolir yn Flynyddol y Gyllideb ddrafft yn adlewyrchu'r rhagolygon a gyflwynwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Medi 2023.

**Rhagolwg 2023-24**

Fel yr amlinellir yn **Atodiad A**, y rhagolwg o'r alldro refeniw ar gyfer 2023-24 yw £130.704m, o gymharu â'r Gyllideb Atodol Gyntaf o £130.727m.

Y rhagolwg o'r alldro cyfalaf ar gyfer 2023-24 yw £48.358m, o gymharu â'r Gyllideb Atodol Gyntaf o £50.939m. **Mae'r amrywiant o ganlyniad i benderfyniad i ad-dalu £3m o Gyfalaf Trafodiadau Ariannol yn gynnar oddi wrth Undeb Rygbi Cymru a phwysau o £0.6m ar Gefnogaeth i Ddiwylliant Lleol a Chwaraeon mewn perthynas â phrosiectau o dan y Cytundeb Cydweithio a ailbroffiliwyd.**

**Alldro Terfynol 2022-23**

Nodwyd alldro o £137.263m yn erbyn cyllidebau adnoddau diwylliant, treftadaeth, a chwaraeon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23.

Nodwyd alldro o £41.408m yn erbyn cyllidebau adnoddau diwylliant, treftadaeth, a chwaraeon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23.

## 1.2 Newidiadau Cyllidebol

**Adnoddau**

Mae'r Gyllideb Adnoddau ar gyfer y cyllidebau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn wedi gostwng £15.579m yn 2024-25 o'i chymharu â llinell sylfaen cyllideb derfynol ddangosol a ailddatganwyd. Mae'r gostyngiadau yn ymwneud â lleihau symiau o ganlyniad i ymarfer ailflaenoriaethu Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o gyfraniad Prif Grŵp Gwariant yr Economi tuag at yr ymarfer ailflaenoriaethu, bu gostyngiad o 10.5% mewn refeniw i Cymru Greadigol a phob un o'r Cyrff Hyd Braich ym maes Diwylliant a Chwaraeon, sef Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Cadw wedi wynebu gostyngiad uwch o 22%. O ran Cadw, bydd y gallu i gynhyrchu incwm ychwanegol drwy godi taliadau mynediad i henebion yn helpu i dalu am rywfaint o'r pwysau chwyddiannol ychwanegol a wyneba.

Mae'r dyraniad o £14m ar gyfer diwylliant o dan y Cytundeb Cydweithio yn y flwyddyn ariannol 2024-25 heb ei newid i raddau helaeth, ac eithrio gostyngiad o £1.233m tuag at y Strategaeth Ddiwylliant a £0.140m yn erbyn enwau lleoedd Cymru a chymorth i'r sector Treftadaeth. Mae gostyngiad o £0.376m wedi cael ei gymhwyso at y rhaglen Cyfuno a £0.327m yn erbyn yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, ond bydd y broses gyflawni yn parhau o hyd.

Amlinellir rhagor o fanylion am gyllido o fewn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn) isod. Mae fy swyddogion yn ymgymryd â gwaith manwl fel rhan o'r broses cynllunio busnes ar gyfer 2024/25 ac felly, rydym wedi cadw'r naratif ar lefel gyffredinol.

Mae buddsoddi yn ein hasiantaethau mewnol, sefydliadau cenedlaethol a sectorau lleol yn hollbwysig ac mae'n cydnabod pwysigrwydd y celfyddydau, diwylliant, chwaraeon, a threftadaeth i'n nodau llesiant. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru iachach a Chymru o gymunedau cydlynus.

Mae buddsoddi yng nghynaliadwyedd ein sefydliadau cenedlaethol yn yr hirdymor yn dangos ein hymrwymiad i warchod ein diwylliant a'n treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac mae ein hymrwymiadau i'r sefydliadau hyn yn adlewyrchu'r cymunedau amrywiol ledled Cymru yn well. Mae datgarboneiddio yn flaenoriaeth ar gyfer y penderfyniadau ar y gyllideb er mwyn sicrhau Cymru Sero Net a bydd hyn yn galluogi'r sefydliadau i fynd i'r afael â phryderon amgylcheddol, yn enwedig allyriadau $CO_2$ ac effeithlonrwydd ynni. Yn ystod y pandemig, mae'r sefydliadau wedi addasu eu harlwy

i'r cyhoedd drwy sicrhau bod mwy o'u casgliadau ar gael yn ddigidol a dechrau cynnig rhaglenni addysgu a difyrru ar-lein fel y gallai unigolion a theuluoedd fwynhau diwylliant a threftadaeth yn y cartref. Bydd y cyllidebau cyfalaf yn ei gwneud yn bosibl i fuddsoddi rhagor mewn technoleg at ddibenion adfer, mynediad ehangach a gwarchod y casgliadau. Mae'r dyraniadau ychwanegol o dan y Cytundeb Cydweithio yn arbennig o bwysig o ran helpu i sbarduno'r mentrau hyn.

**Asiantaethau mewnol:**
Mae brand Cymru Greadigol yn cefnogi'r strategaeth ryngwladol o godi proffil Cymru yn y byd, nid yn unig fel canolfan ar gyfer rhagoriaeth greadigol, ond fel lle gwych i ymweld a byw. Mae buddsoddiad creadigol a diwylliannol yn hollbwysig o ran adfywio ledled Cymru a bydd cyllid cyfalaf o £15m dros dair blynedd yn cefnogi cynyrchiadau a mentrau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae rhaglenni datblygu a chadwraeth sylweddol yn yr arfaeth ar gyfer ein safleoedd treftadaeth, gyda chyllideb o £30m i Cadw dros dair blynedd, gan gynnwys gwaith datblygu mawr yng Nghastell Caerffili.

**Sefydliadau diwylliannol cenedlaethol:**
Yn 2024-25 byddwn yn darparu £68.964m o gyllid refeniw a £7.650m o gyllid cyfalaf ar y cyd i'n pedwar corff diwylliannol cenedlaethol (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru) a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. O ran cyfalaf, rydym wedi dyrannu £5m i Amgueddfa Cymru a £2m i Lyfrgell Genedlaethol Cymru i'w helpu i gynnal eu hystadau hanesyddol a dyraniadau bach i'r tri chorff arall. Rydym hefyd wedi gwneud dyfarniadau ar gyfer prosiectau penodol a enwyd yn y Rhaglen Lywodraethu, digideiddio, a datgarboneiddio o'r dyraniadau ar gyfer Cefnogaeth i Ddiwylliant Lleol a Chwaraeon.

**Diwylliant:**
Bydd y gyllideb o £6.668m refeniw a £24.7m cyfalaf ar gyfer cefnogaeth i ddiwylliant lleol a chwaraeon yn 23/24 yn cefnogi'r strategaeth ddiwylliant a buddsoddiad mewn theatrau ac amgueddfeydd a'r sectorau diwylliant ehangach. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu ynglŷn â chydraddoldeb hil a rhoi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith, y pum buddsoddiad cyfalaf strategol mawr (Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Bêl-droed Cymru, Theatr Clwyd, Amgueddfa Gogledd Cymru ac Amgueddfa Lechi Cymru), darparu ar gyfer buddsoddiadau i ddatblygu ein cyrff diwylliant cenedlaethol, a datblygu ein sectorau diwylliant lleol, yn enwedig amgueddfeydd a chasgliadau. Caiff cyllid ei ddyrannu hefyd i'r Grant Cyfalaf Trawsnewid

**Chwaraeon:**
Bydd y gyllideb refeniw flynyddol o £20,98m a'r gyllideb gyfalaf flynyddol o £8.016m yn gwneud buddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau chwaraeon cymunedol yn ogystal â rhai elît er mwyn cynnig amgylcheddau modern a chynaliadwy i gymryd rhan mewn chwaraeon, a meithrin a datblygu athletwyr talentog. Bydd hefyd yn sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda i gystadlu'n rhyngwladol a helpu i gynnal digwyddiadau rhyngwladol, a rhoi cyfleoedd i hyrwyddo brand Cymru ar y llwyfan rhyngwladol yn y dyfodol. Mae'r dyraniad o £3m fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio (£9m dros dair blynedd) yn parhau.

Mae diwylliant, treftadaeth, y diwydiannau creadigol, yr amgylchedd hanesyddol, a chwaraeon yn elfennau hanfodol o'n bywyd cenedlaethol ac yn rhan annatod o'n llesiant meddyliol a chorfforol, yn unigol ac ar y cyd. Amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd, clybiau

celfyddydau a chwaraeon, cyfleusterau a safleoedd hanesyddol yw canolbwynt llawer o gymunedau ledled Cymru. Mae ein holl gymorth bron i gyd i'r sectorau hyn yn helpu pobl i fanteisio ar bethau gorau Cymru a'u mwynhau, gan wella ansawdd bywyd, yn ogystal â'n haddysg, ein hanes, ein heconomi ymwelwyr a'n lle yn y byd. Mae diwylliant yn un o nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn hollbwysig i gyflawni'r chwe nod arall, yn yr ystyr y gall gyfrannu at fywyd yn fwy cyffredinol a'r economi.

**Yr hyn y byddwn yn ei wneud a sut y byddwn yn ei wneud**

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021 – 2026 yn cydnabod y rôl hollbwysig y mae'r sectorau hyn yn ei chyflawni. Gweler adran 4.0 am ragor o wybodaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ail-lunio ein cyllideb i roi cyllid a diogelwch ychwanegol i'r gwasanaethau sydd bwysicaf i chi. Rydym wedi gwneud hynny yn unol â'n blaenoriaethau:

- Diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen, craidd hyd y gellir.
- Sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd sy'n wynebu'r anawsterau mwyaf.
- Blaenoriaethu swyddi, lle bynnag y bo modd.
- Gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus er mwyn wynebu'r storm ariannol hon gyda'n gilydd.
- Newid ffocws cyllid oddi wrth feysydd nad ydynt wedi'u datganoli, y dylai Llywodraeth y DU fod yn eu cyllido.

Gwneir buddsoddiadau yn bennaf drwy ein hasiantaethau mewnol (Cadw a Cymru Greadigol) a phum corff hyd braich (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru (saith amgueddfa), Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru, a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru). Ochr yn ochr â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, mae'r buddsoddiad yn Cadw yn cyflawni ein huchelgeisiau ym maes treftadaeth gyda buddsoddiad cyfalaf yn y sector amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol drwy ein rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid. Mae Cymru Greadigol yn arwain gweithgareddau a pholisi ar gyfer y sectorau creadigol ac yn eu cydlynu.

Mae'r sefydliadau hyn yn cyflawni'r blaenoriaethau trawslywodraethol er mwyn helpu i gyflawni strategaethau allweddol, gan gynnwys Cymru Sero Net, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Cymraeg 2050. Mae pob un o'r cyrff hyd braich yn ymrwymedig i effeithlonrwydd carbon, gan lunio adroddiadau manwl ar gynaliadwyedd yn eu cyfrifon blynyddol. Mae swm ychwanegol o £11.75m yn cael ei ddyrannu i'r pum corff cyhoeddus a Cadw drwy'r Cytundeb Cydweithio, ynghyd â chymorth grant/taliad chwyddo teg (heb gynnnwys symiau nad ydynt yn arian parod) er mwyn datblygu strategaeth ddiwylliant newydd, sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru, iaith Gymraeg sy'n ffynnu, ein sectorau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth a'n dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddwn yn sicrhau cynaliadwyedd ariannol sefydliadau diwylliannol cenedlaethol wrth inni roi'r strategaeth ar waith, a byddwn hefyd yn datblygu'r cynigion ar gyfer oriel celf gyfoes genedlaethol.

Bydd Cadw yn cwblhau cam 1 o'r buddsoddiad cyfalaf yng Nghastell Caerffili (gwaith ar adeiladau'r ward fewnol a'r Neuadd Fawr) a dechrau cam 2 (y ganolfan newydd i ymwelwyr). Bydd y buddsoddiad mawr hwn yn trawsnewid profiad ymwelwyr ac yn gwneud y castell yn atyniad ‘rhaid ei weld’ yn ardal Caerffili. Bydd rhagor o fuddsoddiad cyfalaf hefyd yn galluogi Cadw i barhau â'i chyfrifoldeb statudol i warchod

a chynnal a chadw'r henebion o dan ei gofal, eu cadw'n ddiogel i bobl ymweld â nhw a lleihau ôl troed carbon ei chanolfannau i ymwelwyr.

Mae chwaraeon yn rhan annatod o hunaniaeth ein cenedl. Mae'n dod â'n cymunedau ynghyd ac yn rhoi sgiliau trosglwyddadwy i bobl i wella eu haddysg a dod o hyd i swydd neu yrfa. Drwy'r gweithgareddau lu ledled Cymru, mae chwaraeon hefyd yn cefnogi twf cymunedau Cymraeg eu hiaith drwy roi cyfleoedd i bobl ei defnyddio bob dydd fel iaith fodern, fyw. Byddwn yn parhau i gefnogi ein cymunedau, ein clybiau a'u cyfleusterau a fydd yn parhau i ychwanegu at ein hymdeimlad o hunaniaeth, llesiant corfforol a meddyliol, a byddwn yn sicrhau bod y sector yn ychwanegu gwerth at ein hiechyd a'n hapusrwydd. Roedd y cynlluniau gwariant ar chwaraeon yn parhau â lefelau buddsoddi yn y gyllideb gyfalaf tair blynedd, gan alluogi Llywodraeth Cymru i barhau i fuddsoddi, drwy ei phartner cyflawni, Chwaraeon Cymru, yn y bobl a'r lleoedd i gynnig cyfleoedd cynhwysol a theg i bobl fyw bywydau iach ac egnïol, a gwireddu eu potential ym maes chwaraeon.

Yn ôl data 2022 ar sector y diwydiannau creadigol a'r sector diwylliant, mae 3,545 o fusnesau yn sectorau'r diwydiannau creadigol yng Nghymru, sef cynnydd o 8.9 y cant o gymharu â 2017. Roedd busnesau yn y diwydiannau creadigol yn cyfrif am 3.3% o gyfanswm y busnesau sydd wedi'u cofrestru ym mhob diwydiant yng Nghymru yn 2022. Gwnaeth y diwydiannau creadigol yng Nghymru (yn seiliedig ar fusnesau a oedd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau) gynhyrchu trosiant blynyddol o £1.4 biliwn yn 2022 (sy'n ostyngiad o 19.5% ers 2021). Gwelodd economi ehangach Cymru (gan gynnwys busnesau bach nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau) ostyngiad mewn trosiant hefyd, a oedd yn gostwng 11.2% dros yr un cyfnod i £116.4bn.

O ran maint busnesau, dangosodd data 2022 fod 1% o fusnesau yn y diwydiannau creadigol yn rhai canolig a mawr (50 o gyflogeion neu fwy), bod 6% yn rhai bach (10-49 o gyflogeion), bod 80% yn rhai micro (1-9 o gyflogeion) ac nad oedd gan 14% unrhyw gyflogeion. Mae hyn yn cymharu â ffigurau ar gyfer yr holl ddiwydiannau yng Nghymru sy'n dangos bod 2% o fusnesau yn rhai canolig a mawr, bod 9% yn rhai bach, a bod 89% yn rhai micro, gan gynnwys rhai heb unrhyw gyflogeion. Ffynhonnell data: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Mae blynyddoedd yn cyfeirio at flynyddoedd calendr (e.e., mae 2022 yn cyfeirio ar y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2022) oni nodir fel arall. Yn 2022, roedd 32,500 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sectorau diwydiannau creadigol a gefnogir gan Cymru Greadigol. Mae cyflogaeth yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru wedi gostwng 6.9% ers y flwyddyn flaenorol, lle mae cyflogaeth, ar gyfartaledd, yn yr holl ddiwydiannau yng Nghymru wedi aros yn ddigyfnewid (cynnydd o 0.4%). O ran y DU, mae cyflogaeth yn y diwydiannau creadigol, fel y'u diffiniwyd gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cynyddu 4.3% o'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021 i'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022.

Mae cyfrifoldeb statudol arnom i barhau i gefnogi cyrff diwylliannol cenedlaethol a noddir gennym, yn ogystal â'r sectorau diwylliant lleol, sydd oll yn chwarae rôl allweddol i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, sy'n arwain at ansawdd bywyd gwell i gymaint o'n poblogaeth. Rydym wedi gofyn i'r cyrff hyn i gyd roi blaenoriaeth ar wella mynediad a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, datgarboneiddio, a gwelliannau digidol dros y tair blynedd nesaf.

Darperir buddsoddiad cyfalaf i'r sector amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol drwy ein rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid, a thrwy Gyngor Celfyddydau Cymru i sector y celfyddydau, gan gynnwys theatrau. Rydym yn cynnig y dylid ehangu a datblygu'r

cynlluniau hyn i ymdrin â nifer o ymrwymiadau Llywodraeth Cymru, gan ei gwneud yn bosibl i ddenu amrywiaeth ehangach o geisiadau a chysoni'n well â blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu. Rydym yn edrych eto ar y cynlluniau hyn i roi lle canolog i ddatgarboneiddio a digidol, er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau yn gynaliadwy a'u bod yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig anghydraddoldebau hil a gwahaniaethu ar sail anabledd.

**Y rhesymeg dros fuddsoddi ym maes diwylliant, treftadaeth, chwaraeon a'r sectorau creadigol.**

Mae'r Genhadaeth Economaidd eisoes wedi rhoi Cymru ar ben ffordd sy'n cysylltu ein hymateb i'r pandemig â pholisïau diwydiannol gweithredol, hirdymor. Dros y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn bwrw ymlaen â'n cenhadaeth economaidd, gan ganolbwyntio ar y sbardunau a all helpu pobl ifanc gynllunio dyfodol uchelgeisiol yng Nghymru Bydd hyn yn defnyddio arferion gorau rhyngwladol, a hefyd ymateb i'r farchnad lafur sy'n datblygu er mwyn cefnogi'r amodau sydd eu hangen ar fusnesau i ffynnu.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i fwrw ymlaen â'r Genhadaeth Economaidd ac ymrwymiadau diwylliannol sylweddol, sy'n cydnabod rôl bwysig diwylliant o ran llesiant a rhoi cyfleoedd cyflogaeth. Wrth i'r ymateb i'r pandemig ddangos, mae diwylliant a threftadaeth yn ganolog i'r hyn sy'n bwysig i bobl, yr hyn y maent yn mwynhau ei wneud, eu llesiant meddyliol a'u hiechyd corfforol.

Mae'r sectorau diwylliant, creadigol, chwaraeon a threftadaeth yn chwarae rôl hollbwysig o ran cefnogi economi Cymru. Maent yn creu swyddi yn y diwydiannau creadigol (y cyfryngau, newyddiaduriaeth, a chyhoeddi), treftadaeth, gwaith adeiladu ac atgyweirio traddodiadol, sector y celfyddydau a'r sectorau diwylliannol a chwaraeon.
Mae Chwaraeon Cymru wedi cyhoeddi'r astudiaeth o Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi ar gyfer chwaraeon yng Nghymru yn ddiweddar, a gynhaliwyd gan y Ganolfan Ymchwil Diwydiant Chwaraeon, sy'n arwain y byd yn y maes hwn, ym Mhrifysgol Sheffield Hallam. Mae canfyddiadau'r adroddiad yn dangos, am bob £1 sy'n cael ei gwario ar chwaraeon a hamdden egnïol yng Nghymru, y caiff buddiannau cymdeithasol gwerth £4.44 eu creu. Mae hyn yn dangos y cyfraniad blynyddol anhygoel y mae chwaraeon yn ei wneud i iechyd, a meysydd eraill, yn enwedig potensial chwaraeon i gynnig yr adnodd iechyd ataliol mwyaf effeithiol sydd ar gael inni. Mae ein hatyniadau diwylliannol yn helpu i gynnal y 12,110 o fusnesau yn y diwydiant twristiaeth, ac mae'r diwydiannau creadigol yn cyflogi 32,500 o bobl. Maent yn dangos manteision economaidd cryf o ran yr economi ymwelwyr, adfywio a chreu lleoedd a manteision amgylcheddol cryf drwy ddatgarboneiddio a chymorth i fioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol.

Mae ein diwydiannau diwylliant, treftadaeth, chwaraeon a chreadigol yn ganolog i frand Cymru a hyrwyddo Cymru yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae'r sectorau hyn wedi wynebu heriau sylweddol. Mae effaith barhaus costau cynyddol yn arbennig o fawr yn y portffolio hwn, sy'n tynnu sylw at sefydliadau a sectorau sy'n ei chael hi'n anodd i adfer yn ariannol ar ôl y pandemig, lle mae cynulleidfaoedd llai yn golygu llai o allu i gynhyrchu incwm. Mae cynnydd mawr ym mhrisiau ynni yn ychwanegu pwysau sylweddol ar gyllidebau. Mae costau byw cynyddol hefyd yn effeithio ar recriwtio a chadw staff a gwirfoddolwyr, wrth i bobl gael anhawster fforddio costau teithio a gofal plant, neu'n dewis gwaith â gwell tâl. Mewn rhai achosion, mae'r heriau hyn gyda'i gilydd yn arwain at leihad mewn rhaglenni gweithgarwch ledled Cymru. Mae llai o incwm gwario yn golygu bod pobl hefyd yn gorfod arbed arian a gwario llai ar weithgareddau hamdden. Mae cynnydd sylweddol yng nghostau

cadwyni cyflenwi, yn enwedig mewn perthynas â deunyddiau a llafur, hefyd yn effeithio ar brosiectau cyfalaf a gwaith cynnal a chadw.
Bydd effaith yr heriau hyn yn parhau yn y dyfodol wrth inni anelu at helpu ein sectorau i adfer.

## 3.0 Ymateb i'r Wybodaeth Benodol y Gofynnodd y Pwyllgor amdani

### 3.1 Gwybodaeth yn ymwneud â sut mae portffolio'r Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth, Cyfathrebu, Diwydiannau Creadigol, a Chwaraeon yn cael ei gyflawni, a sut y mae'r canlyniadau cysylltiedig yn cael eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian.

Nodir blaenoriaethau allweddol ar gyfer pob corff hyd braich yn ei lythyr cylch gwaith, a ddefnyddir ganddo fel sail ar gyfer ei gynlluniau gweithredol a'i ddangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r Dirprwy Weinidog yn cyfarfod â phob un o'r sefydliadau o leiaf ddwywaith y flwyddyn, ac mae swyddogion yn monitro cynnydd yn erbyn eu cynlluniau gweithredol yn ffurfiol mewn cyfarfodydd monitro chwarterol ac yn fwy rheolaidd drwy gydberthnasau gwaith agos â'r uwch dimau gweithredol yn y cyrff hyd braich. Ar wahoddiad y cyrff, mae swyddogion hefyd yn mynd i gyfarfodydd Bwrdd fel arsylwyr, sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i gael trosolwg da o faterion a allai godi. Creffir ar hawliadau cymorth grant misol er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn llinellau gwariant penodol.

Mae gan Cadw ei bwrdd asiantaeth mewnol ei hun sy'n cynnwys aelodau anweithredol. Mae'n cyfarfod bob chwarter ac fel rhan o'i rôl mae'n craffu ar berfformiad Cadw yn erbyn ei chynllun busnes a'i hadroddiadau ariannol ac yn rhoi her a chyngor. Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog adolygiad o drefniadau llywodraethu presennol Cadw a'r ffordd y darperir gwasanaethau treftadaeth cyhoeddus yn fwy cyffredinol yng Nghymru. Y bwriad oedd asesu llwyddiant y trefniadau hyn ar ôl iddynt fod ar waith am bum mlynedd. Cyhoeddwyd adroddiad ar yr adolygiad hwn ar 5 Rhagfyr 2023 a chaiff ymateb i'r argymhellion ei gyhoeddi ar ddechrau 2024. Roedd yr adolygiad yn canmol cyflawniadau Cadw yn ystod y blynyddoedd diwethaf a daeth i'r casgliad mai'r ffordd orau o gyflawni cenhadaeth a diben Cadw oedd drwy barhau, am y tro, yn un o asiantaethau mewnol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gwnaeth 29 o argymhellion hefyd a oedd yn amrywio o ran cwmpas, gan gynnwys sawl un sydd â'r bwriad o helpu i egluro rôl Bwrdd Cadw a'r ffyrdd y gellid addasu gweithdrefnau'r llywodraeth i alluogi Cadw i weithredu hyd yn oed yn fwy effeithiol. Mae sawl un o'r argymhellion yn gwneud awgrymiadau ynglŷn â sut y gellir atgyfnerthu'r ffyrdd y mae Cadw yn gweithio gyda'i phartneriaid ac mae eraill yn ystyried sut y gellir ychwanegu at weithgareddau eang eu cwmpas Cadw er mwyn cynorthwyo â'i diben craidd.

Mae gan bob prosiect mawr drefniadau llywodraethu ar waith sy'n ymwneud â'r prosiect penodol. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n aml er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r cam y mae'r prosiect wedi'i gyrraedd. Mae buddsoddiadau cyfalaf mawr yn cael eu cefnogi gan achosion busnes sy'n destun proses graffu er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn. Mae hyn yn cynnwys nifer o swyddogion Llywodraeth Cymru ac adolygiad annibynnol drwy adolygiadau Gateway. Caiff grantiau a chontractau cyfalaf a refeniw llai o faint eu dyfarnu ar sail proses ymgeisio agored neu gomisiwn uniongyrchol. Cânt eu monitro gan swyddogion drwy gydol oes y prosiect, gydag elfennau i'w cyflawni a phwyntiau gwirio y cytunwyd arnynt.

Caiff prosiectau mawr a gweithgarwch eu monitro drwy ddefnyddio'r Adnodd Adrodd Gwybodaeth Fusnes. Mae Cynllun Tystiolaeth yn cyflwyno'r prosiectau ymchwil, gwerthuso a chasglu data y mae'r Is-adran Diwylliant yn ymgymryd â nhw neu wedi ymrwymo iddynt. Caiff ei ddiweddaru bob blwyddyn, yn seiliedig ar drafodaethau â'r staff a rhanddeiliaid ehangach, er mwyn sicrhau bod gweithgarwch yn cefnogi blaenoriaethau is-adrannol allweddol ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

### 3.2 Manylion am bolisïau neu raglenni penodol yn y Prif Grwpiau Gwariant (sy'n berthnasol i bortffolio'r Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth, Cyfathrebu, Diwydiannau Creadigol, a Chwaraeon) y bwriedir iddynt fod yn ataliol, a sut y caiff gwerth am arian a chostau a manteision rhaglenni o'r fath eu gwerthuso.

Mae'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn chwarae rôl bwysig o ran mynd i'r afael ag anfantais ac atal tlodi. Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol (megis gwirfoddoli mewn amgueddfa neu chwarae cerddoriaeth) wella sgiliau, hunan-barch, dysgu a dyheadau, yn enwedig mewn ardaloedd sydd o dan anfantais economaidd.

#### Iechyd a lles

Tanlinellwyd pwysigrwydd diwylliant i hybu llesiant cadarnhaol ac iechyd corfforol mewn ffordd ddramatig yn ystod y pandemig, ac unwaith eto eleni mewn perthynas ag ymateb y sector i gostau byw cynyddol. Mae diwylliant a threftadaeth yn ddihangfa i lawer yn ystod y cyfnod anodd ac ansicr hwn, ac mae ein sector bob amser yn dangos ymatebion arloesol a chreadigol i gefnogi llesiant unigolion a chymunedau.

Mae rhai enghreifftiau o'r ffordd y mae ein sectorau wedi cyflwyno polisïau a rhaglenni ataliol yn 2023/24 yn cynnwys:

- Sefydlu hybiau cynnes mewn llyfrgelloedd – mae'r rhain wedi parhau y tu hwnt i'r cyfnod cyllido cychwynnol.
- Darparu llyfrau ar bresgripsiwn drwy'r cynllun 'Darllen yn Well'.
- Datblygu ap House of Memories Cymru sy'n defnyddio casgliadau amgueddfeydd i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.
- Parhau â phartneriaeth Cyngor Celfyddydau Cymru â byrddau iechyd er mwyn cynnig amrywiaeth o raglenni wedi'u teilwra i gefnogi llesiant.
- Cefnogi fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol drwy raglenni i wirfoddolwyr wedi'u teilwra.

Mae 2024/25 yn ymddangos yn heriol o ran yr hyblygrwydd ariannol sydd ar gael i'n sectorau i gefnogi gweithgarwch ataliol y tu allan i'w dibenion craidd, ond mae'r ffocws ar lesiant, ac ar gyflawni nifer o flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru megis Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Gweithredu LHDTC+, strategaeth Cymru o blaid Pobl Hŷn, ac mae mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu eisoes wedi ymwreiddio'n ddwfn mewn gweithgarwch o ddydd i ddydd.

Mae enghreifftiau o brosiectau a gaiff eu cyllido'n uniongyrchol yn 2024/25 yn cynnwys estyn arlwy llyfrau ar bresgripsiwn ar y cyd â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: a'r Asiantaeth Ddarllen. Caiff prosiect llyfrau ar bresgripsiwn ei werthuso gan yr Asiantaeth Ddarllen fel rhan o waith monitro grantiau. Byddwn yn parhau i weithio gydag amgueddfeydd lleol i hyrwyddo'r defnydd o ap House of Memories Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n defnyddio casgliadau amgueddfeydd i gefnogi pobl â dementia. Mae HARP - *Health Arts Research People* yn un enghraifft yn y

celfyddydau o ymyriadau i atal salwch, cydweithrediad ar y cyd â'r GIG i ddatblygu dulliau newydd o ymdrin ag iechyd, llesiant a chreadigrwydd.

Gall chwaraeon gynnig yr adnodd iechyd ataliol mwyaf effeithiol i'r genedl, ond mae angen mwy o flaenoriaethu traws-sector i achosi newidiadau cynaliadwy yn yr hirdymor o ran cyfranogi. Mae'r Gronfa Iach ac Egnïol a Chynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach yn ddwy enghraifft o lwyddiant yn y maes hwn. Bydd Chwaraeon Cymru hefyd yn parhau i fuddsoddi cyllid ac adnoddau yng nghynllun cyflawni ‘Pwysau Iach: Cymru Iach’, gan gynnwys cyflwyno cynllun Hamdden Egnïol 60+.

**Rhaglen Cyfuno**

Mae'r gyllideb yn gwneud darpariaeth i barhau i gefnogi'r Rhaglen Cyfuno yn 2024-25 a'i gwaith ar ymgysylltu ag unigolion a chymunedau ym meysydd amddifadedd.

Mae rhaglen Cyfuno yn anelu at sbarduno newid cadarnhaol ym maes iechyd, llesiant, a thlodi, drwy weithgarwch diwylliannol. Mae'r rhaglen wedi parhau i ymgysylltu â chymunedau lleol a sefydliadau diwylliant a threftadaeth i ffurfio partneriaethau, a nodi a chynnig cyfleoedd, gan gynnwys ffyrdd newydd o ddarparu gweithgareddau diwylliannol a chynyddu ac ehangu cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol.

**Cyfleoedd Cyflogaeth**

Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r Cynllun Cyflogadwyedd yn cael eu hategu gan y dystiolaeth mai gwaith sy'n talu'n dda yw'r ffordd orau allan o dlodi a'r diogelwch mwyaf rhag tlodi i'r rhai sy'n wynebu'r risg honno. Drwy gefnogi swyddi a thwf cynaliadwy, yn enwedig drwy fuddsoddiadau a chyfleoedd Cymru Greadigol i weithio gyda'r sectorau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn fwy cyffredinol a chymryd camau i geisio lliniaru rhai o'r heriau a wynebir gan bobl i gael swyddi, rydym yn anelu at leihau'r tebygolrwydd o deuluoedd yn profi tlodi ac osgoi'r costau i gymdeithas yn yr hirdymor o ganlyniad i dlodi. Rydym yn parhau i greu cyfleoedd i unigolion a'u teuluoedd gyda mentrau a buddsoddiad wedi ei dargedu ledled Cymru.

### 3.3 Gwybodaeth am ddyraniadau (a’u lleoliad) yn eich portffolio i ddarparu ar gyfer deddfwriaeth a allai gael effaith yn y flwyddyn ariannol 2024-25 fel y bo’n berthnasol i bortffolio’r Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth, Cyfathrebu, Diwydiannau Creadigol, a Chwaraeon.

Drwy ein rhaglen ddeddfwriaethol ac ymrwymiad yn ein Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru byddwn yn cyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu newydd ar gyfer pob math o lety i ymwelwyr yn 2024. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn amodol ar ragor o drafodaeth ac, wrth gwrs, y trafodaethau ar y gyllideb flynyddol sy'n mynd rhagddynt. Ar gyfer 2024-25, caiff y gwaith hwn ei gyflawni yn y dyraniad cyllidebol ar gyfer twristiaeth a'i drafod bob blwyddyn fel rhan o'n trafodaethau ar y gyllideb.

### 3.4 Goblygiadau pandemig COVID-19, ymadawiad y DU â’r UE, a’r argyfwng costau byw i’r portffolios Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth, Cyfathrebu, Diwydiannau Creadigol, a Chwaraeon a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli’r effaith barhaus.

Mae'n bosibl y bydd effaith andwyol ar Cadw, Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru o ganlyniad i lai o ymwelwyr, yn enwedig ymwelwyr tramor. Bydd y

sefyllfa hon yn parhau i gael ei monitro'n agos. Er enghraifft, mae'r cyfyngiadau o ganlyniad i'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar nifer yr ymwelwyr a lefelau incwm masnachol ar safleoedd Cadw dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

*Nododd Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2022:Yn gyffredinol, mae adferiad wedi cyrraedd 69 y cant ers lefelau cyn pandemig Covid-19. Mae amgueddfeydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, rhai annibynnol a rhai prifysgolion wedi cyrraedd cyfradd adfer o 80 y cant Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd: 2022 | LLYW.CYMRU*

Yn 2022/23 cafwyd 1,308,628 o ymweliadau â safleoedd Amgueddfa Cymru a 2,322,184 o ymweliadau â gwefan yr Amgueddfa. Ar gyfer 2023/24. Targed Amgueddfa Cymru ar gyfer nifer yr ymweliadau â'i safleoedd yw 1.46m. Hyd at ddiwedd mis Hydref, cafwyd 1,075,825 o ymweliadau, sy'n golygu ei bod ar y trywydd cywir i gyflawni ei tharged neu ragori arno. Targed yr Amgueddfa ar gyfer nifer yr ymweliadau â'i gwefan yw 1.9m. Hyd at ddiwedd mis Hydref, cafwyd 1,578,027 o ymweliadau, sy'n golygu ei bod ar y trywydd cywir i ragori ar ei tharged. Yn ystod 2022-23, cafwyd 52,546 o ymweliadau â'r Llyfrgell Genedlaethol ac yn ystod pum mis cyntaf y flwyddyn ariannol 2023-24 cafwyd 38,767 o ymwelwyr â'r Llyfrgell.

Mae sectorau'r celfyddydau, treftadaeth a diwylliant lleol wedi cael budd o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, a ffynonellau eraill o gyllid cymorth Covid, gan gynnwys y Gronfa Cadernid Economaidd a'r cynllun ffyrlo. Mae'n rhy gynnar i asesu effaith lawn y pandemig ar y sectorau hyn. Roedd y sector ymhlith y rhai olaf i ailagor a'r tebyg yw y bydd effaith y pandemig yn parhau am beth amser eto a nes bod hyder y cyhoedd wedi'i adfer. Rydym wedi gweld lleihad yn niferoedd ymwelwyr a gwirfoddolwyr.

Mae'r portffolio wedi cael budd mawr dros y blynyddoedd o gyllid yr UE ar gyfer prosiectau penodol. Mae Cadw yn enwedig wedi cael budd o fuddsoddiad mewn seilwaith i ymwelwyr ar gyfer henebion yn y gorllewin a'r gogledd. Fodd bynnag, ni all Cadw fynd at Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU yn uniongyrchol.

O ganlyniad i'r pandemig mae llyfrgelloedd cyhoeddus wedi gweld mwy o ddefnydd o adnoddau ar-lein, sydd wedi parhau i gynyddu er bod pobl yn gallu ymweld a chael benthyg adnoddau'n ffisegol unwaith eto. Mae i hyn oblygiadau o ran darparu cyllideb, am fod adnoddau electronig yn fwy costus. Mae'r galw yn fwy na'r ddarpariaeth sydd ar gael o ran amseroedd aros hwy am adnoddau poblogaidd.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2020 na fyddai unrhyw gynllun yn lle rhaglen Ewrop Greadigol yn cael cyllid uniongyrchol fel rhan o'r adolygiad cynhwysfawr o wariant. Nid yw'r elfen Diwylliant wedi cael cymorth uniongyrchol ond mae cymorth wedi cael ei roi i'r elfen ffilm a sgrin. Erys cyfleoedd o hyd i geisio cyllid o gronfa gyfyngedig iawn drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Mae rhaglen Ewrop Greadigol wedi cael ei disodli gan y Gronfa Sgrin Fyd-eang sydd wedi rhedeg ers 2021, gyda chyllideb o tua £7m y flwyddyn. Er bod nifer bach o fusnesau yng Nghymru wedi cael budd o dan y rhaglen hon, cyfyngedig yw'r budd cyffredinol i Gymru o hyd. Mae swyddogion yn parhau i roi adborth i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Sefydliad Ffilmiau Prydain ar yr angen i'r gwledydd datganoledig chwarae mwy o ran yn y broses o gyflwyno'r rhaglen. Nid oes unrhyw beth wedi cael ei gyflwyno hyd yma i ddisodli is-raglen Ewrop Greadigol yn uniongyrchol ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r gwledydd datganoledig eraill i godi materion a nodi opsiynau ar gyfer cymorth i'r sector.

Mae costau cynyddol yn parhau i effeithio ar sectorau yn y diwydiannau creadigol. Mae hyn yn cynnwys darlledwyr a chynyrchiadau ffilm a theledu sy'n pryderu bod costau cynyddol a phroblemau o ran chwyddiant yn ychwanegu at yr heriau cyllidebol sy'n bodoli eisoes ac at yr effeithiau ehangach ar hyfforddeion sy'n gweithio ar gynyrchiadau sgrin sy'n cael anawsterau oherwydd costau byw. Mae'r costau cynyddol sy'n gysylltiedig â phrisiau ynni a chost deunyddiau yn effeithio ar y sector cerddoriaeth a'r sector cyhoeddi hefyd.

**3.5 Gwybodaeth am ddyraniadau yn eich portffolio i gyflwyno'r Strategaeth Ddiwylliant i Gymru a wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith o ddatblygu Strategaeth Ddiwylliant, ac unrhyw ddyraniadau ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu cysylltiedig.**

Mae swyddogion wedi mynd ati i ddatblygu Strategaeth Ddiwylliant ddrafft yn 2023.

Roedd y gwaith ar ddatblygu strategaeth yn seiliedig ar ymarfer ymgysylltu helaeth, a arweiniwyd gan ein contractwr allanol, The Means, a'i weithwyr cyswllt. Yn ystod mis Tachwedd 2022 hyd at fis Ebrill 2023, ymgysylltodd The Means â chynrychiolwyr ein sectorau diwylliannol, â chyrff hyd braich diwylliannol, â chynrychiolwyr cymunedol o bob rhan o Gymru. Hefyd, arweiniodd swyddogion broses ymgysylltu a oedd yn cynnwys sgyrsiau gyda staff yn ein cyrff diwylliannol, gydag arbenigwyr digidol, gyda phartneriaid cymdeithasol, a thimau polisi yn Llywodraeth Cymru. Gyda'i gilydd cymerodd dros 400 o bobl ran yn y sgyrsiau ymgysylltu.

Ym mis Mai 2023, datblygwyd strwythur drafft ar gyfer y strategaeth yn seiliedig ar bedwar datganiad o uchelgais. Profwyd hyn â phartneriaid yr ymddiriedir ynddynt, gan gynnwys partneriaid cymdeithasol, er mwyn cael eu hadborth cyn drafftio'r strategaeth.

Datblygwyd drafft o strategaeth gyflawn ac fe'i profwyd gydag arweinwyr polisi, partneriaid cymdeithasol, a phartneriaid yr ymddiriedir ynddynt yn ystod hydref 2023.

Mae'r gwaith hwn i ddatblygu'r strategaeth wedi cael ei oruchwylio gan Grŵp Llywio, ac mae diweddariadau rheolaidd wedi cael eu rhoi i Weinidogion ac Aelod Dynodedig Plaid Cymru yn ystod y flwyddyn.

Rydym bellach wedi cyrraedd cam lle mae gennym strategaeth ddrafft ddiwygiedig a chynllun gweithredu drafft. Yn anffodus, mae'r setliad cyllidebol ar gyfer ein cyrff diwylliannol yng Nghymru bellach wedi'i gadarnhau a byddant yn wynebu gostyngiad o 10.5% yn 2024/25. Mae cyllideb Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi ein sectorau diwylliannol lleol hefyd yn wynebu gostyngiad o 22.3%. Mae'r rhain yn ffigurau heriol dros ben, a fydd yn arwain at golli swyddi, gyda llawer o'n sefydliadau yn y sector bellach yn ystyried eu hyfywedd yn y dyfodol.

Mae angen inni ystyried goblygiadau'r ffordd y mae ein dyraniadau o wariant dangosol wedi cael eu hail-lunio yn ein cyllideb, ar ôl y gostyngiad o £1.233m tuag at y Strategaeth Ddiwylliant, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Dynodedig.

Rydym wedi amlinellu gweledigaeth uchelgeisiol a chynhwysfawr ar gyfer y sector diwylliant yn y strategaeth ddrafft, ac rydym yn benderfynol o hyd y dylai hon osod y sylfeini ar gyfer ein sector dros y saith i ddeng mlynedd nesaf ond ni allwn anwybyddu'r heriau sy'n cael eu nodi ar gyfer cyllidebau 2024/25.

**Meysydd penodol:**

**Cadw**

**3.6 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â Cadw, gan gynnwys targedau creu refeniw, a ffigurau creu incwm blynyddol diweddar (gan gynnwys elw net).**

Ffigur incwm masnachol Cadw ar gyfer 2019-20, yn union cyn y pandemig, oedd £8m – y lefel uchaf erioed i Cadw. Mae incwm wedi adfer yn gryf ers i'r cyfyngiadau gael eu codi, i ffigur gwirioneddol o £9.6m ar gyfer 2022/23, a ffigur rhagamcanol o fwy na £10m ar gyfer y flwyddyn hon.

Rydym yn rhagweld rhagor o gynnydd mewn incwm masnachol yn ystod 2024/2025 – gyda tharged cynhyrchu incwm ymestynnol o tua £10.8m. Byddwn yn ceisio cyflawni'r targed hwn drwy'r canlynol:

- Cynyddu taliadau mynediad a chostau aelodaeth 6.2% ar gyfartaledd.
- Nifer o fentrau cynhyrchu incwm newydd – er enghraifft, cyflwyno taliadau maes parcio lle y bo modd.
- Ymgyrchoedd marchnata – gyda phwyslais ar ble rydym wedi gwneud buddsoddiad sylweddol yn yr arlwy i ymwelwyr megis y gwaith mawr a agorwyd yn ddiweddar yng Nghastell Caernarfon a Llys Tre-tŵr.

Dylai'r targed incwm ymestynnnol hwn fod yn ddigon i ddarparu ar gyfer llawer o'r pwysau chwyddiannol y mae Cadw yn parhau i'w hwynebu o ran cyflogau a chostau eraill, yn enwedig costau cyfleustodau a chostau cynnal a chadw safleoedd. Fodd bynnag, cyfyd rhai pryderon ynglŷn ag effaith bosibl yr argyfwng costau byw ar niferoedd ymwelwyr a gwariant manwerthu.

Ni fydd y targed incwm ar gyfer 2024/2025 yn ddigon i ddarparu ar gyfer y gostyngiad o £2.123m a gymhwyswyd yn erbyn cyllideb refeniw Cadw. Mae hyn yn arwain at ostyngiad o 22% o gymharu â llinell sylfaen y Gyllideb Derfynol ddangosol a ailddatganwyd. Y gostyngiad a wneir yw cyfraniad Prif Grŵp Gwariant yr Economi tuag at ymarfer ailflaenoriaethu ehangach Llywodraeth Cymru.

Caiff ymrwymiadau statudol craidd, megis gwaith rheoleiddio a chynllunio a chynnal a chadw a rhoi mynediad diogel i henebion i'r cyhoedd eu blaenoriaethu. Rydym yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau hyn yn uniongyrchol, ond caiff rhai eu cyflawni'n anuniongyrchol drwy eraill, yn benodol Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru. O ganlyniad, bydd y gostyngiadau yn y gyllideb yn cael effaith sylweddol ar nifer o raglenni gwaith eraill megis dysgu gydol oes, ymweliadau addysgol, gwirfoddoli a chyfranogi, dehongli henebion, digwyddiadau nad ydynt yn cynhyrchu incwm a chymorth i sefydliadau yn y trydydd sector. Bydd rhai o'r gostyngiadau mewn nifer o'r rhaglenni hyn yn cael effaith yn y tymor hwy ar gynhyrchu incwm yn y dyfodol – ond lle bynnag y bo modd bydd angen diogelu gweithgareddau sy'n cynhyrchu incwm yn uniongyrchol. Fodd bynnag, bydd y gostyngiad yn y gyllideb yn effeithio ar amseroedd agor llawer o'n canolfannau llai o faint i ymwelwyr ledled Cymru. Mae'n bosibl y bydd rhai'n gorfod cau'n gyfan gwbl, gan effeithio unwaith eto ar gynhyrchu incwm.

Yn fwy cyffredinol, mae Cadw yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru. Mae'n gofalu am 132 o henebion ledled Cymru ac yn rhoi mynediad i'r cyhoedd i'r henebion hyn. Mae gwariant cyfalaf ar gadwraeth henebion,

mesurau iechyd a diogelwch a buddsoddiad mewn cyfleusterau i ymwelwyr hefyd yn flaenoriaeth bwysig o hyd. Fodd bynnag, mae costau cynyddol a phwysau chwyddiannol wedi cael effaith ar yr hyn y gellir ei ddarparu a'r gyllideb gyfalaf o £10m ar gyfer 2024/25. Er enghraifft, ni fydd yn ddigon i gyflawni gwaith datblygu Castell Caerffili yn llawn nac ychwaith waith iechyd a diogelwch a chadwraeth hanfodol mewn mannau eraill. O ganlyniad, dim ond cam 1 o brosiect Caerffili a fydd yn cael ei gwblhau'n llawn yn 2024/2025 a bydd cam 2 yn ymestyn i flynyddoedd dilynol.

### 3.7 Dyraniadau tuag at gyllid i berchnogion asedau hanesyddol.

Mae mwy na 30,000 o adeiladau rhestredig a 4,200 o henebion cofrestredig yng Nghymru, a pherchnogion preifat sy'n berchen ar y mwyafrif ohonynt. Mae'r rhan fwyaf o'r perchnogion hynny yn gofalu am eu heiddo mewn ffordd gydwybodol, sydd yn waddol gwerthfawr i genedlaethau heddiw ac yfory.

Mae Cadw wedi cyhoeddi ystod helaeth o ganllawiau, a gellir lawrlwytho cyfeiriadau at y cyllid grant sydd ar gael am ddim o wefan Cadw. Nid yw rhestru adeilad na chofrestru heneb yn rhoi unrhyw hawl i gymorth grant. Fel gydag unrhyw adeilad, mater i'r perchennog yw atebolrwydd cynnal a chadw. Fodd bynnag, mae gan Cadw gynlluniau grant ac ym mhob achos gwneir dyfarniadau ar sail gwerth am arian pan fydd yr ymgeisydd yn cyflwyno amcangyfrifon wedi eu costio, a asesir gan Arolygwyr Cadw.

Mae gan Cadw y cynlluniau grant cyfafal canlynol ar hyn o bryd:

- **Grantiau Cyfalaf Adeiladau Hanesyddol** – ar gyfer gwaith atgyweirio ar adeiladau rhestredig sydd mewn perygl neu mewn cyflwr bregus
- **Grantiau Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Adeiladau Hanesyddol** – ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio ar raddfa fach
- **Gwaith Brys ar Adeiladau mewn Perygl** – Grantiau i Awdurdodau Lleol i dalu am gostau paratoi a chyflwyno Hysbysiadau Gwaith Brys i sicrhau cyflwr adeiladau rhestredig sydd mewn perygl ac mewn cyflwr bregus.
- **Grantiau Henebion** – i helpu perchnogion henebion i wneud gwaith atgyweirio a gwaith cadwraeth ar safleoedd sy'n amrywio yn ôl eu dyddiad o'r Oes Neolithig i adeiladau'r chwyldro diwydiannol.

Cyfanswm gwerth y grantiau cyfalaf i berchnogion asedau hanesyddol ar gyfer 2022/2023 oedd £2,831k. Yn ystod 2023/2024, pennwyd dyraniad cychwynnol o £1,800k, ond mae'n debygol y bydd dyraniadau rhagamcanol ar gyfer diwedd 2023/2024 yn mynd dros £2,000k. Y bwriad yw pennu dyraniad tebyg ar gyfer 2024/2025.

## Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

### 3.8 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad ag Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan gynnwys targedau creu refeniw.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru yn rhagweithiol o ran cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac ennyn diddordeb pobl Cymru mewn gweithgareddau diwylliannol yn ogystal â bod yn hwyluswyr pwysig i ddangos diwylliant Cymru ar lwyfan rhyngwladol.

Mae hwn yn gyfnod heriol iawn i'n cyrff hyd braich. Yn ogystal â gostyngiadau i'w cyllidebau, maent yn wynebu pwysau chwyddiannol a chodiadau cyflog sylweddol. Maent hefyd yn wynebu costau cynyddol am gyfleustodau a phrosiectau cyfalaf. Mae hyn yn arbennig o wir i'r rhai â'r ystadau hanesyddol (Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol) sydd wedi gweld cynnydd mawr iawn mewn costau.

Cafwyd gostyngiad o £2.992m yn erbyn y gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer 2024-25 i Amgueddfa Cymru a gostyngiad o £1.301m i'r Llyfrgell Genedlaethol. Mae'r naill ostyngiad a'r llall wedi cyfrannu tuag at ymarfer ailflaenoriaethu Llywodraeth Cymru.

Mae'r Llyfrgell yn dda o ran denu rhoddion elusennol a chymynroddion ond mae'r targed cynhyrchu incwm masnachol yn heriol iddi, gyda llai o opsiynau ar y safle i gynhyrchu refeniw o'i chymharu â'r Amgueddfa a'i siopau a'i chaffis ar saith safle. Mae'r Llyfrgell wedi sefydlu adran yn ddiweddar a'i nod yw arwain a chefnogi dulliau trawsnewidiol o godi arian drwy'r sefydliad cyfan. Mae'r Llyfrgell a'r Amgueddfa yn parhau i gynnal ymarferion cynllunio a mapio manwl yng ngoleuni'r hinsawdd ariannol bresennol.

Mae cyllideb gyfalaf y Llyfrgell Genedlaethol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 yn parhau ar £2m. Bydd swm arall o £1.55m o Linell Wariant yn y Gyllideb Cefnogaeth i Ddiwylliant Lleol a Chwaraeon 6170 yn galluogi prosiectau digideiddio a datgarboneiddio yn ogystal â helpu i gynyddu ei lle storio.

Mae cyllideb gyfalaf Amgueddfa Cymru yn parhau ar £5m ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25. Bydd y gyllideb yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau o ran cynnal a chadw sy'n gysylltiedig â gweithredu mewn adeiladau hanesyddol a'r angen i gadw ein casgliadau cenedlaethol yn ddiogel, ynghyd â dyraniad pellach o £0.300m o Linell Wariant yn y Gyllideb Diwylliant Lleol a Chwaraeon i alluogi prosiectau datgarboneiddio.

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**

Yn 2024/25 bydd y Comisiwn Brenhinol yn gweld gostyngiad o 22% yn ei ddyraniad cymorth grant refeniw dangosol ar gyfer 2024/25. Gwneir y gostyngiad sylweddol hwn i gynyddu costau mewn rhannau eraill o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y cyllid sydd ei angen ar y GIG. Mae swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Comisiwn Brenhinol i ystyried effaith y gostyngiad hwn a chynllunio yn unol â hynny. Yn debyg i'r flwyddyn ariannol hon, bydd y Comisiwn Brenhinol yn cael dyraniad cyfalaf o £0.05m ynghyd â dyfarniad arall o £0.045m o Linell Wariant yn y Gyllideb Cefnogaeth i Ddiwylliant Lleol a Chwaraeon 6170 i ddigideiddio'r casgliad cenedlaethol o ffotograffau o'r awyr.

**<u>Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd</u>**

### 3.9 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â Strategaethau Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd.

Mae dyraniadau'r gyllideb ddrafft ar gyfer Cefnogaeth i Ddiwylliant Lleol a Chwaraeon yn gwneud cyfanswm o £6.668m refeniw a £24.7m cyfalaf, heb gynnwys cymorth i gyrff hyd braich a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a bennwyd yn y Llinellau Gwariant perthnasol yn y Gyllideb.

Er bod hwn yn setliad heriol, mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i'n galluogi i gefnogi amgueddfeydd lleol, archifau a llyfrgelloedd yn unol â'n cyfrifoldebau fel yr asiantaeth ddatblygu ar gyfer y sector diwylliant lleol. Bydd ein cyllid yn sicrhau y caiff asedau ffisegol a digidol casgliadau archifau, amgueddfeydd a llyfrgelloedd eu rheoli, eu diogelu a'u gwneud yn hygyrch. Byddwn yn gweithio gyda chyrff cymorth allweddol yn y sector i feithrin gallu a gwydnwch, er mwyn sicrhau bod rhwymedigaethau statudol yn cael eu cyflawni, a safonau proffesiynol er budd defnyddwyr.

Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 ac mae cyfrifoldeb ar Weinidogion i 'uwcharolygu' darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus. O ran archifau, ceir cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â darparu ar gyfer cofnodion llywodraeth leol a Mannau Adneuo o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958. Mae sicrhau bod y gofynion statudol hyn yn cael eu cyflawni yn un o'r gweithgareddau allweddol yn y dyraniad cyllidebol.

Rydym yn cefnogi mentrau cydweithredol i sicrhau effeithlonrwydd, gwerth am arian, cadernid gwasanaethau, a mynediad cyfartal i gasgliadau drwy'r sector cyfan. Rydym yn buddsoddi mewn creu casgliadau digidol a sgiliau er mwyn gwella cadernid, mynediad i adnoddau, a chynyddu lefelau ymgysylltu.

Rydym yn bwriadu parhau â'n rhaglen o Grantiau Cyfalaf Trawsnewid i gyllido datblygiadau cyfalaf a gwelliannau, gan gynnwys prosiectau digidol, er mwyn cefnogi datgarboneiddio a'r rhai sy'n hyrwyddo cydraddoldebau. Mae cyllid ar gyfer hyn wedi'i gynnwys yng nghyllideb Diwylliant Lleol a Chwaraeon.

### 3.10 Cyllid a ddyrannwyd i weithredu yn ôl argymhellion yr Adolygiad o Amgueddfeydd Lleol.

Roedd hyfywedd argymhellion allweddol yr Adolygiad yn amodol ar weithredu i greu tri chorff rhanbarthol. Erys hyn yn benderfyniad i awdurdodau lleol ledled Cymru. Ystyriodd Llywodraeth Cymru yr argymhellion ymhellach drwy'r astudiaeth ddichonoldeb 'Creu a Rhedeg Strwythur Amgueddfaol' a gwblhawyd yn haf 2019. Cydnabu'r Adolygiad gwreiddiol a'r astudiaeth ddichonoldeb hon fod i'r argymhellion oblygiadau sylweddol o ran costau ac ers 2015 ni thybiai awdurdodau lleol fod creu cyrff rhanbarthol yn flaenoriaeth iddynt.

Fel y nodir uchod, bydd y gyllideb ddrafft i gefnogi'r sectorau lleol yn gostwng 22.3%. Felly, mae'n heriol dyrannu cyllid i weithredu ar argymhellion yr Adolygiad Arbenigol, neu eu hystyried eto o dan y Strategaeth Ddiwylliant, fel y'i bwriadwyd yn wreiddiol.

Yn 2023-24, gwnaed rhagor o waith a oedd yn cefnogi sawl un o argymhellion yr Adolygiad. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn cymorth arwyddocâd newydd i helpu amgueddfeydd i nodi a diogelu eitemau o arwyddocâd a helpu i resymoli casgliadau. Parhaodd i gynnig rhaglen hyfforddi a datblygu'r gweithlu ac mae hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector i ariannu diweddariad i ymchwil ac arweiniad Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol ar bolisi ac arferion mynediad i amgueddfeydd. Yn 2024-25 ac o ystyried yr her sy'n rhan annatod o ostyngiadau cyllidebol, bydd

Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r sector amgueddfeydd lleol drwy gynnig rhaglen datblygu'r gweithlu. Bydd hefyd yn ceisio hyrwyddo'r defnydd o'r pecyn cymorth ar arwyddocâd, er mwyn hwyluso cynnydd tuag at argymhelliad yr Adolygiad ynglŷn â deall y casgliadau o arwyddocâd cenedlaethol a ddelir ledled Cymru mewn amgueddfeydd lleol.

**Y Celfyddydau a Chyngor Celfyddydau Cymru**

### 3.11 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â Chyngor Celfyddydau Cymru

O dan egwyddor cyllid hyd braich, caiff ein prif fuddsoddiad yn y celfyddydau yng Nghymru ei sianelu drwy Gyngor Celfyddydau Cymru.

Mae hwn yn gyfnod heriol iawn i'n cyrff hyd braich diwylliannol, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru. Yn ogystal â'r gostyngiadau yn y gyllideb, mae CCC a'r sectorau celfyddydau y mae'n eu cefnogi yn wynebu pwysau chwyddiannol sylweddol.

Bu gostyngiad o £3,570,000 yn erbyn cyllideb derfynol ddangosol 2024-25 ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru sydd wedi cyfrannu tuag at ymarfer ailflaenoriaethu Llywodraeth Cymru. Ceir dyraniad refeniw o £30,429,000 yn y gyllideb ddrafft i Gyngor Celfyddydau Cymru.

Cwblhaodd CCC ei Adolygiad Buddsoddi yn seiliedig ar ei ddyraniadau cymorth grant dangosol, a gwnaeth ddyfarniadau dangosol, yn amodol ar ganlyniadau'r broses apelio a chadarnhau ei gyllideb ar gyfer 24/25. Yng ngoleuni'r gyllideb hon, mae swyddogion/Llywodraeth Cymru yn ymwybodol y bydd angen i CCC ailwerthuso manylion dyfarniadau'r adolygiad buddsoddi bellach er mwyn ei alluogi i barhau i roi cymorth hollbwysig i sector y celfyddydau o fewn y paramedrau hyn.

Mae cyllideb gyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 yn parhau ar £400,000. Hefyd, rydym wedi gwneud dyraniad tuag at wariant cynnal a chadw cyfalaf mewn theatrau, neuaddau cyngerdd a lleoliadau perfformio o Linell Wariant yn y Gyllideb 6170 a hefyd yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol. Bydd cyllid i gefnogi'r broses o ailddatblygu Theatr Clwyd yn parhau drwy CCC.

### 3.12 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â chyllid i hyrwyddo mynediad at y celfyddydau.

Gan weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, byddwn yn parhau i gefnogi a hyrwyddo'r cyfraniad hollbwysig y mae'r celfyddydau yn ei wneud i Gymru.

Mae cynyddu ac amrywiaethu lefelau o fynediad a chyfranogiad yn y celfyddydau yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru i Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn defnyddio'r rhan fwyaf o'i gymorth grant i roi arian craidd i sefydliadau celfyddydol strategol ac rydym yn disgwyl iddo barhau i flaenoriaethu mynediad a gwaith ymgysylltu.

Nod ein buddsoddiad mewn prosiectau cyfalaf diwylliannol mawr, yn enwedig Theatr Clwyd a'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a rhoi gwell mynediad, gan gynnwys y gogledd a'r canolbarth yn benodol.

### 3.13 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â chyllid i ddefnyddio'r celfyddydau a diwylliant i drechu tlodi

Mae'r gyllideb yn gwneud darpariaeth i barhau i gefnogi'r Rhaglen Cyfuno yn 2024-25 a'i gwaith ar ymgysylltu ag unigolion a chymunedau ym meysydd amddifadedd.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn bartner strategol yn rhaglen Cyfuno, sy'n cefnogi sefydliadau i gyfranogi drwy roi cyngor ymarferol a threfnu cyflwyniadau rhwng partneriaid Cyfuno ac artistiaid/sefydliadau celfyddydol yn eu hardaloedd hwy.

### 3.14 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â chyllid i annog/alluogi sefydliadau’r celfyddydau i greu rhagor o’u hincwm eu hunain.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnig cyfle i unrhyw sefydliad wneud cais am gyllid datblygu busnes drwy raglen Creu sy'n agored drwy gydol y flwyddyn. Mae'r mathau hyn o geisiadau'n aml yn canolbwyntio ar y ffordd y mae sefydliad yn gweithredu ac mewn cysylltiad â hynny, y ffordd y mae ei fodel ariannol yn gweithio a'r ffordd y gellid ei wella.

Mae pob cais am grant gan CCC yn gofyn am gyllideb a chaiff hon ei hadolygu fel rhan o'r broses. Mae bron pob cais yn gofyn am i'r sefydliad godi cyfran o'i gyllid ei hun, ac mae hyn hefyd yn rhan o'r broses gwneud penderfyniad.

## Cymru Greadigol – Y cyfryngau a darlledu

### 3.15 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â Cymru Greadigol (gan gynnwys cyllid i’w ddosbarthu gan Cymru Greadigol).

Cyfanswm dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft dros dair blynedd ar gyfer Cymru Greadigol yw £21.364m refeniw a £15m cyfalaf, gan gynnwys Cyngor Llyfrau Cymru. Yn 2023-24, cyfanswm dyraniad cyllideb Cymru Greadigol yw £7.119m refeniw a £5m cyfalaf (£12,119m).

Mae ein buddsoddiad yn canolbwyntio ar y sectorau â blaenoriaeth, sef sgrin (Ffilm a Theledu), cerddoriaeth, digidol a chyhoeddi ochr yn ochr ag ymrwymiadau ym maes darlledu a newyddiaduraeth a nodwyd yn y Cytundeb Cydweithio yn ogystal â chyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i wella sgiliau ar gyfer y diwydiant.

Ers mis Ebrill 2023, rydym wedi buddsoddi mewn naw prosiect cyfalaf, sy'n cyfrif am gyllid cyfalaf Cymru Greadigol gwerth £6.7m a thros £83.2m mewn Gwariant Cymru amcanestynedig, gan greu 50 o swyddi newydd. Nod y cynllun yw cefnogi twf Cymru fel cyrchfan sy'n cynhyrchu cynnwys o'r radd flaenaf. Mae'r cyllid yn cefnogi cwmnïau cynhyrchu a datblygu gemau yng Nghymru sydd am ddatblygu cynyrchiadau y bwriedir eu dangos i gynulleidfaoedd rhyngwladol a chreu swyddi hefyd i'r cynyrchiadau hynny o'r tu allan i Gymru sydd am ffilmio yng Nghymru.

Gan weithio gyda Ffilm Cymru (FfC), mae £1.3m wedi cael ei ddyrannu i bum prosiect yn 2022/2023 ac mae'r gwaith yn parhau gyda thîm FfC ar lif o brosiectau y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno i'w hystyried gan banel y bwrdd ym mis Rhagfyr 2023 er mwyn ailddyrannu balans y cyllid sydd eisoes wedi'i neilltuo yn ogystal â'r balans sy'n weddill yn y rhaglen gyffredinol.

Gyda thwf mewn cynyrchiadau sy'n ystyried ffilmio yng Nghymru mae gennym flaenoriaeth strategol hefyd i fuddsoddi yn ein seilwaith stiwdio. Yn dilyn ein buddsoddiad yn Aria Studios yn y gogledd y llynedd, mae Cymru Greadigol wedi buddsoddi yn Great Point

Studios ochr yn ochr â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, i ehangu'r safle'n sylweddol. Nid yw'r gwaith adeiladu wedi dechrau eto ond bydd y safle hwn yn cael ei ehangu i arwynebedd o 257,000 troedfedd sgwâr i gyd.

Rydym yn parhau i roi cyllid i gefnogi'r sector cerddoriaeth fasnachol, gyda £700,000 mewn cyllid cyfalaf i gefnogi lleoliadau, stiwdios recordio ac ystafelloedd rhagymarfer drwy Gronfa Gyfalaf Cerddoriaeth 2023 i 17 o fusnesau. Mae'r swm hwn yn ychwanegol at gyllid refeniw o £200,000 drwy gymorth strategol i raglenni megis FOCUS Cymru, PRS Momentum a Power up, gŵyl gomedi'r BBC a darparu rhaglen Beacons.

Bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer darlledu a'r cyfryngau yn cefnogi camau i gryfhau'r cyfryngau yng Nghymru fel y'i nodwyd yn y Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru.

Mae cymorth i ddatblygu sgiliau a thalent yn y diwydiannau creadigol yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ac mae Cymru Greadigol yn ymrwymedig i gefnogi a meithrin y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon bu 73 o hyfforddeion mewn lleoliadau â thâl ar gynyrchiadau a ariannwyd gan Cymru Greadigol gydag ymrwymiad o 45 o hyfforddeion ychwanegol hyd yma ar gynyrchiadau sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd, gan gynnwys: Out There, Maid of Sker (gêm) a Tŷ Gwyrdd. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau lefel mynediad ac uwchsgilio yn ogystal â phrentisiaethau o dan Gynllun Prentisiaethau a Rennir CRIW (Sgil Cymru). Mae hyfforddeion â thâl ar bob un o'r ffilmiau a ariennir drwy ein cytundeb â Ffilm Cymru. Caiff pob lleoliad ei fonitro, ac ymwelir â chynyrchiadau i gael adborth gan y cyflogwyr/cyflogai. Mae Cymru Greadigol yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid eraill yn y diwydiant er mwyn edrych ar greu llwybrau gyrfa ystyrlon i hyfforddeion.

Ar hyn o bryd, mae 17 o brosiectau sgiliau a hyfforddiant o ansawdd uchel yn cael eu cyflwyno drwy'r Gronfa Sgiliau Creadigol a lansiwyd ym mis Medi 2022.

Yn ogystal â'r 17 o brosiectau, mae Cymru Greadigol yn cefnogi pedwar prosiect partneriaeth sgiliau ychwanegol, gan gynnwys rhaglen i hwyluswyr llesiant, sef cwrs chwe mis newydd; *O’r Sgript i Sinema* sy'n cael ei gyflwyno gan NFTS Cymru ar y cyd ag S4C, sydd â'r nod o helpu sgriptwyr i ddatblygu eu llais sinematig yn y Gymraeg. Mae Cymru Greadigol hefyd yn parhau i gefnogi Cyswllt Diwylliant Cymru am drydedd flwyddyn. Nod y prosiect yw helpu talent amrywiol yng Nghymru i ddod o hyd i gyfleoedd ym myd ffilm a theledu. Mae Cymru Greadigol yn un o bum partner sy'n cefnogi'r prosiect hwn ochr yn ochr â BBC Cymru, ITV Cymru, S4C a C4.

Mae amrywiaeth a chynwysoldeb wedi'u hymgorffori yn y gweithgareddau ac mae Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol wedi pennu hyn fel ei brif flaenoriaeth. Mae uchelgeisiau Cymru Greadigol i greu sector diwydiannau creadigol mwy amrywiol a chynhwysol yng Nghymru yn amlwg yn cyd-fynd ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i sicrhau'r tegwch mwyaf posibl i bawb, cael gwared ar wahaniaethu a dathlu amrywiaeth.

### 3.16 Diweddariad ar gynlluniau i roi rhagor o gymorth newyddiaduraeth Saesneg sy’n “debyg i beth sydd gyda ni yn y Gymraeg”.

Yn 2022/23 cefnogwyd newyddiaduraeth gymunedol annibynnol drwy ddyfarnu £100,000 i PING! News i gyflwyno Cronfa Sbarduno Newyddiaduraeth, prosiect dilynol i Gronfa

Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru a gefnogwyd gan gyllideb 2021/22. Hyd yma, mae'r Gronfa Sbarduno Newyddiaduraeth wedi cefnogi 10 o gyhoeddiadau ledled Cymru i gynyddu eu darpariaeth o newyddion er budd y cyhoedd sy'n berthnasol yn lleol a hybu twf yn y sector newyddion cymunedol yng Nghymru. Hefyd, y tri phrosiect peilot newyddiaduraeth penodol; mae swydd gohebydd penodol i'r Senedd a arweinir gan y Rhwydwaith Newyddion Cymunedol Annibynnol a'r prosiect “Media Development Lab” a arweinir gan Inclusive Journalism Cymru a ariannwyd drwy gyllideb 2022/23 a phrosiect Ymchwil Data Sector Prifysgol Caerdydd, a ariannwyd drwy gyllideb 2023/24 yn parhau i gyflawni eu nodau.Mae gwaith yn mynd rhagddo i neilltuo gweddill cyllideb cymorth ariannol i'r cyfryngau ar gyfer 2023/24.

### 3.17 Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas ag unrhyw gyllid ar gyfer y cyfryngau a darlledu.

Hyd yma, yn 2023-24, dyfarnwyd cyfanswm o £3,760m i Gyngor Llyfrau Cymru i gefnogi'r sector cyhoeddi yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys cronfa refeniw wrth gefn ar gyfer y Gwasanaeth Newyddion Cymraeg Digidol. Cytunir ar y gyllideb ar gyfer Cyngor Llyfrau Cymru ar gyfer 2024-25 fel rhan o'r cyhoeddiad ffurfiol ar y gyllideb. Rydym yn parhau i ddefnyddio'r Memoranda Cyd-ddealltwriaeth â'r BBC ac S4C i lywio cyd-gomisiynau a chefnogi mwy o weithio mewn partneriaeth ar faterion darlledu a chyfleoedd cyllido i sefydliadau yng Nghymru. Drwy hyn, cefnogwyd cyfres o gynyrchiadau yn 2023/24, gan gynnwys *Pren ar y Bryn / Tree on a Hill* a *Men Up*. Mae ein cyllid ar gyfer cynhyrchu yn parhau i ddenu nifer mawr o ymholiadau newydd ac rydym yn cynnnal llif eang o brosiectau cenedlaethol a rhyngwladol posibl.

### 3.18 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â gweithredoedd darlledu a chyfathrebu yn y Cytundeb Cydweithredu, a'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni.

Hyd yma, yn 2023-24, neilltuwyd cyfanswm o £0.216m i helpu i gyflawni ymrwymiadau ym maes darlledu a newyddiaduraeth yn y Cytundeb Cydweithio, fel a ganlyn:

| Gweithgaredd | Cyllid |
|---|---|
| Gweinyddu ac adroddiadau panel o arbenigwyr | £10,658 |
| Cymorth i ddatblygu'r llwyfan AM | £173,799 |
| Prosiect Ymchwil Data Sector Prifysgol Caerdydd | £31,750 |

Yn 2024-25 mae cyllideb flynyddol o £1m ar gyfer darlledu a £100,000 ar gyfer newyddiaduraeth wedi cael ei neilltuo, fel y'i nodwyd yng nghyllideb y Cytundeb Cydweithio. Hefyd, mae £700,000 wedi cael ei ddyrannu ar gyfer ffilmiau a chynnwys Cymraeg drwy'r Cytundeb Cydweithio. Caiff penderfyniadau ar y gweithgareddau a'r prosiectau sydd i'w cefnogi gan y cyllidebau hyn eu gwneud ar ôl cytundeb ynglŷn ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad y Panel o Arbenigwyr Darlledu ac yng nghyd-destun yr argymhelliad a nodwyd yn adroddiad Gweithgor Newyddiaduraeth er budd y cyhoedd Cymru. Bwriedir i'r cyllid gefnogi gwelliannau yn y fframwaith darlledu a chyfathrebu yng Nghymru, er mwyn cau'r bwlch o ran gwybodaeth a datblygu mentrau sy'n bodoli eisoes a mentrau newydd i wella newyddiaduraeth Cymru a chefnogi'r cyfryngau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

**Cymru Greadigol – Cymorth ar gyfer cynyrchiadau ffilm a theledu**

**3.19 Y ffigurau refeniw diweddaraf a'r rhagamcaniad refeniw, a'r cyfraddau meddiannaeth ar gyfer Stiwdios Pinewood/Stiwdios Seren ers dechrau'r Cytundeb Gwasanaethau Rheoli ym mis Tachwedd 2017.**

Dechreuodd prydles Great Point ar gyfer Stiwdios Seren ar 1 Hydref 2020 a daeth i ben pan werthwyd y stiwdio. Mae'r rhent a dderbyniwyd hyd at ei gwerthu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 01.10.20 – 30.09.21 | £319,000 |
| 01.10.21 – 30.09.22 | £478,000 |
| 01.10-22 – 21.08.23 | £682,747 |

Mae'r stiwdio wedi cynnal dau gynhyrchiad mawr hyd yma, HAVOC ar ran Netflix a Black Cake ar ran Hulu ochr yn ochr â nifer bach o gynyrchiadau, gan gynnwys 'The Famous Five'.

**3.20 Y ffigurau diweddaraf ar gyfer y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, gan gynnwys cyfanswm y buddsoddiadau, yr elw o ganlyniad i fuddsoddiadau a gwariant yng Nghymru (wedi'i ddadansoddi yn ôl prosiect), a'r un ffigurau ar gyfer buddsoddiadau mewn cynyrchiadau sgrin a wneir gan Cymru Greadigol.**

I gadarnhau, y cyfanswm a adenillwyd hyd yma yn 2023/2024 yw £40,690.63 drwy'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau a oedd yn gronfa buddsoddi masnachol ar gyfer teledu a ffilm. Mae'r gronfa wedi cau erbyn hyn, ac wedi cau ers sawl blwyddyn. Oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio ers i'r gronfa hon gau, ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd llawer mwy yn cael ei adennill drwy'r gronfa hon.

Ceir crynodeb o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn **Atodiad C**.

**3.21 Y ffigurau diweddaraf ar gyfer y cyllid cynhyrchu a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cyfanswm y buddsoddiadau a gwariant yng Nghymru (wedi'i ddadansoddi yn ôl prosiect).**

Ers 2020 darparwyd £22.1m mewn cyllid cynhyrchu (sydd bellach yn cynnwys buddsoddi mewn gemau o ganlyniad i'r meini prawf diwygiedig) ac mae hyn wedi cefnogi 39 o brosiectau a bydd yn cynhyrchu dros £269m i economi Cymru. Ers 2020, mae Cymru Greadigol wedi cefnogi cyfanswm o **341** o leoliadau â thâl ar gynyrchiadau a gyllidwyd.

Ceir rhestr o'r prosiectau yn **Atodiad D**.

**3.22 Y ffigurau diweddaraf ynghylch Cronfa Sgrin Cymru gan gynnwys cyfanswm y buddsoddiad a Gwariant Cymru (wedi ei ddadansoddi fesul prosiect).**

Gellir gweld yr holl gynyrchiadau a gefnogwyd cyn lansio Cymru Greadigol yn 2020 yn Atodiad C. Er eglurder, nid oes unrhyw Gronfa Sgrin Cymru. Dyma'r dull o reoli cymorthdaliadau a ddefnyddir i gefnogi cyllid cynhyrchu.

### 3.23 Y ffigurau diweddaraf ynghylch benthyciad Llywodraeth Cymru i Stiwdios Bad Wolf, gan gynnwys cyfanswm yr ad-daliadau a gwariant yng Nghymru (wedi'i feincnodi yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru).

Cyfanswm y llog sy'n ddyledus ar y benthyciad yw £1.064, a dechreuodd ad-daliadau ym 2020-21. **Mae Bad Wolf wedi ad-dalu £669,314 o'r benthyciad â llog ac mae £394,686 yn weddill.** Ceir y manylion ariannol diweddaraf yn **Atodiad E**.

### 3.24 Disgrifiad o'r strategaeth a'r targedau ar gyfer buddsoddiadau mewn cynyrchiadau sgrin a wnaed gan Cymru Greadigol.

Gwnaethom lansio ein model cyllido cynyrchiadau newydd ym mis Mai y llynedd. Nod y cynllun yw cefnogi twf Cymru fel cyrchfan sy'n cynhyrchu cynnwys o'r radd flaenaf. Mae'r cyllid yn cefnogi cwmnïau cynhyrchu a datblygu gemau yng Nghymru sydd am ddatblygu cynyrchiadau y bwriedir eu dangos i gynulleidfaoedd rhyngwladol a hefyd y cynyrchiadau hynny o'r tu allan i Gymru sydd am ffilmio yng Nghymru. Er mai un o'r prif allbynnau o hyd yw'r effaith ar economi Cymru drwy wariant ar griwiau, cyfleusterau, lleoliadau ac ati, mae'r gronfa hefyd yn ceisio sicrhau bod cymaint o gyfleoedd hyfforddiant a datblygu sgiliau â phosibl ar gael ar gynyrchiadau sy'n cael cyllid. Mae'r gronfa yn blaenoriaethu cynnwys sy'n dangos elfennau gorau diwylliant, iaith a daearyddiaeth Cymru, ond mae hefyd yn blaenoriaethu datblygiad sector sy'n cynnig cyfleoedd cyfartal ac amrywiol yn yr hirdymor, sylfaen cyflogaeth fedrus ac un sy'n ystyriol o lesiant y staff presennol.
Hefyd, ym mis Gorffennaf 2022, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gytundeb â Ffilm Cymru i weinyddu'r cyllid grant ar gyfer ffilmiau nodwedd ar ein rhan. Hyd yma, mae £1.3m wedi cael ei ddyrannu i bum prosiect yn 2022/2023 ac mae'r gwaith yn parhau ar y prosiectau hyn ar y cyd â thîm a bwrdd prosiectau Ffilm Cymru.

### 3.25 Asesiad o effaith y cyllid cynhyrchu a ddarperir drwy Ffilm Cymru, a'r dyraniadau ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Byddwn yn gwerthuso'r rhaglen ar ddiwedd y cyfnod peilot dwy flynedd.

## 4.0 Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

### 4.1 Sicrhau bod hanes pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn ein sectorau diwylliannol a threftadaeth, gan gynnwys yn ein Hamgueddfeydd Cenedlaethol [a Sicrhau bod hanes a diwylliant ein cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu hadlewyrchu'n briodol drwy fuddsoddi rhagor yn ein sector diwylliannol a'n rhwydwaith amgueddfeydd].

Nod yr ymrwymiadau ym maes Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a'r ymrwymiadau penodol cysylltiedig yn y Rhaglen Lywodraethu yw gwneud gwahaniaeth mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar ehangu mynediad, cyfranogiad a lefelau ymgysylltu pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ogystal â methrin gallu ein sectorau diwylliannol a threftadaeth i fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol a systematig. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi neilltuo cyllid cyfalaf a refeniw o ychydig dros £5m i gyd dros y

blynyddoedd ariannol 2023-25 i gefnogi ein sefydliadau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon cenedlaethol, lleol, rhanbarthol a llawr gwlad. Mae'r dyraniad hwn yn cynnwys cyfraniad o ychydig dros £1.3 miliwn o gyllideb y Cytundeb Cydweithio i gefnogi'r gwaith hwn.

Mae pob prosiect sy'n cael cyllid yn canolbwyntio ar gydgynhyrchu, gan ddangos ymrwymiad i roi profiad bywyd wrth wraidd y broses o gynllunio, datblygu a chyflwyno polisïau / gwasanaethau. Gwyddom nad mater o amrywiaeth a chynhwysiant yw cydgynhyrchu â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol; mae'n rheidrwydd strategol sy'n arwain at wasanaethau tecach a mwy diwylliannol briodol a lle mae ein treftadaeth yn cynnig naratif mwy cytbwys a dilys o'n gorffennol.

Mae camau breision wedi cael eu cymryd yn y sectorau diwylliant a threftadaeth i gyflawni yn erbyn nodau a chamau gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac ymrwymiadau cysylltiedig y Rhaglen Lywodraethu. Y llynedd, cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru Gynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad 2022-25 | Cyngor Celfyddydau Cymru ar y cyd, a ategir gan waith i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau presennol a brofir gan bobl, grwpiau a chymunedau, yn enwedig y rhai heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd, o ran mynediad at y celfyddydau a chymryd rhan yn y celfyddydau. Mae Cadw wrthi'n llunio canllawiau terfynol i gyrff cyhoeddus ar goffadwriaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn dilyn yr archwiliad o henebion ac enwau strydoedd a nododd enghreifftiau niferus o goffadwriaethau mewn mannau cyhoeddus y gellid eu hystyried yn ddadleuol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y canllawiau a'r bwriad yw eu cyhoeddi ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd.

### 4.2 Sefydlu Cronfa Ymchwil a Datblygu Diwydiannau Creadigol

Nid yw Cymru Greadigol wedi llunio cronfa ymchwil a datblygu newydd yn benodol. Cynhwyswyd ymchwil a datblygu fel maes blaenoriaeth allweddol fel rhan o'r rhaglen cyllid datblygu. Mae cronfeydd datblygu 2021/22 gwerth £1.1m wedi cael eu dyrannu'n llawn at ddibenion cyflawni drwy gydol 2021/22 a 22/23 i 51 o gwmnïau creadigol. Ym mis Gorffennaf 2023, lansiwyd ail gylch o gronfeydd datblygu a nodwyd 35 o brosiectau ar gyfer gwariant gwerth dros £980,000 i gyd yn 2023/24 a 2024/25.

Ariennir rhaglen media.cymru gwerth £50m drwy £22m o brif Gronfa Cryfder mewn Lleoedd Ymchwil ac Arloesi yn y DU, £3m gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, £0.5m gan Lywodraeth Cymru, drwy Cymru Greadigol, a £23m o arian cyfatebol gan bartneriaid yn y diwydiant a phrifysgolion. Mae rhaglen Media Cymru, a gefnogir gan Cymru Greadigol, yn cynnwys pecyn gwaith i gyflwyno cronfa ymchwil a datblygu i Gymru gyfan ar gyfer y diwydiannau creadigol. Caiff hyn ei gyflawni rhwng 2022 a 2026 ac mae £100,000 wedi cael ei hawlio hyd yma ac mae £100,000 wedi cael ei broffilio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24.

Mae prosiect ymchwil cynaliadwy arloesol ar gyfer y diwydiant sgrin sy'n cael ei redeg gan Sefydliad Ffilmiau Prydain a BAFTA Albert wedi cael ei sicrhau i Gymru, yn sgil cynnig llwyddiannus gan Cymru Greadigol ynghyd â'i phartneriaid cyflawni Ffilm Cymru a Clwstwr. Mae'r adroddiad wedi cael ei gyhoeddi bellach ac rydym yn gweithio ar yr argymhellion.

### 4.3 Y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol

Mae'r Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol, a ariennir gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru dros y cyfnod 2022-23 i 2024-25, yn datblygu rhaglen eang ei chwmpas i gefnogi addysg a gweithgareddau cerddoriaeth. Cyflawnwyd un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu drwy sefydlu'r gwasanaeth ym mis Mai 2022. Un ffocws allweddol o'r gweithgarwch, fel y'i nodwyd yn y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth, yw darpariaeth mewn ysgolion a lleoliadau, ac mae rhaglenni 'Profiadau Cyntaf' a 'Llwybrau Cerddoriaeth' yn cael eu cyflwyno ym mhob ardal awdurdod lleol.

Ar adeg ei sefydlu, amlinellwyd y byddai'r Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol yn cael cyllid gwerth cyfanswm o £13.5 miliwn dros gyfnod o dair blynedd (sy'n cyfateb i £4.5 miliwn y flwyddyn). Fodd bynnag, yng ngoleuni sefyllfa gyllidebol ehangach Llywodraeth Cymru, y bwriad yw y bydd y dyraniad ar gyfer y gwasanaeth yn 2024-25 yn gostwng £500,000 (hynny yw, cyllideb o £4 miliwn).

**4.4 Buddsoddi yn Theatr Clwyd**

Mae ailddatblygu Theatr Clwyd yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Rydym wedi dyfarnu cyfanswm o £26.5m (2021/22-24/25), gan gynnwys £23.5m o dan y Cytundeb Cydweithio tuag at y prosiect hwn, a fydd yn cael ei weinyddu gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac yn cynnwys £7.768m yn 2024/25. Mae hyn yn adlewyrchu newid i'r proffil gwariant er mwyn adlewyrchu'r amserlen ddatblygu yn fwy cywir.

Yn ystod 2023-24, mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud ar y safle. Mae cam dymchwel y prosiect wedi cael ei gwblhau erbyn hyn ac mae'r cam adeiladu wedi dechrau. Mae tîm Theatr Clwyd yn parhau i fwrw ymlaen â'r ymgyrch codi arian ar gyfer y prosiect ailddatblygu, ac mae'r ymgyrch gyhoeddus i godi arian bellach wedi cael ei lansio. Yn dilyn adolygiad trylwyr ac adolygiad sicrwydd Gateway 3 llwyddiannus, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cymeradwyo Achos Busnes Llawn y prosiect erbyn hyn.

**4.5 Sefydlu Amgueddfa Bêl-droed i Gymru**

Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddwyd swm pellach o £5.458m ar gyfer Amgueddfa Bêl-droed Cymru, er mwyn mynd drwy'r broses datblygu cynnwys, adeiladu hyd at gwblhau ac agor (ym mis Mawrth 2026 yn ôl y bwriad). O'r swm hwn, y dyraniad ar gyfer 2024-25 yw £4,258,120.

Yn ystod 2023-24, mae'r tîm prosiect yn Amgueddfa Wrecsam wedi datblygu'r dyluniadau ar gyfer adeilad a chynnwys yr Amgueddfa Bêl-droed newydd i Gymru, wedi datblygu'r Achos Busnes Llawn dros y prosiect ac wedi cynllunio gweithgareddau cyn ac ar ôl ei hagor a chynllun busnes yr amgueddfa.

Mae lluniadau'r cam adeiladu a manylebau ar gyfer adeilad yr amgueddfa yn y dyfodol, ynghyd â dyluniadau ar gyfer yr orielau a mannau cyhoeddus wedi cael eu paratoi'n derfynol. Ar ôl cyhoeddi hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw i'r farchnad ar gyfer y contractwr gwaith adeiladu, caiff tendrau eu cyhoeddi ar gyfer y cam adeiladu ar ddechrau mis Ionawr.

Mae'r gweithgarwch casglu ac ymgysylltu wedi codi proffil y prosiect, gan sicrhau y deuir o hyd i'r gwrthrychau a'r straeon sydd eu hangen ar yr amgueddfa, a fydd yn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu cynnwys er mwyn sicrhau bod straeon amrywiol am y gêm, gan gynnwys y gêm ar lawr gwlad a gemau rhyngwladol a straeon cefnogwyr a

chwaraewyr yn cael eu cynrychioli. Yn ystod y flwyddyn, cafodd yr amgueddfa gasgliad pwysig, mawr gan Alun Evans, Llywydd Cymdeithas Bêl-droed Cymru.

Mae tîm Wrecsam yn parhau i godi arian i'r prosiect, gan gynnwys ei gais i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Cafodd cyllid o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ei sicrhau y flwyddyn hon.

Caiff adolygiad sicrwydd Gateway 3 o'r achos busnes llawn ei gynnal ym mis Chwefror 2024. Ar 4 Tachwedd 2023, caeodd Amgueddfa Wrecsam i'r cyhoedd er mwyn paratoi ar gyfer y gwaith ailddatblygu.

### 4.6 Sefydlu Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol

Mae datblygu Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru.
Mae tair elfen benodol i'r broses ddatblygu, a ategir gan adnodd oriel ar-lein o'r enw Celf ar y Cyd:

1. Bydd rhwydwaith o orielau ledled Cymru yn rhoi mynediad am ddim i'r casgliad cenedlaethol a dod â chelf gyfoes yn agosach at gymunedau.
2. Orielau cynhaliol, sef y sefydliadau sy'n gartref i'r casgliad cenedlaethol o gelf Cymru ar hyn o bryd, h.y. Amgueddfa Cymru, Caerdydd a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.
3. Oriel angori i gynnig wyneb cyhoeddus blaenllaw i'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol.

Lansiwyd y llwyfan digidol **Celf ar y Cyd** ym mis Mehefin 2023, ac erbyn diwedd mis Hydref 2023 roedd yn cynnwys dros 33,500 o ddelweddau. Mae wedi cael ei gyrchu gan 6,500 o ddefnyddwyr newydd ac mae'r tudalennau wedi cael eu gweld 44,000 o weithiau. Bydd casgliadau Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol yn cael eu digideiddio a'u hychwanegu at y safle erbyn diwedd mis Mawrth 2025.

Rydym yn ystyried cynlluniau ar gyfer chwe safle ymgeisiol posibl ar gyfer **Oriel Angori** ledled Cymru. Mae'r broses o chwilio am oriel angori ar gam cynnar o hyd. Rydym yn rhagweld, ar ôl y penderfyniad ar safle, y byddwn yn ystyried materion mwy ymarferol a gweithredol, gan ddatblygu cysyniad a rôl yr Oriel Angori.

Rydym yn gobeithio gwneud penderfyniad ar safle a ffefrir i'w ddatblygu ar ddechrau'r flwyddyn galendr nesaf ar ôl ystyried y cynigion a ddaw i law. Hyd nes bydd safle a ffefrir wedi'i nodi, ni fydd modd nodi lefel y buddsoddiad sydd ei angen i gefnogi datblygiad, fforddiadwyedd neu fodelau gweithredol unrhyw oriel angori yn y dyfodol.

Mae'r **model gwasgaru** ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru yn cael ei ddatblygu fel cam cyntaf hollbwysig, sy'n cynnwys naw safle ledled Cymru. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain drwy gydweithio rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Bydd y model ddaearyddol wasgaredig yn golygu mwy o fynediad at gelf gyfoes a'r casgliadau cenedlaethol gan gymunedau ledled Cymru, sy'n dod â chelf yn agosach i bobl Cymru, mewn ffordd lawer tecach.

Mae dyfarniad grant amodol wedi cael ei wneud i ddatblygu'r gwaith hwn a chaiff costau ar gyfer y prosiect eu pennu'n derfynol ym mis Chwefror 2024.

Rhwng 2017 a 2023, gwariwyd cyfanswm o £1.76m ar y gwahanol elfennau o'r rhaglen hon, gyda £1.36 o wariant cyfalaf. Mae'r dyfarniad grant a wneir yn awr yn rhoi swm pellach o £6,290,259 i gefnogi'r prosiect hyd at ei gwblhau ym mis Mawrth 2025.

## Atodiad A – Trosolwg o Sefyllfa Ariannol Diwylliant a Threftadaeth

| ECONOMI | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ADNODDAU | | | | | | | |
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol 2022-23 | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 | Rhagolwg o Alldro 2023-24 erbyn Cyfnod 7 | Cyllideb Derfynol 2023-24 a Ailddatganwyd yn Chwefror 23 | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Chwefror 23 | Newid | Cyllideb Ddrafft 2024-25 Rhagfyr 23 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | £33,313 | £33,157 | £33,157 | £33,314 | £33,999 | -£3,570 | £30,429 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru - Heb fod yn arian parod | £31 | £260 | £260 | £119 | £119 | £0 | £119 |
| Amgueddfa Cymru | £32,070 | £27,222 | £27,222 | £27,222 | £28,496 | -£2,992 | £25,504 |
| Amgueddfa Cymru - Heb fod yn arian parod | £2,546 | £2,400 | £2,400 | £2,400 | £2,400 | £0 | £2,400 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | £13,300 | £11,862 | £11,862 | £11,862 | £12,394 | -£1,301 | £11,093 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Heb fod yn arian parod | £1,816 | £1,250 | £1,250 | £1,250 | £1,250 | £0 | £1,250 |
| Cefnogaeth i Ddiwylliant Lleol a Chwaraeon | £4,638 | £6,629 | £5,549 | £6,429 | £8,583 | -£1,915 | £6,668 |
| Cymru Greadigol | £9,971 | £6,969 | £7,831 | £7,119 | £7,169 | -£753 | £6,416 |
| **Cam Gweithredu: Cymorth i Ddiwylliant a'r Celfyddydau** | **£97,685** | **£89,749** | **£89,688** | **£89,715** | **£94,410** | **-£10,531** | **£83,879** |
| Cadw | £8,516 | £9,206 | £9,106 | £9,206 | £9,513 | -£2,123 | £7,390 |
| Cadw - Heb fod yn arian parod | £5,112 | £5,480 | £5,531 | £5,480 | £5,480 | £0 | £5,480 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | £594 | £587 | £587 | £587 | £587 | -£62 | £525 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | £1,635 | £1,727 | £1,705 | £1,727 | £1,815 | -£402 | £1,413 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru - Heb fod yn arian parod | £145 | £134 | £239 | £134 | £134 | £0 | £134 |
| **Cam Gweithredu: Cefnogaeth i'r Amgylchedd Hanesyddol** | **£16,002** | **£17,134** | **£17,168** | **£17,134** | **£17,529** | **-£2,587** | **£14,942** |
| Chwaraeon Cymru | £22,942 | £23,065 | £23,065 | £23,065 | £23,439 | -£2,461 | £20,978 |
| Chwaraeon Cymru - Heb fod yn arian parod | £634 | £779 | £783 | £779 | £779 | £0 | £779 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu: Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** | **£23,576** | **£23,844** | **£23,848** | **£23,844** | **£24,218** | **-£2,461** | **£21,757** |
| **Cyfanswm Cyllidebau Diwylliant, y Celfyddydau a Chwaraeon** | **£137,263** | **£130,727** | **£130,704** | **£130,693** | **£136,157** | **-£15,579** | **£120,578** |

| **ECONOMI** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFALAF** | | | | | | | |
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Alldro Terfynol 2022-23** | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24** | **Y Rhagolwg o Alldro 2022-23 erbyn Cyfnod 7** | **Cyllideb Derfynol 2023-24 Chwefror 23** | **Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24 Mawrth 22** | **Newid** | **Cyllideb Ddrafft 2024-25 Rhagfyr 23** |
| | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 821 | 400 | 400 | 400 | 400 | 0 | 400 |
| Amgueddfa Cymru | 4,270 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 3,923 | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 0 | 2,000 |
| Cefnogaeth i Ddiwylliant Lleol a Chwaraeon | 7,032 | 21,500 | 21,920 | 21,500 | 24,700 | 0 | 24,700 |
| Cymru Greadigol | 4,558 | 5,000 | 4,999 | 5,000 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| **Cam Gweithredu: Cymorth i Ddiwylliant a'r Celfyddydau** | **20,604** | **33,900** | **34,319** | **33,900** | **37,100** | **0** | **37,100** |
| Cadw | 10,957 | 10,000 | 10,000 | 10,000 | 10,000 | 0 | 10,000 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 1,200 | 200 | 200 | 200 | 200 | 0 | 200 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 0 | 50 |
| **Cam Gweithredu: Cefnogaeth i'r Amgylchedd Hanesyddol** | **12,207** | **10,250** | **10,250** | **10,250** | **10,250** | **0** | **10,250** |
| Chwaraeon Cymru | 9,552 | 8,016 | 8,016 | 8,016 | 8,016 | 0 | 8,016 |
| Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon | -955 | -1227 | -4227 | -1227 | -1231 | 0 | -1231 |
| **Cam Gweithredu: Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** | **8,597** | **6,789** | **3,789** | **6,789** | **6,785** | **0** | **6,785** |
| **Cyfanswm Cyllidebau Diwylliant, y Celfyddydau a Chwaraeon** | **41,408** | **50,939** | **48,358** | **50,939** | **54,135** | **0** | **54,135** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Adnoddau a Chyfalaf** | **209,640** | **181,632** | **179,062** | **181,632** | **190,292** | **-15,579** | **174,713** |

| ECONOMI | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| GWARIANT A REOLIR YN FLYNYDDOL – ADNODDAU | | | | | |
| Llinell Wariant yn y Gyllideb Pensiynau Cyrff a Noddir | | 2023-24<br>Cyllideb Derfynol a Ailddatganwyd<br>Chwefror 23 | 2023-24<br>Cyllideb Derfynol Ddangosol a Ailddatganwyd<br>Chwefror 23 | Newidiadau | 2024-25<br>Cyllideb Ddrafft<br>Rhagfyr 23 |
| | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Amgueddfa Cymru – Darpariaeth Bensiwn – Gwariant a Reolir yn Flynyddol | | 15,000 | 15,000 | 0 | 15,000 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Darpariaeth Bensiwn – Gwariant a Reolir yn Flynyddol | | 9,000 | 9,000 | 0 | 9,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Pensiynau Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd** | **24,000** | **24,000** | **0** | **24,000** |
| Chwaraeon Cymru – Darpariaeth Bensiwn – Gwariant a Reolir yn Flynyddol | | 5,000 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** | **5,000** | **5,000** | **0** | **5,000** |
| **Cyfanswm** | **Cyllidebau Diwylliant, y Celfyddydau a Chwaraeon** | 29,000 | 29,000 | 0 | 29,000 |

**ATODIAD B - Sylwebaeth fesul cam gweithredu**

**Adnoddau**

***Cam Gweithredu Cefnogaeth i Ddiwylliant a'r Celfyddydau***

- Bu gostyngiad net o £10.531m i'r Cam Gweithredu ers cyllideb derfynol ddangosol 2024-25. Y gyllideb ddangosol ar gyfer 2024-25 yw £83.879m. Mae'r gostyngiad net yn ymwneud ag ailflaenoriaethu £10.531m o gyllid i gefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru.

***Cam Gweithredu Cefnogaeth i'r Amgylchedd Hanesyddol***

- Bu gostyngiad net o £2.587m i'r Cam Gweithredu ers cyllideb derfynol ddangosol 2024-25. Cyfanswm y cyllid y flwyddyn yw £14.942m yn 2024-25. Mae'r gostyngiad net yn ymwneud â dyraniad ychwanegol i'r cyrff a noddir gennym er mwyn helpu i dalu am gostau cyflogau a chwyddiant o ganlyniad i'r costau cynyddol sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw.

***Cam Gweithredu Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol***

- Bu gostyngiad net o £2.461m i'r Cam Gweithredu ers cyllideb derfynol ddangosol 2024-25. Cyfanswm y cyllid y flwyddyn yw £21.757m yn 2024-25. Mae'r gostyngiad net yn ymwneud â dyraniad ychwanegol i'r cyrff a noddir gennym er mwyn helpu i dalu am gostau cyflogau a chwyddiant o ganlyniad i'r costau cynyddol sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw.

**Cyfalaf**

***Cam Gweithredu Cefnogaeth i Ddiwylliant a'r Celfyddydau***

- Ni fu unrhyw newid i'r Camu Gweithredu ers cyllideb derfynol ddangosol 2023-24. Mae cyfanswm y cyllid y flwyddyn yn parhau ar £37.1m yn 2024-25.

***Cam Gweithredu Cefnogaeth i'r Amgylchedd Hanesyddol***

- Ni fu unrhyw newid i'r Camu Gweithredu ers cyllideb derfynol ddangosol 2023-24. Mae cyfanswm y cyllid y flwyddyn yn parhau ar £10.25m yn 2024-25.

***Cam Gweithredu Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol***

- Ni fu unrhyw newid i'r Camu Gweithredu ers cyllideb derfynol ddangosol 2023-24. Mae cyfanswm y cyllid y flwyddyn yn parhau ar £6.785m yn 2024-25.

**Atodiad C – PROSIECTAU A ARIENNIR GAN Y GYLLIDEB BUDDSODDI YN Y CYFRYNGAU (31 Tachwedd 2023)**

| Prosiect | Gwerth Buddsoddi (£) | Tach 23 Swm a adenillwyd (£) | Ennill / Colled Net hyd yma Tach 23 (£) | Gwariant Cymru a dargedwyd (£) | Gwariant Cymru hyd yma (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| **O dan Reolaeth Pinewood** | | | | | |
| Take Down | 3,144,000 | 1,123,590 | -2,020,410 | 1,000,000 | 1,089,000 |
| Their Finest | 2,000,000 | 2,050,000 | 50,000 | 1,300,000 | 1,618,000 |
| The Collection | 1,750,000 | 381,193 | -1,368,807 | 5,500,000 | 5,187,000 |
| Show Dogs | 1,566,000 | 0 | -1,566,000 | 4,737,000 | 4,338,000 |
| Journey's End | 850,000 | 631,000 | -219,000 | 1,500,000 | 903,000 |
| Don't Knock Twice | 630,000 | 658,557 | 28,557 | 63,000 | 641,000 |
| Minotaur | 26,000 | 0 | -26,000 | | Dd/G |
| Lionel the First | 25,000 | 0 | -25,000 | Dd/G | Dd/G |
| **Cyfanswm** | **9,991,000** | **4,844,340** | **-5,146,660** | **14,100,000** | **13,776,000** |
| **O dan Reolaeth Llywodraeth Cymru** | | | | | |
| Trampires | 2,000,000 | 0 | -2,000,000 | 1,600,000 | 1,621,000 |
| Eternal Beauty | 1,050,000 | 780,590 | -269,409 | 1,214,000 | 1,255,000 |
| Bang | 350,000 | 0 | -350,000 | 1,500,000 | 2,562,000 |
| Tiny Rebel | 318,000 | 30,000 | -288,000 | 25,000 | 26,000 |
| Goose Green | 25,000 | 0 | -25,000 | Dd/G | Dd/G |
| Almost Never (True Believers yn gynt) | 622,000 | 0 | -622,000 | 2,118,000 | 2,118,000 |
| Six Minutes To Midnight | 750,000 | 660,870 | -89,129 | 3,880,000 | 3,520,000 |
| **Cyfanswm** | **5,115,000** | **1,471,460** | **-3,643,538** | **10,337,000** | **11,102,000** |
| **Cyfanswm Cyffredinol** | **15,106,000** | **6,315,800** | **-8,790,200** | **24,437,000** | **24,878,000** |

**Atodiad D - BUDDSODDIAD CRONFA SGRIN CYMRU (ar 6 Rhagfyr 2023)**

| Blwyddyn Ariannol y Cynnig | Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV) | Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrin Cymru) | Gwerth y Cynnig £m | Gwariant a Ragwelir £m |
|---|---|---|---|---|
| 2012/13 | Tonto Films and Television Ltd | Da Vinci's Demons Cyfres 1 | 0.495 | 3.823 |
| 2012/13 | Urban Myth Films | Atlantis Cyfres 1 | 0.25 | 4.026 |
| 2012/13 | Pesky Productions Ltd (Boj & Buddies) | Boj & Buddies | 0.2 | 1.003 |
| 2012/13 | Fiction Factory (Hinterland Films Ltd) | Hinterland/y Gwyll Cyfres 1 | 0.215 | 3.691 |
| 2012/13 | Tonto Films and Television Ltd (DVDS2) | Da Vinci's Demons Cyfres 2 | 0.99 | 15 |
| *2013/14* | Avanti Media Group | Wonder World | *0.127 | 0.763 |
| 2013/14 | Urban Myth Films | Atlantis Cyfres 2 | 0.25 | 4.026 |
| 2013/14 | Lime Pictures Limited | Rocket's Island | *0.143 | 0.966 |
| 2013/14 | Mirror Productions | Petroleum Spirit | 0.051 | 0.358 |
| 2013/14 | Modern Television | A Poet In New York | 0.053 | 0.855 |
| 2013/14 | Adastra Creative a Shrinking Cap Productions Ltd | Grandpa in my pocket | 0.129 | 1.612 |
| 2013/14 | Three Stones Media (Cwmni Rastamouse) | Rastamouse Cyfres 4 | 0.145 | 0.885 |
| *2013/14* | Pure Grass Films Ltd (Drake Equation Ltd) | The Drake Equation | *0.74 | 5.208 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *2014/15* | Lime Pictures Limited | Rocket's Island Cyfres 4 | 0.07 | 0.7 |
| 2013/14 | Lupus Films | Toot the Tiny Tugboat / Ethel & Ernest | 0.55 | 3.034 |
| 2013/14 | Green Bay Media Ltd | Castle Builders | 0.045 | 0.32 |
| 2013/14 | YJB Films (From a Jack to a King Ltd) | From a Jack to a King | 0.1 | 1.229 |
| 2013/14 | Hartswood Television Ltd | Lady Chatterleys Lover | 0.125 | 0.813 |
| 2014/15 | Gritty Realism Productions Ltd | Heart of Darkness | 0.15 | 1.794 |
| 2014/15 | TCFTV UK Productions | The Bastard Executioner | 2.5 | 10 |
| 2014/15 | Cwmni Da Cyf | Country Fair | 0.125 | 1.019 |
| 2014/15 | Animortal Studio (Trampires Ltd) | Trampires | 0.674 | 6.738 |
| 2014/15 | Tiger Aspect Productions (Tiger Aspect (D&F) Ltd) | Decline and Fall | 0.1 | 1.8 |
| *2014/15* | RF Movie Productions Ltd | Robin Friday - The Movie | *0.2 | 1.95 |
| 2014/15 | Touchpaper Television Ltd | Coming up | 0.08 | 0.809 |
| 2014/15 | Fiction Factory Films Ltd (Hinterland Films 2 Ltd) | Hinterland/Y Gwyll 2 | 0.304 | 5.3 |
| 2014/15 | Fiction Factory Films Ltd (Hinterland Films 3 Ltd) | Hinterland/Y Gwyll 3 | 0.25 | 4.21 |
| 2015/16 | Bad Wolf Ltd | Bad Wolf Productions | 9 | 133 |
| 2015/16 | Hartswood Films (Sherlock TV Ltd) | Sherlock Cyfres 4 | 0.24 | 2.409 |
| 2015/16 | Heel Stone Pictures Ltd | Crossing the Border | 0.202 | 2.519 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2015/16 | Ninth Floor UK Productions Limited | Will Season 1 | 1.5 | 18.761 |
| 2015/16 | Lookout Point Ltd (Pinewood Films 14) | The Collection | 0.6 | 5.5 |
| 2015/16 | Red & Black Films (Don't Knock Twice Ltd) | Don't Knock Twice | 0.075 | 0.63 |
| 2015/16 | Vertigo Television Ltd | Britannia VFX | 1.1 | 11.149 |
| 2016/17 | Beakus Ltd | Toggle Top | 0.076 | 0.944 |
| 2016/17 | Cloth Cat Animation Ltd (Clothcat LBB Ltd) | Luo Bao Bai | 0.225 | 3.183 |
| 2016/17 | Riverstone Pictures (Showdogs Ltd) | Showdogs | 0.362 | 4.737 |
| 2016/17 | Vox Pictures (Keeping Faith Ltd) | Keeping Faith/Un Bore Mercher | 0.328 | 4.25 |
| 2016/17 | Green Bay Media | Mountains and Life | 0.03 | 0.54 |
| 2016/17 | New Pictures (Requiem Productions Ltd) | Requiem | 0.4 | 5.016 |
| 2016/17 | Severn Screen Ltd (Apostle Films Ltd) | Apostle | 0.385 | 5.767 |
| 2017/18 | World Productions (BTK 2016 Ltd) | Born to Kill | 0.2 | 2.5 |
| 2017/18 | The Forge Entertainment Ltd | Kiri | 0.2 | 2.382 |
| 2017/18 | Coracle Pictures Limited (Denmark) | Denmark | 0.085 | 1.383 |
| 2017/18 | Rondo Media Cyf | The Wall | 0.045 | 0.363 |
| 2017/18 | Touchpaper Television Ltd | 4Stories | *0.04 | 0.631 |
| 2017/18 | Illuminated Productions Ltd | The Rubbish World of Dave Spud | 0.09 | 0.906 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | Eleven Film Ltd | Schooled | 0.485 | 3.879 |
| 2018/19 | Boom Cymru | 15 days | 0.089 | 1.074 |
| 2018/19 | Dream Horse Films Limited, Popara Films Ltd a Popara Films (DH) Limited | Dream Horse | 0.35 | 4.384 |
| 2018/19 | JJ Productions Ltd (Short Form Film) | Jamie Johnson Cyfres 4 | 0.156 | 1.927 |
| 2018/19 | Mad as Birds Ltd a Reliance Entertainment Productions Six Ltd | Six Minutes To Midnight | 0.4 | 3.879 |
| 2018/19 | Keeping Faith/Un Bore Mercher (Cyfres 2) Productions Ltd (Vox Pictures) | Keeping Faith/Un Bore Mercher Cyfres 2 | 0.3 | 4.654 |
| 2018/19 | Hat Trick Productions | Warren | 0.109 | 1.304 |
| 2018/19 | Monterey Productions Ltd (HBO) | Brooklyn | 0.22 | 2.412 |
| 2018/19 | GOL Production Ltd (Pulse Films) | Gangs of London | 0.35 | 4.209 |
| 2018/19 | IeIe Productions | Merched Parchus | 0.041 | 0.444 |
| 2018/19 | Blacklight TV | 4Stories cyfres 2 | 0.102 | 1.574 |
| 2019/20 | All That Limit | Brave New World | 2 | 20 |
| 2019/20 | Joio | Bang Cyfres 2 | 0.19 | 2.3 |
| 2019/20 | JJ Productions Ltd (Short Form Film) | Jamie Johnson Cyfres 5 | 0.06 | 1.827 |
| 2019/20 | Vox Pictures (Keeping Faith/Un Bore Mercher Cyfres 3) | Keeping Faith/Un Bore Mercher Cyfres 3 | 0.24 | 3.965 |
| 2019/20 | WP Productions Ltd (World Productions) | The Pembrokeshire Murder | 0.2 | 2.135 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2020/21 | Hartswood Television Ltd | Roald & Beatrix: The Case Of The Curious Mouse | 0.225 | 2.247 |
| 2020/21 | Illuminated Productions Ltd | The Rubbish World of Dave Spud Cyfres 2 | 0.14 | 1.407 |
| 2020/21 | Joio Cyf (Joio (Bang 2) Ltd) | Bang Cyfres 2 | 0.19 | 2.302 |
| 2020/21 | Lupus Films (Kensukes Kingdom Ltd) | Kensukes Kingdom | 0.1 | 0.841 |
| 2020/21 | Little Door Productions Ltd (Little Door (The Pact) Ltd) | The Pact | 0.595 | 5.953 |
| 2020/21 | One Tribe TV Limited | Wonders of the Celtic Deep | 0.077 | 0.618 |
| 2020/21 | Eleven Films (Starco TV 3 Ltd) | Sex Education Cyfres 3 | 0.432 | 5.186 |
| 2020/21 | WOTW2 Ltd- Urban Myth films | War of the Worlds Cyfres 2 | 0.75 | 7.344 |
| 2020/21 | Barking Lion Productions | The Trapper Keeper | 4 | 40.159 |
| 2020/21 | Bad Wolf (HDM3) Ltd | His Dark Materials Tymor 3 | 2 | 21.075 |
| 2020/21 | Havoc Film Ltd | Havoc | 2.15 | 25.004 |
| 2020/21 | Short Form Film (JJ Productions) Ltd. | Jamie Johnson Cyfres 6 a 7 | 0.335 | 4.651 |
| 2021/22 | REP Productions SF Limited | The Almond and the Seahorse | 0.1 | 0.935 |
| 2021/22 | Cwmni Da Cyf | Rain Stories | 0.042 | 0.337 |
| 2021/22 | The Light Ltd/Y Golau Cyf | The Light/ Y Golau | 0.528 | 5.289 |
| 2022/2023 | Sex Education Cyfres 4 | Eleven Film | 0.45 | 6.169 |
| 2022/2023 | Wolf | Hartswood | 0.5 | 6.004 |
| 2022/2023 | The Pact Cyfres 2 | Little Door | 0.33 | 5.502 |
| 2022/2023 | The Truth About My Murder | Yeti | 0.25 | 0.342 |
| 2022/2023 | American Doomsday / Super Volcano | Wildflame | 0.07 | 0.416 |
| 2022/2023 | Black Cake | CBS UK Productions/Kapital Ent. | 0.75 | 10 |
| 2022/2023 | 4Stories: On the Edge Cyfres 4 | Blacklight TV | 0.07 | 0.882 |
| 2022/2023 | Un Nos ola o Leuad/One Moonlit Night | Afanti Media | 0.12 | 0.959 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2022/2023 | Steel Town Murders (a elwir hefyd yn Kappen) | Severn Screen | 0.4 | 5.2 |
| 2023-2024 | Newffion | Ceidiog | 0.4 | 0.24 |
| 2023-2024 | Pren ar y Bryn / Tree on a Hill | Fiction Factory | 0.5 | 6.262 |
| 2023-2024 | The Way | Little Door / Red Seam | 0.51 | 5.282 |
| 2023-2024 | Lost Boys and Fairies | Duck Soup Films | 0.5 | 5.148 |
| 2023-2024 | Creisis | Boom Cymru | 0.169 | 2.038 |
| 2023-2024 | Until I Kill You a elwir hefyd yn Delia | World Productions | 0.2 | 2.615 |
| 2023-2024 | The Rubbish World of Dave Spud Cyfres 3 | Illuminated Productions Ltd | 0.12 | 1.148 |
| 2024-2025 | Men Up | Boom Cymru | 0.15 | 1.95 |
| 2024-2026 | Bad Wolf Cyllid Amlgynhyrchiad | Bad Wolf Productions | 4 | 60 |
| 2024-2025 | Mini Buds | Bumpy Box (*ad-daliad) | 0.13 | 0.47 |
| **CYFANSWM (heb gynnwys cynigion a dynnwyd yn ôl* a chyllid ehangach newydd Mai 2022)** | | | **50.819** | **592.444** |

## Atodiad E – BUDDSODDIAD STIWDIO BLAIDD CYMRU (31 Tachwedd 2023)

| Buddsoddiad | Gwerth Buddsoddi (£) | Hawliwyd hyd yma (£) | I'w hawlio yn y dyfodol (£) | Llog a gronnwyd @ 7.52% hyd yma (£) | Llog a dalwyd @ 7.52% hyd yma (£) | Bad Wolf arian cyfatebol (£) | Gwariant Cymru a ddisgwylir (£) | Gwariant Cymru a gyflawnwyd (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaendal ad-daladwy | 4,500,000 | 4,500,000 | - | 1,063,937 | 669,250 | - | 54,000,000 | 54,000,000 |
| Grant Pellach | 4,500,000 | 4,500,000 | - | Dd/G | Dd/G | - | 79,000,000 | 79,496,087 |
| Prynu Adeiladau 1 a 2, Parc Trident | 6,000,000 | 6,000,000 | - | Dd/G | Dd/G | - | Dd/G | Dd/G |
| Ffioedd caffael | 30,000 | 30,000 | - | Dd/G | Dd/G | - | Dd/G | Dd/G |
| Gwaith Gosod Stiwdio | 2,650,000 | 2,650,000 | - | Dd/G | Dd/G | 2,800,000 | Dd/G | Dd/G |
| Gwaith Gosod Pinewood Studio Wales | 667,588 | 667,588 | - | Dd/G | Dd/G | 692,412 | Dd/G | Dd/G |
| SAWS | 80,000 | 40,000 | - | Dd/G | Dd/G | - | Dd/G | Dd/G |
| Adnau | Dd/G | Dd/G | Dd/G | Dd/G | Dd/G | 250,000 | Dd/G | Dd/G |
| Youth Drama Network | 20,000 | 20,000 | - | - | Dd/G | - | Dd/G | Dd/G |
| His Dark Materials Tymor 3 | 2,000,000 | 2,000,000 | | - | - | - | | |
| **Cyfanswm** | **20,447,588** | **20,407,588** | **0** | **1,063,937** | **669,250** | **3,742,412** | **154,074,843** | **133,496,087** |

# Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

## Dyddiad: 18 Ionawr 2024

## Amser: 10:30 – 12:00

## Teitl: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

## Cyflwyniad

1. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys cynlluniau gwario ar gyfer 2024-25 sy'n gwneud newidiadau i'r cyllidebau dangosol a gyhoeddwyd fel rhan o gyllideb Derfynol 2023-24. Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor ar gynigion ar gyfer cyllidebau rhaglenni yn y dyfodol mewn cysylltiad â chyllidebau Llywodraeth Leol o fewn y Prif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol a amlinellwyd yn y Gyllideb Ddrafft a osodwyd ar 19 Rhagfyr 2023.

2. Mae Atodiad A yn rhoi dadansoddiad o ffigurau perthnasol y Gyllideb Ddrafft ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol yn ôl Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb. Mae'r ffigurau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y tabl isod.

**Tabl 1: Trosolwg o newidiadau i dablau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb**

| | Cyllideb Ddangosol 2024-25 £'000 | Cyllideb Ddrafft 2024/25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 4,772,398 | 4,797,913 | 25,515 | 0.5% |
| Heb fod yn arian parod | 0 | 0 | 0 | |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **4,772,398** | **4,797,913** | **25,515** | **0.5%** |
| Cyfalaf | 222,000 | 222,000 | 0 | 0 |
| Trafodiadau Ariannol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **222,000** | **222,000** | **0** | **0** |

## Newidiadau rhwng Cyllideb Ddangosol a Chyllideb Ddrafft 2024-25

3. Wrth baratoi'r Gyllideb Ddrafft hon, rydym wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn i newid ffocws ein cynlluniau gwario i wasanaethau cyhoeddus hanfodol, gan gynnwys y GIG. Rydym wedi ail-lunio'r dyraniadau gwariant dangosol yn ein cyllideb i ddarparu cyllid ac amddiffyniad ychwanegol i'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl a chymunedau ledled Cymru, sef y GIG a'r setliad llywodraeth leol craidd sy'n ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol a gwasanaethau bob dydd eraill. Drwy wario mwy mewn rhai meysydd mae llai i'w wario mewn meysydd eraill.

4. Mae awdurdodau lleol yn darparu amrediad eang o wasanaethau cyhoeddus, yn aml i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas neu'r rhai sydd dan anfantais economaidd. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau sylweddol i blant, drwy addysg a gwasanaethau cymdeithasol ac amrediad eang o wasanaethau i oedolion a allai fod yn wynebu heriau yn eu bywydau bob dydd, drwy wasanaethau cymdeithasol, cymorth tai a gwasanaethau cymunedol eraill. Caiff chwe deg chwech y cant o adnoddau awdurdodau lleol eu cyfeirio at addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Felly, rydym wedi diogelu'r setliad llywodraeth leol, sef y cyfuniad o Grant Cynnal Refeniw ac ardrethi annomestig a elwir fel arall yn "gyllid allanol cyfun" (AEF) drwy gynnal y cynnydd arfaethedig o 3.1% rhwng 2023-24 a 2024-25. Caiff hyn ei nodi yn y tabl isod:

| | **2023-24 (£000oedd)** | **2024-25 (£000oedd)** |
|---|---|---|
| Cyllideb y Grant Cynnal Refeniw | 4,504,170 | 4,555,704 |
| ynghyd â chyfran o ardrethi annomestig | 1,020,978 | 1,137,861 |
| Llai cyrff penodedig a chyllid ar gyfer claddedigaethau plant | -5,258 | -5,174 |
| **Cyllid Allanol Cyfun yn y gyllideb** | **5,519,890** | **5,688,391** |
| % y newid | | **3.1%** |

5. Er mwyn cyfrannu at bwysau ehangach Llywodraeth Cymru, mae'r Prif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol wedi arbed **£19.857 miliwn** o gyllidebau dangosol Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau (RDEL) yn 2024-25. Gwnaed rhagor o arbedion hefyd i gwrdd â phwysau ychwanegol o fewn y Prif Grŵp Gwariant sy'n gysylltiedig â Diwygio'r Senedd; gweithredu'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol; a'r Ardoll Ymwelwyr arfaethedig i fwrw ymlaen â newidiadau i'r Dreth Trafodiadau Tir. Mae dyraniadau o gronfeydd wrth gefn hefyd wedi cael eu gwneud mewn perthynas â'r canlynol:

- Ardrethi Annomestig – Rhyddhad Ardrethi – £60.295 miliwn
- Lluosydd Ardrethi Annomestig – £18 miliwn
- Cost benthyca – £2.235 miliwn
- Cyllid gwaelodol ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw – £1.3 miliwn

6. Mae'r Grant Cynnal Refeniw wedi cael ei leihau £37 miliwn (gweler paragraff 7 isod), sy'n adlewyrchu'r cynnydd yn y rhagolwg ar gyfer ardrethi annomestig heb unrhyw effaith ar y cyllid cyffredinol heb ei neilltuo (AEF) sydd ar gael i awdurdodau lleol. Mae'r newidiadau hyn yn arwain at **gynnydd cyffredinol o £25.208 miliwn** i'r Prif Grŵp Gwariant yn 2024-25, o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol. Mae'r newidiadau a wnaed yn erbyn cyllidebau dangosol 2024-25 wedi'u nodi yn y tabl canlynol, ac mae gwybodaeth naratif ychwanegol wedi'i darparu isod.

## Trosolwg o newidiadau cyllidebol

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Sefyllfa ddangosol 2024-25 | Newidiadau 2024-25 | Sefyllfa ddiwygiedig 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| 840 | Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol | 4,574,436 | -17,432 | 4,557,004 |
| 875 | Ardrethi Annomestig - Rhyddhad Ardrethi | 27,700 | 51,030 | 78,730 |
| 860 | Cyllid Refeniw Cyffredinol yr Heddlu | 112,349 | -18 | 112,331 |
| 885 | Canlyniadau Refeniw Mentrau Cyllid Preifat Llywodraeth Leol | 2,596 | - | 2,596 |
| 887 | Trawsnewid a Deddfwriaeth | 7,584 | -910 | 6,674 |
| 940 | Costau Casglu Ardrethi Annomestig | 5,172 | - | 5,172 |
| 1600 | Cymorth Ariannol Brys (Wcráin) | 20,000 | -15,500 | 4,500 |
| 1600 | Cymorth Ariannol Brys | 1 | - | 1 |
| 1500 | Gwasanaethau Asiantaeth y Swyddfa Brisio | 8,561 | 8,439 | 17,000 |
| 1540 | Tribiwnlys Prisio Cymru | 1,074 | 826 | 1,900 |
| 1550 | Diwygio ac Ymchwil Trethiant Lleol | 4,800 | - | 4,800 |
| 1440 | Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol | 750 | 480 | 1,230 |
| 1462 | Democratiaeth Llywodraeth Leol | 126 | - | 126 |
| 1463 | Polisi Etholiadau | 4,500 | -1000 | 3,500 |
| 1571 | Gwella a Chefnogi | 941 | -300 | 641 |
| 7093 | Academi Wales | 1,134 | -100 | 1,034 |
| 1574 | Cynghorau Cymuned a Thref | 144 | - | 144 |
| 1575 | Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | 530 | - | 530 |
| **Cyfanswm Llywodraeth Leol** | | **4,772,398** | **25,515** | **4,797,913** |
| 1576 | Ystadau Cymru | 800 | -300 | 500 |
| 6775 | Arolygiaeth Gofal Cymru | 15,058 | - | 15,058 |
| 6775 | Arolygiaeth Gofal Cymru **(heb fod yn arian parod)** | 31 | -5 | 26 |
| 6785 | Arolygiaeth Iechyd Cymru | 4,945 | - | 4,945 |
| 6785 | Arolygiaeth Iechyd Cymru **(heb fod yn arian parod)** | 99 | -10 | 89 |
| 6280 | Gwariant Rhaglen Estyn | 15,893 | - | 15,893 |
| 6280 | Gwariant Rhaglen Estyn **(heb fod yn arian parod)** | 200 | - | 200 |
| 4028 | Cost Benthyca | 12,139 | 2,235 | 14,374 |
| 6990 | Cyllid ar gyfer y Rhaglen Caffael Masnachol | 2,368 | 283 | 2,651 |
| 7096 | e-Gaffael | 3,650 | -150 | 3,500 |
| 7090 | Awdurdod Cyllid Cymru | 7927 | 304 | 8,231 |
| 7090 | Awdurdod Cyllid Cymru **(heb fod yn arian parod)** | 228 | - | 228 |
| 7092 | Trethi Datganoledig | 749 | -100 | 649 |
| 6667 | Ymchwil Economaidd | 226 | -20 | 206 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6665/6666 | Buddsoddi i Arbed | 6,603 | -2,544 | 4,059 |
| **Cyfanswm y gyllideb y tu allan i Lywodraeth Leol** | | **70,916** | **-307** | **70,609** |
| **Cyfanswm Prif Grŵp Gwariant** | | **4,843,314** | **25,208** | **4,868,522** |

**Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol**

7. Mae gostyngiad o **£17,432 miliwn** ar wyneb y gyllideb i'r Llinell Wariant hon yn y Gyllideb. Mae hyn o ganlyniad i ostyngiad o £37 miliwn yn y llinell sylfaen ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw, ynghyd â dyraniad o £18 miliwn i gefnogi rhewi'r Lluosydd Ardrethi Annomestig (sydd hefyd yn rhan o'r Setliad Llywodraeth Leol).

8. Er y bu **gostyngiad o £37 miliwn** yn y llinell sylfaen ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw, mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan y cynnydd yn y cyfraniad o ardrethi annomestig sy'n rhan o'r setliad cyffredinol, gan gynnal y cynnydd o 3.1% yn y setliad a roddwyd yn ddangosol fel rhan o Gyllideb Derfynol 2023-24. Mae £1.3 miliwn ychwanegol hefyd wedi cael ei ddyrannu i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb i ddarparu cyllid ar gyfer terfyn isaf i sicrhau nad oes unrhyw awdurdod lleol yn cael llai na 2% o gynnydd yn y setliad.

9. Bydd y **dyraniad o £18 miliwn** yn cael ei wneud i dalu am gost capio'r cynnydd yn y lluosydd ardrethi annomestig. Bydd y lluosydd ardrethi annomestig yn cynyddu 5%, yn hytrach nag yn ôl Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) (6.7%). Mae'r lluosydd ardrethi annomestig yn berthnasol i bob eiddo sy'n talu ardrethi yng Nghymru.

10. Bydd y lluosydd ardrethi annomestig yng Nghymru yn cynyddu o 0.535 i 0.562 yn 2024-25.

**Rhyddhad ar Ardrethi Annomestig**

11. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Ardrethi Annomestig - Rhyddhad Ardrethi **wedi cynyddu £51.030 miliwn**. Mae hyn o ganlyniad i ddyraniad o £60.295 miliwn o gyllid canlyniadol, yn ogystal â throsglwyddo £9.265 miliwn allan i'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru i sefydlu llinell sylfaen ddigonol o gyllid ar gyfer y ddau gorff yn y dyfodol. Bydd y trosglwyddiad yn cefnogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru i weithredu'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), yn enwedig y darpariaethau sy'n ymwneud ag ailbrisiadau rheolaidd neu amlach ar gyfer y dreth gyngor ac ardrethi annomestig.

12. Bydd y dyraniad o gyllid canlyniadol i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb yn cael ei ychwanegu at y gyllideb bresennol o £18.435 miliwn ar gyfer rhyddhad ardrethi (llinell sylfaen ar ôl trosglwyddo allan i Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru). Bydd hyn yn darparu rhyddhad ardrethi o 40% ar gyfer busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch yn 2024-25. Mae hyn yn ostyngiad o'r 75% o gynlluniau Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch (RLHRR) a ddarparwyd yn 2023-24.

13. Bydd y cynllun RLHRR yn cefnogi dros 26,000 sy'n talu ardrethi gyda'u biliau yn 2024-25, gan barhau i ryw raddau â'r cymorth sydd wedi cael ei ddarparu yn y blynyddoedd ers dechrau'r pandemig.

## Refeniw Cyffredinol yr Heddlu

14. Mae'r gostyngiad yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Refeniw Cyffredinol yr Heddlu wedi digwydd o ganlyniad i gyfraniad ardrethi annomestig cynyddol mewn perthynas â Setliad yr Heddlu.

## Trawsnewid a Deddfwriaeth

15. Bydd y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Trawsnewid a Deddfwriaeth yn cael ei leihau 12% y cant yn 2024-25. Oherwydd lefel yr arbedion sydd eu hangen ar draws y Prif Grŵp Gwariant, bydd y gyllideb hon yn rhyddhau **£910k** i ailflaenoriaethu yn erbyn blaenoriaethau eraill ar draws Llywodraeth Cymru. Mae'r swm sy'n cael ei ryddhau yn ymwneud â chyllid heb ei ymrwymo a ddyrannwyd i Academi Wales ar gyfer Rhaglen Graddedigion Cymru Gyfan (£310k), diwygio cyllid (£500k) ac i gefnogi democratiaeth leol (£100k).

16. Bydd y gostyngiad mewn cyllid ar gyfer diwygio cyllid yn lleihau'r cyllid sydd ar gael i gefnogi'r gwaith o ddiwygio'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig. Gallai hyn effeithio ar weithredu rhai agweddau ar Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), os caiff ei basio, ond bydd effaith y gostyngiadau'n cael ei rheoli i leihau eu heffaith.

17. Yn yr un modd, gallai rhyddhau cyllid a ddyrannwyd i gefnogi democratiaeth leol olygu y bydd gwaith ar agweddau ar weithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cael ei ohirio, er y bydd effaith y newidiadau i'r gyllideb yn cael ei rheoli'n ofalus eto.

18. Bydd gostyngiad yn y cyllid ar gyfer Academi Wales yn golygu y bydd Rhaglen Graddedigion Cymru gyfan yn cael ei gohirio, yn amodol ar drafodaethau pellach ynglŷn â chymorth ariannol mewn rowndiau cyllidebol yn y dyfodol.

## Cymorth Ariannol Brys

19. Nodwyd cyfran sylweddol o arbedion yn Rhaglen Ymateb Dyngarol Wcráin, sydd wedi cael **ei lleihau £15.5 miliwn** o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 24-25. Bu hyn yn bosibl oherwydd y gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n cyrraedd o'r newydd yn ogystal â llwyddiant y rhaglen symud ymlaen sydd wedi ein galluogi i gynllunio i gau ein holl lety cychwynnol erbyn mis Medi 2024. Nid yw'r gostyngiad yn y gyllideb yn adlewyrchu newid mewn polisi ac nid oes disgwyl iddo gael unrhyw effeithiau sylweddol ar unigolion oherwydd dylai gweddill y swm fod yn ddigonol i gyflawni holl elfennau allweddol y rhaglen a pharhau i gefnogi pobl Wcráin i symud i lety tymor hir fel rhan o'u cymunedau lleol.

20. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod risgiau o hyd, gan gynnwys bod y gyfradd symud ymlaen yn arafu neu fod nifer y bobl sy'n cyrraedd yn cynyddu'n sylweddol. Er bod gennym fesurau lliniaru ar waith i ymdopi petai arafwch yn y cyfraddau symud ymlaen, ni fyddai mor hawdd rheoli cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cyrraedd. Credwn fod y senario hwn yn annhebygol iawn.

21. Bydd y gyllideb ddiwygiedig o £4.5 miliwn yn cael ei defnyddio i gefnogi'r llety cychwynnol sy'n weddill tan fis Medi 2024, yn ogystal â pharhau i gefnogi Canolfan Gyswllt bwrpasol hyd at ddiwedd mis Medi 2024. Byddwn hefyd yn parhau i weithio ar gynllun peilot i droi lleoliadau lletya addas yn drefniadau llety ffurfiol a fydd yn rhoi sefydlogrwydd i'r aelwydydd hyn os bydd y taliadau diolch yn dod i ben – nid yw hyn ond yn debygol o fod yn addas ar gyfer nifer fach o aelwydydd. Yn ogystal â hyn, byddwn yn ymestyn gweithgareddau symud ymlaen hyd at ddiwedd arfaethedig yr ystad llety gychwynnol er mwyn cynyddu i'r eithaf nifer yr aelwydydd sy'n cael eu helpu i fynd i lety tymor hir, sydd wedi helpu i leihau costau llety cychwynnol.

22. Ar hyn o bryd, nid yw ein cyllideb ar gyfer Wcráin yn cynnwys darparu unrhyw gyllid grant i awdurdodau lleol i ymgymryd â gweithgareddau symud ymlaen ac integreiddio. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi £120 miliwn o Gronfa Atal Digartrefedd sy'n cael ei darparu yn lle tariffau blwyddyn 2 a 3 yn 2024-25. Bydd Cymru'n cael cyfran gymesur o'r cyllid hwn, a fydd yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol i helpu i symud ymlaen, integreiddio ac atal digartrefedd. Nid ydym wedi cael cadarnhad eto ynglŷn â'r fethodoleg ariannu na'r swm sydd i'w dyrannu, ac rydym yn pwyso ar Lywodraeth y DU i roi eglurhad cyn gynted ag y bo modd. Bydd unrhyw oedi neu wyro oddi wrth y trefniant cyllido hwn yn effeithio ar ein cyllideb ar gyfer llety cychwynnol ac yn llonyddu ein cyfraddau symud ymlaen gan na fydd awdurdodau lleol yn gallu helpu pobl i fynd i lety yn y sector rhentu preifat.

**Gwasanaethau Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru**

23. Mae'r trosglwyddiadau i'r Llinellau Gwariant hyn yn y Gyllideb yn deillio o ailddyrannu cyllid o gyllideb Rhyddhad ar Ardrethi Annomestig (gostyngiad o £9.265 miliwn) i sefydlu llinell sylfaen ariannu ddigonol ar gyfer Asiantaeth y Swyddfa Brisio (£8.439 miliwn yn ychwanegol) a Thribiwnlys Prisio Cymru (£846k yn ychwanegol) yn y dyfodol. Bydd llinellau sylfaen diwygiedig yn golygu bod modd cyflwyno diwygiadau i dreth leol, gan gynnwys y galw ychwanegol gofynnol am swyddogaethau prisio o ganlyniad i ddarpariaethau yn y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), ee ailbrisio amlach.

**Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol**

24. Mae **dyraniad o £480k** wedi cael ei wneud fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2024-25 i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â Diwygio'r Senedd.

### Polisi Etholiadau

25. Mae’r gyllideb hon wedi cael ei lleihau **£1 filiwn** o’i chymharu â’r gyllideb ddangosol ar gyfer 2024-25; ystyrir bod modd ymdopi ag effeithiau’r gostyngiad hwn.

### Gwella a Chymorth

26. Mae’r **arbediad o £300k** yn erbyn y gyllideb ddangosol yn ymwneud â chyllid nad yw wedi’i ymrwymo; ystyrir bod modd ymdopi â’r arbediad hwn heb ofni effeithiau niweidiol.

### Academi Wales

27. Mae’r arbediad o £100k yn erbyn y gyllideb ddangosol yn ymwneud â’r rhaglen gyllid ar gyfer aelodau Etholedig sydd i fod i ddod i ben yn 2023-24.

## Y Rhaglen Lywodraethu

28. Mae’r Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol yn cefnogi’r gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau’r Rhaglen Lywodraethu. Nid oes unrhyw ddyraniadau newydd wedi cael eu gwneud i gefnogi ymrwymiadau’r Rhaglen Lywodraethu drwy gyllideb ddrafft 2024-25. Mae manylion ymrwymiadau’r Rhaglen Lywodraethu a’r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb y cânt eu cefnogi ohonynt wedi’u nodi yn Atodiadau A a B.

## Gwariant ataliol yn y portffolio hwn

29. Nid yw’r cyllid a ddarperir drwy’r grant cynnal refeniw yn gyllid wedi’i neilltuo; mater i awdurdodau lleol yw penderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer ei ddefnyddio. Mae darparu’r cyllid sylweddol hwn fel hyn yn golygu bod gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd i gynllunio, ariannu a darparu eu gwasanaethau yn y ffordd sy’n gweithio orau i’w poblogaethau lleol nhw.

30. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, feddwl am effaith tymor hir eu penderfyniadau, i weithio’n well gyda phobl, cymunedau a’i gilydd. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi gwaith i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

31. Nid yw’r rhan fwyaf o’r cyllid cyfalaf (£180 miliwn) i awdurdodau lleol yn gyllid wedi’i neilltuo, ac mae awdurdodau lleol yn rhydd i benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio’r cyllid i roi arian cyfatebol o bosibl i gynlluniau grant cyfalaf penodol eraill neu i ymgymryd â gwaith cyfalaf arall. Mae cyllideb ar wahân o £20 miliwn ar gael i awdurdodau lleol, i’w defnyddio i gefnogi prosiectau i ddatgarboneiddio eu hystadau, gan gefnogi prosiectau fel adeiladau ysgolion,

swyddfeydd neu gartrefi gofal. Mae'r cyllid hwn yn gweithio ochr yn ochr â ffrydiau cyllido eraill fel y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

## Asesiad Effaith Integredig Strategol

32. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn parhau i ganfod tueddiadau allweddol, effeithiau strategol a chronnol ar lefel portffolio, ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys rhoi ystyriaeth briodol ar draws y gofynion statudol.

33. Ni ddylid darllen yr Asesiad Effaith Integredig Strategol ar ei ben ei hun. Dylid ei ddarllen ar y cyd â naratif y Gyllideb ddrafft ehangach a dogfennau ategol, fel adroddiad y Prif Economegydd a'n dadansoddiad diweddaraf o'r effaith ddosbarthiadol. Ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb ddrafft, byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r holl dystiolaeth Weinidogol i bwyllgorau craffu'r Senedd.

34. Mae realiti llwm yr amgylchiadau ariannol eithriadol yr ydym yn eu hwynebu wedi golygu bod angen dull mwy sylfaenol o weithredu. Rydym wedi ail-lunio'r dyraniadau gwariant dangosol yn ein cyllideb i ddarparu cyllid ac amddiffyniad ychwanegol i'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl a chymunedau ledled Cymru, sef y GIG a'r setliad llywodraeth leol craidd sy'n ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol a gwasanaethau bob dydd eraill. Rydym wedi gwneud hynny yn unol â'n blaenoriaethau, sef:

- Diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen, craidd cyn belled ag y bo modd.
- Sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd sy'n cael eu taro galetaf.
- Blaenoriaethu swyddi, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.
- Gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus i wynebu'r storm ariannol hon gyda'i gilydd.
- Ail-ffocysu cyllid draw oddi wrth feysydd nad ydynt wedi'u datganoli, y dylai Llywodraeth y DU fod yn eu hariannu.

35. Rydym wedi defnyddio'r dull hwn i sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio cyllid lle gall gael yr effeithiau mwyaf cadarnhaol yn yr amgylchiadau a chymryd camau i sicrhau ein bod yn lliniaru effeithiau uniongyrchol ar bobl a lleoedd, cyn belled ag y bo modd. O wario mwy mewn rhai meysydd, mae llai i'w wario mewn meysydd eraill. Pan fo angen gwneud penderfyniadau anodd, rydym wedi ceisio canfod y meysydd hynny lle mae'r effeithiau cymharol yn llai na'u dewisiadau eraill ac rydym wedi ceisio cymryd camau i liniaru'r effeithiau cyn belled ag y bo modd. O ystyried yr amgylchiadau, ni fu modd osgoi effeithiau negyddol ym mhob achos.

36. Yn fy mhortffolio fy hun, rwyf wedi diogelu'r cynnydd a gynlluniwyd o'r blaen i'r setliad llywodraeth leol. Drwy weithredu fel hyn, fy nod yw darparu cyllid i awdurdodau a fydd yn eu galluogi i ddiogelu, cyn belled ag y bo modd, arian craidd ar gyfer ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol, ond hefyd i gydnabod gwerth yr amrediad o wasanaethau eraill y mae cynghorau'n eu darparu megis casgliadau sbwriel a gwasanaethau hamdden lleol.

37. Nid ydym wedi cuddio'r ffaith bod rhaid i ni wneud penderfyniadau cyllidebol anodd yn ystod y flwyddyn 2023-24 bresennol ac fel rhan o'n penderfyniadau ar gyfer cyllideb 2024-25. Rydym yn dal i ganolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae'r angen mwyaf, felly rydym wedi cynnal y cynnydd dangosol i'r setliad llywodraeth leol, gan mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am lawer o wasanaethau rheng flaen y mae pobl yn dibynnu arnynt. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol iawn bod effaith barhaus chwyddiant cyson uchel, pwysau ar gyflogau, prisiau ynni uchel a chynnydd yn y galw am wasanaethau yn rhoi pwysau sylweddol ar awdurdodau lleol. Drwy wneud eu penderfyniadau eu hunain am gyllidebau, blaenoriaethu a thrawsnewid gwasanaethau, bydd awdurdodau'n asesu'r effaith ar wahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau drwy eu hasesiadau effaith lleol eu hunain. Mae maint yr heriau ariannol yn golygu y bydd rhaid i gynghorau hefyd wneud penderfyniadau anodd iawn, a bydd effeithiau negyddol ar rai meysydd gwasanaeth oherwydd y pwysau ariannol parhaus hyn.

38. Rwyf hefyd wedi darparu cymorth ychwanegol drwy Ryddhad ar Ardrethi Annomestig ac wedi gwneud dyraniadau i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i gefnogi Diwygio'r Senedd yn ogystal â dyraniadau i Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflwyno diwygiadau i'r trethi lleol.

39. Yn Natganiad yr Hydref, a gyhoeddwyd ar 22 Tachwedd 2023, roedd Llywodraeth y DU wedi cyhoedd cynnydd yn Nherfyn Gwariant Adrannol Adnoddau (RDEL) Llywodraeth Cymru o ddim ond £167 miliwn yn 2024-25; mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y GIG ac awdurdodau lleol yn dweud eu bod yn wynebu heriau difrifol. O ganlyniad i'r cyfyngiadau ar ein cyllid, nid ydym wedi gallu dyrannu unrhyw gymorth ychwanegol i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw yn 2024-25. Er y bu gostyngiad o £37 miliwn yn y llinell sylfaen ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw, mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan y cynnydd mewn refeniw a ragwelir o ardrethi annomestig sy'n rhan o'r setliad cyffredinol. Mae hyn yn golygu bod y cynnydd yn y setliad o 2023-24 yn parhau i fod yn 3.1%.

40. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi amcangyfrif pwysau ariannol o £411 miliwn, gan ystyried y cynnydd arfaethedig hwn a chynnydd tybiedig o 5% yn y dreth gyngor. Mae awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau'n lleol ynglŷn â sut mae'r setliad llywodraeth leol yn cael ei wario. Maent yn rhwym wrth y gofyniad sydd arnynt eu hunain i gwblhau asesiadau effaith, gan gynnwys asesiadau cydraddoldeb a hawliau plant, yn ogystal ag ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth wneud penderfyniadau. Mae awdurdodau lleol yn darparu amrediad eang o wasanaethau cyhoeddus, ac mae'r rhain yn aml i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas neu'r rhai sydd dan anfantais economaidd. Mae gwasanaethau allweddol yn cynnwys gofal cymdeithasol, addysg a digartrefedd. Yn benodol, mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau sylweddol i blant drwy addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Maent hefyd yn darparu amrediad eang o wasanaethau i bobl sydd â nodwedd warchodedig.

41. Staff yw'r elfen fwyaf o gostau awdurdodau lleol, felly o ystyried y pwysau o ran gwariant a galw a'r amlen ariannol gyfyngedig mae'n debygol y bydd pwysau ar nifer y staff. Ar hyn o bryd, mae oddeutu 128,000 o bobl yn cael eu cyflogi gan

awdurdodau lleol. Ar gyfartaledd, byddai pob £20 miliwn o arbedion pe baent yn cael eu trosi'n uniongyrchol i'r bil cyflogau yn cyfateb i oddeutu 400 o swyddi. Byddai'r nifer hwn yn fwy pe bai'r arbedion yn canolbwyntio ar y rheini mewn swyddi ar gyflogau is, er enghraifft gweithwyr gofal neu gymorthyddion addysgu. Fel arall, pe bai gwasanaethau craidd yn cael eu diogelu, gallai'r colledion swyddi gael eu crynhoi'n anghymesur mewn gwasanaethau anstatudol. Bydd yr effeithiau'n amrywio rhwng awdurdodau lleol yn dibynnu ar y dewisiadau lleol a wneir gan gynghorwyr ym mhrosesau eu cyllidebau, ar allu'r sefydliad i wneud arbedion, ar drawsnewid gwasanaethau a defnyddio cronfeydd wrth gefn; ac wrth gwrs ar y parodrwydd a'r gallu i gynyddu lefel y dreth gyngor.

42. Er bod gan awdurdodau lleol gronfeydd wrth gefn, bydd llawer o'r rhain yn cael eu neilltuo at ddibenion penodol. Gall awdurdodau lleol ystyried defnyddio rhai o'u cronfeydd wrth gefn cyffredinol neu ail-bwrpasu cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi ar gyfer gwariant tymor byr nad yw'n rheolaidd i gefnogi'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau neu i ail-ddylunio gwasanaethau'n radical er mwyn lleihau costau neu wella effeithlonrwydd. Gall hyn gynnwys gweithio gyda'i gilydd neu gyda phartneriaid eraill.

43. Rydym wedi penderfynu rhoi 5% o gap ar gynnydd y lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer 2024-25, ar gost flynyddol gylchol o £18 miliwn. Mae hyn yn is na'r cynnydd o 6.7% a fyddai'n cael ei roi ar filiau petai'r lluosydd yn cael ei gynyddu yn unol â'r sefyllfa ddiofyn sef defnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Mae pawb sy'n talu ardrethi eisoes yn derbyn budd rhyddhad llawn o'r cap hwn ar y lluosydd. Dyma'r lefel uchaf o gymorth fforddiadwy gan ddefnyddio'r holl gyllid canlyniadol a ddaeth i Gymru o ganlyniad i benderfyniadau a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref Llywodraeth y DU.

44. Ni fydd cynnydd yn y lluosydd yn effeithio ar bron i hanner y bobl sy'n talu ardrethi, gan gynnwys miloedd o fusnesau bach ledled Cymru, gan fod ein system hael o ryddhad llawn yn golygu nad ydynt yn talu ardrethi o gwbl.

45. Byddwn hefyd yn buddsoddi £78 miliwn yn ychwanegol i ddarparu pumed flwyddyn olynol o gymorth i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch gyda'u biliau ardrethi annomestig. Mae hyn yn adeiladu ar y £1 biliwn o gymorth a ddarperir drwy ein cynlluniau rhyddhad ar ardrethi manwerthu, hamdden a lletygarwch ers 2020-21. Bydd busnesau cymwys yn cael 40% o ryddhad ar ardrethi annomestig drwy gydol 2024-25. Fel yn y blynyddoedd a fu, bydd y rhyddhad yn cael ei gapio ar £110,000 y busnes ledled Cymru.

46. Ynghyd â pharhau i ddarparu rhyddhad trosiannol i'r rhai sy'n talu ardrethi, yn dilyn ailbrisio ardrethi annomestig yn 2023 a rhyddhad newydd i'r rhai sy'n talu ardrethi ac sy'n buddsoddi mewn gwelliannau i eiddo ac ynni adnewyddadwy, bydd ein mesurau ardrethi yn darparu £134 miliwn o gymorth ar gyfer 2024-25. Mae hyn yn ychwanegol at ein cynlluniau rhyddhad parhaol sy'n cael eu hariannu'n llawn ac sy'n werth £250 miliwn i fusnesau a rhai eraill sy'n talu ardrethi bob blwyddyn. Bydd pawb sy'n talu ardrethi yn elwa o'r pecyn hwn.

## Newid yn yr Hinsawdd a Sero Net Cymru

47. Nid yw cyllideb cyfalaf llywodraeth leol wedi newid o'i chymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2024-25. Bydd £20 miliwn o hyn yn cael ei gyfeirio'n benodol i fynd i'r afael â datgarboneiddio a chefnogi Cymru Sero Net. Mae cyllid refeniw hefyd yn bodoli yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwella a Chymorth ac yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Ystadau Cymru, i helpu gyda chynlluniau i ddatgarboneiddio ystadau Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru. Mae dewisiadau caffael yn sbardun sylweddol i allyriadau carbon, a bydd angen i Awdurdodau Lleol ystyried sut i ddefnyddio eu gwariant craidd yn ogystal â chyllid penodol i barhau i weithio tuag at sero net.

## Sipsiwn, Roma a Theithwyr a phobl sy'n cyrraedd o Wcráin

48. Nid oes unrhyw ddyraniadau yn y Prif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol i gefnogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac nid oes unrhyw drosglwyddiadau penodol wedi cael eu gwneud i'r Grant Cynnal Refeniw mewn perthynas â'r cymunedau hyn.

49. Mae ein cyllideb ddrafft yn 2024-25 yn cynnwys cyllideb refeniw o £4.5 miliwn yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymorth Ariannol Brys i barhau i gefnogi ein hymateb brys i'r argyfwng dyngarol yn Wcráin. Bydd y cyllid hwn yn parhau i ddarparu llety cychwynnol a chymorth cofleidiol i'r rheini sydd eisoes wedi cyrraedd Cymru yn ogystal â'r rheini a allai barhau i gyrraedd yn 2024-25.

50. O fewn y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol, y gyllideb cyfalaf Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr yw £3.449 miliwn ar gyfer 2024-25, sydd heb newid o'r gyllideb ddangosol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023. Mae'r gyllideb yn cynnwys datblygu safleoedd newydd, estyniadau i safleoedd a phrosiectau adnewyddu mewn safleoedd sy'n eiddo i awdurdodau lleol ledled Cymru.

**Atodiad A**

| RHAN O'R TABLAU AR GYFER PRIF GRŴP GWARIANT CYLLID A LLYWODRAETH LEOL | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **ADNODD** | | | | | |
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Ddangosol 2024-25** | **Cyllideb Ddrafft 2024-25** | **Newid** | **% Newid** | **Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu** |
| | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | |
| Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol | 4,574,436 | 4,557,004 | (17,432) | -0.4% | |
| Ardrethi Annomestig - Rhyddhad Ardrethi | 27,700 | 78,730 | 51,030 | 1.8% | |
| Cyllid Refeniw Cyffredinol yr Heddlu | 112,349 | 112,331 | (18) | 0.0% | |
| Canlyniadau Refeniw Mentrau Cyllid Preifat Llywodraeth Leol | 2,596 | 2,596 | - | 0.0% | |
| Trawsnewid a Deddfwriaeth | 7,584 | 6,674 | (910) | -12.0% | Cryfhau ymreolaeth ac effeithiolrwydd llywodraeth leol i'w gwneud yn fwy llwyddiannus wrth ddarparu gwasanaethau.<br><br>Ehangu ein rhaglen Mynediad i Swydd Etholedig. |
| Costau Casglu Ardrethi Annomestig | 5,172 | 5,172 | - | 0.0% | |
| Cymorth Ariannol Brys | 20,001 | 4,501 | (15,500) | -0.8% | |
| Cam Gweithredu: **Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol** | **4,749,838** | **4,767,008** | **17,170** | **0.4%** | |
| Gwasanaethau Asiantaeth y Swyddfa Brisio | 8,561 | 17,000 | 8,439 | 98.6% | Ceisio diwygio'r dreth gyngor i sicrhau system decach a mwy graddoledig. |
| Tribiwnlys Prisio Cymru | 1,074 | 1,900 | 826 | 76.9% | |
| Ymchwil a Dadansoddi Trethiant Lleol | 4,800 | 4,800 | - | 0.0% | |
| Cam Gweithredu: **Gwasanaethau Prisio** | **14,435** | **23,700** | **9,265** | | |
| **Maes Rhaglenni Gwariant: Cyllid Llywodraeth Leol** | **4,764,273** | **4,790,708** | **26,435** | | |
| Noddi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru | 750 | 1,230 | 480 | 64.0% | |
| Gwariant i Hyrwyddo Democratiaeth Leol | 126 | 126 | - | 0.0% | |
| Polisi Etholiadau | 4,500 | 3,500 | (1,000) | -22.2% | Diwygio etholiadau llywodraeth leol i leihau'r diffyg democrataidd. |
| Cam Gweithredu: **Meithrin Democratiaeth Leol** | **5,376** | **4,856** | **(520)** | **-9.7%** | |
| Gwella a Chefnogi | 941 | 641 | (300) | -31.9% | Cryfhau ymreolaeth ac effeithiolrwydd llywodraeth leol i'w gwneud yn fwy llwyddiannus wrth ddarparu gwasanaethau. |
| Cam Gweithredu: **Gwella Llywodraeth Leol** | **941** | **641** | **(300)** | **-31.9%** | |
| Academi Wales | 1,134 | 1,034 | (100) | -8.8% | |
| Cam Gweithredu: **Academi Wales** | **1,134** | **1,034** | **(100)** | **-8.8%** | |
| Cynghorau Cymuned a Thref | 144 | 144 | - | 0.0% | Cryfhau ymreolaeth ac effeithiolrwydd llywodraeth leol i'w gwneud yn fwy llwyddiannus wrth ddarparu gwasanaethau. |
| Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | 530 | 530 | - | 0.0% | |
| Cam Gweithredu: **Cefnogi Cydweithio a Diwygio** | **674** | **674** | **-** | **0.0%** | |
| **Maes Rhaglenni Gwariant: Gwella Gwasanaethau, Cydweithio a Democratiaeth** | **8,125** | **7,205** | **(920)** | **-11.3%** | |
| **RHAN O'R TABLAU AR GYFER PRIF GRŴP GWARIANT CYLLID A LLYWODRAETH LEOL** | **4,772,398** | **4,797,913** | **25,515** | **0.5%** | |

**ATODIAD B**

## Y Rhaglen Lywodraethu

**Ceisio diwygio'r dreth gyngor i sicrhau system decach a mwy blaengar –** Yn dilyn ymgynghoriad Cam 1 ar dreth gyngor decach yn ystod haf 2022, cyhoeddais grynodeb o'r ymatebion ar 16 Rhagfyr, ynghyd ag amlinelliad o'r camau nesaf. Rhoddais ragor o fanylion mewn datganiad ar 2 Mai. Ar 14 Tachwedd, lansiais ymgynghoriad Cam 2 yn gofyn am farn ar raddfa a chyflymder y broses ddiwygio. Gwneir darpariaeth ar gyfer y gwaith hwn drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Diwygio ac Ymchwil Trethiant Lleol.

Ochr yn ochr â'm cynlluniau ar gyfer diwygio system y dreth gyngor, nodais fy nghynlluniau ar gyfer diwygio'r system ardrethi annomestig ar 2 Mai. Cyflwynais y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) ar 20 Tachwedd: mae hyn yn cynnwys darpariaethau a fydd yn galluogi gwelliannau i drethi lleol ac yn sicrhau eu bod yn cael eu teilwra'n well i anghenion Cymru. Gwneir darpariaeth ar gyfer y gwaith hwn drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Diwygio ac Ymchwil Trethiant Lleol a thrwy Linellau Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru.

**Cryfhau annibyniaeth ac effeithiolrwydd llywodraeth leol i'w gwneud yn fwy llwyddiannus wrth ddarparu gwasanaethau –** Mae'r ymrwymiad hwn yn y Rhaglen Lywodraethu yn cael ei gyflawni drwy'r cyllid ar gyfer gwelliannau sy'n cael eu harwain gan y sector llywodraeth leol, gan gynnwys trawsnewid digidol (sydd hefyd yn cyflawni yn erbyn ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gyflawni'r Strategaeth Ddigidol), drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Trawsnewid a Deddfwriaeth. Mae gwaith i wella rheolaeth ariannol a llywodraethiant ariannol y Cynghorau Cymuned yn cael ei ariannu gan y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref a dyraniad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Trawsnewid a Deddfwriaeth. Ymysg gwaith arall a fydd yn cyfrannu mae ein gwaith diwygio ariannol a'n gwaith ar ddiwygio'r dreth gyngor a chynyddu cyfranogiad democrataidd. Bydd hyn yn cael ei ariannu drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Trawsnewid a Deddfwriaeth a thrwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Diwygio ac Ymchwil Trethiant Lleol.

**Lleihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol –** Ar ôl ymgysylltu â llywodraeth leol, nodwyd mai grantiau wedi'u neilltuo oedd y baich gweinyddol mwyaf brys i fynd i'r afael ag ef. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar draws pob maes portffolio Gweinidogol i ganfod grantiau y gellir eu cynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw, grantiau y gellir eu cyfuno, a chyfleoedd i leihau'r baich adrodd ar y rhain ac unrhyw grantiau eraill sy'n weddill. Nid oes goblygiadau cyllidol yn deillio o'r gwaith hwn.

**Archwilio a datblygu mesurau effeithiol ar gyfer treth, cynllunio a thai i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu diogelu** – Fel rhan o'r dull gweithredu tair elfen a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ym mis Gorffennaf 2021, bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch newidiadau i'r trethi lleol i helpu awdurdodau lleol i reoli effaith ail gartrefi a llety hunanarlwyo yn eu hardaloedd. Daeth y newidiadau canlyniadol i rym ar 1 Ebrill 2023. Mae'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Diwygio ac Ymchwil

Trethiant Lleol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gweithredu'r newidiadau a monitro'r effaith ar y sylfaen drethu leol.

**Diwygio etholiadau llywodraeth leol i leihau'r diffyg democrataidd –** -Yn 2022-2023, roeddem wedi cynnal cynlluniau peilot ar ddefnyddio technoleg ddigidol i alluogi dewisiadau pleidleisio hyblyg i bleidleiswyr mewn pedair ardal awdurdod lleol ac wedi cynnal gweithgareddau allgymorth i hyrwyddo cofrestru ac ymgysylltu. Daeth y ffrydiau gwaith hyn i ben yn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022. Mae gwerthusiad o'r cynlluniau peilot gan y Comisiwn Etholiadol a'r gwaith allgymorth gan rwydwaith o sefydliadau wedi dod i law, ac mae'n cyfrannu at gam nesaf ein gwaith cyn ein setiau nesaf o etholiadau datganoledig yn 2026 a 2027. Ym mis Hydref 2023, fe wnaethom ni gyflwyno'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), sy'n bwrw ymlaen â'r cynigion yn ein Papur Gwyn o 2022 ar ddiwygio a gweinyddu etholiadol, a gefnogwyd yn ein hymgynghoriad ac sydd angen deddfwriaeth sylfaenol. Mae'r rhain yn cynnwys gwella hygyrchedd i'r system etholiadol drwy gofrestru etholiadol heb gofrestru, sefydlu Llwyfan Gwybodaeth Etholiadau a sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol. Rydym hefyd wedi datblygu cam nesaf ein cymorth ymgysylltu uniongyrchol ar ffurf cynnig grant newydd dros nifer o flynyddoedd i gefnogi gwaith awdurdodau lleol a'r trydydd sector i feithrin iechyd democrataidd Cymru. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar y cyd â gwaith ar ehangu'r rhaglen Mynediad i Swyddi Etholedig, cynyddu amrywiaeth mewn democratiaeth a gwaith Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar ddiffinio, mesur a monitro iechyd democrataidd. Caiff y gwaith hwn ei ariannu o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Polisi Etholiadau, a chaiff y cyllid ei ddarparu i brif gynghorau drwy'r Grant Cynnal Refeniw, sydd hefyd yn cydnabod costau gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Ehangu ein rhaglen Mynediad i Swyddi Etholedig** – Mae darpariaethau i ddarparu cronfa mynediad i swyddi etholedig a mathau eraill o gymorth i ymgeiswyr sydd â nodweddion gwarchodedig wedi'u cynnwys yn y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig. Os bydd y Bil hwn yn cael Cydsyniad Brenhinol, bydd unrhyw gostau sy'n deillio o ddechrau gweithredu yn cael eu hariannu o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Trawsnewid a Deddfwriaeth.

**Cyflawni'r Bennod Llywodraeth Leol yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol** – Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i alluogi Cymru wrth-hiliol. Fel rhan o hyn, byddaf yn sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol a llywodraethu ar gyfer llywodraeth leol yn hyrwyddo camau gweithredu a phenderfyniadau sy'n wrth-hiliol. Rwy'n bwrw ymlaen ag amrywiaeth o newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol i sicrhau bod llywodraethiant awdurdodau lleol yn digwydd o fewn fframwaith statudol sy'n cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ac sy'n mynd ati i hyrwyddo gwrth-hiliaeth. Bydd hyn hefyd yn galluogi llywodraeth leol i adolygu ei phrosesau recriwtio, ei pholisïau adnoddau dynol mewnol a'i phrosesau cwyno ei hun i sicrhau eu bod yn wrth-hiliol. Y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Trawsnewid a Deddfwriaeth fydd yn ariannu'r gwaith hwn.

**Sicrhau bod gan bob rhanbarth yng Nghymru ddull effeithiol ac atebol yn ddemocrataidd o ddatblygu economïau'r dyfodol –** Mae'r ymrwymiad hwn bellach wedi'i gyflawni ac wedi'i gwblhau. Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig bellach wedi'u sefydlu. Mae hyn bellach yn cael ei adlewyrchu yn y cyllid craidd a geir drwy Setliad Llywodraeth Leol sydd heb ei neilltuo, i adlewyrchu'r ffaith bod cynnal a

chefnogi cydweithio rhwng awdurdodau lleol yn rhan o'r model gweithredu craidd ar gyfer llywodraeth leol.

**Newid y fframwaith perfformiad ar gyfer llywodraeth leol er mwyn galluogi arloesedd, tryloywder a pherchnogaeth leol yn well –** Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i gwblhau a'i gyflawni. Cafodd cyfundrefn lywodraethu a pherfformiad newydd ei rhoi ar waith gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Darperir cymorth parhaus i awdurdodau lleol i gynnal hunanasesiadau ac asesiadau panel, drwy'r Rhaglen Gwella a Chymorth dan arweiniad y sector llywodraeth leol sy'n cael ei hariannu drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Trawsnewid a Deddfwriaeth.

**Parhau i adolygu gwaith partneriaeth rhanbarthol gyda phartneriaid lleol** – Yn dilyn trafodaethau helaeth gyda phartneriaid a phartneriaethau, mae Cyngor Partneriaeth Cymru wedi cytuno ar adroddiad sy’n cynnwys sawl argymhelliad ac mae wedi cyhoeddi’r adroddiad hwnnw. Mae’r adroddiad hwn wrthi'n cael ei baratoi i’w gyhoeddi, pan gaiff yr ymrwymiad ei gyflawni a’i gwblhau.

**Archwilio’r modd y gallai sefydlu Ysgol Lywodraethu Genedlaethol gyfrannu at yr egwyddor o Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru** – Mae ymgysylltu’n sylweddol ag amrywiaeth o randdeiliaid wedi digwydd er mwyn sicrhau bod yr opsiynau ar gyfer Ysgol Lywodraethu Genedlaethol yn cael eu harchwilio’n llwyr. Sefydlwyd grŵp cyfeirio i brofi’r wybodaeth a’r argymhellion a ddaw i’r amlwg wrth iddynt ddatblygu. Bydd yr ymrwymiad hwn yn cael ei gyflawni a’i gwblhau ar ôl cyflwyno achos busnes ddechrau 2024, heb unrhyw oblygiadau cyllido, gyda’r gwaith wedi cael ei ariannu drwy’r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Academi Wales.

**Ailfywiogi ein cysylltiadau gefeillio ar draws yr UE drwy Gronfa Gefeillio Pobl Ifanc** – Cafodd arolwg i bennu’r lefelau cyfredol o efeillio ar draws Cymru ei gynnal ar draws llywodraeth leol. O ystyried y cyd-destun ariannol presennol, a bodolaeth rhaglenni tebyg (ee Taith), mae rhagor o weithgarwch ar yr ymrwymiad hwn wedi cael ei ohirio tan 2025, pan fydd opsiynau’n cael eu hystyried. Mae’r gwaith hyd yma wedi cael ei ariannu drwy’r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Academi Wales, ond os bydd cronfa’n cael ei chyflwyno yn 2025-26, mae’n bosibl y bydd angen dod o hyd i gyllid ychwanegol bryd hynny.

# Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

**Dyddiad:** **18 Ionawr 2024**

**Teitl:** **Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

## Cyflwyniad

1. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys cynlluniau gwariant ar gyfer 2024-25. Yn y papur hwn cyflwynir tystiolaeth i'r Pwyllgor ynghylch cynigion cyllidebol ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol yn ymwneud â chyllidebau Tai, Adfywio a Thir fel y'u hamlinellir yn y Gyllideb Ddrafft a gyflwynwyd ar xx Rhagfyr 2023.

2. Yn Atodiad A ceir dadansoddiad o'r ffigurau perthnasol o'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer Newid Hinsawdd – Tai ac Adfywio yn ôl Maes Rhaglen Gwariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL). Adlewyrchir y ffigurau hyn yn y tabl isod.

## Tablau Ariannol

Newid Hinsawdd a Materion Gwledig – Tai ac Adfywio

| CRYNODEB £000oedd | Cyllideb Derfynol 2023-24 Chwef 2023 Ailddatganwyd | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Chwef 2023 Ailddatganwyd | Gostyngiadau / Dyraniadau Cyllidebol | Newidiadau 2024-25 | Cyllideb Ddrafft 2024-25 *Rhagfyr 2023* |
|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | 249,648 | 256,148 | -27,000 | -6,800 | 222,348 |
| Cyfalaf | 921,630 | 940,309 | 0 | -37,330 | 902,979 |
| **Cyfanswm Adnoddau a Chyfalaf** | **1,171,278** | **1,196,457** | **-27,000** | **-44,130** | **1,125,327** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm AME** | **-3,035** | **-2,527** | **0** | **0** | **-2,527** |
| | | | | | |
| **CYFANSWM Y GYLLIDEB** | **1,168,243** | **1,193,930** | **-27,000** | **-44,130** | **1,122,800** |

**Ni ddyrannwyd unrhyw gyfalaf trafodiadau ariannol ychwanegol fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft. Ystyrir a gwneir dyraniadau fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft .*

## Dyraniadau a wnaed i gefnogi Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

3. Mae'r Gyfarwyddiaeth Tai ac Adfywio yn cefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Yn unol ag egwyddorion rheoli'r gyllideb Llywodraeth Cymru, mae dyraniadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau hyn wedi targedu ymyriadau sy'n fforddiadwy ac yn cynnig gwerth am arian wrth hefyd geisio amddiffyn gwasanaethau rheng flaen sy'n diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Rhoddir manylion y dyraniadau hyn a'r ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu a gefnogir ganddynt drwy'r papur hwn.

4. Cafodd Asesiad Effaith Integredig Strategol ei gyhoeddi ar y cyd â'n Cyllideb Ddrafft ar 19 Rhagfyr; noda sut mae ein hymyriadau wedi cael eu targedu i fynd i'r afael ag effeithiau economaidd, effeithiau ar yr hinsawdd ac effeithiau eraill. Gwnaed dyraniadau drwy'r portffolio hwn i fynd i'r afael ag effeithiau a nodwyd a chan gofio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; rhoddir y manylion hyn drwy'r papur hwn.

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Math o Gronfa | Dyraniad 2024-25 £000oedd *Cyllideb Ddrafft Rhag 2023* |
|---|---|---|
| Cymorth ac Atal Digartrefedd | Adnoddau | 214,910 |

5. Mae cael cartref gweddus, diogel a fforddiadwy yn sylfaenol er mwyn sicrhau iechyd a llesiant pobl, ac i helpu pobl i ffynnu. Rydym yn parhau i ganolbwyntio felly ar sicrhau bod cartref o'r fath ar gael i bawb, ac ar ein nod hirdymor o roi terfyn ar ddigartrefedd, drwy ei wneud yn rhywbeth prin sy'n digwydd am gyfnodau byr ac na chaiff ei ailadrodd. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae angen diwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu cyflym ac mae hyn yn flaenoriaeth allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu ac yn rhan o'r cytundeb cydweithio â Phlaid Cymru. Mae diwygio'r system Dai yn cynnig y cyfle i gyfrannu'n sylweddol at Gymru decach a mwy cyfartal.

6. Er mwyn cefnogi'r nod hwn, cyhoeddwyd Papur Gwyn ar roi terfyn ar ddigartrefedd ar 10 Hydref 2023 sy'n nodi'r camau diwygio sydd eu hangen o ran deddfwriaeth a pholisi er mwyn trawsnewid gwasanaethau fel eu bod yn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu cyflym. Mae parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn atal digartrefedd yn cyflawni amcanion polisi allweddol, yn enwedig mynd i'r afael â thlodi ac anfantais, yn gwella canlyniadau i unigolion a theuluoedd, ac yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill. Felly mae'r ffocws parhaus a chynyddol ar fesurau atal drwy'r Grant Cymorth Tai a chyllid ehangach i atal digartrefedd yn hanfodol.

7. Y Grant Cymorth Tai yw'r prif grant ar gyfer atal digartrefedd ac mae'n helpu pobl sydd ag amrywiaeth o anghenion cymorth i fyw yn annibynnol a chynnal tenantiaethau a, thrwy hynny, leihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill (yn enwedig iechyd a gofal cymdeithasol). Er gwaethaf sefyllfa hynod heriol y gyllideb

yn gyffredinol, rydym wedi diogelu'r Grant Cymorth Tai a chynnal ein buddsoddiad yn y gwasanaethau y mae'n eu cefnogi. Bydd ein cymorth yn sicrhau bod gennym system sy'n rhoi'r bobl gywir yn y cartrefi cywir yn y cymunedau cywir gyda'r cymorth cywir, er mwyn i bobl lwyddo a ffynnu.

8. O ystyried yr ystod eang o bobl y gall digartrefedd effeithio arnynt, rhoddwyd ystyriaeth sylweddol i grwpiau gwarchodedig. Rydym wedi edrych ar y data a gallwn weld bod angen gwasanaethau penodol ledled Cymru i wasanaethu grwpiau penodol o gleientiaid sydd ag anghenion unigryw. Mae'r Grant Cymorth Tai yn helpu i gynnal y gwasanaethau arbenigol a all gefnogi grwpiau gwahanol, e.e. menywod y mae digartrefedd, yn ogystal â cham-drin domestig a thrais rhywiol, yn effeithio arnynt. Drwy gael y fath gymorth yn ei le, bydd menywod yn fwy tebygol o gysylltu â gwasanaethau, gan gynnwys darpariaeth llochesi, yn hytrach nag aros ‘o'r golwg’ ac mewn perygl. Yn yr un modd, bydd gwasanaethau sy'n sensitif o ran oedran neu rywioldeb yn hanfodol i gleientiaid LHDTC+ ifanc sydd angen cymorth arbenigol er mwyn teimlo'n ddigon diogel i gyflwyno eu hunain a symud i lety mwy parhaol.

9. Mae sicrhau ein bod yn diwallu anghenion pobl ethnig leiafrifol amrywiol hefyd yn bwysig o ystyried effaith anghymesur digartrefedd ar rai pobl ethnig leiafrifol. Mae gwasanaethau hanfodol eraill rydym yn parhau i'w cefnogi drwy'r Grant Cymorth Tai yn cynnwys darpariaeth llety â chymorth (gan gynnwys llety i bobl ifanc a phobl hŷn) a chymorth lle bo'r angen i bobl fyw yn annibynnol ag amrywiaeth o anghenion gan gynnwys anableddau dysgu, salwch meddwl, problemau camddefnyddio sylweddau, a grwpiau y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn aml, gan gynnwys pobl sy'n gadael gofal, ffoaduriaid a phobl hŷn.

10. Mae'r buddsoddiad mewn gwasanaethau cymorth tai ac atal digartrefedd yn cyflawni amcan polisi allweddol, yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill ac yn gwella canlyniadau i unigolion a theuluoedd. Dengys tystiolaeth gan Crisis UK fod pobl sy'n ddigartref am dri mis neu fwy yn costio £18,388 ar gyfartaledd i wasanaethau cyhoeddus (iechyd a chyfiawnder troseddol) dros y cyfnod o 12 mis. Mae'r ffocws parhaus ar fesurau atal drwy'r Grant Atal Digartrefedd a'r Grant Cymorth Tai i gadw pobl yn eu cartrefi yn fesurau hanfodol i arbed arian yn yr hirdymor felly.

11. Amcangyfrifodd ymchwil gan Cymorth Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i effaith gymdeithasol ac ariannol y Grant Cymorth Tai fod y grant yn gwneud arbediad blynyddol gros i wasanaethau cyhoeddus o £300.4m, neu arbediad blynyddol net o £176.7m (o ystyried gwariant blynyddol y Grant Cymorth Tai ym mis Gorffennaf 2019). Mae hyn yn cynrychioli arbediad net amcangyfrifedig i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru o £1.40 am bob £1 o gyllid ar gyfer y Grant Cymorth Tai. Mae pob £1 o gyllid y Grant Cymorth Tai yn gwneud arbediad net amcangyfrifedig o £5.20 ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.

12. Felly, yn y pen draw, mae trawsnewid yn ymwneud â'r angen i symud adnoddau er mwyn lleddfu pwysau a galw o rannau eraill o'r system.

13. Bydd cyllid refeniw ychwanegol o £2m ar draws y gyllideb cymorth tai a digartrefedd, gan adeiladu ar y buddsoddiad ychwanegol yn 2023-24, yn rhoi hwb i fuddsoddiad mewn atal digartrefedd ac ymyriadau cymorth ledled Cymru ac yn cefnogi ein gwaith parhaus i drawsnewid gwasanaethau digartrefedd cyn y diwygiad deddfwriaethol ehangach. Gwyddom fod yr argyfwng costau byw wedi golygu bod llawer iawn o bobl yn cysylltu â gwasanaethau digartrefedd o hyd ac mae gennym 11,228 o bobl mewn llety dros dro ledled Cymru ar hyn o bryd, gan gynnwys 3,409 o blant dibynnol (ym mis Medi 2023).

14. Bydd y buddsoddiad parhaus ac ychydig uwch yn y Gyllideb Cymorth ac Atal Digartrefedd felly'n helpu awdurdodau lleol i gynyddu eu mesurau atal digartrefedd er mwyn ceisio lleihau llif y bobl y mae angen llety dros dro arnynt. Mae'r cynnydd o £2m wedi cael ei ostwng o £5m yn y gyllideb ddangosol gan adlewyrchu'r ffaith bod cylch pennu'r gyllideb wedi bod yn hynod o heriol eleni. Bydd swyddogion yn gweithio gyda'r sector i sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd sy'n cael yr effaith ataliol fwyaf.

15. Rydym wedi dwyn ynghyd gyllid a oedd wedi'i rannu rhwng dwy Linell Wariant yn y Gyllideb yn flaenorol (y Grant Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd) er mwyn darparu un gronfa â thema gyffredin, sef atal digartrefedd a chefnogi dyletswyddau statudol Awdurdodau Lleol yn hyn o beth. Mae dod â'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb at ei gilydd yn cefnogi ein bwriad polisi i gefnogi cynnydd tuag at atal ac Ailgartrefu Cyflym. Yn ogystal â'r Grant Cymorth Tai, mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb yn cefnogi cyllid ar gyfer llety dros dro wrth inni symud tuag at ailgartrefu cyflym; cymorth i Awdurdodau Lleol ariannu swyddi er mwyn cydgysylltu gweithgareddau digartrefedd ac ystod o ddulliau hyblyg er mwyn atal digartrefedd.

O'r cyllid a ddyrannwyd i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymorth ac Atal Digartrefedd yn 2023-24, bydd **£2.63m** yn cefnogi'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ***"Defnyddio'r Ddeddf Rhentu Cartrefi i roi mwy o sicrwydd i rentwyr a datblygu cynllun cenedlaethol sy'n cyfyngu rhent i lefelau lwfans tai lleol i deuluoedd a phobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref"***. Mae ein cynllun lesio cenedlaethol ar waith ledled Cymru, sy'n ceisio gwella mynediad at dai fforddiadwy tymor hwy yn y sector rhentu preifat. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r cynllun i gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd ac atal digartrefedd. Anogir perchnogion eiddo i roi eu heiddo ar les yn gyfnewid am sicrwydd rhent a chyllid ychwanegol i wella cyflwr yr eiddo; a bydd tenantiaid yn cael budd o ddeiliadaeth sicr tymor hwy (rhwng 5 ac 20 mlynedd) am renti a gyfyngir i gyfraddau Lwfans Tai Lleol. Mae cyllid refeniw yn cefnogi Awdurdodau Lleol i staffio a gweinyddu'r cynllun ac yn sail i gymhelliant perchnogion eiddo a chymorth tenantiaid.

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Math o Gronfa | Dyraniad 2024-25 £000oedd *Cyllideb Ddrafft Rhag 2023* |
|---|---|---|
| Polisi Tai | Adnoddau | 1,368 |

16. Mae £1.368m wedi cael ei ddyrannu i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Polisi Tai fel pecyn cyllid i ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau er mwyn cyflawni ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu.

17. Rydym wedi cefnogi'r amcan ***"Sicrhau bod landlordiaid Rhentu Doeth Cymru yn ymateb yn gyflym i gwynion am hiliaeth a throseddau casineb ac yn cynnig cymorth priodol"*** drwy hyfforddi pob landlord ac asiant rheoli sy'n rhentu eiddo yng Nghymru. Mae dros 1,000 o landlordiaid/asiantiaid wedi cwblhau'r modiwl hyfforddiant hwn. Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth i'w ddefnyddio yn y Sector Rhentu Preifat y byddwn yn ceisio ei gyhoeddi cyn diwedd 2024.

18. Bydd cyllid refeniw o **£0.6m** yn parhau i gefnogi'r gwahanol elfennau o weithgarwch yn y **Cynllun Peilot ar gyfer Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd** sy'n ategu'r Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n nodi ***"Creu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg"*** a nifer o ymrwymiadau'r Cytundeb Cydweithio. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys uwch-reolwr ar gyfer y cynllun peilot yn Llywodraeth Cymru, dau aelod dynodedig o staff ar lawr gwlad yn ardal y cynllun peilot, gwaith gwerthuso a chyfnewid arferion da. Mae £8.5m ychwanegol wedi cael ei ddarparu dros dair blynedd er mwyn cefnogi'r canllawiau wedi'u teilwra ar gyfer Cymorth Prynu yn ardal y cynllun peilot. Rydym hefyd yn ymrwymedig i gefnogi Cyngor Gwynedd gyda'r sylfaen dystiolaeth a'r costau gweithredol sy'n gysylltiedig â rhoi cyfarwyddyd cynllunio Erthygl 4 ar waith yn ardal y cynllun peilot (pe bai Cyngor Gwynedd yn penderfynu ei fod yn dymuno rhoi cyfarwyddyd ar waith yn yr ardal).Mae'r cyllid hwnnw, £400k, yn rhedeg o flynyddoedd ariannol 23/24 – 25/26 a bwriedir iddo gefnogi'r gwaith o werthuso a rhannu gwersi a ddysgwyd ar draws Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru.

19. Mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd wedi ymrwymo i ***"Deddfu i weithredu ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â diwygio lesddaliadau"***. Mae'r sector tai lesddaliadol yn rhan bwysig o'r farchnad dai genedlaethol. Mae'n cynnwys tua 4.5 miliwn o aelwydydd yng Nghymru a Lloegr. Mae tua dwy ran o dair o'r rhain yn fflatiau ac mae traean yn dai. Yng Nghymru, mae lesddaliadau yn cyfrif am tua 16% o'r holl anheddau. Mae hyn yn cyfateb i ffigur bras iawn o 235,000 o gartrefi. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi cynnig diwygiadau eang er mwyn ei gwneud hi'n haws i lesddeiliaid ymestyn neu brynu rhydd-ddaliad eu cartrefi a hyrwyddo mabwysiadu cyfunddaliad fel math o berchnogaeth sy'n cynnig mwy o hawliau na lesddaliad. Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i ddiwygio'r system lesddaliadau drwy gydweithio â Llywodraeth y DU, yn enwedig am fod rhai agweddau ar y ddeddfwriaeth i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn debygol o ymwneud â materion a gedwir yn ôl. Drwy ddilyn y trywydd hwn gellir cyflwyno set fwy cynhwysfawr a buddiol o ddiwygiadau i lesddeiliaid yng Nghymru cyn gynted â phosibl. Bydd cyllid ychwanegol parhaus yn cefnogi ymgysylltiad â'r gwaith o ddatblygu'r ddeddfwriaeth bwysig hon, gan sicrhau bod y newidiadau a wneir yn diwallu anghenion lesddeiliaid yng Nghymru.

20. Drwy weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio lesddaliadau a sicrhau bod mannau agored a chyfleusterau ar ystadau yn cael eu hariannu'n deg, sy'n un o ymrwymiadau eraill y Rhaglen Lywodraethu, byddwn yn cyfrannu at ein hamcan llesiant o wneud ein dinasoedd, trefi a phentrefi yn fannau hyd yn oed yn well i fyw a gweithio ynddynt.

21. Bydd y balans o gyllid yn helpu i gyflawni amrywiaeth o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod gan bawb gartref clyd ac y cyflawnir cydraddoldeb ac y cyrhaeddir safonau tai uchel ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyflawni'r ymrwymiadau canlynol yn y Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys ***Datblygu mesurau treth, cynllunio a thai effeithiol pellach i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwarchod.*** Mae'r ymrwymiadau hyn yn ymwneud â'n gwaith ym maes datrysiadau ail gartrefi a thai fforddiadwy. Ar y cam hwn, rydym wedi gwneud newidiadau i drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanddarpar (premiwm y Dreth Gyngor a throthwyon ardrethi annomestig), cyflwyno newidiadau allweddol i'r system gynllunio, ac rydym yn parhau i weithio ar amrywiadau rhanbarthol i'r Dreth Trafodiadau Tir. Rydym hefyd wedi sefydlu cynllun peilot i brofi ymyriadau yn Nwyfor. Bydd y gyllideb yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno a gwerthuso'r cynllun peilot yn ogystal â chydgysylltiad canolog ein gwaith datblygu a gweithredu polisi.

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Math o Gronfa | Dyraniad 2024-25 £000oedd *Cyllideb Ddrafft Rhag 2023* |
|---|---|---|
| Sector Rhentu Preifat | Cyfalaf | 1,500 |

22. Bydd mynediad at fwy o dai fforddiadwy o ansawdd da yn sbardun allweddol wrth helpu i ddiwallu anghenion pobl Cymru. Bwriedir i gynllun lesio'r sector rhentu preifat, a elwir yn Gynllun Lesio Cymru, fynd i'r afael â rhai o'r anawsterau y mae landlordiaid a thenantiaid yn eu profi yn y sector rhentu preifat drwy wella mynediad at dai fforddiadwy tymor hwy yn y sector rhentu preifat. Mae'r cynllun yn cael ei roi ar waith ledled Cymru, ac mae 17 o'r 22 o Awdurdodau Lleol wedi cofrestru ar ei gyfer ar hyn o bryd. Mae'r cynllun yn cysylltu'n uniongyrchol â'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n nodi ***datblygu cynllun cenedlaethol sy'n cyfyngu rhent i lefelau lwfans tai lleol i deuluoedd a phobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.***

23. O dan y cynllun, mae perchnogion eiddo yn rhoi eu heiddo ar les i'r awdurdod lleol yn gyfnewid am sicrwydd rhent (a osodir ar gyfradd berthnasol y Lwfans Tai Lleol) a chyllid ychwanegol i wella cyflwr yr eiddo a bydd yr awdurdodau lleol yn gallu defnyddio'r cynllun i gyflawni eu dyletswyddau o ran digartrefedd ac atal digartrefedd. Yr uchelgais yw, erbyn diwedd blwyddyn 5, y bydd pob awdurdod lleol wedi rhoi 1% o'u sector rhentu preifat ar les drwy'r cynllun, sef tua 2,000 o eiddo ledled Cymru (yn seiliedig ar yr 17 o Awdurdodau Lleol sydd wedi cofrestru hyd yn hyn). Yn ystod blwyddyn gyntaf Cynllun Lesio Cymru, roedd oddeutu 75% o'r eiddo a ymunodd â'r cynllun wedi bod yn wag yn flaenorol am fwy na chwe mis, sy'n helpu i gynyddu'r cyflenwad o eiddo sydd ar gael.

24. Bwriedir i'r cynllun ddarparu llety i'r bobl hynny sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref ac mae wedi'i gynllunio i adlewyrchu anghenion plant a rhieni a/neu ofalwyr, pobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a phobl eraill a all wynebu rhwystrau penodol.

25. Gan fod y cynllun yn darparu cartref hirdymor i unigolion, mae buddiannau amrywiol yn gysylltiedig â hynny, gan gynnwys iechyd corfforol a meddyliol gan ei fod yn darparu llety sefydlog ar gyfraddau lwfans tai lleol i aelwydydd ar incymau isel gan wneud y sector rhentu preifat yn hygyrch i'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ariannol ar hyn o bryd neu sy'n byw mewn llety o'r ansawdd gwaethaf yn y sector rhentu preifat. Mae darparu tai o ansawdd da, lle sicrheir hyd deiliadaeth, yn helpu i atal a lliniaru cyflyrau corfforol a meddyliol tenantiaid gan arwain at lai o bwysau ar y GIG a chymdeithas iachach.

26. Bydd rhoi mwy o sicrwydd o ran llety i denantiaid yn cyfrannu at Gymru Iach a mwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynus, a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Dangosir hyn gan fuddiannau iechyd clir cael cartref o ansawdd da sy'n fforddiadwy ac a leolir mewn man diogel.

27. Mae buddsoddi yn y sector rhentu preifat yn cyfrannu at yr economïau lleol, gan greu a chefnogi swyddi a chyfleoedd hyfforddi, a gwella iechyd, llesiant ac ansawdd bywyd pobl. Fel rhan o'r gwaith hwn eir ati i wella'r stoc dai ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac ansawdd y stoc dai honno yn y sector rhentu preifat. Mae cefnogi'r gwaith o ddarparu cartrefi fforddiadwy hefyd yn helpu i greu swyddi, cyfleoedd hyfforddi a chadwyni cyflenwi datblygu tai lleol.

28. Mae'r rhan fwyaf o gyllid Llywodraeth Cymru yn anelu at gefnogi'r rhai sydd â'r angen blaenoriaethol mwyaf am dai a mentrau i ddarparu tai newydd a/neu fforddiadwy. Mae'r cynllun hwn yn diwallu anghenion yn wahanol drwy geisio lleddfu'r pwysau ar y galw am dai cymdeithasol drwy ddefnyddio'r sector rhentu preifat a chynyddu opsiynau i ddiwallu anghenion tai brys.

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Math o Gronfa | Dyraniad 2024-25 £000oedd *Cyllideb Ddrafft Rhag 2023* |
|---|---|---|
| Byw'n Annibynnol | Cyfalaf | 19,500 |
| | Adnoddau | 5,103 |

29. Mae addasiadau yn fuddsoddiad ataliol effeithiol i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol a gwella iechyd a llesiant pobl hŷn, ac oedolion a phlant anabl. Gallant atal cwympiadau, lleihau'r angen i fynd i'r ysbyty a hwyluso'r broses o ryddhau cleifion, lleihau'r ddibyniaeth ar ofal, osgoi'r angen i symud i mewn i ofal preswyl a gwella ansawdd bywyd a llesiant unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn sylweddol.


30. Mae'r Rhaglen Byw'n Annibynnol yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau:

| |
|---|
| • Byddwn yn cynnal ein cyllid cyfalaf ar gyfer awdurdodau lleol o dan y rhaglen **Galluogi** fel y gallant ddarparu addasiadau canolig, megis lifftiau grisiau ac ystafelloedd gwlyb mynediad gwastad lawr grisiau, heb ddefnyddio prawf modd, fel y byddai'n ofynnol ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl. |
| • Byddwn yn parhau i gefnogi asiantaethau **Gofal a Thrwsio** fel y gallant gyflawni addasiadau bach yn gyflym fel bod modd rhyddhau pobl o ysbytai'r GIG yn amserol ac atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty yn ddiangen. Mae hyn yn lleddfu costau ar y GIG ac yn lleihau'r pwysau ar ofal cartref a gofal preswyl. |
| • Mae ein **Grant Addasiadau Ffisegol** yn galluogi cymdeithasau tai traddodiadol i wneud addasiadau ar gyfer tenantiaid mewn tai cymdeithasol ac yn lleihau'r pwysau ar gyllidebau cyfalaf awdurdodau lleol ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. |

31. Mae'r buddsoddiad hwn mewn tai o fudd sylweddol i'r GIG a gwasanaethau gofal, ac yn cyfrannu at yr agendâu cydraddoldebau a threchu tlodi. Drwy hwyluso byw'n annibynnol, caiff y rhaglen effaith hynod gadarnhaol ar bobl hŷn ac anabl.

32. Yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae darparu addasiadau er mwyn galluogi pobl i barhau i fyw'n annibynnol yn ymyriad ataliol hirdymor ac mae'n cynnwys pobl anabl yn y broses o wneud dewisiadau am eu bywydau. Mae'r cyfalaf hefyd yn fuddsoddiad mewn swyddi lleol gan mai contractwyr a chadwyni cyflenwi lleol a ddefnyddir fwyaf.

33. Mae angen yn parhau i gynyddu mewn termau real, o ganlyniad i COVID-19 a "COVID hir" ac wrth i gyfran y boblogaeth hŷn gynyddu'n gyflymach na disgwyliad oes iach. Rydym yn cofnodi nifer yr addasiadau a ddarperir bob blwyddyn. Mae'r siart ganlynol yn dangos sut mae'r galw wedi cynyddu dros y pedair blynedd diwethaf:




*data dangosol yw data 2022-23 gan nad ydynt wedi cael eu glanhau eto.

34. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer addasiadau, cyfarpar a thechnoleg cynorthwyol yn eu rhanbarthau drwy'r Gronfa Tai â Gofal, drwy eu cyllid dewisol a'r £3m a neilltuwyd i gefnogi Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer awdurdodau lleol.

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Math o Gronfa | Dyraniad 2024-25 £000oedd *Cyllideb Ddrafft Rhag 2023* |
|---|---|---|
| Diogelwch Adeiladau | Adnoddau | 4,500 |
| | Cyfalaf | 127,270 |

35. Mae Diogelwch Adeiladau yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae'n hollbwysig bod preswylwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi.

36. Nododd y gwersi a ddysgwyd o'r adolygiadau a'r ymholiadau feysydd i wella diogelwch adeiladau. Gwnaethom gynnig Cyfundrefn Diogelwch Adeiladau newydd sy'n cyflwyno diwygiad sylweddol i'r system bresennol.

37. Mae dau faes gwaith penodol yn Rhaglen Diogelwch Adeiladau Cymru:

| |
|---|
| • mynd i'r afael â materion diogelwch tân mewn adeiladau sy'n 11 metr neu fwy o uchder yn ein stoc adeiladau bresennol |
| • diwygio diogelwch adeiladau yn sylfaenol, sy'n ystyried sut y gallwn sicrhau bod adeiladau â sawl annedd mor ddiogel â phosibl yn y dyfodol. |

38. Mae cefnogi'r gwaith o adfer adeiladau sydd â diffygion diogelwch tân presennol wrth ymdrin â'r heriau sy'n gysylltiedig â dwyn y rhai sy'n gyfrifol i gyfrif yn gymhleth iawn, yn enwedig gan nad yw pob agwedd ar y materion hyn o fewn pwerau Llywodraeth Cymru.

39. Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau hyn, cadarnhawyd yn ddiweddar bod llwybr i adfer pob adeilad preswyl yng Nghymru sy'n 11 metr neu fwy o uchder. Nid yw hyn yn gyfyngedig i gladin yn unig, a Chymru yw'r unig wlad a all hawlio hyn.

40. Ers lansio Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru ym mis Medi 2021, nodwyd 194 o adeiladau y mae angen arolwg ymwthiol arnynt. Hyd yn hyn, mae 169 o arolygon wedi cael eu cwblhau, y talwyd amdanynt gan Lywodraeth Cymru. Mae angen trwyddedau er mwyn cael mynediad at y 25 o adeiladau sy'n weddill, ac mae'r gwaith o drefnu'r trwyddedau hyn yn mynd rhagddo.

41. Ochr yn ochr ag arolygon, rydym hefyd wedi mynd ati i negodi â datblygwyr er mwyn sicrhau eu bod yn talu i adfer materion diogelwch tân lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn cynnwys paratoi Cytundeb Datblygwyr a chontract ffurfiol.

42. Mae 11 o ddatblygwyr blaenllaw yn y DU wedi ymrwymo i'r contract, sy'n golygu eu bod yn cytuno i fynd i'r afael â materion diogelwch tân hanfodol i fywyd mewn adeiladau preswyl sy'n 11 metr neu fwy o uchder, a ddatblygwyd dros y 30 mlynedd diwethaf.

43. Mae'r contractau hyn yn nodi 130 o adeiladau, y cadarnhawyd bod angen gwaith ar 110 ohonynt hyd yn hyn.  Mae gwaith wedi dechrau ar 34 o adeiladau, a bwriedir dechrau gwaith ar 34 o adeiladau eraill yn 2024.

44. Mae gwaith hefyd wedi cael ei wneud i ystyried sut y gellir cefnogi datblygwyr llai, na allant fforddio costau llawn gwaith adfer o bosibl.  Mae hyn yn cynnwys ystyried y manteision cymdeithasol ac economaidd ehangach y mae'r cwmnïau hyn yn eu cyflwyno i'r cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt wrth ystyried eu gallu i gyfrannu at waith.

45. Yng Nghymru, mae 31 o adeiladau eraill hyd yma wedi cael eu nodi fel rhai amddifad, lle mae'r datblygwr wedi mynd i'r wal, ni ellir nodi pwy yw'r datblygwr, neu codwyd yr adeilad dros 30 o flynyddoedd yn ôl. Yn yr achosion hyn, nid oes datblygwr i gyfrannu at y gwaith a chaiff y gost hon ei thalu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.  Mae gwaith wedi dechrau ar dri o'r adeiladau hyn, ac mae rhaglenni gwaith manwl yn cael eu datblygu ar gyfer adeiladau eraill yn y garfan hon.

46. Yn olaf, mae gwaith i adfer adeiladau yn y sector cymdeithasol yn parhau.  Mae £39 miliwn arall wedi cael ei neilltuo i'r ffrwd waith hon.  Bydd cyfanswm o 131 o adeiladau yn cael budd o'r cyllid hwn, neu wedi cael budd ohono eisoes.

47. Gan y gall gwaith gymryd amser, rydym wedi lansio Cynllun Cymorth i Lesddeiliaid er mwyn cefnogi'r lesddeiliaid hynny sy'n wynebu caledi ariannol difrifol, gan gynnig cyngor ariannol annibynnol a, lle y bo'n briodol, yr opsiwn i werthu eu fflat a naill ai ei rentu'n ôl neu symud ymlaen.

48. Hyd yn hyn, mae'r cynllun wedi cael 22 o geisiadau.  Mae 11 wedi bod yn gymwys, ac mae dau werthiant wedi'u cwblhau. Mae saith ymgeisydd wrthi'n mynd drwy'r broses o brynu eiddo, mae un ymgeisydd yn darparu gwybodaeth bellach i'r swyddog sy'n ymdrin â'r achos, ac mae un yn cael ei adolygu.

49. Mae angen Cynllun Cymorth i Lesddeiliaid oherwydd yr anawsterau y mae rhai lesddeiliaid yn eu hwynebu wrth geisio gwerthu fflatiau y mae materion diogelwch tân yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr 2023, mae Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig yn cyhoeddi ei ganllawiau diwygiedig ar brisio cladin, sy'n cynnwys Cymru. Bydd y canllawiau hyn yn gam mawr i sicrhau cysondeb a thryloywder yn y broses brisio ar gyfer fflatiau y mae problemau cladin yn effeithio arnynt.

50. Bydd y canllawiau diwygiedig yn helpu priswyr a benthycwyr i wneud penderfyniadau a fydd, yn eu tro, yn lleihau drwgdeimlad ac oedi i'r rhai sy'n prynu ac yn gwerthu cartrefi a lesddeiliaid sy'n dymuno ailforgeisio eu cartrefi.

51. Yn ogystal â'r Cynllun Cymorth i Lesddeiliaid, bydd cymorth hefyd ar gael i lesddeiliaid o dan gynllun newydd i ddarparu cyngor cyfreithiol annibynnol i'r rheini sydd â phryderon am ddiogelwch tân eu hadeilad a'r gwaith sy'n cael ei wneud i'w adfer.

52. Bydd lesddeiliaid yn gallu cael gafael ar y cyngor hwn drwy'r Gwasanaeth Cynghori ar Lesddaliadau a fydd yn cyfeirio lesddeiliaid at gyngor cyfreithiol arbenigol am ddim. Bydd y gwasanaeth newydd hwn yn helpu i atal anghydfodau ac oedi a all fod yn gostus. Mae'r cynghorwyr cyfreithiol yn cael eu caffael ar hyn o bryd, gyda'r nod o lansio'r gwasanaeth hwn yn 2024.

53. Bydd Tîm Arolygu ar y Cyd, sy'n gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau gorfodi presennol, yn cynnig llwybr arall i wella diogelwch adeiladau i breswylwyr. Mae cwmni cyfyngedig wedi cael ei sefydlu i gynnal y Tîm Arolygu ar y Cyd ac mae'r broses recriwtio wedi dechrau. Mae gwaith wedi dechrau gydag awdurdodau lleol ac Awdurdodau Tân ac Achub er mwyn pennu methodoleg arolygu a rhaglen o adeiladau i'w harolygu.

54. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ymgysylltu â phreswylwyr wrth wraidd ein diwygiadau deddfwriaethol a gwnaeth ein papur gwyn amlinellu diwygiadau eofn a phwysig i atgyfnerthu llais preswylwyr er mwyn sicrhau eu bod yn chwarae mwy o ran mewn materion sy'n effeithio ar eu cartrefi ac y gallant fod yn hyderus bod eu hadeiladau'n ddiogel. Dylai pob preswylydd, ni waeth beth fo'i ddeiliadaeth, ddisgwyl bod ei lais yn cael ei glywed. Mae cyfathrebu ac ymgysylltu'n dda â phreswylwyr yn hanfodol, nid yn unig i ddiogelwch adeiladau ond hefyd i gydlyniant cymunedol a llesiant cymdeithasol. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r ymrwymiadau hyn.

55. Bydd y Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru), a gaiff ei gyflwyno yn ddiweddarach yn ystod tymor y Senedd hon, yn arwain at gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd ar gyfer adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yng Nghymru yn ystod eu cam meddiannu. Yn fras, y bwriad yw adeiladu ar y cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad ar Bapur Gwyn “Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru” er mwyn:

| |
|---|
| • Sefydlu system reoleiddio gadarn a chydlynol, a fydd yn dwyn y rhai sy'n gyfrifol i gyfrif ac yn sicrhau y caiff gwybodaeth gywir a chyfredol ei chadw am bob adeilad o fewn y cwmpas. |
| • Pennu llinellau atebolrwydd a chyfrifoldebau clir i'r rheini sy'n berchen ar adeiladau preswyl amlfeddiannaeth ac yn eu rheoli. |
| • Adolygu gofynion y Gorchymyn Diogelwch Tân ar gyfer anheddau domestig a sicrhau bod llais preswylwyr a gwaith ymgysylltu â phreswylwyr wrth wraidd y diwygiadau. |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Math o Gronfa | Dyraniad 2024-25 £000oedd *Cyllideb Ddrafft Rhag 2023* |
|---|---|---|
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Chyllid Gwaddol | Cyfalaf | 108,000 |

56. Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â landlordiaid cymdeithasol sy'n bartneriaid cyflawni, wedi buddsoddi biliynau o bunnau er mwyn cynnal ansawdd cartrefi cymdeithasol ledled Cymru a'i wella'n sylweddol dros y ddau ddegawd diwethaf, ers cyflwyno'r Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) wreiddiol. Erbyn 2022, mae'r holl dai cymdeithasol yng Nghymru wedi cyrraedd y Safon heriol ac mae landlordiaid cymdeithasol yn parhau i gynnal y Safon honno heddiw.

57. Cafodd fersiwn newydd o SATC ei lansio ym mis Hydref 2023. Mae'r safon newydd hon yn adeiladu ar gyflawniadau rhagorol y safon flaenorol, gan ganolbwyntio ar ofynion gwrthdlodi o hyd, gwella effeithlonrwydd ynni, gyda'r nod o roi mwy o arian ym mhocedi tenantiaid, a chefnogi eu cysur a'u llesiant. Yn wyneb yr argyfwng costau byw a'r argyfwng newid hinsawdd ni allwn aros yn ein hunfan a rhaid inni barhau i geisio sicrhau cynnydd a gosod safonau i fynd i'r afael â datgarboneiddio drwy amrywiaeth o fesurau mewn tai cymdeithasol presennol. Mae'r Safon Ansawdd Tai Cymru gyfredol eisoes wedi gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi cymdeithasol, sy'n fantais fawr yn yr argyfwng costau byw presennol. Mae SATC 2023 yn adeiladu ar hyn wrth barhau i ofyn am fwy o ran effeithlonrwydd ynni.

58. Fodd bynnag, mae'r safon newydd yn canolbwyntio ar fwy na datgarboneiddio yn unig oherwydd cyflwynwyd y gofyniad i ddarparu lloriau addas drwy'r cartref ar gyfer pob tenantiaeth newydd os oes angen ynghyd â safonau effeithlonrwydd dŵr, gan annog landlordiaid i ystyried cyfleoedd bioamrywiaeth ar y tir y maent yn berchen arno ac yn ei reoli.

59. Caiff £108m y flwyddyn ei wario drwy Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) i gynorthwyo landlordiaid cymdeithasol i ddarparu cartrefi cymdeithasol cynnes o ansawdd da, i rai o aelwydydd mwyaf agored i niwed Cymru. Mae hyn yn 35% o SATC i gyflawni a chynnal y safon, rhoddodd y sector 65% i mewn. Byddai unrhyw leihad mewn cyllid yn golygu bod landlordiaid yn gwario mwy i gynnal a chadw cartrefi presennol i safon SATC, gan beryglu eu gallu i gyflenwi cartrefi newydd a chyflawni mesurau diogelwch adeiladau.

60. Bydd SATC2023 yn canolbwyntio ar ddatgarboneiddio tai cymdeithasol ac mae rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru yn hwyluso gwaith profi a dysgu er mwyn llywio gwaith ôl-osod hirdymor ehangach ar bob cartref, ar draws pob deiliadaeth yng Nghymru. Bydd buddsoddiad parhaus SATC 2 o 2023 ynghyd â chyllid y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn parhau i roi hwb i ffyniant lleol drwy dwf BBaChau, a datblygu cadwyni cyflenwi.

61. Mae trefniadau cytundebol taliadau gwaddoli i Drosglwyddiadau Gwirfoddol ar Raddfa Fawr yn weithredol am 30 mlynedd i gyd, ac mae gan y rhan fwyaf o'r LCCau trosglwyddo stoc 15-20 mlynedd yn weddill ar eu cytundeb â Llywodraeth Cymru. Byddai torri'r cytundeb yn peri'r risg o Adolygiad Barnwrol yn syth.

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Math o Gronfa | Dyraniad 2024-25 £000oedd *Cyllideb Ddrafft Rhag 2023* |
|---|---|---|
| Eiddo Preswyl - Datgarboneiddio ac Ansawdd | Adnoddau | 1,673 |
| | Cyfalaf | 92,000 |

62. Mae'r 1.4m o gartrefi yng Nghymru yn gyfrifol am 27% o'r holl ynni a ddefnyddir ac am 15% o'n holl allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr ar ochr y galw. Mae ôl-osod y cartrefi hyn yn fesur ataliol sylfaenol oherwydd mae'n ceisio gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi er mwyn lleihau eu hallyriadau carbon i helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni targedau carbon cyfreithiol rwymol, yn ogystal â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddatgarboneiddio cartrefi preswyl drwy ôl-osod. Amcangyfrifir y bydd yn costio cyfanswm o ryw £15bn i ddatgarboneiddio'r stoc dai yn seiliedig ar amcangyfrifon Ysgol Pensaernïaeth Cymru, y mae mwy na £10bn ar gyfer y stoc tai cymdeithasol a chartrefi mewn tlodi tanwydd.

63. Mae cyllid refeniw yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r ganolfan Perfformiad Sero Net Tai sy'n darparu cymorth annibynnol i'r sector tai yng Nghymru. Caiff y ganolfan ei rhedeg fel model busnes 'Er Da' a bydd yn gwneud y canlynol:

| |
|---|
| • dwyn ynghyd arbenigedd mewn ymchwil a datblygu ym maes datgarboneiddio sy'n symud yn gyflym; |
| • darparu gwybodaeth dechnegol; |
| • cyngor ac arbenigedd ôl-osod sy'n benodol i dai; |
| • galluogi mynediad at unigolion cymwysedig a BBaChau sydd wedi'u hardystio i gynnal arolygon a gweithgareddau datgarboneiddio; |
| • gweithredu fel cyfrwng dysgu i gynhyrchu data ar y cynlluniau a gefnogir, er mwyn rhannu â sefydliadau eraill. Bydd hyn yn helpu'r sector tai ar draws pob deiliadaeth i wybod beth sy'n gweithio, a'r un mor bwysig – beth nad yw'n gweithio. |

64. Defnyddir cyllid refeniw i helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r agenda ddatgarboneiddio ar gyfer tai a chyflawni'r rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Hefyd defnyddir cyllid refeniw i dalu costau staff ychwanegol er mwyn cyflawni'r buddsoddiad cyfalaf sy'n deillio o ôl-osod cartrefi. Heb y cyllid hwn ni chaiff yr hyn i'w gyflawni o dan y Rhaglen Lywodraethu ei gyflawni. Er mwyn gwario buddsoddiad cyfalaf sylweddol mae angen sgiliau a goruchwyliaeth briodol er mwyn sicrhau bod gweithgareddau cyllido yn unol â'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol a rheoli risg. Mae'n allweddol bod buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn cyflawni gwerth o'r pwrs cyhoeddus.

65. Bydd ein buddsoddiad yn y maes hwn (refeniw a chyfalaf) yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ***"Parhau i wella cartrefi***

***presennol, gan ein helpu i fynd i’r afael â thlodi tanwydd, creu swyddi mawr eu hangen, cyfleoedd hyfforddi a chadwyni cyflenwi”***.

66. Caiff cyllid cyfalaf ei ddefnyddio'n bennaf i gefnogi'r sector tai cymdeithasol, drwy'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Ein huchelgais yw sicrhau bod yr holl landlordiaid tai cymdeithasol yn cymryd rhan yn y cynllun hwn fel y gallant integreiddio'r agenda ddatgarboneiddio yn eu rhaglenni cynnal a chadw cynlluniedig. Er mwyn cefnogi a hwyluso hyn, rydym wedi newid y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio o gynllun sy'n seiliedig ar gystadleuaeth i gynllun a ariennir drwy fformiwla, ac ar gyfer y ddwy flynedd ariannol flaenorol (2022/23 a 2023/24) a'r flwyddyn ariannol sydd ar ddod (2024/25) rydym wedi rhoi dyraniadau dangosol i landlordiaid er mwyn cefnogi eu prosesau cynllunio.

67. Bydd y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn cynnig cyllid bwlch i landlordiaid er mwyn helpu i hwyluso'r gwaith o ddatgarboneiddio'r stoc dai. Mae hwn yn faes cyllidebol allweddol gan fod y cyfraniad cyllid yn uniongyrchol gysylltiedig â chymryd camau i fynd i'r afael â'r agenda ddatgarboneiddio – gan felly effeithio ar yr amserlen ar gyfer targedau newid hinsawdd cyfreithiol rwymol a'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddatgarboneiddio rhagor o gartrefi drwy ôl-osod, yn ogystal ag effeithio ar y cynnydd tuag at fesurau datgarboneiddio SATC 2023.

68. Bydd y cyllid grant parhaus yn golygu y bydd yr adnoddau, y strategaethau a'r buddiannau economi sylfaenol a ddechreuwyd gan y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn parhau i gael eu datblygu a'u cynnal ar lefel sydd ei hangen er mwyn datblygu'r cyfleoedd i gyflawni yn erbyn ymrwymiadau adferiad economaidd gwyrdd y Cabinet.

69. Rhaid ystyried y buddsoddiad yn SATC ac ôl-osod er mwyn optimeiddio ar draws tai Cymru yn erbyn cefndir buddiannau sylweddol i lesiant, arbedion cost mewn gwasanaethau a thwf economaidd lleol. Gallai buddsoddi mewn dros filiwn o gartrefi y degawd hwn greu enillion economaidd mawr yn ogystal â lleihau ein hallyriadau a lefelau o dlodi tanwydd.

70. Mae ôl-osod y cartrefi hyn yn fesur ataliol sylfaenol am ei fod yn ceisio gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi er mwyn lleihau eu hallyriadau carbon i helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni targedau carbon cyfreithiol rwymol. Bydd ein strategaeth a'n buddsoddiad yn blaenoriaethu tai cymdeithasol, yn dangos arfer orau, yn datblygu cadwyni cyflenwi a sgiliau a fydd yn ysgogi'r farchnad ac yn llywio strategaeth ar gyfer rhaglenni ôl-osod cartrefi perchennog-ddeiliaid. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol, eu tenantiaid, BBaChau, cyrff cyllido a rhanddeiliaid allweddol eraill gydweithio er mwyn cyflawni canlyniadau sydd o fudd i bawb.

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Math o Gronfa | Dyraniad 2024-25<br>£000oedd<br>*Cyllideb Ddrafft Rhag 2023* |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Cronfa Rhyddhau Tir | Adnoddau | 2,250* |
| | Cyfalaf | 25,000** |

**Heb gynnwys Incwm Ad-dalu Llinell Wariant yn y Gyllideb o £3.800m*
***Heb gynnwys Incwm Ad-dalu Llinell Wariant yn y Gyllideb o £9.361m*

71. Bydd y cyllid refeniw a'r £100k ychwanegol ar gyfer 24/5 yn cefnogi'r Is-adran Tir i gyflawni uchelgais y Gweinidogion o gynyddu nifer y tai fforddiadwy/cymdeithasol a ddarperir ledled Cymru a chyflwyno "Safleoedd Enghreifftiol" yn ei phortffolio tir. Mae'r cyllid Cyfalaf a Refeniw yn hanfodol er mwyn i lif sefydlog o dir gael ei wireddu dros y 5 mlynedd nesaf er mwyn cyflenwi tua 2,600 o unedau fforddiadwy o safon.

72. Bydd y gyllideb fel y'i nodir (refeniw a chyfalaf) yn galluogi'r Is-adran Tir i fynd ar drywydd yr agenda o sicrhau'r gwerth gorau am arian i'r cyhoedd o'i phortffolio tir. Bydd yn gosod manyleb ar gyfer perfformiad sy'n gyson â'r Rhaglen Lywodraethu gan nodi ei safonau ar gyfer amcanion polisi, yn arbennig tai fforddiadwy, creu lleoedd, lleihau carbon, bioamrywiaeth, cadwyn gyflenwi, buddiannau cymunedol ac ati. Bydd y broses hon yn fodd i ddewis y cynllun gorau a chyflawni'r gwerth gorau am arian i'r cyhoedd.

73. Mae'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau yn ategu uchelgeisiau ymyriadau eraill a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yn ehangach, gyda'r nod o ddatgloi potensial datblygu tir cyhoeddus er budd cyhoeddus, yn enwedig er mwyn ateb y galw am dai cymdeithasol a fforddiadwy. Prif nod y cynllun yw cefnogi'r uchelgais am ddatblygiadau carbon isel, ynni effeithlon, ar raddfa fach. Mae gan y gronfa ddiddordeb arbennig mewn ceisiadau sy'n ceisio datgloi cynlluniau a fydd yn defnyddio dulliau adeiladu modern, technolegau arloesol ac yn cyflawni atebion yn gyflym.

74. Mae'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau yn rhaglen wedi'i thargedu a gaiff ei llywio gan gyfalaf sy'n canolbwyntio ar ryddhau tir cyhoeddus lle mae gwaith datblygu wedi arafu. Bwriedir iddi alluogi cyrff cyhoeddus a phartneriaid sector cyhoeddus i oresgyn rhwystrau i ddatblygu h.y. pontio'r "bwlch dichonoldeb" a chyflawni newid.

75. Mae'r cyllid cyfalaf hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r targed o *20,000 o gartrefi i'w rhentu yn y sector cymdeithasol* drwy sicrhau cartrefi fforddiadwy cynaliadwy sydd wedi'u cynllunio'n dda ar dir y sector cyhoeddus, gan gynnwys ein portffolio tir ein hunain, lle bydd yn ceisio sefydlu meincnod newydd ar gyfer datblygiadau preswyl. Cyflawnir pob cynllun mewn cyd-destun creu lleoedd, gyda'r nod o hyd at 50% o gartrefi fforddiadwy a mandadu safonau gofod a llywio arloesedd mewn atebion ynni carbon isel a Dulliau Adeiladu Modern. Bydd y cyllid cyfalaf hefyd yn helpu i sicrhau bod llif o safleoedd ar gael er mwyn parhau i ddatblygu cartrefi fforddiadwy ar dir y sector cyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd lle gall diffyg yn y farchnad fod wedi rhwystro hyn.

76. Mae cryn dipyn o waith yr Is-adran Tir a'r cyllid cysylltiedig yn cyd-fynd ag effeithiau'r Grant Tai Cymdeithasol a'r targed o 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel i'w rhentu. Bwriedir i'r holl gynlluniau a gyflawnir o bortffolio'r Is-adran Tir gyflenwi cartrefi y bydd eu hanner yn fforddiadwy. Bydd nifer o'r cynlluniau hefyd yn cynnwys, er enghraifft, ysgol gynradd newydd, man agored cyhoeddus a chyfleusterau cymunedol. Bwriedir i'r cynlluniau osod meincnod newydd ar gyfer effeithlonrwydd ynni a dylunio a byddant yn seiliedig ar gyflawni Dim Carbon a gwell safonau lle. Bwriedir hefyd hyrwyddo dulliau adeiladu modern, yn enwedig gweithgynhyrchu oddi ar y safle. Bydd y datblygiadau hefyd yn anelu at hwyluso hunanadeiladu a, lle bo'n briodol, gefnogi datblygiadau a arweinir gan y gymuned.

77. Er enghraifft, bydd y datblygiad yn Cosmeston yn cyfrannu tua 250 o gartrefi at y targed penodol hwn ond bydd hefyd yn cyflenwi ysgol gynradd newydd, sydd eto yn gyson â'r amcanion Llesiant a geir yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n ceisio buddsoddi mwy nag £1.5bn yng ngham nesaf Ysgolion yr 21ain Ganrif a datblygu ysgolion carbon sero net ac agor cyfleusterau ysgolion i gymunedau lleol. Mae'r cynigion ar gyfer Cosmeston yn cynnwys cyfleusterau a fydd ar gael i'r gymuned leol ac yn darparu canolfan ar gyfer gweithgareddau lleol, ac maent wedi'u cynllunio i roi'r syniad o greu lle wrth wraidd popeth, lleihau anghydraddoldeb a chefnogi amcanion llesiant.

78. Bydd y cyllid ychwanegol yn galluogi'r Is-adran Tir i gyflawni uchelgeisiau'r gweinidogion lle mae'r Is-adran Tir yn gyfrifol am gynyddu nifer y tai fforddiadwy/cymdeithasol ledled Cymru a chyflwyno "Safleoedd Enghreifftiol" yn ei phortffolio tir. Bydd hefyd yn galluogi holl botensial y portffolio tir i gael ei wireddu dros y 5 mlynedd nesaf o ran cyflenwi tai fforddiadwy o ansawdd da. Gallai'r safleoedd sydd yn yr arfaeth gyflenwi tua 2,600 o unedau tai dros y 5 mlynedd nesaf

79. Mae £1m wedi'i dyrannu ar sail reolaidd fel rhan o Gytundeb Cydweithio Plaid Cymru i "***sefydlu Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol, i gefnogi cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy"***. Mae cytundeb cyffredinol bellach ar y gwaith uniongyrchol y mae angen ei wneud ac mae'r rhaglen waith yn cael ei datblygu.

80. Ar hyn o bryd, mae swyddogion wedi ceisio cydbwyso cynnydd a chamau gweithredu y gellir eu cyflawni o fewn cyfnod y Cytundeb Cydweithio a'r gyllideb gysylltiedig, ond maent hefyd yn bwriadu parhau i ddiffinio swyddogaethau tymor canolig a thymor hwy Unnos a'r camau gweithredu canlyniadol sydd eu hangen i hwyluso'r gweithgareddau hyn yn ystod Blynyddoedd 1 a 2 Cynllun Busnes Unnos. Bydd gwaith hefyd yn mynd rhagddo i benderfynu'n derfynol ar y strwythur cwmni priodol ar gyfer Unnos.

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Math o Gronfa | Dyraniad 2024-25 £000oedd *Cyllideb Ddrafft Rhag 2023* |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Iechyd a Thai | Cyfalaf | 60,500 |

81. Bydd ein buddsoddiadau yn y Gronfa Tai â Gofal yn helpu i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, sef ***“Cefnogi datblygiadau tai arloesol i ddiwallu anghenion gofal”*** ac ***“Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny’n ymarferol”***.

82. Mae'r rhaglen gyllid hon yn darparu tai a llety i ddiwallu anghenion gofal h.y. llety gofal ychwanegol a mathau eraill o lety ar gyfer pobl hŷn a phobl â dementia; byw â chymorth i oedolion ag anableddau corfforol a dysgu a/neu Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig a phroblemau iechyd meddwl; llety agos i gartref i blant ag anghenion cymhleth; a lleoliadau gofal canolraddol.

83. Bydd cynyddu graddfa a chyflymder buddsoddiad mewn tai a llety arbenigol yn helpu i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio ac sy'n fwy anabl, yn ogystal â gwella bywydau plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth ac oedolion ag anableddau dysgu.

84. Ein prif nod fydd cynyddu'r stoc bresennol o dai â gofal. Mae'n debygol mai tai Gofal Ychwanegol i bobl hŷn fydd y mwyafrif o'r unedau hyn, ynghyd â datblygiadau ar raddfa lai er mwyn darparu llety byw â chymorth i oedolion ag anabledd dysgu. Unedau tai cymdeithasol â thenantiaid yw'r rhain a fydd yn cyfrif tuag at gyflawni'r targed o ***20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel i'w rhentu***.

85. Byddwn yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn llety preswyl ar raddfa fach i blant ag anghenion mwy dwys er mwyn cadw plant a phobl ifanc yn agosach at eu cartrefi ac osgoi lleoliadau y tu allan i'r sir/y tu allan i'r wlad. Byddwn yn buddsoddi mewn amrywiaeth o lety byrdymor a thymor canolig yn y gymuned, megis llety cam-i-fyny/cam-i-lawr, llety adsefydlu a llety trosiannol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal a'r rhai sydd ag anghenion iechyd meddwl a llesiant emosiynol.

86. Hyd yn hyn, cymeradwywyd £57 miliwn o gyllid y Gronfa Tai â Gofal ar gyfer dros 80 o gynlluniau. Llety preswyl i blant ag anghenion cymhleth yw 32 o'r cynlluniau hyn, a gefnogir gan £21 miliwn o gyllid y Gronfa Tai â Gofal. Mae'r buddsoddiad hwn yn cefnogi ein hymrwymiad i ddileu elw o ofal plant. Bydd yn cael effaith sylweddol a chadarnhaol ar lesiant hirdymor plant agored i niwed yng Nghymru, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Math o Gronfa | Dyraniad 2024-25 £000oedd *Cyllideb Ddrafft Rhag 2023* |
|---|---|---|
| Cymorth Prynu | Cyfalaf | 4,000 |

87. Mae ein cynllun Cymorth Prynu wedi'i gynllunio i gefnogi perchentyaeth ecwiti a rennir ac mae ar gael ar gartrefi presennol. Mae Cymorth Prynu yn bennaf yn cynorthwyo pobl a hoffai brynu cartref presennol, yn eu cymuned, ond nad oes ganddynt yr adnoddau ariannol llawn i allu gwneud hynny, gan felly gefnogi pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Mae'r cynllun yn un profedig sydd wedi cael ei gynnig gan Lywodraeth Cymru, ar raddfa fach, ers sawl blwyddyn ac mae'n boblogaidd mewn ardaloedd gwledig, lle nad yw cartrefi newydd sbon ar gael yn hawdd.

88. Gan adeiladu ar fuddsoddiadau blaenorol o £9.7m mewn 178 o fenthyciadau Cymorth Prynu yn ystod tymor diwethaf y Llywodraeth, mae'r gyllideb ddrafft hon yn ymrwymo i fuddsoddi £4m arall yn y cynllun. I ddechrau bydd y buddsoddiad yn hwyluso argaeledd y cynllun yn yr ardal beilot arfaethedig ar gyfer ail gartrefi, gyda'r cynllun yn cael ei gyflwyno'n ehangach mewn rhannau eraill o Gymru. Mae gwaith wedi mynd rhagddo gyda Chyngor Gwynedd, a'i asiant cyflenwi, Grŵp Cynefin, i deilwra'r cynllun er mwyn diwallu anghenion lleol yn well yn yr ardal beilot.

89. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi'n glir ein hymrwymiad i fynd i'r afael â fforddiadwyedd mewn ardaloedd lle ceir nifer mawr o ail gartrefi a datblygu ***Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg***. Bydd Cymorth Prynu yn rhan o'r pecyn i fynd i'r afael â materion fforddiadwyedd drwy dargedu a theilwra rhaglenni tai presennol. Yn 2022/23, gwnaethom fuddsoddi £2.5m yn y cynllun Cymorth Prynu a gefnogodd 35 o fenthyciadau Cymorth Prynu ledled Cymru, gan gynnwys pump yn ardal Dwyfor.

90. Mae'r cynllun yn cynnig cymorth o 30-50% o bris prynu cartref ledled Cymru, gyda chymorth o 10-50% o'r pris prynu yn cael ei dreialu yn yr ardal beilot, a ad-delir pan werthir y cartref. Caiff Cymorth Prynu ei reoli gan awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a all osod gofynion ychwanegol ar ymgeiswyr megis yr angen am gysylltiad lleol. Felly ystyrir bod y cynllun yn allweddol i gefnogi'r gwaith o liniaru materion fforddiadwyedd mewn rhai cymunedau y mae niferoedd mawr o ail gartrefi yn cael effaith sylweddol arnynt yn aml.

91.

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Math o Gronfa | Dyraniad 2024-25 £000oedd *Cyllideb Ddrafft Rhag 2023* |
|---|---|---|
| Grantiau Tai Cymdeithasol* | Cyfalaf | 325,000* |

**Heb gynnwys Cyfalaf Trafodiadau Ariannol o £40.000m*

92. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddarparu 20,000 o gartrefi i'w rhentu yn y sector cymdeithasol er mwyn mynd i'r afael â phrinder tai ac allyriadau nwyon tŷ gwydr y genedl, ynghyd ag ymrwymiad i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu cyflym.

93. Bydd hyn yn galluogi unigolion ac aelwydydd i gael gafael ar gartrefi o ansawdd uchel sy'n fforddiadwy i'w rhentu a'u rhedeg yng Nghymru. Mae cartrefi cymdeithasol yn gosod meincnod ansawdd; disgwyliwn safonau uchel o ran lle, ansawdd, effeithlonrwydd ynni a chreu lleoedd gan sector tai cymdeithasol Cymru.

94. Rydym wedi gweithredu'r Model Hyfywedd Safonol er mwyn gallu canolbwyntio ar werth am arian. Fodd bynnag, o ystyried y pwysau economaidd presennol, mae gan bob cynllun o fewn y rhaglen fwlch hyfywedd ariannol llawer uwch ac mae lefelau grantiau wedi cynyddu'n sylweddol.

95. Grant Tai Cymdeithasol:

| |
|---|
| • Darparu cartrefi sy'n gynnes, yn ddiogel, yn effeithlon o ran ynni ac o ansawdd uchel i'r bobl sydd eu hangen fwyaf, gan helpu i leihau tlodi tanwydd. |
| • Cefnogi'r economi sylfaenol, y diwydiant adeiladu a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru, gan gynnig cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth, gan gynnwys swyddi a phrentisiaethau. |
| • Cefnogi'r newid trawsffurfiol o wasanaethau digartrefedd i broses ailgartrefu gyflym, sy'n golygu bod pobl ddigartref yn cael eu cynorthwyo'n gyflym i symud yn ôl i gartrefi parhaol addas. |
| • Helpu pobl hŷn a'r rhai sydd angen gofal ychwanegol i osgoi dibynnu ar ofal preswyl neu hirdymor, gan leihau'r baich ar y GIG. |
| • Darparu tai cymdeithasol o ansawdd da sy'n cael effaith sylweddol ar bobl a chymunedau, gan helpu i gyflawni ein nod hirdymor o roi terfyn ar ddigartrefedd, gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl, a sicrhau bod y rhai ag anghenion cymhleth yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Math o Gronfa | Dyraniad 2024-25 £000oedd *Cyllideb Ddrafft Rhag 2023* |
|---|---|---|
| Tai'r Farchnad a Chynlluniau Eraill | Cyfalaf | 25,000* |

**Heb gynnwys Cyfalaf Trafodiadau Ariannol o £40.000m ac Incwm Ad-dalu o £2.830m*

96. Bydd dyraniad ar gyfer y Cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol yn cyfrannu at nod y rhaglen o ailddefnyddio hyd at 2,000 o gartrefi gwag. Mae 22,457 o eiddo gwag hirdymor yng Nghymru ar hyn o bryd (2023-24). Nid yw'r ffigur hwn wedi newid llawer dros y pum mlynedd blaenorol. Drwy'r grant hwn, rydym am fynd i'r afael ag eiddo gwag anodd sy'n wag o hyd ac nid y rhai sydd ond yn wag dros dro (er enghraifft, sydd mewn cyflwr da ac ar y farchnad) ac felly bydd angen i eiddo fod yn wag am o leiaf 12 mis er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cynllun. Bydd y gwaith hwn hefyd yn cyfrannu at argymhelliad 9 Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Eiddo Gwag i ystyried y cymorth

y mae'n ei ddarparu i gynlluniau sy'n cynnig cymorth ariannol i berchnogion eiddo gwag.

97. Bydd cyllid ar gael i dalu cost gwaith adfer er mwyn sicrhau bod eiddo yn addas i fyw ynddo ac, yn unol â'n hymrwymiadau o ran yr hinsawdd, bydd gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn ofynnol fel rhan o'r gwaith a wneir ar yr eiddo. Bydd y cyllid yn amodol ar yr ymgeisydd yn byw yn yr eiddo am 5 mlynedd o leiaf.

98. Gan fod cartrefi gwag yn faes cyfrifoldeb a rennir rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, er mwyn cymryd rhan yn y cynllun, bydd angen i awdurdodau lleol ddarparu cyfraniad ariannol o 10% o'u dyraniadau tybiannol bob blwyddyn.

99. Er bod y llywodraeth hon yn ymrwymedig i dai cymdeithasol, mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi bod yn glir bod angen parhaus yng Nghymru am dai'r farchnad, sy'n hanfodol i greu safleoedd tai deiliadaeth gymysg er mwyn creu cymunedau gwirioneddol gynaliadwy.

100. Er bod y cynllun ar gyfer perchen-feddianwyr yn bennaf, mae ar gael i awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Grwpiau Tai Cymunedol hefyd ar gyfer eiddo gwag y maent yn eu caffael er mwyn eu hailddefnyddio fel tai fforddiadwy.

101. Mae cartrefi gwag yn bla ac yn niwsans yn ein cymunedau. Maent yn denu ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn peri problemau o ran iechyd yr amgylchedd ac yn cyfrannu at ddirywiad cyffredinol yn eu cymdogaethau, ond maent hefyd yn wastraff o adnoddau. Mae hyn yn arbennig o rwystredig pan fo tai yn brin.

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Math o Gronfa | Dyraniad 2024-25 £000oedd *Cyllideb Ddrafft Rhag 2023* |
|---|---|---|
| Adfywio | Adnoddau | 671* |
| | Cyfalaf | 40,000** |

**Heb gynnwys Incwm Ad-dalu Llinell Wariant yn y Gyllideb o £14.000m*
***Heb gynnwys £10.000m o Gyfalaf Trafodiadau Ariannol*

102. Mae buddsoddiad adfywio Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ganol trefi a dinasoedd er mwyn cryfhau eu defnydd cymdeithasol, diwylliannol a gwasanaeth cyhoeddus gan felly greu mannau cynaliadwy. Fe'i cyflawnir drwy ddull creu lleoedd integredig o dan y rhaglen Trawsnewid Trefi, sy'n darparu cymorth hyblyg mewn ymateb i'r materion a'r heriau a wynebir gan drefi unigol ledled Cymru, gan ystyried effeithiau posibl newid hinsawdd yn y dyfodol ac ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy. Ei amcan cyffredinol yw cefnogi twf cynaliadwy trefi a dinasoedd, a'u trawsnewidiad i leoedd y gall pobl fyw, gweithio, dysgu a hamddena ynddynt.

103. Caiff canol trefi eu hadfywio mewn modd cynaliadwy drwy dri amcan:

***Ffocws ar Ganol y Dref yn Gyntaf***

| |
|---|
| • Adeiladu'r achos cryfaf dros egwyddorion 'Canol y Dref yn Gyntaf' o fewn y llywodraeth a'r sector cyhoeddus yn ehangach, a herio datblygiadau 'y tu allan i drefi' |
| • Gweithio ar draws adrannau'r llywodraeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau strategol a fydd yn adfywio canol trefi, gan sicrhau'r effaith fwyaf posibl drwy gydgysylltu strategol ar lefel Llywodraeth Cymru a lefel leol ym meysydd Trafnidiaeth, Iechyd ac Addysg, yn arbennig |

***Cyflawni newid cadarnhaol i leoedd***

| |
|---|
| • Buddsoddi mewn seilwaith a fydd yn adfywio canol trefi er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy |
| • Ailddychmygu'r stryd fawr er mwyn cyflawni buddiannau ehangach a chreu lleoedd i gefnogi canol trefi mewn cyd-destun lleol a rhanbarthol |

***Adeiladu capasiti lleol i gyflawni gwaith adfywio***

| |
|---|
| • Ymgysylltu â rhanddeiliaid ym meysydd datblygu ac adfywio er mwyn profi a gweithredu prosesau adfywio canol trefi sy'n addas at y diben |
| • Sicrhau bod gan awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni lleol eraill y gallu a'r adnoddau i gyflawni gwaith adfywio drwy fwy o gymorth gan y llywodraeth, gan gynnwys ffyrdd mwy cydweithredol o weithio a chyflwyno adnoddau digidol. |

104. Mae ein buddsoddiadau yn canolbwyntio ar ganol trefi er mwyn lliniaru effaith y dirywiad cyflym a brofwyd gan lawer o drefi dros nifer o flynyddoedd a'i atal rhag gwaethygu. Unwaith y ceir dirywiad gwelir yn aml gynnydd cysylltiedig mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, trosedd a thlodi. Mae'r gost i gymunedau yn ogystal â'r pwrs cyhoeddus yn cynyddu. Mae methiant canol trefi i ddiwallu anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y cymunedau a wasanaethir ganddynt yn aml yn cael effaith anghymesur ar bobl hŷn a'r rhai ar incwm is, sy'n cael llai o gyfle i gael gafael ar wasanaethau mewn mannau eraill.

105. Ein nod gydag adfywio yw mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a brofir yng nghanol trefi drwy fuddsoddi mewn lleoedd sy'n tanberfformio ar hyn o bryd, yn economaidd ac o ran llesiant, er mwyn gwella eu perfformiad. Wrth wneud hynny, anelwn at wella lefelau cyffredinol o ffyniant a llesiant yng Nghymru gyfan.

106. Bydd ein buddsoddiad mewn Adfywio yn helpu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau canlynol yn y Rhaglen Lywodraethu:

| |
|---|
| • ***Galluogi canol ein trefi i ddod yn fwy ystwyth yn economaidd drwy helpu busnesau i weithio’n gydweithredol, cynyddu eu cynnig digidol a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol, gan gynnwys gwasanaethau cyflenwi lleol.*** |
| • ***Datblygu uwchgynlluniau ar gyfer trefi a’r stryd fawr.*** |
| • ***Grymuso cymunedau i fod â mwy o ran mewn cynlluniau adfywio lleol.*** |
| • ***Creu mwy o fannau gwyrdd cymunedol yng nghanol trefi.*** |
| • ***Addasu mannau cyhoeddus ar gyfer digwyddiadau awyr agored, marchnadoedd, gwerthwyr stryd, parciau dros dro a pharciau bach.*** |
| • ***Cynnig cefnogaeth i ddatblygu cofrestr o adeiladau gwag a helpu busnesau bach i symud i siopau gwag.*** |

## Atodiad A

| CYLLIDEB ADNODDAU | | | £'000 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Rhif y Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Derfynol 2023-24 Chwef 2023 Ailddatganwyd** | **Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Chwef 2023 Ailddatganwyd** | **Cyllideb Ddrafft 2024-25 Rhagfyr 2023** |
| **Atal Digartrefedd** | 1120 | Cymorth ac Atal Digartrefedd | 46,147 | 51,147 | 214,910 |
| | **Cyfanswm Atal Digartrefedd** | | **46,147** | **51,147** | **214,910** |
| **Byw'n Annibynnol** | 1100 | Polisi Tai | 6,471 | 6,471 | 1,368 |
| | 1083 | Grant Cymorth Tai | 166,763 | 166,763 | 0 |
| | 1285 | Byw'n Annibynnol | 0 | 0 | 5,103 |
| | **Cyfanswm Byw'n Annibynnol** | | **173,234** | **173,234** | **6,471** |
| **Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel** | 1065 | Eiddo Preswyl - Datgarboneiddio ac Ansawdd | 2,173 | 2,673 | 1,673 |
| | **Cyfanswm Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel** | | **2,173** | **2,673** | **1,673** |
| **Diogelwch Adeiladau** | 2255 | Diogelwch Adeiladau | 6,000 | 6,500 | 4,500 |
| | **Cyfanswm Diogelwch Adeiladau** | | **6,000** | **6,500** | **4,500** |
| **Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy** | 0984 | Grant Cyllid Tai | 13,100 | 13,100 | 4,100 |
| | **Cyfanswm Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy** | | **13,100** | **13,100** | **4,100** |
| **Cyllid Refeniw Tai** | 1181 | Cyllid Refeniw y Rhaglen Dai | 173 | 173 | 173 |
| | **Cyfanswm Cyllid Refeniw Tai** | | **173** | **173** | **173** |
| **Yr Is-adran Tir** | 6410 | Cronfa Rhyddhau Tir | 2,150 | 2,250 | -1,550 |
| | **Cyfanswm yr Is-adran Tir** | | **2,150** | **2,250** | **-1,550** |
| **Adfywio** | 4151 | Adfywio | 1,271 | 1,671 | -13,329 |
| | 4162 | Awdurdod Harbwr Caerdydd | 5,400 | 5,400 | 5,400 |
| | **Cyfanswm Adfywio** | | **6,671** | **7,071** | **-7,929** |
| **NEWID HINSAWDD, TAI AC ADFYWIO - CYFANSWM Y GYLLIDEB ADNODDAU** | | | **249,648** | **256,148** | **222,348** |

| CYLLIDEB GYFALAF | | | £'000 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Rhif y Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Derfynol 2023-24 Chwef 2023 Ailddatganwyd** | **Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Chwef 2023 Ailddatganwyd** | **Cyllideb Ddrafft 2024-25 Rhagfyr 2023** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Byw'n Annibynnol** | 1285 | Byw'n Annibynnol | 19,500 | 19,500 | 19,500 |
| | 1182 | Sector Rhentu Preifat | 1,500 | 1,500 | 1,500 |
| | **Cyfanswm Byw'n Annibynnol** | | **21,000** | **21,000** | **21,000** |
| **Y Gronfa Gofal Integredig** | 0986 | Iechyd a Thai | 60,500 | 60,500 | 60,500 |
| | **Cyfanswm y Gronfa Gofal Integredig** | | **60,500** | **60,500** | **60,500** |
| **Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel** | 1061 | Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Chyllid Gwaddol | 108,000 | 108,000 | 108,000 |
| | 1065 | Eiddo Preswyl - Datgarboneiddio ac Ansawdd | 92,000 | 92,000 | 92,000 |
| | **Cyfanswm Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel** | | **200,000** | **200,000** | **200,000** |
| **Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy** | 0982 | Grantiau Tai Cymdeithasol | 370,000 | 365,000 | 365,000 |
| | 0989 | Tir ar gyfer Tai - Ad-dalu | -1,930 | -3,000 | -3,000 |
| | **Cyfanswm Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy** | | **368,070** | **362,000** | **362,000** |
| **Diogelwch Adeiladau** | 2255 | Diogelwch Adeiladau | 135,000 | 165,000 | 127,670 |
| | **Cyfanswm Diogelwch Adeiladau** | | **135,000** | **165,000** | **127,670** |
| **Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai'r Farchnad** | 0987 | Tai'r Farchnad a Chynlluniau Eraill | 67,000 | 65,000 | 65,000 |
| | 0987 | Tai'r Farchnad a Chynlluniau Eraill - Ad-dalu | -2,440 | -2,830 | -2,830 |
| | 0980 | Cymorth Prynu | 2,500 | 4,000 | 4,000 |
| | **Cyfanswm Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai'r Farchnad** | | **67,060** | **66,170** | **66,170** |
| **Yr Is-adran Tir** | 6410 | Cronfa Rhyddhau Tir | 20,000 | 25,000 | 25,000 |
| | 6410 | Cronfa Rhyddhau Tir - Ad-dalu | 0 | -9,361 | -9,361 |
| | **Cyfanswm yr Is-adran Tir** | | **20,000** | **15,639** | **15,639** |
| **Adfywio** | 4151 | Adfywio | 50,000 | 50,000 | 50,000 |
| | **Cyfanswm Adfywio** | | **50,000** | **50,000** | **50,000** |
| **NEWID HINSAWDD – TAI AC ADFYWIO - CYFANSWM Y GYLLIDEB GYFALAF** | | | **921,630** | **940,309** | **902,979** |

| **CYLLIDEB ADNODDAU - Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | **£'000** | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Rhif y Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Derfynol 2023-24 Chwef 2023 Ailddatganwyd** | **Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Chwef 2023 Ailddatganwyd** | **Cyllideb Ddrafft 2024-25 Rhagfyr 2023** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai'r Farchnad** | 0981 | Tai'r Farchnad - AME | -3,035 | -2,527 | -5,398 |
| | **Cyfanswm Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai'r Farchnad** | | **-3,035** | **-2,527** | **-5,398** |
| **NEWID HINSAWDD - CYFANSWM CYLLIDEB AME ADNODDAU** | | | **-3,035** | **-2,527** | **-5,398** |

Memorandwm ar Gynigion y Gyllideb Ddrafft
ar gyfer Materion Gwledig ar gyfer 2024-25

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – 18 Ionawr 2024

## 1.0 Diben

1.1 Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y cynigion ar gyfer Prif Grŵp Gwariant (MEG) Materion Gwledig a amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25, a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor hefyd. Mae'r crynodeb o strwythur y gyllideb i'w weld yn Atodiad A o'r papur tystiolaeth.

## 2. Crynodeb o Newidiadau i'r Gyllideb

1.2 Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r cynlluniau sydd wedi'u crynhoi ar lefel uchel yn ôl maes busnes ar gyfer y MEG Materion Gwledig a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25.

Mae cyfanswm y gyllideb adnoddau wedi'i grynhoi yn Nhabl 1 isod:

| TABL 1: Trosolwg o'r Gyllideb Adnoddau | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb Derfynol Ailddatganedig 2023-24 £'000** | **Cyllideb Ddangosol 2024-25 £'000** | **Newid £'000** | **% Newid** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000** | **Newid £'000** | **% Newid** |
| **Refeniw** | | | | | | | |
| Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd | 354,215 | 376,215 | 22,000 | 6% | 303,275 | (72,940) | -19% |
| Diogelu a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid | 41,499 | 41,499 | 0 | 0% | 41,499 | 0 | 0% |
| Monitro Materion Gwledig a'r Strategaeth Ymadael â'r UE | 3,389 | 3,389 | 0 | 0% | 2,639 | (750) | -22% |
| Yr Amgylchedd, Rheoli Bywyd Gwyllt a Mannau Gwyrdd Cymunedol | 1,586 | 1,586 | 0 | 0% | 1,586 | 0 | 0% |
| **Is-gyfanswm** | **400,689** | **422,689** | **22,000** | **5%** | **348,999** | **(73,690)** | **-17%** |
| **Heb fod yn arian parod** | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd | 10,817 | 10,817 | 0 | 0% | 10,817 | 0 | 0% |
| **Is-gyfanswm** | **10,817** | **10,817** | **0** | **0%** | **10,817** | **0** | **0%** |
| **CYFANSWM** | **411,506** | **433,506** | **22,000** | **5%** | **359,816** | **- 73,690** | **-17%** |

## Adnoddau

Yn 2024-25, mae'r gyllideb Refeniw yn gostwng £51.7m yn erbyn Cyllideb Derfynol Ailddatganedig 23-24. Cynhaliwyd ymarfer ailflaenoriaethu ar draws Llywodraeth Cymru gyfan dan arweiniad y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol er mwyn targedu dyraniadau i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen, y Rhaglen Lywodraethu a helpu'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan yr Argyfwng Costau Byw. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso yn rhannol gan gynnydd yn y gyllideb gyfalaf o £23m i ail-alinio gweithgarwch ar draws y cynlluniau buddsoddi gwledig.

## Cyfalaf

Nodir dyraniad y gyllideb gyfalaf o £60.0m, sef cynnydd o £22.8m ar gyfer 2024-25, yn Nhabl 2 fel a ganlyn:

Mae cyfanswm y gyllideb gyfalaf wedi'i grynhoi yn Nhabl 2 isod:

**TABL 2: Trosolwg o'r Gyllideb Cyfalaf**

| | Cyllideb Derfynol Ailddatganedig 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddangosol 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf Cyffredinol | | | | | | | |
| Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd | 37,200 | 37,000 | (200) | -1% | 60,000 | 23,000 | 62% |
| **CYFANSWM** | **37,200** | **37,000** | **(200)** | **-1%** | **60,000** | **23,000** | **62%** |

1.3 Darperir dadansoddiad o'r MEG Materion Gwledig yn ôl maes gwariant, cam gweithredu a BEL ar gyfer 2024-25 a blynyddoedd yn y dyfodol yn Atodiad A. Darparwyd esboniad naratif tryloyw i egluro cynnydd a gostyngiadau, lle nad ydynt wedi'u cynnwys yn y papur tystiolaeth. Dim ond y cyllidebau sydd wedi'u craffu fel rhan o'r pwyllgor hwn sy'n cael sylw ynddo.

## 2.0 Monitro cyllidebau

2.1 Mae pob cyllideb yn parhau i gael ei monitro a'i herio bob mis yn ystod 2023-24, er mwyn ystyried y rhagolygon diweddaraf a symudiadau'r gyllideb yn ôl yr angen. Rydw i'n derbyn diweddariadau ariannol rheolaidd ar y

rhagolygon ar gyfer y MEG er mwyn sicrhau bod cyllidebau'n parhau ar y trywydd iawn i gyflawni fy mlaenoriaethau. Rydym yn monitro'r sefyllfa'n ofalus iawn er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei fuddsoddi lle mae ei angen fwyaf gan gefnogi ein blaenoriaethau ar yr un pryd.

## 3.0 Sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau cyllidebol.

3.1 Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 wedi sefydlu'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) i fod yn sail i bob math o gymorth amaethyddol yn y dyfodol (ac eithrio Cynllun y Taliad Sylfaenol drwy gydol y Cyfnod Pontio 2025-2029). Mae'r fframwaith SLM yn cynnwys pedwar amcan SLM: 1) Cefnogi cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy, 2) lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd, 3) cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu, a 4) gwarchod a gwella adnoddau cefn gwlad a diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a’u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso eu defnydd. Nid yw'r pedwar amcan hyn yn hierarchaidd a rhaid eu hystyried gyda'i gilydd.

3.2 Mae'r Ddyletswydd SLM sydd wedi'i chynnwys yn y Ddeddf yn gosod rheidrwydd ar Weinidogion Cymru i ystyried sut mae cymorth yn y dyfodol yn 'cyfrannu orau' at gyflawni'r amcanion SLM.

3.3 Wrth fabwysiadu Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel y fframwaith, bydd cymorth a rheoleiddio amaethyddol yng Nghymru yn y dyfodol yn gyson â rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan helpu i gyfrannu at y nodau llesiant o dan adran 4 o'r Ddeddf honno, a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

3.4 Mae'r Ddeddf bellach yn ein galluogi i gyflwyno mecanweithiau cymorth newydd megis y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) a fydd yn cael ei lansio yn 2025.

3.5 Rydym wedi ymrwymo i ddarparu dull strategol o ymdrin â Physgodfeydd, gan gydweithio â rhanddeiliaid. Bydd ffocws clir ar ddarparu pysgodfeydd cynaliadwy, sy’n cael eu rheoli mewn ffordd addasol, ac mae gennym gyllideb wedi'i dyrannu ar gyfer hyn yn y flwyddyn ariannol. Rydw i'n bwriadu cydweithio â rhanddeiliaid i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer cyflawni.

3.6 Un o’r galluogwyr allweddol fydd cael cynllun clir ar gyfer buddsoddi yn ein sector bwyd môr i ategu ein dull strategol. Yn hanfodol i’r buddsoddiad hwn fydd y cymorth a ddarparwn drwy gynllun i ddisodli’r cynllun EMFF drwy Gynllun Môr a Physgodfeydd Cymru. Bydd y cynllun hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gefnogi twf cynaliadwy yr economi forol gan amddiffyn a gwella'r amgylchedd morol yr un pryd.

## 4.0 Effaith Costau Byw ar ddyraniadau a rhaglenni’r gyllideb

Paratowyd y Gyllideb Ddrafft hon yn unol â'n blaenoriaethau i:

- Ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen craidd cyn belled ag y bo modd.
- Sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd sy'n cael eu taro galetaf.
- Blaenoriaethu swyddi, ble bynnag y bo modd.
- Gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill y sector cyhoeddus i wynebu'r storm ariannol hon gyda'n gilydd.
- Ail-ffocysu cyllid i ffwrdd o feysydd heb eu datganoli, meysydd y dylai Llywodraeth y DU fod yn eu hariannu.

4.1 **Yn y cyd-destun hwn, mae cefnogi aelwydydd gyda'r pwysau costau byw yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru**

4.2 Rwy'n cydnabod yr effaith mae'r argyfwng costau byw yn ei chael yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n galed gyda chynigion ein cyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25 i ddiogelu cymaint â phosibl y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas rhag effeithiau'r argyfwng hwn. Mae hyn yn arbennig o wir am gymunedau gwledig sydd yn aml â chostau cymudo ac ynni uwch o gymharu â'r rhai sy'n byw mewn cymunedau trefol.

4.3 Rydw i wedi diogelu cyllideb Cynllun y Taliad Sylfaenol ar £238m ar gyfer 2024, yr un lefel â 2023, fel yr oeddem wedi bwriadu ei wneud. Wrth i'r newid i fywyd y tu allan i'r UE - a thu hwnt i Gynllun y Taliad Sylfaenol - barhau, rydym yn gofyn i'r sector amaeth fynd drwy newid sylweddol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein hamcanion rheoli tir yn gynaliadwy.

## 5.0 Goblygiadau parhaol y pandemig

Mae'r gadwyn fwyd gyfan yn parhau i gael trafferth llenwi swyddi gwag, o ofynion llafur tymhorol a oedd yn arfer cael eu llenwi â gweithwyr mudol, yn y diwydiant amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu bwyd, i swyddi gwag parhaol ar bob lefel sgiliau ar draws y sectorau gweithgynhyrchu bwyd a lletygarwch. Mae gweithgynhyrchwyr bwyd wedi lleihau eu harlwy o gynhyrchion a lleihau wythnosau gwaith mewn ymateb i'r argyfwng llafur. Mae gan y DU broblem sylweddol am fod niferoedd mawr yn y grŵp oedran 50+ wedi gadael y gweithlu yn ystod Covid ac yn anfodlon dychwelyd.

## 6.0 Effaith ar Amddifadedd a Thlodi

6.1 Dros gyfnod yr adolygiad o wariant hwn (gan gynnwys 22-23, 23-24 a 24-25), rwy'n sicrhau bod cyllid sylweddol ar gael i gefnogi gwytnwch yr economi wledig a'n hamgylchedd naturiol ac rydw i eisoes wedi cyhoeddi gwerth £200m o gynlluniau gwledig. Mae'r cyllid hwn yn darparu cefnogaeth hanfodol i'n sectorau cynhyrchu sylfaenol a bwyd sydd wedi teimlo effeithiau Covid, ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd a'r argyfwng costau byw, ac sy'n parhau i deimlo'r effeithiau hyn.

## 7.0 Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

7.1 Mae ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i effeithio ar Gymru, gan arwain at feysydd gwaith hanfodol newydd i Lywodraeth Cymru. Roedd rhai i'w disgwyl, megis paratoi ein ffiniau, ond mae effaith newidiadau eraill i'w phennu o hyd. Er enghraifft, mae dull Llywodraeth y DU o ddiwygio deddfwriaeth o dan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn debygol o ofyn am ymdrech sylweddol ar draws y portffolio. Mae angen i ni barhau i addasu i'r cyd-destun esblygol hwn ac ymateb i ffordd hollol newydd o weithio i Gymru, o ran ein rôl yn y DU a'n hymwneud â'r UE a chenhedloedd masnachu eraill. Mae hyn yn gofyn cynnal llinellau cyfathrebu rhynglywodraethol effeithiol. Er enghraifft, mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd a minnau yn rhan o grŵp Rhyngweinidogol ffurfiol gyda Llywodraeth y DU (Defra), Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, lle mae'n rhaid i ni gytuno ar sut rydym yn cydweithio i ddatblygu polisi lle mae pwerau wedi llifo'n ôl o'r UE.

7.2 Cefnogir y gwaith hwn gan gyfres o fframweithiau cyffredin y mae pwyllgorau perthnasol yn craffu arnynt. Mae'r rhain yn gosod trefniadau ar gyfer sut rydym yn dod ynghyd ledled y DU mewn meysydd pwnc. Ar ben hynny, mae TCA yr UE yn dal i esblygu ac yn ei gwneud yn ofynnol i ni feddwl yn wahanol am sut rydym yn ymateb, yn yr un modd ag y mae angen i ni ddeall effaith amgylchedd masnachu sy'n esblygu, nid yn unig o ran TCA yr UE ond hefyd effaith cytundebau masnach rydd sy'n dod i'r amlwg gyda chenhedloedd eraill.

## 8.0 Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 / Cytundeb Cydweithio Llafur-Plaid: Esboniad o sut mae dyraniadau'r gyllideb yn eich portffolio yn cyd-fynd ag ymrwymiadau a blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu a Chytundeb Cydweithio Llafur-Plaid.

Mae dyraniadau'r gyllideb ar gyfer y MEG Materion Gwledig yn sicrhau ei fod yn blaenoriaethu fy ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, nid yn unig yn y portffolio Materion Gwledig ond ar draws y Llywodraeth. Er enghraifft, mae llawer o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu sy'n benodol i'r Newid yn yr Hinsawdd yn cael eu cefnogi gan fuddsoddiad o'r MEG Materion Gwledig. Er enghraifft, mae'r cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau yn cefnogi buddsoddiadau sy'n gwella rheolaeth maethynnau ar y fferm, yn diogelu ac yn gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer, yn gwella effeithlonrwydd adnoddau ar y fferm, perfformiad technegol a'r defnydd o dechnoleg i wella penderfyniadau rheoli.

Mae gan y Strategaeth Bwyd Cymunedol y potensial i sicrhau llawer o fuddion sy'n hyrwyddo nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er mai 'bwyd' yw'r ffactor cyffredin, gallai'r manteision cymdeithasol fod yn eang. Strategaeth Llywodraeth Cymru fydd galluogi ac annog rhanddeiliaid a phartneriaid i wneud cyfraniad llawn at wella'r ffocws ar faterion bwyd, a chynllunio a chyflawni ar draws cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus lle mae bwyd yn berthnasol. Bydd y Strategaeth Bwyd Cymunedol yn fframwaith galluogi ar gyfer hyn, lle byddwn yn gofyn i'n partneriaid wneud cyfraniad llawn wrth weithio gyda ni ac eraill. Ni fydd y strategaeth yn gynllun cyflawni na gweithredu. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cynyddu effaith adnoddau presennol, sut y cânt eu defnyddio a pha ganlyniadau y gallant eu cynhyrchu, yn hytrach na darparu adnoddau

ariannol ychwanegol. Mae strwythurau i hyrwyddo bwyd cymunedol eisoes ar waith, gyda Llywodraeth Cymru wedi ysgogi Partneriaethau Bwyd Lleol drwy grant untro i'w sefydlu ledled Cymru.

8.1 **Sut mae dyraniadau'r gyllideb Materion Gwledig yn mynd i'r afael ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur ar draws pob maes polisi.**

8.2 Mae'r Ddyletswydd SLM sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried sut mae cymorth yn y dyfodol yn 'cyfrannu orau' at gyflawni'r amcanion SLM, sy'n cynnwys lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd.

8.3 Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sy'n cael ei gyflwyno drwy bwerau yn y Ddeddf, yn cael ei ddylunio yng nghyd-destun pob un o'r pedwar amcan SLM.

8.4 Mae'r Is-adran Diwygio Rheoli Tir yn gyfrifol am ddylunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy drwy gysylltu ar draws Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig i ddod â nifer o ymrwymiadau polisi ynghyd.

8.5 Mae'r amcanion SLM yn cael eu rhannu ymhellach i 15 o ganlyniadau SLM, y cyfeirir atynt fel y 'Dibenion' yn y Ddeddf – megis gwella gwytnwch busnesau amaethyddol, gwella ansawdd yr aer ac atafaelu a storio carbon i'r graddau gorau posibl.

8.6 Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnwys cyfres o gamau gweithredu a fydd yn cyflawni yn erbyn yr Amcanion SLM, gan gynnwys camau i liniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd.

8.7 Mae ein rhaglen newid yn cynnwys dylunio polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth, datblygu'r fframwaith deddfwriaethol sylfaenol a phob agwedd ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a newidiadau busnes yn y diwydiant amaethyddol.

8.8 Mae'r cyllid sylweddol o dros £200m yn cefnogi ein ffermwyr, ein coedwigwyr, ein rheolwyr tir a'n busnesau bwyd i hyrwyddo'r gwaith o gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a chefnogi'r economi wledig ar y llwybr tuag at Gymru sero net a chadarnhaol o ran natur. Mae'r cyllid yn cynnwys ffocws ar goetiroedd a choedwigaeth, ar welliannau amgylcheddol i ffermydd, rheoli tir yn gynaliadwy, cynhyrchiant ac arallgyfeirio. Rydym yn targedu rheoli tir ar raddfa tirwedd a chadwyni cyflenwi bwyd a ffermio hefyd.

## 9.0 Gwariant ataliol

9.1 Mae'r cynigion cyllideb hyn yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i ddiogelu a blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol hyd y bo modd. Mae gwerth am arian ac eglurder ynghylch sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithiol yn ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau. Unwaith y bydd gwariant wedi'i gynllunio yn unol â blaenoriaethau, mae gennym

brosesau sydd wedi hen ennill eu plwyf er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd.

9.2 Mae'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu i gynlluniau gwledig i gyd yn ataliol – gan dargedu gwelliannau amaeth-amgylcheddol drwy Gynllun Cynefin Cymru; gwella cynhyrchiant a hyfywedd busnesau drwy Gynllun y Taliad Sylfaenol a grantiau buddsoddi a dargedir, creu ac adfer coetir; a nifer o gynlluniau eraill sy'n cael eu cyflwyno. Mae'r Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd yn cynnig grantiau cyfalaf i gefnogi twf cynaliadwy gweithgynhyrchu bwyd a gwelliannau mewn cynhyrchiant, tra bod y Cynllun Arloesi Cynaliadwy yn cynnig ystod o gymorth ac arbenigedd seiliedig ar refeniw i ddatblygu arloesedd a safonau achredu yn y sector gweithgynhyrchu bwyd.

9.3 Mae rhaglenni CDG a rhaglenni cyllid cyfalaf newydd wedi'u cynllunio yn y fath fodd i hyrwyddo arferion cynaliadwy ac ysgogi gostyngiad mewn allyriadau carbon (ac felly'n gweithio i atal effaith y newid yn yr hinsawdd). Er enghraifft, mae'r cynllun Tyfu er mwyn yr Amgylchedd yn cefnogi tyfu a defnyddio cnydau, a all arwain at welliannau ym mherfformiad amgylcheddol busnes fferm. Amcanion y cynllun yw cefnogi ffermwyr i leihau allyriadau carbon a nwyon tŷ gwydr, addasu i'r newid yn yr hinsawdd ac adeiladu mwy o wytnwch mewn busnesau fferm, gwella ansawdd dŵr a lleihau perygl llifogydd a chyfrannu at wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth frodorol Cymru.

9.4 Mae cynlluniau gwledig yn cael eu llywio gan strategaethau a pholisïau adrannol, sydd wedi ystyried y ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys dulliau ataliol ac sy'n cyfrannu at amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a sefydlwyd gan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

9.5 Yn ystod 2023/24, rwyf wedi agor ffenestri Mynegi Diddordeb ar gyfer ystod o gynlluniau gwledig. Mae'r rhain yn cynnwys y cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau, yr agorais ffenestr ar ei gyfer ym mis Tachwedd 2023. Nod y cynllun cyfalaf hwn yw cynorthwyo ffermwyr yng Nghymru i reoli maethynnau ar y fferm yn well drwy fuddsoddi yn y seilwaith sydd eisoes ar y fferm. Darperir cymorth i wahanu dŵr glaw a slyri oddi wrth ardaloedd megis ardaloedd bwydo a chrynhoi da byw, ardaloedd storio tail a storfeydd slyri/silwair. Yr amcanion yw cynyddu buddsoddiad ar y fferm, gwella perfformiad technegol, cynyddu effeithlonrwydd cynhyrchiant ar y fferm a chynyddu effeithlonrwydd adnoddau ar y fferm. Ym mis Ionawr 2024, byddaf yn lansio ffenestr 6 (o gyfanswm o 8) y cynllun Grantiau Bach – Yr Amgylchedd sy'n darparu uchafswm o £7,500 o gyllid y ffenestr ar gyfer Prosiectau Gwaith Cyfalaf. Mae rhestrau penodol o Waith Cyfalaf ar gael i gefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau amgylcheddol buddiol o dan themâu carbon, dŵr a thirwedd a pheillwyr.

## 10.0 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

10.1 Mae fy mharatoadau ar gyfer y gyllideb ddrafft yn dangos sut rydw i wedi ceisio adlewyrchu fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r

amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) wrth bennu ein blaenoriaethau gwario. Aethom ati i adolygu tueddiadau cyfredol a rhagamcaniadau y dyfodol a'u heffeithiau posibl yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Gwnaethpwyd hyn er mwyn sicrhau, hyd y bo modd, nad yw ymatebion tymor byr yn cael effeithiau niweidiol yn y tymor hwy.

10.2 Bydd angen i'r holl gyllid ar gyfer datblygu gwledig gyd-fynd â'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a'n blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u gosod o amgylch y ffyrdd y gall adnoddau naturiol gefnogi ein nodau llesiant a mynd i'r afael â'r risgiau i'r amgylchedd a'r buddion cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu darparu.

## 11.0 Asesiadau Effaith

11.1 Ar ôl adolygu'r newidiadau allweddol uchod, bu nifer o raglenni allweddol yn destun Asesiadau Effaith Integredig yn cwmpasu cydraddoldeb, y Gymraeg a Hawliau Plant. Mae asesiadau effaith integredig yn rhan brif ffrwd o’r gwaith llunio polisi yn ogystal â phenderfyniadau cyllidebol.

11.2 Mae canlyniadau'r asesiadau effaith yn dangos nad oes unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau a nodwyd oherwydd y penderfyniadau cyllidebol hyn. Bydd asesiad pellach yn cael ei wneud cyn y Gyllideb Derfynol.

## 12.0 Asesiad cydraddoldeb, y Gymraeg a hawliau plant

12.1 Mae canlyniadau'r asesiadau effaith yn dangos nad oes unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau a nodwyd oherwydd y penderfyniadau cyllidebol hyn.

12.2 Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU, ac un o blith ychydig iawn o wledydd ledled y byd, i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i gyfraith ddomestig gyda Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Mae'r dyletswyddau yn y Mesur yn cael eu gweithredu mewn dau gam ac yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i roi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau yn CCUHP a'i brotocolau dewisol wrth lunio neu adolygu polisi a deddfwriaeth; a phan fyddant yn defnyddio eu holl bwerau neu ddyletswyddau cyfreithiol.

12.3 Ar draws fy mhortffolio, mae gofyn i bob aelod staff ystyried sut mae ei waith yn effeithio ar hawliau plant, ac mae'r broses hon wedi llywio'r Asesiad Effaith Integredig. Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar hawliau plant wedi eu nodi wrth osod y gyllideb hon.

## 13.0 Cyd-destun Strategol – meysydd penodol o ddiddordeb.

13.1 Datblygu a gweithredu polisi amaethyddol gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig i Gymru.

13.2 Bydd dyraniad cyllideb o £500k yn ddigon yn 2024/25 i ariannu'r gwaith datblygu polisi parhaus ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

13.3 Dyrannwyd y gyllideb hon i ariannu pecynnau tystiolaeth parhaus i gefnogi gwaith datblygu polisi ac ariannu camau gweithredu paratoadol posibl wrth i ni symud yn agosach at 2025 a lansio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd y dyraniad cyllideb hwn hefyd yn ariannu'r dadansoddiad o'r ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig a'r ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid a'r gymuned ffermio i hwyluso'r newidiadau ymddygiadol sydd eu hangen i addasu arferion ffermio ar raddfa genedlaethol.

13.4 Mae Taliadau Gwledig Cymru wedi bod yn gwella ac yn datblygu ei blatfform TG ac ar-lein i baratoi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd dyraniad cyllideb o £6m Cyfalaf a £3.7m Refeniw yn caniatáu gwaith cynnal a chadw a datblygiadau parhaus i'r system i gyflwyno'r Cynllun ffermio Cynaliadwy ochr yn ochr â'r broses o ddiddymu’n raddol Gynllun y Taliad Sylfaenol o 2025 ymlaen.

13.5 Datblygu polisi pysgodfeydd, gan gynnwys darparu Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a Chynlluniau Rheoli Pysgodfeydd.

13.6 Datblygu Polisi Pysgodfeydd a Chynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd y DU sy'n gysylltiedig â Deddf Pysgodfeydd y DU 2020.

13.7 **Dileu TB buchol.**

13.8 Mae'r Rhaglen i Ddileu TB yn nodi gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer dileu TB buchol yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar y pedair prif egwyddor ar gyfer rheoli clefydau heintus: Ei gadw draw, Ei ganfod yn gyflym, Ei atal rhag lledaenu, Ei ddileu. Rydym wedi gweld cynnydd da ers i'n rhaglen gael ei sefydlu, gyda gostyngiadau hirdymor mewn digwyddedd a chyffredinrwydd. Rhwng 2009 a 2022, bu gostyngiad o 49% mewn achosion newydd, tra bod 94.7% o fuchesi yng Nghymru heb TB ar ddiwedd Mehefin 2023.

13.9 Fel rhan o'i hymrwymiadau yn *Rhaglen Lywodraethu 2021 - 26*, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wahardd difa moch daear fel rhan o'r Rhaglen i Ddileu TB. Mae cyllid yn parhau i fod ar gael i gefnogi cynlluniau brechu preifat ledled Cymru, gan asesu'r un pryd y defnydd mwyaf priodol a chost-effeithiol o'r brechlyn BCG Moch Daear fel mesur amddiffynnol.

13.10 Lansiwyd dull rhanbarthol o ddileu TB yn 2017, gan greu Ardaloedd TB Isel, Canolradd ac Uchel, ac mae polisïau'n parhau i gael eu mireinio, gan ymateb yn ddeinamig i'r darlun o'r clefyd sy'n newid drwy'r amser.

13.11 Yn dilyn ymgynghoriad, cyhoeddodd y Gweinidog gynllun cyflawni 5 mlynedd newydd ar gyfer y Rhaglen i Ddileu TB ym mis Mawrth 2023.

13.12 **Ystadegau TB - y sefyllfa ddiweddaraf**

13.13 Dyma'r ystadegau cyhoeddedig diweddaraf ar gyfer y deuddeg mis hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023 (gall ffigurau eraill a ddyfynnir gan Aelodau o'r Senedd fod wedi dyddio). Cyhoeddwyd y ffigurau hyn ar 13 Medi 2023. Bydd yr ystadegau TB nesaf yn cael eu cyhoeddi ar 13 Rhagfyr 2023.

13.14 Ystadegau TB buchol ar gyfer Cymru hyd at fis Mehefin 2023 (y mis diweddaraf o ddata cyhoeddedig):

13.15 Roedd 94.7% o fuchesi heb TB ar ddiwedd Mehefin 2023.

13.16 Gostyngiadau hirdymor mewn dangosyddion TB:

- Mae nifer yr achosion newydd wedi gostwng o **1,185** yn 2009 i **609** yn y 12 mis hyd at fis Mehefin 2023, sef **gostyngiad o 48.6%** mewn achosion newydd.
- Mae anifeiliaid sy'n cael eu lladd ar gyfer rheoli TB wedi gostwng o **11,655** yn 2009 i **9,529** yn y 12 mis hyd at fis Mehefin 2023, sef **gostyngiad o 18.2%**.
- Ar 30 Mehefin 2023, roedd **898** o fuchesi dan gyfyngiadau, o gymharu â'r uchafswm o **2,268** o fuchesi a oedd dan gyfyngiadau ar 31 Mawrth 2009. Mae hyn yn **ostyngiad o 60.4%**.
- Ar 30 Mehefin 2023, roedd **608** o fuchesi nad oeddent â Statws heb TB Swyddogol, o gymharu â'r uchafswm o **1,066** ar 30 Ebrill 2009. Mae hyn yn **ostyngiad o 43.0%**.
- Mae cyffredinrwydd mewn buchesi wedi gostwng o'r uchafswm o **7.8%** ym mis Ebrill 2009 i **5.3%** ym mis Mehefin 2023.

13.17 Tueddiadau tymor canolig:

- Yn y 12 mis hyd at fis Mehefin 2023, roedd nifer y digwyddiadau newydd wedi gostwng i **609** o gymharu â **746** am yr un cyfnod hyd at fis Mehefin 2018, sy'n **ostyngiad o 18.4%**.
- Yn y 12 mis hyd at fis Mehefin 2023, roedd nifer yr anifeiliaid a laddwyd er mwyn rheoli TB wedi gostwng o **10,024** i **9,529** am yr un cyfnod hyd at fis Mehefin 2018, sy'n **ostyngiad o 4.9%**.
- Ar 30 Mehefin 2023, roedd **898** o fuchesi dan gyfyngiadau, o gymharu ag **857** o fuchesi dan gyfyngiadau ar 30 Mehefin 2018. Mae hyn yn **gynnydd o 4.8%.**
- Ar 30 Mehefin 2023, roedd **608** o fuchesi heb Statws heb TB, o gymharu â **623** ar 30 Mehefin 2018. Mae hyn yn **ostyngiad o 2.4%**.
- Mae cyffredinrwydd mewn buchesi wedi **cynyddu** o **5.2%** ar 30 Mehefin 2018 i **5.3%** ar 30 Mehefin 2023.

13.18 Tueddiadau tymor byr:

- Yn y 12 mis hyd at fis Mehefin 2023, roedd nifer y digwyddiadau newydd wedi gostwng i **609** o gymharu â **649** am yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol, sef **gostyngiad o 6.2%**.
- Yn y 12 mis hyd at fis Mehefin 2023, roedd nifer yr anifeiliaid a laddwyd er mwyn rheoli TB wedi gostwng i **9,529** o **9,700** yn yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol, sy’n **ostyngiad o 1.8%**.
- Ar 30 Mehefin 2023, roedd **898** o fuchesi dan gyfyngiadau, o gymharu â **927** o fuchesi dan gyfyngiadau ar 30 Mehefin 2022. Mae hyn yn **ostyngiad o 3.1%**.
- Ar 30 Mehefin 2023, roedd **608** o fuchesi heb Statws heb TB Swyddogol, o gymharu â **601** ar 30 Mehefin 2022. Mae hyn yn **gynnydd o 1.2%**.
- Mae cyffredinrwydd mewn buchesi wedi **cynyddu** o **5.2%** ar 30 Mehefin 2022 i **5.3%** ar 30 Mehefin 2023.

## 14.0 Ffliw Adar

14.1 Ers 1 Hydref 2023, rydym wedi symud i gyfnod achosion gweinyddol 2023/24 ar gyfer ffliw adar. Ar 30 Tachwedd, bu pedwar achos yn ystod y cyfnod newydd hwn, 2023/24 (dau yn Lloegr a dau yn yr Alban). Cadarnhawyd 208 o achosion o ffliw adar pathogenig iawn (HPAI) yn y DU mewn dofednod ac adar caeth yng nghyfnod achosion gweinyddol 2022/2023 a oedd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Hydref 2022 a mis Medi 2023, gan roi pwysau sylweddol ar adnoddau a chyllid APHA a chynyddu'r pwysau heb ei ariannu yn erbyn y gyllideb hon.

14.2 Adeg ysgrifennu hwn, mae'r epidemig yn parhau ac mae'r risg o haint i ddofednod yn isel tra bod lefel y risg i adar gwyllt yn uchel. Bydd adar mudol gwyllt yn parhau i gyrraedd Prydain tan ganol mis Rhagfyr a mis Ionawr, a bydd y cynnydd mewn biomas adar gwyllt yn cynyddu'r pwysau haint posibl ar adar caeth, sy'n golygu bod y lefelau risg ar gyfer y ddau grŵp hyn yn debygol o newid. Er bod achosion hyd yma wedi bod yn is nag yn 2022/23, ni ellir rhagweld yn gywir nifer y safleoedd a'r adar heintiedig ar gyfer y misoedd nesaf. Gall adar gwyllt sy'n parhau i fudo tan fis Ionawr ychwanegu at hyn.

14.3 Mae rheolaeth effeithiol barhaus o achosion o ffliw adar mewn dofednod a gedwir yn bwysig iawn i leihau'r effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y diwydiant dofednod a lleihau'r tebygolrwydd y bydd y feirws yn esblygu ac yn peri mwy o fygythiad i iechyd pobl.

## 15.0 Profion TB

15.1 Yng Nghymru, defnyddir prawf croen (*SICCT*) ar wddf gwartheg i adnabod anifeiliaid heintiedig. Mae’n cymharu'r adweithiau i'r chwistrelliad twbercwlin buchol ac adar. Yn gyffredinol, mae anifeiliaid sy'n adweithio i'r twbercwlin

buchol yn fwy na'r twbercwlin adar yn cael eu hystyried fel adweithyddion prawf croen.

15.2 Mae hwn yn brawf sydd wedi hen ennill ei blwyf, ac fe'i defnyddir ledled y byd fel y prif brawf gwyliadwriaeth ar gyfer rhaglenni rheoli TB. O'r dehongliad safonol, mae'r prawf yn debygol o adnabod un anifail â 'chanlyniad positif anghywir' yn unig ym mhob 5,000 o wartheg sydd heb eu heintio a brofir. Ond, ar gyfartaledd, efallai mai dim ond 81% o anifeiliaid sydd wedi'u heintio y bydd yn eu hadnabod. Ar hyn o bryd, nid oes prawf, na chyfuniad o brofion, a fydd yn:

- adnabod yr holl wartheg sydd wedi'u heintio â TB; ac yn
- adnabod yr holl wartheg sydd heb eu heintio fel anifeiliaid negatif h.y. dim “canlyniadau positif anghywir”.

15.3 Er mwyn gwella rheolaeth TB buchol, mae angen adnabod nifer uwch o anifeiliaid heintiedig, gan gyfyngu ar nifer y canlyniadau positif anghywir. Cyflawnir hyn i raddau drwy ddefnyddio prawf gwaed Interfferon-gama a phrawf gwaed gwrthgyrff IDEXX. Defnyddir y profion hyn yn strategol mewn buchesi neu anifeiliaid unigol, lle mae meini prawf risg yn awgrymu mai dyna sydd orau.

15.4 Yng Nghymru, rydym yn profi:

- pob buches bob blwyddyn
- unrhyw anifail cyn iddo symud oddi ar y fferm* (yn amodol ar eithriadau fel y'u nodir yng Ngorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010, fel y'i diwygiwyd)
- unrhyw anifail sy'n symud i fuches yn yr ardaloedd TB Isel a Chanolradd* (yn amodol ar eithriadau fel y'u nodir yng Ngorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010, fel y'i diwygiwyd)

** DS - Mae profion cyn symud ar gyfer symudiadau o fuchesi yn yr Ardal TB Isel a phrofion ar ôl symud ar gyfer buchesi yn yr Ardaloedd TB Canolradd yn cael eu cyflwyno mewn newidiadau deddfwriaethol o fis Chwefror 2024. Mae'r rhain yn ychwanegol at y gofynion sydd eisoes ar waith mewn ardaloedd TB eraill.*

15.5 Rydym yn archwilio anifeiliaid yn y lladd-dy i adnabod unrhyw rai sydd wedi'u heintio â TB, sydd heb eu canfod yn y rhaglen gwyliadwriaeth drwy brofi (maent yn dod yn "achosion lladd-dy" ac o ganlyniad bydd profion ar y fuches darddu).

## 16.0 Iawndal TB

16.1 Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad statudol i dalu iawndal TB.

16.2 Mae hwn yn faes gwariant sy’n cael ei arwain gan alw sy'n uniongyrchol gysylltiedig â nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu lladd oherwydd TB. Mae newidynnau fel nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu lladd, gwerth marchnad

pob anifail a swm gwerth pob anifail ar gyfer ei drin yn cael effaith ar lefel y gwariant a'r derbyniadau gwerth trin a ddaw i law.

16.3 Mae perchnogion anifeiliaid yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru am wartheg sy'n cael eu lladd oherwydd TB fel y nodir yng Ngorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) (y Gorchymyn TB). Ar hyn o bryd cyfrifir y taliad hwn yn seiliedig ar werth marchnad pob anifail unigol. Cafodd nifer o opsiynau talu amgen eu hamlinellu yn yr ymgynghoriad.

16.4 Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i adolygu'r drefn iawndal a fydd yn cynnwys ymgynghori pellach. Byddai angen i unrhyw drefn newydd gael cymeradwyaeth y Senedd. Amcangyfrifir y bydd adolygiad llawn yn cymryd hyd at 24 mis i'w gwblhau cyn y gellir gwireddu unrhyw arbedion ariannol. Bydd yr adolygiad hwn yn dechrau unwaith y bydd adnoddau'n caniatáu.

16.5 Datblygu a gweithredu strategaeth bwyd a diod ôl-Brexit, gan gynnwys y Strategaeth Bwyd Cymunedol.

16.6 Cyhoeddwyd gweledigaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd a diod ar 29 Tachwedd 2021 a bydd yn creu diwydiant cryf a bywiog sydd ag enw da yn fyd-eang am ragoriaeth, gydag un o’r cadwyni cyflenwi mwyaf cyfrifol yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol yn y byd. Mae ei gynllun gweithredu 10 pwynt yn canolbwyntio ar dwf busnes a gwella cynhyrchiant; datblygu masnach ryngwladol mewn marchnadoedd tramor a chyflawni lefelau uwch o gynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol a hyrwyddo Bwyd a Diod Cymru yng Nghymru, y DU ac yn fyd-eang.

16.7 Mae'r dull yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd dros y degawd diwethaf, yn cydnabod y tarfu yn sgil ymadael â'r UE a Covid-19, ac mae'n gofyn am bartneriaeth â busnesau a rhanddeiliaid lle bydd cymorth Llywodraeth Cymru yn gynyddol amodol ar werthoedd a gweithredoedd cyffredin. Cynyddodd gwerth allforion bwyd a diod o Gymru yn 2020 gan gynnwys i'n marchnad fwyaf, i'r UE. Fodd bynnag, dirywiodd maint yr allforion i'r UE ac mae busnesau bach a rhai sectorau (bwyd môr) yn parhau i’w chael hi’n anodd masnachu.

16.8 Mae'r diwydiant yn gweithredu o fewn cyd-destun problemau economaidd-gymdeithasol fel yr ystyriaeth gynyddol i fynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol ac iechyd cynhyrchu bwyd a deiet, newidiadau i’r amgylchedd masnachu yn y DU, yr angen brys i ddatgarboneiddio a lleihau gwastraff ac effaith amgylcheddol. Gyda busnesau wedi'u lleoli ledled Cymru, mae'r diwydiant bwyd a diod yn rhan o economi sylfaenol ac yn rhan annatod o gadwyni cyflenwi sy'n cysylltu, mewn rhai sectorau pwysig, â ffermio a physgota Cymru, ac â sectorau manwerthu, cyfanwerthu a gwasanaeth lle mae brandio cynnyrch y diwydiant (Gwybodaeth Ddaearyddol, broliant cynaliadwyedd) yn cael ei werthfawrogi'n gynyddol gan ddefnyddwyr ac yn Bwynt Gwerthu Unigryw (USP) ar gyfer twristiaeth.

16.9 Bydd ymyrraeth Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ddeg prif faes:

- seilio penderfyniadau am bolisi a chymorth ar dystiolaeth, gan ddefnyddio ymchwil, gwerthuso a dealltwriaeth o'r farchnad i lywio ac arwain, a chynorthwyo busnesau a rhanddeiliaid i ddatblygu galluogrwydd gwybodaeth i helpu eu hunain.
- tyfu busnesau cryfach sy'n gallu tyfu'n gynaliadwy a sicrhau lefel cynhyrchiant gyda'r gorau yn y farchnad.
- adeiladu rhwydweithiau, ysgogi cydweithio drwy rwydweithiau, clystyrau, wedi'u hintegreiddio â chymorth technegol, i ledaenu arferion gorau a dod o hyd i gyfleoedd i ychwanegu gwerth.
- mynd i'r afael â gwendidau systemig fel cefnogi busnesau bach i fod yn fusnesau canolig, a rhai canolig i fod yn fawr, gwella seilwaith safleoedd busnes, cydgasglwyr a chyfanwerthwyr a chysylltu'r rhain i greu rhwydweithiau a chadwyni cyflenwi cryf, lleol.
- cefnogi arloesedd a darparu cefnogaeth dechnegol gref, gan adeiladu ar lwyddiant Arloesi Bwyd Cymru/Prosiect Helix.
- canfod a manteisio ar gyfleoedd ym marchnad y DU, gan hyrwyddo ein Cynllun Manwerthu, creu troedleoedd yn y sectorau gwasanaeth bwyd a chyfanwerthu, a manteisio ar y cyfleoedd o dyfu sianeli gwerthu Syth i'r Defnyddiwr.
- cynyddu ein hallforion a defnyddio ein cynhyrchion a'n busnesau i arddangos Cymru, a defnyddio Blas Cymru, ein digwyddiad blaenllaw, i hyrwyddo'r diwydiant i gynulleidfa'r DU a chynulleidfa ryngwladol.
- adeiladu brand cryf, gan ganolbwyntio ar gynhyrchion a busnesau sy'n cynrychioli'r gorau o Gymru, gan ehangu ein teulu o Enwau Bwyd Gwarchodedig.
- denu mewnfuddsoddiad i fusnesau a'n seilwaith bwyd.
- sicrhau bod ein cymorth yn cael ei ddefnyddio i sbarduno blaenoriaethau craidd Llywodraeth Cymru fel cynaliadwyedd, cymunedau ffyniannus, datgarboneiddio, a gwaith teg.

16.10 Roeddwn yn siomedig bod Llywodraeth y DU wedi dewis netio ei chyfran o gyllid yr UE sy'n weddill fel rhan o'r adolygiad o wariant diwethaf. Roedd hyn, ynghyd â'r methiant i gydnabod y Trosglwyddiad o Golofn i Golofn blaenorol, wedi gadael Cymru £243m yn brin o lefel y cyllid y byddem wedi'i chael pe byddem wedi aros yn yr UE. Wrth i'r trafodaethau ar yr adolygiad o wariant nesaf ddechrau'r flwyddyn nesaf (mae'r amseru'n aneglur), byddwn yn ceisio sicrhau o leiaf yr un lefel o gyllid ar gyfer ffermwyr a rheolwyr tir gan Lywodraeth y DU ag y byddwn yn ei dderbyn yn 2024/25. Gan gydnabod y pwysau chwyddiant sydd wedi effeithio ar y diwydiant ffermio, fel y mae wedi effeithio ar sectorau eraill a phawb yng Nghymru, byddwn yn disgwyl i Lywodraeth y DU ddarparu cynnydd ar sail chwyddiant mewn cyllid.

## 17.0 Deddfwriaeth

18.0 Y broses o drosglwyddo i'r cynllun amaethyddol newydd, er enghraifft cynnal cynllun peilot, trefniadau gweinyddol ac ymchwil a datblygu;

18.1 Rydw i wedi lansio cam nesaf ein hymgynghoriad ar ein cynigion ar gyfer cymorth i ffermydd yn y dyfodol. Datblygwyd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyda ffermwyr ac fe'i dyluniwyd i fod yn ddull hirdymor integredig i gefnogi gwytnwch ein diwydiant amaethyddol yng Nghymru. Bydd yn cael ei gyflwyno yn 2025.

18.2 Mae'r cynlluniau rydym yn eu cefnogi yn 2024/25 yn ategu'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy hefyd, a fydd yn gwobrwyo ffermwyr a rheolwyr tir am y gwaith a wneir ganddynt i ymateb i heriau'r argyfyngau hinsawdd a natur ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, gyda buddion o ran diogeledd bwyd yng Nghymru ac yn fyd-eang.

18.3 Mae swyddogaethau a mecanweithiau newydd i fonitro a gwerthuso ein cynllun amaethyddol newydd hefyd yn cael eu hystyried, gan gynnwys archwiliadau carbon ac adolygu cynefinoedd gan ddefnyddio dulliau arsylwi'r ddaear.

18.4 Sefydlwyd rhaglen newid Taliadau Gwledig Cymru (RPW) i adolygu ac adeiladu ar y trefniadau gweinyddol a ddefnyddiwyd ar gyfer darparu rhaglenni’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) blaenorol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu unwaith eto gyda rhanddeiliaid ffermio er mwyn sicrhau bod system ar-lein addas i'r diben a hawdd ei dilyn ar gael i ffermwyr gael mynediad i'r cynllun amaethyddol newydd.

18.5 Mae RPW yn ymchwilio a datblygu model newydd cydgysylltiedig ar gyfer cwsmeriaid i gael mynediad i'r cynllun a gwasanaethau a chymorth ehangach Llywodraeth Cymru yn ogystal â thechnolegau newydd ar y maes, a gefnogir gan Arsylwi'r Ddaear a Delweddu Lloeren, i wella gofynion o ran casglu a dilysu data'r cynllun newydd.

Bydd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn cael eu gweithredu'n llawn erbyn 1 Ionawr 2025. Drwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £2.55m i gefnogi CNC i orfodi'r Rheoliadau. Mae'r cyllid yn cael ei rannu, gyda £1m wedi'i ymrwymo yn ystod blwyddyn ariannol 2023-2024 a £1.55m yn 2024-25. Mae lefel y cyllid yn cynyddu ym mlwyddyn 2, ar ôl recriwtio staff yn ystod blwyddyn 1.

18.6 Mae Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru ar agor i geisiadau drwy rowndiau ariannu wedi'u targedu ochr yn ochr â buddsoddiad pellach drwy'r fenter Meithrin Gallu Cymunedau Arfordirol Cymru. Bydd yr ymyriadau hyn o fudd i sectorau morol, pysgodfeydd a dyframaethu Cymru.

## 19.0 Polisïau allweddol sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Lles Anifeiliaid newydd Cymru 2021-26;

19.1 Caiff y gwaith o weithredu'r cynllun ei gefnogi a'i fonitro gan Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru. Mae'r wyth aelod, sy’n benodiadau cyhoeddus, yn dod â chyfoeth o brofiad a gwybodaeth ac mae eu cefndir mewn amrywiaeth eang o sectorau a meysydd arbenigedd.

19.2 Mae cynllun gweithredu presennol 2022-2024, ynghyd â Chynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021-2026, yn mynd i'r afael â sawl ymrwymiad allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu yn ogystal â gwaith polisi parhaus Cymru a chydweithrediadau polisi'r DU/Prydain Fawr:

- Datblygu model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid, gan gyflwyno cofrestru ar gyfer sefydliadau lles anifeiliaid, bridwyr masnachol ar gyfer anifeiliaid anwes neu ar gyfer saethu, ac arddangosfeydd anifeiliaid;
- Gwella'r cymwysterau i arolygwyr lles anifeiliaid er mwyn codi eu statws proffesiynol;
- Gofyniad i gael teledu cylch cyfyng (CCTV) ym mhob lladd-dy;
- Cyfyngu ar y defnydd o gewyll ar gyfer anifeiliaid sy'n cael eu ffermio.

## 20.0 Polisi adnabod a symud da byw

20.1 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar Newidiadau i Drefniadau Adnabod, Cofrestru ac Adrodd ar Symudiadau Da Byw a gynhaliwyd yn 2021, rydym yn bwriadu gweithredu newidiadau deddfwriaethol gorfodol o 2024 i gynnwys tagiau Dyfais Adnabod Electronig (EID) Buchol, adrodd ar symudiadau cyfan, adrodd 24 awr gan Ganolfannau Cofnodi Canolog a chael gwared ar gofrestriadau papur ar gyfer gwartheg.

20.2 Mae EIDCymru yn cael ei ddatblygu i fod yn system a gwasanaeth olrhain amlrywogaeth i Gymru ac rydym yn disgwyl i'r broses o gofrestru gwartheg ac adrodd ar symudiadau gael ei lansio ar EIDCymru yn ystod Hydref/Gaeaf 2023. O'i lansio, byddwn hefyd yn galluogi newidiadau gwirfoddol i gynnwys cofnodi gwybodaeth am siwrne, adrodd cyn symud, cofrestri daliadau ar-lein ac adrodd ar symudiadau cylchol ar gyfer sioeau.

20.3 Mae trafodaethau ar fanylebau tagiau ar gyfer EID Buchol ar y gweill a byddwn yn cynnal cynllun peilot ar EID Buchol i gasglu a chymharu data o dagiau a darllenwyr LF ac UHF. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall gwir faint yr effeithiau y bydd pob math o dag a thechnoleg yn eu cael ar geidwaid, marchnadoedd, canolfannau casglu a lladd-dai yng Nghymru.

20.4 Pan fyddaf wedi cytuno ar y manylebau tag terfynol ar gyfer EID Buchol, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ac yn rhannu'r dyddiad gweithredu arfaethedig ar gyfer EID Buchol.

## Atodiad A

## Strwythur y Gyllideb (yn ôl SPA a BEL)

## 21.0 Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd – ARIANNU CAMAU GWEITHREDU

Mae dadansoddiad manwl o Gamau Gweithredu yn ôl gweithgarwch BEL yn cael ei egluro yn yr adrannau canlynol.

### Datblygu a darparu polisi a rhaglenni cynhwysfawr mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr

| Develop and deliver overarching policy and programmes on Agriculture, Food and Marine BEL's REVENUE | 2023-24 Final Budget restated £'000 | 2024-25 Indicative Budget £'000 | Change £'000 | % Change | 2024-25 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Agriculture Strategy (2829) | 650 | 650 | (150) | -23% | 500 | (150) | -23% |
| Local Authority Framework Funding (2831) | 200 | 200 | (100) | -50% | 100 | (100) | -50% |
| Agriculture Customer Engagement (2860) | 400 | 400 | (50) | -13% | 350 | (50) | -13% |
| County Parish Holdings Project (2861) | 500 | 500 | 0 | 0% | 500 | 0 | 0% |
| EID Cymru (2862) | 2,639 | 2,639 | 0 | 0% | 2,639 | 0 | 0% |
| Livestock Identification (2863) | 1,647 | 1,647 | 0 | 0% | 1,647 | 0 | 0% |
| Technical Advice Services (2864) | 358 | 358 | 0 | 0% | 358 | 0 | 0% |
| Commons Act (2866) | 433 | 433 | 0 | 0% | 433 | 0 | 0% |
| **Total Revenue** | **6,827** | **6,827** | **(300)** | **-4%** | **6,527** | **(300)** | **-4%** |

| Datblygu a darparu polisi a rhaglenni trosfwaol ar REFENIW BEL Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd | Cyllideb Derfynol Ailddatganedig 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddangosol 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Amaethyddiaeth (2829) | 650 | 650 | (150) | -23% | 500 | (150) | -23% |
| Cyllid Fframwaith Awdurdod Lleol (2831) | 200 | 200 | (100) | -50% | 100 | (100) | -50% |
| Ymgysylltu â Chwsmeriaid Amaethyddiaeth (2860) | 400 | 400 | (50) | -13% | 350 | (50) | -13% |
| Prosiect Sir, Plwyf, Daliad (CPH) (2861) | 500 | 500 | 0 | 0% | 500 | 0 | 0% |
| EID Cymru (2862) | 2,639 | 2,639 | 0 | 0% | 2,639 | 0 | 0% |
| Adnabod Da Byw (2863) | 1,647 | 1,647 | 0 | 0% | 1,647 | 0 | 0% |
| Gwasanaethau Cyngor Technegol (2864) | 358 | 358 | 0 | 0% | 358 | 0 | 0% |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Tiroedd Comin (2866) | 433 | 433 | 0 | 0% | 433 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **6,827** | **6,827** | **(300)** | **-4%** | **6,527** | **(300)** | **-4%** |

| **Develop and deliver overarching policy and programmes on Agriculture, Food and Marine BEL's CAPITAL** | **2023-24 Final Budget restated £'000** | **2024-25 Indicative Budget £'000** | **Change £'000** | **% Change** | **2024-25 New Plans Draft Budget £'000** | **Change £'000** | **% Change** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EID Cymru (2862) | 0 | 0 | 0 | 0% | 0 | 0 | 0% |
| Livestock Identification (2863) | 1,000 | 1,000 | 0 | 0% | 1,000 | 0 | 0% |
| Commons Act (2866) | 0 | 0 | 0 | 0% | 0 | 0 | 0% |
| **Total CAPITAL** | **1,000** | **1,000** | **0** | **0%** | **1,000** | **0** | **0%** |

Mae'r BEL Gwasanaethau Cyngor Technegol (2864) yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amrywiaeth o ddyletswyddau statudol, datblygiadau polisi a gwasanaethau cymorth mewn perthynas ag amaethyddiaeth a'r amgylchedd gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, brisiadau TB, Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol Amaethyddiaeth, Dosbarthiad Tir Amaethyddol, iechyd planhigion, Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol, Cyflogau Amaethyddol, Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru a Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

BEL 2831 Caiff cyllid ei ddyrannu i Awdurdodau Lleol Cymru drwy'r Penaethiaid Safonau Masnach i ddarparu gweithgareddau gorfodi wedi'u targedu a gweithgareddau gorfodi ychwanegol mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid drwy Gynllun Datblygu Partneriaeth y cytunwyd arno gan yr awdurdod lleol.

BEL 2860 Y gyllideb hon yw'r prif fecanwaith ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â chwsmeriaid ffermio a'r diwydiant ehangach ar gynlluniau, polisïau a mentrau a weinyddir gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys cynhyrchu diweddariadau copi caled i holl hawlwyr Cynllun y Taliad Sylfaenol a chefnogi ffermwyr i gydymffurfio â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

Mae'r gyllideb yn cynnwys cyllid uniongyrchol i Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn ogystal â Chymdeithasau sioeau eraill ledled Cymru.

BEL 2861 - Mae'r dyraniad yn ariannu Prosiect Sir, Plwyf, Daliad (CPH), sy'n rhesymoli ac yn glanhau'r dirwedd CPH yng Nghymru. Bydd y gyllideb a ddyrannwyd (£200,000) yn sicrhau bod RPW yn parhau i weinyddu a datblygu'r platfform TG presennol ac mae'r £300,000 arall ei angen i gefnogi gwaith achos a chostau eraill sy'n gysylltiedig â newid rhifau CPH er enghraifft diwygio cofnodion APHA

BEL 2862 EIDCymru yw'r gronfa ddata ar gyfer symudiadau defaid i ffermwyr Cymru, sy'n bodloni'r safonau fel y'u nodir yn Rheoliad y Cyngor Ewropeaidd 21/2004 lle mae'n ofynnol i aelod-wladwriaethau sefydlu sail ar gyfer system Ewropeaidd i nodi a chofnodi symudiadau defaid, geifr a cheirw. Gallai diffyg

cydymffurfiaeth â'r rheoliadau hyn arwain at dorri cyfraith Ewropeaidd a chael effaith ar gytundebau masnach ar ôl ymadael â'r UE yn y dyfodol. Mae EIDCymru yn gwella'r gallu i olrhain, gan helpu i liniaru yn erbyn y gost sylweddol i'r llywodraeth a'r diwydiant pe bai achosion o glefyd anifeiliaid mewn defaid.

## Gweinyddu'r PAC a gwneud Taliadau yn unol â rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru

| CAP administration and making Payments in accordance with EU and WAG rules BEL's REVENUE | 2023-24 Final Budget restated £'000 | 2024-25 Indicative Budget £'000 | Change £'000 | % Change | 2024-25 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Agriculture EU Pillar 1 Direct Payments (2787) | 238,000 | 238,000 | 0 | 0% | 238,000 | 0 | 0% |
| Single Payment Scheme Administration (2790) | 9,194 | 9,194 | (5,500) | -60% | 3,694 | (5,500) | -60% |
| **Total Revenue** | **247,194** | **247,194** | **(5,500)** | **-2%** | **241,694** | **(5,500)** | **-2%** |

| CAP Administration and making payments according to EU and WG rules BEL's CAPITAL | 2023-24 Final Budget restated £'000 | 2024-25 Indicative Budget £'000 | Change £'000 | % Change | 2024-25 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Common Agriculture Policy IT (2789) | 6,000 | 6,000 | 0 | 0% | 6,000 | 0 | 0% |
| **Total CAPITAL** | **6,000** | **6,000** | **0** | **0%** | **6,000** | **0** | **0%** |

Mae Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) yn Gymorth Uniongyrchol a ariennir yn ddomestig yn gyfan gwbl, sydd wedi'i gadw o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) o dan gyfraith yr UE a ddargedwir. Mae taliadau'n cael eu gwneud yn uniongyrchol i ffermwyr sy'n defnyddio'r arian i dalu eu treuliau busnes a threuliau eraill. Gwneir taliadau ym mis Hydref (blaenswm) ac ym mis Rhagfyr (balansau). Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (p.2),

BEL 2790 Mae systemau TGCh Taliadau Gwledig Cymru yn cynnwys tair prif elfen:

- **CAPIT**: System dilysu ceisiadau a thaliadau sy'n seiliedig ar reolau.
- **Golygydd y Cynllun**: System Adnabod Parseli Tir (LPIS) yn seiliedig ar System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a ddefnyddir i fapio'r holl dir sy'n cael ei ffermio a'i hawlio yng Nghymru naill ai ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol neu Glastir
- **RPW Ar-lein**: Porth ar-lein i ffermwyr (hawlwyr) wneud cais a hawlio am wahanol gynlluniau PAC a RhDG. Mae'r system hon yn cefnogi gwasanaeth digidol 100% yn RPW.

Mae'r tair system yn rhan annatod o'r broses o gynnal darpariaeth effeithlon o'r holl gynlluniau cymorth gwledig ac mae'n hanfodol eu bod yn parhau i weithredu a chael eu datblygu er mwyn:

- Cynnal llwybr archwilio cadarn a chadw cofnodion ar gyfer holl daliadau'r UE.
- Cyflwyno'r gyfres o gynlluniau cymorth domestig cyn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
- Cefnogi cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2025 a'r pontio o Gynllun y Taliad Sylfaenol wedi hynny.

## Cynlluniau Buddsoddi Gwledig

| Rural Economic and Sustainability Programme BEL's<br>REVENUE | 2023-24 Final Budget restated £'000 | 2024-25 Indicative Budget £'000 | Change £'000 | % Change | 2024-25 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| RIS (2833) | 70,272 | 109,454 | 39,182 | 56% | 46,139 | (63,315) | -58% |
| **Total Revenue** | **70,272** | **109,454** | **39,182** | **56%** | **46,139** | **- 63,315** | **-58%** |

| Rural Economic and Sustainability Programme BEL's<br>CAPITAL | 2023-24 Final Budget restated £'000 | 2024-25 Indicative Budget £'000 | Change £'000 | % Change | 2024-25 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rural Investment Schemes (2833) | 20,500 | 30,000 | 9,500 | 46% | 53,000 | 23,000 | 77% |
| **Total CAPITAL** | **20,500** | **30,000** | **9,500** | **46%** | **53,000** | **23,000** | **77%** |

Diben y BEL hon yw cefnogi datblygiad cynlluniau gwledig yn 2024/25. Rydym wedi bod yn datblygu a gweithredu cynlluniau pontio ar gyfer ffermwyr a rheolwyr tir rhwng 2021 a 2025 drwy gyllid sy'n disodli cyllid yr UE, cyn cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd y cyllid yn darparu cymorth i ddatblygu'r rhaglen tymor hwy hon. Bydd y canlyniadau a'r mesurau perfformiad ar gyfer cynlluniau sy'n cael eu datblygu drwy gyllid sy'n disodli cyllid yr UE yn cael eu datblygu ar lefel rhaglen a chynllun.

## Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20

| Welsh Government Rural Communities: Delivering the programmes within the Rural Development Plan 2014-20 BEL's<br>REVENUE | 2023-24 Final Budget restated £'000 | 2024-25 Indicative Budget £'000 | Change £'000 | % Change | 2024-25 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rural Development Plan 2014-20 (2949) | 17,182 | - | (17,182) | -100% | 0 | 0 | |
| **Total Revenue** | **17,182** | **-** | **(17,182)** | **-100%** | **0** | **0** | |

| Welsh Government Rural Communities: Delivering the programmes within the Rural Development Plan 2014-20 BEL's<br>CAPITAL | 2023-24 Final Budget restated £'000 | 2024-25 Indicative Budget £'000 | Change £'000 | % Change | 2024-25 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rural Development Plan 2014-20 (2949) | 9,500 | 0 | (9,500) | -100% | 0 | 0 | |
| **Total CAPITAL** | **9,500** | **-** | **(9,500)** | **-100%** | **0** | **0** | |

Mae BEL 2949 - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn rhaglen fuddsoddi saith mlynedd sy'n cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau, ac mae bellach wedi cau.

## Datblygu ar sail tystiolaeth ar gyfer Materion Gwledig

| Evidence based development for Rural Affairs BEL's REVENUE | 2023-24 Final Budget restated £'000 | 2024-25 Indicative Budget £'000 | Change £'000 | % Change | 2024-25 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Research & Evaluation (2240) | 520 | 520 | 0 | 0% | 520 | 0 | 0% |
| **Total Revenue** | **520** | **520** | **0** | **0%** | **520** | **0** | **0%** |

Mae'r BEL hon yn ariannu gweithgarwch ymchwil a gwerthuso pwysig mewn perthynas ag amaethyddiaeth Cymru. Mae'n cynnwys dau linyn:

1) Mae'r Arolwg o Fusnesau Ffermio (FBS) yn arolwg blynyddol o fusnesau ffermio yng Nghymru. Fe'i cynhelir gyda'r prif bwrpas o gasglu data ffisegol ac ariannol manwl am sefyllfa economaidd busnesau fferm ledled Cymru. Yr arolwg yw'r brif ffynhonnell gwybodaeth am economeg busnesau fferm. Mae'r arolwg yn darparu tystiolaeth ar lefelau incwm gwahanol sectorau amaethyddol yng Nghymru, perfformiad ariannol, a sefyllfa ariannol ffermydd (asedau, rhwymedigaethau, gwerth net). Er enghraifft, yr Arolwg o Fusnes Ffermio yw ffynhonnell y ffigur a glywn yn aml: ar gyfartaledd, mae 80% o incwm ffermwyr Cymru yn dod o'r Taliad Sylfaenol.
2) Mae prosiect ymchwil modelu economaidd FAPRI-DU yn cynnwys datblygu a chynnal system fodelu economaidd sy'n dangos y cydgysylltiadau deinamig ymhlith y newidynnau sy'n effeithio ar gyflenwad a galw ym mhrif sectorau amaethyddol Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd prosiect ymchwil FAPRI-UK yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth ar bolisi amaethyddiaeth domestig.

## Pysgodfeydd a dyframaethu gan gynnwys gorfodi Pysgodfeydd Cymru

| Fisheries and aquaculture including the enforcement of Welsh Fisheries BEL's REVENUE | 2023-24 Final Budget restated £'000 | 2024-25 Indicative Budget £'000 | Change £'000 | % Change | 2024-25 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Fisheries Schemes (2830) | 565 | 565 | 0 | 0% | - | (565) | -100% |
| Fisheries (2870) | 4,605 | 4,605 | 0 | 0% | 3,605 | (1,000) | -22% |
| **Total Revenue** | **5,170** | **5,170** | **0** | **0%** | **3,605** | **(1,565)** | **-30%** |

.

**Mae BEL 2870 yn cynnwys cyllid ar gyfer y canlynol;**

- **Gwyddor a Thystiolaeth Pysgodfeydd** – Darparu ystod o ymrwymiadau gwyddor pysgodfeydd statudol ac anstatudol, gan ategu gwaith rheoli pysgodfeydd a datblygu polisi pysgodfeydd.
- **Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru** – Dyma gynllun disodli EMFF a dyma'r cyfrwng ar gyfer buddsoddi yn y sectorau pysgodfeydd a dyframaethu
- **Systemau Digidol Pysgodfeydd** – Mae systemau digidol ar gyfer rheoli pysgodfeydd yn cynnwys amrywiaeth o systemau TG ar gyfer cofnodi daliadau, monitro llongau, cofnodi archwiliadau pysgodfeydd a thrwyddedau morol, cofnodion gwerthu pysgod a systemau iechyd a diogelwch ar gyfer swyddogion gorfodi.

- **Polisi Pysgodfeydd Domestig** - Byddwn yn parhau i fodloni rhwymedigaethau statudol i reoli pysgodfeydd trwyddedig a chyflwyno Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod ein pysgodfeydd yn gynaliadwy drwy ddiogelu'r amgylchedd gan fynd ati'r un pryd i wneud y gorau o fanteision economaidd a chymdeithasol pysgodfeydd i Gymru.

- **Masnach y Môr a Physgodfeydd -** Yn cynnwys cyllid craidd ar gyfer Cymdeithas Pysgotwyr Cymru (WFA)

- **Rheoli a Gorfodi** - Yn cwmpasu'r holl gostau gweithredol sy'n ymwneud â Rheoli a Gorfodi, gan gynnwys costau Llongau Patrôl Pysgodfeydd, megis cynnal a chadw, tanwydd ac yswiriant.

## Datblygu a Marchnata Bwyd a Diod Cymru

| Developing and Marketing Welsh Food and Drink BEL's REVENUE | 2023-24 Final Budget restated £'000 | 2024-25 Indicative Budget £'000 | Change £'000 | % Change | 2024-25 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Promoting Welsh Food and Industry Development (2970) | 7,050 | 7,050 | 0 | 0% | 4,790 | (2,260) | -32% |
| **Total Revenue** | **7,050** | **7,050** | **0** | **0%** | **4,790** | **(2,260)** | **-32%** |

Mae BEL 2970 yn ariannu rhaglenni ar draws y sbectrwm bwyd, gan ddefnyddio adnoddau ariannol gan Lywodraeth Cymru yn ehangach gan gynnwys RIS, Cronfa Pysgodfeydd Ewrop, y Gronfa Cadernid Economaidd a nifer o fentrau llai yn ogystal â ffynonellau ariannu allanol fel Bargeinion Twf;

- cefnogi goroesiad a gwytnwch busnesau ar ôl Covid-19 ac ar ôl ymadael â'r UE drwy ddenu arian i gefnogi twf y sector bwyd, cydweithio â manwerthwyr i'w hannog i gynyddu eu dewis o gynhyrchion bwyd a diod o Gymru, helpu i sicrhau mwy o bresenoldeb ar-lein i gynhyrchwyr o Gymru a gweithgareddau hyrwyddo i gynyddu cyfran gweithgynhyrchwyr bwyd Cymru o'r cyflenwad i'r sector gwasanaeth bwyd, twristiaeth a'r sector cyhoeddus; a
- hyrwyddo diwydiant bwyd Cymru drwy ddigwyddiadau a rhwydweithiau rhyngwladol gyda'r bwriad o gynyddu mewnfuddsoddiad.

## Diogelu a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid – ARIANNU'R CAMAU GWEITHREDU

| Protect and Improve Animal Health & Welfare | 2022-23 New Plans Draft Budget £'000 | 2023-24 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change | 2024-25 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Revenue | 41,499 | 41,499 | 0 | 0% | 41,499 | 0 | 0% |
| **TOTAL** | **41,499** | **41,499** | **0** | **0%** | **41,499** | **0** | **0%** |

Mae dadansoddiad manwl o Gamau Gweithredu yn ôl gweithgarwch BEL yn cael ei egluro yn yr adrannau canlynol.

## Cefnogi a Darparu'r rhaglen / strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid

| Support and Delivery of the Animal Health and Welfare programme / strategy BEL's REVENUE | 2022-23 New Plans Draft Budget £'000 | 2023-24 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change | 2024-25 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Animal Health & Welfare Framework (2270) | 1,108 | 1,108 | 0 | 0% | 1,108 | 0 | 0% |
| **Total Revenue** | **1,108** | **1,108** | **0** | **0%** | **1,108** | **0** | **0%** |

Mae'r gyllideb hon yn cwmpasu gwariant amrywiol y Llywodraeth ar iechyd anifeiliaid, lles, atal a rheoli clefydau yn ogystal â gwyliadwriaeth a rheolaeth ragweithiol/cynllunio wrth gefn ar gyfer clefydau egsotig. Mae'n cynnwys cymorth parhaus i Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru a'r Grŵp Cyflawni ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Anifeiliaid a'r Amgylchedd. Mae hyn yn ein galluogi i weithio mewn partneriaeth â diwydiant i godi safonau iechyd a lles anifeiliaid, hyrwyddo'r defnydd cyfrifol o wrthfiotigau a gweithredu'n effeithiol i reoli achosion o glefydau anifeiliaid.

## Rheoli a darparu Dileu TB a Chlefydau Endemig eraill

| Management and delivery of TB Eradication and other Endemic Diseases BEL's REVENUE | 2022-23 New Plans Draft Budget £'000 | 2023-24 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change | 2024-25 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Animal and Plant Health Agency (2271) | 18,281 | 18,281 | 0 | 0% | 18,281 | 0 | 0% |
| TB Slaughter Payments Costs & Receipts (2272) | 13,810 | 13,810 | 0 | 0% | 13,810 | 0 | 0% |
| TB Eradication (2273) | 8,300 | 8,300 | 0 | 0% | 8,300 | 0 | 0% |
| **Total Revenue** | **40,391** | **40,391** | **0** | **0%** | **40,391** | **0** | **0%** |

Mae'r cyllid hwn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau a'r gweithgareddau statudol, y mwyafrif ohonynt gan wasanaethau'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yng Nghymru. Mae'r cyllid yn helpu i ddiogelu iechyd a lles anifeiliaid yn ogystal ag iechyd y cyhoedd a bywoliaethau gwledig ac mae'n gwella diogelwch bwyd drwy ymchwil, gwyliadwriaeth ac arolygu.

Darperir cyllid hefyd ar gyfer y gwaith statudol a wneir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar gyfer taliadau iawndal TSE statudol petai'r angen yn codi.

Mae'r gyfran sylweddol o weithgarwch APHA yn gweithredu gofynion statudol a pholisi Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r Rhaglen i Ddileu TB (yn ychwanegol at BEL 2273) yn ogystal â chymhwyso rheolaethau er mwyn sicrhau diogelwch iechyd pobl a'r gadwyn fwyd ddynol.

Mae'r gyllideb ar waith i liniaru'r canlynol:

- Risgiau sy'n codi os bydd achosion o glefyd anifeiliaid egsotig yn arwain at sgil-effeithiau ehangach o ystyried bod gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth (ariannol) ddigwyddiadol ar gyfer costau sydd heb eu cyllidebu o dan yr amgylchiadau hynny, e.e. amcangyfrifwyd bod Clwy'r Traed a'r Genau wedi costio tua £100 miliwn i'r Llywodraeth yng Nghymru yn 2001, pan nad oedd yn fater wedi'i ddatganoli. Yn nhermau heddiw, gallai'r gost honno fod yn llawer mwy heb amcangyfrif niwed i gymunedau diwydiant, masnach a thwristiaeth yng Nghymru lle byddai effaith niweidiol ddifrifol i incymau.

- Gallai methu â dangos rheolaeth effeithiol o glefydau anifeiliaid danseilio trafodaethau yn y dyfodol ar farchnad sengl lle gallai gofynion i gael rheolaethau clefydau anifeiliaid ar waith sydd yn y man lleiaf yn cyfateb i rai Aelod-wladwriaethau eraill fod yn sefyllfa y rhoddir cryn bwyslais arni fel rhan o unrhyw gytundeb masnach gyda'r Gymuned Ewropeaidd.

Bydd gostyngiadau mewn lefelau rheoli clefydau anifeiliaid yn effeithio ar drafodaethau masnach y DU ar hyn o bryd ac yn y dyfodol gan y bydd disgwyl i'r DU allu dangos lefelau rheolaeth sydd yn y man lleiaf i rai Aelod-wladwriaethau Ewrop.

Mae BEL 2272 yn gyllideb 'sy'n cael ei harwain gan y galw' ac mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd statudol i dalu iawndal TB. Mae cysylltiad annatod rhwng nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu difa ac felly'r pwysau ar y gyllideb hon â chynnydd y gwaith i Ddileu TB a chyllideb y Rhaglen i Ddileu TB (BEL 2273). Gall unrhyw ymyrraeth i bolisïau dileu arwain at ledaenu clefydau, sydd yn ei dro yn debygol o arwain at fwy o wariant ar Iawndal TB. Os bydd gorwario yn digwydd byddai goblygiadau i gyllidebau OCVO a Llywodraeth Cymru ehangach, gan y gallai'r rhain hefyd gael eu galw i wrthbwyso unrhyw orwario fel y gwelir yn y blynyddoedd blaenorol.

BEL 2273 Mae'r gyllideb hon yn cwmpasu ymrwymiad statudol i Gynllun Dileu TB y DU. Mae'r BEL hwn yn ategu'r gwaith a wnaed gan ein partner cyflenwi yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) i gyflwyno polisïau TB, gan gynnwys profion blynyddol, a mentrau a phrosiectau fel Cymorth TB a gwaith epidemiolegol i helpu i ategu'r dystiolaeth a'r dull gweithredu ar gyfer y Rhaglen i Ddileu TB. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ariannu'n rhannol gan y BEL hon a hefyd gan BEL 2271 (Darparu a Thaliadau Iechyd a Lles Anifeiliaid).

## Monitro Materion Gwledig a Strategaeth Ymadael â'r UE - ARIANNU'R CAMAU GWEITHREDU

| Rural Affairs Monitoring and EU Exit Strategy | 2022-23 New Plans Draft Budget £'000 | 2023-24 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change | 2024-25 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategy & Government Relations (2816) | 3,389 | 3,389 | 0 | 0% | 2,639 | (750) | -22% |
| **TOTAL** | **3,389** | **3,389** | **0** | **0%** | **2,639** | **(750)** | **-22%** |

Mae dadansoddiad manwl o Gamau Gweithredu yn ôl gweithgarwch BEL yn cael eu hegluro yn yr adrannau canlynol.

Mae'r BEL hwn yn cefnogi'r Uned Tystiolaeth Strategol, Ffiniau a Chysylltiadau Rhynglywodraethol (SEBIR - Uned Ymadael â'r UE a'r Strategaeth ERA gynt). Cafodd yr is-adran ei chreu i gydlynu, cefnogi a llywio ein hymadawiad o'r UE a gweithgareddau pontio. Mae'r datblygiadau hyn yn dal i esblygu ac mae angen ymdrech ac adnoddau parhaus arnynt i sicrhau ymgysylltiad a dylanwad effeithiol ar draws nifer o adrannau Llywodraeth y DU. Mae'r is-adran yn gweithio ar draws portffolios Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, er mwyn hwyluso, cydgysylltu a chyflwyno tystiolaeth strategol a modelau a'u cymhwyso'n ymarferol i gefnogi gwaith llunio polisïau ehangach portffolios. Mae hyn yn cynnwys rheoli'r contract ERAMMP tymor hir, datblygu technolegau Arsylwi'r Ddaear, Rhaglen Tystiolaeth Amgylcheddol â ffocws a'n gweithgareddau ymgysylltiad academaidd, i gyd yn cefnogi datblygu polisi, cyflawni a gwerthuso ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Ar ôl cwblhau cytundeb masnach cynhwysfawr gyda'r UE, ffocws yr is-adran yw cefnogi gweithrediad swyddogaethau a strwythurau trawsbynciol newydd sy'n deillio o ymadael â'r UE a rheoli cysylltiadau rhynglywodraethol ar gyfer y portffolio, gyda phob un o'r timau polisi perthnasol yn bennaf gyfrifol am ddatblygu, cyflawni, rheoli a chyfathrebu polisïau.

## Yr Amgylchedd, Rheoli Bywyd Gwyllt a Mannau Gwyrdd Cymunedol - ARIANNU'R CAMAU GWEITHREDU

| Environment, Wildlife Management and Community Green Spaces BEL's REVENUE | 2022-23 New Plans Draft Budget £'000 | 2023-24 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change | 2024-25 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| New National Park BEL 2803 | 700 | 700 | 0 | 0% | 700 | 0 | 0% |
| Plant and Wildlfife BEL 2802 | 886 | 886 | 1 | 100% | 886 | 1 | 100% |
| **Total Revenue** | **700** | **700** | **0** | **0%** | **700** | **0** | **0%** |

**Amddiffyn a Rheoleiddio Planhigion a Bywyd Gwyllt - BEL 2802**
Mae'r BEL hon yn cefnogi gwaith ar ddeddfwriaeth a Pholisi Iechyd Planhigion, gan gynnwys ymchwil wyddonol a gweithgarwch gwyliadwriaeth i nodi a llywio ymateb i risgiau penodol i Gymru ac i gyfathrebu risgiau iechyd planhigion. Mae'r maes gwaith hwn hefyd yn cynnwys datblygu polisi, deddfwriaeth a rheoleiddio cynhyrchion diogelu planhigion a bioladdwyr yng Nghymru. Mae'r BEL hefyd yn ariannu gweithgarwch i reoli lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol, gan gynnwys cyfrannu at arolygiaeth rhywogaethau estron Prydain. Mae'r BEL hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer diogelu bywyd gwyllt penodol, gan gynnwys trwyddedu moch daear ac ymchwilio i achosion o wenwyno bywyd gwyllt a amheuir a'r gwaith polisi y tu ôl i'r gwaharddiad ar faglau a thrapiau glud yn 2023 a'r Cydgysylltydd Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt.

Mae'r BEL, ynghyd â BEL2825 yn y MEG CC, hefyd yn darparu ar gyfer ceisiadau sgrinio rhagweithiol AEA Amaethyddol ac ymchwilio i achosion posibl o dorri'r rheoliad, gorfodi ac adfer lle mae difrod i gynefin pwysig heb ei wella ar dir amaethyddol wedi digwydd. Mae'r BEL hefyd yn cwmpasu'r polisïau Amrywogaethau a Hadau Planhigion, gan gynnwys costau cynnal rhestrau cenedlaethol a phrofi mathau newydd o blanhigion. Mae hyn yn arwain at angen i ddatblygu polisi ar Dechnolegau Genetig newydd mewn ymateb i newidiadau deddfwriaethol gan Lywodraeth y DU sy'n effeithio fwyfwy ar Gymru. Mae'r technolegau hyn a'r polisïau cysylltiedig hyn yn drawsbynciol, gan effeithio ar iechyd a lles anifeiliaid a bwyd anifeiliaid, gan gynnwys bwydydd newydd (proteinau a dyfir mewn labordy), ond mae planhigion ymysg yr organebau cyntaf a allai ddeillio o newid rheoliadol yn Lloegr. Mae hefyd yn darparu ar gyfer hyfforddiant, cyfathrebu a threuliau achlysurol eraill, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd ac ymgyfreitha yn y meysydd polisi a gwmpesir gan Gangen Iechyd Planhigion a Diogelu'r Amgylchedd Is-adran y Tir, Natur a Choedwigaeth.

**Parc Cenedlaethol Newydd BEL 2803**

Cyfrifoldeb y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd yw dynodi Parc Cenedlaethol newydd i gwmpasu Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Bydd dyraniad cyllideb penodol 2024-25 yn parhau i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd ar gyfer Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Mae dynodi Parc Cenedlaethol yn ymgymeriad sylweddol ac mae'r rhan fwyaf o'r cyllid hwn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru, ein cynghorwyr statudol yn y maes hwn, i ymgymryd â'r rhaglen baratoadol ffurfiol angenrheidiol. Mae CNC wedi cwblhau'r gwaith o baratoi proses wedi'i diweddaru a'i symleiddio ar gyfer asesu'r achos dros ddynodiadau tirwedd newydd yng Nghymru yng nghyd-destun

deddfwriaeth Cymru. Ochr yn ochr â hyn, mae CNC yn datblygu'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen i lywio'r asesiad o'r achos dros ddynodi Parc Cenedlaethol newydd. Mae CNC hefyd wedi dechrau ar broses ymgysylltu ac ymgynghori i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf a bod ganddynt lais. Mae'r cyllid hwn yn sicrhau bod CNC yn ymgymryd â'r gwaith Dynodi mewn ffordd mor effeithiol a chadarn â phosibl, gyda'r arbenigedd a'r capasiti angenrheidiol. Mae chwe swydd newydd wedi'u recriwtio i dîm Rhaglen newydd.

Mae'r cyllid hefyd yn darparu refeniw ychwanegol i AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy i feithrin gallu a gwydnwch tra bod y gwaith dynodi yn cael ei ddatblygu.

**Crynodeb**

Mae tabl BEL Cyllideb Ddrafft MEG Materion Gwledig ar gyfer 2024-25 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried.

**Lesley Griffiths**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

**Dyddiad:** **18 Ionawr 2024**

**Amser:** **12:10 – 13:40**

**Teitl: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) yr Economi**

## a) Cyflwyniad

a.1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth am gynigion cyllideb yr Economi fel yr amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn craffu ar y gweithgarwch Diwylliant, Celfyddydau a Chwaraeon ar 17 Ionawr.

a.2. Fel rhan o'n cynllun ar gyfer twf economaidd, rydym am gryfhau ac adeiladu ar ein cynnydd gyda'r partneriaethau unigryw sy'n dod â busnesau, awdurdodau lleol, undebau llafur a'r byd academaidd at ei gilydd. Rydym ni fel cenedl yn cydbwyso ein dyheadau â'r realiti ariannol, rydym yn rhoi blaenoriaeth i fuddsoddiadau sy'n gynaliadwy ac sy'n cynnig twf go iawn, gwaith teg, a manteision amlwg i'n cymunedau.

Ym mis Tachwedd 2023, lansiais ein Cenhadaeth Economaidd ar ei newydd wedd. Mae angen i ni ymateb i heriau tarfu byd-eang, chwyddiant, cyfraddau llog a chostau ynni, ac mae ein Cenhadaeth Economaidd newydd yn nodi pedair blaenoriaeth a fydd yn siapio sut gall Cymru ymateb i ansicrwydd a manteisio ar gyfleoedd newydd:

- **Trawsnewid cyfiawn a Ffyniant Gwyrdd** – Gwireddu'r cyfleoedd economaidd Sero Net enfawr ac ymgysylltu â busnesau a phobl i symud tuag at drawsnewid cyfiawn.
- **Llwyfan ar gyfer pobl ifanc, gwaith teg, sgiliau a llwyddiant** – Cefnogi pobl ifanc i gael dyfodol uchelgeisiol yng Nghymru. Rhoi blaenoriaeth i'w sgiliau a'u creadigrwydd.
- **Partneriaethau cryfach ar gyfer rhanbarthau cryfach a'n heconomi bob dydd** – Gweithio gyda'r rhanbarthau i gytuno ar set lai o flaenoriaethau ar gyfer twf, swyddi lleol a buddsoddiad mawr. Cydweithio newydd i hybu'r achos dros fuddsoddi gan y DU mewn prosiectau sy'n denu llawer o fuddsoddiadau ac yn cefnogi swyddi teg sy'n cydnabod undebau llafur mewn meysydd fel Niwclear, Gwynt ar y Môr a Thechnoleg.
- **Buddsoddi ar gyfer Twf** - Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ganolbwyntio ar ein cryfderau cydnabyddedig i hybu buddsoddiad a thwf sy'n gwobrwyo gwaith teg a gweithredu ar gyfer y tymor hir. Bydd ein Strategaeth Arloesi newydd sy'n seiliedig ar genhadaeth yn targedu buddsoddi newydd mewn tirwedd ôl-UE, gan gefnogi masnacheiddio, ymchwil a datblygu ac entrepreneuriaeth.

Bydd y blaenoriaethau hyn yn siapio sut rydym yn ystyried buddsoddiad, polisïau a rhaglenni ar draws yr economi. Mae cynigion y gyllideb ar gyfer portffolio'r Economi wedi'u halinio i gefnogi'r strategaeth newydd hon.

Rydym wedi ymrwymo i gynnal cyfres o ymarferion trylwyr yn 2024, a fydd yn ceisio edrych ar gyfleoedd i gyflawni yn erbyn themâu penodol ar draws y blaenoriaethau, gan ddefnyddio dull llywodraeth gyfan a phartneriaeth.

Mae cynigion y gyllideb ar gyfer portffolio'r Economi wedi'u halinio i gefnogi'r strategaeth newydd hon.

## 1. Tryloywder cyflwyniad y gyllideb

1.1. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o gynlluniau dangosol ar gyfer MEG yr Economi a gyhoeddwyd yng Nghyllideb ddrafft 2024-25

| MEG yr Economi – Crynodeb | 2023-24 Cyllideb Derfynol Chwefror 2023 £000oedd | 2024-25 Cyllideb Ddrafft Ddangosol Chwefror 2023 £000oedd | Diwygiadau i Ddyraniadau Dangosol 2024-25 | Llinell sylfaen ddiwygiedig 2024-25 £000oedd | Newidiadau Eraill 2024-25 £000oedd | Cyllideb Ddrafft 2024-25 Rhagfyr 2023 £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | 466,369 | 482,434 | -49.932 | 432,502 | 6,400 | 438,902 |
| Cyfalaf | 79,263 | 100,492 | 0 | 100,492 | 2,000 | 102,492 |
| **Cyfanswm Adnoddau a Chyfalaf** | **545,632** | **582,926** | **-49,932** | **532,994** | **8,400** | **541,393** |
| Adnodd AME | 58,525 | 58,525 | 0 | 58,525 | 0 | 58,525 |
| Cyfalaf AME | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm AME** | **58,525** | **58,525** | **0** | **58,525** | **0** | **58,525** |
| **Cyfanswm – MEG yr Economi** | **604,157** | **641,451** | **-49,932** | **591,519** | **8,400** | **599,919** |

## 2. Adnoddau

2.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi ail-lunio ein cyllideb i ddarparu cyllid ychwanegol a gwarchodaeth i'r gwasanaethau sydd bwysicaf i chi. Rydym wedi gwneud hynny yn unol â'n blaenoriaethau, sef:

- Diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen, craidd cyn belled ag y bo modd.
- Sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd sy'n cael eu taro galetaf.
- Rhoi blaenoriaeth i swyddi, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.
- Gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus i wynebu'r storm ariannol hon gyda'n gilydd.
- Ail-ffocysu cyllid draw oddi wrth feysydd nad ydynt wedi'u datganoli, y dylai Llywodraeth y DU fod yn eu hariannu.

2.2. Rydym wedi ail-lunio'r dyraniadau gwariant dangosol yn ein cyllideb i ddarparu cyllid ac amddiffyniad ychwanegol i'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl a chymunedau ledled Cymru – y GIG a'r setliad llywodraeth leol craidd sy'n ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, a gwasanaethau bob dydd eraill.

2.3. Rydym yn diogelu'r setliad llywodraeth leol craidd, sy'n ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, casgliadau sbwriel a gwasanaethau hamdden lleol. Rydym yn darparu'r cynnydd o 3.1% a addawyd gennym y llynedd.

2.4. Ac rydym yn creu cronfa gyfalaf newydd gwerth £20m i helpu busnesau bach yn y sectorau manwerthu, hamdden a thwristiaeth. Bydd busnesau manwerthu, lletygarwch a hamdden ledled Cymru hefyd yn derbyn pumed flwyddyn yn olynol o gymorth i dalu eu bil ardrethi annomestig.

2.5. O ganlyniad i ail-lunio cyllidebau Llywodraeth Cymru, mae'r gyllideb Adnoddau ar gyfer MEG yr Economi wedi gostwng £43.532m yn 2024-25 o'i gymharu â llinell sylfaen cyllideb derfynol ddangosol 2024-25. Derbyniwyd dyraniad o £6.4m o'r cronfeydd canolog ar gyfer rhaglen y Ffiniau, sy'n cael ei wrthbwyso gan ad-daliad i'r cronfeydd wrth gefn o £49.932m fel cyfraniad MEG yr Economi neu ailflaenoriaethu i gwrdd â phwysau ehangach.

2.6. Mae'r newidiadau hyn i linellau cyllideb sy'n berthnasol i'r pwyllgor hwn yn cael eu crynhoi yn **Atodiad A** ac **Atodiad B**.

## 3. Cyfalaf

3.1. Mae'r gyllideb Cyfalaf ar gyfer MEG yr Economi wedi cynyddu £2m yn 2024-25 o'i chymharu â llinell sylfaen cyllideb derfynol ddangosol 2024-25. Mae'r cynnydd i'w briodoli i ddyraniad ar gyfer trafodiad ariannol cyfalaf yn ymwneud â phrosiect Cadence.

3.2. Mae cyllideb cyfalaf yr Economi yn £102.492m ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25.

## 4. Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

4.1. Nid yw'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol o £58.525m wedi newid ac mae'n talu am gostau sydd y tu hwnt i reolaeth y portffolio, fel amhariadau yn y portffolio eiddo, amrywiadau ym mhrisiadau pensiynau ar gyfer Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Chwaraeon Cymru a Gyrfa Cymru. Cytunir ar y gyllideb hon gyda'r Trysorlys bob blwyddyn ac fe'i cyllidir yn llawn. Mae ffigurau'r Gyllideb ddrafft Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn adlewyrchu'r rhagolygon a gyflwynwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Medi 2023.

## 5. Sylwadau ar Gamau Gweithredu a Manylion Dyraniadau Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)

5.1. Mae **Atodiad A** yn cynnwys dadansoddiad o'r newidiadau i MEG yr Economi yn ôl maes gwariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer 2024-25. Mae sylwadau i egluro'r newidiadau i bob Cam Gweithredu yn yr MEG hefyd ar gael yn **Atodiad B.** Mae esboniad naratif tryloyw wedi cael ei ddarparu i egluro cynnydd a gostyngiad, pan nad yw hynny'n cael sylw yn y papur tystiolaeth. Dim ond i'r cyllidebau sydd wedi'u gwarannu fel rhan o'r pwyllgor hwn y mae hyn yn berthnasol.

## 6. Monitro cyllidebau

6.1. Bydd pob cyllideb yn dal i gael ei monitro a'i herio'n fisol yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24, er mwyn ystyried y rhagolygon diweddaraf a symudiadau cyllideb yn ôl yr angen. Rwyf yn cael y newyddion ariannol diweddaraf yn rheolaidd ynghylch y rhagolygon ar gyfer fy mhortffolio i sicrhau bod cyllidebau'n aros ar y trywydd iawn i gyflawni fy mlaenoriaethau.

Rydym yn parhau i fonitro'n agos iawn i sicrhau bod cyllid yn cael ei fuddsoddi lle mae mwyaf ei angen, gan gefnogi ein blaenoriaethau – yn y lle iawn, ar yr adeg iawn.

6.2. Mae elfennau sylweddol o weithgarwch a wneir o dan MEG yr Economi yn dibynnu ar ffactorau allanol, sy'n amrywio o facro-economeg i'r galw a hyd yn oed y tywydd. Rhaid i'n gwasanaethau fel Busnes Cymru addasu i newidiadau yn yr economi, a gall newidiadau yn y galw am raglen effeithio ar gynlluniau fel ein darpariaeth yn y rhaglenni Cyflogaeth a Sgiliau, yn enwedig yng nghyd-destun cynllunio cyllideb flynyddol. Mae hyn yn golygu bod cynllunio ac ailflaenoriaethu effeithiol yn hanfodol. Wrth gwrs, mae hyn yn golygu y gall ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru effeithio ar wariant, ond mae fy swyddogion yn monitro cynlluniau'n agos i gytuno ar opsiynau a chynigion ar gyfer camau unioni er mwyn ceisio rheoli gwariant net ar lefelau'r gyllideb.

## 7. Sylfaen Tystiolaeth / Gwerthusiad ac adolygiadau

7.1. Mae tystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau yn sail i'n penderfyniadau ariannol, fel ymchwil a gyhoeddwyd, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, ystadegau a gwerthusiadau polisi blaenorol. Mae hyn yn rhan annatod o'r broses o wneud penderfyniadau, gydag enghreifftiau i ddilyn.

7.2. Bydd gwerthusiad o raglen Trio Sci yn cael ei dderbyn cyn bo hir, a bydd y canfyddiadau'n help i lunio rhaglen gyfoethogi STEM newydd yn barod ar gyfer ei lansio ym mis Ebrill 2024. Amcan y gwerthusiad fydd archwilio:

- Asesiad o'r llinell sylfaen cyfalaf gwyddoniaeth a newid drwy amser, rhyw, grŵp rheoli, is-setiau rhanbarthol, ymgysylltu a niferoedd defnyddwyr drwy gyfrwng metrigau a nodwyd ar y dechrau;
- Y nifer sy'n astudio pynciau gwyddoniaeth TGAU, o'r nifer sy'n astudio pwnc gwyddoniaeth sengl gorfodol hyd at y nifer sy'n astudio'r uchafswm gwirfoddol o dri phwnc gwyddoniaeth. A'r nifer sy'n dilyn cymhwyster datblygu gyrfa galwedigaethol;
- Penderfynu a yw'r cysyniad o Gyfalaf Gwyddoniaeth wedi gwreiddio'n gadarnhaol yn y garfan sy'n cymryd rhan o ganlyniad i gysylltiad ag ymyriad cyfoethogi STEM strategol parhaus;
- Pennu a llywio argymhellion i'r dyfodol ar ymyriadau pellach yn ôl yr angen yn unol â thystiolaeth.

7.3. Rydym wedi cyhoeddi pa gamau rydym wedi'u cymryd mewn ymateb i gam un y Sgwrs Genedlaethol ar y Warant i Bobl Ifanc (cyfres o arolygon a grwpiau ffocws gyda phobl ifanc 16-24 oed am eu profiadau addysg a chyflogaeth, a gynhaliwyd mewn tri cham rhwng 2022 a 2023) ar ein gwefan. Mae'r camau gweithredu'n cynnwys ymestyn yr ystod oedran cymwys i 19 oed i gofrestru ar gyfer rhaglen Twf Swyddi Cymru+ a dyblu cyfradd y Lwfans Hyfforddi i £60; lwfans prydau bwyd am ddim newydd; a chaniatáu hawlio 100% o gostau teithio dros dro (os ydych chi'n ymgymryd â hyfforddiant). Bydd yr adroddiadau ar gamau dau a thri yn cael eu cyhoeddi yn y flwyddyn newydd.

7.4. Mae gwerthusiadau o'n rhaglenni cyflogadwyedd cymunedol wedi cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Daeth y rhaglenni Cymunedau am Waith a Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, a gefnogwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, i ben ar 31 Mawrth 2023 ond mae Cymunedau am Waith a Mwy wedi parhau ac mae'r gwersi a ddysgwyd o'r gwerthusiadau wedi cael eu hadlewyrchu yn y ddarpariaeth. Drwy fentora a hyfforddiant dwys, mae Cymunedau am Waith a Mwy yn targedu ac yn cefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, gan gynnwys pobl ifanc, pobl anabl, unigolion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gweithwyr hŷn, rhieni a gofalwyr. Mae gwerthusiad cychwynnol newydd gael ei gwblhau ar raglen Twf Swyddi Cymru+ sy'n dangos bod 89%

o bobl ifanc wedi dweud bod y cymorth a roddwyd gan y rhaglen wedi bodloni neu ragori ar ddisgwyliadau, wedi cefnogi eu datblygiad gyrfa a bod eu hanghenion unigol wedi cael eu hystyried gan arwain at weithgareddau hyfforddi a datblygu wedi'u teilwra. Dywedodd 97% o'r bobl ifanc fod rhaglen Twf Swyddi Cymru+ wedi gwella eu rhagolygon gwaith, gyda 91% o bobl ifanc yn dweud bod y rhaglen wedi gwella eu rhagolygon o ran cyflog yn y dyfodol.

7.5. Cynhyrchir amrywiaeth o wybodaeth gan yr Is-adran Cyflogadwyedd a Sgiliau i helpu i lywio penderfyniadau o fewn Cyflogadwyedd a Sgiliau, Llywodraeth Cymru yn ehangach, a rhanddeiliaid allanol. Mae'r rhain yn cynnwys yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr, lle cyhoeddwyd y prif ganfyddiadau ym mis Medi 2023, adroddiad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) gyda ffigurau ychwanegol ar gyfer Cymru a ryddhawyd ym mis Rhagfyr 2023, a bydd cyfres lawn o adroddiadau ar gyfer Cymru yn cael eu cyhoeddi ddechrau 2024. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth fanwl am y diffygion sgiliau y mae cyflogwyr yn eu hwynebu a sut y maent yn mynd i'r afael â'r diffygion hynny. Bydd adolygiad cyflym o dystiolaeth ar gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i wireddu eu nodau yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2024, gan ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisïau, yn enwedig y Warant i Bobl Ifanc. Cynhyrchwyd crynodeb Cymru o'r rhagamcanion cyflogaeth Hanfodion Sgiliau 2035, gan roi barn ar ble mae data'n awgrymu y bydd y galw mwyaf ar y farchnad lafur yn y dyfodol.

7.6. Cynhaliwyd adolygiad annibynnol canol tymor o raglenni cymorth SMART, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod cynnydd a pherfformiad SMART Cymru yn ffafriol yn erbyn y targedau dangosol. Roedd mwyafrif y buddiolwyr SMART Cymru a gyfwelwyd yn teimlo'n gadarnhaol am fanteision y cymorth roeddent wedi'i gael gan SMART Cymru (85%). Roedd buddiolwyr yn fodlon iawn â gwerth y cyllid a dderbyniwyd (90%), y gyfradd ymyrraeth berthnasol (66%) a'r hyblygrwydd yr oedd y cymorth cyllid yn ei roi (90%). Dechreuodd yr adolygiad terfynol o weithrediadau Cyfres SMART ym mis Rhagfyr 2022, ac fe'i cyhoeddir ym mis Mawrth 2024..

7.7. Mae Ysgol Busnes Caerdydd wedi cynnal astudiaeth effaith o wasanaeth Busnes Cymru:

<u>Craidd a thwf Busnes Cymru (lefelau 1-4):</u>

- Hyd at fis Mai 2021, amcangyfrifir bod cyfanswm gwariant y rhaglen yn £37.1m.
- Roedd 8,396 o fentrau wedi cael cymorth anariannol; 4,610 o fentrau newydd wedi cael cymorth; a 12,280 o unigolion wedi cael cymorth.
- Mae'r gwasanaeth wedi cynhyrchu £92m o fuddsoddiad busnes sy'n gysylltiedig â throsiant rhagamcanol o £7.76bn.
- Gallai'r swyddi ychwanegol sydd wedi cael eu creu/gweithgarwch fod yn gysylltiedig ag amcangyfrif o £380m o werth ychwanegol gros y flwyddyn.
- Gellir cysylltu pob £1 a fuddsoddir ag oddeutu £10 o gynnydd net yn y gwerth ychwanegol gros bob blwyddyn.
- Amcangyfrifir y byddai 7,234 o'r 14,471 o swyddi sydd wedi cael eu creu, hynny yw tua hanner y canlyniadau cyflogaeth, wedi gallu digwydd heb ymyriad Busnes Cymru o bosibl. Amcangyfrifir bod y swyddi net (ychwanegol) yn gysylltiedig ag oddeutu £380m o werth ychwanegol gros.
- Amcangyfrifir mai £2,564 yw'r gost fesul swydd sy'n cael ei chreu. Ar ôl ystyried ychwanegedd, £5,129 yw'r gost fesul swydd net sy'n cael ei chreu.
- Gallai cyfanswm y gweithgarwch o dan raglenni craidd a thwf Busnes Cymru fod yn gysylltiedig â £646m o werth ychwanegol gros.

- Mae'r gyfradd goroesi pedair blynedd yn 67% o'i chymharu â 33% ar gyfer sampl gyfatebol o fusnesau a oedd heb gael cymorth.

Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru:

- Hyd at fis Mehefin 2021, roedd y gyllideb gyffredinol ar gyfer y Rhaglen Cyflymu Twf yn £26.9m gydag oddeutu 85% o'r arian wedi'i rwymo.
- Ers 2015-16, mae'r Rhaglen Cyflymu Twf wedi cefnogi tua £377m o fuddsoddiadau menter, 9,755 o swyddi, a £266m o allforion.
- Mae'r cyfanswm o 9,755 o swyddi gros wedi'u creu yn golygu tua 5,332 o swyddi net – hynny yw, byddai tua 45% o'r canlyniadau cyflogaeth wedi gallu digwydd o bosibl heb ymyriad Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru. Amcangyfrifir bod y swyddi net hyn yn gysylltiedig ag oddeutu £410m o werth ychwanegol gros.
- Amcangyfrifir mai £2,329 yw'r gost fesul swydd gros sy'n cael ei chreu. Ar ôl ystyried ychwanegedd, amcangyfrifir mai £4,261 yw'r gost net fesul swydd sy'n cael ei chreu.
- Amcangyfrifir bod y gweithgarwch/swyddi ychwanegol sydd wedi cael eu creu yn dod i £410m o werth ychwanegol gros y flwyddyn.
- Gellir cysylltu pob £1 a fuddsoddir ag oddeutu £18 o gynnydd net yn y gwerth ychwanegol gros bob blwyddyn.
- £377m o fuddsoddiad busnes yn gysylltiedig â throsiant rhagamcanol o £5.99bn.
- Mae'r gyfradd goroesi pedair blynedd ymysg busnesau sydd wedi cael cymorth gan y Rhaglen Cyflymu Twf yn 77.4% o'i chymharu â 32.7% ar gyfer sampl gyfatebol o fusnesau a oedd heb gael cymorth.

## 8. Effaith costau byw ar raglenni a dyraniadau cyllideb

8.1. Mae'r argyfwng costau byw wedi deillio o ddatblygu economaidd macro a micro cyflym, dwys, sy'n cael ei yrru gan chwyddiant, ac mae'r effeithiau wedi cael eu teimlo gan unigolion, aelwydydd a chymunedau, yn enwedig y rheini sydd ar incwm isel ers diwedd 2021.

8.2. Mae'r argyfwng costau byw sy'n parhau yn dal i roi pwysau ar ein rhwydwaith darparwyr prentisiaethau sydd wedi dweud bod costau darparu yn cynyddu yn unol â chwyddiant.

8.3. Ym mlwyddyn gontract 2022/23, mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, rhoddwyd cynnydd o 5% ar waith o ran costau fframwaith – mesur a gafodd ei groesawu'n fawr gan y rhwydwaith. Yn 2023/24 mae cynnydd pellach o 5% i gostau fframwaith, i gydnabod yr argyfwng costau byw parhaus, wedi cael ei roi ar waith yn unol â chynnydd tebyg yn y sector ôl-16. Mae hyn yn berthnasol i'r gwaith o ddarparu prentisiaethau rhwng Lefelau 2 a 5 o ddechrau blwyddyn contract 2023/24 (1 Awst 2023). Bydd hyn yn helpu i roi sefydlogrwydd i'r rhwydwaith gan ei alluogi i fod yn fwy cadarn drwy gefnogi'r gwaith o gadw staff a chynorthwyo ei allu i gyflawni'r contract.

8.4. Bydd pwysau parhaus sy'n gysylltiedig â chost darparu'r gwasanaeth prentisiaethau yn cael eu monitro tan 2024/25. Bydd unrhyw gynnydd pellach i gostau fframwaith yn effeithio ar nifer y prentisiaid sy'n gallu cael mynediad at y ddarpariaeth. Byddwn yn gweithio gyda'r sector prentisiaethau wrth i sefyllfa 2024/25 ddod i'r amlwg gyda'r nod o gynnal cynnyrch prentisiaeth o safon.

8.5. O ystyried effaith costau byw ar fusnesau bach a chanolig ar draws Cymru, mae Busnes Cymru yn cefnogi'r rheini sy'n wynebu ansicrwydd oherwydd yr argyfwng costau byw drwy gyfuniad o gymorth busnes ar-lein, dros y ffôn, 1-i-lawer ac 1-i-1, a hynny'n cael ei

deilwra yn ôl anghenion y cleient a gwahanol ranbarthau Cymru, yn dibynnu ar ofynion lleol. Mae'r gwasanaeth cynghori'n ymdrin â phob agwedd i helpu gyda materion costau byw, yn cynnwys meysydd fel ynni a gwastraff hyd at fesurau effeithlonrwydd dŵr.

8.6. Wrth ddarparu gweithgarwch dramor, mae costau (gan gynnwys costau teithio, ffioedd cyfranogi digwyddiadau, costau llety ac ati) i gyd wedi cynyddu oherwydd pwysau chwyddiant. Mewn termau real, mae hyn yn effeithio ar lefel y gweithgarwch y gellir ei gyflawni a'r cymorth busnes sydd ar gael.

8.7. Mae cynnydd mewn costau ymchwil sy'n effeithio ar gaffael offer arbenigol a chost cadw a recriwtio technegwyr a staff gwyddoniaeth arbenigol. Mae colli'r Cronfeydd Strwythurol wedi ychwanegu at y wasgfa ar y cyllid sydd ar gael. Mae hyn yn tanlinellu'r angen i newid y dull gweithredu i alwadau ymchwil mwy penodol sy'n gwreiddio effeithlonrwydd o ran y defnydd o gymorth a'i ffocws. Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar: Cam nesaf rhaglen gyllid ar gyfer ymchwil Sêr Cymru | LLYW.CYMRU.

8.8. Mewn dyfarniad offer ymchwil diweddar o dan Sêr Cymru, caniateid cefnogi elfen o gost economaidd lawn y prosiect. Mae'r dull hwn yn cydnabod pwysau economaidd ehangach ar yr un pryd â rhoi cyfle i wella gallu a chapasiti ein hymchwilwyr yng Nghymru. Bydd y dull hwn yn cael ei gymhwyso mewn egwyddor i bob rhaglen cyfalaf neu refeniw yn y dyfodol.

8.9. O ganlyniad i'r argyfwng costau byw, rydym yn gweld lefelau cynyddol o dlodi mewn teuluoedd sy'n gweithio. Fodd bynnag, cyflogaeth yw'r ffactor pwysicaf o hyd o ran helpu unigolion i gymryd camau i symud allan o dlodi. Mae'n anochel y bydd effaith gyfunol cynnydd mewn costau byw a chyllidebau llai yn effeithio ar weithgareddau a chanlyniadau rhaglenni. Rydym yn rheoli'r pwysau hyn drwy newid ffocws neu ailstrwythuro gweithgareddau yn y tymor byr ac yn cynnal adolygiad sylfaenol o'n rhaglenni cyflogadwyedd fel rhan o'r rhaglen Un Model Gweithredu a nodir yn y cynllun ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau.

## 9. Goblygiadau hirdymor y pandemig

9.1. Mae'r ***genhadaeth Economaidd*** eisoes wedi rhoi Cymru ar lwybr sy'n cysylltu ein hymateb i'r pandemig â pholisïau diwydiannol gweithredol hirdymor. Cyhoeddwyd Y Genhadaeth Economaidd: Blaenoriaethau ar gyfer Economi Gryfach ar 28 Tachwedd, ac mae'n nodi ymrwymiadau ar draws pedwar maes cenedlaethol i helpu i roi ffocws i'n blaenoriaethau cyllido a pholisi. Nid oes tystiolaeth gredadwy na phrofiad diweddar yn cefnogi'r achos dros newid i ddadreoleiddio byrbwyll, disgwyliadau is o ran amodau gwaith a safonau amgylcheddol neu doriadau treth heb eu hariannu. Mae treiglo i lawr wedi colli pob hygrededd.

9.2. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn partneriaethau hirdymor sy'n gallu cysylltu arloesedd a sgiliau â gwell cyflogau a lles. Mewn sectorau fel awyrofod, diwydiannau creadigol, ac ynni, mae ein partneriaethau wedi creu gyrfaoedd parhaol sy'n cefnogi cyllid teuluol cryfach mewn llawer o'n cymunedau.

9.3. Ni all Llywodraeth Cymru gefnogi pob cynnig ar gyfer ein heconomi ac anwybyddu realiti'r cyfyngiadau ariannol a roddir ar gyllideb Cymru. Bydd ein cenhadaeth yn llywio penderfyniadau drwy gyfnodau anodd a heriau cyllidebol difrifol.

9.4. Y llynedd, dywedodd The Prince's Trust fod dros 60% o bobl ifanc 16-25 oed wedi dweud bod dyfodol eu cenhedlaeth yn eu dychryn, gydag un o bob tri yn poeni na fydd eu rhagolygon gwaith byth yn gwella ar ôl y pandemig a'r argyfwng costau byw.

9.5. Mae Sgwrs Genedlaethol ein **Gwarant i Bobl Ifanc** wedi canfod problemau amlwg o ran hyder ac iechyd meddwl – dywedodd 76% o'r bobl ifanc a gymerodd ran fod diffyg hyder yn eu hatal rhag cyflawni eu nodau o ran gwaith, addysg neu hyfforddiant. Roedd bron i hanner yr ymatebwyr un ai wedi cael diagnosis swyddogol o gyflwr iechyd meddwl (20%) neu wedi dweud bod eu hiechyd meddwl yn dioddef (24%)[1]. Mae contractwyr Twf Swyddi Cymru+ yn adrodd bod ar lawer o'r bobl ifanc maen nhw'n eu gweld angen cymorth a chefnogaeth ddwys gyda'u hiechyd meddwl a'u llesiant. Mae'r mater hwn wedi parhau ar gyfer 23-24 ac mae'n debygol o barhau yn 24-25.

9.6. Mae Busnes Cymru mewn sefyllfa i gefnogi'r rheini sy'n wynebu ansicrwydd sy'n deillio o'r pandemig, gan gynnwys cymorth ar feysydd fel cyngor busnes cyffredinol; cydraddoldeb a gwaith teg; effeithlonrwydd adnoddau; masnach ryngwladol; mentora ac ecsbloetio digidol. Darperir cymorth pwrpasol hefyd i helpu busnesau i gael gafael ar fwy o gyfleoedd caffael; gwella marchnata a gwerthu; cael gafael ar gyllid; a chyngor ym maes cyflogaeth, adnoddau dynol a sgiliau.

9.7. I'r perwyl hwnnw, rydym wedi ceisio cynnal gwariant ar ein Gwarant i Bobl Ifanc gymaint â phosibl wrth ddyrannu adnoddau drwy'r broses hon i bennu'r gyllideb.

## 10. Goblygiadau parhaus gweithredu trefniadau a rhwymedigaethau newydd o dan Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE;

10.1. Un o brif elfennau ein gweithgarwch hyrwyddo masnach yw'r farchnad Ewropeaidd. Yr Undeb Ewropeaidd yw partner masnachu mwyaf Cymru o hyd, gydag allforion nwyddau i'r UE yn cyfrif am £11.6 biliwn yn 2022, sef 56.6% o allforion Cymru (o'i gymharu â 52.2% o allforion y DU). Mae tîm Llywodraeth Cymru o Gynghorwyr Masnach Ryngwladol, sy'n gweithio ledled Cymru, ochr yn ochr â thimau tramor Llywodraeth Cymru (a phartneriaid allweddol eraill, gan gynnwys yr Adran Busnes a Masnach) yn parhau i ddarparu cymorth parhaus i'n hallforwyr i ddeall gofynion masnachu mewn marchnadoedd allweddol, yn cynnwys yr UE.

10.2. Mae ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i roi ein Cynllun Gweithredu Allforio ar waith wedi sefydlu pecyn cymorth cynhwysfawr i fusnesau, gan ysbrydoli busnesau i ddechrau allforio, meithrin gallu allforio, dod o hyd i gwsmeriaid tramor, a chefnogi busnesau i gyrraedd marchnadoedd tramor.

10.3. Mae'r amgylchedd masnachu gydag Ewrop ers i'r DU adael yr UE yn dal yn fwy biwrocrataidd a chostus i fusnesau, gan effeithio ar allforion i'n partner masnachu mwyaf (UE). Mae cefnogi busnesau i ddeall y gofynion, a'r cyfleoedd yn y farchnad bwysig hon, yn elfen hanfodol o gyflawni'r Cynllun Gweithredu Allforio i Gymru.

10.4. O ystyried yr heriau gyda'r amgylchedd masnachu, mae goblygiadau o hyd o ran awydd buddsoddwyr i ystyried y DU i fuddsoddi ynddi yn hytrach na thir mawr Ewrop. Dangosir hyn gan fod y DU wedi colli ei statws fel y brif gyrchfan yn Ewrop i brosiectau buddsoddi byd-eang (EY, 2023).

10.5. Mae swyddogion o bob rhan o Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad a'r Is-adran Addysg a Sgiliau yn cysylltu'n rheolaidd â swyddogion DSIT ac UKRI i geisio ysgogi

gwell cydweithio ar fuddsoddi sy'n cynnwys Cymru a phwyso am well aliniad â Rhaglen Lywodraethu Cymru a'r strategaeth economaidd genedlaethol a lleol yng Nghymru.

***Cytundeb Cydweithio***

10.6. Fel rhan o'r gyllideb hon, rydym yn cynnal ein hymrwymiad, a nodwyd yn y Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru, ac yn parhau â'n buddsoddiad yn ARFOR, gyda £7m yn cael ei ddyrannu ym mlwyddyn ariannol 2024-25 i gefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglen gwerth £11m.

**11. Diwedd ar gronfeydd strwythurol yr UE**

11.1. Gwnaed ymrwymiadau na fyddai Cymru ar ei cholled am fod y DU yn gadael yr UE. Fodd bynnag, ni fydd Llywodraeth y DU yn darparu cyllid sy'n cyfateb i'r dyraniad cyfartalog blynyddol a geid drwy gronfeydd yr UE tan flwyddyn olaf y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn 2024-25.

11.2. Mae Cymru wedi colli mynediad at gannoedd o filiynau o bunnoedd ers mis Ionawr 2021 pan fyddai rhaglenni newydd yr UE wedi dechrau. Mae hyn oherwydd bod Llywodraeth y DU yn defnyddio derbyniadau gweddilliol o gronfeydd yr UE yn ei chyfrifiadau – arian a oedd eisoes wedi'u neilltuo i brosiectau drwy raglenni 2014-2020 yr UE.

11.3. Mae ein cyfrifiadau ni, a rannwyd mewn Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid ar 4 Mai 2022, yn dangos diffyg cyffredinol yng nghyllideb Cymru o dros £1.1bn o ran cronfeydd strwythurol a gwledig yr UE rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2025.

**Y Gronfa Ffyniant Gyffredin**

11.4. Yn ogystal â bod y cronfeydd newydd £1.1bn yn fyr, mae Llywodraeth y DU wedi defnyddio Deddf y Farchnad Fewnol i sianelu cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin i awdurdodau lleol Cymru yn unig – gan osgoi Llywodraeth Cymru a'r Senedd er bod datblygu economaidd rhanbarthol yn fater datganoledig.

11.5. Mae hyn yn golygu nad yw Llywodraeth Cymru wedi cael mynediad i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) er bod oddeutu £890m o gronfeydd yr UE yn cefnogi prosiectau Llywodraeth Cymru drwy raglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020.

11.6. Mae cyllid yr UE wedi cefnogi prosiectau Llywodraeth Cymru ar draws Cymru mewn meysydd fel cymorth busnes, cyflogadwyedd, sgiliau ac ymchwil, datblygu ac arloesi. Mae hyn yn cynnwys Busnes Cymru, y Banc Datblygu, rhaglenni prentisiaethau a hyfforddeiaethau, rhaglenni cyflogadwyedd cymunedol ac arloesi SMART.

11.7. Mae'r tanariannu a threfniadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin hefyd wedi arwain at leihad mawr yn yr arian ar gyfer sectorau eraill, yn cynnwys prifysgolion, colegau, sefydliadau trydydd sector a busnesau, a arferai gael cyllid UE ar raddfa fawr drwy Lywodraeth Cymru. Mae'r sectorau hyn bellach yn adrodd am golli swyddi a chau rhaglenni twf ac arloesi holl-bwysig.

11.8. Mae rhaglenni cymorth busnes, cyflogadwyedd a sgiliau newydd yn awr yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol ond yn hytrach na chynigion unffurf ar draws Cymru neu'n rhanbarthol, mae'r ddarpariaeth a'r cyfleoedd yn amrywio yn dibynnu ar y dull gweithredu a'r amserlenni a bennir gan awdurdodau lleol. Mae darnio'r dirwedd gyllido

wedi creu risgiau sylweddol o ddyblygu darpariaeth, yn enwedig ym meysydd cymorth busnes, cyflogadwyedd a sgiliau.

11.9. Gyda phrosiectau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol bellach yn gwasanaethu'r un cynulleidfaoedd, mae angen deialog barhaus rhwng swyddogion i sicrhau bod pobl a busnesau'n cael y cymorth mwyaf priodol. O ystyried maint a nifer y prosiectau sydd bellach ar waith, mae hyn yn her barhaus. Mae amgylchedd wedi'i greu o ran cymorth busnes, cyflogadwyedd a darpariaeth sgiliau nad yw cystal ag y gallai fod.

11.10. Byddai'r senarios hyn wedi cael eu hosgoi pe bai Llywodraeth y DU wedi caniatáu i ni reoli cyllid newydd llawn drwy ein *Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol*. Datblygwyd hwn gyda phartneriaid yng Nghymru a'r OECD ar sail yr ymrwymiadau na fyddai'r ffaith fod y DU yn gadael yr UE yn golygu colli cyllid na phwerau datganoledig.

## 12. <u>Ein gweithredoedd</u>

12.1. Yr wyf fi, ynghyd â Gweinidogion a swyddogion eraill, yn aml yn cwrdd â llywodraeth leol a'n partneriaid yng Nghymru i sicrhau ein bod yn osgoi dyblygu darpariaeth, yn enwedig o ran cyflogadwyedd, sgiliau a chymorth busnes, cyn belled ag y bo modd, yn sgil y darnio ar y dirwedd ariannu yng Nghymru a achoswyd gan Lywodraeth y DU.

12.2. Rydym yn parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r Fforwm Strategol ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, o dan gadeiryddiaeth Huw Irranca-Davies AS, i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd ymysg partneriaid yng Nghymru.

12.3. Mae diffyg mynediad at y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r crebachu mewn termau real ar ein grant bloc gan Lywodraeth y DU wedi golygu ein bod wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch ein blaenoriaethau cyllideb er mwyn cyflawni cynlluniau Prentisiaethau, Cyflogadwyedd a Busnes Cymru sydd, yn y gorffennol, wedi elwa o gymorth ariannol yr UE.

12.4. Mae'n bosibl y bydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi darparu £206m o gyllid i'r rhaglen brentisiaethau rhwng 2015 a 2023. Bydd colli cyllid yr UE, heb unrhyw ddarpariaeth newydd wedi'i nodi, yn effeithio'n sylweddol ar y gwaith o ddarparu prentisiaethau o flwyddyn gontract 2024/25 ymlaen, a'r disgwyl yw y bydd llai o brentisiaid yn gallu mynd ar y rhaglen.

12.5. Bydd diwedd cyllid strwythurol yn cael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth Cyflogadwyedd a Sgiliau. Mae rhaglenni Cyflogadwyedd a Sgiliau, yn cynnwys Cymunedau am Waith a Mwy, Twf Swyddi Cymru+ a React+, a'u rhaglenni blaenorol, wedi elwa'n sylweddol o gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop o dan rownd rhaglenni 2014-20 gyda chyfanswm o £181m o Gronfa Gymdeithasol Ewrop wedi'i gymeradwyo ar gyfer y gweithgareddau hyn. Gyda Chronfa Gymdeithasol Ewrop yn dod i ben yn 23-24 a heb gyllid newydd, mae hyn yn her sylweddol o ran cymorth cyflogadwyedd a sgiliau o 24-25 ymlaen.

12.6. Bydd y cynnydd yn y cyllid a dderbyniwyd yn 24-25 i gyflwyno'r Warant i Bobl Ifanc o'i gymharu â 23-24 yn help i leihau effaith colli Cronfa Gymdeithasol Ewrop o ran ein rhaglenni allweddol, ond mae'r toriadau i gymorth Cyflogadwyedd a Sgiliau yn effeithio'n uniongyrchol ar y cyllid hwn.

12.7. Dros oes y rhaglen ERDF ddiwethaf (2015-23 i bob pwrpas), tynnodd cynlluniau SMART Llywodraeth Cymru £37.9m i lawr, gan arwain at ymgysylltu â thros 1,800 o gwmnïau a chefnogi dros 340 o gwmnïau a'r byd academaidd gydag arian cyfatebol gwerth dros £100 miliwn ar brosiectau ymchwil a datblygu.

12.8. Cyllid craidd o £10m ar gyfer 24/25, a fydd yn talu 100% o gostau staff a gweithgarwch arloesi fel cystadlaethau caffael a ysgogir gan her, grantiau arloesi, Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth a chydweithio rhyngwladol. Dyma'r flwyddyn olaf yn y gyllideb 3 blynedd heb unrhyw gyllideb wedi'i phennu ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Bydd yn cael effaith sylweddol a negyddol ar gefnogaeth a gweithgarwch ymchwil, datblygu ac arloesi yn y dyfodol.

## 13. Gweithredu deddfwriaeth

13.1. Nid oes deddfwriaeth gyfredol sy'n galw am ddarpariaeth yng nghynlluniau'r gyllideb ddrafft o fewn MEG yr Economi.

13.2. Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), a ddaeth yn gyfraith ar 8 Medi 2022, yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru, a bydd yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) pan fydd yn weithredol. Cafodd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ei sefydlu ym mis Medi 2023 a bydd yn weithredol ym mis Ebrill 2024, pan fydd yn dod yn gyfrifol am strategaeth, cyllid a goruchwyliaeth y sectorau canlynol:

- Addysg bellach (AB), gan gynnwys colegau a chweched dosbarth ysgolion
- Addysg uwch (AU), gan gynnwys ymchwil ac arloesedd
- Addysg oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned
- Prentisiaethau

13.3. Mae'r weledigaeth strategol yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru. Mae sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn hanfodol i wireddu'r weledigaeth hon.

13.4. Drwy ein rhaglen ddeddfwriaethol a'n hymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru, byddwn yn cyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu statudol ar gyfer pob llety i ymwelwyr. Disgrifiodd datganiad a wnaed gan y Dirprwy Weinidog ar 14 Rhagfyr ein bwriad i fwrw ymlaen yn raddol â'r cynllun.

13.5. Bydd cam cyntaf y gweithredu'n golygu cynllun cofrestru. Unwaith y bydd cynllun cofrestru wedi'i sefydlu'n llawn, ein bwriad yw datblygu cynllun sy'n trwyddedu llety i ymwelwyr ar safonau diogelwch i ddechrau, cyn symud ymlaen i gynnwys trwyddedu ar safonau ansawdd.

13.6. Mae diweddaru neu greu deddfwriaeth newydd yn gofyn am lawer o adnoddau. Bydd y dadansoddiad manwl sydd ei angen i bennu cwmpas y gofynion ar y gwahanol gamau yn cymryd amser, gyda chostau amrywiol yn gysylltiedig â phob un. Bydd creu'r ddeddfwriaeth hon yn destun trafodaeth bellach ac, wrth gwrs, drafodaethau parhaus ar y gyllideb flynyddol. Ar gyfer 2024-25 bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn dyraniad y gyllideb ar gyfer twristiaeth a'i drafod yn flynyddol fel rhan o'n trafodaethau ar y gyllideb.

13.7. Deddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973. O dan adran 8 mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i sicrhau bod “gwasanaethau perthnasol” yn cael eu darparu (h.y. gwasanaethau gyrfaoedd fel darparu cyngor ac arweiniad a gwybodaeth am bersonau sy’n ceisio, yn cael neu’n cynnig cyflogaeth a hyfforddiant, ac ati) i bersonau sy’n cael “addysg berthnasol” – hynny yw, addysg mewn ysgolion a cholegau AB, i benderfynu pa gyflogaeth fydd yn addas iddynt ac i’w cynorthwyo i gael cyflogaeth o’r fath, gan gynnwys unrhyw addysg neu hyfforddiant a allai fod yn ofynnol.

13.8. Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. O dan adran 33 rhaid i Weinidogion Cymru annog unigolion i ddilyn addysg a hyfforddiant ôl-16, annog cyflogwyr i gymryd rhan yn y gwaith o ddarparu addysg a hyfforddiant ôl-16 ac annog cyflogwyr i gyfrannu at gostau addysg a hyfforddiant ôl-16 (mae ‘addysg a hyfforddiant ôl-16’ yn cynnwys addysg amser llawn a rhan-amser (ac eithrio addysg uwch) a hyfforddiant galwedigaethol). O dan adran 40 rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu systemau ar gyfer casglu gwybodaeth sydd wedi’u cynllunio i sicrhau bod eu penderfyniadau o ran addysg a hyfforddiant yn cael eu gwneud ar sail gadarn, a chânt sicrhau bod cyfleusterau ar gael i ddarparu gwybodaeth, cyngor neu arweiniad am addysg neu hyfforddiant neu faterion cysylltiedig (gan gynnwys cyflogaeth).

13.9. Deddf Datblygu Diwydiannol 1982. O dan adran 12 caiff Gweinidogion Cymru roi grantiau neu fenthyciadau i unrhyw un y maent yn ystyried eu bod yn briodol at ddiben cynorthwyo i annog a gwella cysylltiadau rhwng diwydiant a'r rhai sy'n ymwneud ag addysg, ac annog pobl ifanc i ddilyn gyrfaoedd mewn diwydiant ac i ddilyn cyrsiau addysgol priodol.

## 14. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Gwariant ataliol

14.1. Fel rhan o broses gyllideb 2023-24, rydym yn parhau i gyhoeddi Asesiad Effaith Integredig Strategol, gyda’r un olaf yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb ddrafft 2023-24, sy’n amlinellu’r dystiolaeth gyd-destunol a oedd yn cefnogi ein penderfyniadau gwario, yn cynnwys y rheini sy’n ymwneud â phlant a phobl ifanc.

14.2. Mae’r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn un o gyfres o ddogfennau a gyhoeddir fel rhan o’r Gyllideb ddrafft ac mae’n hollbwysig i ganfod tueddiadau allweddol, effeithiau strategol a chronnol ar lefel portffolio, ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys rhoi ystyriaeth briodol ar draws y gofynion statudol.

14.3. Rydym wedi cyhoeddi asesiad wedi’i ddiweddaru gyda Chyllideb Ddrafft 2024-25 ar 19 Rhagfyr.

14.4. Rydym yn dal o’r farn fod ymgymryd ag asesiadau effaith drwy ddull integredig yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o effeithiau croestoriadol ac anfwriadol penderfyniadau gwario, ac i gynyddu effaith unrhyw gyllid sydd ar gael, gan leihau effeithiau anghymesur ar unrhyw grŵp neu ardal benodol.

14.5. Rydym yn gwneud hyn oherwydd drwy ystyried penderfyniadau gwario drwy nifer o lensys gallwn ddeall yn well eu heffaith integredig ar wahanol grwpiau o bobl ac ardaloedd, gan gynnwys ystyried Cydraddoldebau neu’r amgylchedd. Rydym yn cydnabod bod pobl a lleoedd yn aml-ddimensiwn ac mae’r dull integredig yn ceisio cipio effeithiau lluosog a chronnus.

14.6. Cynhelir asesiadau effaith manwl, gan gynnwys Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o’n gwaith parhaus o ddatblygu ac adolygu polisïau ac rydym yn parhau i ystyried, fel rhan o’n Cynllun Gwella’r Gyllideb, sut y gallwn adlewyrchu hawliau plant yn well yn ein gwaith o wella prosesau trethu a chyllidebu.

14.7. Mae Cynllun Gwella’r Gyllideb yn amlinellu ein gweledigaeth, gan gynnwys yr uchelgeisiau tymor byr a thymor canolig dros y pum mlynedd nesaf, er mwyn gwella ein prosesau blynyddol ar gyfer y gyllideb a threthi. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau arfaethedig i'r ffordd o asesu effaith penderfyniadau a wneir ynghylch y Gyllideb. Mae’r cynllun hefyd yn myfyrio ar y gwaith a wnaed dros y 12 mis diwethaf.

14.8. Fel rhan o’r gwaith eleni, rydym yn edrych ar sut y gallwn gynnal adolygiad mwy cynhwysfawr o’n dull gweithredu ar Asesiad Effaith Integredig Strategol. Rydym yn bwriadu amlinellu rhagor o fanylion pan fyddwn yn cyhoeddi Cynllun Gwella’r Gyllideb wedi’i ddiweddaru ochr yn ochr â Chyllideb ddrafft 2024-25.

14.9. Rydym wedi ymgysylltu â’n Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb ynghylch ein dull gweithredu o ran Asesiad Effaith Integredig Strategol ac wedi diwygio Cyllideb 2023-24 o ganlyniad i’r ymgysylltu hwn. Rydym yn parhau i ymgynghori â’r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, ynghyd ag amrywiaeth o arbenigwyr a llywodraethau rhyngwladol, ar y ffordd orau o ddiwygio a gwneud gwelliannau i’r ffordd y cynhelir ein prosesau trethu a chyllidebu.

14.10. Yn hyn o beth, mae llywodraethau eraill sy’n symud i gyfeiriad llesiant ac yn gwreiddio datblygu cynaliadwy yn eu prosesau cyllideb wedi mynegi diddordeb mewn dysgu mwy am sut rydym ni wedi bod yn bwrw ymlaen â’r gwaith hwn ers 2015-16, gan mai ni oedd un o’r rhai cyntaf yn y byd i fabwysiadu’r dull hwn.

14.11. Ym mis Ionawr 2022, lansiodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru adolygiad i’r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith. Adolygiad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i’r ffordd y mae peirianwaith Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ddatblygu’n gynaliadwy ac yn diogelu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.

14.12. O dan yr adolygiad, mae’r Comisiynydd yn edrych ar sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei phrosesau, ei diwylliant gweithio a’i harweinyddiaeth yn y sector cyhoeddus yn gweithredu yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.

14.13. Yn 2022, lansiodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe, Adolygiad Adran 20 i’r ffordd y mae peirianwaith Llywodraeth Cymru yn rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith. Cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad ar 12 Rhagfyr 2022. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad yr adolygiad i roi cynllun ar waith ac fe wnaethom amlinellu’r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddilyn yr argymhelliad.

14.14. Ar 7 Chwefror 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Dysgu a Gwella Parhaus Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae’r Cynllun hwn yn dwyn ynghyd y camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd nawr a thros y blynyddoedd nesaf i gryfhau dealltwriaeth a defnydd ein sefydliad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Y Cynllun hwn hefyd yw ymateb llawn Llywodraeth Cymru i'r argymhelliad yn adroddiad adolygiad adran 20 y Comisiynydd.

14.15. Mae ein dull o ymdrin â pholisi masnach, drwy lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn golygu ein bod yn ystyried bod cytundebau masnach yn ymwneud â mwy nag enillion economaidd yn unig. Credwn y dylai cytundebau masnach gynnwys darpariaethau ar faterion allweddol eraill fel hawliau gweithwyr a rhywedd a'r amgylchedd.

14.16. Mae'r Sgwrs Genedlaethol ar y Warant i Bobl Ifanc a sefydlu Bwrdd Cynghori Pobl Ifanc y Warant i Bobl Ifanc wedi hynny yn enghreifftiau o ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl ifanc am eu profiadau go iawn er mwyn llywio syniadau polisi a chyllidebol.

14.17. Rydym hefyd yn ymgysylltu ac yn cydweithio â rhanddeiliaid drwy Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid y Warant i Bobl Ifanc a Bwrdd Gweithredol Twf Swyddi Cymru+.

14.18. Bydd parhau i gefnogi pobl ifanc drwy Twf Swyddi Cymru+ yn gyfraniad allweddol at atal pobl ifanc rhag mynd i gyfnod o ddiweithdra ac ymddieithrio o hyfforddiant neu waith; a bydd yn cyfrannu at atal effeithiau creithio tymor hir cyfnod o ddiweithdra.

14.19. Prif amcan rhaglen Twf Swyddi Cymru+ yw darparu cymorth unigol i bobl ifanc (16-18) a'u harfogi â sgiliau cyflogadwyedd a sgiliau hanfodol i'w galluogi i symud ymlaen i ddysgu ar lefel uwch, cyflogaeth neu brentisiaeth cyn gynted â phosibl, gan leihau'r risg o ddod yn NEET. Bydd pobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn elwa mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys gwella eu sgiliau hanfodol a' u sgiliau cyflogadwyedd, gwell canlyniadau cyflogadwyedd, manteision ariannol uniongyrchol, a gwella eu canlyniadau llesiant tymor hir.

14.20. Mae'n bwysig sicrhau bod y rheini sydd â nifer o rwystrau a/neu'r rheini sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol yn cael mynediad cyfartal at y rhaglen ond hefyd yn cael canlyniadau cyfartal yn sgil cymryd rhan yn y rhaglen. Caiff atgyfeiriadau eu monitro yn ôl oedran, rhyw, ethnigrwydd a statws anabledd, gan gynnwys data a dadansoddiadau gan asiantaethau cyfeirio a meincnodi cyfraddau cyfranogi yn erbyn cyfartaleddau lleol a chenedlaethol; a chymryd camau cadarnhaol i wella cyfranogiad a chyrhaeddiad grwpiau a dangynrychiolir.

14.21. Mae'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg yn rhoi cyfle uwchsgilio i weithwyr a all ddarparu manteision ariannol a chymdeithasol fel gwella eu siawns o aros mewn cyflogaeth drwy gynyddu'r tebygolrwydd o ddyrchafiad a rhoi hwb i'w morâl.

14.22. Mae Cymunedau am Waith+ yn cefnogi'r bobl fwyaf difreintiedig yn y farchnad lafur, gan gynnwys pobl ifanc, pobl anabl, y rheini sydd â chyflyrau iechyd hirdymor, unigolion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gofalwyr a rhieni sydd â chyfrifoldebau gofal plant, pobl dros 50 oed a phobl â sgiliau isel. Mae tystiolaeth yn dangos bod effeithiau'r pandemig a'r argyfwng costau byw wedi cael effaith anghymesur ar yr unigolion hyn. Mae'r rhaglen yn darparu mentora un-i-un pwrpasol, hyfforddiant a chymorth ariannol i fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth. Cymunedau am Waith+ a ReAct+ yw prif ymatebion Llywodraeth Cymru i ddiswyddiadau ar raddfa fawr. Drwy helpu dros 22,000 o unigolion i gael gwaith dros y 5 mlynedd diwethaf, mae Cymunedau am Waith+ wedi bod yn ymyriad allweddol gan Lywodraeth Cymru i liniaru effeithiau tlodi a gwella cyfleoedd bywyd nid yn unig i'r unigolion eu hunain ond hefyd i'w teuluoedd.

14.23. Nod rhaglen ReAct+ yw helpu'r rheini y mae dileu swyddi wedi effeithio arnynt, y rhai sy'n ddi-waith yn y tymor byr, cyn-droseddwyr neu droseddwyr sy'n bwrw eu dedfryd yn y gymuned a phobl ifanc 18-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

i ddod o hyd i waith newydd mewn cyn lleied o amser ag sy'n bosibl, gan atal pobl rhag mynd i ddiweithdra tymor hir.

## 15. Cydraddoldeb, Cynaliadwyedd a'r Iaith Gymraeg

15.1. Fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, rydym wedi mabwysiadu dull integredig o asesu effaith, yn ogystal ag ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n dal yn sbardun pwysig sy'n llywio ein hystyriaethau ynghylch y Gyllideb.

15.2. Mae ein Cyllideb, drwy'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, yn nodi tueddiadau allweddol, effeithiau strategol a chronnol ar lefel portffolio, ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys rhoi ystyriaeth briodol ar draws y gofynion statudol. Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau cyllidebol strategol yn lleihau'r effaith anghymesur ar unrhyw un grŵp neu faes penodol; gan helpu hefyd i nodi cyfleoedd i gynyddu effeithiau cadarnhaol a lleihau anghydraddoldebau ar draws ein cymdeithas. Mae Asesiad Effaith Integredig Strategol cadarn yn sicrhau bod pob punt sy'n cael ei buddsoddi yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf.

15.3. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â naratif y Gyllideb ddrafft a dogfennau ategol, fel adroddiad y Prif Economegydd a'n dadansoddiad diweddaraf o'r effaith ddosbarthiadol, ochr yn ochr â'r manylion ym mhapurau tystiolaeth gweinidogion i bwyllgorau.

15.4. Mae gwerthusiad Sêr Cymru yn ystyried Themâu Trawsbynciol gan gynnwys gweithgarwch sy'n cefnogi cynaliadwyedd, cydraddoldeb a siaradwyr y Gymraeg. Drwy gefnogi ymchwil a rhaglenni cyfoethogi STEM, rydym yn parhau i archwilio a datblygu sut i feithrin uchelgais ac annog dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid a meithrin cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth.

15.5. Bu'n rhaid gwneud dewisiadau anodd fel rhan o'r gyllideb hon o ystyried yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Rydym wedi dewis diogelu ein rhaglen brentisiaeth gymaint â phosibl. Mae ein rhaglen brentisiaeth yn seiliedig ar wybodaeth am y farchnad lafur a sgiliau yn ogystal ag ymchwil. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr ddefnyddio ystod lawn o dystiolaeth gan gynnwys tueddiadau economaidd ac anghenion a disgwyliadau cyflogwyr, yn cynnwys y galw am sgiliau sero net. Mae gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol rôl ganolog yn darparu gwybodaeth ac yn sbarduno newid ar lefel ranbarthol fel bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd yn well â meysydd twf economaidd.

15.6. Mae mwy a mwy o angen am gymysgedd gwahanol o sgiliau a chymwysterau wrth i gyflogwyr addasu eu busnesau i ateb cyfleoedd digideiddio, deallusrwydd artiffisial a chynaliadwyedd. Pan fydd fframweithiau a llwybrau prentisiaeth yn cael eu diwygio, bydd angen i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wreiddio sgiliau ar gyfer cefnogi cynaliadwyedd a nodau sy'n niwtral o ran yr hinsawdd, gan sbarduno twf sero net sectorau sy'n cynnwys gweithgynhyrchu, trafnidiaeth, ynni a'r economi gylchol.

15.7. Rydym yn gwybod bod y newid i economi wyrddach yn gofyn am lefelau uchel o gylcholrwydd, lle parheir i ddefnyddio adnoddau gan ychwanegu gwerth economaidd ac osgoi gwastraff. Gall hyn greu swyddi a chyfleoedd sgiliau mewn diwydiannau presennol a newydd, o ynni adnewyddadwy i atgyweirio. Mae'r economi hon yn rhan annatod o gymdeithas carbon isel, lle gall y seilwaith sgiliau gefnogi, er enghraifft, prosiectau ynni adnewyddadwy a chartrefi cynaliadwy.

15.8. Gyda sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil daw'r cyfle i gael mwy o gydweithio rhwng systemau addysg a hyfforddiant, lle gall prentisiaethau weithio ochr yn ochr â rhaglenni sgiliau ac addysg eraill i ddarparu mynediad llyfn at y dilyniant cywir i'r unigolyn. Mae angen i addysg bellach, addysg uwch a `darparwyr hyfforddiant annibynnol edrych ar gyfleoedd i gydweithio i gefnogi cynnydd fertigol ar draws prentisiaethau.

15.9. Fel rhan o'r gyllideb hon, rydym yn diogelu'r Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr sydd â'r nod o annog cyflogwyr i recriwtio prentisiaid. Mae'r cynllun yn annog cyflogwyr i recriwtio pobl anabl drwy ddarparu cymhelliant ariannol. Ar ben hynny, rydym yn parhau â'r rhaglen prentisiaeth ar y cyd a gefnogir, a gyflwynwyd yn benodol i alluogi pobl anabl sydd ag anghenion dysgu a chyflogaeth cymhleth i gael mynediad at brentisiaeth.

15.10. Mae Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio yn gyfrifol am helpu pobl i sicrhau'r yrfa orau sydd ar gael iddyn nhw. Mae hyn yn cynnwys derbyn cefnogaeth i gynyddu dyheadau, codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth, cefnogi pobl i ddatblygu'r sgiliau a'r cymwyseddau i reoli eu gyrfaoedd eu hunain, a helpu pobl i ddefnyddio'r galluoedd hyn i gael gafael ar hyfforddiant priodol, dysgu pellach neu gyflogaeth, a symud ymlaen. Mae'r defnydd o ddelweddau, iaith a'r cyfryngau amrywiol, a ddefnyddir i hyrwyddo neu ddarparu gwasanaethau, yn ystyried gwahanol anghenion eu cwsmeriaid. Mae Gyrfa Cymru, fel gyda'n holl ddarpariaeth cyflogadwyedd a sgiliau, yn darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog ar draws ei holl 'sianeli' gwasanaeth, gan gynnwys dros y ffôn, wyneb yn wyneb a'r wefan.

15.11. Mae ein rhwydwaith o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl yn helpu i gau'r bwlch rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio. Mae'r hyrwyddwyr wedi annerch cannoedd o gyflogwyr a phartneriaid cyflenwi allweddol mewn fforymau a digwyddiadau, gan gysylltu cyflogwyr sy'n ceisio recriwtio â chronfa o bobl anabl sy'n chwilio'n frwd am waith; darparu cyngor cyflogaeth i'r gymuned fusnes; cynghori ar newidiadau a gweithdrefnau polisi a helpu cwmnïau i wneud yr Ymrwymiad Hyderus o ran Anabledd.

15.12. O ran prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, mae darparwyr a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cydweithio i gynyddu capasiti yn y sector a bydd angen i'r gwaith hwn barhau os ydym am greu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddysgu a hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ddyletswyddau penodol hefyd mewn perthynas â'r Gymraeg a bydd angen iddo weithio'n effeithiol gyda darparwyr a'r Coleg fel bod mwy o bobl ifanc yn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

15.13. Mae rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cael ei hehangu i ddarparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau. Mae Cynllun Gweithredu uchelgeisiol y Coleg ar gyfer Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i gynyddu capasiti yn y sectorau hyn ac rydym yn buddsoddi cyllid ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gyflawni mewn meysydd blaenoriaeth. Mae gwaith gyda'r Coleg yn parhau i adnabod sectorau lle dylid datblygu fframweithiau newydd neu gapasiti ychwanegol ar gyfer prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Ar ben hynny, er mwyn annog pobl i ddilyn prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, rydym wedi cyflwyno model cyllido arloesol yn ddiweddar sy'n rhoi cyllid ychwanegol i ddarpariaeth ddwyieithog.

15.14. Prif amcan rhaglen Twf Swyddi Cymru+ yw darparu cymorth unigol i bobl ifanc (16-19) a'u harfogi â sgiliau cyflogadwyedd a sgiliau hanfodol i'w galluogi i symud ymlaen i ddysgu ar lefel uwch, cyflogaeth neu brentisiaeth cyn gynted â phosibl, gan leihau'r risg o ddod yn NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).

15.15. Mae tystiolaeth bod y garfan darged yn fwy tebygol o fod â rhwystrau lluosog, er enghraifft anghenion dysgu ychwanegol, iechyd meddwl a materion tai. Gallant hefyd fod â chyfrifoldebau gofalu am bobl eraill sydd â phroblemau iechyd a/neu ei chael hi'n anodd cael gafael ar waith oherwydd natur wledig yr ardal ble maen nhw'n byw a materion trafnidiaeth.

15.16. Mae'r rhaglen yn helpu i roi mwy o gyfle i gyfranogwyr ifanc gael gwaith cynaliadwy ac, yn ei dro, lleihau tlodi. Mae'r rhaglen hefyd yn cynyddu'r cyfleoedd i unigolion drwy eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, a fydd yn annog ac yn hyrwyddo cyfranogiad yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden. Mae'r rhaglen yn hyrwyddo adeiladu tîm, gweithgareddau cymunedol yn ogystal â gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o fanteision gweithgarwch corfforol.

15.17. Yn y Strategaeth Gymunedol, mae darparwyr yn nodi sut y maent yn adlewyrchu anghenion y bobl ifanc yn y gymuned leol. Maen nhw'n nodi sut maen nhw'n gweithio'n agos gyda chyflogwyr lleol a rhanddeiliaid eraill (gan gynnwys awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru, y trydydd sector a sefydliadau cymunedol eraill) i wreiddio eu hunain yn y gymuned leol, gwneud cysylltiadau lleol a gweithio gyda'i gilydd i gyflawni nodau llesiant tymor hir pobl ifanc.

15.18. Mae Cymunedau am Waith+ yn cefnogi'r bobl fwyaf difreintiedig yn y farchnad lafur, gan gynnwys pobl ifanc, pobl anabl, y rheini sydd â chyflyrau iechyd hirdymor, unigolion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gofalwyr a rhieni sydd â chyfrifoldebau gofal plant, pobl dros 50 oed a phobl â sgiliau isel. Mae'r rhaglen yn darparu mentora un-i-un pwrpasol, hyfforddiant a chymorth ariannol i fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth. Bydd y toriadau sylweddol yng nghyllideb y rhaglen yn effeithio'n uniongyrchol ar gefnogaeth a chanlyniadau i'r unigolion hyn.

15.19. Mae rhaglen ReAct+ wedi ymrwymo i thema drawsbynciol cynaliadwyedd ac mae'r gwaith o ddarparu'r rhaglen bellach ar-lein yn bennaf; mae hyn wedi lleihau dibyniaeth y rhaglen ar ffurflenni papur. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar wybodaeth gadarn am y farchnad lafur a gall ariannu cyrsiau hyfforddi sy'n arfogi cyfranogwyr y rhaglen â'r sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt mewn sectorau newydd a rhai sy'n datblygu. Mae'r rhaglen wedi ariannu cyrsiau gydag elfen 'werdd' fel ailgylchu a gosod paneli solar. Mae'r rhaglen yn annog cyfranogwyr i ddilyn cyrsiau hyfforddi mor agos â phosibl at eu cartrefi er mwyn lleihau teithio. Os oes angen teithio i gyrsiau hyfforddi, anogir y rhai sy'n cymryd rhan i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

## 16. Effaith ar Amddifadedd a Thlodi

16.1. Gwyddom fod anghydraddoldeb yn cael effaith negyddol ar dwf economaidd a chanlyniadau cymdeithasol. Y ffordd orau o sicrhau twf yw cael cynifer o bobl â phosibl i gymryd rhan mewn gwaith cynaliadwy o ansawdd da, lle maent yn cael cyflog teg, gan sicrhau bod hyn yn cael ei rannu'n deg ar draws ardaloedd daearyddol a gwahanol ddemograffeg, yn enwedig ymysg grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

16.2. Byddwn yn parhau i annog pobl ifanc i ddilyn prentisiaethau fel rhan o'r Warant i Bobl Ifanc. Bydd y grŵp oedran 16-25 yn parhau i fod yn flaenoriaeth i bobl sy'n dechrau prentisiaethau – rydym yn gosod blaenoriaethau'n flynyddol ar gyfer deiliaid contractau prentisiaethau a gomisiynir. Mae ein strategaeth marchnata a chyfathrebu yn canolbwyntio ar hyrwyddo prentisiaid a chyflogwyr newydd drwy ddathlu llwyddiannau a manteision prentisiaethau'n eang; gan godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd gan y rhaglen i'w cynnig i gyflogwyr o bob maint. Rydym wedi ehangu'r gwasanaethau rheng flaen drwy Cymru'n Gweithio, seilwaith cynghori a mentora Cymunedau am Waith+ a Swyddfeydd Cyflogaeth mewn Addysg Bellach. Rydym hefyd yn helpu pobl ifanc i bontio o addysg i'r farchnad lafur gan sicrhau bod nifer o bwyntiau mynediad ar gyfer oedolion a phobl ifanc, wedi'u cysylltu â'u sefydliad neu ddarparwr presennol.

16.3. Ar ben hynny, byddwn yn monitro effaith y toriadau a wneir i'n rhaglenni. Yn ddiweddar, rydym wedi bod yn edrych ar ddefnyddio hanes prentisiaid o fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim fel dangosydd o amddifadedd, a'r cysylltiad rhwng hyn a chyfraddau llwyddiant. Cafodd y gwaith hwnnw ei gyhoeddi mewn erthygl Defnyddio hanes unigolion o ran prydau ysgol am ddim fel dangosydd o amddifadedd mewn perthynas â deilliannau prentisiaethau a chyfleoedd dysgu oedolion: Awst 2021 i Orffennaf 2022 ar 7 Tachwedd. Mae'r data'n ymwneud yn bennaf â phobl ifanc 16-24 oed. Mae'r swyddogion yn gweithio i ddeall yr effaith fesul sector sgiliau a lefel prentisiaethau ac yn ystyried pa ymyriadau allai gefnogi gwelliannau.

16.4. Mae perthynas amlwg rhwng twf economaidd, swyddi a mynd i'r afael â thlodi. Mae cyflogaeth ddiogel a chynaliadwy sy'n talu'n dda yn rhoi llwybr allan o dlodi a gwarchodaeth rhag tlodi, nid yn unig i'r unigolyn, ond i'w ddibynyddion ac i'r gymuned drwyddi draw. Nod ein rhaglenni cyflogadwyedd yw helpu pobl i gael swyddi cynaliadwy o ansawdd uchel.

16.5. Mae'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg yn cynnig cyfle i gyflogwyr wella sgiliau eu gweithlu drwy gefnogi ymyriadau hyfforddi newydd. Mae hyn yn rhoi budd uniongyrchol i aelodau unigol o'r gweithlu sy'n cael sgiliau uwch a throsglwyddadwy oherwydd buddsoddiad Llywodraeth Cymru. Mae'n cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau tlodi mewn gwaith drwy gynyddu setiau sgiliau'r gweithlu presennol yng Nghymru sy'n rhoi cyfle i unigolion symud ymlaen mewn cyflogaeth a chynyddu eu cyflog o ganlyniad i hyn.

16.6. Mae ein holl Raglenni Cyflogadwyedd yn galluogi cyfranogwyr i gael gafael ar gymorth ariannol uniongyrchol ar gyfer rhwystrau fel costau teithio a chynhaliaeth wrth ymgymryd â hyfforddiant, mynd ar brofiad gwaith neu i gyfweliadau. Yn yr un modd, gellir ariannu costau gofal plant tra bo unigolion yn ymgymryd â hyfforddiant ac mae costau cychwyn hanfodol ar gyfer y rhai sy'n mynd yn hunangyflogedig hefyd yn cael eu hariannu.

## 17. Newidiadau i'r demograffeg – Poblogaeth sy'n heneiddio

17.1. Mae ein gweithlu yng Nghymru yn heneiddio ac efallai na fydd pobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad lafur yn llenwi'r holl swyddi gwag. Ledled y DU, mae cenhedlaeth y babanod ar ôl yr Ail Ryfel Byd bellach yn yr oed ymddeol neu'n agosáu ato. Gan mai'r demograffeg hŷn yw'r gyfran fwyaf o bobl sydd wedi'u geni yn y DU, mae'r gronfa lafur o bobl dros 50 oed yn tyfu ac mae'r gronfa o bobl dan 50 oed a fydd yn cymryd eu lle yn lleihau. Mae'r newid demograffig hwn yn rhoi pwysau ar gyflogwyr sy'n ei chael yn fwyfwy anodd recriwtio a chadw staff.

17.2. Y sectorau prentisiaeth yr effeithir arnynt yn benodol yw'r rhai sy'n canolbwyntio ar bobl a lle nad yw'r gwaith yn addas ar gyfer awtomeiddio, fel gofal iechyd, adeiladu a lletygarwch. Yng nghyd-destun rhoi terfyn ar y rhyddid i symud i lafur o Ewrop, gall denu talent i'r sectorau hyn fod yn broblematig. Yng nghyd-destun Cymru, ar adeiladu y mae diwedd symudiad rhydd yn effeithio leiaf, ac mae'r rhan fwyaf o brentisiaid yn 16-19 oed, sy'n grŵp blaenoriaeth. O ran gofal iechyd a lletygarwch, ni all prentisiaethau eu hunain ddatrys problemau recriwtio – mae cyflogau ac amodau mewn perthynas â sectorau eraill yn effeithio ar recriwtio. Bydd ein strategaeth marchnata a chyfathrebu yn parhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo prentisiaid a chyflogwyr newydd; a bydd ymgyrch gofal cymdeithasol 'gofalwn' yn parhau i fod yn weithredol.

## 18. Gwariant ataliol a Gwerth am Arian

18.1. Mae'r cynigion cyllideb hyn yn adlewyrchu f'ymrwymiad parhaus i ddiogelu a blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol cyn belled ag y bo modd o ystyried y penderfyniadau anodd yr wyf wedi gorfod eu gwneud ar draws fy mhortffolio. Mae gwerth am arian ac eglurder ynghylch sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol yn rhan ganolog o'r broses o gyflawni ein blaenoriaethau. Pan fydd gwariant yn cael ei gynllunio yn unol â blaenoriaethau, mae gennym brosesau cadarn ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac i'r dibenion a fwriadwyd.

18.2. Cyfeirir at yr asesiad a gwerth am arian yn nes ymlaen yn y cwestiynau penodol.

## b) Meysydd penodol

b.1. Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd penodol, yn unol â chais y Pwyllgor.

## 19. Yr Economi

***Cymorth i helpu busnesau a gweithwyr o ganlyniad i gostau byw uwch a Chymorth parhaus i helpu busnesau gyda'r adferiad hirdymor yn sgil y pandemig***

19.1. Mae cymorth uniongyrchol ar gael i fusnesau sy'n wynebu ansicrwydd oherwydd yr argyfwng costau byw a dod dros effaith y pandemig drwy gyfuniad o gymorth ar-lein, dros y ffôn, 1-i-lawer ac 1-i-1, sydd wedi'i deilwra yn ôl anghenion y cleient a gwahanol ranbarthau Cymru, yn dibynnu ar ofynion lleol. Mae'r gwasanaeth ar gael i gynorthwyo busnesau sydd eisoes yn bodoli, busnesau newydd ac unigolion sy'n ystyried bod yn hunangyflogedig, ac mae modd cael mynediad ato'n ddigidol drwy https://businesswales.gov.wales/cy, sianeli cyfryngau cymdeithasol a llinell gymorth 03000 6 03000.

***Dyraniadau mewn perthynas â'r Rhaglen Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru***

19.2. Mae'r rhaglen Porthladdoedd Rhydd yn cynnwys rhai costau sy'n cael eu talu gan Lywodraeth y DU ac eraill y mae disgwyl i Lywodraeth Cymru eu talu. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei bod yn darparu £2m o gyllid capasiti ar gyfer darpar Borthladdoedd

Rhydd (£600k yn 2023/24 ac £1.4m disgwyliedig yn 2024/25). Mae'r cyllid hwn yn cael ei dalu i'r Porthladdoedd Rhydd gan Lywodraeth Cymru a'i ad-dalu gan Lywodraeth y DU. Bydd y trosglwyddiadau'n cael eu gweithredu yn nes ymlaen yn 2024-25 ar ôl i Lywodraeth y DU ffurfioli'r cyllid hwn yn ein cyllideb.

19.3. Mae costau uniongyrchol Llywodraeth Cymru hyd yma yn cynnwys staff yn Llywodraeth Cymru, cymorth cyfreithiol a chyngor technegol. Bydd costau yn y dyfodol hefyd yn cynnwys monitro a gwerthuso a'r costau sy'n gysylltiedig â defnyddio ysgogiadau datganoledig mewn Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru. Nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â defnyddio ysgogiadau datganoledig, fel rhyddhad a chadw Ardrethi Annomestig, yn hysbys eto. Disgwylir i'r rhain ddod yn gliriach wrth i ddarpar Borthladdoedd Rhydd Cymru gyflwyno eu Hachosion Busnes Amlinellol ym mis Rhagfyr.

19.4. Yn Natganiad yr Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth y DU estyniad i'r Rhaglen Porthladdoedd Rhydd yn Lloegr i 10 mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i asesu goblygiadau estyniad i ysgogiadau datganoledig ac ystyried a ellir cymhwyso hyn yng Nghymru.

***Dyraniadau mewn perthynas â'r posibilrwydd o greu 'parthau buddsoddi' yng Nghymru***

19.5. Ers i Lywodraeth y DU lansio'r Rhaglen Parthau Buddsoddi, rydym wedi bod yn ymgysylltu â nhw ar lefel Gweinidogion a swyddogion ynghylch manylion eu polisi a'u dull gweithredu. Mae penderfyniad wedi'i wneud i greu 2 Barth Buddsoddi yng Nghymru.

***Dyraniadau i gefnogi datblygiad economaidd rhanbarthol, (gan gynnwys y rhai a wnaed i ddatblygu a chyflawni'r fframweithiau economaidd rhanbarthol, y Cymoedd Technoleg, a rhaglen Arfor 2)***

**Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol**

19.6. Ym mis Rhagfyr 2021, fe wnaethom gyhoeddi'r fframweithiau economaidd rhanbarthol ar gyfer y pedwar rhanbarth yng Nghymru. Mae'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn rhan hanfodol o'n hymrwymiad i fodel datblygu economaidd sy'n seiliedig ar leoedd, lle rydym yn adeiladu ar gryfderau penodol ein rhanbarthau ac yn gweithio gyda nhw.

19.7. Lluniwyd y fframweithiau gyda phartneriaid ym mhob un o'r rhanbarthau, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrff rhanbarthol.

19.8. Maent yn seiliedig ar dystiolaeth a chytundeb, gyda blaenoriaethau clir sy'n cyd-fynd â'n fframwaith ar gyfer buddsoddi rhanbarthol, y genhadaeth economaidd ac, wrth gwrs, y rhaglen lywodraethu.

19.9. Mae'r dull aeddfed yma o weithredu yn hanfodol er mwyn creu gweledigaeth ar y cyd gydag amcanion cyffredin i sicrhau Cymru decach, wyrddach a mwy llewyrchus.

19.10. Yn ogystal â'r dyraniad uniongyrchol o gyllid drwy fy MEG, mae'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn darparu'r blaenoriaethau strategol ar gyfer buddsoddi rhanbarthol ar draws y Llywodraeth. Yn ogystal, mae cyllideb ranbarthol fach o £300k wedi'i dyrannu ar gyfer 24/25 i gefnogi amrywiaeth o brosiectau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol.

## Y Cymoedd Technoleg

19.11. Bydd dyraniad refeniw o £1.758m ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 yn cefnogi Rhaglen Cymoedd Technoleg Llywodraeth Cymru - mae wedi ymrwymo £100m dros 10 mlynedd i greu 1,500 o swyddi cynaliadwy ym Mlaenau Gwent a'r cyffiniau drwy fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, gan annog mabwysiadu technolegau digidol a datblygu uwch dechnolegau gwerthfawr sy'n cefnogi diwydiannau arloesol.

19.12. Hyd yma, mae buddsoddiad y Cymoedd Technoleg wedi helpu i greu 298,000 troedfedd sgwâr o ofod llawr newydd a gofod llawr wedi'i adnewyddu, gan alluogi 600 o swyddi posibl. Mae'n cefnogi gwydnwch, effeithlonrwydd a'r defnydd o dechnoleg mewn busnesau bach a chanolig eu maint ac yn codi ymwybyddiaeth o yrfaoedd sy'n gysylltiedig â STEM ac yn hyrwyddo'r nifer sy'n astudio pynciau STEM yn yr ysgol ac ôl-16. Bydd y ffigurau hyn yn parhau i dyfu wrth i'r prosiect sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ddwyn ffrwyth.

19.13. Mae un o'n buddsoddiadau mwyaf drwy Raglen y Cymoedd Technoleg yn fwy na £16 miliwn ar gyfer sefydlu Campws Technoleg Thales yng Nglynebwy – partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, y byd academaidd, busnes a Thales UK Ltd. Mae'r campws yn darparu cyfleusterau arloesol o'r radd flaenaf sy'n ymchwilio i atebion i seibergadernid seilwaith cenedlaethol critigol ac mae'n brosiect catalydd allweddol ar gyfer twf a datblygu economaidd yn Ne Cymru.

## ARFOR 2

19.14. Ym mis Hydref 2022, ymrwymodd Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru, i gyd-gynhyrchu cam 2 rhaglen ARFOR gyda llywodraeth leol gan ymrwymo £11m (dros 3 blynedd) tuag at y rhaglen. Mae cyllid ARFOR wedi cael ei ailbroffilio i £4m ym mlwyddyn ariannol 23-24 a £7m yn 24-25.

19.15. Mae'r swyddogion yn parhau i weithio gyda Bwrdd presennol ARFOR (sy'n cynnwys 4 Arweinydd awdurdodau lleol Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin a'u swyddogion) i fwrw ymlaen â rhaglen ARFOR 2 a fydd yn:

a. Ceisio adeiladu ar brofiad rhaglen flaenorol ARFOR
b. Ystyried yr adroddiad gwerthuso gan Wavehill Consulting
c. Ategu gweithgarwch presennol neu arfaethedig, sy'n berthnasol, gan gynnwys, er enghraifft, Busnes Cymru, Cynllun Cymunedau Tai Cymru a gwaith Simon Brookes ac ati.

19.16. Ar ôl gwneud gwaith cynllunio manwl ar yr ymyriadau arfaethedig, mae'r rhaglen nawr yn cael ei chyflawni. Ei nod yw darparu nifer o ymyriadau economaidd sy'n cefnogi'r cymunedau hynny yn y 4 awdurdod lleol lle mae'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg.

### *Y dyraniadau ariannol sy'n gysylltiedig â chynllun galluogi'r economi sylfaenol a'r Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol*

19.17. Mae'r Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol yn ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu a gyflwynwyd yn ystod tymor y Senedd hon. Ers ei chyflwyno, mae'r Gronfa wedi'i hanelu at gefnogi cwmnïau micro, bach a chanolig sydd â phencadlys yng Nghymru i helpu i

oresgyn y problemau a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu, yn enwedig wrth gynnal busnes gyda'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

19.18. Roedd dyraniad cyntaf y Gronfa ym mlwyddyn ariannol 2021/22 yn £1m ac ers hynny mae wedi tyfu i tua1.4m o gyllideb gwerth £3m rhaglen yr Economi Sylfaenol. Mae gweddill y gyllideb wedi cefnogi'r gwaith o gyflawni gweithgareddau nad ydynt yn dod o dan y Gronfa, gan gynnwys y Rhwydweithiau Gallu a ddarperir drwy Cynnal Cymru; ariannu gwaith gwella caffael yn GIG Cymru; darparwyr gofal cymdeithasol micro; profiad gwaith yn cyflawni prosiectau tai; a datblygu strategaeth ar gyfer cyrchu bwyd lleol yn y sector cyhoeddus.

19.19. Fel rhan o'n cyfraniad i gefnogi ymarfer ailflaenoriaethu ehangach Llywodraeth Cymru, rydym yn lleihau ein cyllid pwrpasol tuag at raglen yr Economi Sylfaenol o £3m i £1.163m yn 2024-25. Mae'r hyn sydd wedi'i ddileu'n ymwneud ag elfen y Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol yn y rhaglen AB. Byddwn yn lliniaru'r gostyngiad drwy weithio gyda Busnes Cymru i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar sectorau blaenoriaeth ac yn dysgu gwersi blaenorol o'r rhaglen.

**Banc Datblygu Cymru – *gan gynnwys cymorth i fusnesau sy'n eiddo i weithwyr***

19.20. Mae Banc Datblygu Cymru yn darparu cyfres o gronfeydd a gwasanaethau ar ran nifer o adrannau. Mae'n un o sefydliadau datblygu economaidd craidd Cymru. Mae'n darparu i fusnesau ac unigolion (cynlluniau gweithredu fel Cymorth i Brynu Cymru a Cymorth i Aros i'r olaf), mae'n cefnogi'r Llywodraeth drwy reoli nifer o fuddsoddiadau a benthyciadau cymhleth ac mae'n gyfrwng ar gyfer y Cynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau seilwaith cyfalaf allweddol ledled Cymru.

19.21. Oherwydd buddsoddiadau hanesyddol a wnaed i gyfalafu'r banc, nid yw'r Banc Datblygu yn dibynnu mwyach ar gyllid yr UE nac ar gronfeydd olyniaeth yn y DU i gynnal buddsoddiad sylweddol gyda busnesau yng Nghymru.

19.22. Yn 2023, lansiodd y Banc Datblygu Gynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd. Mae'r cynllun peilot gwerth £10m yn boblogaidd ymysg busnesau, a disgwylir y bydd £6m o fenthyciadau yn cael eu rhoi yn y flwyddyn ariannol hon.

19.23. Mae Banc Datblygu Cymru yn cyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i (i) cynyddu'r defnydd o elfen ecwiti mewn cymorth busnes a (ii) cynyddu argaeledd cyfalaf tymor estynedig i fusnesau.

19.24. Ers dechrau tymor y Senedd hon yn 2021, mae Banc Datblygu Cymru wedi cynyddu'r defnydd o elfen ecwiti mewn cymorth busnes o £13.8m i gyfartaledd treigl 3 blynedd o £16.1m y flwyddyn ac mae wedi ehangu ei ddarpariaeth cyfalaf tymor estynedig (dyled) i fusnesau o £27.8m i gyfartaledd treigl 3 blynedd o £34.5m y flwyddyn.

19.25. Prif ganlyniadau Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2022/23:

- Cyfanswm effaith o £238 miliwn ar economi Cymru
- Buddsoddiad uniongyrchol o £124 miliwn mewn busnesau yng Nghymru – cynnydd o 14% o un flwyddyn i'r llall
- 516 o fuddsoddiadau mewn 435 o fusnesau
- 4,669 o swyddi wedi'u creu neu eu diogelu, cynnydd o 32% o un flwyddyn i'r llall

19.26. Mae buddsoddiad Banc Datblygu Cymru wedi cynyddu'n gyson ers ei lansio yn 2017, gan gynyddu o £68m yn 2017/18 i £124m yn 2022/23.

19.27. Gan fod Banc Datblygu Cymru yn gweithredu offerynnau ariannol, benthyciadau a buddsoddiadau, mae'n cael cyfran fawr o'r arian y mae'n ei ddefnyddio yn ôl. Mae hyn yn golygu bod y gost gyflenwi net yn isel iawn o'i chymharu â llwybrau eraill fel cyllid grant. Ar ben hynny, mae cyllid Banc Datblygu Cymru fel arfer yn denu cyllid sylweddol gan y sector preifat, gan wella gwerth cyffredinol y cynnig ymhellach. Buddsoddiad ychwanegol o £114m gan fanciau a chyd-fuddsoddiadau sector preifat eraill yn 2022/23.

19.28. Mae Banc Busnes Prydain wedi lansio Cronfa Fuddsoddi newydd i Gymru, sy'n werth £130m dros 5 mlynedd neu fwy. Nid ydym yn disgwyl i'r cronfeydd newydd hyn ddisodli cyllid Banc Datblygu Cymru sydd eisoes ar waith, gan fod lle i'r holl gronfeydd gael eu defnyddio yn y farchnad – yn enwedig o ystyried y cyd-destun economaidd presennol lle bydd benthycwyr prif ffrwd yn llai parod i gymryd risg.

19.29. Yn 2022/23 gwelodd y Banc Datblygu dwf yng Ngogledd Cymru gyda busnesau yn y rhanbarth yn cael £30.7m o gymorth, darparwyd cyfanswm o £52m o gymorth yn Ne-ddwyrain Cymru a £40m yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

***Dyraniad ariannol i Busnes Cymru***

19.30. £20.926m yw'r cyllid refeniw a ddyrannwyd fel rhan o gyllideb ddrafft 2024-25 i gefnogi Busnes Cymru. Bydd y dyraniad hwn yn cefnogi'r pum thema gwaith a gyflwynir gan yr is-adran Entrepreneuriaeth a Busnes Cymru, sef:

- Mae **gwasanaeth llinell gymorth a digidol** yn bwynt cyswllt cwbl ddwyieithog, hygyrch, sy'n cynnig ystod lawn o wybodaeth ac arweiniad i entrepreneuriaid a busnesau. Mae'n darparu gwybodaeth ac adnoddau diduedd wedi'u teilwra'n arbennig i helpu i ganfod cymorth busnes. Mae porth caffael GwerthwchiGymru yn hyrwyddo cyfleoedd i fusnesau gael gafael ar gontractau sector cyhoeddus a'u hennill.

- Mae cynllun **cefnogi entrepreneuriaid a dechrau busnes Busnes Cymru** yn ysbrydoli ac yn datblygu gallu entrepreneuriaid drwy hyrwyddo diwylliant o entrepreneuriaeth a dechrau busnes yng Nghymru. Mae'n estyn allan at bobl ifanc mewn addysg a'r rheini o dan 25 oed, oedolion sy'n ystyried dechrau eu busnes eu hunain, ac allgymorth wedi'i dargedu ar gyfer unigolion sy'n cael eu tangynrychioli mewn busnesau newydd a chymdeithas.

- Mae **cymorth datblygu a chynghori Busnes Cymru** yn meithrin hyder a gwydnwch y gymuned fusnes yng Nghymru drwy ddarparu cyngor a chefnogaeth bwrpasol, gyda ffocws ar reoli cysylltiadau. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaethau cyngor a chymorth arbenigol mewn llu o feysydd gan helpu busnesau i greu cyfleoedd cyflogaeth, cael gafael ar gyllid, chwilio am farchnadoedd newydd a gwella arferion busnes a'u cynhyrchiant.

- Mae **Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru** yn darparu gwasanaethau cymorth busnes wedi'i deilwra, rheoli cysylltiadau a hyfforddiant arbenigol ar gyfer busnesau cyn-refeniw dethol a busnesau sefydledig sy'n gallu dangos y dyhead a'r potensial i sicrhau twf mawr. Darperir cymorth twf mawr gan hyfforddwyr a mentoriaid medrus iawn ac fe'i cefnogir gan gyfres o adnoddau twf mawr deinamig ar-lein.

- Mae **Busnes Cymdeithasol Cymru** yn darparu gwasanaeth arbenigol pwrpasol a chydweithredol ar gyfer mentrau cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau fel y'u amlinellir yn y Weledigaeth a'r Cynllun Gweithredu deng mlynedd, "Trawsnewid Cymru drwy fentrau cymdeithasol". Mae hyn yn cynnwys cymorth busnes un i un i fusnesau cymdeithasol newydd a busnesau twf cymwys, cymorth pwrpasol ar gyfer perchnogaeth gan y gweithwyr a chymorth mentora cymheiriaid.

***Y dyraniadau ariannol i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i geisio 'dyblu nifer y busnesau sy'n eiddo i weithwyr'***

19.31. Yn ein Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddyblu nifer y busnesau yng Nghymru sy'n eiddo i weithwyr erbyn 2026. I gyflawni hynny, rydym wedi ymrwymo i roi mwy o gefnogaeth i sicrhau bod cwmnïau yng Nghymru yn aros yn nwylo Cymry.

19.32. Yn wreiddiol roedd 37 ac mae hyn wedi tyfu i 68 yng Nghymru. Mae maint y sector sy'n eiddo i weithwyr wedi tyfu yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda'r potensial ar gyfer llawer mwy ac rydym yn disgwyl cyrraedd ein targed o 74.

19.33. Gan weithio gyda Cwmpas, mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid ychwanegol i hyrwyddo manteision a datblygu perchnogaeth gan weithwyr yng Nghymru, i sicrhau bod busnesau yng Nghymru yn ymwybodol o'r cyfleoedd a'r manteision posibl.

19.34. Mae gwasanaeth Busnes Cymdeithasol Cymru a Busnes Cymru a ddarperir gan Lywodraeth Cymru (gydag £1.7m wedi'i ddyrannu i fentrau cymdeithasol o'r gyllideb gyffredinol o £20.9m) yn cynnig cyngor arbenigol i gefnogi pryniannau gan weithwyr, gyda chymorth pwrpasol wedi'i ariannu'n llawn ar gael i helpu perchnogion busnesau i benderfynu ai perchnogaeth gan y gweithwyr a chynlluniau cyfranddaliadau yw'r opsiwn iawn i'w busnes.

***Y Banc Cymunedol***

19.35. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, camodd Cymdeithas Adeiladu Sir Fynwy yn ôl o'i hymrwymiad i ddarparu'r Banc Cymunedol. Felly, mae'r swyddogion wrthi'n chwilio am bartneriaid cyflawni newydd.

19.36. Nid oes cyllideb wedi'i dyrannu fel rhan o'r gyllideb ddrafft hon i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r banc. Fodd bynnag, er mwyn cefnogi camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Banc Cymunedol, dyrannwyd cyllideb refeniw o £100k o fewn Llinellau Gwariant Cyllideb Busnes a Rhanbarthau i gefnogi hyn. Mae hyn yn ein galluogi i wneud y canlynol:

- Cynnal dadansoddiadau o'r farchnad i brofi hyfywedd cynnig banc cymunedol yn y farchnad.
- Gwaith diwydrwydd dyladwy cyfreithiol ac ariannol sy'n gysylltiedig ag unrhyw gynnig; ac
- Y gost o gefnogi Bank Cambria, gan eu galluogi i weithio gyda sefydliadau darparu posibl.

***Cymorth i sectorau gweithgynhyrchu allweddol fel y sector awyrofod, y sector modurol a'r sector dur***

19.37. Mae ein Rhaglen Lywodraethu wedi ymrwymo i gefnogi sectorau sy'n strategol bwysig i Gymru a'r DU.

19.38. Rydym yn darparu cyllid i gefnogi gwaith Diwydiant Cymru, sy'n llais ar gyfer gweithgynhyrchu yng Nghymru ar draws sectorau allweddol yn cynnwys awyrofod, amddiffyn, gofod a modurol.

***Awyrofod ac Amddiffyn a Gofod***

19.39. Fforwm Awyrofod Cymru yw'r gymdeithas fasnach ar gyfer pob cwmni sy'n gweithredu yn y sectorau Awyrofod ac Amddiffyn a Gofod yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd yn 2001 a hi yw llais y sector yng Nghymru. Mae'r cyllid rydym yn ei ddarparu i Diwydiant Cymru yn cynnwys cyllid craidd ar gyfer y Fforwm, ac mae hefyd wedi cael cyllid i greu rhwydwaith o gwmnïau sy'n gwneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw er mwyn iddynt allu masnachu ar y cyd a denu mwy o fasnach bosibl nag y byddent yn unigol.

19.40. Mae 11 o gwmnïau yn rhan o'r Hyb (Hydref 2023) a thros 50 o gwmnïau'n gwneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yng Nghymru. Mae'r Fforwm yn rhoi cyfleoedd i gwmnïau gymryd rhan mewn sioeau masnach byd-eang, mewn rhaglenni cadwyn gyflenwi, mewn gweithgareddau gwella busnes ac mewn digwyddiadau rhwydweithio y mae'n eu cynnal ar gyfer ei 170 o aelodau.

19.41. Mae ein buddsoddiad yn AMRC Cymru yn cefnogi rhaglen Wing of Tomorrow Airbus fel gweithgaredd craidd ochr yn ochr â chyfleusterau mynediad agored ar gyfer y diwydiant ehangach. Mae ceisiadau llwyddiannus ar gyfer elfennau o raglen WoT fel SusWing a DAWN wedi dod â buddsoddiadau ATI mawr i Gymru.

***Modurol***

19.42. Mae'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i Diwydiant Cymru yn cynnwys cyllid craidd ar gyfer Fforwm Modurol Cymru. Rydym yn elwa o ddiweddariadau amser real rheolaidd ar sefyllfa'r sector modurol o drafodaethau bwrdd crwn Fforwm Modurol Cymru sy'n parhau ers Brexit a'r pandemig. Rydym yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am effaith tarfu byd-eang ar nwyddau, yr argyfwng sglodion lled-ddargludyddion, effaith Brexit, yr argyfwng presennol cost gwneud busnes, yr anawsterau o ran recriwtio a chadw staff a thensiynau geowleidyddol, costau deunyddiau uwch ac amseroedd arwain hirach.

19.43. Rydym yn parhau i ariannu Fforwm Modurol Cymru i gefnogi'r sector a'r gadwyn gyflenwi ehangach yng Nghymru i newid i gerbydau carbon isel/di-garbon.

***Rhaglen Clystyrau Darbodus Toyota***

19.44. Ers lansio'r rhaglen bresennol, gyda'r gefnogaeth fwyaf hyd yma ar gyfer yr ymgysylltu hwn, ym mis Hydref 2021, mae 5 carfan o grwpiau o fusnesau Cymru wedi ymuno â'r rhaglen Cychwyn Darbodus, yr elfen flaenllaw, gyda 44 o grwpiau'n cymryd rhan (mae rhai cwmnïau wedi ailadrodd).

***Dur***

19.45. Fel y nodir yn Cymru Sero Net a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, roedd y sector diwydiant a busnes yn cyfrif am 38% o allyriadau Cymru yn 2019. O holl allyriadau'r sector diwydiant a busnes, daw 37% o'r diwydiant haearn a dur.

19.46. Mae datgarboneiddio'r diwydiant dur yn parhau'n flaenoriaeth i'r sector. Mae sicrhau newid cyfiawn i ddyfodol carbon isel yn hanfodol ac oherwydd y cymysgedd o gyfrifoldebau yn ymwneud â busnes a diwydiant sydd wedi'u cadw a'u datganoli, mae angen i ni weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i ddarparu'r cymysgedd cywir o bolisïau.

19.47. Mae effaith bosibl polisïau datgarboneiddio ar gystadleurwydd diwydiannol yn gofyn am system gymorth gytbwys ar draws y DU, a rhaid i hyn ystyried heriau daearyddol unigryw rhanbarthau diwydiannol Cymru. Mae ein llwybr tuag at Gymru sero net yn heriol, ond bydd yn cynnig cyfleoedd i gael twf cynaliadwy a busnesau cryfach.

***Mapio Cadwyni Cyflenwi***

19.48. Cynhaliwyd adolygiad o'r Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu yn 2022/23 i ddiweddaru'r cynllun ac mae'n nodi'r meysydd lle rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar y cyd, wedi'u fframio yn erbyn chwe amcan strategol:

- Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd drwy ddatgarboneiddio'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru, yn seiliedig ar arferion a phrosesau Economi Gylchol.
- Datblygu'r amodau i angori cwmnïau gweithgynhyrchu allweddol yng Nghymru, gan gynnwys darparu seilwaith modern a chadwyni cyflenwi cadarn.
- Nodi a datblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer y gweithlu ac arweinwyr er mwyn cyflawni 'Cymru 4.0'.
- Cryfhau cydweithio rhwng rhanddeiliaid i fanteisio ar newid technolegol a chyflawni arloesedd mwy masnachol yn ddi-oed.
- Sefydlu egwyddorion cyflogaeth 'Gwaith Teg' yng Nghymru, gan hyrwyddo cynhwysiant, diogelwch a gwarchod ein treftadaeth ddiwylliannol.
- Rhoi cymorth busnes ar waith i alluogi gweithgynhyrchwyr yng Nghymru i ateb y galw am gynnyrch sy'n bwysig yn strategol yn y dyfodol.

19.49. O fewn y chwe amcan hyn mae amrywiaeth o weithgareddau cyfredol ac arfaethedig a fydd yn cyfrannu at eu llwyddiant cyffredinol. Un enghraifft o waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yw ymarfer mapio cadwyni cyflenwi mewn meysydd sydd o bwys strategol i Gymru ac a fydd yn darparu cyfleoedd i wneuthurwyr yng Nghymru yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Mae ein ffocws cychwynnol ar ddatgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy ac mae'n cynnwys Gwynt ar y Môr Sefydlog ac Arnofiol, y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a darparu Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan. Yr amcan yw nodi cadwyni cyflenwi presennol ac, yn bwysicaf oll, cadwyni cyflenwi posibl yng Nghymru i'r dyfodol.

***Y dyraniadau i gyflawni Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020-25, gan gynnwys cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru a'r Gronfa Pethau Pwysig***

19.50. Yn strategaeth twristiaeth Llywodraeth Cymru, Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020-25, yr uchelgais yw cynyddu twristiaeth er budd Cymru – ee, twf economaidd sy'n dod â manteision i bobl a lleoedd Cymru, cynaliadwyedd amgylcheddol a llesiant cymdeithasol a diwylliannol.

19.51. Mae gweithgarwch arfaethedig yn 2024-25 yn cynnwys buddsoddi yn ein rhaglen farchnata, graddio, buddsoddi mewn sgiliau a'n rhaglen datblygu cyfalaf sy'n caniatáu i ni barhau i hyrwyddo cynnyrch craidd yn barhaus ee Llwybr Arfordir Cymru; cefnogi gweithgarwch ategol ar draws Digwyddiadau Cymru ac eraill a gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru fel Trafnidiaeth Cymru, Cadw a Thirweddau, Natur a Choedwigaeth

19.52. Bydd £9.126m o refeniw a £5m o gyfalaf yn 2024-25 yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r flaenoriaeth hon.

***Y dyraniadau i gyflawni Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru 2024-25***

19.53. Mae Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru, sy'n werth £50m, yn gyfuniad o grantiau a benthyciadau, a reolir gan Fanc Datblygu Cymru, a fydd yn parhau i helpu i ariannu buddsoddiad cyfalaf mewn prosiectau sy'n tyfu'r sector ac sy'n cael effaith gadarnhaol ar economi Cymru.

19.54. Bydd y gronfa'n dod â chyllid masnachol a grantiau ynghyd mewn un pecyn o gymorth ariannol i ddarparu buddsoddiad cyfalaf i'r sector a bydd yn helpu i ariannu buddsoddiad cyfalaf mewn prosiectau twristiaeth sydd â'r cyfle i greu effaith gadarnhaol ar dyfu'r sector ac economi Cymru. Bydd Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru yn parhau i gefnogi prosiectau cyfalaf cymwys yn ystod 2024-25 a fydd yn gwella'r hyn sy'n cael ei gynnig i dwristiaid yng Nghymru drwy gefnogi ein strategaeth ar gyfer y sector.

***Y dyraniadau i gyflawni'r Gronfa Pethau Pwysig***

19.55. Bydd y gronfa gyfalaf £5m ar gyfer 2024-25 yn helpu i gyflawni gwelliannau seilwaith ar raddfa fach mewn lleoliadau twristiaeth strategol bwysig ledled Cymru. Yn 2023-24, roedd yn agored i awdurdodau lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a derbyniwyd 30 cais llawn o brosiectau ledled Cymru.

19.56. Rydym yn cynnal y buddsoddiad hwn yn 2024-25 i gyflawni amcanion y gronfa ymhellach, sef:

- Buddsoddi mewn prosiectau seilwaith bach sydd o fudd i gymunedau ac ymwelwyr mewn lleoliadau twristiaeth strategol bwysig.
- Datblygu prosiectau seilwaith o ansawdd uchel sy'n cefnogi'r cynnig twristiaeth ehangach mewn cyrchfannau gan roi profiad cofiadwy i ymwelwyr drwy gydol eu harhosiad.
- Cefnogi cyfleusterau sylfaenol i aros ar agor drwy'r flwyddyn a darparu ar gyfer ymwelwyr ymhell i'r nos.

***Cymorth i gyflawni 'Cydweithio er budd manwerthu: cynllun gweithredu Fforwm Manwerthu Cymru'***

19.57. Lansiwyd y Cynllun Gweithredu Manwerthu ym mis Mai 2023 ac mae'n dwyn ynghyd nifer o gamau gweithredu i gefnogi'r sector manwerthu i symud ymlaen tuag at y Weledigaeth Manwerthu. Mae'r Cynllun Gweithredu yn gynnyrch gwaith partneriaeth gymdeithasol sy'n cael ei arwain gan y Fforwm Manwerthu, gyda'r camau gweithredu'n cael eu cytuno a'u perchenogi ar y cyd.

19.58. Cafodd y Fforwm Manwerthu ei ddwyn ynghyd i gefnogi gwaith agos parhaus rhwng manwerthwyr, cynrychiolwyr y sector manwerthu a Llywodraeth Cymru, gyda'r nodau cychwynnol o adeiladu ar y cysylltiadau da a'r cydweithio a welwyd yn ystod Covid-19. Datblygwyd y Weledigaeth i gydnabod yr angen i gefnogi'r sector manwerthu ar ôl covid gan fod newidiadau strwythurol sylweddol iawn i'n prif strydoedd ac ymddygiad siopa defnyddwyr yn arwain at heriau difrifol iawn i siopau a gweithwyr yn y sector.

19.59. Gwnaed penderfyniad ymwybodol gan y Fforwm Manwerthu i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu i ddarparu pwrpas, cyfeiriad a ffocws ac i ddylanwadu ar sut y byddai pob parti cysylltiedig yn defnyddio'r adnoddau a'r arfau sydd ar gael. Nid oedd unrhyw gyllid wedi'i glustnodi na'i neilltuo i gefnogi'r camau gweithredu yn y cynllun.

19.60. Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi cyfleoedd i gydweithio a defnyddio'r adnoddau a'r ysgogiadau sydd ar gael ar draws y bartneriaeth gymdeithasol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol a nodwyd ar gyfer y sector manwerthu yng Nghymru. Mae'r Cynllun Gweithredu yn canolbwyntio ar ble gall y partneriaid cymdeithasol godi ymwybyddiaeth a defnyddio mesurau cymorth presennol ar draws Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, drwy'r warant i bobl ifanc a defnyddio ein gallu i gynnull partïon, i ddatblygu'r gwaith a nodir yn y Cynllun Gweithredu i gefnogi'r rheini sy'n gweithio yn y sector a'r busnesau manwerthu i chwarae eu rhan yn cyfrannu, er enghraifft, at uchelgeisiau sero net Llywodraeth Cymru.

19.61. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol y bydd pwysau cyllidebol mewn rhannau eraill o'r Llywodraeth yn cael rhywfaint o effaith ar raddfa a chyflawniad rhai o gamau gweithredu'r Cynllun ac y gallai arwain at ohirio rhai gweithgareddau neu symud ymlaen yn arafach.

19.62. Manwerthu yw un o gyflogwyr mwyaf y sector preifat yng Nghymru. Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu camau i'w cymryd i sicrhau canlyniadau gwell i'r rheini sy'n gweithio yn y sector, sicrhau bod gan fanwerthu ddyfodol yng nghanol ein trefi a'n dinasoedd a'i fod yn cyfrannu at waith ehangach i symud ymlaen tuag at Sero Net a sicrhau bod Manwerthu'n bwrw iddi i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

***Dyraniadau i gefnogi busnesau a gweithwyr wrth drosglwyddo i weithredu'n Sero Net, fel dyraniadau i gefnogi'r dasg o greu swyddi gwyrdd cynaliadwy, a dyraniadau a fydd yn sicrhau y bydd gan weithwyr y sgiliau angenrheidiol ar gyfer y swyddi hynny***

19.63. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi busnesau Cymru, a'n Cynllun Sero Net yw dechrau ein taith tuag at Gymru sero net a gwyrddach, gryfach a thecach.

19.64. Fel yr amlinellwyd yn y Rhaglen Lywodraethu, mae gan Lywodraeth Cymru y weledigaeth a'r uchelgais i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur a bydd yn gwneud yn siŵr bod natur a'r hinsawdd ar agenda pob busnes yn y sector preifat, gan integreiddio camau cadarnhaol dros natur i fwy o'n gweithgarwch economaidd.

19.65. Nod Busnes Cymru yw adeiladu cwmnïau cryf a chadarn a darparu mynediad at amrywiaeth o gyngor busnes, gwybodaeth a chyfeirio yn ogystal â meysydd cynghori arbenigol fel cymorth ar bolisïau gwyrdd, arferion ac effeithlonrwydd adnoddau, ynghyd â gweithdai a chyngor un-i-un. Mae Busnes Cymru yn hyrwyddo ac yn gweithio i wreiddio ystyriaethau datgarboneiddio a newid hinsawdd yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau, er mwyn iddynt fod yn ganolog i drafodaethau â busnesau ochr yn ochr â gwaith teg a chynhyrchiant.

19.66. Fel rhan o'n hymrwymiad i'r Cynllun Sero Net, bydd Busnes Cymru yn gweithio gyda busnesau yng Nghymru, yn enwedig busnesau bach a chanolig, i ymgorffori effeithlonrwydd ynni, defnyddio adnoddau'n effeithlon a thechnolegau carbon isel newydd yn eu mannau gwaith a'u cyfleusterau gweithgynhyrchu a datblygu ffyrdd newydd o weithio. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cyngor i fusnesau ar newid tymor hwy ynghyd ag ymwybyddiaeth o gymorth ariannol i ddatgarboneiddio a chyngor i ddelio ag effeithiau economaidd yr argyfwng ynni. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r Addewid Twf Gwyrdd, sy'n helpu busnesau i wireddu manteision ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol gweithredu'n fwy effeithlon, cymryd camau ymarferol i leihau ac ailddefnyddio, dod o hyd i gyflenwyr cyfrifol, arloesi ac ennill mwy o fusnes, ochr yn ochr â'r Contract Economaidd ar gyfer busnesau bach a chanolig sy'n cael cefnogaeth gan Reolwr Cysylltiadau.

19.67. Mae Banc Datblygu Cymru wedi lansio cynnig 'buddsoddi i arbed' newydd o'r enw'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd, a fydd yn helpu busnesau i leihau eu hallyriadau carbon ac i arbed arian ar eu biliau ynni. Bydd y cynllun peilot hwn yn darparu benthyciadau busnes gwyrdd, a fydd yn galluogi busnesau yng Nghymru i fenthyca arian ar gyfraddau gostyngol a thelerau ad-dalu hyblyg, er mwyn iddynt allu buddsoddi mewn mesurau i leihau eu hôl troed carbon yn ogystal â'u biliau ynni. Gall busnesau ddefnyddio'r arian i wella effeithlonrwydd ynni eu hadeiladau, buddsoddi mewn technoleg ynni adnewyddadwy neu uwchraddio eu peiriannau a'u systemau i leihau eu gwastraff a'u defnydd o ddŵr ac ynni. Yn ogystal â'r cynnig o fenthyciad am bris gostyngol, bydd busnesau sy'n defnyddio'r cynllun yn gallu cael gafael ar wasanaeth ymgynghori drwy Busnes Cymru, i'w cefnogi i benderfynu beth i fuddsoddi ynddo.

19.68. Mae gwefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol Busnes Cymru wedi rhannu negeseuon ac wedi cyhoeddi amrywiaeth o gynnwys sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd adnoddau a newid hinsawdd, yn cynnwys digwyddiadau, cyllid a chyngor cymorth busnes.

19.69. Mae Busnes Cymru yn cynnig amrywiaeth o weithdai a gweminarau sy'n rhoi cymorth i fusnesau addasu i'r her newid hinsawdd sy'n datblygu. Er enghraifft, gofynnir i'r rheini sy'n dod i'n gweithdai dechrau busnes greu addewid twf gwyrdd i'w helpu i ddeall manteision arferion busnes cynaliadwy.

19.70. Gall busnesau gael gafael ar adnodd cyfrifo ôl troed carbon am ddim yn https://www.carbonfootprint.com/calculator.aspx a https://www.carbonindependent.org/.

19.71. Mae cynlluniau gwrthbwyso carbon hefyd ar gael i fusnesau fel Credydau Coedwig, Maint Cymru ac Ecosia.

19.72. Ar ben hynny, mae adnoddau sy'n ymwneud â Thechnoleg Dal Carbon a Dulliau Rheoli Tir ar gyfer Sero Net ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio.

19.73. Mae Ymgynghorwyr Datgarboneiddio ar gael i helpu busnesau i fabwysiadu neu wella strategaethau amgylcheddol, ac i weithio gyda busnesau i greu busnes cadarn sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.

19.74. Mae cynghorwyr yn darparu cyngor amrywiol megis defnyddio llai o ddeunyddiau crai i leihau'r risg o brinder deunyddiau, sbarduno arloesedd a chadernid, a helpu busnesau i gyrraedd marchnadoedd newydd. Gallant hefyd helpu busnesau i leihau gorbenion a chynyddu proffidioldeb; cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd, diogelwch ac amgylcheddol; gwella delwedd busnes gyda chwsmeriaid, gweithwyr a'r gymuned leol a gwella'r gweithle a'r amgylchedd lleol.

***Manylion ar ddyraniadau'r gyllideb i gefnogi'r gwaith o gyflawni strategaeth gweithio o bell Llywodraeth Cymru***

*19.75. Nid oes dyraniad cyllideb wedi'i ddarparu ar gyfer y strategaeth gweithio o bell yn 2024-25.*

19.76. Cyflwynwyd y polisi gweithio o bell ym mis Medi 2020. Mae'n hyrwyddo model gweithle lle gall staff ddewis gweithio yn y swyddfa, gartref neu mewn canolfan. Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddwyd Gweithio'n Ddoethach: Strategaeth Gweithio o Bell i Gymru yn dilyn adborth gan randdeiliaid allweddol, yn cynnwys y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol ac adrannau allweddol Llywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ein dull o sicrhau bod 30% o weithlu Cymru yn gweithio gartref neu'n agos i gartref yn ystod Tymor y Senedd hon.

19.77. Sefydlwyd rhwydwaith o ganolfannau hefyd, gyda nifer fach yn derbyn cyllid i dreialu eu heffeithiolrwydd. Ers i'r gwaith peilot hwnnw ddod i ben, mae llawer o fannau o'r fath wedi cael eu sefydlu, gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

19.78. Mae monitro'r darlun presennol ledled Cymru wedi dangos bod y gwahanol ffyrdd hyn o weithio bellach wedi cael eu mabwysiadu gan lawer o sefydliadau a busnesau, sydd eisoes wedi gwreiddio arferion gweithio o bell a hybrid yn eu gweithrediadau. Hyd yma rydym wedi:

- Cyhoeddi'r strategaeth, asesiadau effaith ac astudiaethau achos cysylltiedig.
- Cyhoeddi canllawiau i fusnesau, sydd ar gael ar wefan Busnes Cymru.
- Gweithio gyda chydweithwyr yn yr Undebau Llafur a Llywodraeth Leol ar adroddiad ar weithio'n hyblyg ac yn ystwyth ar gyfer Cyngor Partneriaeth y Gweithlu.
- Darparu grantiau bach a chymorth i nifer fach o ganolfannau gweithio lleol a chyhoeddi rhestr o fannau gweithio lleol ar llyw.cymru.
- Cynnal ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd ar yr hyn y mae pobl am ei gael mewn canolfan neu ofod gweithio o bell.

**Sgiliau a Chyflogadwyedd**

***Cyfanswm y cyllid y bwriedir ei ddefnyddio i gyflwyno'r Warant i Bobl Ifanc yn 2024/25.***

19.79. Y Warant i Bobl Ifanc yw'r strwythur ymbarél uwchben yr holl raglenni ar gyfer pobl ifanc, a'i nod yw creu taith syml i bobl ifanc beth bynnag fo'u hamgylchiadau a'u cefndir.

19.80. Mae'r prif Raglenni a chynlluniau (yn ogystal â'r cyfrifoldeb Gweinidog arweiniol amdanynt) a nodir o fewn cwmpas y Warant i Bobl Ifanc fel a ganlyn. Gallai cyfanswm y cyllid y bwriedir ei ddefnyddio i gyflawni'r Warant i Bobl Ifanc yn 2024/25 gyrraedd, o

ystyried bod rhai rhaglenni sy'n cael eu harwain gan alw, **tua £1bn** ar draws Prif Grwpiau Gwariant Addysg a'r Iaith Gymraeg a'r Economi, ond dylid nodi hefyd bod rhai rhaglenni ar gael i bob oed a bod rhai o'r rhaglenni'n cael eu hariannu dros flynyddoedd academaidd yn hytrach na blynyddoedd ariannol.

***Lefel y cyllid y bwriedir ei ddefnyddio i gyflwyno Cyfrifon Dysgu Personol yn 2024-25.***

19.81. Mae cyllid ar gyfer gweithgarwch Cyfrifon Dysgu Personol yn rhan o'r MEG Addysg a'r Gymraeg. Mae pwysau cyllideb o fewn y MEG hwnnw wedi arwain at benderfyniad i dorri llinell gyllideb Cyfrifon Dysgu Personol i sero (o £17.9m). Mae'r swyddogion yn gweithio gyda'r sector AB i sicrhau bod gweithgarwch Cyfrifon Dysgu Personol yn cael ei brif-ffrydio a'i flaenoriaethu o fewn darpariaeth AB ran-amser. Fodd bynnag, bydd ymgorffori'r lefel hon o gyllid i brif ffrwd ran-amser yn effeithio ar fathau eraill o ddarpariaeth ran-amser sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd ledled Cymru.

***Rhestr gyfunol o'r holl raglenni cyflogadwyedd a ariennir gan y Llinell Wariant yn y Gyllideb Sgiliau, gan gynnwys: Cleientiaid / buddiolwyr arfaethedig pob rhaglen; A ydyn nhw'n rhan o gynllun 'ymbarél' mwy (h.y. y Warant i Bobl Ifanc). Rhestr yn manylu ar y prif ddarparwyr ar gyfer pob un o'r rhaglenni, gan gynnwys eu gwerthoedd contract ar gyfer 2024-25.***

19.82. Mae'r rhain wedi'u darparu yn Atodiad C.

**Dysgu Seiliedig ar Waith – Prentisiaethau**

***Y canlyniad gwirioneddol yn 2022-23 a'r rhagolwg o ran 2023-24 ar gyfer y rhaglen brentisiaethau a'r rhaglen hyfforddeion***

19.83. Daeth y Rhaglen Hyfforddeion i ben ddiwedd 2021-22.

19.84. Canlyniad gwirioneddol 2022-23 i'r rhaglen Prentisiaethau oedd £107.2m (gan gynnwys £18.8m o Gronfa Gymdeithasol Ewrop). Y rhagolwg disgwyliedig i'r rhaglen hon am 2023-24 yw £109m.

19.85. Mae'n bosibl y bydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi darparu £209m o gyllid i'r rhaglen brentisiaethau rhwng 2015 a 2023. Bydd colli cyllid yr UE yn effeithio'n sylweddol ar gyflawni prentisiaethau o flwyddyn contract 2024/25 ymlaen. Mae'r Gweinidogion a'r Swyddogion yn gweithio i fynd i'r afael â'r diffyg hwn.

19.86. Mae Gweinidog yr Economi wedi darparu cynnydd o 5% i'r holl werthoedd band cyllido prentisiaethau i gydnabod cynnydd cyffredinol mewn costau rhedeg wrth ddarparu'r gwasanaeth a chynnal darpariaeth o ansawdd. Mae hyn yn berthnasol i'r holl ddarpariaeth o ddechrau blwyddyn contract 2023/24.

***Manylion unrhyw drosglwyddiadau o Gam Gweithredu Dysgu Seiliedig ar Waith 2024-25 i ariannu Prentisiaethau Gradd***

19.87. Nid oes unrhyw drosglwyddiadau'n cael eu rhoi ar waith fel rhan o gyllideb ddrafft 2024-25 i gefnogi Prentisiaethau Gradd. Ar gyfer 2024-25, bydd cyllideb CCAUC yn cael ei throsglwyddo i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd a bydd yn blaenoriaethu cyllid i brentisiaid presennol a phrentisiaid ar raglenni sydd newydd eu datblygu, gyda chyllid yn cael ei bennu i baratoi ar gyfer y gyllideb atodol gyntaf 2024-

25, ac unrhyw drosglwyddiad o'r Cam Gweithredu Dysgu Seiliedig ar Waith y cytunir arno bryd hynny.

***Manylion unrhyw gyllid a ddefnyddiwyd yn 2023-24 a rhagolwg o'r cyllid sydd i'w ddefnyddio yn 2024-25 i ddatblygu fframweithiau prentisiaeth newydd ac adolygu'r fframweithiau prentisiaeth presennol.***

19.88. Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu fframweithiau prentisiaeth newydd a diwygiedig drwy Bartneriaid Datblygu cydnabyddedig.

19.89. I sicrhau bod y ddarpariaeth prentisiaethau yn dal yn gyfredol ac yn berthnasol i anghenion cyflogwyr yng Nghymru, dyrannwyd £0.200m yn 2023-24 ar gyfer datblygu fframweithiau prentisiaeth mewn Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Busnes a Rheoli a Datblygu Chwaraeon. Mae'r swm hwn yn seiliedig ar wariant mewn blynyddoedd blaenorol.

19.90. Yn ychwanegol at hynny, mae Partneriaid Datblygu cydnabyddedig hefyd yn gallu datblygu ac adolygu fframweithiau. Mae'r adolygiadau hyn yn rhai heb eu comisiynu, ond rhaid cael sêl bendith Llywodraeth Cymru cyn dechrau arnynt. Yn 2024-24, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i fframweithiau gael eu datblygu a'u hadolygu yn y sectorau Gofal Iechyd, Gwasanaethau Ariannol a Chydymffurfio Rheoleiddiol, heb i hynny fod drwy gomisiwn.

19.91. Ein bwriad yw parhau i ddatblygu ac adolygu'r fframweithiau a amlinellwyd uchod yn 2024-25, a hefyd gynllunio i gomisiynu gwaith i ddatblygu ac adolygu fframweithiau yn y sectorau canlynol: Amaethyddiaeth a'r Amgylchedd; Addysg Blynyddoedd Cynnar a Gwaith Chwarae; Creadigol, Dylunio a'r Cyfryngau.

***Manylion yr holl gyfyngiadau rheoli galw a chamau gweithredu sydd ar waith i reoli'r galw am brentisiaethau, neu a gaiff eu cyflwyno ar gyfer y rhaglen brentisiaeth yn ystod 2024-25***

19.92. Un o brif amcanion Rhaglen Prentisiaethau Llywodraeth Cymru yw ymateb i brinder sgiliau a bylchau mewn sectorau sy'n hanfodol i sbarduno cynhyrchiant a thwf economaidd, megis cefnogi ein huchelgeisiau sero net, yr economi sylfaenol a gwasanaethau cyhoeddus.

19.93. Yn seiliedig ar Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, gwybodaeth am y farchnad lafur a rhyngweithio â chyrff y sector, rydym wedi ymrwymo i gynyddu nifer y prentisiaethau, yn enwedig mewn sectorau sydd â phrinder sgiliau. Byddwn yn gwneud hyn drwy hyrwyddo manteision prentisiaethau drwy amryw o ymgyrchoedd aml-gyfrwng gydol y flwyddyn a fydd yn targedu unigolion a chyflogwyr drwy ddefnyddio sianeli a thactegau sy'n seiliedig ar ymchwil a gwybodaeth am y farchnad.

19.94. Rydym yn gweithio gyda darparwyr i gynllunio'n effeithiol i fodloni blaenoriaethau a phrinder sgiliau cyflogwyr drwy roi ymyriadau ar waith sy'n cynnwys:

- ymateb i brinder sgiliau a bylchau mewn sectorau blaenoriaeth sy'n hanfodol i sbarduno cynhyrchiant a thwf economaidd, megis cefnogi ein huchelgeisiau sero net, yr economi sylfaenol a gwasanaethau cyhoeddus;
- blaenoriaethu a chefnogi pobl ifanc i brentisiaethau gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn cynnig llwybrau gyrfa clir a chyflogaeth barhaus, gan gefnogi'r Warant i Bobl Ifanc; a

- cyflymu'r gwaith o ddarparu prentisiaethau lefel uwch mewn meysydd STEM a thechnegol.

19.95. Ar ben hynny, rydym yn disgwyl i ddarparwyr barhau i wella cyflogadwyedd grwpiau dan anfantais a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a gwella argaeledd a gwelededd prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

19.96. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr gynllunio a datblygu darpariaeth yn effeithiol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol er mwyn cyflawni ein hamcanion a chyflawni yn erbyn yr ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i greu 125,000 o brentisiaethau; rhoi ansawdd wrth wraidd y ddarpariaeth, adeiladu bri prentisiaethau drwy bob un o'n hamcanion a chefnogi ein hymgyrch i sicrhau gwerth cyfartal rhwng darpariaeth alwedigaethol ac academaidd lle mae cyfle i ddewis yn rhan annatod o'n system addysg a sgiliau.

19.97. Ar sail y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Gwybodaeth am y Farchnad Lafur a rhyngweithio â chyrff y sector, rydym wedi nodi blaenoriaethau cenedlaethol i'r sector i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein hamcanion:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Blynyddoedd Cynnar
- Technoleg Gwybodaeth a Digidol
- Sectorau a galwedigaethau Sero Net, yn cynnwys ynni, tai, ynni adnewyddadwy a thrafnidiaeth.

19.98. Mae Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) a sectorau a galwedigaethau technegol yn dal yn flaenoriaeth drawsbynciol, sy'n cefnogi ein blaenoriaethau ehangach uchod.

19.99. O ran y sector Sero Net a galwedigaethau, rydym yn disgwyl i ddarparwyr ganolbwyntio ar sgiliau / swyddi mewn pedwar maes:

- Swyddi newydd a rhai sy'n datblygu yn gysylltiedig â'r newid i sero net.
- Swyddi a ddisodlir wrth i sectorau newid.
- Swyddi sydd angen gwell sgiliau neu gymwyseddau.
- Swyddi presennol lle mae galw am fwy o niferoedd.

19.100. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y galwedigaethau hyn yn debygol o fod ar lefel 3 ac uwch mewn meysydd STEM a thechnegol; mae cynlluniau cyflogaeth a sgiliau'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn nodi sectorau a galwedigaethau penodol lle bydd anghenion sgiliau yn y dyfodol.

19.101. Rydym yn gweithio gyda'r rhwydwaith i gynllunio'n effeithiol i fodloni ein hamcanion a'n blaenoriaethau, gan roi ymyriadau ar waith sy'n cynnwys:

- cynyddu neu symud darpariaeth i feysydd blaenoriaeth, twf a sectorau sy'n datblygu, er enghraifft, mewn sgiliau digidol a sgiliau cysylltiedig â sero net;
- cynyddu cyfran y ddarpariaeth ar lefel 3 ac uwch;
- defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur i gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; a
- datblygu dulliau gweithredu sy'n ystyried newidiadau technolegol mewn diwydiannau.

19.102. Mae gweithwyr yn y grŵp oedran blaenoriaeth o 16-24 oed yn gymwys ar gyfer pob cyfle prentisiaeth.

19.103. Ein hagwedd gyffredinol yw bod gweithwyr (ac eithrio unigolion anabl) 25 oed a hŷn yn anghymwys ar gyfer Prentisiaeth lefel 2 neu 3 os ydyn nhw wedi cael eu cyflogi yn yr un swydd ers mwy na 12 mis a'u bod yn bwriadu ymgymryd â fframwaith generig. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y rheini sy'n ymuno â'r rhaglen yn gallu manteisio'n llawn ar y cyfleoedd uwchsgilio y mae'r rhaglen yn eu darparu, ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau gwerth am arian. Nid oes cyfyngiad ar hyd cyflogaeth dysgwyr sydd am wneud prentisiaeth lefel 4-5. Nid ydym chwaith wedi cyfyngu ar y prentisiaethau cyffredinol sydd ar gael i ddysgwyr anabl neu'r rhai sy'n newydd i fyd gwaith.

19.104. Mae'r Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr yn canolbwyntio ar helpu prentisiaid anabl i gael swydd a hyfforddiant. Bydd y Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr yn helpu i gynyddu cyfranogiad y grŵp hwn sydd o dan anfantais, a bydd yn ein helpu ni i gyrraedd ein targed i ddileu'r bwlch rhwng y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r DU erbyn 2050, gyda phwyslais ar Waith Teg a chynyddu cyfranogiad yn y farchnad lafur ymysg grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Ar ben hynny, rydym hefyd yn darparu cymorth yn y gwaith ar gyfer y garfan hon i sicrhau eu bod yn cael digon o gefnogaeth i gwblhau eu rhaglen brentisiaeth.

19.105. Mae darpariaeth Cyfrwng Cymraeg / Ddwyieithog yn cael ei thargedu, ac mae disgwyl i 50% o'r dysgwyr Cymraeg iaith gyntaf sy'n dechrau ar brentisiaeth yn y sectorau Gofal Iechyd, Adeiladu ac Amaethyddiaeth ymgymryd â'u holl brentisiaeth, neu ran ohoni, drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gyflawni nodau Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.

**Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol**

***Manylion y cyllid sydd i'w ddarparu i bob Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol ac at ba ddiben***

19.106. Rydym yn parhau i weithio gyda'r pedair Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol i nodi blaenoriaethau sgiliau rhanbarthol ac is-ranbarthol. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn elfen ganolog o'r dirwedd sgiliau ranbarthol, yn darparu gwybodaeth am y farchnad lafur i Lywodraeth Cymru. Maent yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr i nodi blaenoriaethau cyflogaeth a sgiliau. Yn ogystal, maent yn darparu ffocws ychwanegol ar feysydd polisi allweddol fel Sgiliau Digidol, Cymru Sero Net, y Gymraeg, Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ynghyd â blaenoriaethau strategol ar gyfer y sector addysg bellach a darparu prentisiaethau.

19.107. Mae cryfhau'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn parhau i fod yn ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu ac rydym wedi cynyddu eu cyllideb i £1.16m y flwyddyn (£0.290m fesul Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol) o 23-24. Bwriedir parhau i ariannu'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ar yr un lefel yn 2024-25. Gwnaethom symud i Gymorth Grant tair blynedd mwy strategol o 2022 ymlaen, yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau, yn dilyn eu hymchwiliad i'r Partneriaethau. Mae'r Partneriaethau wedi cyflwyno cynlluniau sgiliau a chyflogaeth tair blynedd newydd sy'n nodi blaenoriaethau rhanbarthol o ran cyflogadwyedd a sgiliau. Mae'r cynlluniau'n nodi sectorau allweddol lle mae bylchau sgiliau yn y ddarpariaeth, prinder sgiliau a bod cyflogwyr yn cael anawsterau recriwtio. Mae'r cynlluniau hefyd yn tynnu sylw at gyfleoedd i ddatblygu'r gweithlu sy'n gysylltiedig â thechnolegau newydd.

19.108. Ar ben hynny, mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi cael dyraniad cyllideb dangosol ychwanegol o £0.080m yn 2024-25 (£0.020m i bob Partneriaeth) i ymgysylltu â'u partneriaid cyflenwi er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall y farchnad bresennol o ran prosiectau a rhaglenni i gynorthwyo pobl ifanc, a sut gall prosiectau gyfrannu at y Warant i Bobl Ifanc.

***Manylion unrhyw gyllid arall y bwriedir iddo gefnogi gweithrediad Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ond nad yw'n cael ei ddyrannu iddynt yn uniongyrchol.***

19.109. Nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw gyllid arall i gefnogi gweithrediad y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

**Ymchwil, Datblygu ac Arloesi**

***Manylion unrhyw gyllid yn ystod 2024-25 y bwriedir iddo ddarparu adnoddau ar gyfer pum blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi yng Nghymru; gan gynnwys unrhyw gyllid sydd â'r nod o sicrhau bod gan Gymru gyfran deg o'r cyllid ymchwil, datblygu ac arloesi sydd ar gael gan gynnwys unrhyw gyllid i ddisodli cyllid yr UE a manylion unrhyw gyllid yn ystod 2024-25 y bwriedir iddo ddarparu adnoddau ar gyfer Strategaeth Arloesi Cymru.***

19.110. Mae Strategaeth Arloesi newydd i Gymru, Cymru'n Arloesi, yn disodli'r pum blaenoriaeth ar gyfer ymchwil ac arloesi a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021. Mae Cymru'n Arloesi, a lansiwyd ym mis Chwefror 2023, yn nodi cyfeiriad strategol ar gyfer gweithgareddau ymchwil, datblygu ac arloesi drwy bedwar maes cenhadaeth, sef yr Economi, Addysg, Hinsawdd a Natur ac Iechyd a Lles. Mae'r strategaeth yn manylu ar berthynas gryfach ag Innovate UK, gyda'r nod o ddenu mwy o fuddsoddiad i weithgareddau ymchwil, datblygu ac arloesi yng Nghymru. Cyhoeddwyd cynllun cyflawni i gefnogi'r gwaith o weithredu'r strategaeth ym mis Hydref 2023, sy'n nodi'r camau allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd, gan gynnwys cronfa gwerth £30m (hyd at fis Mawrth 2025) i gefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau ar draws yr ecosystem Arloesi.

19.111. Ar ben hynny, bydd Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r potensial ar gyfer 'clystyrau' technolegol a diwydiannol fel yr ymrwymir iddynt yn ein cynllun Cyflawni Arloesedd. Bydd hyn yn llywio camau gweithredu posibl i fanteisio ar botensial allforio, denu mewnfuddsoddiad ac adeiladu cynigion i fuddsoddi mewn asedau arloesi, fel Sefydliadau Ymchwil y Sector Cyhoeddus, 'Sefydliadau Ymchwil' annibynnol neu glystyrau diwydiannol, lle bo hynny'n briodol. Unwaith eto, byddai hyn yn cael ei gefnogi gan raglenni ehangach Llywodraeth Cymru, fel Sêr Cymru, a, lle bo hynny'n berthnasol, gan bartneriaethau a rhaglenni Llywodraeth y DU. Mae'r meysydd posibl yn cynnwys radioisotopau meddygol, Technoleg Amaeth, ynni adnewyddadwy a gweithgynhyrchu uchel ei werth/uwch.

19.112. Yr allwedd i lwyddiant yw creu ymdrechion ymchwil, datblygu ac arloesi sydd nid yn unig yn darparu budd i ddinasyddion Cymru, ond sydd hefyd yn darparu manteision ehangach i'r DU ac yn rhyngwladol, gyda'r nod o ddenu buddsoddiad gan Lywodraeth y DU, cyfalafwyr menter a phartneriaid masnachu ar draws y byd yn lle'r Cyllid Ewropeaidd a gollwyd a mynd i'r afael â'r tanfuddsoddi hanesyddol mewn ymchwil, datblygu ac arloesi yng Nghymru.

***Manylion y cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi ar draws Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd***

19.113. Yn unol â'r dull integredig o ddatblygu'r strategaeth arloesi ar gyfer Cymru, mae'r cyllidebau a nodir isod, er eu bod yn eistedd ar draws portffolios Gweinidogion, yn cael eu cyflawni mewn ffordd ategol yn aml drwy weithgarwch a ariennir ar y cyd ar draws portffolios, neu gyda'r tîm Arloesi yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion polisi ehangach.

### *Addysg*

19.114. Mae'r gyllideb ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi yn y sector addysg yn rhan o bortffolio'r Gweinidog dros Addysg a'r Gymraeg. Caiff ei dosbarthu drwy CCAUC (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn y dyfodol) i Brifysgolion yng Nghymru ar gyfer gweithgareddau fel seilwaith ymchwil, ymgysylltu â busnesau a gweithgarwch prosiect. Mae CCAUC hefyd yn ariannu Rhwydwaith Arloesedd Cymru sy'n rhan o Brifysgolion Cymru, sy'n cefnogi cydweithio rhwng y Prifysgolion a rhannu adnoddau.

### *Iechyd a Gofal Cymdeithasol*

19.115. Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn pennu cyllideb flynyddol o £47m ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a £12.8m arall y flwyddyn ar gyfer arloesi yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch fel gweithgareddau ymchwil, treialon clinigol, seilwaith ac adnoddau staff, a gweithgarwch prosiect ehangach – gan gynnwys cyllid rhannol ar gyfer Canolfan Ragoriaeth SBRI sy'n cefnogi'r sector cyhoeddus ehangach i ymgymryd â gweithgarwch a ysgogir gan her (a ariennir hefyd gan gyllideb Arloesi ETC).

### *Newid yn yr Hinsawdd*

19.116. Fel rhan o'r £30m ar gyfer Arloesi a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023 (£20m yn uniongyrchol o Linell Wariant Arloesi Busnes 3742), mae £5m y flwyddyn (2023-24 a 2024-25) yn cael ei neilltuo i gefnogi busnesau i archwilio a mabwysiadu technolegau newydd sy'n cefnogi cynnydd yn y defnydd o gynnwys wedi'i ailgylchu a'i ailddefnyddio mewn cynhyrchion neu gydrannau neu i ymestyn oes cynhyrchion/deunyddiau. Mae hyn yn cael ei gyflawni gan y tîm arloesi canolog drwy amrywiaeth o gyllid grant a rhaglenni caffael arloesol. Rydym hefyd yn cefnogi cysylltiadau cydweithredol rhwng diwydiant a'r GIG i gynyddu ailgylchu ac ailddefnyddio deunyddiau a ddefnyddir ym maes iechyd a gofal.

19.117. Ffigurau cyllideb Llywodraeth Cymru yn unig yw'r ffigurau hyn ac nid ydynt yn cynnwys cyllid ehangach yn y maes hwn drwy ffynonellau fel cyllid y DU, na chyllid cyfatebol y sector preifat.

## Masnach

### *Manylion unrhyw gymorth ariannol ar gyfer masnach, gan gynnwys hyrwyddo, cynorthwyo busnesau neu fuddsoddi mewn seilwaith sy'n gysylltiedig â masnach*

19.118. Rydym wedi dyrannu £3.752m drwyddi draw i gefnogi Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi.

19.119. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys £3.572m i gyflawni Cynllun Gweithredu Allforio Cymru (gweler isod) a £0.180m i gefnogi ein hymdrechion i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan ar gyfer mewnfuddsoddi, ymrwymiad allweddol yn y Strategaeth Ryngwladol

a'r Genhadaeth Economaidd. Mae'r gweithgarwch hwn yn canolbwyntio ar fuddsoddiad sy'n cael ei arwain gan gyfleoedd, ac ar y rhannau hynny o'r economi lle gall Cymru ddangos gallu o safon ryngwladol, gan gynnwys lled-ddargludyddion cyfansawdd, technoleg ariannol, seiberddiogelwch, ynni'r môr, agweddau penodol ar wyddor bywyd fel meddygaeth aildyfu, niwrowyddorau a thechnoleg feddygol; a phrosesau gweithgynhyrchu'r genhedlaeth nesaf, yn enwedig ar draws yr agenda symudedd.

19.120. Fel rhan o hyn, mae rhaglen ymgysylltu helaeth yn cael ei rhoi ar waith gyda'n swyddfeydd tramor ni, rhwydweithiau ehangach, clystyrau diwydiant hollbwysig a rhanddeiliaid i godi proffil cyfleoedd buddsoddi yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys mynd i ddigwyddiadau a nawdd, gweithgarwch seminar pwrpasol, creu cynnwys newyddiadurol ac ymgysylltu'n uniongyrchol â chwmnïau ledled y byd. Yn gyffredinol, mae'r gweithgarwch hwn yn hanfodol er mwyn i Gymru barhau i fod yn weladwy i gyfleoedd masnachol ar y llwyfan byd-eang; creu cysylltiadau mewnfuddsoddi newydd; annog ymweliadau gan ddarpar fuddsoddwyr i Gymru, ac, yn y pen draw, denu buddsoddiad rhyngwladol newydd i Gymru. Y llynedd (2022/23), cafodd dros 3,000 o swyddi eu creu yng Nghymru (cynnydd o 66% ar y flwyddyn flaenorol) oherwydd mewnfuddsoddiad i Gymru.

***Y dyraniadau ariannol i gyflawni'r 'Cynllun Gweithredu Allforio i Gymru'***

19.121. Mae'r £3.572m o gyllid a ddyrannwyd i gyflawni'r Cynllun yn sicrhau bod gennym ni amrywiaeth o raglenni allforio i helpu busnesau gyda'u taith allforio – o ysbrydoli busnesau i allforio; meithrin y gallu i allforio; dod o hyd i gwsmeriaid tramor; a chyrraedd marchnadoedd tramor. Mae'r dirwedd fasnachu fyd-eang a materion geowleidyddol ehangach yn dal i effeithio ar fasnach ryngwladol: er bod yr ystadegau allforio dros dro diweddaraf yn dangos bod gwerth allforio nwyddau yng Nghymru yn £20.4 biliwn yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2023, cynnydd o £2.0 biliwn (11.1%) o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022; gostyngodd swmp yr allforion (Kg) 8.9% yn yr un cyfnod. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd darparu cymorth cynhwysfawr i fusnesau Cymru i ddatblygu er mwyn sbarduno twf pellach yn allforion Cymru.

***Manylion unrhyw gyllid yn ystod 2024-25 a fwriedir ar gyfer datblygu, adeiladu a chostau rhedeg cysylltiedig Safleoedd Rheoli Ffiniau yng Nghymru***

19.122. Fel y nodwyd yn fy mhapur i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gweledig ar 11 Hydref 2023, cyhoeddwyd Model Gweithredu Targed y Ffin - ar ei wedd derfynol - ar 29 Awst 2023. Roedd fy mhapur hefyd yn egluro y bydd archwiliadau ffisegol ar nwyddau sy'n cael eu mewnforio o Iwerddon yn dod i rym yn nes ymlaen, gan effeithio ar borthladdoedd arfordir y gorllewin, yn cynnwys tri Safle Rheoli Ffin Cymru yng Nghaergybi, Doc Penfro ac Abergwaun.

19.123. Ni fydd yr archwiliadau ffisegol hyn yn dechrau yng Nghymru cyn 31 Hydref 2024 ac rwy'n benderfynol o roi rhybudd rhesymol i fusnesau i baratoi. Nid yw'r dyddiad dechrau wedi'i gytuno eto, ac mae llawer iawn o waith yn dal i'w wneud gyda Llywodraeth y DU ac eraill i weithredu model cydlynol ar gyfer holl arfordir Gorllewin Prydain Fawr.

19.124. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai'r cyfleusterau Safle Rheoli Ffin gael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth y DU gan fod y costau wedi codi oherwydd polisi Llywodraeth y DU ar Ymadael â'r UE, i sicrhau nad oes unrhyw faich ariannol ar Lywodraeth Cymru.

19.125. Mae Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi ymrwymo i ariannu'r costau adeiladu angenrheidiol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn ddiweddar wedi gwrthod ariannu'r costau trosiannol er mwyn sicrhau cyflwr sefydlog, gan gynnwys y costau i sefydlu'r trefniadau. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi gwrthod talu'r costau staff ychwanegol y mae angen i Lywodraeth Cymru eu talu i gyflawni'r fenter hon sy'n cael ei harwain gan Lywodraeth y DU a thros gyfnod hir o amser oherwydd yr oedi gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai'r costau hyn hefyd gael eu talu, a'u bod yn amod wrth i ni ymrwymo i Fodel Gweithredu Targed y Ffin. Rydym yn parhau â'n trafodaethau gyda Thrysorlys EF ac rydym yn disgwyl penderfyniad cyn bo hir. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £6.4m yn ein cyllideb ar gyfer 2024-25 ar gyfer y costau refeniw hyn.

19.126. Rydym wedi gwario cyfanswm o £9.3m hyd at 31 Mawrth 2023 ar Raglen y Ffiniau, sy'n cynnwys cyfraniad gan Lywodraeth y DU o £3.3m ar gyfer 2022-23. Ar sail y tybiaethau cyflawni presennol, ni ddisgwylir i gyfanswm y gwariant pellach a ragwelir dros y flwyddyn ariannol gyfredol (2023-24) a'r flwyddyn ariannol nesaf (2024-25) fod yn fwy na £70m. O ran ein rhagdybiaethau cynllunio presennol, rydym yn rhagweld y bydd costau'r rhaglen yn dod i ben ar ôl 2024-25.

19.127. Bydd dyddiad gorffen y rhaglen yn dod yn gliriach unwaith y cytunir ar y dyddiad ar gyfer gwiriadau ffisegol.

## Crynodeb

19.128. Cyflwynir Cyllideb Ddrafft MEG yr Economi ar gyfer 2024-245 i'r Pwyllgor ei hystyried.

**Vaughan Gething**
**Gweinidog yr Economi**

[1] Ymchwil a gynhaliwyd gan SKOPE ac Ysgol Lywodraeth Blavatnik, Prifysgol Rhydychen, '**what accounts for changes in the chances of being NEET in the UK?**' (exter

[1] http://www.learningandwork.wales/resource/understanding-the-potential-impact-of-coronavirus-in-wales/
[2] Y Comisiwn Ieuenctid (2019): Fit for Purpose Education and Employment Support for Young People https://www.learningandwork.org.uk/wp-content/uploads/2019/11/YC_Current-system_Report5_FINAL.pdf

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Cyllideb Ddrafft 2024-25**
**Papur Tystiolaeth – Atodiadau**

## ATODIAD A – Llinellau Gwariant yn y Gyllideb Prif Grŵp Gwariant yr Economi

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb (Refeniw)** | LI(801984) - MA_VG_3098_23 -ETI **Cyllideb Derfynol 2023-24 Chwefror 2023 Wedi'i hailddatgan** | **Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Chwefror 2023 Wedi'i hailddatgan** | **Diwygiadau i Ddyraniadau Dangosol 2024-25** | **Newidiadau Eraill 2024-25** | **Cyllideb Ddrafft 2024-25 Rhagfyr 2023** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| Datblygiad Economaidd Rhanbarthol a Busnes | 9,460 | 9,460 | -2,078 | 0 | 7,382 |
| Busnes Cymru | 26,559 | 22,463 | -1,537 | 0 | 20,926 |
| Y Cymoedd Technoleg | 2,025 | 2,025 | -267 | 0 | 1,758 |
| Tasglu'r Cymoedd | 100 | 100 | 0 | 0 | 100 |
| Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi | 4,192 | 4,192 | -440 | 0 | 3,752 |
| Porthladdoedd Rhydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cam Gweithredu: Busnes Cymru / Entrepreneuriaeth ac Economi Ranbarthol** | **42,336** | **38,240** | **-4,322** | 0 | **33,918** |
| Seilwaith Eiddo | 6,868 | 6,868 | -1,600 | 0 | 5,268 |
| Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus | 11,500 | 11,500 | 0 | 0 | 11,500 |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh | 1,527 | 1,527 | -659 | 0 | 868 |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh - Nad yw'n arian parod | 2,309 | 2,309 | 0 | 0 | 2,309 |
| **Cam Gweithredu: Datblygu Seilwaith Economaidd** | **22,204** | **22,204** | **-2,259** | 0 | **19,945** |
| Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol | 4,794 | 4,794 | -504 | 0 | 4,290 |
| **Cam Gweithredu: Cyfanswm Cyflawni'r Strategaeth Ddigidol** | **4,794** | **4,794** | **-504** | 0 | **4,290** |
| Cymru Iach ar Waith | 0 | 0 | 0 | 100 | 100 |
| Gwasanaethau a Rhaglenni Corfforaethol | 671 | 671 | -159 | | 512 |
| Digwyddiadau Busnes Strategol a Chyfathrebu | 200 | 200 | -35 | -100 | 65 |
| **Cam Gweithredu: Rhaglenni Corfforaethol** | **871** | **871** | **-194** | 0 | **677** |
| Prentisiaethau | 138,898 | 143,898 | -5,250 | 0 | 138,648 |
| **Cam Gweithredu: Prentisiaethau** | **138,898** | **143,898** | **-5,250** | 0 | **138,648** |
| Cyflogadwyedd – Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc | 83,291 | 98,333 | -19,016 | 18,034 | 97,351 |

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Cyllideb Ddrafft 2024-25**
**Papur Tystiolaeth – Atodiadau**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogadwyedd – Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc, nad yw'n arian parod | | 1,400 | 1,400 | 0 | 0 | 1,400 |
| Cymunedau am Waith | | 23,034 | 18,034 | 0 | -18,034 | 0 |
| Cymunedau am Waith – Nad yw'n arian parod | | 41 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cyflogadwyedd – Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc** | **107,766** | **117,767** | **-19,016** | 0 | **98,751** |
| Arloesi ym myd Busnes | | 604 | 300 | -61 | 0 | 239 |
| **Cam Gweithredu:** | **Arloesi** | **604** | **300** | **-61** | 0 | **239** |
| Gwyddoniaeth | | 1,200 | 1,200 | -268 | 0 | 932 |
| **Cam Gweithredu:** | **Gwyddoniaeth** | **1,200** | **1,200** | **-268** | 0 | **932** |
| Twristiaeth | | 10,630 | 10,630 | -1,504 | 0 | 9,126 |
| Digwyddiadau Cymru | | 4,666 | 4,666 | -1,001 | 0 | 3,665 |
| **Cam Gweithredu:** | **Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd** | **15,296** | **15,296** | **-2,505** | 0 | **12,791** |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | | 33,314 | 33,999 | -3,570 | 0 | 30,429 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru – Nad yw'n arian parod | | 119 | 119 | 0 | 0 | 119 |
| Amgueddfa Cymru | | 27,222 | 28,496 | -2,992 | 0 | 25,504 |
| Amgueddfa Cymru – Nad yw'n arian parod | | 2,400 | 2,400 | 0 | 0 | 2,400 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | | 11,862 | 12,394 | -1,301 | 0 | 11,093 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Nad yw'n arian parod | | 1,250 | 1,250 | 0 | 0 | 1,250 |
| Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol | | 6,429 | 8,583 | -1,915 | 0 | 6,668 |
| Cymru Greadigol | | 7,119 | 7,169 | -753 | 0 | 6,416 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cymorth i Ddiwylliant a'r Celfyddydau** | **89,715** | **94,410** | **-10,531** | 0 | **83,879** |
| Cadw | | 9,206 | 9,513 | -2,123 | 0 | 7,390 |
| Cadw – Nad yw'n arian parod | | 5,480 | 5,480 | 0 | 0 | 5,480 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | | 587 | 587 | -62 | 0 | 525 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | | 1,727 | 1,815 | -402 | 0 | 1,413 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru – Nad yw'n arian parod | | 134 | 134 | 0 | 0 | 134 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cymorth i'r Amgylchedd Hanesyddol** | **17,134** | **17,529** | **-2,587** | 0 | **14,942** |
| Chwaraeon Cymru | | 23,065 | 23,439 | -2,461 | 0 | 20,978 |
| Chwaraeon Cymru – Nad yw'n arian parod | | 779 | 779 | 0 | 0 | 779 |
| **Cam Gweithredu:** | **Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** | **23,844** | **24,218** | **-2,461** | 0 | **21,757** |
| Cymorth i Raglenni | | 1,707 | 1,707 | 0 | 0 | 1,707 |

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Cyllideb Ddrafft 2024-25**
**Papur Tystiolaeth – Atodiadau**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu:** | **Rheoli Cyllid Ewropeaidd** | **1,707** | **1,707** | 0 | 0 | **1,707** |
| Rheoli Ffiniau | | 0 | 0 | 26 | 6,400 | 6,426 |
| **Cam Gweithredu:** | **Rheoli Ffiniau** | **0** | **0** | 0 | **6,400** | **6,426** |
| **MEG:** | **YR ECONOMI** | **466,369** | **482,434** | **-49,932** | **6,400** | **438,902** |

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Cyllideb Ddrafft 2024-25**
**Papur Tystiolaeth – Atodiadau**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb (Cyfalaf)** | | **Cyllideb Derfynol 2023-24 Chwefror 2023 Wedi'i hailddatgan** | **Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Chwefror 2023 Wedi'i hailddatgan** | **Diwygiadau i Ddyraniadau Dangosol 2024-25** | **Newidiadau Eraill 2024-25** | **Cyllideb Ddrafft 2024-25 Rhagfyr 2023** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| Datblygiad Economaidd Rhanbarthol a Busnes | | 26,850 | 22,650 | 0 | 2,000 | 24,650 |
| Datblygiad Economaidd Rhanbarthol a Busnes – Ad-daliad | | -13,736 | -1,603 | 0 | 0 | -1,603 |
| Y Cymoedd Technoleg | | 5,000 | 5,000 | 0 | 0 | 5,000 |
| Porthladdoedd Rhydd | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cam Gweithredu:** | **Busnes Cymru / Entrepreneuriaeth ac Economi Ranbarthol** | **18,114** | **26,047** | 0 | 0 | 26,047 |
| Cronfeydd Cyllid Busnes | | 10,000 | 15,000 | 0 | 0 | 15,000 |
| Cronfeydd Cyllid Busnes – Ad-daliad | | 0 | -46,400 | 0 | 0 | -46,400 |
| **Cam Gweithredu:** | **Banc Datblygu Cymru** | **10,000** | **-31,400** | 0 | 0 | **-31,400** |
| Seilwaith Eiddo | | 10,000 | 10,000 | 0 | 0 | 10,000 |
| Seilwaith Eiddo – Ad-daliad | | -290 | -290 | 0 | 0 | -290 |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh | | -26,500 | 20,000 | 0 | 0 | 20,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Datblygu Seilwaith Economaidd** | **-16,790** | **29,710** | 0 | 0 | **29,710** |
| Cyflogadwyedd – Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc | | 2,000 | 2,000 | 0 | 0 | 2,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cyflogadwyedd – Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc** | **2,000** | **2,000** | 0 | 0 | **2,000** |
| Arloesi ym myd Busnes | | 5,000 | 10,000 | 0 | 0 | 10,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Arloesi** | **5,000** | **10,000** | 0 | 0 | **10,000** |
| Gwyddoniaeth | | 5,000 | 5,000 | 0 | 0 | 5,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Gwyddoniaeth** | **5,000** | **5,000** | 0 | 0 | **5,000** |
| Twristiaeth | | 5,000 | 5,000 | 0 | 0 | 5,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Hyrwyddo a Diogelu Lle Cymru yn y Byd** | **5,000** | **5,000** | | 0 | **5,000** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Celfyddydau Cymru | | 400 | 400 | 0 | 0 | 400 |
| Amgueddfa Cymru | | 5,000 | 5,000 | 0 | 0 | 5,000 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | | 2,000 | 2,000 | 0 | 0 | 2,000 |
| Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol | | 21,500 | 24,700 | 0 | 0 | 24,700 |
| Cymru Greadigol | | 5,000 | 5,000 | 0 | 0 | 5,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cymorth i Ddiwylliant a’r Celfyddydau** | **33,900** | **37,100** | 0 | 0 | **37,100** |
| Cadw | | 10,000 | 10,000 | 0 | 0 | 10,000 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | | 200 | 200 | 0 | 0 | 200 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | | 50 | 50 | 0 | 0 | 50 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cymorth i’r Amgylchedd Hanesyddol** | **10,250** | **10,250** | 0 | 0 | **10,250** |
| Chwaraeon Cymru | | 8,016 | 8,016 | 0 | 0 | 8,016 |
| Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon | | -1,227 | -1,231 | 0 | 0 | -1,231 |
| **Cam Gweithredu:** | **Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** | **6,789** | **6,785** | 0 | 0 | **6,785** |
| **MEG:** | **YR ECONOMI** | **79,263** | **100,492** | 0 | 2,000 | **102,492** |

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Cyllideb Ddrafft 2024-25**
**Papur Tystiolaeth – Atodiadau**

## ATODIAD B – Sylwadau ar gamau gweithredu yn y MEG[1]

## Adnoddau

### *Cam Gweithredu Busnes Cymru / Entrepreneuriaeth ac Economi Ranbarthol*

- Bu £4.322m o ostyngiad net i'r Cam Gweithredu ers cyllideb derfynol ddangosol 2024-25, gan ddod â chyfanswm cyllid 2024-25 i £33.918m. Mae'r gostyngiad net yn ymwneud ag ailflaenoriaethu cyllid ar draws nifer o BELs yn y Cam Gweithredu. Gostyngiad o £2.078m o'r BEL Busnes a Datblygiad Economaidd Rhanbarthol 3751, yn bennaf oherwydd llai o gyfraniad i Hwb Gwyddorau Bywyd a Cwmni Egino. Mae gostyngiad o £1.537m wedi cael ei dynnu o BEL Busnes Cymru a fydd yn cael ei gyflawni drwy atal cyllid pwrpasol ar gyfer yr Economi Sylfaenol sy'n cael ei brif ffrydio i Busnes Cymru. Mae gostyngiad o £0.257m i BEL y Cymoedd Technoleg a £0.440m i'r BEL Allforio, Masnach a Buddsoddi 3754. Mae'r gostyngiadau hyn yn adlewyrchu cyfraniad MEG yr Economi at ymarfer ailflaenoriaethu ehangach Llywodraeth Cymru.

<u>BEL Busnes a Datblygiad Economaidd Rhanbarthol</u>

- Mae'r cyllid yn y BEL hwn yn cefnogi partneriaethau, gwaith ymgysylltu a mentrau i ddatblygu uchelgeisiau'r Genhadaeth Economaidd, Y Genhadaeth, a chyflogadwyedd ar gyfer twf cynhwysol ac adeiladu'r economi i fod yn gynaliadwy yn y tymor hir.

- Mae hefyd yn cefnogi ARFOR 2 gyda chyllid o £11m dros dair blynedd, £3m 2022-23 a £7m 2024-25. Bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno gan bartneriaid awdurdodau lleol a fydd yn helpu i gryfhau cadernid economaidd cadarnleoedd y Gymraeg, ac mae'n rhan o'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru. Prif amcan Arfor 2 yw helpu cymunedau sy'n gadarnleoedd i'r Gymraeg i ffynnu drwy ymyriadau economaidd a fydd hefyd yn helpu i greu mwy o gyfleoedd i weld ac i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd.

<u>BEL Busnes Cymru</u>

- Mae'r gyllideb yn cefnogi entrepreneuriaeth ieuenctid a'r warant i bobl ifanc, busnesau newydd, microfusnesau, busnesau bach a chanolig, hyrwyddwyr anabledd, mentrau cymdeithasol ac arferion busnes cyfrifol. Mae'r gwasanaethau'n cefnogi'r rheini sydd â rhwystrau cudd a bydd cymorth wedi'i dargedu yn parhau i gael ei ddarparu i gefnogi entrepreneuriaid benywaidd ac ifanc a grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

- Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys darparu £1.163m ar gyfer yr economi sylfaenol, gan alluogi swyddi wrth galon cymunedau lleol ar draws sectorau fel gofal a gwasanaethau iechyd; bwyd; tai; ynni; twristiaeth; adeiladu a manwerthu.

---

[1] Camau gweithredu: Mae'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn rhoi sylw i Gymorth ar gyfer Diwylliant a'r Celfyddydau, Cymorth ar gyfer Amgylcheddau Hanesyddol, Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol

BEL Y Cymoedd Technoleg

- Mae'r gyllideb yn cefnogi cynllun Llywodraeth Cymru i ymrwymo £100m dros 10 mlynedd i greu 1,500 o swyddi cynaliadwy ym Mlaenau Gwent a'r cyffiniau drwy fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, hybu mabwysiadu technolegau digidol a datblygu uwch dechnolegau gwerthfawr sy'n cefnogi diwydiannau arloesol. Yn fwyaf diweddar, cyhoeddwyd buddsoddiadau sy'n cefnogi'r Genhadaeth: Gweithdy roboteg a Resilientworks.

BEL Tasglu'r Cymoedd

- Mae'r cyllid yn cynnal cyllideb refeniw flynyddol o £0.1m i helpu'r rhaglen gyfalaf i gyflawni rhaglen Ein Cymoedd, Ein Dyfodol.

BEL Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi

- Mae'n galluogi cyflawni Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Allforio, i sicrhau twf tymor hir yn allforion Cymru; a, gweithgareddau i gefnogi hybu Cymru fel lleoliad ar gyfer mewnfuddsoddi.

BEL Porthladdoedd Rhydd

- Mae'r rhaglen Porthladdoedd Rhydd yn cynnwys rhai costau sy'n cael eu talu gan Lywodraeth y DU ac eraill y mae disgwyl i Lywodraeth Cymru eu talu. Mae Llywodraeth y DU yn darparu £2m o gyllid capasiti ar gyfer y darpar Borthladdoedd Rhydd (£600k yn 2023/24 ac £1.4m disgwyliedig yn 2024/25). Mae'r cyllid hwn yn cael ei dalu i'r Porthladdoedd Rhydd gan Lywodraeth Cymru a'i ad-dalu gan Lywodraeth y DU drwy SUPS.

- Mae costau uniongyrchol Llywodraeth Cymru hyd yma yn cynnwys staff yn Llywodraeth Cymru, cymorth cyfreithiol a chyngor technegol. Bydd costau yn y dyfodol hefyd yn cynnwys monitro a gwerthuso a'r costau sy'n gysylltiedig â defnyddio ysgogiadau datganoledig mewn Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru. Nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â defnyddio ysgogiadau datganoledig, fel rhyddhad a chadw Ardrethi Annomestig, yn hysbys eto. Disgwylir i'r rhain ddod yn gliriach wrth i ddarpar Borthladdoedd Rhydd Cymru gyflwyno eu Hachosion Busnes Amlinellol ym mis Rhagfyr.

- Yn Natganiad yr Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth y DU estyniad i'r Rhaglen Porthladdoedd Rhydd yn Lloegr i 10 mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i asesu goblygiadau estyniad i ysgogiadau datganoledig ac ystyried a ellir cymhwyso hyn yng Nghymru.

***Cam Gweithredu Datblygu Seilwaith Economaidd***

- Mae'r Cam Gweithredu wedi gostwng £2.259m o'i gymharu â'r Gyllideb Derfynol ddangosol ar gyfer 2024-25 a gafodd ei hailddatgan. Mae'r gostyngiad yn bennaf oherwydd gostyngiad o £1.6m yn y BEL Seilwaith Eiddo. Y gobaith yw y bydd y toriad hwn yn cael ei lyncu drwy werthu rhagor o eiddo yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae gostyngiad o £0.659m wedi cael ei gymhwyso i'r BEL Gweithrediadau Seilwaith TGCh, gyda'r effaith debygol yn erydu gallu Llywodraeth Cymru i gynnal gweithgareddau casglu tystiolaeth, sydd fel arfer yn cael eu cyflawni drwy gomisiynu cymorth ymgynghori allanol.

<u>BEL Seilwaith Eiddo</u>

- Mae'r cyllid yn y BEL hwn yn sicrhau bod digon o safleoedd ac adeiladau cyflogaeth ar gael er mwyn sicrhau mantais gystadleuol o ran denu, cadw a datblygu busnesau yng Nghymru. Mae'r gyllideb refeniw yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol a statudol fel landlordiaid a pherchnogion tir wrth reoli'r portffolio eiddo datblygu economaidd, gan gynnwys rheoli Sain Tathan a'r taliadau unedol o dan gynllun Menter Cyllid Preifat Rhodfa Lloyd George. Ategir y gyllideb gan incwm arall, yn bennaf derbyniadau rhent ac elw o waredu tir ac adeiladau.

<u>BEL Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus</u>

- Mae'r cyllid yn y BEL hwn ar gyfer Contract Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus sy'n sail i'r gwasanaeth cysylltedd digidol a ddefnyddir gan dros 120 o sefydliadau yn y sector cyhoeddus ar draws Cymru. Mae gan y gwasanaeth rhwydwaith Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus sy'n hollbwysig i fusnesau dros 5,000 o gysylltiadau ac fe'i sefydlwyd yn 2007.

<u>BEL Gweithrediadau Seilwaith TGCh</u>

- Mae'r cyllid yn y BEL hwn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu Seilwaith Digidol ar draws Cymru. Mae'r gyllideb refeniw hefyd yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu adolygu a monitro penderfyniadau polisi Digidol a wneir gan Lywodraeth y DU, i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu.

<u>BEL Gweithrediadau Seilwaith TGCh - Nad yw'n arian parod</u>

- Mae'r cyllid yn y BEL hwn ar gyfer taliadau dibrisiant rhwydwaith Fibrespeed sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru yng Ngogledd Cymru.

***Cyflawni'r Strategaeth Ddigidol***

Mae'r Cam Gweithredu wedi cael toriad o £0.504m o gyllideb derfynol ddangosol 2024-25, gan ddod â chyfanswm y cyllid ar gyfer y Cam Gweithredu i £4.290m. Mae'r gostyngiad yn ymwneud â thorri cyllideb y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol.

<u>BEL y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol</u>

Mae'r cyllid yn y BEL hwn yn ymwneud â chyllideb y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) sy'n sail i genhadaeth 1 y Strategaeth Ddigidol i Gymru. Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol yn gyfrifol am wella gallu digidol ar draws y sector cyhoeddus, darparu safonau ac arweiniad a gweithio gyda sefydliadau eraill i gyflawni trawsnewid digidol.

***Cam Gweithredu Rhaglenni Corfforaethol***

- Bu gostyngiad net o £0.194m i'r Cam Gweithredu o gyllideb derfynol ddangosol 2024-25, gan ddod â chyfanswm y cyllid ar gyfer y Cam Gweithredu i £0.677m ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Mae'r gostyngiad net yn ymwneud â gostyngiad o £0.159m yn y BEL Rhaglenni a Gwasanaethau Corfforaethol 4023 a £0.035m yn y BEL Digwyddiadau Busnes Strategol a Chyfathrebu. Mae'r gostyngiadau hyn yn ymwneud â chyfraniad MEG yr Economi i gefnogi ymarfer ailflaenoriaethu ehangach Llywodraeth Cymru.

<u>BEL Cymru Iach ar Waith</u>

- Mae cyllideb Cymru Iach ar Waith yn darparu'r rhaglen genedlaethol sy'n cefnogi cyflogwyr i greu gweithleoedd a gwaith iachach er budd eu gweithwyr a'r gymuned ehangach. Mae Cymru Iach ar Waith yn cael ei ariannu ar y cyd gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adran yr Economi. Mae swyddogion o'r ddwy adran yn gweithio'n agos i fanteisio i'r eithaf ar fanteision iechyd ac economaidd y rhaglen. Mae £0.100m wedi cael ei ddyrannu i gefnogi'r gweithgareddau hyn ym mlwyddyn ariannol 2024-25 drwy drosglwyddiad o'r BEL Digwyddiadau Busnes Strategol a Chyfathrebu.

<u>BEL Gwasanaethau a Rhaglenni Corfforaethol</u>

- Mae cyllideb flynyddol Rhaglenni Corfforaethol yn bennaf yn cyllido'r system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid busnes, a oedd yn hanfodol yn ystod y pandemig er mwyn i Lywodraeth Cymru allu prosesu grantiau'r Gronfa Cadernid Economaidd. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys darpariaeth fach ar gyfer gwerthusiadau.

<u>BEL Digwyddiadau Busnes Strategol a Chyfathrebu</u>

- Mae'r gyllideb Cyfathrebu o £0.065m bob blwyddyn yn cefnogi digwyddiadau busnes ac ymgysylltu strategol.

***Cam Gweithredu Prentisiaethau***

- Bu gostyngiad net i'r Cam Gweithredu o £5.250m o gyllideb derfynol ddangosol 2024-25, gan ddod â chyfanswm y cyllid i £138.648m yn 2024-25. Mae'r gostyngiad net yn ymwneud â thoriad o 3.65% yn y gyllideb i'r rhaglen prentisiaethau a thoriad o 24% i werth y contract. Mae'r toriad yn ymwneud â

chyfraniad MEG yr Economi at ymarfer ailflaenoriaethu ehangach Llywodraeth Cymru.

BEL Prentisiaethau

- Mae'r gyllideb refeniw yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r rhaglen prentisiaethau. Mae prentisiaethau yn rhaglen statws cyflogedig sy'n darparu hyfforddiant uwchsgilio, trosglwyddadwy drwy rwydwaith o ddarparwyr Addysg Bellach a hyfforddiant preifat. Mae prentisiaethau yn Rhaglen i bobl o bob oed sy'n rhoi blaenoriaeth i ddysgwyr rhwng 16 a 24 oed, pobl sy'n newydd i fyd gwaith, a darpariaeth yn y sectorau hynny sydd fwyaf o fudd i economi Cymru, fel STEM, iechyd a gofal cymdeithasol, ac sy'n cefnogi ein huchelgeisiau sero net.

***Cam Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau***

- Bu gostyngiad net i'r Cam Gweithredu o £19.016m o'r gyllideb derfynol ddangosol, gan ddod â chyfanswm y cyllid i £98.751m yn 2024-25. Mae'r gostyngiad net yn ymwneud â chyfraniad MEG yr Economi at ymarfer ailflaenoriaethu Llywodraeth Cymru.

BEL Cyflogadwyedd, gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc

- Mae'r gyllideb yn ariannu'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno strategaethau, polisïau a rhaglenni sy'n helpu pobl i gael gwaith, i ddychwelyd i waith, i aros mewn gwaith ac i symud ymlaen yn y gwaith drwy gymorth ar gyfer sgiliau a hyfforddiant; gan ategu ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno'r Warant i Bobl Ifanc, gan gynnig gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i bawb o dan 25 oed. Mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi'r ymrwymiadau i adeiladu ar lwyddiant Cronfa Ddysgu Undebau Cymru; cefnogi cynigion TUC Cymru i aelodau o undebau fod yn Gynrychiolwyr Gwyrdd yn y gweithle a chryfhau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Mae'n hwyluso ymateb uniongyrchol i helpu busnesau unigol i dyfu drwy ddatblygu'r gweithlu ac mae'n darparu atebion ehangach, sy'n canolbwyntio ar y sector ac yn cael eu harwain gan gyflogwyr, i ymateb i anghenion sgiliau a nodwyd ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, fel sero net a thechnoleg ddigidol, sy'n bwysig i economi Cymru.

- Mae'r BEL hefyd yn rhoi cyllid i Gyrfa Cymru sy'n darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd cenedlaethol, diduedd a dwyieithog i bobl o bob oed yng Nghymru.

- Mae £18.034m wedi cael ei drosglwyddo o fewn y MEG i'r BEL hwn oherwydd bod y BEL Cymunedau am Waith wedi'i gyfuno â'r BEL hwn. Cymunedau am Waith a Mwy yw prif ddull Llywodraeth Cymru o gefnogi cyflogadwyedd y rheini sydd fwyaf o dan anfantais. Roedd y rhaglenni Cymunedau am Waith a Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth wedi cau ym mis Hydref 2023. Mae'r ddwy raglen wedi darparu hyfforddiant a gwasanaeth mentora dwys yn y gymuned i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac

unigolion 25 oed a hŷn sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith yn y tymor hir ac sydd â rhwystrau cymhleth.

<u>BEL Cyflogadwyedd, Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc – Nad yw'n arian parod</u>

- Yn ogystal â'r gyllideb refeniw uchod, mae cyllideb dibrisiant flynyddol nad yw'n arian parod o £1.4m ar gyfer Gyrfa Cymru.

***Cam Gweithredu Arloesi***

- Bu gostyngiad o £0.061m o newid o gyllideb derfynol ddangosol 2024-25. Cyfanswm y cyllid yw £0.239m yn 2024-25. Mae'r gostyngiad yn ymwneud â chyfraniad MEG yr Economi i gefnogi'r ymarfer ailflaenoriaethu ehangach ar draws Llywodraeth Cymru.

<u>BEL Arloesi ar gyfer Busnes</u>

- Mae'r BEL yn ariannu'r cymorth ariannol ar gyfer cynlluniau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, gan gynnwys y cynllun Cymorth Arloesi Hyblyg SMART, cynllun y Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) a'r Rhaglen Cefnogi Arloesedd ac Ymchwil Gydweithredol (CRISP). Er bod incwm yr UE wedi dod i ben, ein blaenoriaethau o hyd yw:
    - Defnyddio'r capasiti ymchwil, datblygu ac arloesi i gefnogi ein Rhaglen Lywodraethu, gan ganolbwyntio ar newid hinsawdd, adferiad amgylcheddol a datgarboneiddio;
    - Adeiladu ymhellach ar y capasiti ymchwil, datblygu ac arloesi yng Nghymru yn y Gwyddorau Bywyd ac Iechyd;
    - Twf a datblygu sgiliau yn y sylfaen ymchwil ac arloesi sefydledig.

***Cam Gweithredu Gwyddoniaeth***

- Bu £0.268m o ostyngiad net i'r Cam Gweithredu ers cyllideb derfynol ddangosol 2024-25, gan ddod â chyfanswm y cyllid i £0.932m am y flwyddyn. Mae'r gostyngiad net yn ymwneud ag ailflaenoriaethu £0.268m o gyllid i gefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, ac ni fydd yn effeithio ar gynnal fy ymrwymiad i weithgarwch yn y maes hwn.

<u>BEL Gwyddoniaeth</u>

- Mae'r gyllideb refeniw yn cynnwys ailsefydlu rhaglen grant newydd yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol a luniwyd i gefnogi gweithgareddau ac astudiaethau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM), ac i hyrwyddo dewisiadau gyrfa ym myd gwyddoniaeth ar hyd a lled Cymru. Mae'r gyllideb hon hefyd yn cyfrannu at hyrwyddo Swyddfa Llywodraeth Cymru dros Wyddoniaeth a'i gweithgareddau ymgysylltu, gan gynnwys seminarau ymgysylltu â rhanddeiliaid, arolygon agweddau'r cyhoedd at Wyddoniaeth, Wythnos Gwyddoniaeth Prydain, Gwyddoniaeth yn y Senedd, Gwobrau Arloesedd Cyd-

bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) a CREST, Medalau LSW, adolygiadau perfformiad gwyddoniaeth a gomisiynwyd a hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y meysydd Ymchwil ac Arloesi, a Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM).

***Cam Gweithredu Hyrwyddo a Diogelu Lle Cymru yn y Byd***

- Bu £2.505m o ostyngiad net i'r Cam Gweithredu ers cyllideb derfynol ddangosol 2024-25, gan ddod â chyfanswm y cyllid i £12.791m am y flwyddyn. Mae'r gostyngiad net yn ymwneud ag ailflaenoriaethu £1.504m o gyllid o'r BEL Twristiaeth sy'n ymwneud â llai o weithgareddau gan gynnwys ymgyrchoedd twristiaeth domestig a rhyngwladol, marchnata masnach ac allforio, marchnata diplomyddiaeth chwaraeon a chenedlaethol a £1.001m o'r BEL Digwyddiadau Cymru 4231 sy'n cynnwys stopio Canmlwyddiant Richard Burton.

BEL Twristiaeth

- Mae'r cyllid yn helpu i ddatblygu twristiaeth ac i fuddsoddi mewn marchnata sy'n cyd-fynd â'n strategaeth gyffredinol – Croeso i Gymru-Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025 – i gynyddu twristiaeth er budd Cymru, gan sicrhau manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

BEL Digwyddiadau Cymru

- Yn unol â Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol newydd Cymru ar gyfer 2022 i 2030 | LLYW.CYMRU, bydd y gyllideb flynyddol yn parhau i gefnogi digwyddiadau ym myd chwaraeon, y celfyddydau a busnes yng Nghymru, yn ogystal ag ystyried y cyfleoedd posibl gyda digwyddiadau rhyngwladol, fel y cais ar y cyd rhwng y DU ac Iwerddon ar gyfer Euros 2028. Byddwn yn buddsoddi i gefnogi digwyddiadau sy'n sicrhau manteision a gwaddol economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn unol â'r strategaeth newydd.

- Byddwn yn parhau i geisio cael amrediad daearyddol a thymhorol llawn o ddigwyddiadau o Fôn i Fynwy. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi'r gwaith o ddatblygu seilwaith sy'n berthnasol i ddigwyddiadau, a helpu sector cryf a chynaliadwy i ddatblygu yng Nghymru drwy fuddsoddi mewn sgiliau a datblygu'r gadwyn gyflenwi.

***Cam Gweithredu Rheoli Cyllid Ewropeaidd***

- Ni fu unrhyw newid i'r Cam Gweithredu hwn o'r gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 23. Mae cyfanswm y cyllid am y flwyddyn yn aros yn £1.707m.

BEL Cymorth i Raglenni

- Mae'r gyllideb flynyddol o £1.7m yn cyflawni gweithrediadau Cymorth Technegol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a ariennir gan yr UE.

.*Cam Gweithredu Rheoli Ffiniau*

- Bu cynnydd o £6.426m yn y Cam Gweithredu hwn o'r gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25. Mae'r cynnydd yn ganlyniad i'r dyraniad a dderbyniwyd o'r cronfeydd canolog i gefnogi elfen refeniw y rhaglen ffiniau.

BEL Rheoli Ffiniau

- Mae Trysorlys EF wedi cytuno i ariannu'r costau cyfalaf i adeiladu'r tri Safle Rheoli Ffiniau yng Nghymru (Caergybi, Abergwaun a Doc Penfro). Mae'r BEL yn ariannu'r costau refeniw y mae Trysorlys EF wedi gwrthod eu hariannu. Mae'r rhain yn cynnwys costau cychwynnol (recriwtio, hyfforddi ac ati) i'r awdurdodau lleol cyn cyflwyno ffioedd, a chostau rhaglen Llywodraeth Cymru ei hun.

**Cyfalaf**

***Cam Gweithredu Busnes Cymru / Entrepreneuriaeth ac Economi Ranbarthol***

- Bu cynnydd o £2m i'r gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 23. Mae'r cynnydd oherwydd trafodiad ariannol cyfalaf ychwanegol i gefnogi'r prosiect Cadence. Mae cyfanswm y cyllid am y flwyddyn yn £28.047m.

BEL Busnes a Datblygiad Economaidd Rhanbarthol

- Mae'r cyllid yn ategu'r cyllid cyfalaf sydd ar gael ar gyfer Cronfa Dyfodol yr Economi a datblygiadau strategol eraill i gynorthwyo busnesau. Mae Banc Datblygu Cymru hefyd yn gwella gallu busnesau yng Nghymru i gael gafael ar gyllid ac mae'n cefnogi'r gwaith o greu a diogelu swyddi gyda Chronfeydd dynodedig sy'n ceisio datgloi potensial yn economi Cymru drwy gynyddu faint o gyllid cynaliadwy ac effeithiol sydd ar gael yn y farchnad.

BEL Busnes a Datblygiad Economaidd Rhanbarthol – Ad-daliad

- Mae Cyllid Ad-daladwy yn ategu'r cyllid cyfalaf sydd ar gael ar gyfer Cronfa Dyfodol yr Economi a datblygiadau strategol eraill i gynorthwyo busnesau.

BEL Y Cymoedd Technoleg

- Mae'r BEL hwn yn cefnogi Rhaglen Cymoedd Technoleg Llywodraeth Cymru - mae wedi ymrwymo £100m dros 10 mlynedd i greu 1,500 o swyddi cynaliadwy ym Mlaenau Gwent a'r cyffiniau drwy fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, gan hybu mabwysiadu technolegau digidol a datblygu uwch dechnolegau gwerthfawr sy'n cefnogi diwydiannau arloesol.

- Hyd yma, mae buddsoddiad y Cymoedd Technoleg wedi helpu i greu 298,000 troedfedd sgwâr o ofod llawr newydd a gofod llawr wedi'i adnewyddu, gan alluogi 600 o swyddi posibl. Mae'n cefnogi gwydnwch, effeithlonrwydd a'r defnydd o

dechnoleg mewn busnesau bach a chanolig eu maint ac yn codi ymwybyddiaeth o yrfaoedd sy'n gysylltiedig â STEM ac yn hyrwyddo'r nifer sy'n astudio pynciau STEM yn yr ysgol ac ôl-16. Bydd y ffigurau hyn yn parhau i dyfu wrth i'r prosiect sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ddwyn ffrwyth.

- Mae un o'n buddsoddiadau mwyaf drwy Raglen y Cymoedd Technoleg yn fwy na £16 miliwn ar gyfer sefydlu Campws Technoleg Thales yng Nglynebwy – partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, y byd academaidd, busnes a Thales UK Ltd. Mae'r campws yn darparu cyfleusterau arloesol o'r radd flaenaf sy'n ymchwilio i atebion i seibergadernid seilwaith cenedlaethol critigol ac mae'n brosiect catalydd allweddol ar gyfer twf a datblygu economaidd yn Ne Cymru.

<u>BEL Porthladdoedd Rhydd</u>

- Mae'r rhaglen Porthladdoedd Rhydd yn cynnwys rhai costau sy'n cael eu talu gan Lywodraeth y DU ac eraill y mae disgwyl i Lywodraeth Cymru eu talu. Mae Llywodraeth y DU yn darparu £2m o gyllid capasiti ar gyfer y darpar Borthladdoedd Rhydd (£600k yn 2023/24 ac £1.4m disgwyliedig yn 2024/25). Mae'r cyllid hwn yn cael ei dalu i'r Porthladdoedd Rhydd gan Lywodraeth Cymru a'i ad-dalu gan Lywodraeth y DU drwy SUPS.

- Mae costau uniongyrchol Llywodraeth Cymru hyd yma yn cynnwys staff yn Llywodraeth Cymru, cymorth cyfreithiol a chyngor technegol. Bydd costau yn y dyfodol hefyd yn cynnwys monitro a gwerthuso a'r costau sy'n gysylltiedig â defnyddio ysgogiadau datganoledig mewn Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru. Nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â defnyddio ysgogiadau datganoledig, fel rhyddhad a chadw Ardrethi Annomestig, yn hysbys eto. Disgwylir i'r rhain ddod yn gliriach wrth i ddarpar Borthladdoedd Rhydd Cymru gyflwyno eu Hachosion Busnes Amlinellol ym mis Rhagfyr.

- Yn Natganiad yr Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth y DU estyniad i'r Rhaglen Porthladdoedd Rhydd yn Lloegr i 10 mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i asesu goblygiadau estyniad i ysgogiadau datganoledig ac ystyried a ellir cymhwyso hyn yng Nghymru.

### *Cam Gweithredu Banc Datblygu Cymru*

- Ni fu unrhyw newid o'r gyllideb derfynol ddangosol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 23 ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd yw £-31.4m yn 2024-25.

<u>BEL Cronfeydd Cyllid Busnes</u>

- Pwrpas y cyllid yn y BEL hwn yw cefnogi Banc Datblygu Cymru, sy'n gwella gallu busnesau yng Nghymru i gael gafael ar gyllid ac yn cefnogi'r gwaith o greu a diogelu swyddi gyda Chronfeydd dynodedig sy'n ceisio datgloi potensial yn economi Cymru drwy gynyddu faint o gyllid cynaliadwy ac effeithiol sydd ar gael

yn y farchnad. Mae Banc Datblygu Cymru mewn sefyllfa dda i helpu busnesau Cymru drwy'r pandemig a'r adferiad, ac i gael gafael ar y cyllid sydd ei angen arnynt i ddechrau, i gryfhau ac i ddatblygu. Mae'n gallu darparu benthyciadau o £1k hyd at £10m, yn ogystal â chyllid mesanîn ac ecwiti; ac mae'n helpu busnesau i ddod o hyd i'r partner cyllid iawn i gael gafael ar gyllid preifat gyda'i gyllid bwlch ei hun pan fydd angen.

BEL Cronfeydd Cyllid Busnes – Ad-daliad

- Mae cyllideb ad-dalu o £-46,400m yn cael ei chynnal fel rhan o gyllideb 2024-25. Mae'r ad-daliad yn ymwneud â thaliadau cyfalaf FT.

***Cam Gweithredu Datblygu Seilwaith Economaidd***

- Ni fu unrhyw newid i'r gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer 2024-25. Mae cyfanswm y cyllid wedi aros yn £29.710m.

BEL Seilwaith Eiddo

- Mae'r gyllideb gyfalaf yn cael ei hategu gan dderbyniadau gwerthu tir ac eiddo. Mae hyn yn golygu bod modd darparu safleoedd ac adeiladau modern sy'n gallu bodloni amserlenni deiliadaeth cwmnïau er mwyn rhoi mantais gystadleuol wirioneddol i Gymru dros leoliadau eraill. Bydd yr holl brosiectau masnachol adeiladu uniongyrchol a gyflawnir yn anelu at gyrraedd safon carbon sero net o ran defnydd a bydd Polisi Adeiladau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn berthnasol i brosiectau a gyflwynir mewn partneriaeth ag eraill.

BEL Seilwaith Eiddo – Ad-daliad

- Dechreuodd ad-daliadau trafodiadau ariannol Seilwaith Eiddo yn 2022-23 a byddant yn parhau tan 2038-39.

- Mae'r ad-daliadau'n ymwneud ag £8.950m o gyllid a roddwyd rhwng 2015-16 a 2018-19. Rhoddwyd £2.750m o gyllid o dan y Gronfa Datblygu Eiddo yn 2015-16, a dyfarnwyd £6.200m i Gyngor Abertawe at ddibenion manwerthu a hamdden (£5.500m yn 2017-18 a £0.700m yn 2018-19). Dechreuodd ad-daliadau trafodiadau ariannol Seilwaith Eiddo yn 2022-23 a byddant yn parhau tan 2038-39.

BEL Gweithrediadau Seilwaith TGCh

- Mae'r gyllideb cyfalaf yn cefnogi cynlluniau i adeiladu ac i ddarparu seilwaith digidol i gysylltu cartrefi a busnesau ar draws Cymru. Er nad yw'r cyfrifoldeb dros fynd i'r afael â materion telathrebu yng Nghymru wedi'i ddatganoli i Weinidogion Cymru, mae'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod cartrefi a busnesau yn gallu cael band eang cyflym a dibynadwy cyn gynted â phosibl.

***Cam Gweithredu Cyflogadwyedd – Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc***

- Ni fu unrhyw newid i'r gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer 2024-25. Mae'r buddsoddiad cyfalaf blynyddol o £2m yn cefnogi gweithgarwch Gyrfa Cymru i'r strategaeth TG ac ystadau gyd-fynd â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Bydd datblygiad amgylcheddol strategol a chynaliadwyedd yn cael eu cynnwys yn y strategaeth ofodol newydd gan ganolbwyntio ar y meysydd twf cenedlaethol a rhanbarthol drwy fabwysiadu'r dull gweithredu 'Canol trefi yn gyntaf'.

***Cam Gweithredu Arloesi***

- Ni fu unrhyw newid i'r cyllid cyfalaf a ddyrannwyd yn y Cam Gweithredu hwn o'i gymharu â'r swm dangosol a ddyrannwyd fel rhan o gyllideb ddrafft 2023-24 a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 23. Cyfanswm y cyllid yw £10m yn 2024-25.

<u>BEL Arloesi ar gyfer Busnes</u>

- Cymorth ariannol ar gyfer cynlluniau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, y gyfres o raglenni SMART, Rhaglen Sbarduno'r Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) a'r Rhaglen Cefnogi Arloesedd ac Ymchwil Gydweithredol (CRISP). Er bod cyllid Ewropeaidd yn dod i ben yn 2023/24, dyma yw ein blaenoriaethau o hyd:

    - Defnyddio'r capasiti ymchwil, datblygu ac arloesi i gefnogi ein Rhaglen Lywodraethu, gan ganolbwyntio ar newid hinsawdd, adferiad amgylcheddol a datgarboneiddio;
    - Adeiladu ymhellach ar y capasiti ymchwil, datblygu ac arloesi yng Nghymru yn y Gwyddorau Bywyd ac Iechyd;
    - Datblygu strategaeth arloesi ar draws Llywodraeth Cymru ar gyfer twf a datblygu sgiliau yn y sylfaen ymchwil ac arloesi.

***Cam Gweithredu Gwyddoniaeth***

- Ni fu unrhyw newid i'r gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 23 yng nghyswllt y Cam Gweithredu hwn. Mae £5m o gyllid wedi'i gadw ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25.

<u>BEL Gwyddoniaeth</u>

- Mae'r gyllideb cyfalaf yn parhau â'r rhaglen Sêr Cymru a gydnabyddir yn rhyngwladol, sy'n helpu i fanteisio i'r eithaf ar effeithiau manteisiol arbenigedd ymchwil, cyfleusterau arloesi arbenigol a'r cyflenwad o ymchwilwyr dawnus. Mae'r rhaglen hon (a gafodd ei henwi gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2021 fel un o'r pum blaenoriaeth ymchwil, datblygu ac arloesi) eisoes wedi helpu i greu dyfnder o ymchwilwyr a seilwaith gwyddoniaeth yng Nghymru nad oedd yn bodoli o'r blaen, ac mae wedi cyfrannu at wella perfformiad gwyddoniaeth ac ymchwil Cymru dros y degawd diwethaf.

***Cam Gweithredu Hyrwyddo a Diogelu Lle Cymru yn y Byd***

- Nid fu newid i'r gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 23. Rydym wedi cynnal ein buddsoddiad yn y Cam Gweithredu hwn, gyda chyfanswm y cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 yn £5m.

<u>BEL Twristiaeth</u>

- Y buddsoddiad cyfalaf blynyddol arfaethedig o £5m mewn profiadau o ansawdd uchel i ymwelwyr a chronfa y Pethau Pwysig ar gyfer gwelliannau bach i'r seilwaith twristiaeth. Mae'r dyraniad hwn ar gael ochr yn ochr â Chronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth – Cymru, sy'n cael ei darparu mewn partneriaeth â Banc Datblygu Cymru.

## Atodiad C – Manylion y Rhaglen Gyflogadwyedd

**ReAct + Mwy**

Mae ReAct+ yn rhaglen a ariennir gan grant, sydd â chyllideb o £3.131m yn 2024-25. Lansiwyd ReAct+, y rhaglen gyflogadwyedd ar gyfer oedolion, ar 6 Mehefin 2022. Mae'n cynnig cymorth wedi'i bersonoli i oedolion di-waith 18 oed a hŷn; does dim terfyn oedran uchaf. Mae cymorth ar gael i gyfranogwyr sydd wedi colli eu swydd, neu sy'n ddi-waith yn y tymor byr, neu i bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae hefyd yn helpu cyn-droseddwyr sy'n bwrw eu dedfryd yn y gymuned.

Mae'r rhaglen yn darparu hyfforddiant galwedigaethol, cymorth recriwtio i gyflogwyr, cymorth ar gyfer hyfforddiant i gyflogwyr yn ogystal â chymorth ar gyfer gofal plant, cymorth ar gyfer datblygiad personol a chostau fel teithio. Nid yw Llywodraeth Cymru yn contractio unrhyw ddarparwyr hyfforddiant, ac mae cyfranogwyr yn enwi'r darparwr hyfforddiant mwyaf priodol.

**Twf Swyddi Cymru + Mwy**

Lansiwyd TSC+Mwy ym mis Ebrill 2022, ac mae'n rhan hanfodol o'r Warant newydd i Bobl Ifanc. Mae TSC+Mwy yn darparu pecyn cymorth cyfannol sydd wedi'i deilwra i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, neu sydd mewn perygl o hynny. Yn 2024-25, disgwylir y bydd £29.144m yn cael ei ddyrannu i ddarparwyr i gyflwyno'r rhaglen, fel y nodir isod. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar bobl ifanc 16-19 oed nad ydynt yn barod am swydd eto, gan eu helpu i gyrraedd y cam hwnnw, yn ogystal â phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol i'w helpu i oresgyn rhwystrau rhag cael swydd a hyfforddiant, gan gynnwys iechyd meddwl a llesiant.

Mae TSC+Mwy yn cael ei gontractio drwy dendr; mae'r Contractwyr canlynol wedi cael contractau o dan gytundeb Fframwaith ym mhob Lot Ranbarthol:

| • **Rhanbarth** | **Contractiwr** |
|---|---|
| Gogledd Cymru | Consortiwm Grŵp Llandrillo- Menai (GLLM) |
| | Coleg Cambria |
| | ACT Ltd |
| De-orllewin a Chanolbarth Cymru | Coleg Sir Benfro |
| | ITEC Training Solutions |
| | ACT Ltd |
| Canol De Cymru | ACT Ltd |
| | ITEC Training Solutions |
| De-ddwyrain Cymru | ACT Ltd |
| | ITEC Training Solutions |

**Cymunedau am Waith+**

Yn 2024-25 y gyllideb sydd ar gael i Cymunedau am Waith a Mwy (CfW+) yw £16.834m. Mae'r rhaglen yn darparu hyfforddiant a mentora cymunedol dwys i dros

52,000 o unigolion sy’n wynebu rhwystrau cymhleth rhag cael gwaith, ac mae dros 22,000 ohonynt wedi cael cyflogaeth am fwy na 16 awr yr wythnos. Mae’n cael ei ddarparu drwy bob un o’r 22 Awdurdod Lleol.

## Y Rhaglen Sgiliau Hyblyg

Mae'r rhaglen hon yn un a ariennir gan grant, ac mae ganddi gyllideb o £1.3 miliwn yn 2024-2025. Gall y Rhaglen, drwy gyfraniad o 50%, helpu gyda chostau cymwys sy’n ymwneud â darparu hyfforddiant mewnol ac allanol a deunyddiau hyfforddi sydd wedi’u hanelu at bob cyflogwr yn y sector preifat a’r trydydd sector yng Nghymru, gyda £500k o’r gyllideb wedi’i ddyrannu i Airbus yn 2024-25.

Mae dwy elfen wahanol i’r Rhaglen;

- Mae Rhaglen Datblygu Busnes y Rhaglen Sgiliau Hyblyg mewn sefyllfa i gefnogi prosiectau datblygu busnes sylweddol sy’n cael eu harwain gan gyflogwyr, ac y mae disgwyl iddynt arwain at ehangu busnesau a buddsoddiad mawr sy’n arwain at greu swyddi o ansawdd da.

- Pwrpas Prosiectau Partneriaeth y Rhaglen Sgiliau Hyblyg yw helpu i sbarduno economi sgiliau ehangach Cymru, gan ganolbwyntio ar y sgiliau blaenoriaethol a nodwyd gan gyflogwyr yng Nghymru a chan gyrff sy’n cynrychioli diwydiant. Ar hyn o bryd, mae’r elfen Prosiectau Partneriaeth yn cynnwys 6 prosiect ar wahân: Sgiliau Sero Net, Uwch Sgiliau Digidol; Uwch Beirianneg a Gweithgynhyrchu; y Sector Creadigol; Allforio; Twristiaeth a Lletygarwch.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn contractio unrhyw ddarparwyr hyfforddiant, ac mae’n rhoi cyfle i gyfranogwyr enwi’r darparwr hyfforddiant mwyaf priodol.

## Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

## Dyddiad: 20 Rhagfyr 2023

## Teitl: Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

## Trosolwg

1. O ran cyllideb ddrafft 2024-25, ein llinell sylfaen at ddibenion cynllunio oedd y gyllideb ddangosol a bennwyd fel rhan o Adolygiad o Wariant 2023-24. Dengys y tabl isod y newidiadau a wnaed rhwng Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 a'r ffigurau a gyhoeddwyd fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2024-25.

2. Fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon, rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol i'n cyllidebau dangosol i ailgyfeirio cyllid o bob rhan o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys o'r portffolio hwn, er mwyn rhoi cyllid ychwanegol i'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl a chymunedau ledled Cymru a'u diogelu, sef y GIG a setliad llywodraeth leol craidd, sy'n ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol a gwasanaethau pob dydd eraill.

**Tabl 1:Trosolwg o'r newidiadau i dablau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb**

| | Cyllideb Derfynol 2023-24 | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 | Sefyllfa Ddangosol 2024-25 | Arbedion 2024-25 | Llinell Sylfaen Addasu | Sefyllfa Ddiwygiedig 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bron yn Arian Parod** | 136,038 | 139,237 | 139,038 | -14,081 | 0 | 124,957 |
| Heb Fod yn Arian Parod | 210 | 255 | 210 | 0 | 3* | 213 |
| **Adnoddau** | **136,248** | **139,492** | **139,248** | **-14,081** | **3** | **125,170** |
| Cyfalaf | 17,494 | 16,994 | 16,958 | 0 | 0 | 16,958 |
| **Cyfanswm** | **153,742** | **156,486** | **156,206** | **-14,081** | **3** | **142,128** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | **24,546** | **24,546** | **31,759** | **0** | **6,569**** | **38,328** |

*Mae'r addasiad nad yw'n arian parod yn ymwneud â £3k nad yw'n arian parod i mewn i gronfeydd wrth gefn Llinell Wariant yn y Gyllideb Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol (7060).

** Cynnydd o £6,569k sy'n ymwneud â Phensiynau'r Gwasanaeth Tân – Gwariant a Reolir yn Flynyddol, yn unol â rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

3. Ceir dadansoddiad o ddyraniadau Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol 2024-25 yn ôl Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb yn Atodiad A; mae hwn hefyd yn rhoi esboniadau manwl o'r newidiadau a wnaed rhwng Cyllideb

Atodol Gyntaf 2023-24 a Chyllideb Ddrafft 2024-25 ar lefel Llinell Wariant yn y Gyllideb.

## Trosolwg o newidiadau i Adnoddau rhwng cyllideb ddangosol 24-25 a Chyllideb Ddrafft 24-25

4. Rydym wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn i ailganolbwyntio ein cynlluniau gwariant ar y gwasanaethau cyhoeddus sydd bwysicaf i bobl – y GIG a gwasanaethau pob dydd a ddarperir gan gynghorau lleol, megis ysgolion, tai a gofal cymdeithasol. Yn anffodus, mae hyn wedi golygu symud gwariant o feysydd adrannau eraill, gan gynnwys y maes hwn.

5. Rydym wedi gweithredu yn y ffordd hon er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i osod ffocws cyllid lle y gall gael yr effeithiau mwyaf cadarnhaol o dan yr amgylchiadau a chymryd camau i sicrhau ein bod yn lliniaru effeithiau uniongyrchol i bobl a lleoedd, hyd y gellir. Mae mwy o wariant mewn rhai meysydd yn golygu bod llai i'w wario mewn meysydd eraill. Pan fo angen gwneud penderfyniadau anodd, rydym wedi ceisio nodi'r meysydd hynny lle mae'r effeithiau cymharol yn llai na'r dewisiadau amgen ac rydym wedi ceisio cymryd camau i liniaru effeithiau hyd y gellir. O ystyried yr amgylchiadau, ni fu modd osgoi effeithiau negyddol ym mhob achos.

6. Bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd am y gwasanaethau a ddarparwn a sut rydym yn eu darparu. Wrth wneud y penderfyniadau hyn rydym wedi cael ein llywio gan rai egwyddorion clir. Mae'r rhain yn cynnwys diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen, cefnogi aelwydydd yr effeithir arnynt fwyaf o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a lleihau'r effeithiau ar ein camau gweithredu i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur i'r eithaf. Bu'n bwysig hefyd o fewn y portffolio hwn i geisio osgoi gwneud penderfyniadau sy'n creu mwy o anghydraddoldebau.

7. Gwyddom y bydd ein partneriaid yn y sector cyhoeddus ehangach yn ogystal â'n partneriaid yn y trydydd sector o dan bwysau tebyg. Byddwn yn gweithio ar y cyd â'n partneriaid i reoli'r risg o'r heriau ariannol sydd o'n blaen, a hefyd barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i bobl Cymru.

8. Mae'r portffolio hwn wedi nodi **arbedion refeniw gwerth £14.081m** o'n cyllideb adnoddau ddangosol o £139.2m ar gyfer 2024-25 er mwyn cyfrannu tuag at y pwysau ehangach ar Lywodraeth Cymru. Gofynnwyd am ragor o arbedion yn y Prif Grŵp Gwariant hefyd er mwyn ymateb i'r pwysau ychwanegol.

9. Roedd y rhain yn arbedion sylweddol o'r portffolio bach hwn a bydd y penderfyniadau yn cael nifer o effeithiau ar y cyhoedd yn gyffredinol yn ogystal ag

effeithiau penodol i nifer o grwpiau o bobl. Wrth wneud y penderfyniadau hyn, bu'n flaenoriaeth i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen lle y bo modd ond hefyd i ddiogelu'r teuluoedd a'r unigolion hynny yr effeithir arnynt fwyaf o ganlyniad i'r sefyllfa ariannol a wynebwn. Felly, rydym wedi diogelu'r Gronfa Cymorth Dewisol (o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Cynhwysiant Ariannol), y Gronfa Gynghori Sengl (o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Gwasanaethau Cynghori) a Llinellau Gwariant yn y Gyllideb Incwm Sylfaenol yn ogystal â rhai gweithgareddau allweddol mewn cyllidebau eraill, er enghraifft y gyllideb bwyd mewn argyfwng yn y gyllideb Cefnogi Cymunedau gan fod y rhain yn rhoi cymorth uniongyrchol i unigolion sydd fwyaf agored i heriau ariannol. Bydd y cyllidebau hollbwysig hyn yn parhau i gynorthwyo pobl o dan yr anfantais fwyaf, neu sydd wedi'u hymyleiddio a/neu sy'n agored i niwed y mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio arnynt. Drwy'r cyllid diwygiedig bydd modd o hyd inni barhau â'n gwaith pwysig i roi'r Strategaeth Tlodi Plant ar waith.

10. Rydym hefyd wed diogelu cyllideb Trais yn erbyn Menywod a Thrais Rhywiol (VAWDASV) oherwydd y galw o hyd yn erbyn y gyllideb hon a phwysigrwydd diogelu'r rhai sy'n wynebu VAWDASV rhag niweidiau corfforol, meddyliol ac emosiynol ynghyd ag ymrwymiad i roi'r strategaeth Glasbrint VAWDASV ar waith ar y cyd â'n partneriaid ym maes cyfiawnder troseddol a gwasanaethau arbenigol.

11. Fodd bynnag, mae'r mesurau diogelwch hyn yn golygu bod angen nodi arbedion mewn meysydd eraill o'r portffolio hwn. Nodir y newidiadau a wnaed i'r cyllidebau refeniw dangosol fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2024-25 yn y tabl isod. Mae'r naratif sy'n dilyn y tablau yn nodi'r rhesymeg dros y newidiadau rhwng y gyllideb ddangosol a'r gyllideb ddrafft. Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad A sy'n rhoi esboniad o'r newidiadau ers y Gyllideb Atodol Gyntaf.

| BEL ref | BEL name | Indicative 2024-25 Position | 2024-25 changes | Revised 2024-25 Position | % change |
|---|---|---|---|---|---|
| 1089 | Basic Income | 7,200 | 3,500 | **10,700** | **48.61%** |
| 1694 | Financial Inclusion | 39,002 | 0 | **39,002** | **0.00%** |
| 1084 | Digital Inclusion | 1,250 | -500 | **750** | **-40.00%** |
| 1084 | Digital Inclusion **(Non Cash)*** | 149 | 0 | **149** | **0.00%** |
| 1086 | Supporting Communities | 4,164 | -1,500 | **2,664** | **-36.02%** |
| 541 | VAWDASV | 8,005 | 0 | **8,005** | **0.00%** |
| 7060 | Equality, Inclusion and Human Rights | 12,987 | -3,214 | **9,773** | **-24.75%** |
| 7062 | Cohesive Communities | 5,580 | -870 | **4,710** | **-15.59%** |
| 7063 | Equal,Poverty&Children's Evidence & Supp | 1,949 | -313 | **1,636** | **-16.06%** |
| 480 | Children's Commissioner | 1,675 | -84 | **1,591** | **-5.01%** |
| 480 | Children's Commissioner **(Non Cash)*** | 52 | 0 | **52** | **0.00%** |
| 5334 | Advice Services | 11,675 | 0 | **11,675** | **0.00%** |
| 1695 | Support for the Voluntary Sector and Vol | 9,424 | -970 | **8,454** | **-10.29%** |
| 1265 | Fire & Rescue Services | 2,533 | -10 | **2,523** | **-0.39%** |
| 1697 | FRS Communication System | 2,275 | -1,000 | **1,275** | **-43.96%** |
| 1698 | Community Fire Safety | 848 | -457 | **391** | **-53.89%** |
| 830 | Community Support Officers | 22,981 | -7,473 | **15,508** | **-32.52%** |
| 1267 | Women's Justice & Youth Justice Blue Prints | 1,092 | -20 | **1,072** | **-1.83%** |
| 662 | Older People Commissioner | 1,701 | -85 | **1,616** | **-5.00%** |
| 662 | Older People Commissioner **(Non Cash)*** | 9 | 0 | **9** | **0.00%** |
| 470 | Public Appointments | 400 | -248 | **152** | **-62.00%** |
| 6400 | Future Generations Commissioner Wales | 1,695 | -85 | **1,610** | **-5.01%** |
| 7074 | International Sustainable Development | 1,275 | -225 | **1,050** | **-17.65%** |
| 1693 | Social Partnerships | 961 | -161 | **800** | **-16.75%** |
| 6664 | Chwarae Teg | 366 | -366 | **0** | **-100.00%** |
| | **TOTAL** | **139,248** | **-14,081** | **125,167** | **-10.11%** |
| 7060 | Equality, Inclusion and Human Rights **(Non Cash)*** | 0 | 3 | **3** | |
| | **SJ MEG TOTAL** | **139,248** | **-14,078** | **125,170** | |

Incwm Sylfaenol

12. Mae **swm o £3.5m wedi cael ei ddyrannu** fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2024-25 i ateb y pwysau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r cynllun peilot, sef un o ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu.

13. Mae llwyddiant y cynllun peilot, ynghyd â chynnydd yn nifer yr unigolion sy'n gymwys yn ystod y cam peilot, wedi golygu bod mwy o bobl ifanc sy'n gadael gofal wedi cofrestru na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.

Cynhwysiant Digidol

14. Oherwydd y pwysau sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus, rydym wedi cwtogi ar ein gwaith ar Gynhwysiant Digidol ac mae'r **gyllideb hon wedi gostwng £0.5m**. Ers 2019 mae Prif Grwpiau Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol ac Iechyd wedi buddsoddi £9.5m mewn gwasanaethau cynhwysiant digidol drwy raglen

Cymunedau Digidol Cymru. Rydym yn parhau i gydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael ag anghydraddoldebau digidol ac felly wedi diogelu'r gyllideb hyd y gellir. Bydd y buddsoddiad y byddwn yn parhau i'w wneud yn canolbwyntio ar gynnal rhaglen Cymunedau Digidol Cymru ond rydym hefyd yn cydnabod y bydd y gostyngiad yn y gyllideb yn effeithio ar weithgareddau, allbynnau, a chanlyniadau yn gyffredinol. Bydd y tîm hefyd yn ceisio cysylltu â sefydliadau eraill sydd â ffocws ar gynhwysiant digidol a gweithio gyda nhw, a pharhau i nodi rhwystrau i gynhwysiant digidol drwy waith ymgysylltu â rhanddeiliaid.

<u>Cefnogi Cymunedau</u>

15. Mae ein cyllideb Cefnogi Cymunedau yn rhoi cymorth ar gyfer nifer o'n blaenoriaethau allweddol, gan gynwys cymorth bwyd mewn argyfwng a chymorth tanwydd. Er ein bod wedi **gostwng y gyllideb ddangosol £1.5m**, rydym wedi llwyddo i gadw £1.5m o'r cynnydd arfaethedig a oedd yn mynd i ddigwydd rhwng y blynyddoedd ariannol 2023-24 a 2024-25, sy'n golygu y bydd y gyllideb hon £1.5m yn uwch na'r gyllideb yn 2023-24.

16. Bydd y gyllideb ddiwygiedig hon yn ein galluogi i barhau i gefnogi bwyd mewn argyfwng yn ogystal â chyllid ar gyfer cymorth tanwydd brys drwy'r Sefydliad Banc Tanwydd a fydd yn ein galluogi i barhau i roi rhywfaint o gymorth brys i'r rhai nad ydynt yn gallu rhoi arian yn eu mesuryddion trydan rhagdalu y flwyddyn nesaf ac i helpu i swmpbrynu tanwyddau 'r rhai nad ydynt yn y grid nwy ac na allant fforddio talu am danwydd. Bydd y cyllid diwygiedig hefyd yn ein galluogi i barhau â'n gwaith pwysig i roi'r Strategaeth Tlodi Plant ar waith.

<u>Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol</u>

17. Mae ein cyllideb Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol yn cefnogi ein buddsoddiad mewn nifer o weithgareddau er mwyn mynd i'r afael ag amrywiaeth eang o anghydraddoldebau. Fel rhan o'r Adolygiad o Wariant, roeddem wedi bwriadu cynyddu'r gyllideb hon £2.017m rhwng Cyllideb Derfynol 2023-24 a 2024-25 i £12.987m. Oherwydd yr heriau ariannol rydym wedi gwneud penderfyniadau a fydd yn arwain at ostyngiad cyffredinol o **£3.214m** yn y gyllideb hon o'i chymharu â'r gyllideb ddangosol. O ganlyniad, bydd y gyllideb hon yn gostwng £1.197m o gymharu â chyllideb 2023-24. Drwy addasu'r ffordd rydym yn cyflawni ym maes Cydraddoldebau, gallwn barhau i gyflawni yn erbyn ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a gefnogir yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Gweithredu LHDTC+ a gwaith y Tasglu Hawliau Pobl Anabl.

18. Byddwn yn blaenoriaethu ein cynlluniau grant, yn addasu'r ffordd rydym yn gweithredu o ran ymchwil a hyfforddiant, er enghraifft gwneud rhywfaint o ymchwil yn fewnol, a sicrhau bod ffocws rhaglenni lle y byddant yn cael yr effaith fwyaf.

19. Rydym wedi gostwng y Grant Urddas Mislif £400k yn ystod 2024-25; o £3.1m yn 2023-24 i £2.7m yn 2024-25. Mae'r gostyngiad hwn yn seiliedig ar lefelau blaenorol hawlio'r grant. O ystyried prisiau uwch oherwydd chwyddiant, byddwn yn dibynnu ar ystyried opsiynau i sicrhau cymaint o werth am arian â phosibl er mwyn cefnogi'r un niferoedd o fuddiolwyr a lleoliadau.

20. Bydd grantiau Cydraddoldebau a Chynhwysiant a darparu cyllid craidd i rai sefydliadau penodol yn parhau. Fodd bynnag, rydym yn ystyried maint y dyfarniadau sy'n ymwneud â'r prosiect a / neu gyfanswm y dyfarniadau a wneir er mwyn i'r gwariant fod o fewn y gyllideb gyffredinol.

21. Mae 3k o gyllid heb fod yn arian parod wedi cael ei ddyrannu i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2024-25 a fydd yn dod yn llinell sylfaen ar gyfer y dyfodol; dibrisiant ased anniriaethol ydyw.

Chwarae Teg

22. Mae Chwarae Teg wedi cau bellach, felly rydym wedi **dileu** cyllideb Chwarae Teg yn 2024-25. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gydgynllunio gweithgarwch newydd yn y maes hwn.

Penodiadau Cyhoeddus

23. Bydd **gostyngiad o £248k** yn erbyn cyllideb ddangosol 2024-25. Caiff y gyllideb sy'n weddill yn 2024-25 ei defnyddio i gyflwyno cynllun peilot cysgodi swydd newydd a ariennir a fydd yn cael effeithiau cadarnhaol o ran pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a phobl anabl.

Cydraddoldebau, Tlodi a Thystiolaeth a Chefnogaeth Plant

24. Roeddem wedi bwriadu cynyddu'r gyllideb hon £313m rhwng Cyllideb Derfynol 2023-24 a 2024-25 i £1.949m. Oherwydd yr angen i ymateb i'r heriau ariannol yn y sector cyhoeddus rydym wedi penderfynu na fydd y cynnydd arfaethedig hwn yn bosibl mwyach. Felly, bydd y gyllideb ddangosol yn gostwng **£313k**, ond, yn gyffredinol, ni fydd gostyngiad yn y gyllideb o'i chymharu â chyllideb 2023-24. Mae'n bwysig bod y gyllideb yn parhau ar lefel 2023-24 am fod blaenoriaethau tystiolaeth yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn cefnogi'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu er mwyn: Creu Uned Gwahaniaethau ar sail Hil ochr yn ochr ag Uned Data Cydraddoldeb er mwyn sicrhau sylfaen dystiolaeth gynhwysol i lywio prosesau gwneud penderfyniadau yn y llywodraeth.

25. Nod y prosiectau ymchwil allweddol a gynhelir gan yr Uned yw gwneud newidiadau sylfaenol a hirdymor i argaeledd, manylder ac ansawdd tystiolaeth ynglŷn â chydraddoldeb drwy wella meintiau samplau a newid y ffordd y caiff gwybodaeth ei chasglu i'w gwneud yn fwy cymwys i'r dirwedd polisïau cydraddoldebau yng Nghymru. Mae'r prosiectau yn anelu at wella data cydraddoldebau mewn meysydd polisi ac maent yn allweddol inni allu cefnogi a mesur effaith cynlluniau gweithredu cydraddoldeb allweddol, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gwaith y Tasglu Hawliau Pobl Anabl, y Cynllun Gweithredu LHDTC+, a'r Strategaeth Tlodi Plant.

Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a Gwirfoddolwyr

26. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr iawn y cyfraniad y mae'r trydydd sector a gwirfoddolwyr yn ei wneud yng Nghymru drwy gefnogi unigolion yn ein cymunedau. Fel rhan o'r Adolygiad o Wariant, roeddem wedi bwriadu cynyddu'r gyllideb hon £1.8m rhwng Cyllideb Derfynol 2023-24 a 2024-25 i £9.424m. Oherwydd y cyfyngiadau sylweddol ar ein sefyllfa ariannol a'r pwysau ar y sector cyhoeddus, ni fu modd inni barhau â'r cynnydd arfaethedig hwn ar y lefel hon ac yn lle hynny mae'r cynnydd arfaethedig wedi cael ei ostwng i £830k; caiff hyn ei adlewyrchu yn ein tablau o Linellau Gwariant yn y Gyllideb fe arbediad o **£0.970m** yn erbyn y gyllideb hon.

27. Mae'r Llinell Wariant hon yn y Gyllideb yn darparu cyllid craidd ar gyfer seilwaith y trydydd sector sy'n cefnogi 40,000 a mwy o sefydliadau yn y trydydd sector, y mae 95% ohonynt yn rhai micro neu fach. Partneriaeth rhwng Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r 19 o gynghorau gwirfoddol sirol ledled Cymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

28. Mae'r trydydd sector yn chwarae rôl sylweddol mewn gweithgareddau ymyrryd yn gynnar ac atal a hebddo byddai pwysau cynyddol ar wasanaethau acíwt, a ddarperir yn bennaf gan y sector cyhoeddus.

29. Mae'r cynnydd yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb yn cael ei wario ar y ddau faes canlynol:
   - Cefnogi Trydydd Sector Cymru – er mwyn ymateb i'r galw cynyddol am wasanaethau, y mae llawer ohonynt yn mynd yn gynyddol gymhleth, cynyddu'r cymorth diogelu sydd ar gael i sefydliadau, er mwyn i Cefnogi Trydydd Sector Cymru ddatblygu elfennau strategol cymorth a'i gwneud yn bosibl i Gynghorau Gwirfoddol Sirol ymdrin â phwysau costau byw.

   - Sgiliau Digidol ar gyfer y Sector Gwirfoddol – er mwyn i'r bartneriaeth (CGGC, Cwmpas a Promo Cymru) barhau i roi cymorth a helpu sefydliadau yn y sector gwirfoddol i wella eu gallu i ymateb i anghenion cynyddol am wasanaethau. Mae'r gwaith hwn yn golygu datblygu adnoddau, rhoi hyfforddiant, a chefnogi arweinyddiaeth drwy sefydlu cymunedau ymarfer.

Cymunedau Cydlynus

30. Fel rhan o'r Adolygiad o Wariant, roeddem wedi bwriadu cynyddu'r gyllideb hon £870k rhwng Cyllideb Derfynol 2023-24 a 2024-25 i £5.580m. Oherwydd yr heriau ariannol ni fu modd inni fwrw ymlaen â'r cynnydd arfaethedig hwn ac felly mae'r gyllideb yn gostwng **£870k** o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol. Fodd bynnag, mae'n bleser gennym nodi ein bod wedi llwyddo i barhau â'r gyllideb ar lefel 2023-24 er gwaethaf yr heriau a wynebwyd gennym.

31. O dan y gyllideb ddiwygiedig hon bydd modd o hyd i Weinidogion Cymru weithredu ar ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu – yn benodol cwblhau ymrwymiadau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol o dan benodau Cenedl Noddfa a Throseddau a Chyfiawnder, yn ogystal â'r ymrwymiad i weithio gyda chwmnïau technoleg i ymdrin â chasineb a chamwybodaeth ar-lein.

32. Byddwn yn adolygu cyllidebau prosiectau unigol er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei gyfeirio at feysydd lle y ceir yr angen mwyaf, gan roi cynnydd oherwydd chwyddiant lle y bo modd a gwneud arbedion lle mae'r galw am wasanaethau wedi lleihau.

Gwasanaethau Tân ac Achub

33. Drwy wireddu arbedion o ailstrwythuro cyngor proffesiynol ar faterion sy'n ymwneud â thân rydym wedi llwyddo i ryddhau **£10k** o'r gyllideb hon. Mae'r gyllideb sy'n weddill yn ariannu gallu'r Gwasanaethau Tân ac Achub i ymateb i ddigwyddiadau mawr yn bennaf, gan gynnwys llifogydd a digwyddiadau cemegol, biolegol, radiolegol a niwclear, ac ni fydd y gostyngiad bach hwn yn effeithio ar hyn.

System Gyfathrebu'r Gwasanaethau Tân ac Achub

34. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i sefydlu Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys i gyflawni Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys, sef darn hollbwysig o'r seilwaith cenedlaethol allweddol. Mae Llywodraeth Cymru, fel Corff sy'n Noddi, wedi bod yn rhan annatod o'r rhaglen hon ers ei sefydlu yn 2015. Rydym yn dal yn gwbl ymrwymedig i'r dechnoleg hon a byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau canlyniad llwyddiannus. Ers 2015, rydym wedi cyfrannu'n ariannol i ddatblygu Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys drwy ein cyllidebau ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub. Mae'r cyfraniadau hyn wedi cael eu talu i'r Swyddfa Gartref i ddatblygu'r rhaglen h.y., creu meddalwedd / caledwedd a chynllunio ar gyfer mastiau trawsyrru ychwanegol.

35. Mae'r rhaglen yn mynd drwy broses o ailgaffael elfennau allweddol ar hyn o bryd a bu oedi o ran hynt y rhaglen, sydd wedi arwain at danwario yn erbyn y gyllideb hon yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Felly, rydym wedi gostwng y gyllideb hon **£1m** yn 2024-25 yn seiliedig ar y rhagolwg presennol ar gyfer y rhaglen i Gymru.

Mae system gyfathrebu Airwave / Firelink bresennol y Gwasanaethau Brys yn dal i fod yn weithredol felly ni fydd unrhyw effaith o ganlyniad i'r arbedion a nodwyd yn y llinell wariant ac rydym yn dal yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth ag eraill i gyflwyno'r datrysiad cyfathrebu newydd.

Diogelwch Tân Cymunedol

36. Oherwydd y pwysau ar ein hadnoddau rydym wedi penderfynu gostwng y gyllideb hon **£457k** yn 2024-25 o'i chymharu â'r gyllideb ddangosol. Mae hyn wedi arwain at roi'r gorau i'r rhaglen lleihau tanau bwriadol (£387k) yn ogystal ag arbedion eraill, llai o faint. Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Tân ac Achub i hyrwyddo diogelwch tân a mesurau atal tân ac fel y cyfryw, ni ragwelwn unrhyw effaith ar gyflawni'r gwaith hwn.

Swyddogion Cymorth Cymunedol

37. Oherwydd y pwysau sylweddol ar y sector cyhoeddus, bu'n rhaid inni wneud y penderfyniad anodd i ostwng ein cyllideb ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol **£7.473m** o gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2024-25 er mwyn ymateb i'r heriau digynsail hyn.

38. Bydd hyn yn effeithio ar ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i barhau â'r cyllid ar gyfer 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac ymrwymiad mwy diweddar i ddarparu ar gyfer 100 ychwanegol. Byddwn yn parhau i fuddsoddi £15.5m ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid plismona yng Nghymru i ddeall goblygiadau'r gyllideb ddiwygiedig hon a byddwn yn gweithio'n agos gyda nhw i leihau'r effeithiau negyddol i'r eithaf.

39. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniad a wneir gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yng Nghymru a bydd y cyllid parhaus yn parhau i gefnogi Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu na fyddent yn eu swyddi fel arall. Mae'n werth nodi hyn, o ystyried bod plismona wedi'i gadw yn ôl i Lywodraeth y DU.

Glasbrintiau Cyfiawnder i Fenywod a Chyfiawnder Ieuenctid

40. Mae'r **arbediad o £20k** yn erbyn cyllideb ddangosol y Llinell Wariant hon yn y Gyllideb yn ymwneud â chyllid nad yw wedi'i neilltuo eto. O dan y gyllideb ddiwygiedig hon, byddwn yn parhau i gyflawni ein blaenoriaethau allweddol, gan gynnwys y Rhaglen Fraenaru i Fenywod, y fenter Ymweld â Mam a rhaglenni Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod a Chyfiawnder Ieuenctid.

Partneriaethau Cymdeithasol

41. Bu rhoi statws statudol i bartneriaethau cymdeithasol yn rhan o ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio a gyflawnwyd drwy basio'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Mae'r gyllideb wedi gostwng **£161k** o'i chymharu â'n cyllideb ddangosol ar gyfer 2024-25, ond ni fydd hyn yn effeithio ar weithredu'r Ddeddf. Gellir gwneud yr arbedion o gyllidebau heb eu dyrannu ar hyn o bryd ac felly byddant yn cael effaith fach iawn ar yr hyn a gaiff ei gyflawni erbyn mis Mawrth 2025.

<u>Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol</u>

42. Bydd y cynnig i ostwng y gyllideb ddangosol **£225k** yn y Llinell Wariant hon yn y Gyllideb yn effeithio ar ein buddsoddiad yng Nghynllun Grantiau Bach Cymru ac Affrica a'r cynllun Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol. Bydd hyn yn arwain at atal y cynllun Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol dros dro yn y flwyddyn ariannol 2024-25. Er y bu hon yn rhaglen effeithiol sydd wedi cynnig manteision amlwg i Gymru ac Affrica, bydd atal y rhaglen dros dro yn rhoi cyfle i fyfyrio ynglŷn â sut y gellid ei hymgorffori'n well yng ngweithgarwch Cymru ac Affrica, gan ychwanegu gwerth at yr hyn sydd eisoes yn cael ei ddarparu o dan brosiectau. Byddwn hefyd yn gwneud gostyngiad o 40% yng Nghynllun Grantiau Bach Cymru ac Affrica ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25. Bydd hyn yn siomedig i'r sector, ond bydd £150k ar gael o hyd yn 2024-25 i sefydliadau yng Nghymru wneud cais am gyllid grant i gyflawni prosiectau sy'n fuddiol i'r ddwy ochr yn Affrica Islaw'r Sahara.

<u>Cyllidebau'r Comisiynwyr</u>

43. Rydym yn gwerthfawrogi gwaith ein comisiynwyr a'r cyfraniadau a wneir ganddynt yn fawr iawn. Oherwydd yr heriau ariannol sylweddol a wynebwn, rydym wedi gostwng cyllidebau'r comisiynwyr 5% yn 2024-25 o'u cymharu â'u cyllidebau dangosol. Bydd hyn yn arwain at ostyngiad o £84k ar gyfer y Comisiynydd Plant a gostyngiad o £85k ar gyfer y Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

44. Bydd yn rhaid i bob un o'r comisiynwyr ystyried sut i reoli'r gostyngiadau hyn yn eu cyllidebau a hefyd gyflawni eu blaenoriaethau ar yr un pryd a byddwn yn gweithio gyda nhw i gynnig ein cymorth i wneud hynny. Mae'r arbediad hwn wedi cael ei wneud yn unol â phenderfyniad Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i ostwng cyllideb Comisiynydd y Gymraeg 5% yn ogystal â phenderfyniadau eraill yn Llywodraeth Cymru i ostwng cyllidebau cyrff hyd braich mewn nifer o bortffolios.

45. Byddwn yn gweithio gyda'r Comisiynwyr i helpu i leihau costau swyddfa gefn ac ystyried lleihau costau gwasanaethau a rennir ymhellach.

46. Mae pob Comisiynydd wedi cyflwyno amcangyfrif statudol ar gyfer 2024 i 2025 fel sy'n ofynnol o dan y Deddfau priodol erbyn diwedd mis Hydref cyn y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd yr amcangyfrifon hyn fel a ganlyn:

| Comisiynydd | cyllideb ddangosol 2024 i 2025 (Chwefror 2023) | Amcangyfrif y Comisiynydd | Cyllideb ddrafft 2024 i 2025 (Rhagfyr 2023) |
|---|---|---|---|
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol | £1,695,000 | £1,910,600 | £1,610,000 |
| Y Comisiynydd Pobl Hŷn | £1,675,000 | £1,748,000 | £1,616,000 |
| Y Comisiynydd Plant | £1,675,000 | £1,764,433 | £1,591,000 |

## Trosolwg o'r newidiadau i gyllidebau cyfalaf rhwng cyllideb ddangosol 2024-25 a Chyllideb Ddrafft 2024-25

47. Nid oes unrhyw newidiadau i gwantwm y cyfalaf sydd ar gael ym Mhrif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol yn 2024-25. Fodd bynnag, ni all yr holl gyfalaf a ddyrannwyd yng nghyllideb ddangosol 2024-25 gael ei ddefnyddio yn 2024-25 erbyn hyn.

48. Roedd gan **Linell Wariant yn y Gyllideb y Banc Cymunedol** gyllideb o £1.75m yn 2024-25. Tynnodd Cymdeithas Adeiladu Monmouthshire allan o'r cynllun i ddatblygu Banc Cymunedol yn gynharach eleni. O ganlyniad, ni ddefnyddiwyd unrhyw gyfalaf yn 2023-24 at y diben hwn. Rydym ar ddeall gan arweinwyr polisi nad oes unrhyw gynnig ar gyfer banc cymunedol yn yr arfaeth ac felly mae'n annhebygol iawn y caiff unrhyw ran o'r cyfalaf hwn ei ddefnyddio yn 2024-25. Y gwir amdani yw y byddai unrhyw gynnig a gyflwynir yn cymryd tua 12 mis i'w ddatblygu a'i asesu o safbwynt cyfreithiol ac ariannol.

49. Byddwn yn parhau â'n hymdrechion i nodi partner i fwrw ymlaen â'r polisi hwn ac rydym wedi cadw swm bach o gyfalaf yn y gyllideb hon pe bai partner yn cael ei nodi yn ystod y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, mae'r cyfalaf sy'n weddill yn y gyllideb hon wedi cael ei hailddyrannu yn 2024-25 i gefnogi cymaint o'n blaenoriaethau a'n rhanddeiliaid â phosibl drwy'r flwyddyn ariannol nesaf.

50. Gwnaed dyraniad o **£600k** fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2024-25 i Linell Wariant yn y Gyllideb **Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol** a bydd hyn yn helpu i ariannu'r llif presennol o brosiectau sy'n fwy na'r gyllideb a oedd ar gael ynghynt.

51. Rydym wedi dyrannu **£200k** i Linell Wariant yn y Gyllideb **Glasbrintiau Cyfiawnder i Fenywod a Chyfiawnder Ieuenctid** i weithredu ar gynnig i wella cyfleusterau mewn cartref diogel i blant. Bydd hyn yn cynnig mwy o amrywiaeth o weithgareddau i bobl ifanc, gan eu helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol, megis mwy o hunanwerth, ymgysylltu a rhyngweithio cymdeithasol a gwell iechyd a llesiant.

52. Rydym wedi gwneud dyraniadau cyfalaf bach i'r **Comisiynydd Pobl Hŷn** (**£100k)** a'r **Comisiynydd Plant (£20k)** i fodloni eu gofynion cyfalaf yn 2024-25.

53. Dyrannwyd **£250k** i Linell Wariant yn y Gyllideb **Gwasanaethau Tân ac Achub** fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2024-25 i brynu cyfarpar newydd a ddefnyddir wrth ddefnyddio offer pwmpio cyfeintiau mawr mewn llifogydd mawr fel rhan o adnoddau cydnerthedd cenedlaethol. Mae'r cyfarpar newydd yn fwy ecogyfeillgar ac yn cynnig gwerth am arian o ran ei gostau rhedeg.

54. Dyrannwyd **£100k** arall i Linell Wariant yn y Gyllideb **Diogelwch Tân Cymunedol**. Caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio i dalu am gostau cynyddol cyfarpar diogelwch tân yn y cartref.

55. Gwnaed dyraniad o **£300k** i'r Partneriaethau Bwyd Lleol drwy **Linell Wariant yn y Gyllideb Cefnogi Cymunedau** i gynyddu eu hadnoddau. Caiff y cyllid ei ddefnyddio i gefnogi'r broses o gydlynu gweithgarwch bwyd lleol gyda'r nod o ddatblygu cadernid bwyd lleol. Bydd y cyllid yn cefnogi Partneriaethau Bwyd Lleol i ddatblygu a chryfhau eu cysylltiadau â defnyddwyr a darparwyr lleol, drwy ddatblygu a chyflawni prosiectau lleol, gan gynnwys cynhyrchwyr megis ffermwyr a thyfwyr, busnesau lleol a marchnadoedd lleol. Bydd y cyllid yn cefnogi uchelgeisiau a chamau gweithredu ehangach Llywodraeth Cymru i gefnogi cymorth bwyd mewn argyfwng a mynd i'r afael â thlodi bwyd.

56. Dyrannwyd **£50k** i Linell Wariant yn y Gyllideb **Cynhwysiant Digidol** ar gyfer cynllun peilot y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol er mwyn rhoi cymorth ar gyfer sgiliau digidol.

57. Dyrannwyd **£80k** i Linell Wariant yn y Gyllideb **Cynhwysiant Ariannol** i helpu undebau credyd i ddiweddaru eu llwyfan bancio yn ystod 2024-25. Bydd hyn yn darparu mwy o nodweddion a seiberddiogelwch a chymorth ar gyfer llwyfan a rennir ymhlith undebau credyd yng Nghymru.

58. Nodir y newidiadau a wnaed yn erbyn cyllidebau dangosol Cyfalaf 2024-25 yn y tabl isod:

| BEL ref | BEL name | Indicative 2024-25 Position | 2024-25 changes | Revised 2024-25 Position |
|---|---|---|---|---|
| 1086 | Supporting Communities | 1,000 | 300 | **1,300** |
| 541 | VAWDASV | 2,200 | | **2,200** |
| 1008 | Gypsy Traveller Sites | 3,440 | | **3,440** |
| 1372 | Community Facilities Programme | 6,500 | 600 | **7,100** |
| 1265 | Fire & Rescue Services | 1,000 | 250 | **1,250** |
| 1697 | FRS Communication System | 210 | | **210** |
| 1698 | Community Fire Safety | 900 | 100 | **1,000** |
| 1267 | Women's Justice & Youth Justice Blueprints | 0 | 200 | **200** |
| 662 | Older People Commissioner | 0 | 100 | **100** |
| 1694 | Financial Inclusion | 0 | 80 | **80** |
| 1084 | Digital inclusion | 0 | 50 | **50** |
| 480 | Children's Commissioner | 0 | 20 | **20** |
| 1088 | Community Bank | 1,750 | -1,700 | **50** |
| | **TOTAL - General Capital** | **17,000** | **0** | **17,000** |
| 1694 | Financial Inclusion (FT Repayments) | -42 | | **-42** |
| | **TOTAL** | **16,958** | **0** | **16,958** |

## Asesiadau Effaith Integredig Strategol

59. Mae'r Llywodraeth hon yn gwbl ymrwymedig i fodloni'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer yr holl asesiadau effaith, gan gynnwys lle mae'r rhain yn ymwneud ag asesu ein penderfyniadau ariannol.

60. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol a gyhoeddwyd fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2024-25 yn rhoi ystyriaeth briodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

61. Rydym yn dadlau o hyd mai'r dull integredig sy'n sail i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol sy'n ein galluogi i ddeall effeithiau croestoriadol ac anfwriadol penderfyniadau gwario yn well a sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael yr effaith fwyaf bosibl, gan leihau'r effaith anghymesur ar unrhyw grŵp neu faes penodol. Mae risg y bydd ystyried maes effaith ar ei ben ei hun yn arwain at ganlyniadau anfwriadol megis yr effaith negyddol mewn un maes yn cael ei sbarduno gan effaith gadarnhaol mewn maes arall.

62. Mae Cyllideb Ddrafft 2024-25 yn nodi effeithiau ein penderfyniadau gwario, yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn Atodiad A, fel rhan o'r prif naratif ym mhenodau pedwar, gan gynnwys penderfyniadau gwario sy'n effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc.

63. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, sy'n ystyried sut y gall Llywodraeth Cymru adlewyrchu hawliau plant yn well wrth wella prosesau cyllidebol a threth.

64. Rydym wedi bod yn gweithio gyda Plant yng Nghymru, Bwrdd Prosiect Cymru Ifanc a swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru, er mwyn cyd-awduro fersiwn o Gynllun Gwella'r Gyllideb i bobl ifanc, a gaiff ei chyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2024-25. Mae fersiwn wedi'i hanimeiddio hefyd wedi cael ei datblygu i ymgysylltu â phobl ifanc a'u helpu i ddeall sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio a'r hyn y mae Trysorlys Cymru yn ei wneud. Bwriedir lansio'r animeiddiad ym mis Ionawr 2024.

65. Diben yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yw nodi tueddiadau allweddol ac effeithiau strategol a chronnol ar lefel portffolio, mewn nifer o feysydd, gan gynnwys rhoi ystyriaeth briodol i'r gofynion statudol.

66. Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau strategol am y Gyllideb yn lleihau'r effaith anghymesur ar unrhyw grŵp neu faes penodol; yn helpu i nodi cyfleoedd i sicrhau'r effeithiau mwyaf cadarnhaol a lleihau anghydraddoldebau yn ein cymdeithas.

67. Rydym wedi ymgymryd ag amrywiaeth o weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol drwy gydol ein paratoadau. Mae'r rhain yn cynnwys cadw mewn cysylltiad â'n partneriaid cyflawni gan gynnwys CLlLC, drwy ein His-grŵp Cyllid. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â CGGC a'n partneriaid cymdeithasol er mwyn deall y pwysau ar y trydydd sector, sy'n bartneriaid allweddol o ran cyflawni'r polisïau sy'n hollbwysig i Gymru. Fel rhan o baratoadau'r Gyllideb, gwnaethom hefyd gyfarfod â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y Comisiynydd Pobl Hŷn, y Comisiynydd Plant, a dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg.

## Unedau Data Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd

68. Dyrannwyd £1,636k o gyllid ar gyfer 2023-24 i'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hol ac Anabledd. Ar 11 Rhagfyr 2023, roedd £786k o'r gyllideb wedi cael ei wario. Dyrannwyd y swm hwn fel a ganlyn:

| **Cyllideb 2023-24 yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd** | **£k** |
|---|---|
| **Cyfanswm y Gyllideb** | **1,636** |
| Staff | 1,411 |
| Gweithredol | 44 |
| Ymchwil | 181 |

69. Mae'r holl gostau wedi cael eu dyrannu'n llawn ar gyfer 2023-24 am fod yr holl staff yn eu lle a bod ymchwil wedi cael ei chomisiynu. Mae'r costau ymchwil yn

ymwneud â'r prosiectau canlynol a fydd hefyd yn ymestyn i gyllideb ymchwil 2024-25:

- Ymchwil i ddulliau o hyrwyddo Arolwg Cenedlaethol Cymru i ystyried opsiynau i roi tystiolaeth fanwl ar gyfer penderfyniadau polisi yn ôl nodweddion cydraddoldeb;
- Profion gwybyddol ar gyfer cwestiynau ynglŷn â rhyw a rhywedd yng Nghymru yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru;
- Asesu sut y gellir gwerthuso'r Cynllun Gweithredu LHDTC+;
- Ymchwil i'r ffordd y gellir mesur y model cymdeithasol o anabledd

70. Mae'r cyllid y disgwylir iddo gael ei ddyrannu ar gyfer 2024-25 fel a ganlyn

| **Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd Cyllideb DDANGOSOL 2024-25** | **£k** |
|---|---|
| **Cyfanswm y Gyllideb** | **1,636** |
| Staff | 1,400 |
| Gweithredol | 20 |
| Ymchwil | 216 |

71. Comisiynwyd yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd gan Drysorlys Cymru i baratoi crynodeb macro o'r dystiolaeth ar gydraddoldeb i nodi ar bwy y byddai toriadau cyllidebol yn cael yr effaith fwyaf er mwyn llywio penderfyniadau'r Cabinet. Roedd hyn yn golygu canfod lle roedd gan bobl a oedd y perthyn i grwpiau cydraddoldeb/y rhai â nodweddion gwarchodedig nodweddion croestoriadol lluosog a oedd yn golygu y byddent yn fwy agored i effeithiau negyddol o ganlyniad i doriadau i wasanaethau penodol o'u cymharu â phobl heb nodweddion cydraddoldeb croestoriadol lluosog. Dangosir y dystiolaeth hon yng Nghyd-destun Strategol yr Asesiad Effaith Integredig Strategol o Gyllideb Ddrafft 2024-25.

72. Mae ein hadroddiad data o'r Cyfrifiad ar ethnigrwydd ac is-adroddiad ethnigrwydd adroddiad Llesiant Cymru wedi rhoi gwybodaeth ychwanegol i feysydd polisi asesu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb. Mae pob un o'n prosiectau ymchwil yn anelu at wneud newidiadau sylfaenol a hirdymor i argaeledd, manylder a hygyrchedd gwybodaeth am gydraddoldebau a fydd yn cynyddu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau polisi yn y dyfodol ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus.

## Chwyddiant a chostau byw

73. Rydym wedi ail-lunio'r dyraniadau o wariant dangosol yn ein cyllideb i roi cyllid ychwanegol i'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl a chymunedau ledled Cymru a'u diogelu, sef y GIG a setliad llywodraeth leol craidd, sy'n ariannu ysgolion,

gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol a gwasanaethau pob dydd eraill. Rydym wedi gwneud hynny yn unol â'n hegwyddorion i wneud y canlynol:

- Diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen craidd hyd y gellir.
- Sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd yr effeithir arnynt fwyaf.
- Blaenoriaethu swyddi, lle y bo modd.
- Gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus i wynebu'r storm ariannol hon gyda'n gilydd.
- Newid ffocws cyllid i ffwrdd oddi wrth feysydd nas datganolwyd, y dylai Llywodraeth y DU eu cyllido.

74. Yn y cyd-destun hwn, mae cefnogi aelwydydd sy'n wynebu pwysau costau byw yn dal yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru.

75. Er enghraifft, rydym yn gweithredu i ddiogelu setliad craidd llywodraeth leol drwy barhau â'r cynnydd arfaethedig o 3.1% rhwng 2023-24 a 2024-25. Mae awdurdodau lleol yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus, yn aml i'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas a phobl sydd o dan anfantais economaidd. Drwy gymryd y cam hwn rydym yn anelu at ddiogelu, hyd y gellir, gyllid craidd i ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, casglu gwastraff a gwasanaethau hamdden lleol.

76. Fel enghraifft arall o fewn Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol rydym wedi dyrannu £38.5m ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol i roi cymorth brys i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Rydym hefyd wedi diogelu gweithgareddau allweddol mewn cyllidebau eraill, gan gynnwys cymorth bwyd mewn argyfwng a rhywfaint o gyllid ar gyfer cymorth tanwydd brys drwy'r Sefydliad Banc Tanwydd yng nghyllideb Cefnogi Cymunedau. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i roi rhywfaint o gymorth brys i'r rhai nad ydynt yn gallu rhoi arian yn eu mesuryddion trydan rhagdalu y flwyddyn nesaf ac i helpu i swmpbrynu tanwyddau i'r rhai nad ydynt ar y grid nwy ac na allant fforddio talu am danwydd. Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith pwysig i roi'r Strategaeth Tlodi Plant ar waith.

77. Gwnaeth Grŵp Arbenigol Cymru ar yr Argyfwng Costau Byw 29 o argymhellion gwahanol i gyd yn ei adroddiad. Nodwyd y rhain o dan argymhellion ar gyfer y byrdymor (mis Medi 23 i fis Mawrth 24), y tymor canolig (mis Ebrill 24 i fis Ebrill 26) a'r hirdymor (mis Mai 2026 ymlaen).

78. Cyhoeddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip adroddiad y Grŵp Arbenigol a'i argymhellion ym mis Medi 2023 yn dilyn Datganiad Llafur yn y Senedd. Ar y pryd, nododd y Gweinidog fod llawer o argymhellion yn yr adroddiad y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithredu arnynt neu y bydd yn gallu bwrw ymlaen â nhw yn gyflym. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu sy'n ymwneud â'r argymhellion byrdymor ynglŷn â helpu pobl i wneud y gorau o'u hincwm, lleihau cost y diwrnod ysgol ac effeithlonrwydd ynni a fforddiadwyedd.

79. Ar gyfer y gyllideb ddrafft hon, y prif argymhellion perthnasol gan y Grŵp Arbenigol oedd yr argymhellion hynny ar gyfer y tymor canolig (mis Ebrill 24 i fis Ebrill 26). Ceir nifer o argymhellion sy'n ymwneud â'r ffordd rydym yn hyrwyddo, yn cysoni ac yn gwerthuso gweithgarwch a fydd yn parhau i ddylanwadu ar y ffordd rydym yn darparu ein rhaglenni o dan gyllideb 2024-25. Mae rhai argymhellion, er enghraifft y gwaith ar Siarter Budd-daliadau Cymru a'r Strategaeth Tlodi Plant ar ei newydd wedd, y gallwn fwrw ymlaen â nhw, ac a fydd yn helpu i lywio'r ffordd rydym yn cysoni ein rhaglenni ym mhob rhan o'r llywodraeth a manteisio i'r eithaf ar ein camau gwrth-dlodi unigol.

80. Fodd bynnag, mae nifer o argymhellion na fu modd inni weithredu arnynt yn y ffordd y byddem yn dymuno ei wneud oherwydd y pwysau cyllidebol presennol, a dim ond os bydd cyllid ychwanegol sylweddol ar gael y cânt eu gwireddu. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried y cyfleoedd hyn os bydd y sefyllfa gyllido yn newid.

81. Mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo i gyhoeddi ymateb i adroddiad ac argymhellion y Grŵp Arbenigol.

82. Mae adroddiadau rheoli perfformiad y Gronfa Gynghori Sengl yn dangos bod y galw am wasanaethau cynghori ar ddyled a gwneud y gorau o incwm ar ei lefel uchaf erioed, a rhagwelir y bydd y galw yn parhau i gynyddu yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r penderfyniad i ddiogelu cyllideb y Gronfa Gynghori Sengl yn 2024-25 yn golygu y bydd pobl o grwpiau o dan anfantais neu wedi'u hymyleiddio yn parhau i gael mynediad at y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i wneud y gorau o'u hincwm a rheoli eu dyledion.

83. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol ar gyfer 2023-24 yn dangos bod gwariant yn hynod agos i'r uchafswm cyllideb sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn, gyda phryderon y bydd y galw yn cynyddu yn ystod y gaeaf. Rhagwelir y byddai'r lefel hon o alw yn parhau yn 2024-25 o ystyried y pwysau costau byw parhaus a diffyg cynlluniau cymorth amgen. Ar y sail hon, mae'r dyraniad cyllidebol ar gyfer Cynhwysiant Ariannol wedi cael ei ddiogelu'n llawn – er mwyn cydnabod bod y gronfa yn cynorthwyo'r rhai sydd o dan yr anfantais fwyaf neu sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf a/neu sy'n fwyaf agored i niwed.

84. Cytunodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i wneud newidiadau i'r elfen Taliad Cymorth i Unigolion o'r Gronfa Cymorth Dewisol yn ddiweddar er mwyn lliniaru'r pwysau ar y gyllideb a sicrhau ein bod yn rhoi cymaint o gymorth â phosibl i gynifer o bobl â phosibl o fewn y gyllideb sydd ar gael.

85. O ran gwneud penderfyniadau i ailflaenoriaethu cyllid i ddiogelu aelwydydd sy'n agored i niwed. Ym Mhrif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol rydym wedi cymryd camau i roi cynnydd o £3.5m yng nghyllid ein Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i roi'r taliad incwm sylfaenol heb leihau'r swm sy'n cael ei dalu nac am faint y caiff ei dalu. Bydd yn hyn yn parhau i

roi cymorth i fwy na 600 o bobl ifanc sy'n gadael gofal sydd wedi ymuno yn y cynllun peilot.

86. Rydym hefyd wedi diogelu gweithgareddau allweddol mewn cyllidebau eraill, gan gynnwys cymorth bwyd mewn argyfwng a rhywfaint o gyllid ar gyfer cymorth tanwydd brys drwy'r Sefydliad Banc Tanwydd yng nghyllideb Cefnogi Cymunedau. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i roi rhywfaint o gymorth brys i'r rhai nad ydynt yn gallu rhoi arian yn eu mesuryddion trydan rhagdalu y flwyddyn nesaf ac i helpu i swmpbrynu tanwyddau i'r rhai nad ydynt ar y grid nwy ac na allant fforddio talu am danwydd. Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith pwysig i roi'r Strategaeth Tlodi Plant ar waith.

87. Ym mhortffolio Cyfiawnder Cymdeithasol, rydym yn diogelu meysydd allweddol o gymorth ac yn parhau â'r cymorth mewn argyfwng i bobl yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng costau byw sy'n mynd rhagddo. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni hyn bu'n rhaid inni newid ffocws oddi wrth weithgareddau lle mae Llywodraeth Cymru wedi camu i mewn i ariannu meysydd polisi nas datganolwyd i wneud iawn am ddiffygion Llywodraeth y DU.

88. Yng nghyllidebau ehangach Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau nad oes neb yn cael ei anghofio rydym hefyd wedi diogelu cynnydd yn y gyllideb ar gyfer Atal Digartrefedd. Mae'r cynnydd o £2m yn cael ei ostwng o'r cynnydd blaenorol o £5m yn y dyraniadau dangosol, sy'n adlewyrchu'r cylch pennu cyllideb heriol iawn y flwyddyn hon.

89. Comisiynwyd yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd gan Drysorlys Cymru i baratoi crynodeb macro o'r dystiolaeth ar gydraddoldeb i nodi ar bwy y byddai toriadau cyllidebol yn cael yr effaith fwyaf er mwyn llywio penderfyniadau'r Cabinet.

90. Roedd hyn yn golygu canfod lle roedd gan bobl a oedd y perthyn i grwpiau cydraddoldeb/y rhai â nodweddion gwarchodedig nodweddion croestoriadol lluosog a oedd yn golygu y byddent yn fwy agored i effeithiau negyddol o ganlyniad i doriadau i wasanaethau penodol o'u cymharu â phobl heb nodweddion cydraddoldeb croestoriadol lluosog. Dangosir y dystiolaeth hon yng Nghyd-destun Strategol yr Asesiad Effaith Integredig Strategol o Gyllideb Ddrafft 2024-25.

91. Mae ein hadroddiad data o'r Cyfrifiad ar ethnigrwydd ac is-adroddiad ethnigrwydd adroddiad Llesiant Cymru wedi rhoi gwybodaeth ychwanegol i feysydd polisi asesu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb. Mae pob un o'n prosiectau ymchwil yn anelu at wneud newidiadau sylfaenol a hirdymor i argaeledd, manylder a hygyrchedd gwybodaeth am gydraddoldebau a fydd yn cynyddu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau polisi yn y dyfodol ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus.

92. Mae gofal plant yn rhan o bortffolio'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a chaiff buddsoddiad ei ariannu drwy Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

93. Mae gofal plant yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ac rydym yn buddsoddi'n fawr i sicrhau y gall teuluoedd gael fanteisio ar y gofal plant a'r cyfleoedd chwarae sydd eu hangen arnynt. Drwy Gynnig Gofal Plant Cymru a'r rhaglen Dechrau'n Deg rydym eisoes wedi buddsoddi mwy na £90m y flwyddyn mewn gofal plant yng Nghymru ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar i holl blant dwy flwydd oed yng Nghymru.

94. Yn 2024-25, mae **£82.378m** wedi cael ei ddyrannu i linell yn y gyllideb Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae (BEL0310). Mae'r llinell hon yn y gyllideb yn cwmpasu amrywiaeth eang o weithgareddau i helpu plant a theuluoedd i fanteisio ar ofal plant a chyfleoedd chwarae, yn ogystal â gweithgareddau sy'n cefnogi datblygiad plant yn fwy cyffredinol, ac yn cefnogi'r staff a'r lleoliadau sy'n eu cefnogi.

95. Rhaglen seiliedig ar alw yw Cynnig Gofal Plant Cymru (y Cynnig) sy'n darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth am hyd at 48 wythnos y flwyddyn i rieni cymwys mewn addysg/hyfforddiant a rhieni plant tair a phedair oed sy'n gweithio. Mae cyllideb o £76.2m wedi cael ei ddyrannu ar gyfer y Cynnig sy'n cynnwys: taliadau i ddarparwyr gofal plant; cyllid i gefnogi'r Grant Cymorth Ychwanegol i helpu plant cymwys ag anghenion ychwanegol i gael yr elfen o'r Cynnig sy'n ymwneud â gofal plant; parhau i greu'r llwyfan digidol i helpu rhieni i gael gafael ar y cyllid hwn yn ddi-dor; a gweithgarwch cyfathrebu er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'r cyllid y gallant ei hawlio.

96. Fel rhan o'n Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, rydym wedi ymrwymo i ehangu darpariaeth blynyddoedd cynnar i holl blant dwy flwydd oed yng Nghymru drwy ein rhaglen Dechrau'n Deg. Dechreuodd y cam presennol o'r rhaglen ehangu ym mis Ebrill 2023 ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar ehangu gofal plant Dechrau'n Deg i fwy o blant dwy flwydd oed.

97. Yn 2024-25, byddwn yn buddsoddi £24.3m i helpu mwy na 5,200 o blant ychwanegol i gael gofal plant o ansawdd uchel o dan Dechrau'n Deg er mwyn cefnogi effeithiau cadarnhaol hirdymor ar fywydau'r plant hynny a'u teuluoedd ledled Cymru sy'n wynebu'r heriau mwyaf. Drwy ganolbwyntio ein hadnoddau ar ein cymunedau sydd o dan yr anfantais fwyaf yn y lle cyntaf mae hyn yn sicrhau bod cymorth yn cyrraedd teuluoedd yn yr angen mwyaf ar y cyfle cynharaf oll.

98. Mae cyllideb graidd Dechrau'n Deg yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau. Mae'r Grant Plant a Chymunedau yn ymdrin ag anghenion y plant, y bobl ifanc a'r oedolion sydd o dan yr anfantais fwyaf a/neu sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas drwy nifer o ddulliau ymyrryd yn gynnar, atal a chefnogi. Nod y rhaglenni o fewn y grant hwn yw lliniaru neu ddileu anfantais i bobl o dan anfantais a/neu sy'n agored i niwed er mwyn eu galluogi i gael yr un cyfleoedd mewn bywyd ag eraill a chyfrannu tuag at Gymru sy'n fwy cyfartal. Y gyllideb ar

gyfer y Grant Plant a Chymunedau yn 2024-25 yw £174.583m. O'r swm hwn, mae £142.028m ar gyfer Cyllid Hyblyg sy'n cwmpasu wyth rhaglen, gan gynnwys rhaglen graidd Dechrau'n Deg.

99. Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn ariannu nifer mawr o raglenni eraill sy'n cefnogi'r sector a'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn fwy cyffredinol, yn ogystal â rhaglenni sy'n cefnogi datblygiad plant, er enghraifft, y rhaglen Hyfforddiant a Chymorth i'r sector, y rhaglen Siarad gyda fi a chyllid ar gyfer Cwlwm, Chwarae Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, y maent oll yn cynnig cyngor a chymorth i'r sector. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sector yn fwy cyffredinol er enghraifft drwy ryddhad ardrethi busnes.

## Tlodi tanwydd

100. Rhwng 2010 a diwedd mis Mawrth 2023, mae £450m wedi'i fuddsoddi er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi drwy Raglen Cartrefi Clyd, i fwy na 77,000 o aelwydydd incwm isel.Mae mwy na 198,000 o bobl wedi cael cyngor effeithlonrwydd ynni drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd ers ei lansio yn 2011.

101. Yn ystod 2022-23, gwnaeth cynllun Nyth Cartrefi Clyd roi cyngor diduedd am ddim i 21,959 o aelwydydd a'u cyfeirio at amrywiaeth o wasanaethau cymorth. Cafodd 4,364 o aelwydydd cymwys becyn gwella effeithlonrwydd ynni, megis system gwres canolog, boeler, inswleiddio, panel solar ffotofoltäig neu bwmp gwres o'r awyr. Amcangyfrifir bod y gwelliannau hyn wedi arbed £422 i aelwydydd ar eu biliau ynni blynyddol. Arweiniodd gwiriadau hawl i fudd-daliadau at gynyddu'r budd-daliadau a allai gael eu hawlio gan aelwydydd unigol £2,457 ar gyfartaledd, gan gynyddu'r budd-daliadau a hawliwyd bron £985m y llynedd.

102. Cyllidir y Rhaglen Cartrefi Clyd o Brif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd a chyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ddatganiad polisi ar y Rhaglen Cartrefi Clyd newydd ar ôl ymgynghoriad ac adolygiad o'r cynlluniau cyfredol a blaenorol. Bydd y cynllun yn y dyfodol, a fydd yn gwbl weithredol erbyn 1 Ebrill 2024 yn ôl yr amcan, yn mynd i heriau deuol newid yn yr hinsawdd a thlodi tanwydd.

103. Rydym hefyd yn darparu cyfanswm o £352,000 o gyllid, ochr yn ochr â chyngor technegol, i awdurdodau lleol ledled Cymru i sicrhau mwy o gyllid o gynlluniau ar gyfer y DU gyfan, megis ECO Flex a'r Great British Insulation Scheme.

104. Drwy Brif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol, rydym yn parhau i weithio gyda'r Sefydliad Banc Tanwydd er mwyn cefnogi aelwydydd â mesuryddion rhagdalu sy'n ei chael hi'n anodd fforddio gwneud taliadau ychwanegol am eu hynni a helpu'r rhai sydd oddi ar y grid i swmp-brynu tanwydd megis olew ac LPG i wresogi eu cartrefi. Caiff cymorth ei roi o gyllideb Cefnogi Cymunedau lle mae swm dangosol o £500,000 o'r gyllideb o £2.664m a ddyrannwyd, ond gall hyn amrywio yn dibynnu ar y galw.

## Tlodi plant

105. Pan ddatblygwyd ein cyllideb ar gyfer 2024-25 gennym, gwnaethom hynny yn unol â'n hegwyddorion craidd i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen ac rydym yn parhau i roi cymorth wedi'i dargedu i'r rhai â'r angen mwyaf.

106. Mae chwyddiant cyson uwch, nad yw wedi cael ei gydnabod yn ein setliad cyllido, yn golygu ein bod yn wynebu'r sefyllfa ariannol anoddaf ers datganoli. Bydd rhai o'r penderfyniadau anodd iawn y bu'n rhaid inni eu gwneud yn 2023-24 yn cael effeithiau yn 2024-25 ac maent wedi cael eu hadlewyrchu yn y Gyllideb ddrafft.

107. Er mwyn lleihau'r effaith ar wasanaethau, rydym wedi gwneud penderfyniadau i leihau gwariant drwy ailflaenoriaethu neu ohirio gweithgarwch, yn hytrach na thorri neu derfynu rhaglenni. Mae hyn yn golygu y bydd llawer o'r rhaglenni hynny y nodwyd gennym yn y Strategaeth Tlodi Plant eu bod yn rhan annatod o'r broses o gyflawni ein hamcanion yn parhau i wneud gwahaniaeth dros blant mewn tlodi, ond ar raddfa lai na'r hyn y byddem wedi ei ddymuno.

108. Rydym wedi ail-lunio'r dyraniadau o wariant dangosol yn ein cyllideb i roi cyllid ychwanegol i'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl a chymunedau ledled Cymru a'u diogelu, sef y GIG a setliad llywodraeth leol craidd, sy'n ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol a gwasanaethau pob dydd eraill sy'n cael effaith uniongyrchol ar blant.

109. Rydym wedi gweithredu yn y ffordd hon er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i osod ffocws cyllid lle y gall gael yr effeithiau mwyaf cadarnhaol o dan yr amgylchiadau a chymryd camau i sicrhau ein bod yn lliniaru effeithiau uniongyrchol i bobl a lleoedd, hyd y gellir.Mae mwy o wariant mewn rhai meysydd yn golygu bod llai i'w wario mewn meysydd eraill. Pan fo angen gwneud penderfyniadau anodd, rydym wedi ceisio nodi'r meysydd hynny lle mae'r effeithiau cymharol yn llai na'r dewisiadau amgen ac rydym wedi ceisio cymryd camau i liniaru effeithiau hyd y gellir.

110. Er enghraifft, rydym yn gweithredu i ddiogelu setliad craidd llywodraeth leol drwy barhau â'r cynnydd arfaethedig o 3.1% rhwng 2023-24 a 2024-25. Mae awdurdodau lleol yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus, yn aml i'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas a phobl sydd o dan anfantais economaidd. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau arwyddocaol i blant, drwy addysg.

111. Drwy ddiogelu setliad craidd llywodraeth leol yn y fath fodd rydym hefyd wedi diogelu cyllid ysgolion, hyd y gellir. Fodd bynnag, o ystyried maint y pwysau a wynebwn, ni fu modd osgoi'r holl effeithiau ar blant na phobl ifanc. Rydym wedi gweithredu i leihau'r effeithiau hyn i'r eithaf hyd y gellir o fewn y cyllid sydd ar gael.

112. Mae Cyllideb Ddrafft 2024-25 yn nodi effeithiau ein penderfyniadau gwario, yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn Atodiad A, fel rhan o'r prif naratif ym mhenodau pedwar, gan gynnwys penderfyniadau gwario sy'n effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc.

## Gwariant ataliol

113. Wrth inni ail-lunio ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2024-25, rydym hefyd wedi cael ein llywio gan yr egwyddorion a ymgorfforwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn dal yn ymrwymedig i barchu'r egwyddorion hyn wrth inni weithredu a myfyrio ac addasu lle y bo angen. Yn y cyd-destun hwn:

- **Hirdymor –** Bu angen inni weithredu yn y byrdymor i ddiogelu'r gwasanaethau craidd y mae pobl yn dibynnu arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn y dyfodol.
- **Atal –** O dan y setliad heriol tu hwnt rydym wedi gorfod gweithredu i atal yr effeithiau gwaethaf ar wasanaethau craidd. Er na fu modd osgoi'r holl effeithiau negyddol, rydym wedi sicrhau hyd y gellir ein bod yn lliniaru effeithiau uniongyrchol ar bobl a lleoedd.
- **Integreiddio –** rydym wedi parhau i fynd ati i ddeall effeithiau integredig y dewisiadau rydym yn eu gwneud. Wrth neilltuo ein cyllid cyfyngedig, rydym wedi ystyried ble y gellir dyrannu cyllid i gyflawni'r effaith orau bosibl a gwrthbwyso hynny â'r effeithiau negyddol sy'n codi oherwydd yr angen i leihau cyllid mewn meysydd eraill.
- **Cydweithio –** Wrth inni symud y tu hwnt i'r gyllideb hon byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ehangach i gyflawni ein cynlluniau a'u helpu i ateb yr heriau a achosir gan y cyd-destun cyllidol hwn.
- **Cynnwys –** Drwy gydol y broses gyllidebol hon, rydym wedi ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol, gan gynnwys y trydydd sector, awdurdodau lleol, a Chomisiynwyr Statudol i ddeall effeithiau'r cyd-destun presennol i lunio ein cynlluniau gwariant.

114. Ceir 50 o ddangosyddion llesiant cenedlaethol i Gymru sydd â'r nod o fesur cynydd Cymru tuag at y saith nod llesiant. Bob blwyddyn, mae'r Prif Ystadegydd yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad Llesiant Cymru blynyddol sy'n rhoi asesiad o'r cynnydd tuag at y nodau llesiant sy'n seiliedig ar y dangosyddion cenedlaethol.

## Trais ar sail rhywedd

115. Ceir cyllideb o £8.005m ar gyfer VAWDASV nad yw wedi newid ers y gyllideb ddangosol a gyhoeddwyd yn flaenorol. Wrth gwrs, mae llawer o raglenni a

chyllidebau eraill sy'n cyfrannu at amcanion ein Strategaeth Genedlaethol, megis gwaith cydberthnasoedd iach mewn addysg, cyllid ar gyfer ffoaduriaid a chymorth arall o ran tai â chymorth drwy'r Grant Tai â Chymorth, sydd y tu allan i Brif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol.

116. O dan broses yr Asesiad Effaith Integredig Strategol asesir effeithiau mewn ffordd integredig er mwyn inni gael deall effaith penderfyniadau gwario yn well. Wrth ymgorffori egwyddorion ymatebol i rywedd mae hyn yn cynnwys ceisio deall effeithiau croestoriadol ac anfwriadol gwariant yn well er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

117. Er enghraifft, rydym wedi diogelu cyllid o £8m ar gyfer cyllideb Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) oherwydd y galw o hyd yn erbyn y gyllideb hon ac o ystyried pwysigrwydd diogelu'r rhai sy'n wynebu VAWDASV rhag niweidiau corfforol, emosiynol a meddyliol yn ogystal â newid agweddau a diwylliant.

118. Fel rhan o'n Cynllun Gwella'r Gyllideb, gan weithio gydag amrywiaeth o gydweithwyr mewnol ac allanol, rydym wedi parhau i feithrin gwell dealltwriaeth o gyllidebu ym maes rhywedd yn Llywodraeth Cymru. Mae'r cynlluniau peilot cyllidebu ym maes rhywedd a gynhaliwyd yn 2022-23 wedi ein helpu i ddeall sut y gellir ymgorffori'r gwaith hwn ymhellach ac ehangu arno. Rydym wrthi'n ystyried y camau nesaf i ymgorffori'r dulliau gweithredu hyn ymhellach yn ein prosesau cyllidebol a threth.

119. Caiff cyllid VAWDASV craidd Llywodraeth Cymru ei ddosbarthu rhwng nifer o raglenni a phrosiectau y mae gan bob un ohonynt eu helfennau i'w cyflawni a'u targedau. Yn gyffredinol, caiff y cyllid ei ddyrannu i gyflawni ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer 2022/2026. Amcanion y strategaeth yw:

- Herio agwedd y cyhoedd tuag at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ymhlith poblogaeth Cymru.
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd cydberthnasoedd diogel, cyfartal ac iach.
- Dwyn y rhai sy'n cam-drin eraill i gyfrif a chefnogi'r rhai a all ymddwyn mewn ffordd gamdriniol neu dreisgar i newid eu hymddygiad.
- Gwneud ymyrryd yn gynnar ac atal yn flaenoriaeth.
- Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol.
- Rhoi'r un mynediad i bob dioddefwr at wasanaethau croestoriadol ac ymatebol o ansawdd uchel, a arweinir gan anghenion, sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n cael adnoddau priodol ledled Cymru.

120. Rydym yn gweithio drwy Bartneriaethau VAWDASV Cenedlaethol i gyflawni'r amcanion hyn a bydd cyllideb VAWDASV yn cyfrannu ochr yn ochr â'r partneriaid hynny er mwyn cyflawni'r amcanion hyn.

121. Nid oes unrhyw gyllidebau wedi'u clustnodi'n benodol o fewn y gyllideb gyffredinol ar gyfer gwasanaethau cymorth i oroeswyr megis llochesi, llinellau cymorth a chwnsela. Fodd bynnag, rhoddir dyfarniadau ariannol penodol i

bartneriaid cyflawni sy'n ariannu llochesi, llinellau cymorth a gwasanaethau cymorth eraill. Gwneir rhai o'r dyfarniadau hyn gan bartneriaethau rhanbarthol y dyfernir cyllideb iddynt wneud hyn o Linell Wariant yn y Gyllideb gyffredinol ar gyfer VAWDASV a chaiff rhai eu cyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae pob un o ddyfarniadau Llywodraeth Cymru yn aros yn ddigyfnewid, a hefyd y dyraniadau rhanbarthol.

122. Mae'r Strategaeth Genedlaethol wedi'i hadeiladu ar ddull gweithredu iechyd y cyhoedd sy'n gofyn am newidiadau i agweddau cymdeithas at drais yn erbyn menywod a merched. Mae gwerthuso'r graddau y mae agweddau wedi newid yn dasg gymhleth a heriol. Fodd bynnag, rydym yn gwerthuso effaith a chyrhaeddiad ymgyrchoedd penodol. Mae'r ymgyrch Iawn yn mynd i'r afael ag agweddau rhywiaethol ymhlith dynion ifanc a bechgyn. Mae wedi cyflawni lefelau sylweddol o ymgysylltu ymhlith y cyhoedd. Mae dros 11 miliwn o bobl wedi gweld y fideo'n fyd-eang, gyda thua 345,000 ohonynt yn ddynion 18-34 oed yng Nghymru, sef y gynulleidfa darged. Mae'r ymgyrch hefyd wedi llwyddo i recriwtio llysgenhadon o fyd chwaraeon megis tri chwaraewr presennol dros dîm pêl-droed rhyngwladol dynion Cymru. Er nad oes modd inni werthuso na phriodoli newid, mae rhesymau dros gredu bod lefel ymgysylltu o'r fath yn llwyddiant.

123. Mae asesiadau o effaith yn cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig. Cydnabyddir rhywedd fel un o'r nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Cynhelir asesiadau o effaith pob penderfyniad cyllidebol ac felly caiff pob penderfyniad ei asesu o safbwynt effaith ar rywedd fel mater o drefn. Mae hyn yn cynnwys yr asesiad o effaith a gynhaliwyd fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth Genedlaethol.

124. O dan broses yr Asesiad Effaith Integredig Strategol asesir effeithiau mewn ffordd integredig er mwyn inni gael deall effaith penderfyniadau gwario yn well. Wrth ymgorffori egwyddorion ymatebol i rywedd mae hyn yn cynnwys ceisio deall effeithiau croestoriadol ac anfwriadol gwariant yn well er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

125. Er enghraifft, rydym wedi diogelu cyllid o £8m ar gyfer cyllideb Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) oherwydd y galw o hyd yn erbyn y gyllideb hon ac o ystyried pwysigrwydd diogelu'r rhai sy'n wynebu VAWDASV rhag niweidiau corfforol, emosiynol a meddyliol yn ogystal â newid agweddau a diwylliant.

126. Fel rhan o'n Cynllun Gwella'r Gyllideb, gan weithio gydag amrywiaeth o gydweithwyr mewnol ac allanol, rydym wedi parhau i feithrin gwell dealltwriaeth o gyllidebu ym maes rhywedd yn Llywodraeth Cymru. Mae'r cynlluniau peilot cyllidebu ym maes rhywedd a gynhaliwyd yn 2022-23 wedi ein helpu i ddeall sut y gellir ymgorffori'r gwaith hwn ymhellach ac ehangu arno. Rydym wrthi'n ystyried y camau nesaf i ymgorffori'r dulliau gweithredu hyn ymhellach yn ein prosesau cyllidebol a threth.

## Y sector gwirfoddol

127. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gyllido Cefnogi Trydydd Sector Cymru, sy'n cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol, er mwyn cefnogi'r trydydd sector ehangach ledled Cymru, sef mwy na 40,000 o sefydliadau o bob maint sy'n rhychwantu holl fywyd cymdeithasol ac economaidd Cymru.

128. Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn rhoi cymorth amrywiol ei gwmpas ar gyfer yr heriau a wynebir gan y sector, gan gynnwys cyngor ar faterion cyllido, llywodraethu, staffio a chyfreithiol. Mae cyllid craidd Cefnogi Trydydd Sector Cymru wedi parhau yng nghyllideb 2024-25.

129. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd ag unrhyw ymchwil ddiweddar i'r gwerth am arian a gynigir gan y trydydd sector, ond mae'n ymwybodol o drafodaethau sy'n mynd rhagddynt ar lefel y DU rhwng y sector gwirfoddol a Llywodraeth y DU gyda'r nod o baratoi is-gyfrif ar gyfer y trydydd sector.

130. Yn 2022, paratowyd adroddiad gan Danny Kruger, yr Aelod Seneddol Ceidwadol dros Devizes, a gomisiynwyd gan Brif Weinidog y DU ar y pryd, Theresa May, gyda'r nod o gryfhau gallu cymdeithas sifil. Un o'r argymhellion oedd y dylai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) baratoi set o is-gyfrifon ar gyfer y trydydd sector/y sector gwirfoddol. Mae'r adroddiad yn amlinellu diffygion yn y data sydd ar gael ynglŷn â chwmpas ac effaith y sector yn gyffredinol.

131. Mae tystiolaeth o sefydliadau fel Sefydliad Banc Lloyds (Value of Small Study) yn tynnu sylw at y gwasanaethau unigryw y mae sefydliadau bach a chanolog lleol yn y trydydd sector/sector gwirfoddol yn eu darparu ar gyfer eu cymunedau. Mae hyn o ganlyniad i ddeall anghenion defnyddwyr gwasanaethau yn well, a'r ffaith eu bod yn fwy hyblyg a'r statws sy'n eu gwneud yn fwy atyniadol i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n agored i niwed.

| CYFIAWNDER CYMDEITHASOL | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ADNODDAU | | | | | | |
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2023-24 | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 | Cynlluniau Dangosol 2024-25 | Newidiadau | Cyllideb Ddrafft 2024-25 | Esboniad o'r newidiadau rhwng Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 a Chyllideb Ddrafft 24-25 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | |
| Incwm Sylfaenol | 12,200 | 12,200 | 7,200 | 3,500 | 10,700 | Mae swm ychwanegol o £3.5m wedi cael ei ddyrannu i Linell Wariant yn y Gyllideb Incwm Sylfaenol fel rhan o Gyllideb Ddrafft 24-25 am fod mwy o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn y cynllun peilot na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. |
| Cynhwysiant Ariannol | 39,002 | 39,002 | 39,002 | 0 | 39,002 | Dim newid i Gyllideb Ddrafft 24-25 |
| Cynhwysiant Digidol | 1,250 | 2,250 | 1,250 | -500 | 750 | Roedd Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 yn cynnwys cyllideb o £1m a drosglwyddwyd i mewn o Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i estyn y rhaglen cynhwysiant digidol ac iechyd a gaffaelwyd. Cyllideb Ddrafft 2024-25 yn gostwng £500k ers y cynlluniau dangosol. Rydym yn parhau i gydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael ag anghydraddoldebau digidol ac felly wedi diogelu'r gyllideb hyd y gellir. |
| Cynhwysiant Digidol - Heb fod yn arian parod | 149 | 149 | 149 | 0 | 149 | Dim newid i Gyllideb Ddrafft 24-25 |
| Cefnogi Cymunedau | 1,164 | 1,660 | 4,164 | -1,500 | 2,664 | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 yn trosglwyddo cyllideb o £0.496m i mewn o Brif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol ar gyfer Llwyfan Digidol Wcráin.Bydd Cyllideb Ddangosol 2024-25 yn cynyddu £3m.Cyllideb Ddrafft 2024-25 yn gostwng £1.5m o'i chymharu â'r gyllideb ddangosol. Bydd y gyllideb ddiwygiedig hon yn golygu o hyd ein bod yn gallu parhau i gefnogi bwyd mewn argyfwng (£1m) yn ogystal â chyllid ar gyfer cymorth tanwydd brys (£0.5m) drwy'r Sefydliad Banc Tanwydd; ond ar raddfa ostyngol. Bydd hefyd yn ein galluogi i roi'r Strategaeth Tlodi Plant ar waith - cefnogi cydweithio a gweithgarwch cydgysylltu |
| Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol * | 1,275 | 1,375 | 1,275 | -225 | 1,050 | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 yn trosglwyddo cyllideb o £0.1m o Brif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar gyfer rhaglen Cymru yn Affrica - prosiect Plannu Coed Mbale Mae Cyllideb Ddrafft 2024-25 wedi gostwng £225k. Bydd hyn yn effeithio ar ein buddsoddiad mewn grantiau bach a Hwb Cymru Affrica. Fodd bynnag, bydd y Llinell Wariant yn y Gyllideb yn gallu parhau i redeg y cynllun Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol o hyd. |
| Partneriaethau Cymdeithasol | 961 | 961 | 961 | -161 | 800 | Bydd Cyllideb Ddrafft 24-25 yn gostwng £161k o gymharu â'n cyllideb ddangosol ar gyfer 24-25, ond ni fydd hyn yn effeithio ar weithredu'r Ddeddf. Gellir gwneud yr arbedion o gyllidebau heb eu dyrannu ar hyn o bryd ac felly effaith fach iawn y byddant yn ei chael ar yr hyn a gaiff ei gyflawni erbyn mis Mawrth 2025. |
| **Cam gweithredu: Cyfanswm Cefnogi Cymunedau** | **56,001** | **57,597** | **54,001** | **1,114** | **55,115** | |
| Gwasanaethau Tân ac Achub | 2,533 | 2,533 | 2,533 | -10 | 2,523 | Bydd Cyllideb Ddrafft 24-25 yn gostwng £10k ers y gyllideb hon sydd wedi bod yn bosibl o ganlyniad i sicrhau arbedion wrth aildendro contract. |
| Gwasanaethau Tân ac Achub – Systemau Cyfathrebu | 2,275 | 2,275 | 2,275 | -1,000 | 1,275 | Bydd Cyllideb Ddrafft 24-25 yn gostwng £1m yn seiliedig ar y rhagolwg cyfredol ar gyfer Rhaglen 24-25 i Gymru. Rydym wedi llwyddo i nodi'r arbediad hwn oherwydd llithriant yn y rhaglen ac oedi a achoswyd am fod angen ailgaffael cyflenwyr newydd. |
| Diogelwch Tân Cymunedol | 848 | 848 | 848 | -457 | 391 | Bydd Cyllideb Ddrafft 24-25 yn gostwng £457m o gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 24-25. Mae hyn wedi arwain at roi'r gorau i raglen lleihau tanau bwriadol (£387k) yn ogystal ag arbedion eraill, llai o faint, gan gynnwys rhoi'r gorau i gyllid i gefnogi secondio Therapydd Galwedigaethol i Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a gostyngiad mewn cyllid i gefnogi Diwrnod y Lluoedd Arfog a all arwain at gyfyngu ar weithgareddau i ryw raddau o gymharu â blynyddoedd blaenorol. |
| **Cam gweithredu: Cyfanswm Gwasanaethau Tân ac Achub a** | **5,656** | **5,656** | **5,656** | **-1,467** | **4,189** | |
| Y Comisiynydd Pobl Hŷn | 1,701 | 1,687 | 1,701 | -85 | 1,616 | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 yn trosglwyddo cyllideb o £0.002m i mewn o'r Cronfeydd Wrth Gefn - IFRS 16 (heb ei glustnodi); a Throsglwyddo £0.016m allan (i linell nad yw'n arian parod) - IFRS 16 (Gostwng RDEL Cyllideb Ddrafft 2024-25 yn gostwng £85k |
| Y Comisiynydd Pobl Hŷn - Heb Fod yn Arian Parod | 9 | 25 | 9 | 0 | 9 | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 yn trosglwyddo cyllideb o £0.016m i mewn o'r Cronfeydd Wrth Gefn - IFRS 16 (Dibrisiant) Dim newid i Gyllideb Ddrafft 24-25 |
| Y Comisiynydd Plant | 1,675 | 1,646 | 1,675 | -84 | 1,591 | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 yn trosglwyddo cyllideb o £0.029m allan i'r Cronfeydd Wrth Gefn (heb fod yn arian parod) - IFRS 16 Gostwng RDEL Cyllideb Ddrafft 24-25 yn gostwng £84k |
| Comisiynydd y Gymraeg - Heb Fod yn Arian Parod | 52 | 81 | 52 | 0 | 52 | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 yn trosglwyddo cyllideb o £0.029m i mewn o'r Cronfeydd Wrth Gefn - IFRS 16 (Dibrisiant) Dim newid i Gyllideb Ddrafft 24-25 |
| Penodiadau Cyhoeddus | 400 | 400 | 400 | -248 | 152 | Cyllideb Ddrafft 24-25 yn gostwng £248k. Caiff y gyllideb sy'n weddill yn 2024-25 ei defnyddio i gyflwyno cynllun peilot cysgodi swydd newydd a fydd yn sicrhau cyflog cydradd i bobl sy'n cysgodi swyddi eraill. Bydd effeithiau cadarnhaol o ran pobl Ddu, Asiaidd, Ethnig Leiafrifol, anabl a LHDTC+ a gaiff eu talu'n deg am eu rhan mewn cynlluniau cysgodi swydd. |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | 1,695 | 1,695 | 1,695 | -85 | 1,610 | Bydd Cyllideb Ddrafft 24-25 yn gostwng £85k. |
| **Cam gweithredu: Cymunedau** | **5,532** | **5,534** | **5,532** | **-502** | **5,030** | |
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 8,005 | 8,144 | 8,005 | 0 | 8,005 | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 yn trosglwyddo cyllideb o £0.139m i mewn o Brif Grŵp Gwariant Cymunedau Cydlynus ar gyfer prosiectau bywyd stryd.Dim newid i Gyllideb Ddrafft 24-25 |
| **Cam gweithredu: Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin** | **8,005** | **8,144** | **8,005** | **0** | **8,005** | |
| Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol | 10,970 | 10,970 | 12,987 | -3,214 | 9,773 | Bydd Cyllideb Ddangosol 24-25 yn cynyddu £2,017k o gymharu â chyllideb 23-24. Bydd Cyllideb Ddrafft 24-25 yn gostwng £3.214m Er gwaethaf y gostyngiad hwn rydym yn gallu parhau i gyflawni holl ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a gefnogir yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb. |
| Cymunedau Cydlynus | 4,710 | 5,081 | 5,580 | -870 | 4,710 | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 yn trosglwyddo cyllideb o £0.200m i mewn o Brif Grŵp Gwariant Addysg REACH+Hubs Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill; a £0.171m o Brif Grŵp Gwariant Cymunedau Cydlynus ar gyfer Prosiect Tai i FfoaduriaidBydd Cyllideb Ddangosol 24-25 yn cynyddu £870k o'i chymharu â chyllideb 23-24 Cyllideb Ddrafft 2024-25 yn gostwng £870m o'i chymharu â'r gyllideb ddangosol. |
| Cydraddoldebau, Tlodi a Thystiolaeth a Chefnogaeth Plant | 1,636 | 1,636 | 1,949 | -313 | 1,636 | Bydd Cyllideb Ddangosol 24-25 yn cynyddu £313k o gymharu â chyllideb 23-24 Cyllideb Ddrafft 2024-25 yn gostwng £313m o gymharu â'r gyllideb ddangosol. |
| Chwarae Teg | 366 | 366 | 366 | -366 | 0 | Mae Chwarae Teg wedi cau bellach, felly rydym wedi dileu'r gyllideb gyfan o £366k ar gyfer Chwarae Teg yn 2024-25. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gydgynllunio gweithgarwch newydd yn y maes hwn. |
| **Cam gweithredu: Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau** | **17,682** | **18,053** | **20,882** | **-4,763** | **16,119** | |
| Gwasanaethau Cynghori | 11,675 | 12,811 | 11,675 | 0 | 11,675 | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 yn trosglwyddo cyllideb o £1.136m i mewn o'r Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer cyfran o'r Ardoll Ariannol Dim newid i Gyllideb Ddrafft 24-25 |
| **Cam gweithredu: Gwasanaethau Cynghori** | **11,675** | **12,811** | **11,675** | **0** | **11,675** | |
| Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli | 7,624 | 7,624 | 9,424 | -970 | 8,454 | Bydd Cyllideb Ddangosol 24-25 yn cynyddu £1.8m o'i chymharu â chyllideb 23-24. Cyllideb Ddrafft 24-25 yn gostwng £803k |
| **Cam gweithredu: Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a** | **7,624** | **7,624** | **9,424** | **-970** | **8,454** | |
| Cymorth Cymunedol a Diogelwch | 22,981 | 22,981 | 22,981 | -7,473 | 15,508 | Bydd Cyllideb Ddrafft 24-25 yn gostwng £7.473m o gymharu â'r gyllideb ddangosol ar gyfer 24-25. Mae'r arbediad yn seiliedig ar leihau nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o 510 ar ddiwedd 2023-24 i 300 erbyn diwedd 2024-25. Bydd yr amcangyfrifon hyn a'r arbediad a sicrheir yn ymarferol yn dibynnu ar drosiant staff ac ati a gallant fod yn is. |
| **Cam gweithredu: Cymorth Cymunedol a Diogelwch** | **22,981** | **22,981** | **22,981** | **-7,473** | **15,508** | |
| Glasbrintiau Cyfiawnder i Fenywod a Chyfiawnder Ieuenctid ** | 1,092 | 1,092 | 1,092 | -20 | 1,072 | Bydd Cyllideb Ddrafft 24-25 yn gostwng £20k oherwydd gwariant nas neilltuwyd |
| **Cam gweithredu: Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a** | **1,092** | **1,092** | **1,092** | **-20** | **1,072** | |
| **PRIF GRŴP GWARIANT:CYFIAWNDER CYMDEITHASOL** | **136,248** | **139,492** | **139,248** | **-14,081** | **125,167** | |
| **i'w ychwanegu yn Ail Gyllideb Atodol 23-24** | | | | | | |
| Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol - Heb fod yn Arian | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 | £3k o'r Cronfeydd Wrth Gefn tuag at gyllid heb fod yn arian parod |
| **PRIF GRŴP GWARIANT:CYFIAWNDER CYMDEITHASOL** | **136,248** | **139,492** | **139,248** | **-14,078** | **125,170** | |

Yn gynt
Datblygu Rhyngwladol *
Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid**

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

20 Rhagfyr 2023

Annwyl Delyth,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 14 Tachwedd ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25.

Mae proffil rhyngwladol Cymru'n parhau i godi. Mae llwyddiant ein cenedl mewn chwaraeon a diwylliant, a'n hymagwedd arloesol at bolisi, yn golygu bod y galw am ymgysylltiad rhyngwladol yn uchel ac ar gynnydd. Mae gwerth yr ymgysylltiad rhyngwladol hwn wedi bod yn glir i'w weld mewn buddsoddiadau megis Vishay Intertechnology a KLA, yn ogystal â Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda rhanbarthau megis Baden-Württemberg eleni.

Fodd bynnag, fel rydym wedi'i weld yn y flwyddyn ariannol hon, mae'r flwyddyn ariannol nesaf yn debygol o barhau i fod yn heriol, gan arwain at flaenoriaethu a phenderfyniadau anodd pellach posibl o'n blaenau. O safbwynt rhyngwladol, mae hyn yn golygu, y flwyddyn nesaf, y bydd angen i ni gydbwyso'r galw cynyddol wrth barhau i ddarparu gwerth am arian ar yr un pryd. Bydd yr ymateb hwn yn egluro ein cynlluniau lefel uchel ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, a fydd yn cael eu datblygu'n fanylach dros y chwarter nesaf.

## **<u>Blynyddoedd Ariannol Blaenorol a Phresennol</u>**

Alldro terfynol blwyddyn ariannol **2022-23** ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol oedd £7.689m yn erbyn ffigur o £8.424m. Ni chafodd y Rhwydwaith Tramor ei ddefnyddio'n llawn yn ystod 2022-23, a arweiniodd at danwariant. Mae'r sefyllfa wedi cael sylw bellach, gyda phresenoldeb cynyddol yn India a Gogledd America.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel yr amlinellwyd yn ein llythyr blaenorol, y gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol ar gyfer **2023-24** oedd £8.383m. Cafodd hyn ei ostwng i £8.272m yn y Gyllideb Atodol Gyntaf. Roedd y gostyngiad o £0.111m ar gyfer trosglwyddiad o £0.100m o BEL Cysylltiadau Rhyngwladol i BEL Datblygu Rhyngwladol MEG Cyfiawnder Cymdeithasol, i ymdopi â'r pwysau chwyddiant ar gyfer Rhaglen Plannu Coed Mbale a throsglwyddiad o £0.011m i gronfeydd wrth gefn mewn perthynas â phrydlesi IFRS16.

Yn dilyn ymarfer arbedion ariannol yn ystod y flwyddyn, dychwelwyd £260,000 i gyllid canolog. Ein halldro a ragwelir ar hyn o bryd ar gyfer 2023-24 yw £8.112m.

## 2024-25

Dyraniadau Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r dyraniadau ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol yn y Gyllideb Ddrafft ddangosol ar gyfer **2024-25**.

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 Rhagfyr 2023** | **Gostyngiad dros dro yn ystod y flwyddyn 2024-25** | **Trosglwyddiadau MEG i MEG** | **Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Mawrth 2024** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| Cysylltiadau Rhyngwladol | | | | | |
| **Cam gweithredu:** | **Rhyngwladol** | **8,383** | **290** | **350** | **7,743** |
| **Maes Rhaglenni Gwariant:** | **Rhyngwladol** | **8,383** | **290** | **350** | **7,743** |

Gofynnwyd i bob adran ar draws Llywodraeth Cymru adolygu eu cyllidebau yng ngoleuni'r heriau ariannol sy'n ein hwynebu. Yn achos Cysylltiadau Rhyngwladol, gwnaed gostyngiad i'r gyllideb gyffredinol, a ddarparodd gyllideb ostyngol gychwynnol o £8.383m. Yn ogystal â hyn, cwblhaodd staff Cysylltiadau Rhyngwladol archwiliad dwfn ychwanegol o ofynion y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a nodwyd arbedion o £0.29m, gan leihau'r gyllideb i £8.093m. Ar ôl gweithredu'r trosglwyddiad MEG i MEG o £350,000 i Ddatblygu Rhyngwladol, mae hyn yn gadael cyllideb ddiwygiedig o £7.743m ar gyfer 2024-25.

Fel mewn blynyddoedd ariannol blaenorol, nod y trosglwyddiad MEG i MEG gwerth £350,000 o Gysylltiadau Rhyngwladol i Ddatblygu Rhyngwladol yw cefnogi cyflwyno agweddau Cymru ac Affrica ar y Strategaeth Ryngwladol. Mae hyn yn dilyn trosglwyddiadau tebyg a wnaed yn 2022-23 a 2023-24 y cadarnhawyd wedyn y byddent yn digwydd yn flynyddol drwy gydol y Strategaeth Ryngwladol.

Datblygu Rhyngwladol

Y Gyllideb Ddrafft Datblygu Rhyngwladol ar gyfer 2024-25 yw £1.050m, i fyny o £1.275m; mae'r gostyngiad o £225,000 o ganlyniad i'r ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn. Mae'r £1.050m hwn yn cynnwys £700,000 o'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol o dan gyfrifoldeb y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, ynghyd â'r trosglwyddiad MEG o Gysylltiadau Rhyngwladol o £350,000 i gyflawni agweddau ar y Strategaeth Ryngwladol.

Y gyllideb Datblygu Rhyngwladol ar gyfer 2022-23 oedd £1.275m, gyda dim ond £350,000 o'r cyfanswm hwnnw yr oedd y Prif Weinidog yn gyfrifol amdano. Yr alldro olaf am y flwyddyn oedd £1.386m. Darparwyd taliad DEC o £100,000 tuag at apêl llifogydd Pacistan, gyda'r cyllid hwn yn deillio o danwariant o £100,000 yn y gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol. Roedd gorwariant ychwanegol o £11,000 hefyd o ganlyniad i ddyfarnu grant ychwanegol yn rownd 2 o gynllun grantiau bach Cymru ac Affrica.

Y gyllideb Datblygu Rhyngwladol ar gyfer 2023-24 oedd £1.375m ac, oherwydd ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ddychwelyd £16,000 a ostyngodd y gyllideb i £1.359m, sy'n golygu mai'r alldro a ragwelir yw £1.359m.

**Gwybodaeth arall**

Mae gan Gymru ei Strategaeth Ryngwladol a'i hamcanion ei hun ar gyfer ymgysylltu â'r Undeb Ewropeaidd. Mae Swyddfa Brwsel Llywodraeth Cymru, a'n rhwydwaith o swyddfeydd ledled Ewrop yn Ffrainc, yr Almaen ac Iwerddon, yn ganolog i gefnogi ein gweithgarwch masnach a buddsoddi yn Ewrop a chyflawni ein hymrwymiad i ymgysylltu ag Ewrop. Mae'r presenoldeb hwn yn golygu y gallwn barhau i weithio gyda'n partneriaid yn Ewrop ar y gwerthoedd ac uchelgeisiau polisi a rannwn. Bydd yn ein galluogi hefyd i gefnogi busnesau i fasnachu mor effeithlon â phosibl yn y dyfodol.

Gan fod ymadael â'r UE wedi arwain at rwystrau ychwanegol i fasnach a buddsoddiad ym marchnad yr UE, mae'n bwysicach nag erioed cael presenoldeb ledled Ewrop i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan buddsoddi ac i gefnogi busnesau i barhau i fasnachu gyda'n partner masnachu mwyaf. Rhaid i ni weithio'n galetach i barhau'n bresennol ac yn berthnasol i'n partneriaid Ewropeaidd ar ôl Brexit.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu nodau polisi gyda'r UE ar lawer o faterion a heriau allweddol megis cynaliadwyedd, yr amgylchedd a bioamrywiaeth, hinsawdd, arloesi a datblygu rhanbarthol, cydraddoldeb a materion cymdeithasol, ymysg eraill. Mae ymadawiad y DU â'r UE wedi gwneud ymgysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau'r UE ar y pynciau hyn yn fwy o her gan nad oes gennym yr un mynediad at fframweithiau sefydliadol yr UE mwyach i gasglu gwybodaeth a dylanwadu ar bolisi'r UE. Mae telerau'r cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng yr UE a'r DU yn golygu ei bod yn bwysig deall cyfeiriad polisi'r UE yn y dyfodol a fydd â goblygiadau parhaus i Gymru.

Drwy waith Swyddfa Brwsel Llywodraeth Cymru, ein Cynrychiolydd Ewropeaidd a'n cysylltiadau blaenoriaeth â chenhedloedd a rhanbarthau Ewrop, rydym yn ailsefydlu ac yn atgyfnerthu ein cysylltiadau â sefydliadau'r UE a phartneriaid mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r trefniadau newydd ar ôl Brexit. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gydag amrywiaeth eang o rwydweithiau Ewropeaidd sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o feysydd. Mae'r rhwydweithiau hyn yn codi proffil Cymru yn Ewrop, yn darparu dadansoddiad manwl o gynigion polisi'r UE ac yn cefnogi adeiladu consortia ar gyfer cydweithredu rhyngranbarthol. Nid yw'r gweithgarwch a wneir gan bob un o'n swyddfeydd rhyngwladol, gan gynnwys y rhai yn Ewrop, wedi'i nodi'n rhagnodol yn nyraniad y gyllideb ddrafft ac mae'n ymateb yn hyblyg i heriau a blaenoriaethau byd-eang.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gadw swyddfa Brwsel. Trafodwyd prydles newydd a mwy ffafriol dros gyfnod o naw mlynedd, gan sicrhau Tŷ Cymru fel canolbwynt hanfodol ar gyfer ymgysylltiad Llywodraeth Cymru, y Senedd a Phrifysgolion Cymru â sefydliadau'r UE.

Mae'r camau i sefydlu academi heddwch yn un o ymrwymiadau pwysig eraill y Rhaglen Lywodraethu. Dyfarnwyd cyllid i Academi Heddwch, sy'n dod i gyfanswm o £140,918 yn y flwyddyn ariannol bresennol. Cynhaliodd yr Academi ei darlith heddwch gyntaf yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen eleni, gan ddyfarnu tystysgrifau i ysgolion am eu gwaith ar heddwch. Mae'r Academi wedi cwblhau rhywfaint o ymchwil sylfaenol ar 'Cymru fel Cenedl Heddwch' a fydd yn cynorthwyo i ddatblygu rhwydwaith ymchwil heddwch Cymru.

Yn anffodus, mae gwrthdaro byd-eang yn parhau i fod yn nodwedd arwyddocaol o'r agenda ryngwladol. Er nad yw hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar y gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol, mae ymateb i sefyllfaoedd, megis y rhyfel digymell yn Wcráin, yn parhau i fod yn rhan bwysig o waith Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth y DU wedi arwain ar ymateb y DU i'r digwyddiadau hyn, ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r FCDO i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau.

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu rhoi cymorth i'r rhai sydd wedi'u heffeithio drwy'r cynllun Cartrefi i Wcráin a gweithio gyda Phwyllgor Argyfyngau Brys Cymru. Mae cymorth Cymru i Wcráin yn cael ei drafod fel mater o drefn mewn ymgysylltiadau diplomyddol a, thrwy ein cyllid i Academi Heddwch, mae ysgolion ac eraill wedi cael eu cyfeirio at adnoddau sy'n esbonio'r gwrthdaro a'r ffyrdd y gall dinasyddion helpu.

## Meysydd penodol

### Strategaeth Ryngwladol

O fewn y gyllideb Ymgysylltiad Rhyngwladol hon o £3.059m, mae £150,000 wedi'i ddyrannu i'r Cynllun Gweithredu Perthnasoedd a Rhwydweithiau Rhanbarthol sy'n cael Blaenoriaeth, £1.3m i'r Cynllun Gweithredu ar Gymell Tawel a Diplomyddiaeth Gyhoeddus a £190,000 i'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chymry ar Wasgar. Caiff gweddill y gyllideb, sef £1.419m, ei ddefnyddio i ariannu gweithgarwch trawsbynciol sy'n cefnogi ein hamcanion Cysylltiadau Rhyngwladol cyffredinol a'r Strategaeth Ryngwladol yn hytrach na chael ei ddyrannu'n uniongyrchol i Gynllun Gweithredu penodol.

Mae Cysylltiadau Rhyngwladol yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid strategol, gan gynnwys sefydliadau celfyddydol a chwaraeon, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ein Cymry ar wasgar byd-eang a'n rhanbarthau a'n gwledydd â blaenoriaeth, i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein Strategaeth Ryngwladol.

Rydym yn disgwyl i'n partneriaid strategol gyflwyno eu cynlluniau ymgysylltu a chyflawni yn chwarter cyntaf 2024 a byddwn yn ystyried eu ceisiadau am adnoddau yn unol â hynny. Byddwn yn parhau hefyd i weithio gyda phartneriaid strategol nad ydym yn eu hariannu'n uniongyrchol ond sy’n cyfrannu at gyflawni'r Strategaeth.

Bu ymgysylltiad sylweddol â rhanbarthau â blaenoriaeth yn y flwyddyn ariannol hon. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r tîm Cysylltiadau Rhyngwladol wedi trafod memorandwm cyd-ddealltwriaeth newydd gyda Fflandrys, datganiad ar y cyd â Baden-Württemberg a Chytundeb Cyfeillgarwch Rhyngwladol gyda dinas Birmingham, Alabama.

Mae Cymru wedi cynnal sawl Rhanbarth â Blaenoriaeth yng Nghymru yn y flwyddyn ariannol hon, gan gynnwys dirprwyaeth o'n rhanbarthau â blaenoriaeth yn Wythnos Dechnoleg Cymru. Roedd y ddirprwyaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o Silesia, Catalonia, Gwlad y Basg, Fflandrys, Ontario, Baden-Württemberg a Québec.

Rhaglen Cymru ac Affrica

Mae cyllideb Cymru ac Affrica 2023-24 yn £1.359m – gyda'r trosglwyddiad MEG i MEG o £350,000 a £100,000 ychwanegol i dalu am bwysau chwyddiant ar gyfer prosiect Plannu Coed Mbale. Dim ond ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 y mae'r trosglwyddiad ychwanegol hwn. Dychwelwyd £16,000 o'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn yr ymarfer arbedion cost.

Mae rhaglen Cymru ac Affrica yn rhan o bortffolio'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, gyda £350,000 (drwy drosglwyddiadau) o'r BEL Cysylltiadau Rhyngwladol yn cyfrannu at gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol.

Mae'r £450,000 o gyllid Cysylltiadau Rhyngwladol yn cyfrannu at grant o £550,000 i raglen Maint Cymru, yn bennaf er mwyn darparu Rhaglen Plannu Coed Mbale, gyda rhywfaint o gyllid wedi'i ddyrannu i brosiect Coedwig Gymunedol Bore yn Kenya.

**2024-25**

Ar hyn o bryd, rhagwelir mai £1.050m fydd cyllideb Cymru ac Affrica ar gyfer 2024-25 – gyda'r trosglwyddiad MEG i MEG o £350,000. Mae'r swm is yn dilyn yr ymarfer arbedion ariannol canolog lle dychwelwyd £225,000 yn ganolog.

Swyddfeydd tramor

Y gyllideb ar gyfer Swyddfeydd Rhyngwladol yw £5,434,400. Mae'n cael ei rannu rhwng cyllideb flynyddol o £4,684,400 ar gyfer costau rhedeg swyddfeydd tramor a chyllideb flynyddol o £750,000 ar gyfer gweithgareddau cyfunol. Mae'r gyllideb costau rhedeg swyddfeydd tramor yn cynnwys rhent swyddfeydd, taliadau platfform FCDO, cyflogau staff ac argostau. Mae'r gyllideb gweithgareddau'n cefnogi gweithgarwch rhwydwaith-cyfan ar gyfer y swyddfeydd tramor. Nid ydym yn pennu cyllidebau costau rhedeg rhaglenni ar gyfer pob swyddfa gan fod y rhain yn cael eu rheoli'n ganolog. Mae'r swyddfeydd tramor yn gallu gwneud cais i'r gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol hefyd i gyflawni yn erbyn y cynlluniau gweithredu a gweithgarwch trawsbynciol.

Mae'r Swyddfeydd Rhyngwladol yn cyflawni yn erbyn nodau penodol y Strategaeth Ryngwladol a'r Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig, yn ogystal â chylch gwaith cyhoeddedig y swyddfeydd unigol, gyda ffocws ar gymell tawel.

O ran ein hymgysylltiad â digwyddiadau mawr/rhyngwladol, cychwynnodd rhaglen o ddiplomyddiaeth chwaraeon ym mis Awst 2022, gyda'r nod o geisio manteisio ar gyfleoedd ar ôl i Gymru gyrraedd sawl pencampwriaeth o bwys mewn campau amrywiol gan gynnwys hoci, pêl-rwyd, rygbi a phêl-droed. Yn ystod 2023 drwyddi draw, gwnaethom geisio elwa i'r eithaf ar gyfleoedd chwaraeon gan ddechrau gyda Chwpan Hoci'r Byd yn India ym mis Ionawr hyd at Gwpan Rygbi'r Byd yn Ffrainc yn yr hydref.

Gwnaeth gwerthusiad annibynnol o ddull Tîm Cymru Llywodraeth Cymru adrodd yn gadarnhaol am bartneriaethau newydd, rhwydweithiau cryfach a chysylltiadau rhyngwladol economaidd, addysgol a diwylliannol gwell o ganlyniad i'n gwaith. Daeth i'r amlwg hefyd fod y gweithgareddau hyn wedi cyrraedd cynulleidfa eang, gartref ac yn rhyngwladol. Byddwn yn defnyddio'r dysgu hwn mewn gweithgareddau ac wrth gynllunio digwyddiadau yn y dyfodol. Mae'n bwysig nodi bod llawer o'r gwaith sy'n defnyddio chwaraeon fel offeryn ar

gyfer cymell tawel wedi'i wneud gan dimau ledled Llywodraeth Cymru, nid Cysylltiadau Rhyngwladol yn unig.

Mae cynlluniau ar gyfer ymgysylltu mewn digwyddiadau rhyngwladol yn 2024-25 yn parhau. Rydym yn rhagweld y bydd rhai o'r digwyddiadau hyn yn gysylltiedig â'n blwyddyn Cymru yn India a Dydd Gŵyl Dewi.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

## Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

## Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Cyllidebau'r Gymraeg ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg

**11 Ionawr 2024 (9.30-11.00)**

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol am ddyraniadau cyllidebol sy'n berthnasol i'r Gymraeg yn y cynigion ar gyfer Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg a amlinellwyd yng Nghyllideb ddrafft 2024-25, a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2023. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

### 1. Sylwebaeth ar Gamau Gweithredu a manylion dyraniadau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

1.1 Pan wnaethom gyhoeddi ein Hadolygiad amlflwydd o Wariant Cymru yn 2022, nodwyd cynlluniau uchelgeisiol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r iaith. Roedd cyllidebau a bennwyd ar gyfer cyfnod o dair blynedd i ddechrau yn adlewyrchu cynnydd[1] o £5.8m (15.4%) yn 2022-23, gyda chynnydd pellach o £3m (6.9%) yn 2023-24 a £3.5m (7.5%) yn 2024-25 a oedd yn gysylltiedig yn benodol â'r Cytundeb Cydweithio. Yng nghyllideb y flwyddyn diwethaf gwnaethom barhau â'r cyllid hwnnw, gan roi cynnydd refeniw o £0.15m i Gomisiynydd y Gymraeg o 2023-24.

1.2 Yn wyneb yr amgylchiadau ariannol eithriadol rydym yn eu hwynebu bu angen dull mwy sylfaenol. Rydym wedi ail-lunio'r dyraniadau o wariant dangosol yn ein cyllideb i roi cyllid ychwanegol i'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl a chymunedau ledled Cymru a'u diogelu, sef y GIG a setliad llywodraeth leol craidd, sy'n ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol a gwasanaethau pob dydd eraill. Mae hyn wedi arwain at ailflaenoriaethu ychydig o dan £103m (5.68%) o gyllideb y Gymraeg ac Addysg.

1.3 Rydym wedi gweithio'n galed i gyfyngu ar yr effeithiau ar gyllid ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys parhau â'r cyllid sy'n gysylltiedig â'r Bil Addysg Gymraeg, Mudiad Meithrin a chyllideb Cymraeg mewn Addysg. O ganlyniad i'r ymarfer ailflaenoriaethu ar gyllidebau'r Gymraeg mae'r swm o £3.668m wedi cael ei ddychwelyd i'r cronfeydd wrth gefn. Er ein bod yn ailflaenoriaethu £3.5m o'r cyllid sy'n gysylltiedig â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, rydym yn cynnal cyllidebau at lefelau 2023-24 er mwyn sicrhau cyn lleied o darfu ar sector y Gymraeg. Caiff y cyllid hwn ei ailbroffilio a'i ystyried yng nghyd-destun y systemau sy'n cael eu datblygu ar gyfer ymrwymiadau ariannol parhaus o dan y Cytundeb Cydweithio, fel y'i nodwyd ym mhennod 1 o naratif y brif gyllideb ddrafft. Mae penderfyniad trawslywodraethol wedi arwain at ostyngiad o 5% yng nghyllideb y pedwar Comisiynydd statudol, gan gynnwys £0.168m ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg (gweler adran 3.2).

[1] Cyllidebau o fewn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb *Cymraeg 2050* (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol), Cymraeg mewn Addysg, y Gymraeg a Chomisynydd y Gymraeg yn unig.

1.4 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r newidiadau i gyllidebau'r Gymraeg ar gyfer 2024-25.

| Cam Gweithredu | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2024-25 Dangosol (Cyllideb Derfynol 2023-24 – Chwefror 2023) | 2024-25 Cyllid a Ailflaenoriaethwyd | 2024-25 Cyfuno Grantiau | 2024-25 Newidiadau Eraill | 2024-25 Cyllideb Ddrafft (Rhagfyr 2023) |
| | | £000oedd | | | | |
| Cymorth Addysg Cyn-16 drwy ALlau | *Cymraeg 2050* (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol) | 0 | 0 | 9,770 | 0 | 9,770 |
| **Cyfanswm Cymorth Addysg Cyn 16 drwy ALlau** | | **0** | **0** | **9,770** | **0** | **9,770** |
| Cymraeg mewn Addysg | Cymraeg mewn Addysg | 24,275 | -3,500 | -2,200 | -1,675 | 16,900 |
| **Cyfanswm Cymraeg mewn Addysg** | | **24,275** | **-3,500** | **-2,200** | **-1,675** | **16,900** |
| Y Gymraeg | Y Gymraeg | 22,404 | 0 | -500 | 1,675 | 23,579 |
| | Comisiynydd y Gymraeg | 3,357 | -168 | 0 | 0 | 3,189 |
| | Comisiynydd y Gymraeg - Heb Fod yn Arian Parod | 121 | 0 | 0 | 0 | 121 |
| **Cyfanswm y Gymraeg** | | **25,882** | **-168** | **-500** | **1,675** | **26,889** |
| **Cyfanswm Cyllidebau Adnoddau'r Gymraeg** | | **50,157** | **-3,668** | **7,070** | **0** | **53,559** |
| Y Gymraeg | Comisiynydd y Gymraeg - Heb Fod yn Arian Parod | 50 | 0 | 0 | 0 | 50 |
| **Cyfanswm y Gymraeg** | | **50** | **0** | **0** | **0** | **50** |
| **Cyfanswm Cyllidebau Cyfalaf y Gymraeg** | | **50** | **0** | **0** | **0** | **50** |
| **Cyfanswm Cyllidebau'r Gymraeg** | | **50,207** | **-3,668** | **7,070** | **0** | **53,609** |

1.5 Fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol, er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio ar eu gwaith hollbwysig o ddarparu gwasanaethau rheng flaen. Felly, yn y gyllideb hon, rydym yn cynnig dull newydd o ymdrin â chyllid grant addysg cyn 16, er mwyn sicrhau nad yw awdurdodau lleol nac ysgolion yn cael eu llesteirio gan fiwrocratiaeth ddiangen. O 2024-25, rydym yn cynnig y dylid cyfuno'r grantiau i awdurdodau lleol a chonsortia, gan gynnwys grantiau'r Gymraeg, yn un cynllun grant o'r enw Grant Addysg i Awdurdodau Lleol. Bydd y cynllun grant hwn yn cynnwys pedair elfen o gyllid addysg, gan gynnwys *Cymraeg 2050* (y lleill yw Safonau Ysgolion, Tegwch a Diwygio).

1.6 Bydd y cyllid hwn yn hollbwysig er mwyn cyflwyno'r Bil arfaethedig ar Addysg Gymraeg. Bydd y Llinell Wariant newydd yn y Gyllideb ar gyfer *Cymraeg 2050* (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol) yn darparu cyllid o £9.77m drwy'r grant hwnnw, gan gyfuno cyllid y Grant Cymraeg mewn Addysg (Llinell Wariant yn y Gyllideb Grant Gwella Ysgolion), Dysgu Proffesiynol (Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon), darpariaeth trochi hwyr (Llinell Wariant

yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg) a'r Siarter Iaith (Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg).

1.7 Drwy ymgorffori'r newidiadau hyn, bydd cyfanswm cyllideb ddangosol o **£53.6m** i gefnogi'r Gymraeg **yn 2024-25** – £53.559m adnoddau a £0.05m cyfalaf (heb gynnwys Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Seilwaith Addysg – ceir rhagor o wybodaeth yn adran 3.3).

1.8 Yn unol â chais y Pwyllgor, atodir dadansoddiad manwl o ddyraniadau cyllideb ddrafft 2024-25 (fel y bo'n berthnasol i'r Gymraeg), alldro terfynol ar gyfer 2022-23, ynghyd â'r rhagolwg o'r alldro ar gyfer 2023-24, yn **Atodiad A**. Mae hyn yn cadarnhau mai'r alldro terfynol ar gyfer cyllidebau'r Gymraeg (Llinellau Gwariant yn y Gyllideb y Gymraeg, Cymraeg mewn Addysg a Chomisiynydd y Gymraeg) yn 2022-23 oedd £44.937m (£44.695m adnoddau a £0.242m cyfalaf) a'r rhagolwg o'r alldro (yng nghyfnod 7) ar gyfer 2023-24 yw £48.643m (£48.593m adnoddau a £0.05m cyfalaf).

1.9 Mae'n bwysig nodi mai'r nod yw prif ffrydio *Cymraeg 2050* ym mhob un o feysydd portffolio Llywodraeth Cymru, ac mae gwariant ar yr iaith wedi'i ymgorffori eisoes yn y broses gyflawni mewn llawer o bortffolios gweinidogol eraill. Fodd bynnag, rhoddir manylion pellach isod ynghylch y Llinellau Gwariant penodol yn y Gyllideb ym Mhrif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni portffolio'r Gymraeg yn uniongyrchol.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg**

1.10 Diben Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg yw cefnogi *Cymraeg 2050* o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau'r seilwaith cywir. Y gyllideb ddangosol ar gyfer Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg yw **£23.579m** yn 2024-25. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r penderfyniad i drosglwyddo £0.5m o Linell Wariant yn y Gyllideb y Siarter Iaith i Linell Wariant yn y Gyllideb *Cymraeg 2050* (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol) a throsglwyddo £1.675m i mewn o Linell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg mewn perthynas â chyllid a ddyrannwyd drwy'r Cytundeb Cydweithio ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

1.11 Yn 2022-23, dyrannwyd cyllid ychwanegol o £1.2m i'r Urdd i roi cymorth parhaus i ailadeiladu ei gwasanaethau o ganlyniad i bandemig COVID-19. Daeth y cyllid yn rhan o linell sylfaen cyllideb 2023-24 a'r bwriad yw dyrannu'r un swm ar gyfer 2024-25. Mae'n golygu y bydd cyfanswm y cyllid ar gyfer yr Urdd dros £2.2m y flwyddyn. Ceir rhagor o fanylion am y cyllid hwn o dan adran 3.1.

1.12 Dyrannwyd swm arall o £0.3m y flwyddyn i'r Eisteddfod Genedlaethol yn 2022-23 er mwyn helpu'r sefydliad i adfer ar ôl COVID-19. Daeth y cyllid hwn yn rhan o'r llinell sylfaen yn 2023-24 ac rydym yn cynnig yr un swm ar gyfer 2024-25 sy'n golygu y bydd grant yr Eisteddfod Genedlaethol yn cynyddu i £1m y flwyddyn yn y dyfodol.

1.13 Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio, a thrwy gyllidebau presennol, rydym yn buddsoddi £1m o gyllid refeniw erbyn 2024-25 yn Sir Gaerfyrddin a hen

ardaloedd diwydiannol y Cymoedd Gorllewinol. Rydym yn gwneud hyn mewn ymateb i ganlyniadau Cyfrifiad 2021 mewn perthynas â'r Gymraeg. Bydd yn ein helpu i ddeall y canlyniadau yn well ac yn ein galluogi i dreialu ymyriadau mewn ymateb i'r canlyniadau hynny.

1.14 Mae'r gyllideb sy'n weddill wedi'i chynnal ar lefel 2024-25 er mwyn cefnogi gweithgareddau partneriaeth gan gynnwys:

- Cymraeg i Blant – er mwyn helpu rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu i ddefnyddio'r Gymraeg gartref, trosglwyddo'r iaith i'w plant a chefnogi datblygiad ieithyddol plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol;
- darparu hyfforddiant iaith Gymraeg drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol;
- y Siarter Iaith sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc o oedran ysgol, gyda £0.5 o'r gyllideb hon yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Addysg i Awdurdodau Lleol;
- cyflawni Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg;
- cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, drwy grantiau i nifer o bartneriaid allweddol, gan gynnwys: y rhwydwaith o fentrau iaith, y rhwydwaith o bapurau bro; Merched y Wawr; Cymdeithas Eisteddfodau Cymru; Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru; a Mudiad Clybiau Ffermwyr Ifanc;
- y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg;
- gwaith ymchwil, gwerthuso a marchnata mewn perthynas â'r strategaeth.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb Comisiynydd y Gymraeg**

1.15 Mae'r gyllideb hon yn cefnogi Comisiynydd y Gymraeg. Ceir rhagor o fanylion ynghylch cyllideb y Comisiynydd yn adran 3.2.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg**

1.16 Y gyllideb ddangosol ar gyfer Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg yw £16.9m yn 2024-25. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r penderfyniad i ailflaenoriaethu cyllid o £3.5m o dan y Cytundeb Cydweithio i gronfeydd wrth gefn (gweler paragraff 1.3), trosglwyddo £1.675m i Linell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg ar gyfer yr elfen o gyllid sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb Cydweithio ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a throsglwyddo £2.2m i Linell Wariant yn y Gyllideb *Cymraeg 2050* (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol) i ehangu'r ddarparu trochi yn y Gymraeg o ganlyniad i gyfuno grantiau.

1.17 Fel rhan o'n Cytundeb Cydweithio, bydd y cyllid sy'n weddill yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb, sef £2.825m yn 2024-25, yn cefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

1.18 Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg hefyd yn cefnogi camau gweithredu sy'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg yn *Cymraeg 2050*, gan gynnwys:

- cyllid ar gyfer Mudiad Meithrin i gynyddu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg fel llwybr i addysg cyfrwng Cymraeg;
- parhau â'r cyllid ar gyfer y rhaglen e-sgol, sef £0.6m y flwyddyn yn dilyn cynnydd mewn cyllid o 2022-23 ymlaen;
- rhoi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau) 10 mlynedd ar waith yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 2019, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2020;
- comisiynu adnoddau addysgu a dysgu dwyieithog i gefnogi'r cwricwlwm a'i gymwysterau, gan gynnwys cyllido Adnodd, sef is-gwmni Llywodraeth Cymru a ddaeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2023.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb *Cymraeg 2050* (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol)**

1.19 Ceir cyllideb ddangosol o **£9.77m** ar gyfer y Llinell Wariant newydd hon yn y Gyllideb yn 2024-25 (cyfeiriwch at baragraffau 1.5-1.6). Drwy gyfuno'r grantiau bydd hyn yn rhoi golwg strategol a chyffredinol fwy cadarn i awdurdodau lleol o ran sut y gallant ymgorffori'r Gymraeg mewn polisïau addysg yn eu gwaith. Bydd hyn yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael yr ymreolaeth a'r adnoddau i gyflawni eu CSCAau, a dosbarthu'r cyllid a ddarperir i gefnogi eu cyd-destunau addysg ac ieithyddol lleol eu hunain.

1.20 Bydd swyddogion yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i lunio canllawiau penodol ar grantiau a gofynion ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â chyllid Cymraeg mewn Addysg. Bydd y dyraniadau cyllido ar gyfer pob awdurdod yn gyson â'r strwythurau sydd eisoes ar waith i gyflawni CSCAau awdurdodau lleol, llunio adroddiadau arnynt a'u monitro. Gall mwy o gysondeb rhwng y cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol a'r CSCAau ond gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

## 2. Gwybodaeth Arall

***Gwybodaeth am y ffordd y caiff camau i weithredu portffolio y Gymraeg a chanlyniadau cysylltiedig eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian.***

2.1 O ran sicrhau gwerth am arian, mae eglurder ynghylch y ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithiol yn ganolog i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn *Cymraeg 2050:Miliwn o siaradwyr Cymraeg,* y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio. Mae gennym brosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd.

2.2 Caiff cynnydd yn erbyn *Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021 i 2026* ei fonitro'n flynyddol drwy broses sy'n cynnwys cyhoeddi Cynllun Gweithredu blynyddol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ac yna Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn adrodd yn ôl ar y camau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu. Cynhelir adolygiadau rheolaidd i fonitro gwariant a chanlyniadau er mwyn sicrhau bod unrhyw adnoddau sydd ar gael yn cael eu hailflaenoriaethu er mwyn cyflawni'r strategaeth.

2.3 Mae Cyngor Partneriaeth y Gymraeg yn chwarae rôl drwy roi cyngor ar y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at darged 2050 ac effeithlonrwydd ein rhaglenni a'n hymyriadau. Mae Bwrdd Rhaglen *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am asesu risgiau a nodi camau i'w lliniaru, ac mae'n prif ffrydio'r strategaeth ym mhob un o feysydd polisi'r Llywodraeth.

2.4 Rydym wedi cynnal Adolygiad o'r Cynllun Grant i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg. Nod yr adolygiad oedd asesu sut mae'r Cynllun cyfredol wedi cael ei gynllunio a'i roi ar waith, a llywio'r ffordd y byddwn yn cynllunio model cyllido yn y dyfodol i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y dyfodol. Byddwn yn troi ein hymateb i argymhellion yr adolygiad yn gynllun grantiau newydd i gefnogi *Cymraeg 2050*.

2.5 Ym mis Tachwedd 2022, gwnaethom gyhoeddi Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso ar gyfer *Cymraeg 2050*. Mae'n rhoi arweiniad ar gasglu tystiolaeth a data, asesu cynnydd, a gwerthuso effaith y strategaeth wrth iddi barhau i gael ei rhoi ar waith. Bydd y fframwaith hwn yn sail i raglen ymchwil a gwerthuso Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r strategaeth dros y blynyddoedd i ddod.

2.6 At hynny, gallai ein targed o gynyddu darpariaeth blynyddoedd cynnar yn y Gymraeg drwy sicrhau bod 150 yn fwy o grwpiau meithrin wedi'u sefydlu erbyn 2028 leihau gwariant ar waith hyrwyddo ymhlith grwpiau oedran hŷn, gan eu bod yn helpu unigolion i sefydlu arferion iaith cadarn yn ifanc. Yn hyn o beth, mae Cylchoedd Meithrin yn cyfrannu at feithrin yr amodau sy'n creu siaradwyr Cymraeg newydd drwy drochi plant yn yr iaith a'i diwylliant, a thrwy helpu i fwydo ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r gwariant hwn ar y blynyddoedd cynnar yn paratoi'r ffordd ar gyfer ymyriadau pellach, er enghraifft y Siarter Iaith (sy'n annog plant ysgol i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol o oedran cynnar).

2.7 Mae ein Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg yn cynnwys sicrhau bod elfennau digidol Cymraeg yn cael eu creu a'u cynnal er mwyn sicrhau y gallant gael eu defnyddio a'u hailddefnyddio gan bawb o dan drwydded ganiataol addas. Mae'n hanfodol bod technoleg Cymraeg yn cael ei lledaenu hefyd er mwyn normaleiddio'r iaith a galluogi pobl i'w defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Lansiwyd y Cynllun ar 23/10/2018 ac rydym wrthi'n paratoi i ddatblygu'r cynllun nesaf.

2.8 Rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau am lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ein nod yw sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac mae ein cynlluniau gwariant yn anelu at sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau byrdymor a hirdymor.

***Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) yn eich portffolio i gefnogi strategaeth y Gymraeg Cymraeg 2050, yn enwedig dyraniadau i gyflawni'r 'cerrig milltir' a nodir yn Rhaglen Waith 2021-2026***

2.9 Ers lansio *Cymraeg 2050*, rydym wedi bod yn gweithio tuag at gyflawni cyfres o gerrig milltir, gan gynnwys targedau o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg a

dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050. Rydym yn dilyn trywydd a ddatblygwyd yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011. Ar y cychwyn, gwnaethom ymrwymo i oedi unwaith inni gael canlyniadau Cyfrifiad 2021 er mwyn cloriannu ac adolygu ein cynlluniau gwaith a'r trywydd i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg fel y bo angen. Rydym bellach yn ystyried data'r Cyfrifiad ochr yn ochr â ffynonellau eraill o ddata, er enghraifft yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau ar y trywydd cywir o ran ein nod o ddyblu'r defnydd dyddiol o'n hiaith a chyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nodir isod ein cynnydd yn erbyn y cerrig milltir lefel uchel.

**Carreg filltir: cynnal cyfraddau trosglwyddo'r iaith ymhlith teuluoedd gyda'r nod o weld cynnydd graddol ar hyd y ffordd hyd at 2050**

2.10 Er mwyn cefnogi'r nod hwn, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn rhaglen Cymraeg i Blant yn ystod 2024-25, gyda chyllid o £0.73m yn **parhau**. Amcanion y prosiect yw helpu rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg gartref a'i throsglwyddo i'w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol. Caiff hyn ei gyflawni drwy gyfres o sesiynau am ddim i rieni a'u plant, a rhwydwaith o swyddogion sy'n helpu teuluoedd i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg gartref a'i throsglwyddo i'w plant, ac yn cefnogi datblygiad ieithyddol, cymdeithasol ac addysgol plant. Mae sesiynau wyneb yn wyneb bellach yn rhedeg ochr yn ochr â'r sesiynau rhithwir a gyflwynwyd yn ystod y pandemig.

2.11 Mae Cymraeg i Blant yn cefnogi ein *polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*. Mae annog teuluoedd i ddewis Cymraeg yn rhan bwysig o *Cymraeg 2050* ac mae'r polisi hwn yn amlinellu sut rydym yn bwriadu sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael y cymorth a'r anogaeth orau bosibl i ddewis defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant. Mae ein polisi ynglŷn â *throsglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd* yn gweithio ar y cyd â Cymraeg i Blant.

**Carreg filltir: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**

2.12 Un targed pwysig arall yn *Cymraeg 2050* yw grymuso siaradwyr i ddefnyddio eu Cymraeg gyda'r nod o ddyblu'r ganran ohonom sy'n defnyddio mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg bob dydd erbyn 2050. Gan gadw'r nod pwysig hwn mewn cof, mae pob un o'r ymyriadau ym mhortffolio *Cymraeg 2050*, ac felly'r holl ddyraniadau cyllidebol cyfatebol, yn anelu at gynyddu'r defnydd o'r iaith, a chânt eu gwerthuso a'u monitro er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben hwn. Mae hyn yn wir o ran Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg a Llinell Wariant yn y Gyllideb Comisiynydd y Gymraeg. O dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, a'r broses o reoleiddio'r safonau, mae gan y Comisiynydd rôl i sicrhau cynnydd yn y defnydd o'r iaith drwy weithio gyda chyrff i wella a chynyddu'r defnydd o'u gwasanaethau Cymraeg.

2.13 Mae cefnogi'r Gymraeg fel iaith sy'n ffynnu yn y gymuned yn ganolog i'r *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg*. Un o themâu allweddol y cynllun hwn yw grymuso cymunedau i ddod yn gyfrifol am gynaliadwyedd y Gymraeg yn yr hirdymor. Mae prosiect Perthyn yn helpu sefydliadau cymunedol i sefydlu neu ehangu mentrau

cymdeithasol a thai cydweithredol a arweinir gan y gymuned. Mae i Perthyn, a gyflawnir gan Cwmpas, ddwy elfen – mae'r gyntaf yn darparu gwasanaeth cymorth a chyngor pwrpasol i grwpiau cymunedol ac mae'r ail yn rhoi grantiau bach i annog grymuso mewn cymunedau a meithrin gallu. Dyrannwyd cyfanswm o £0.465m ar gyfer Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn 2024-25. Ym mis Awst 2022, gwnaethom lansio'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Bydd y Comisiwn yn canolbwyntio ar ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol mewn cymunedau Cymraeg i ddechrau. Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd y Comisiwn bapur safbwynt yn amlinellu ei ganfyddiadau cychwynnol a bydd yr adroddiad terfynol yn dilyn yn ystod haf 2024.

2.14 Mae'r Siarter Iaith yn cefnogi ac yn hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc o oedran ysgol. Rydym wedi parhau â'r cyllid o £0.713m ar gyfer y rhaglen yn 2024-25. O'r dyraniad hwn, mae'r swm o £0.5m yn cael ei drosglwyddo i Linell Wariant newydd yn y Gyllideb *Cymraeg 2050* (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol) er mwyn i awdurdodau lleol weithio gydag ysgolion i gyflwyno'r rhaglen a chaiff £0.138m ei ddyrannu i'r Urdd er mwyn cyflwyno elfennau eraill o'r rhaglen. Mae'r gweddill yn cyllido gweithgareddau cenedlaethol megis cyhoeddi llyfrau Seren a Sbarc, adnoddau eraill a chyllid i gefnogi Bardd Plant Cymru.

**Carreg filltir: Ceisio cefnogi'r gwaith o ehangu sector Cymraeg y blynyddoedd cynnar drwy greu 60 grŵp newydd erbyn 2026**

2.15 Byddwn yn parhau â'r cyllid o £3.031m i'r Mudiad Meithrin i helpu ei aelodaeth o Gylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi i gryfhau ac ehangu ei wasanaethau. Mae'r gwaith o ddatblygu staff a gwirfoddolwyr yn lleoliadau ei aelodau wedi parhau, gyda'r amrywiaeth o gyrsiau sydd ar gael drwy ei ‘Academi’ yn ehangu a'r niferoedd sy'n cymryd rhan yn cynyddu. Bydd cyllid hefyd yn parhau i alluogi'r Mudiad Meithrin i gynnal rhaglen Sefydlu a Symud sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar sefydlu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg newydd mewn ardaloedd o Gymru lle ceir diffyg gwasanaethau o'r fath ar hyn o bryd fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

2.16 Drwy'r gwaith hwn, sefydlwyd 43 o grwpiau newydd yn ystod tair blynedd gyntaf y rhaglen hyd at 2021. Mae'r targed o sefydlu 60 o grwpiau eraill yn ystod tymor presennol y Senedd yn parhau, a darparwyd cyllid ychwanegol yn ystod 2022-23 a 2023-24 i alluogi Mudiad Meithrin i ragori ar ei dargedau blynyddol. Bydd y gyllideb hon yn parhau yn 2024-25 a bydd Mudiad Meithrin yn parhau i adeiladu ar allu'r blynyddoedd cynnar i gynnig llwybr tuag at addysg cyfrwng Cymraeg.

2.17 Ochr yn ochr â'r rhaglen o ehangu darpariaeth mae'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio i fynd ati’n raddol i ehangu’r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau’r ddarpariaeth Gymraeg. Disgwylir y bydd y rhaglen Sefydlu a Symud ac ehangu Dechrau'n Deg (a ariennir drwy Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ac yn cyfrannu at dargedau ei gilydd.

**Carreg filltir: Cynyddu canran y dysgwyr blwyddyn 1 a addysgir yn Gymraeg o 23% (2020 i 2021) i 26% yn 2026.**

2.18 Un o nodau allweddol *Cymraeg 2050* yw cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r data CYBLD mwyaf diweddar (2023), a gyhoeddwyd ym mis Medi, yn dangos gostyngiad canrannol bach yn nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, o 23.9% yn 2022 i 23.4% yn 2023. Yn *Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26*, rydym wedi ymrwymo i gynyddu canran y dysgwyr Blwyddyn 1 a addysgir yn Gymraeg i 26% erbyn 2026. Mae gwaith yn y maes polisi hwn yn cynnwys nifer o ffrydiau gwahanol.

2.19 Byddwn yn parhau i ddyrannu £0.1m o Linell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg i gefnogi gwaith canolog ar y CSCAau. Gwnaeth pob awdurdod lleol yng Nghymru roi ei CSCA 10 mlynedd ar waith ym mis Medi 2022 a chyflwyno ei adroddiad ar yr adolygiad blynyddol o'i CSCA ym mis Gorffennaf 2023, yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn ei dargedau yn ystod blwyddyn gyntaf ei Gynllun. Mae'r adroddiadau ar yr adolygiadau blynyddol o'r CSCAau wedi cael eu hasesu ac mae adborth wedi cael ei roi i bob awdurdod. Er bod y cynnydd yn nifer a chanran y dysgwyr yn amrywio ledled Cymru, mae adroddiadau'r adolygiadau blynyddol cyntaf yn dangos inni fod camau pendant wedi cael eu cymryd gan y mwyafrif o'r awdurdodau lleol i osod sylfeini cadarn i wneud cynnydd dros oes y CSCAau.

2.20 Yn 2024-25, byddwn yn canolbwyntio ar barhau i helpu awdurdodau lleol i roi eu CSCAau 10 mlynedd ar waith. Bydd hyn yn cynnwys:

- rhoi cyngor ac arweiniad ynglŷn â chyfathrebu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg;
- parhau i gyllido rôl Hyrwyddwr cyfrwng Cymraeg yn y de-ddwyrain er mwyn cryfhau'r systemau sy'n cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal;
- cymorth o hyd i roi'r CSCAau newydd ar waith a mynychu fforymau Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol;
- helpu awdurdodau lleol i roi'r trefniadau newydd ar waith o ran categoreiddio ysgolion yn ôl darparu Cymraeg.

2.21 Bydd awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio cyllid o amrywiaeth o ffynonellau eraill i roi eu CSCAau ar waith, er enghraifft drwy raglen gyllid Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, grant cyfalaf y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a'r Grant Cynnal Refeniw. Bydd cyllid penodol ar gyfer y Gymraeg megis y grant cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r Grant Trochi Hwyr yn parhau i gefnogi a chyflwyno gweithgareddau sy'n cefnogi'n uniongyrchol y gwaith o roi CSCAau ar waith.

2.22 Mae trochi hwyr yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith a wnawn i gynyddu canran y dysgwyr sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae *Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26* a'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ein hymrwymiad i estyn y Rhaglen Trochi Hwyr er mwyn sicrhau bod pob newydd-ddyfodiad i'r iaith yn gallu cael addysg cyfrwng Cymraeg pryd mae ei hangen

arnynt a ble bynnag y maent ar eu taith ddysgu. Ceir rhagor o fanylion am y cyllid hwn o dan adran 3.1.

2.23 Rydym wedi ymrwymo i gyflwyno Bil Addysg Gymraeg yn ystod tymor hwn y Senedd. Diben y Bil yw cryfhau a chynyddu ein darpariaeth addysg Gymraeg er mwyn ateb yr heriau a nodwyd yn *Cymraeg 2050*. Mae Llinell Wariant newydd yn y Gyllideb *Cymraeg 2050* (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol) yn dwyn ynghyd gyllid awdurdodau lleol ar gyfer y Gymraeg, gan gefnogi'r broses o gyflwyno'r Bil arfaethedig.

**Carreg filltir: cefnogi cynnydd yn nifer yr athrawon yng Nghymru sy'n gallu addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031.**

2.24 Mae cyllid ar gael yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon i helpu i roi ein Cynllun Gweithlu Cymraeg mewn Addysg ar waith. Mae cyfanswm o £8.15m ar gyfer yn 2024-25 ac mae swm pellach o £2.57m wedi cael ei drosglwyddo i Linell Wariant newydd yn y Gyllideb *Cymraeg 2050* (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol).

2.25 Caiff tua £4.3m ei flaenoriaethu i helpu i gyflawni nodau'r cynllun a chaiff ei dargedu'n bennaf at gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg. Caiff y cyllid ei flaenoriaethu ar gyfer y gweithgareddau canlynol:

- parhad y rhaglen pontio cynradd i uwchradd;
- parhad y grantiau i ysgolion ddatblygu atebion arloesol i fynd i'r afael â phrinder athrawon;
- cyllid i gefnogi hyfywedd darpariaeth Safon Uwch Cymraeg mewn ysgolion a cholegau AB;
- ail flwyddyn bwrsari cadw athrawon;
- cyllid i CYDAG i gefnogi cydweithrediad rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn nifer o feysydd polisi.

2.26 Bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn parhau i ddyrannu £0.150m o'i grant, a ariennir o Linell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg, yn 2024-25 i ddatblygu dau brosiect penodol, sef:

- treialu ysgoloriaeth ariannol a darpariaeth fentora i ddysgwyr israddedig er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer AGA drwy gyfrwng y Gymraeg;
- datblygu rhwydweithiau er mwyn ymgysylltu â graddedigion sy'n siarad Cymraeg sy'n astudio yn Lloegr a hyrwyddo cyfleoedd iddynt ddychwelyd i Gymru er mwyn paratoi i addysgu.

2.27 Rydym yn parhau i gymell athrawon dan hyfforddiant o Gymru sy'n gwneud AGA ac rydym wedi cynnal cymhelliant Iaith Athrawon Yfory o £5,000 ar gyfer pob myfyriwr sy'n paratoi i addysgu pynciau uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Ariennir hyn o linellau cyllidebol AGA yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon

2.28 Mae dysgu proffesiynol yn nodwedd allweddol ar ein dull o atgyfnerthu gallu addysgu cyfrwng Cymraeg a helpu ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Rydym yn gweithio gyda chonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y caiff

ymarferwyr eu nodi a'u cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn gwella'r ffordd y caiff Cymraeg ei haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a helpu pob ysgol i symud ar hyd y continwwm.

2.29 Caiff tua £3.8m ei ddyrannu yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon yn 2024-25 i'r Cynllun Sabothol er mwyn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr ym maes methodoleg ddwys addysgu'r Gymraeg ac ieithoedd. Mae cyrsiau ar gael ar sawl lefel i gynorthwywyr addysgu ac athrawon. Mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb hon yn ariannu'r costau cyflenwi sy'n gysylltiedig â rhyddhau ymarferwyr o ysgolion er mwyn iddynt ddilyn y cyrsiau. Mae hyn wedi cynyddu ar gyfer 2024-25 i gyfrif am gost uwch talu am drefniadau cyflenwi er mwyn galluogi ymarferwyr i fynd ar y cyrsiau.

2.30 Bydd cyllid sydd wedi'i ddyrannu i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd yn galluogi pob ymarferydd addysg i gael gwersi Cymraeg am ddim. Lansiwyd gwefan ym mis Gorffennaf 2022 er mwyn rhoi gwybodaeth i ymarferwyr am y ddarpariaeth sydd ar gael iddynt drwy'r Cynllun Sabothol a Gweithlu Addysg | Dysgu Cymraeg y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn ystod 2024-25, bydd y Ganolfan yn datblygu darpariaeth bwrpasol newydd i ddiwallu anghenion y sector. Er enghraifft, caiff cwrs peilot ar gyfer athrawon uwchradd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n medru rhywfaint o Gymraeg ei ddatblygu i'w gyflwyno mewn ffordd hyblyg a chwrs magu hyder / 'gloywi' ar-lein byr i'r rhai sy'n addysgu mewn nifer o leoliadau. Caiff swm o £0.5m ei ddyrannu o Linell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon yn 2024-25 i gefnogi'r gwaith hwn.

2.31 Yn ychwanegol at y Cynllun Sabothol a'r ddarpariaeth drwy'r Ganolfan Genedlaethol, caiff cyfanswm o £2.57m ei ddyrannu i awdurdodau lleol fel rhan o elfen gyfunedig *Cymraeg 2050* o'r Grant Addysg i Awdurdodau Lleol yn 2024-25 er mwyn cefnogi darpariaeth addysgu'r Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Defnyddir y cyllid ar y cyd i helpu i ddatblygu adnoddau a darpariaeth dysgu proffesiynol genedlaethol, er enghraifft i helpu ymarferwyr sydd wedi cwblhau cyrsiau'r cynllun sabothol i ddefnyddio eu sgiliau newydd yn ôl yn yr ysgol; er mwyn helpu cynorthwywyr addysgu i fodelu patrymau iaith â dysgwyr a helpu penaethiaid i gynllunio'n strategol i ddatblygu'r Gymraeg yn eu hysgolion.

2.32 Hefyd, dyrennir £4.5m i awdurdodau lleol fel rhan o'r Grant Cymraeg mewn Addysg, a ailsefydlwyd yn 2023-24 ar ôl trafodaethau â'r awdurdodau lleol. Gyda 30% o arian cyfatebol gan awdurdodau lleol, cyfanswm gwerth y Grant Cymraeg mewn Addysg yw £5.85m. Mae'r Grant Cymraeg mewn Addysg yn cefnogi'r broses o roi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol ar waith mewn tri maes allweddol:

- cymorth i ganolfannau hwyrddyfodiaid a throchi hwyr;
- cymorth ar gyfer cynnydd ieithyddol ac i ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog;
- cymorth i ddatblygu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

2.33 Bydd y Grant Cymraeg mewn Addysg yn 2024-25 yn parhau a bydd hefyd yn cael ei ddyrannu fel rhan o elfen gyfunedig *Cymraeg 2050* o'r Grant Addysg i Awdurdodau Lleol.

## 3. Meysydd Penodol

### 3.1 Diweddariadau ar ddyraniadau yng nghyllideb 2023-24

***Gwybodaeth am ddyrannu £3 miliwn yn 2023-4 a £1.5 miliwn yn 2022-23 i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector prentisiaethau ac addysg bellach, a darparu gwersi Cymraeg am ddim i ddysgwyr 16 i 25 oed a staff addysgu.***

3.1.1 Mae'r Rhaglen Lywodraethu a'n Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru yn cynnwys ymrwymiad i fuddsoddi yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn darparu gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16-25 oed a staff addysgu. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn adeiladu ar y gyllideb graidd bresennol i'r Coleg sy'n cefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn prifysgolion, colegau AB a darparwyr hyfforddiant drwy roi cyllid grant ynghyd â hyfforddiant a mentora i feithrin y gallu i addysgu.

Roedd cyllideb 2022-23 yn cynnwys swm ychwanegol o £1.5m a ddyrannwyd i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel a ganlyn:

- Addysg ôl-16: £1,136,840
- Addysg Uwch: £213,160
- Addysg Gychwynnol i Athrawon: £150,000

3.1.2 Ariannodd y dyraniad ychwanegol raglen o grantiau datblygu i golegau a darparwyr prentisiaethau i ddatblygu gallu a darpariaeth mewn sectorau â blaenoriaeth, gan gynnwys gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol, chwaraeon a hamdden, ac amaethyddiaeth. Hefyd, roedd y cyllid yn cefnogi dau brosiect penodol i ddatblygu hyder myfyrwyr sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i ddenu myfyrwyr yn ôl i Gymru i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.1.3 Roedd y gyllideb ar gyfer 2023-24 yn cynnwys £3m pellach i'r Coleg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. O'r £4.5m ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer 2023-24, dyrannwyd £2.825m i'r Coleg ac £1.675 i'r Ganolfan Genedlaethol.

3.1.4 Ar gyfer 2023-24, mae'r Coleg yn defnyddio ei gyllid i barhau i gryfhau a chefnogi darpariaeth yn y sectorau hamdden a chwaraeon, iechyd a gofal cymdeithasol, gofal plant ac amaethyddiaeth; yn ogystal ag ymestyn darpariaeth yn y sector busnes a sector y celfyddydau creadigol. Yn y sector prentisiaethau, mae'r Coleg yn parhau i feithrin gallu yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a'r sector gofal plant, gan alluogi mwy o ddysgwyr i siarad

Cymraeg a bod yn siaradwyr dwyieithog hyderus yn y gweithle. Mae'r cyllid hefyd yn cefnogi parhad dau brosiect Addysg Gychwynnol i Athrawon.

3.1.5 Mae'r swm o £1.675m i'r Ganolfan Genedlaethol yn 2023-24 yn cael ei ddefnyddio i ymestyn darpariaeth ar gyfer dysgwyr 16-25 oed a'r gweithlu addysg er mwyn cynnig mynediad am ddim i gyrsiau Cymraeg. Fel rhan o'r cynnig, bydd dysgwyr cymwys 18 oed a hŷn hefyd yn gallu dilyn y cyrsiau Dysgu Cymraeg prif ffrwd yn y gymuned. Hyd yma yn 2023/24, mae dros 1,300 o ddysgwyr 16-25 oed yn manteisio ar y cynnig.

3.1.6 Dechreuodd y Ganolfan Genedlaethol gynnig cyrsiau am ddim i athrawon a gweithwyr eraill yn y sector addysg ym mis Medi 2022 ac mae'r cyllid ychwanegol wedi galluogi'r Ganolfan i ymestyn y ddarpariaeth hon yn 2023-24. Mae data dros dro y Ganolfan Genedlaethol yn dangos bod 1,200 o unigolion wedi manteisio ar y ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23, ac mae mwy na 1,000 wedi cofrestru hyd yma yn ystod 2023/24.

3.1.7 Bydd y cyllid o dan y Cytundeb Cydweithio yn parhau ar £4.5m ar gyfer 2024-25. Mae'r gyllideb ar gyfer 2024-25 wedi ei rhannu dros dro yn £2.825m i'r Coleg a £1.675m i'r Ganolfan Genedlaethol o hyd. Drwy ailflaenoriaethu £3.5m o gyllid yn y ffordd hon ar gyfer 2024-25 bydd hyn yn ein galluogi i ddiogelu gwasanaethau craidd sy'n cefnogi ein huchelgeisiau ar gyfer *Cymraeg 2050*. Yn benodol, byddwn yn gallu parhau â'r cyllid sy'n gysylltiedig â'r Bil Addysg Gymraeg, Mudiad Meithrin a'r gyllideb Cymraeg mewn Addysg i gefnogi darpariaeth Gymraeg.

3.1.8 Fodd bynnag, gall ailflaenoriaethu cyllid olygu y bydd yn rhaid i'r Coleg dynnu'n ôl o rai ymrwymiadau a wnaed i golegau AB a darparwyr prentisiaethau. Gall hefyd arwain at leihad yn y niferoedd sy'n dysgu Cymraeg. Byddwn yn gweithio gyda'r Coleg a'r Ganolfan Genedlaethol i ystyried opsiynau i liniaru effaith hyn ac i gefnogi camau gweithredu i gynnal darpariaeth cyfrwng Gymraeg mewn sectorau â blaenoriaeth yn ogystal â darparu cyrsiau am ddim i ddysgwyr 16-25 oed a'r gweithlu addysg.

***Diweddariad ar y ffordd y dosbarthwyd £2.2m sy'n cael ei ddyrannu (y flwyddyn) i ehangu darpariaeth trochi yn y Gymraeg ledled Cymru a sut mae'r cyllid hwn wedi cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol yng Nghymru.***

3.1.9 Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ehangu'r Rhaglen Drochi i Ddisgyblion. Ers buddsoddi £2.2m yn 2021-22 i helpu dysgwyr Cymraeg i ymgymryd â throchi hwyr cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion, mae wyth awdurdod lleol wedi creu darpariaeth trochi hwyr cyfrwng Cymraeg newydd (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Torfaen, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Powys) ac mae awdurdodau lleol eraill wedi ehangu eu rhaglenni trochi hwyr presennol i ateb y galw cynyddol.

3.1.10 Mae parhad y cyllid o £2.2m yn 2023-24 wedi sicrhau bod awdurdodau lleol yn parhau i ddatblygu eu darpariaeth trochi hwyr yn eu hardal. Mae hyn wedi eu galluogi i wneud y canlynol:

- parhau â'u darpariaeth bresennol a'i datblygu;
- agor eu canolfannau trochi hwyr cyntaf – Blaenau Gwent, Torfaen, Caerffili a Chastell-nedd Port Talbot;
- cyflwyno darpariaeth megis cynlluniau peilot ar gyfer darpariaeth drochi 'sydyn'; caffael hyfforddiant arbenigol mewn methodolegau ac adnoddau trochi; prosiectau cwmpasu i bennu darpariaeth i hwyrddyfodiaid yn seiliedig ar fodelau ALl eraill ac adnoddau trochi hwyr cyfrwng Cymraeg;
- datblygu technolegau digidol arloesol i gefnogi dysgu, megis Aberwla, sef prosiectau adnoddau digidol rhithwir Gwynedd, sy'n cynnwys pentref rhithwir sy'n cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu sgiliau iaith mewn cyd-destunau gwahanol. Bydd y cyllid yn helpu i'w cyflwyno ledled Cymru dros y blynyddoedd i ddod.

3.1.11 Bydd y cyllid ar gyfer 2024-25, a fydd yn trosglwyddo fel rhan o'r grant cyfunedig i elfen *Cymraeg 2050* o'r Grant Addysg i Awdurdodau Lleol, yn galluogi awdurdodau lleol i barhau â'r prosiectau, gan sicrhau bod mwy na 60 o athrawon / cynorthwywyr ystafell ddosbarth trochi hwyr arbenigol yn eu swyddi. Bydd hefyd yn parhau i gefnogi'r broses o gyflwyno prosiect rhithwir Gwynedd, Aberwla, ledled Cymru dros y blynyddoedd i ddod.

***Manylion am niferoedd sy'n manteisio ar gymhelliant Iaith Athrawon Yfory, ac unrhyw wybodaeth am werthuso ei effaith y gellid ei rhannu.***

3.1.12 Mae'r tabl isod yn dangos nifer y myfyrwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon sydd wedi cael cymhelliant Iaith Athrawon Yfory rhwng 2018-19 a 2022/23 (ar 13 Tachwedd 2023).

| **Blwyddyn Academaidd:** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Hawliadau SAC** | 60 | 95 | 130 | 105 | 75* |
| **Hawliadau Sefydlu** | 45 | 80* | 105* | 65* | dd/g |
| **Terfyn Amser SAC** | 31/08/2020 | 31/08/2021 | 31/08/2022 | 31/08/2023 | 31/08/2024 |
| **Terfyn Amser Sefydlu** | 31/08/2023 | 31/08/2024 | 31/08/2025 | 31/08/2026 | 31/08/2027 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm yr Hawlwyr** | 60 | 95 | 130 | 105 | 73* *i'w gadarnhau* |

**Mae'n bosibl y bydd y nifer hwn yn cynyddu am nad yw'r terfyn amser wedi mynd heibio eto. Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf.*

3.1.13 Dim ond y rhai sy'n hawlio'r taliad cyntaf (SAC) sy'n gymwys i gael yr ail daliad. Oherwydd yr adeg o'r flwyddyn, nid oes unrhyw hawliadau na thaliadau wedi cael eu gwneud hyd yma yn erbyn Cynllun 2023-24. Mae hawlwyr a oedd wedi dilyn AGA rhwng 2018/19 i 2022/23 yn hawlio'r cymhelliant hwn yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, ac fel y cyfryw mae'n bosibl na fydd y tabl isod yn dangos lefelau gwirioneddol recriwtio athrawon dan hyfforddiant Uwchradd AGA Cymru.

3.1.14 Ceir data ynglŷn â recriwtio AGA, gan gynnwys recriwtio cyfrwng Cymraeg ar gyfer cyfnodau a phynciau, ers y flwyddyn academaidd 2016/17 yn y bwletin ystadegol AGA blynyddol. Caiff data ar y flwyddyn academaidd 2022/23 eu cyhoeddi ym mis Mai 2024. Gwnaethom ddiweddaru'r asesiad o'r effaith ar gyfer y cynllun cymhelliant yn ddiweddar.

***Diweddariad ar ddyraniadau cyllidebol o rannau eraill o bortffolio'r Gweinidog, megis Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon mewn perthynas â'r ffordd y caiff ei defnyddio i helpu i ddatblygu'r Gymraeg yn y sector addysg.***

3.1.15 Mae cyllid ar gael yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon i helpu i roi ein Cynllun Gweithlu Cymraeg mewn Addysg ar waith (gweler paragraffau 2.24-2.29).

3.1.16 Parheir i wneud darpariaeth ddigonol fel rhan o Linell Wariant yn y Gyllideb y Cwricwlwm ac Asesu i barhau i ddatblygu adnoddau dwyieithog a deunyddiau ategol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru wrth i anghenion gael eu nodi drwy ymgysylltu ag ymarferwyr (a chyn bod Adnodd yn mabwysiadu ei swyddogaethau comisiynu a sicrhau ansawdd). Ochr yn ochr â hyn, mae ymarferwyr yn parhau i gefnogi'r adolygiad o holl adnoddau'r cwricwlwm ar lwyfan Hwb, sydd bellach yn poblogi adran benodol ar adnoddau'r Cwricwlwm i Gymru. Wrth i'r adolygiad fynd rhagddo, mae mwy a mwy o adnoddau dwyieithog yn ymddangos yn yr adran hon er mwyn sicrhau bod ysgolion a lleoliadau yn gallu cael sicrwydd ynglŷn â'u hansawdd a'u cysondeb â'r Cwricwlwm i Gymru.

### 3.2 Comisiynydd y Gymraeg

***Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â'r gyllideb a ddyrannwyd i Gomisiynydd y Gymraeg yn 2024-25.***

3.2.1 Fel yr amlinellir ym mharagraf 3, mae penderfyniad trawslywodraethol wedi arwain at ail-lunio'r dyraniadau o wariant dangosol i roi cyllid ychwanegol i'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl a chymunedau ledled Cymru a'u diogelu, sef y GIG a setliad llywodraeth leol craidd, sy'n ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol a gwasanaethau pob dydd eraill. Mae mwy o wariant mewn rhai meysydd yn golygu bod llai i'w wario mewn meysydd eraill. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 5% yng nghyllidebau pob un o'r pedwar Comisiynydd statudol yng Nghymru, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg. O ganlyniad, dyraniad refeniw Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2024-25 fydd £3.189m, sef gostyngiad o £0.168m. Nid oes unrhyw newidiadau yng nghyllideb anariannol y Comisiynydd, sef £0.121m a £0.050m cyfalaf ar gyfer 2024-25.

3.2.2 Byddwn yn gweithio gyda'r Comisiynydd i reoli'r effaith sy'n gysylltiedig â'r gostyngiad hwn. Yn yr amcangyfrif o'r gyllideb ar gyfer 2024-25, tynnodd swyddfa'r Comisiynydd sylw at y pwysau a oedd yn gysylltiedig ag ariannu

cytundebau cyflog blynyddol i'r staff a gofynnodd am swm ychwanegol o £0.147m o refeniw i ariannu cytundeb cyflog amcanestynedig o 5% yn 2024-25. Mae tua £0.032m i'w briodoli i gynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cadarnhaodd Datganiad Hydref Llywodraeth y DU ar 22 Tachwedd y byddai cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i dalu am gostau amcangyfrifedig cynlluniau pensiwn yn ystod Gwanwyn 2024. Rydym yn disgwyl y bydd Cymru yn cael "cyfran Barnett" ganlyniadol o unrhyw gyllid ychwanegol a ddyrennir i Adrannau Llywodraeth y DU a chaiff gwybodaeth bellach ei darparu fel rhan o Gyllideb Atodol Gyntaf 2024-25.

### 3.3 Gwariant cyfalaf mewn perthynas â'r Gymraeg

***Cynnydd manwl ynglŷn ag ehangu nifer y lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dosbarthiad y Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg a chynnydd hyd yma mewn awdurdodau lleol yng Nghymru.***

3.3.1 Mae cyllideb cyfalaf cyfrwng Cymraeg yn cael ei hariannu o Linell Wariant yn y Gyllideb Seilwaith Addysg ym Mhrif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg. Ei nod yw cynyddu lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd, cefnogi darpariaeth trochi hwyr yn ogystal â helpu dysgwyr o bob oedran i wella eu sgiliau Cymraeg a'u hyder yn Gymraeg.

3.3.2 I ddechrau, cymeradwywyd £46m o fuddsoddiad cyfalaf yn ystod cylch cyntaf cyllid cyfalaf cyfrwng Cymraeg yn 2018. Fodd bynnag, cymeradwywyd prosiectau ychwanegol ar ôl y cyhoeddiad gwreiddiol a gynyddodd y buddsoddiad cymeradwy ar gyfer y cylch cyntaf o £46m i £74m.

3.3.3 Cyhoeddwyd ail gyfran o gyllid gwerth £30m i gyd ym mis Mawrth 2021 i gefnogi prosiectau cyfalaf sy'n ymwneud yn benodol â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg yn ôl anghenion CSCAau lleol. Roedd hyn yn ychwanegol at y dyraniad presennol a gyhoeddwyd ar gyfer Band B o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

3.3.4 O'r 51 o gynigion a gyflwynwyd, cymeradwywyd cyfanswm o 11 o gynigion mewn naw ardal awdurdod lleol. Cafodd y cynigion eraill a oedd yn bodloni'r meini prawf, ond na ellid eu cefnogi oherwydd y cyllid a oedd ar gael, eu gosod ar restr wrth gefn.

3.3.5 Yn ystod mis Hydref 2022, cymeradwywyd prosiectau cyfalaf cyfrwng Cymraeg ychwanegol. Roedd y prosiectau hyn a restrir yn Atodiad B ar y rhestr wrth gefn o ail gam y cyllid grant cyfalaf cyfrwng Cymraeg. Yn sgil adolygiad pellach o'r rhestr wrth gefn ar gyfer grantiau cyfalaf cyfrwng Cymraeg, ym mis Gorffennaf 2023, cymeradwywyd prosiectau ychwanegol mewn egwyddor, yn amodol ar gymeradwyo achos busnes. Mae'r saith prosiect hyn a restrir yn Atodiad C yn werth cyfanswm o £14.540m.

3.3.6 Bydd y prosiectau hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol i addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Ar lefel leol, byddant yn rhoi hwb cadarnhaol i'r iaith mewn nifer o siroedd. Cyfanswm y buddsoddiad ers 2018 yw bron £129m.

**Crynodeb**

Caiff y gyllideb sy'n berthnasol i'r Gymraeg ym Mhrif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg Cyllideb Ddrafft 2024-25 ei chyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried.

**Jeremy Miles AS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

## ATODIAD A – CYLLIDEBAU'R GYMRAEG YM MHRIF GRŴP GWARIANT Y GYMRAEG AC ADDYSG CYLLIDEB DDRAFFT 2024-25, RHAGOLYGON 2023-24 AC ALLDRO TERFYNOL 2022-23

### Cyllidebau adnoddau

| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2022-23 Alldro Terfynol | 2023-24 Cyllideb Derfynol (Chwef 2023) | 2023-24 Cyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2023) | 2023-24 Rhagolwg o'r Alldro (Cyfnod 7) | 2024-25 Dangosol (Cyllideb Derfynol 2023-24 – Chwefror 2023) | 2024-25 Cyllid a Ailflaenoriaethwyd | 2024-25 Cyfuno Grantiau | 2024-25 Newidiadau Eraill | 2024-25 Cyllideb Ddrafft (Rhagfyr 2023) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000oedd | | | | | | | | |
| Cymorth Addysg Cyn-16 drwy ALlau | *Cymraeg 2050* (Grant Addysg i Awdurdodau Lleol) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9,770 | 0 | 9,770 |
| **Cyfanswm Cymorth Addysg Cyn 16 drwy Allau** | | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **9,770** | **0** | **9,770** |
| Cymraeg mewn Addysg | Cymraeg mewn Addysg | 17,713 | 20,775 | 19,030 | 18,830 | 24,275 | -3,500 | -2,200 | -1,675 | 16,900 |
| **Cyfanswm Cymraeg mewn Addysg** | | **17,713** | **20,775** | **19,030** | **18,830** | **24,275** | **-3,500** | **-2,200** | **-1,675** | **16,900** |
| Y Gymraeg | Y Gymraeg | 23,716 | 22,404 | 24,149 | 26,236 | 22,404 | 0 | -500 | 1,675 | 23,579 |
| | Comisiynydd y Gymraeg | 3,101 | 3,357 | 3,282 | 3,282 | 3,357 | -168 | 0 | 0 | 3,189 |
| | Comisiynydd y Gymraeg - Heb Fod yn Arian Parod | 165 | 169 | 245 | 245 | 121 | 0 | 0 | 0 | 121 |
| **Cyfanswm y Gymraeg** | | **26,982** | **25,930** | **27,676** | **29,763** | **25,882** | **-168** | **-500** | **1,675** | **26,889** |
| **Y Gymraeg – CYFANSWM Y GYLLIDEB ADNODDAU** | | **44,695** | **46,705** | **46,706** | **48,593** | **50,157** | **-3,668** | **7,070** | **0** | **53,559** |

### Cyllidebau cyfalaf

| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2022-23 Alldro Terfynol | 2023-24 Cyllideb Derfynol (Chwef 2023) | 2023-24 Cyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2023) | 2023-24 Rhagolwg o'r Alldro (Cyfnod 7) | 2024-25 Dangosol (Cyllideb Derfynol 2023-24 – Chwefror 2023) | 2024-25 Newidiadau | 2024-25 Cyllideb Ddrafft (Rhagfyr 2023) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000oedd | | | | | | |
| Y Gymraeg | Comisiynydd y Gymraeg | 242 | 50 | 50 | 50 | 50 | 0 | 50 |
| **Cyfanswm y Gymraeg** | | **242** | **50** | **50** | **50** | **50** | **0** | **50** |
| **Y Gymraeg – CYFANSWM Y GYLLIDEB GYFALAF** | | **242** | **50** | **50** | **50** | **50** | **0** | **50** |

## ATODIAD B – DYRANIADAU GRANT CYFALAF CYFRWNG CYMRAEG – CYMERADWYWYD HYDREF 2022

| Awdurdod Lleol | Prosiect | Cyfalaf | Statws |
|---|---|---|---|
| 1. Casnewydd | Neuadd Chwaraeon ar gyfer Ysgol Gyfun Gwent Is Coed | £3,334,919 | Datblygu'r cynllun. Diwygiwyd y cynllun a chymeradwywyd cyllid ychwanegol o £1,866,410. |
| 2. Torfaen | Llain 3G ar gyfer Ysgol Gyfun Gwynllyw | £1,650,000 | Gwaith adeiladu yn mynd rhagddo |
| 3. Caerdydd | Uned Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Glantaf | £129,202 | Cwblhawyd |
| 4. Caerdydd | Adnewyddu Ysgol Bro Edern | £105,421 | Cwblhawyd |
| 5. Caerdydd | Uned dros dro Plasmawr a gwaith adnewyddu | £1,148,620 | Cwblhawyd |
| 6. Conwy | Cylch Meithrin Ysgol Bro Aled | £55,644 | Cwblhawyd |
| 7. Ynys Môn | Uned gofal plant Ysgol Llanfawr | £596,800 | Cwblhawyd |
| 8. Ynys Môn | Uned gofal plant Ysgol y Graig | £298,031 | Cwblhawyd |
| 9. Castell-nedd Port Talbot | Adnewyddu Ysgol Trebannws | £460,000 | Cwblhawyd |
| 10. Castell-nedd Port Talbot | Adnewyddu egin ysgol newydd Mynacholog Nedd | £550,000 | Cwblhawyd |
| 11. Powys | Adnewyddu ac estyn Ysgol Pennant | £671,473 | Gwaith adeiladu yn mynd rhagddo |
| | | **£9,000,110** | |

Cafodd prosiect ychwanegol gymeradwyaeth ddirprwyedig ar ôl y cyhoeddiad gwreiddiol, sef £100,366 yn ystod 2022-23 i ariannu creu hwb bugeiliol yn Ysgol Morgan Llwyd. Cyflwynwyd y prosiect hwn i gael cyllid fel rhan o ail gam y Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg ac fe'i rhoddwyd ar y rhestr wrth gefn. Ym mis Hydref 2022, nodwyd ei fod yn brosiect y gellid ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Cyflwynwyd achos busnes sylfaenol a chytunwyd ar £100,366 o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23.

## ATODIAD C – DYRANIADAU GRANT CYFALAF CYFRWNG CYMRAEG – CYMERADWYWYD GORFFENNAF 2023

| **Awdurdod lleol** | **Prosiect** | **Cyfalaf** |
|---|---|---:|
| 1. Caerdydd | ADY Glantaf – Bydd y prosiect hwn yn creu 60 o leoedd ychwanegol posibl (30 i ddisgyblion ag anhwylderau yn y sbectrwm awtistig a 30 i ddisgyblion ag anghenion cyfathrebu ac iaith) | £7,850,000 |
| 2. Sir Ddinbych | Ysgol Bro Elwern – Adeiladu ystafell ddosbarth newydd a lle ategol yn yr ysgol | £1,066,546 |
| 3. Sir Ddinbych | Ysgol Bro Cinmeirch – estyniad 2 ystafell ddosbarth | £1,359,164 |
| 4. Sir Ddinbych | Ysgol Brynhyfryd – Mwy o leoedd a darpariaeth drochi | £1,561,924 |
| 5. Sir Ddinbych | Ysgol Tremeirchion – estyniad 2 ystafell ddosbarth | £1,255,021 |
| 6. Sir Ddinbych | Ysgol Henllan – estyniad 1 ystafell ddosbarth | £558,341 |
| 7. Bro Morgannwg | Ysgol Iolo Morganwg – Uned hunangynhwysol i ddarparu lleoliadau trochi cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â chynnig gwersi Cymraeg i oedolion, yn enwedig y rhai sy'n byw o fewn y datblygiad preswyl. | £888,807 |
| **Cyfanswm** | | **£14,539,803** |

**Memorandwm ar Gynigion y Gyllideb Ddrafft ar y Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer 2024-5**

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith – 25 Ionawr 2024**

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth am gynigion y gyllideb Newid Hinsawdd fel y'u hamlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2023. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor hefyd.

## Cyd-destun Strategol

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o gyllidebau ar gyfer y MEG Newid Hinsawdd a gyhoeddwyd yng Nghyllideb ddrafft 2024-25

| CLIMATE CHANGE - SUMMARY | 2023-24 Final Budget Feb 2023 Restated | 2024-25 Indicative Final Budget Feb 2023 Restated | Budget Reductions / Allocations | 2024-25 Changes | 2024-25 Draft Budget December 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Resource | 1,165,687 | 1,187,687 | -78 | 28,398 | 1,216,007 |
| Capital | 1,766,278 | 1,665,393 | 0 | -33,327 | 1,632,066 |
| **Total Resource & Capital** | **2,931,965** | **2,853,080** | **-78** | **-4,929** | **2,848,073** |
| | | | | | |
| **Total AME** | **57,477** | **-60,295** | **0** | **-2,871** | **-63,166** |
| | | | | | |
| **CLIMATE CHANGE - TOTAL BUDGET** | **2,989,442** | **2,792,785** | **-78** | **-7,800** | **2,784,907** |

## Adnoddau

Mae'r newidiadau a wnaed o Gyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 ym mis Chwefror 2023 (wedi'i hailddatgan i gyfrif am newidiadau i'r portffolio) fel a ganlyn:

| **£000** | **Newidiadau 2024/25** |
|---|---|
| Gostyngiadau yn y Gyllideb | (150,078) |
| Dyraniadau'r Gyllideb | 150,000 |
| Trosglwyddiadau o gronfeydd wrth gefn | 28,398 |
| **Cyfanswm** | **28,320** |

Mae cyfanswm dyraniad y gyllideb yn cael ei gynrychioli gan y pwysau sy'n wynebu gwasanaethau rheilffordd Trafnidiaeth Cymru. O'r £150.078m o arbedion sy'n ariannu, neu'n lleihau'r pwysau, dim ond £116.278m sy'n ymwneud â llinellau'r gyllideb sy'n berthnasol i'r pwyllgor hwn, ac maent fel a ganlyn:

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)** | | **£'000** |
|---|---|---|
| 3770 | Ynni Glân | (5,400) |
| 3771 | Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd | (1,900) |
| 1893 | Ynni Morol | (200) |
| 2256 | Gwariant Cynllunio a Rheoleiddio | (100) |
| 2230 | Rheoli Perygl Llifogydd a Chyflenwi Polisi Dŵr | (8,500) |
| 2232 | Cyflenwi Diogelwch Tomenni Glo | (700) |
| 2817 | Diogelu'r Amgylchedd | (250) |
| 2820 | Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | (750) |
| 2825 | Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion | (1,500) |
| 2827 | Coedwigaeth | (2,715) |
| 2451 | Cyfoeth Naturiol Cymru | (24,000) |
| 2190 | Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol | (3,000) |
| 2195 | Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | (1,000) |
| 2832 | Galluogi Adnoddau Naturiol | (3,008) |
| 2875 | Polisi Morol, Tystiolaeth ac Ariannu | (250) |
| 1885 | Gweithrediadau'r Rhwydwaith | (16,855) |
| 1883 | Hedfanaeth | (1,250) |
| 1880 | Cymorth Bysiau | (150) |
| 1895 | Trafnidiaeth Cymru | (39,250) |
| 1890 | Rheilffyrdd: Ategol | (250) |
| 2030 | Teithio Cynaliadwy a Llesol | (5,250) |
| | **Cyfanswm** | **(116,278)** |

Mae nifer o'r newidiadau ariannu a ailbroffiliwyd mewn meysydd lle'r oedd cynnydd wedi'i gynllunio yn y cyllid sylfaenol ar gyfer rhaglen, lle'r oedd rhaglen yn dod i ben a lle mae patrymau gwariant hanesyddol wedi awgrymu y gellid ail-gwmpasu cyllid heb fawr o effaith. Mae newidiadau i amserlenni cyflawni a gynlluniwyd hefyd wedi'u hystyried, yn hytrach na diffyg cyflawni, yn ogystal â dulliau cyflawni eraill.

Mae'r trosglwyddiadau o gronfeydd wrth gefn o ganlyniad i gyfnewid cyfalaf i refeniw gyda'r MEG Materion Gwledig a gymeradwywyd fel un cylchol a weithredwyd yn gyntaf yng Nghyllideb Atodol gyntaf 2023/24 (£23m) a dyraniad ychwanegol o gronfeydd wrth gefn i reoli costau MIM yr A465 (£5.2m). Mae'r newidiadau hyn ar gyfer llinellau'r gyllideb sy'n berthnasol i'r pwyllgor hwn wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol:

| Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) | | £'000 |
|---|---|---|
| 1893 | Ynni Morol | 600 |
| 2451 | Cyfoeth Naturiol Cymru | 17,450 |
| 2190 | Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol | 148 |
| 1884 | Rheoli Asedau'r Rhwydwaith | 5,200 |
| 2030 | Teithio Cynaliadwy a Llesol | 5,000 |
| | **Cyfanswm** | **28,398** |

## Cyfalaf

Mae'r newidiadau a wnaed o Gyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 ym mis Chwefror 2023 (wedi'i hailddatgan i gyfrif am newidiadau i'r portffolio) fel a ganlyn:

| £000 | Newidiadau 2024/25 |
|---|---|
| Gostyngiadau yn y Gyllideb | (37,327) |
| Dyraniad y Gyllideb o Gronfeydd Wrth Gefn | 27,000 |
| Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn | (23,000) |
| **Cyfanswm** | **(33,327)** |

Mae'r trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn yn ymwneud â'r cyfnewid cyfalaf i refeniw gwerth £23m a ddisgrifiwyd yn y tabl Adnoddau cynharach sy'n dangos dyraniad mewn cronfeydd wrth gefn, gyda'r dadansoddiad BEL fel y'i dangosir yn y tabl canlynol:

| Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) | | £'000 |
|---|---|---|
| 2820 | Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | (4,710) |
| 2190 | Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol | (12,400) |
| 2832 | Galluogi Adnoddau Naturiol | (290) |
| 1893 | Ynni Morol | (600) |
| 2030 | Teithio Cynaliadwy a Llesol | (5,000) |
| | **Cyfanswm** | **(23,000)** |

Mae'r dyraniadau o gronfeydd wrth gefn gwerth £27m yn cynrychioli dyraniadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol, gyda £20m yn ymwneud â llinellau cyllidebol sy'n berthnasol i'r pwyllgor hwn, fel a ganlyn:

| Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) | | £'000 |
|---|---|---|
| 2809 | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 20,000 |

**Gwariant Ataliol**

Mae'r cynigion cyllideb hyn yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i ddiogelu a blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol hyd y bo modd. Mae gwerth am arian ac eglurder ynghylch sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithiol yn ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau. Unwaith y bydd gwariant wedi'i gynllunio yn unol â blaenoriaethau, mae

gennym brosesau sydd wedi hen ennill eu plwyf ar waith er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd.

Defnyddir metrigau penodol i werthuso rhaglenni cymorth, fel y nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, er enghraifft.

Cyfeirir at yr asesiad a'r gwerth am arian maes o law yn y cwestiynau penodol.

**Llunio polisïau sy’n seiliedig ar dystiolaeth**

Mae tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau yn sail i’n penderfyniadau ariannol megis ymchwil a gyhoeddwyd, ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwerthusiadau polisi blaenorol ac ystadegau. Mae hyn wedi'i ymgorffori yn y broses o wneud penderfyniadau, gyda rhai enghreifftiau fel a ganlyn:

Mae tystiolaeth yn parhau i gael ei chasglu ar effeithiau amgylcheddol cynhyrchion untro problemus sydd wedi’u gwneud o blastig neu sy'n cynnwys plastig. Mae hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn dau ymgynghoriad sy’n cwmpasu’r DU gyfan ar gynigion i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd neu gyfyngu ar y defnydd o gadachau gwlyb sy'n cynnwys plastig ac e-sigaréts/fêps untro. Mae'r ymarferion hyn wedi caniatáu i Lywodraeth Cymru gysylltu ag ymchwil ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar lefel y DU. Bwriad y gwaith hwn yw parhau i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu i ddeddfu i ddiddymu eitemau plastig untro sy'n cael eu taflu'n aml.

Yn sail i weithrediad ehangach y Strategaeth Economi Gylchol mae ystod o dystiolaeth, gan gynnwys, er enghraifft, dadansoddiad cyfansoddiadol o ffrydiau gwastraff i ddeall meysydd lle gellid gwella ailgylchu neu atal gwastraff (cyhoeddwyd Dadansoddiad Cyfansoddiadol o Wastraff Trefol yng Nghymru (2022) ym mis Gorffennaf 2023); data ar berfformiad ac effeithlonrwydd gweithrediadau ailgylchu a rheoli gwastraff Awdurdodau Lleol, gan gynnwys mesur effaith carbon ein hailgylchu (cyhoeddwyd data rheoli gwastraff trefol awdurdodau lleol rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 ar 7 Rhagfyr 2023); a thystiolaeth i gefnogi gwell effeithlonrwydd o ran adnoddau ymhellach i fyny'r hierarchaeth wastraff (er enghraifft, arolygon i roi darlun o ymddygiadau’n ymwneud ag ailddefnyddio ac atgyweirio a gwastraff bwyd).

Mae ein dull o gyflawni Cymru Sero Net yn canolbwyntio ar sicrhau pontio teg. Er mwyn cryfhau ein dull gweithredu, gwnaethom gyhoeddi cais am dystiolaeth ar ddiwedd 2022. Roeddem yn falch ein bod wedi cael 117 o ymatebion gan ystod eang o sefydliadau o fyd busnes, y byd academaidd, sefydliadau'r trydydd sector, undebau llafur a grwpiau cymunedol. Cyhoeddwyd crynodeb o'r 117 o ymatebion ym mis Hydref ac mae'r wybodaeth wedi helpu i lywio dull Llywodraeth Cymru o sicrhau Pontio Teg. Cyhoeddwyd ymgynghoriad ar ein Fframwaith Pontio Teg ar 5 Rhagfyr 2023.

Un o brif flaenoriaethau Cymru sero net fu datblygu strategaeth wres i nodi sut y bydd Cymru'n datgarboneiddio gwres adeiladau domestig a diwydiannol yng Nghymru a fydd yn hanfodol i gyflawni sero net. Lansiwyd ein hymgynghoriad ar y Strategaeth yn yr haf a daeth i ben ar 8 Tachwedd. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw'n cael eu dadansoddi a'u cyhoeddi mewn strategaeth derfynol yn gynnar yn 2024.

Mae ein gwaith ar gynllunio ynni wedi cynhyrchu sylfaen dystiolaeth ronynnog yn nwylo awdurdodau lleol a fydd o gymorth i flaenoriaethu a datblygu prosiectau ledled Cymru a all gyflawni manteision o ran yr hinsawdd a’r economi. Gall y dystiolaeth hon gefnogi datblygu a chyflawni polisi ar draws meysydd gwres, trafnidiaeth a'r amgylchedd adeiledig a gall ysgogi buddsoddiad allanol mewn rhwydweithiau ynni.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn diweddaru ac yn cyhoeddi ar ein rhan ddata monitro a gwerthuso ar gyfer Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a fydd yn cael ei ddefnyddio i olrhain cynnydd yn erbyn cyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau a nodi unrhyw feysydd lle gallai fod angen ymyriadau pellach i gyflawni ein targedau. Mae hyn yn rhan o'r gwaith ehangach y mae'r uned ddadansoddi yn Trafnidiaeth Cymru yn ei wneud ar ein rhan i gefnogi asesu polisïau a chynlluniau i gyflawni uchelgeisiau a dyletswyddau statudol Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio prosesau casglu a chyfosod data pwrpasol a modelau trafnidiaeth Cymru gyfan.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae fy mharatoadau ar gyfer y gyllideb ddrafft yn dangos sut rydw i wedi ceisio adlewyrchu fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth bennu ein blaenoriaethau gwario. Aethom ati i adolygu tueddiadau cyfredol a rhagamcaniadau y dyfodol a'u heffeithiau posibl yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Gwnaethpwyd hyn er mwyn sicrhau, hyd y bo modd, nad yw ymatebion tymor byr yn cael effeithiau niweidiol yn y tymor hwy.

Mae'r Strategaeth Economi Gylchol, *Mwy nag Ailgylchu*, wedi cael ei chydnabod fel strategaeth enghreifftiol o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y ffordd mae nodau llesiant a ffyrdd o weithio cenedlaethau'r dyfodol yn sail i'r camau gweithredu a'u gweithrediad. Er enghraifft, ar waith i gefnogi ailddosbarthu bwyd dros ben er budd teuluoedd a chymunedau, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn tlodi; ac mae'r rhaglenni a'r mentrau ailddefnyddio ac atgyweirio ledled Cymru yn cefnogi pobl i fyw'n fwy cynaliadwy a lleihau costau yn yr argyfwng costau byw, gan ddarparu cyfleoedd i ennill sgiliau newydd hefyd.

**Asesiad cydraddoldeb, y Gymraeg a hawliau plant**

Fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, rydym wedi arfer dull integredig mewn perthynas ag asesiadau effaith, yn ogystal ag ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n parhau i fod yn sbardun pwysig sy'n arwain ein hystyriaethau Cyllidebol.

Mae ein Cyllideb yn nodi effeithiau ein penderfyniadau gwario, gan gynnwys tynnu sylw at benderfyniadau gwario sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ein rhanddeiliaid. Ategir hyn gan yr Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA), sy'n amlinellu'r dystiolaeth a'r effeithiau strategol sydd wedi cefnogi ein penderfyniadau gwario.

## Strwythur y Gyllideb

### Crynodeb o Ddyraniadau a Newidiadau i'r Gyllideb

**Dadansoddiad o gyllideb ddrafft 2024-25 yn ôl Maes Rhaglenni Gwariant (SPA), Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL), refeniw a chyfalaf, ynghyd â dyraniadau Cyllideb Derfynol 2023-24 fel cymhariaeth. Disgrifiad naratif o'r meysydd polisi sy'n cael eu hariannu drwy bob BEL.**

Mae Atodiad A yn darparu'r tablau BEL llawn ar gyfer y portffolio Newid Hinsawdd fel y'u cyhoeddwyd fel rhan o'r gyllideb ddrafft.

## Ymatebion i Gwestiynau Penodol

### Deddfwriaeth

Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

Mae gwaith yn parhau ar gyflawni ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i ddeddfu i ddiddymu eitemau plastig untro sy'n cael eu taflu'n aml. Ar 30 Hydref 2023, dechreuodd cam cyntaf cychwyn y cynhyrchion a restrir yn Nhabl 1, Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (y Ddeddf). Bydd y gwaith yn parhau yn ystod 2024/25 i gychwyn y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau ar y tri chynnyrch sy'n weddill (bagiau plastig, cynhyrchion wedi'u gwneud o blastig ocso-ddiraddadwy a chaeadau cwpanau a chynwysyddion bwyd polystyren). Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi dau gynnyrch blaenoriaeth i'w hystyried ymhellach, gydag ymgynghoriad DU gyfan ar y cyd eisoes wedi'i gynnal mewn perthynas â chadachau gwlyb sy'n cynnwys plastig. Bydd tystiolaeth hefyd yn cael ei cheisio mewn perthynas â chydau saws. Bydd gwaith deddfwriaethol ehangach hefyd yn cael ei wneud yn ystod 2024/25 mewn perthynas â fêps untro tafladwy.

Datblygu deddfwriaeth i gefnogi Cynllun Dychwelyd Ernes a Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr

Mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â datblygu'r ddeddfwriaeth ar gyfer cynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr ar gyfer pecynwaith (EPR) a'r cynllun dychwelyd ernes ar gyfer cynwysyddion diod (DRS). Mae'r diwygiadau EPR yn cael eu datblygu ar draws y DU, gyda mewnbwn helaeth gan swyddogion polisi a gwasanaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Bydd y rheoliadau DRS yn cael eu gwneud ar sail Cymru yn unig. (gweler rhagor o fanylion isod – mewn ymateb i gais yn ymwneud yn benodol â datblygu a chyflawni'r cynlluniau hyn)

Cyflwyno Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle

Mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle a ddaw i rym ar 6 Ebrill 2024, gan gefnogi gweithgareddau sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu, rheoleiddio a monitro'r gofynion newydd yn llwyddiannus. Bydd tystiolaeth hefyd yn cael ei chasglu a'i hadolygu mewn perthynas â'r bwriad o gyflwyno yn y dyfodol y gofyniad i wahanu deunyddiau ychwanegol megis tecstilau, cyfarpar trydan bach a phlastigau hyblyg ar gyfer eu hailgylchu.

Y Bil Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni Nas Defnyddir) arfaethedig;

Mae'r setliad cyllideb refeniw diogelwch tomenni glo yn cynnwys costau ar gyfer cwmpasu a dylunio cofrestr asedau genedlaethol, ac ar gyfer recriwtio'r Bwrdd ar gyfer yr awdurdod goruchwylio newydd, gan gynnwys y costau rhedeg cychwynnol yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Er na ragwelir y bydd y corff yn mynd yn fyw yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae'r gyllideb ar gyfer 2024-25 hefyd yn cynnwys arian i dîm Llywodraeth Cymru sefydlu'r corff cyhoeddus newydd.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn bron â'i gwblhau yn ôl yr angen cyn cyflwyno'r Bil Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni Nas Defnyddir), a fydd yn darparu costau manwl ar gyfer sefydlu'r corff cyhoeddus newydd (gan gynnwys staffio) a gweithredu'r drefn newydd. Mae tybiaethau megis chwyddiant cyflog a chodiadau cyflog wedi'u cynnwys yn y gwaith hwn.

Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Cafodd y Bil ei basio gan y Senedd ddiwedd mis Tachwedd. Ar hyn o bryd, mae'n disgwyl Cydsyniad Brenhinol. Mae ei ddarpariaethau'n cynnwys: cryfhau pwerau Gweinidogion Cymru i osod targedau ansawdd aer; gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer a ffyrdd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer; cryfhau'r

fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoli ansawdd aer lleol a'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol; gwella deddfwriaeth rheoli mwg; ymestyn pwerau presennol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chodi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd a cherbydau'n segura, a gosod dyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth genedlaethol ar seinweddau.

Bydd Cynllun Sŵn a Seinwedd Cymru 2023-2028, a gyhoeddwyd ar 4 Rhagfyr 2023, yn cyflawni rhwymedigaeth Gweinidogion Cymru o dan y Bil i baratoi a chyhoeddi strategaeth sy'n cynnwys eu polisïau mewn perthynas ag asesu, rheoli a dylunio seinweddau yng Nghymru. Yng ngoleuni'r cyfyngiadau a'r pwysau presennol ar gyllid cyhoeddus, nid yw'r strategaeth genedlaethol gyntaf hon ar seinweddau yn cyhoeddi gwariant newydd sylweddol gan y llywodraeth nac yn neilltuo camau gweithredu costus i gyrff cyhoeddus eraill. Yn hytrach, mae'n ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wneud penderfyniadau gwell a mwy integredig ar draws yr holl feysydd polisi a sefydliadau perthnasol, er mwyn cyflawni seinweddau priodol yn y dyfodol.

Cyhoeddwyd Memorandwm Esboniadol, gan gynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol, pan gyflwynwyd y Bil ac mae wedi'i ddiweddaru drwy gydol y broses graffu. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi costau a buddion amcangyfrifedig darpariaethau'r Bil.

Mae'r Bil wedi cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod heriol yn ariannol. Mae'r cyd-destun cyllidol heriol hwn yn debygol o barhau. Bydd cyllid penodol yn cefnogi gweithredu'r Bil, gan gynnwys ar gyfer y ddyletswydd newydd sy'n ymwneud â hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer. Fel y nodwyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd wrth graffu ar y Bil, bydd angen i ni wneud penderfyniadau pwysig sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch graddfa ac amseru gweithredu rhywfaint o'r is-ddeddfwriaeth sy'n codi o ddarpariaethau'r Bil. Er enghraifft, ar gyfer y targedau ansawdd aer newydd a'r trefniadau monitro cysylltiedig, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys ystodau o gostau. Bydd angen gwneud penderfyniadau yng nghyd-destun cynlluniau gwario ar gyfer cylchoedd cyllideb y dyfodol, gan hefyd gydymffurfio â'r terfynau amser a nodir yn y Bil ar gyfer gwneud rheoliadau penodol.

Bil ar Lywodraethu Amgylcheddol a Thargedau Bioamrywiaeth

Mae disgwyl i bapur gwyn gael ei lansio ar gyfer y Bil ar Lywodraethu Amgylcheddol a Thargedau Bioamrywiaeth ym mis Ionawr 2024. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i gyd-fynd â'r papur gwyn. Bydd hwn yn darparu amcangyfrif cychwynnol o gostau a fydd yn cynnwys sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd i Gymru, yn ogystal â'r goblygiadau ar gyfer gosod targedau statudol newydd ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus ehangach Cymru. Ni ddisgwylir effaith ariannol lawn y cynigion hyn tan ar ôl i'r Bil gael ei basio gan y Senedd, a fyddai'n debygol o olygu blwyddyn ariannol 2026-27

## Yr Amgylchedd

**Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur, gan gynnwys rheoli a monitro'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol.**

Bydd y buddsoddiad hwn yn parhau i gyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni blaenoriaethau a chamau gweithredu allweddol a nodwyd yn ein Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP - https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-adfer-natur) sy'n ymwneud â diogelu ein cynefinoedd a'n rhywogaethau o bwys a chreu rhwydweithiau ecolegol cydnerth. Mae'r cynllun hwn yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd i gyd-fynd â'r targedau a'r nodau a nodir yn y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang newydd, yn ogystal â diffinio'r camau sydd eu hangen i gyflawni ein targedau statudol domestig arfaethedig.

Bydd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol yn elwa ar gyllid drwy barhau i ddarparu ein Rhaglen Rhwydweithiau Natur (NNP) yn 24/25, gan helpu i gyflawni ein targed 30x30. Mae'n allweddol i wella cyflwr a chysylltedd ein safleoedd morol a daearol gwarchodedig, gan greu rhwydweithiau ecolegol gwydn a fydd yn caniatáu i'n cynefinoedd a'n rhywogaethau mwyaf bregus ffynnu. Bydd hefyd yn helpu i gyflwyno natur i ble bynnag mae pobl yn byw drwy ymgysylltu â chymunedau lleol, nid yn unig er budd ein hamgylchedd ond hefyd er budd ein hiechyd a'n llesiant. Bydd monitro a gwerthuso cadarn yn rhan annatod o'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur.

**Rhaglen Rhwydweithiau Natur, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawnogydd a Natur am Byth.**

Rhaglen Rhwydweithiau Natur

Rhaglen Rhwydweithiau Natur (NNP) – Bydd y dyraniad hwn yn caniatáu parhau i gyflawni'r NNP, gan adeiladu ar gyflawni Cytundebau Rheoli Tir gan CNC a'r Gronfa Rhwydweithiau Natur gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol sy'n ymgorffori'r argymhellion a'r camau gweithredu sy'n deillio o'r archwiliad dwfn bioamrywiaeth.

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Ar hyn o bryd, mae'r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn ei phedwaredd flwyddyn, gyda chyllid dangosol o £35.4M o gyfalaf a £8.9m o refeniw wedi'i ddyrannu am ddwy flynedd arall. Mae £19.7m o gyfalaf a £2.95m o refeniw wedi'i ddyrannu ar ôl adolygu'r gyllideb sy'n cynnwys gostyngiad o £750k mewn refeniw a £4.71M mewn cyfalaf ar gyfer 2024-25. Hyd yn oed gyda'r gostyngiadau hyn, mae lefelau cyllid wedi cynyddu'n gymedrol ar gyfer y rhaglen dros y 2 flynedd nesaf i gefnogi ehangu cynlluniau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn well o fewn cymunedau ac i helpu i ariannu mwy o brosiectau cyfalaf ar lawr gwlad. Un effaith nodedig yr ail-flaenoriaethu cyllid yw oedi'r cynllun Chwalu Rhwystrau a reolir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Noder nad yw'r ffigurau hyn yn cynnwys elfennau Bioamrywiaeth a Morol ac Arfordirol sy'n rhan o ddarpariaeth y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ond a ariennir o dan Linellau Gwariant yn y Gyllideb eraill.

Mae'r rhaglen wedi bod yn llwyddiannus iawn yn ei thair blynedd gyntaf, gyda'r cyflawniadau wedi'u crynhoi isod. Cyfanswm gwariant y rhaglen y llynedd oedd £11.4m.

Tabl 1 – Prif Allbynnau ar gyfer Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2020-2023.

| Prif Allbwn | Cyfansymiau 2020/21 - 2022/23 |
|---|---|
| Mannau Gwyrdd wedi'u creu neu eu gwella'n sylweddol | 1951 |
| Dolydd ac ymylon ffordd bywyd gwyllt gydag arferion torri gwair newydd | 730 |
| Perllannau cymunedol wedi'u creu | 407 |
| Prosiectau tyfu cymunedol | 521 |
| Nifer y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan | 12343 |
| Coed wedi'u plannu (coetir trefol, trwchus bach, ymylon ffordd, parcdir) | Tua 210 hectar |

Rhagwelir bellach y bydd pob un o fesurau targed y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 'creu Mannau Gwyrdd' yn cael eu cyflawni gan Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn unig, gyda llawer yn cael eu rhagori arnynt erbyn diwedd y rhaglen. O arwyddocâd arbennig i Fioamrywiaeth, mae'r rhaglen wedi ariannu newidiadau Cymru gyfan i arferion torri gwair mewn mannau gwyrdd cyhoeddus ac ar ymylon ffyrdd. Erbyn hyn, mae momentwm i'r newid ymddygiad hwn, ac mae'n bwysig bod hynny'n parhau.

Mae'r gwaith o gyflawni'r rhaglen yn mynd rhagddo'n llawn eleni, gyda'r holl gynlluniau bellach ar waith, ac eisoes wedi ymrwymo £17.1m i gyflawni'r rhaglen eleni. Mae Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn o ran cyflawni'r rhaglen bresennol, ond nid yw bellach yn hyfyw uwchraddio'r rhaglen yn ôl y disgwyl oherwydd ymarfer adolygu'r gyllideb diweddar sydd wedi arwain at ail-flaenoriaethu cronfeydd sydd heb eu hymrwymo. Mae tua £480k o gyllid Refeniw (13% o'r gyllideb) ac £1M o gyllid Cyfalaf wedi'i 'ryddhau' o'r BEL i'r MEG ehangach. Y cynlluniau allweddol sydd wedi cael eu heffeithio yw Cynllun Treftadaeth y Loteri Genedlaethol sy'n rheoli cynlluniau Grant Cyfalaf a Chwalu Rhwystrau

Mae natur hyblyg y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn ein galluogi i addasu'n gyflym i amgylchiadau sy'n newid. Fel y dangoswyd gan ba mor gyflym y cafodd fy nghyhoeddiad ar gyfer y £3.3M ychwanegol o gyllid ar gyfer camau gweithredu Bioamrywiaeth ei gynnwys yng Nghynllun Partneriaeth Natur Lleol Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ar gyfer y contract rheoli cynllun sydd newydd ei gaffael.

Gellir addasu'r rhaglen hon i waith trawsadrannol. Cafodd y cynllun peilot blaenorol yn 2022/23 ar gyfer cynyddu Capasiti Morol ac Arfordirol (*Cynllun Partneriaeth Morol ac Arfordirol)* ei hwyluso drwy'r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Mae llwyddiant y cynllun peilot wedi arwain at ariannu a chaffael cynllun annibynnol fel cynllun cydweithredol trawsadrannol (*Capasiti'r Môr a'r Arfordir*) ar gyfer 2023-2025.

<u>Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd</u>
Dadansoddiad o dystiolaeth sy'n ymwneud â thargedau sero net yw'r sail ar gyfer y cynnydd yn y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd sy'n hanfodol i ddiwallu anghenion poblogaeth Cymru ac sydd wedi llywio'r cynigion gwariant hyn.

<u>Natur am Byth</u>
Natur am Byth – Bydd y dyraniad hwn yn parhau i ddarparu'r cyllid cyfatebol sydd ei angen i gyflawni'r prosiect pedair blynedd hwn a arweinir gan CNC. Nod y prosiect yw mynd i'r afael â dirywiad y rhywogaethau sydd dan y bygythiad mwyaf yng Nghymru, gan weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid sy'n helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur.

**Canlyniadau archwiliad dwfn Llywodraeth Cymru i fioamrywiaeth a'r ymrwymiadau disgwyliedig a wnaed yn COP15.**

Mynychodd y Gweinidog Newid Hinsawdd COP15 ym mis Rhagfyr 2022. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu a chyflwyno deddfwriaeth i osod targedau natur yn y gyfraith yng Nghymru i sbarduno ein camau gweithredu yn y dyfodol ac rydym yn gweithio tuag at wneud hynny. Bydd angen cyllid i gefnogi datblygiad technegol y targedau hyn i'w gosod mewn is-ddeddfwriaeth (fel yr amlinellir uchod). Mae ein strategaethau allweddol, megis y Polisi Adnoddau Naturiol a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur, yn cael eu diweddaru yn barod ar gyfer COP16 ym mis Rhagfyr 2024 i adlewyrchu'r camau brys sydd eu hangen i gyflawni ein hymrwymiadau yn erbyn y targedau byd-eang i wrthdroi dirywiad natur.

Arweiniodd yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth at ystod o argymhellion gyda'r nod o sbarduno camau y gallwn eu cymryd ar y cyd ar unwaith i gefnogi cyflawni nod '30x30' y CBD yn

ystyrlon, yn ogystal â mynd i'r afael â'r argyfwng natur. Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r argymhellion a'r camau gweithredu. Bydd cymryd camau effeithiol i fynd i'r afael â'r argyfwng natur erbyn 2030 yn gofyn am gyllid digonol – mae cyllideb wedi'i dyrannu i gefnogi datblygiad model cyllid arloesol yn y dyfodol. Dyrannwyd cyllid i gynyddu cyflawniad y Rhaglen Mawndiroedd ac i ddatblygu gwaith y Partneriaethau Natur Lleol

**Cyflwyno'r Cynllun Aer Glân.**

Nod y Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach yw gwella ansawdd aer a lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd pobl, ar fioamrywiaeth, ar ein heconomi. Mae'r Cynllun yn pennu llwybr ar gyfer sicrhau aer glanach, wedi'i strwythuro o gwmpas pedair thema graidd:-

- Pobl – diogelu iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol
- Yr amgylchedd - Cymryd camau i gefnogi ein hamgylchedd naturiol, ein hecosystemau a'n bioamrywiaeth
- Llewyrch - Gweithio gyda diwydiant i leihau allyriadau, gan helpu i greu Cymru lanach a mwy llewyrchus
- Lle - Creu lleoedd cynaliadwy drwy wella prosesau cynllunio, seilwaith a thrafnidiaeth

Rydym yn ymgymryd ag ystod eang o waith gydag adrannau'r Llywodraeth, gwahanol sectorau o'r economi a'r cyhoedd i fwrw ymlaen â'r camau uchelgeisiol yn y Cynllun. Bydd cyllid yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei ymrwymiadau, gan gynnwys camau i sicrhau cydymffurfiaeth frys â therfynau $NO_2$ statudol, ehangu ein gallu i ymateb i ddigwyddiadau, a gwaith Rheoli Ansawdd Aer Lleol (sicrhau bod y drefn yn canolbwyntio ar iechyd a'i bod yn cymryd ymagwedd ataliol). Bydd mesurau yn y Cynllun hefyd yn helpu i gyflawni ymrwymiadau lleihau allyriadau'r DU ar gyfer llygryddion erbyn 2030, a bydd yn cefnogi ein nodau datgarboneiddio

**Gweithredu'r Strategaeth Coetiroedd i Gymru, gan gynnwys Rhaglen y Goedwig Genedlaethol**

Mae'r gyllideb ddrafft yn dyrannu refeniw [£6.4m] a chyfalaf [£8.3m] ar gyfer coedwigaeth. Mae gostyngiad o £2.7m mewn refeniw ac £1m mewn cyfalaf yn erbyn cynlluniau blaenorol. Cyflawnwyd yr ail-flaenoriaethu hwn drwy ail-broffilio gwaith wedi'i gynllunio ar fynediad a llwybrau cyhoeddus yn y Goedwig Genedlaethol, gan flaenoriaethu gweithgareddau y mae angen eu cynnal nawr ac oedi'r rhai a all ddechrau yn y blynyddoedd i ddod.
Bydd y gyllideb yn parhau i gefnogi datblygiad parhaus y Goedwig Genedlaethol, a byddwn yn defnyddio'r broses arafach o gyflwyno gwaith mynediad i hwyluso mwy o goetir i ymuno â'r rhaglen. Byddwn yn parhau i ddarparu cyllid drwy'r Grant Buddsoddi mewn Coetir i helpu i greu coetiroedd newydd a gwella'r rhai presennol.

Bydd cyllid coedwigaeth hefyd yn cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i greu Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren a swyddogaethau coedwigaeth trawsffiniol megis iechyd coed a Chod Carbon Coetiroedd.

Roedd £32m dros dair blynedd wedi'i ymrwymo i'r cynlluniau creu coetir newydd a lansiwyd ym mis Awst 2022, gyda chymorth tîm gwirio coetir yn CNC i helpu i sicrhau, lle mae plannu'n cael ei ariannu, ei fod wedi'i gynllunio'n dda ac yn briodol.

**Gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, yn cynnwys y defnydd a wneir o'r Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol.**

Mae’r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn nodi sut y byddwn yn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol dros y degawd nesaf gyda’r amcanion i flaenoriaethu buddsoddiad, gwella ein dealltwriaeth o risg, meithrin cydnerthedd, atal mwy o bobl rhag dod i gysylltiad â risg ac ymateb i ddigwyddiadau.

Aeth CNC ati yn ddiweddar i gyflwyno adroddiad Adran 18 i'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Lluniwyd yr adroddiad ffeithiol o wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdodau Rheoli Risg sy'n gweithredu yng Nghymru, ac mae'n amlinellu'r cynnydd yn erbyn y 24 mesur:

- Mae 13 mesur eisoes wedi'u cwblhau, er bod 7 o'r rheini'n gofyn am i weithgareddau parhaus cysylltiedig barhau a 4 yn gofyn am ystyried y camau nesaf. Mae 9 ar y gweill, gyda 5 o'r mesurau hynny y tu ôl i'r targed, ac mae 2 yn dal heb ddechrau neu ar stop.

Mae'r adroddiad yn dangos bod cynnydd da wedi'i wneud o ran cyflawni'r mesurau ac, o ganlyniad, yr amcanion o fewn y Strategaeth. Fodd bynnag, mae sawl maes gwaith yn parhau i fod ar y gweill neu heb eu dechrau eto ac mae'n amlwg bod gwaith pellach allweddol i'w gwblhau yn y flwyddyn i ddod.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ariannu amddiffyniad llifogydd ychwanegol ar gyfer mwy na 45,000 o gartrefi yn ystod tymor y Senedd hon. Y llynedd, gwnaethom gytuno ar gyllideb gyfalaf tair blynedd gwerth £102 miliwn i'n galluogi i gynllunio ein buddsoddiad yn well rhwng 2022/3 a 2024/5 i gefnogi cymunedau sy'n wynebu risg. Eleni, yn 2023/4, gwnaethom ddyrannu £75 miliwn o gyllid cyfalaf a refeniw ar gyfer y Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd, ein buddsoddiad uchaf mewn un flwyddyn hyd yma.

Bydd ein Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol (CRMP) yn dod i ben eleni, gyda gwaith adeiladu'r 15 cynllun i ddechrau erbyn mis Mawrth 2024. Bydd y cynllun yn buddsoddi dros £200m mewn seilwaith arfordirol allweddol ac yn lleihau'r perygl llifogydd a/neu erydu arfordirol i dros 15,200 o gartrefi a busnesau. Bydd hyn yn helpu i gyflawni bron i 35% o ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ariannu amddiffyniad llifogydd ychwanegol ar gyfer mwy na 45,000 o gartrefi.

**Ansawdd Dŵr, gan gynnwys cymorth ar gyfer y Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd**

Mae ansawdd dŵr o dan bwysau o fygythiadau amrywiol. Priodolir prif achosion methiant o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yng Nghymru i'r sector amaeth, mwyngloddiau a chwareli (gan gynnwys llygredd o hen fwyngloddiau metel), y sector trafnidiaeth, llygredd trefol a gollyngiadau'r diwydiant dŵr. Mae'n angenrheidiol bod dull traws-sector integredig yn cael ei ddatblygu a'i weithredu ledled Cymru er mwyn gwella ansawdd dŵr yn y tymor hir. Gan gydnabod yr holl bwysau, rydym wedi ymrwymo i ddarparu dros £40 miliwn o gyllid ychwanegol rhwng 2022-23 a 2024-25 i fynd i'r afael â heriau ansawdd dŵr ledled Cymru. Yn 2023-4, rydym hefyd wedi darparu cyllid grant cyfalaf o £15 miliwn i CNC i wella cydymffurfiaeth â Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 a deddfwriaeth gysylltiedig a fydd yn sicrhau gwelliannau mewn ansawdd dŵr.

Un o'r ymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu yw dechrau dynodi safleoedd dyfroedd ymdrochi mewndirol, yn dilyn llwyddiannau ein dyfroedd ymdrochi arfordirol. Rydym wedi rhoi hwb i'r capasiti yn CNC drwy ariannu cynghorydd Polisi Ansawdd Dŵr pwrpasol i arwain ar weithredu'r ymrwymiad hwn i ddechrau dynodi dyfroedd ymdrochi mewndirol.

Eleni, rydym hefyd wedi darparu hyd at £1.1 miliwn o gyllid i'n Byrddau Rheoli Maethynnau i gefnogi'r gwaith o gyflawni camau blaenoriaeth mewn dalgylchoedd afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) sy'n methu, gan gynyddu cyfanswm ein cyfraniad hyd yma i £1.5 miliwn. Mae'r gwaith hwn yn rhan o broses ehangach yr Uwchgynhadledd Llygredd Afonydd gyda'r holl sectorau allweddol, sydd â'r nod o sbarduno ein dull o fynd i'r afael â llygredd ffosfforws mewn afonydd ACA sy'n methu yng Nghymru. Roedd ein huwchgynhadledd ddiweddaraf ar 30 Tachwedd a bydd yr Uwchgynhadledd nesaf yn cael ei chynnal gan Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Mawrth 2024.

Yn 2022, sefydlwyd y Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd i werthuso'r dull presennol o reoli a rheoleiddio gorlifoedd yng Nghymru ac i nodi cynlluniau manwl i sbarduno newid a gwelliant cyflym. Mae Llywodraeth Cymru yn aelodau ochr yn ochr â Cyfoeth Naturiol Cymru, y cwmnïau dŵr, Ofwat a rhanddeiliaid y diwydiant sy'n darparu her annibynnol o safbwynt rhanddeiliaid a defnyddwyr. Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd y Tasglu yr Adroddiad Tystiolaeth ar Orlifoedd Storm ar gyfer Cymru (SOEfW) o dan ei Gynllun Gweithredu Rheoleiddio Amgylcheddol ar gyfer Gorlifoedd Storm. Nid yw'r adroddiad yn cynnwys argymhellion; yn hytrach, mae'n cymharu costau a manteision gwahanol opsiynau polisi wrth reoleiddio gorlifoedd storm cyfun (CSOs). Mae'r Tasglu yn ystyried yn ofalus yr opsiynau a'u goblygiadau cost i ddatblygu rhaglen gyraeddadwy a fforddiadwy i atal niwed ecolegol yn nyfrffyrdd Cymru.

**Datblygu trefniadau llywodraethu amgylcheddol parhaol, a gwaith Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd.**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio tuag at sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru yn ystod tymor y Senedd hon. Mae cyllideb o £480,000 ar gael ar gyfer y gwaith hwn.

Mae'r costau ar gyfer Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd yn deillio o gyllideb o £45,000 sydd wedi'i neilltuo ar gyfer swyddogaethau'r IEPAW. Yn flaenorol, roedd y gyllideb hon yn rhan o BEL Ymadael â'r UE ond bydd yn cael ei throsglwyddo i'r MEG Newid Hinsawdd o'r ail gyllideb atodol ar gyfer 2022-23 ac fel rhan o'r broses Gyllideb ar gyfer blynyddoedd i ddod. Mae'r mesurau interim hyn yn darparu ffordd i bobl godi pryderon ar sut y gweithredir cyfraith amgylcheddol hyd nes y bydd y mesurau parhaol ar waith.

**Cyflwyno Cynllun Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC): Manylion dyraniadau'r gyllideb ar gyfer CNC, gan gynnwys:**

Dyrennir y gyllideb ar gyfer ariannu prosiectau llwyddiannus a ddyfernir yn ystod yr alwad am gamau gweithredu arfaethedig, gan gyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion a nodir yn y fframwaith rheoli rhwydwaith MPA ar gyfer Cymru. Disgwylir i ddyraniadau gyfateb i ddyfarniadau o flynyddoedd blaenorol a deillio o'r cyllidebau Ecosystemau Morol a Bioamrywiaeth pan fyddant wedi'u cwblhau. Ar ben hynny, disgwylir i'r gyllideb gael ei dyrannu ar gyfer camau gweithredu sy'n deillio o gyhoeddi Strategaeth Cadwraeth Adar Môr i Gymru y flwyddyn nesaf.

**Sut mae datblygiad y gyllideb ddrafft wedi cael ei lywio a'i ddylanwadu gan unrhyw ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad sylfaenol, a chyllid ar gyfer y Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr**

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o fy mwriad i gau bwlch cyllido CNC yn barhaol.

Ar ôl cael fy llywio gan ganfyddiadau adolygiad sylfaenol CNC ac ail-broffilio cyllidebau o fewn fy MEG, roeddwn yn falch o hysbysu'r Pwyllgor ym mis Ebrill fy mod wedi cytuno i roi £18.2m pellach i CNC yn 2023-24, a oedd yn cynnwys £950K yn caniatáu i CNC gyflawni argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o Drwyddedu Morol.

Fy mwriad i, fel rhan o ymarfer cyllideb ddrafft 2024-25, oedd gwneud y cynnydd o £18.2m yn rhan sylfaenol o ddyraniad cyllideb CNC. Mae angen gwneud penderfyniadau anodd o hyd, a gwneir y rhain mewn ymgynghoriad â CNC.

Mae fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda CNC i sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn gymesur â'u hanghenion ac yn cyd-fynd â'u cyfrifoldebau statudol a'u hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu. Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan CNC yr hyblygrwydd mwyaf posibl wrth ddyrannu ei adnoddau a, lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol, dileu rhwystrau sy'n ei atal rhag gwneud hynny.

**Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICW): Manylion dyraniadau'r gyllideb ar gyfer NICW**

Ym mis Hydref, cyhoeddodd NICW ei adroddiad ar ynni adnewyddadwy. Roedd hyn yn golygu uno tri darn o waith: edrych ar y tensiynau sy'n deillio o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy; y ffordd orau o gipio gwerth ynni adnewyddadwy i Gymru; a sut y gallem fod yn ymgysylltu â chymunedau ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy yn y dyfodol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 11 argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru rydym yn eu hystyried ar hyn o bryd. Arweiniwyd y gwaith hwn gan y Comisiynwyr Aleen Khan a Nick Tune.

Mae’r Cytundeb Cydweithio rhwng Llafur a Phlaid Cymru yn ymrwymo’r Comisiwn Seilwaith i asesu sut y gellir lleihau’r tebygolrwydd cenedlaethol o lifogydd mewn cartrefi, busnesau a seilwaith erbyn 2050.

Mae gwaith ymchwil ar y gweill ar hyn o bryd i lywio'r prosiect. Mae'r pedair ffrwd waith yn ymwneud â datblygu gweledigaeth ar gyfer y gallu i wrthsefyll llifogydd ar gyfer 2050; archwilio effeithiolrwydd cynlluniau dalgylch; adnoddau; a chynllunio defnydd tir. Mae Grŵp Cynghori ar Brosiect o arbenigwyr technegol yn helpu i lywio'r gwaith hwn. Mae'r Comisiynwyr Eurgain Powell ac Eluned Parrott yn arwain ar y gwaith hwn ac mae disgwyl i adroddiad gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn hydref 2024.

Mae'r gwaith cwmpasu ar gyfer prosiect arfaethedig 2024/25 ar gyfathrebu bygythiad y Newid yn yr Hinsawdd i gymunedau ar y gweill ar hyn o bryd. Bydd hyn yn archwilio sut y gellir cael cymunedau i gymryd rhan mewn sgyrsiau am eu dyfodol mewn cyfnod o ansicrwydd byd-eang a sut y gellir lleihau anghydraddoldebau yn y maes hwn. Mae'r comisiynwyr Helen Armstrong a Steve Brooks yn arwain ar y gwaith hwn.

**'Bwlch cyllido' Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**

Datryswyd y 'bwlch cyllido' drwy ddyraniad sylfaenol cylchol yng nghyllideb atodol gyntaf 2023/24.

## Newid yn yr hinsawdd, ynni ac effeithlonrwydd ynni

**Polisïau a rhaglenni i gefnogi datgarboneiddio yn y sector tai, gan gynnwys dyraniadau ar gyfer Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.**

Bydd datblygu dull stoc dai gyfan at ddatgarboneiddio yn darparu ar gyfer strategaeth hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd ynni, tlodi tanwydd a datgarboneiddio ar gyfer y sector. Bydd yn helpu i fodloni disgwyliadau ein hail gyllideb garbon Cymru Sero Net ac yn cyd-fynd ag amcanion tai ehangach.

Lansiwyd y Rhaglen Cartrefi Clyd yn 2011. Ers ei lansio, mae dros 198,000 o bobl wedi derbyn cyngor effeithlonrwydd ynni drwy'r gwasanaeth. Rydym wedi ymestyn y cynllun Nyth hyd at fis Ebrill 2024 i sicrhau gwasanaeth parhaus a sicrhau bod cymorth ar gael i aelwydydd sy'n cael trafferth gyda chostau ynni’r gaeaf hwn.

Bydd y Rhaglen Cartrefi Clyd newydd yn parhau i weithredu fel ein prif fecanwaith i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Byddwn yn mabwysiadu dull gweithredu ffabrig yn gyntaf, y gwaethaf yn gyntaf a charbon isel yn gyntaf, gan ddarparu mesurau i wella effeithlonrwydd ynni'r aelwydydd incwm isel lleiaf effeithlon yn thermol yng Nghymru. Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddais fanylion y cynllun newydd a chyhoeddais y gwahoddiad i dendro ym mis Awst 2023. Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn cynnal camau olaf yr ymarfer caffael ac rwy'n dal i fod yn hyderus y bydd y cynllun newydd ar waith erbyn mis Ebrill 2024, heb doriad mewn gwasanaeth i gwsmeriaid. Mae'r cynllun newydd, sy'n cael ei arwain gan y galw, yn werth £250m dros saith mlynedd ac mae wedi'i strwythuro o amgylch tair elfen: gwasanaeth cynghori, darparu mesurau effeithlonrwydd ynni, a sicrhau ansawdd.

Does dim amheuaeth bod datgarboneiddio cartrefi preifat yn fwy cymhleth na delio â'r sector cymdeithasol neu'r rhai mewn tlodi tanwydd, felly byddwn yn parhau i gymhwyso ethos ORP, sef 'profi a dysgu’. Mae ORP a'r Rhaglen Tai Arloesol eisoes yn annog mentrau cymunedol lleol ar raddfa fach, ar draws sectorau tai fel man cychwyn.

Yn y tymor byr, byddwn yn parhau i gyflawni'r Rhaglen Cartrefi Clyd, gyda'r gyllideb gyfalaf yn cynyddu £5m i £35m yn 2023/24 o fewn y gyllideb ddrafft.

**Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio**

Mae Gweinidogion wedi blaenoriaethu buddsoddiad mewn datgarboneiddio tai cymdeithasol drwy'r cyllid sydd ar gael i landlordiaid cymdeithasol drwy'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP).

Ein dull gweithredu datganedig yw dechrau gyda thai cymdeithasol, cyn symud i ddeiliadaethau eraill, gan mai tai cymdeithasol sydd â'r mwyaf o ysgogiadau. Mae sianelu buddsoddiad yr ORP drwy landlordiaid cymdeithasol yn cefnogi dull ‘profi a dysgu’ i ddatgarboneiddio cartrefi’n effeithiol ac yn effeithlon.

Mae'r ORP hefyd yn cefnogi rhaglen Cynllun Prydlesu Cymru i ddarparu cymorth ychwanegol i landlordiaid sy'n ymuno â'r cynllun i wella datgarboneiddio'r cartrefi rhent preifat hynny.

Ar gyfer y rhaglen ôl-osod er mwyn optimeiddio (ORP), targed y buddsoddiad mewn cartrefi cymdeithasol yw bod dros £280m dros dymor y llywodraeth (gyda thua £120m wedi'i fuddsoddi hyd yma) i ôl-osod dros 13,000 o gartrefi hyd yma.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, mae £70m wedi'i ddyrannu i landlordiaid cymdeithasol i ymgymryd â gweithgareddau ôl-osod yn unol â'r ORP, gyda £18m arall wedi'i ddyrannu i gefnogi gweithredu safon SATC newydd a lansiwyd ym mis Hydref 2023.

Mae buddsoddiad yr ORP yn cyd-fynd â chyllid MRA a chyllid Gwaddoli (ar gyfer ALlau a throsglwyddiadau gwirfoddol ar raddfa fawr (LSVTs)) gwerth £108 miliwn ychwanegol y flwyddyn sy'n cyfrannu at gyflawni SATC a gwaith cynnal a chadw parhaus ac yn trosoli cyllid sylweddol gan awdurdodau lleol a phartneriaid LSVT (35% o ffynonellau cyllid Llywodraeth Cymru, tra bod y sector yn cyfrannu tua 65%).

Mae'r safon SATC newydd 2023 yn adeiladu ar gyflawniadau rhagorol ei rhagflaenydd. Mae'r safon newydd yn cadw gofynion trechu tlodi wrth ei gwraidd, a'i nod yw gwella effeithlonrwydd ynni a thrwy hynny gefnogi cysur a lles y tenant.
Mae'r safon yn creu sicrwydd a fydd, yn ei dro, yn helpu i gynyddu effeithlonrwydd wrth leihau costau. Yn y pen draw, bydd hyn yn ein galluogi i fynd ymhellach yn gyflymach ac, yn bwysig, yn helpu i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r cadwyni cyflenwi sydd eu hangen i wasanaethu'r stoc tai cymdeithasol a'r sector tai preifat.

**Cyflwyno rhaglenni ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni’r sector cyhoeddus, gan gynnwys cyllid ar gyfer Gwasanaeth Ynni Cymru.**

Mae’r gyllideb yn darparu cyfalaf a refeniw i gefnogi gweithrediad Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnig arbenigedd masnachol, ariannol a thechnegol i’r sector cyhoeddus a’r sector ynni lleol i ddatblygu cynlluniau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy. Mae’r gwasanaeth hefyd yn ymgymryd â rôl arweinyddiaeth strategol ar draws y sectorau, gyda ffocws ar gynyddu uchelgais, gallu a galluogrwydd.

Hyd yma, mae disgwyl i brosiectau a gefnogir gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru gynhyrchu mwy na £320m drwy arbedion a chynhyrchu pŵer.

Yn ystod 2018-2023, mae'r Gwasanaeth Ynni wedi cefnogi bron i 300 o brosiectau sy'n amrywio o gyfleusterau ynni adnewyddadwy newydd eu gosod i hyrwyddo gwaith effeithlonrwydd ynni a chyflwyno cerbydau di-allyriadau. Mae'r prosiectau ynni adnewyddadwy ar eu pennau eu hunain wedi cyflwyno 40.5MW o gapasiti newydd, sy'n cyfateb i ddigon o drydan i bweru 16,000 o gartrefi.

Mae cyfanswm o £169.8 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau ar draws 67 o sefydliadau, gan gynnwys byrddau iechyd, awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol a cholegau. Roedd y prosiectau'n amrywio o osod lampiau stryd LED i systemau gwres carbon isel. Bydd y cymorth yn arbed 695,000 o dunelli o CO2 dros eu hoes.

Mae'r Gwasanaeth Ynni yn alluogwr allweddol i'r sector cyhoeddus i gyflawni'r uchelgais cyfunol o sector cyhoeddus sero net erbyn 2030. O ystyried llwyddiant y Gwasanaeth, fel y cydnabyddir gan Archwilio Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio contract newydd i gymryd lle'r un blaenorol a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023. Mae hyn yn sicrhau parhad o ran darparu gwasanaethau ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus a sefydliadau dan arweiniad y gymuned ledled Cymru.

**Monitro cynnydd a chefnogi Cynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio**
Ein huchelgais yw i'r sector cyhoeddus fod yn sero net erbyn 2030, sy'n bolisi allweddol a sefydlwyd yng nghynllun Sero Net Cymru

Mae cael cyrff cyhoeddus yng Nghymru i adrodd am allyriadau yn flynyddol yn rhan bwysig o gyflawni'r uchelgais honno, drwy helpu i lunio ein camau gweithredu a'n blaenoriaethau. Ym mis Mai 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Canllaw Sector Cyhoeddus ar gyfer Adrodd

ar Garbon Sero Net, sef canllaw cyffredinol i'w ddefnyddio gan gyrff cyhoeddus Cymru i amcangyfrif allyriadau llinell sylfaen. Mae'r allyriadau hyn yn cwmpasu adeiladau, trafnidiaeth, gwastraff, cadwyni cyflenwi a defnydd tir.

Mae'r adroddiad blynyddol ar allyriadau carbon y sector cyhoeddus yn ffordd allweddol o olrhain allyriadau carbon ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn falch ein bod wedi cael ymateb gan bob un o'r 71 o sefydliadau'r sector cyhoeddus ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23. Roedd hyn yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a Phrifysgolion. Mae hwn yn ymateb trawiadol iawn, yn enwedig o ystyried bod adrodd yn wirfoddol, ac mae'n dangos ymrwymiad o bob cwr o sector cyhoeddus Cymru i gyflawni ein huchelgais o greu sector cyhoeddus sero net erbyn 2030.
Rydym yn gweithio gyda'n contractwr, yr Ymddiriedolaeth Garbon, i brosesu'r data a llunio'r set ddata ar gyfer yr adroddiad Cymru gyfan.
Cyhoeddir dadansoddiad o'r data ar gyfer y sector cyhoeddus ar wefan Llywodraeth Cymru bob blwyddyn.
Mae'r data a gesglir yn ein helpu i ddeall yr allyriadau carbon ar draws y sector cyhoeddus ac olrhain cynnydd tuag at ein huchelgais gyfunol ar gyfer 2030 a hefyd cynorthwyo sefydliadau o bob rhan o'r sector cyhoeddus i fireinio eu cynlluniau datgarboneiddio a chanolbwyntio eu hadnoddau.
Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data yn barhaus i ddangos tystiolaeth o ffrydiau gwaith a pholisïau yn y dyfodol i'n helpu i ddeall ble i ganolbwyntio cymorth er mwyn i'r sector cyhoeddus ddatgarboneiddio megis Grant Gwres Carbon Isel Awdurdodau Lleol ar y cyd â'r Gweinidog Llywodraeth Leol sy'n cefnogi 34 o adeiladau (26 o ysgolion, 3 swyddfa, 1 canolfan hamdden, 2 gartref gofal, 2 arall – yn cynnwys Canolfan Llesiant Casnewydd ar y cyd â'r tîm Trawsnewid Trefi) ar draws 11 Awdurdod Lleol yng nghylch 1. Mae ail gylch hefyd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer prosiectau hyd at 2025.

**Ynni Adnewyddadwy**

Rydym wedi cyhoeddi targedau ynni adnewyddadwy newydd i gynyddu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy yng Nghymru i ddiwallu ein hanghenion yn llawn erbyn 2035. Rydym yn dal i ymrwymo i sicrhau bod Cymru'n elwa ar y cynhyrchiant newydd hwn ac mae gennym darged o sicrhau bod 1.5GW o gynhyrchiant newydd dan berchnogaeth leol erbyn 2035. Bydd ein canllawiau ar sut y gall modelau perchnogaeth leol weithio yng Nghymru yn cefnogi'r trafodaethau rhwng cymunedau a datblygwyr i gyflawni'r nod hwn. Rydym yn parhau i flaenoriaethu adnoddau o fewn y BEL ynni glân i weithredu argymhellion yr Archwiliad Dwfn Ynni Adnewyddadwy, gan weithio mewn partneriaeth â chyfranddalwyr allweddol, partneriaid cyflenwi a'r sector ynni i weithredu'r argymhelliad.

Bydd y dyraniad cyllideb i ynni glân yn caniatáu i ni barhau â'r rhaglen cynllunio ynni, gan gefnogi'r pedair Strategaeth Ynni Ranbarthol i gyflawni drwy ddarparu tystiolaeth fanwl o gyfleoedd i ddatgarboneiddio'r defnydd o bŵer, gwres mewn adeiladau a thrafnidiaeth. Bydd y timau bach a sefydlir ym mhob rhanbarth yn cydweithio ag awdurdodau lleol a busnesau i nodi a blaenoriaethu prosiectau a chael mynediad at gymorth gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i droi'r rhain yn gyfleoedd buddsoddi.

Mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi'r gwaith o fynd ati yn y gwanwyn i sefydlu Trydan Gwyrdd Cymru, y datblygwr dan berchnogaeth gyhoeddus a fydd yn datblygu prosiectau gwynt ar raddfa fawr ar dir cyhoeddus yng Nghymru, er budd pobl Cymru. Bydd y cwmni'n cael ei sefydlu ac yn ymgynghori â phobl ar leoliadau cyntaf posibl y prosiect dros y flwyddyn nesaf.

**Datblygu cynigion ar gyfer Ynni Cymru**

Rydym yn parhau i weithio gyda Plaid Cymru ar yr ymrwymiad pwysig hwn yn y Cytundeb Cydweithio i weithio tuag at sefydlu Ynni Cymru i ehangu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned yng Nghymru. Lansiwyd Ynni Cymru ym mis Awst 2023 ac mae gwaith yn parhau i ddatblygu swyddogaethau cyflenwi Ynni Cymru i gefnogi'r gwaith o ddarparu systemau Ynni Lleol Clyfar. Mae tîm bach wedi'i recriwtio i arwain y gwaith o ddarparu Ynni Cymru i weithio gyda'r sector ynni cymunedol i gynyddu'r ddarpariaeth ynni adnewyddadwy yng Nghymru mewn ffordd sy'n cadw gwerth yn ein cymunedau. Mae achos busnes yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru. I gefnogi'r gwaith o feithrin gallu a chapasiti o fewn y Sector Ynni Cymunedol yng Nghymru, mae £938,680 o gyllid grant adnoddau wedi'i roi i 10 prosiect yng Nghymru.

## Trafnidiaeth

### Cyflawni'r polisi terfyn cyflymder 20mya, yn enwedig manylion unrhyw gostau / dyraniadau parhaus

Mae'r dull gweithredu wedi'i nodi yn y Datganiad Ysgrifenedig ar Gefnogi Awdurdodau Priffyrdd wrth weithredu'r terfyn 20mya (25 Hydref 2023) a bydd dyraniadau'r gyllideb yn ddarostyngedig i'r amcangyfrifon cost sy'n deillio o hyn.

### Cyflawni'r fasnachfraint rheilffyrdd a blaenoriaethau seilwaith rheilffyrdd Llywodraeth Cymru

Mae'r cyllid cyfalaf a refeniw a ddyrennir yn caniatáu i Trafnidiaeth Cymru gyflawni masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau ar ran Gweinidogion Cymru. Fel rhan o hyn, bydd Trafnidiaeth Cymru yn parhau i gyflawni ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu. Byddant yn gorffen darparu'r cerbydau rheilffyrdd newydd sbon sydd eisoes yn darparu trenau newydd, cyflymach a mwy cyfforddus, yn ogystal â gwella gwytnwch y gwasanaethau sy'n cael eu gweithredu gan y fasnachfraint rheilffyrdd, gan wella perfformiad i gwsmeriaid. Bydd ein buddsoddiad parhaus ym Mhrosiect Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn darparu rhwydwaith rheilffyrdd gwirioneddol fodern sy'n gweithredu trenau trydan cwbl lân ar y seilwaith rydym yn berchen arno. Bydd yn newid y ffordd mae pobl yn teithio drwy wella amseroedd teithio ac amlder gwasanaethau, gan annog mwy o bobl i ddefnyddio'r rheilffyrdd. At hynny, mae'r buddsoddiad yn gwneud cyfraniad sylweddol at ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i wneud y system trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch i bobl anabl drwy sicrhau bod gan orsafoedd fynediad heb risiau a gwell mynediad ar y cerbydau rheilffyrdd newydd.

### Cyflwyno Metros y Gogledd-ddwyrain, y De-orllewin a'r De-ddwyrain

Byddwn yn trosglwyddo ein rhaglenni metro i ddull trafnidiaeth ranbarthol integredig. Bydd y cynnydd a wnaed ar y rhaglenni metro hyd yma yn sail y gall y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol adeiladu arni wrth iddynt ddatblygu cynlluniau trafnidiaeth ranbarthol newydd dros 2024-25. Yn y Gogledd, bydd hyn hefyd yn cael ei lywio gan argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru. Bydd timau rhanbarthol Trafnidiaeth Cymru sy'n gwasanaethu'r Gogledd, y Canolbarth a'r De-orllewin yn cefnogi'r Cyd-bwyllgorau wrth iddynt ddatblygu'r cynlluniau.

Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd Trafnidiaeth Cymru yn parhau i ddatblygu prosiectau strategol bwysig ledled Cymru a fydd yn ein helpu i gyflawni'r newid mewn dulliau teithio sydd ei angen i gyflawni ein targedau Sero Net Cymru. Bydd y rhain yn cefnogi datblygu gwelliannau seilwaith, dyluniad gwasanaethau, mentrau newid ymddygiad, data a digidol mewn perthynas â bysiau, rheilffyrdd a theithio llesol sy'n arwain at fwy o newid mewn dulliau teithio.

**Datblygu Trafnidiaeth Cymru – gan gynnwys diweddariad ar y gwaith a wnaed i wella proses gyllidebu Trafnidiaeth Cymru yn dilyn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2023-24, a dadansoddiad o ddyraniad cyllideb lawn Trafnidiaeth Cymru ar gyfer 2024-25, gan eitemeiddio ei gyllideb gorfforaethol ochr yn ochr â dyraniadau ar gyfer darparu rhaglenni penodol, yn ogystal ag ymrwymiadau masnachfraint rheilffyrdd**

Yn dilyn y camau a gymerwyd gennym ym mis Hydref i helpu i reoli'r pwysau wrth gynnal gweithrediadau rheilffyrdd eleni, mae'r £125m a gyhoeddwyd ym mis Hydref yr oedd ei angen i gynnal gweithrediadau rheilffyrdd ledled Cymru wedi'i nodi fel llinell sylfaen. Fel yr amlinellwyd ym mis Hydref, achoswyd y pwysau hwn gan yr effaith barhaus y mae'r pandemig wedi'i chael ar yr amcanestyniadau refeniw uchelgeisiol o gais gwreiddiol KeolisAmey yn 2018, ochr yn ochr â'r cynnydd mewn rhai costau gweithredol o ganlyniad i chwyddiant.

Heb y cyllid hwn, ni fyddai Trafnidiaeth Cymru wedi gallu parhau i weithredu ei holl wasanaethau rheilffordd. Byddai'r buddsoddiadau sylweddol sydd eisoes wedi'u gwneud yn y rheilffyrdd ledled Cymru wedi cael eu peryglu heb y cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn y cynlluniau gwariant diwygiedig. Bydd y pecyn buddsoddi ehangach hefyd yn helpu i gynyddu'r galw a chynyddu incwm refeniw yn sylweddol dros y blynyddoedd i ddod.
Fel pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, bydd hyn yn golygu dewisiadau anodd i allu byw o fewn y setliad hwn. Mewn ymateb i'r pwysau chwyddiant, bydd angen i Trafnidiaeth Cymru hefyd gynyddu prisiau tocynnau trên i helpu i gau'r bwlch a sicrhau cynaliadwyedd wrth symud ymlaen. Rydym yn parhau i weithio gyda Trafnidiaeth Cymru i wneud arbedion ac i leihau'r bwlch rhwng incwm a chostau.

Cyflwynodd Trafnidiaeth Cymru ddrafft cyntaf eu cyllideb i Lywodraeth Cymru yn gynharach eleni yn yr haf, llawer yn gynharach nag mewn blynyddoedd blaenorol, er mwyn llywio'r gyllideb ddrafft. Mae hyn wedi bod yn amhrisiadwy yn y cylch cyllideb hwn wrth sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin o gostau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Ers ei gyflwyno, mae swyddogion wedi cynnal nifer o sesiynau her yn canolbwyntio ar feysydd penodol lle'r oedd angen rhagor o fanylion, gan gynnwys bysiau, teithio llesol a nifer y teithwyr er mwyn cynnig cyfle i arweinwyr polisi a deiliaid cyllidebau archwilio'r rhagolygon a llywio iteriadau'r dyfodol. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o £1.4m mewn costau canolog a gostyngiad o £5m yn y cymorth i'r rheilffyrdd, wedi'i wrthbwyso gan incwm cynyddol o docynnau trên.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cael ei herio i edrych yn greadigol ar brisiau tocynnau trên a pheidio â chymhwyso cynnydd cyffredinol; yn hytrach, bydd yn creu basged o docynnau trên yn seiliedig ar batrymau defnydd ac allbynnau eu hasesiadau effaith. Gallai hyn gynnwys cynnydd llai o faint ar rai llwybrau neu ar gyfer grwpiau penodol (e.e. y rhai sydd â chardiau anabledd neu gardiau teithio ieuenctid).

Roedd disgwyl i'r fersiwn nesaf o'r rhagolygon fod ar gael ym mis Rhagfyr. Fodd bynnag, efallai y bydd rhywfaint o oedi er mwyn ystyried cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru sydd wedi bod yn arbennig o heriol eleni. O ganlyniad i'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r gyllideb, mae'n annhebygol y byddwn mewn sefyllfa i gyhoeddi cyllideb Trafnidiaeth Cymru mewn pryd i graffu arni ym mis Ionawr. Fodd bynnag, bydd fersiwn wedi'i heitemeiddio o'u cyllideb yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â llythyr ariannu'r flwyddyn ariannol nesaf.

**Buddsoddi yn y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd a sut mae'r rhain wedi'u llywio gan y datganiad polisi ffyrdd newydd / canlyniad yr adolygiad ffyrdd**

Mae cyllid ar draws trafnidiaeth yn cyd-fynd â'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy fel y'i nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae'r dull hwn yn blaenoriaethu buddsoddiad

mewn teithio llesol megis cerdded a beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus megis bysiau a rheilffyrdd, o flaen buddsoddiad mewn camau sy'n cynyddu'r defnydd o geir preifat. Mae'r dull hwn yn hanfodol i gyflawni ein targedau heriol o ran newid dulliau teithio ac ymrwymiadau newid yn yr hinsawdd.

Ar 13 Gorffennaf, nododd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd mewn datganiad ysgrifenedig yr ymateb i'r Adolygiad Lugg annibynnol o'r rhaglenni cynnal a chadw blynyddol ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN) a oedd yn ystyried adroddiad panel yr Adolygiad Ffyrdd 'Dyfodol Buddsoddi mewn Ffyrdd yng Nghymru' a'n hymateb, gan gynnwys y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022-2027.

Felly, rydym yn symud ymlaen i fabwysiadu dull newydd o gynnal a chadw ffyrdd a, thrwy weithredu argymhellion yr adolygiad annibynnol ar yr un pryd, bydd hyn yn cynyddu cyflawni ein polisïau ac yn lleihau effeithiau andwyol y newid yn yr hinsawdd, ac addasu iddynt, ac yn gwella bioamrywiaeth o fewn amgylchedd heriol y gyllideb.

Rydym yn datblygu rhaglen Adnewyddu Asedau Mawr gydag amserlenni 5 i 10 mlynedd y gellir eu haddasu yn ôl argaeledd cyllid cyfatebol. Bydd hyn yn sicrhau, pan fyddwn yn buddsoddi mewn gwaith cynnal a chadw, y bydd y gwaith yn cael ei ddylunio mewn ffordd sy'n adlewyrchu "swyddogaeth" neu "gymeriad" y llwybr a bydd yn manteisio i'r eithaf ar bob cyfle i:

- Gyflawni newid i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, gan adlewyrchu'r hierarchaeth drafnidiaeth yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru;
- Darparu budd net ar gyfer bioamrywiaeth a gwell gwytnwch ecosystemau;
- Gwella gwytnwch y rhwydwaith a'r mannau o'i gwmpas i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd;
- Lleihau llygredd, gan gynnwys aer, sŵn, dŵr a thir; a
- Bydd Llywodraeth Cymru yn cymhwyso'r hierarchaeth lleihau carbon wrth gynnal a gweithredu'r SRN yn unol â PAS 2080 – Rheoli carbon mewn seilwaith.

Yn y dyfodol, ni fyddwn yn cymryd yn ganiataol y bydd seilwaith yn cael ei amnewid ar sail 'tebyg am debyg'. Yn hytrach, bydd adnewyddu asedau yn cael ei drin fel cyfle i ailystyried diben sylfaenol y ffordd dan sylw gan ystyried Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r pedwar prawf adeiladu ffyrdd a nodir yn ein hymateb i'r Adolygiad Ffyrdd.

Nododd argymhellion Lugg y dylid diwygio'r Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd (TRMM) a symud i system archwilio ac atgyweirio sy'n seiliedig ar risg ac sy'n cyd-fynd â'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli Asedau.

Mae TRMM yn nodi gofynion Llywodraeth Cymru ar yr Asiantau Cefnffyrdd drwy ddiffinio'r safonau y dylid eu defnyddio i archwilio a chynnal a chadw'r SRN. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau arolygu a chynnal a chadw cylchol blynyddol yn y man lleiaf sy'n ofynnol i sicrhau diogelwch a defnyddioldeb yr SRN o ddydd i ddydd ar gyfer pob dull teithio.

Yn unol ag argymhellion Lugg, datblygwyd TRMM diwygiedig ar y cyd rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r asiantau cefnffyrdd, a chafodd ei roi ar waith ym mis Mai 2023. Mae newidiadau allweddol yn cynnwys adolygu pob rhan o waith cynnal a chadw ochr yn ochr â'r Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd, gan gynnwys adrannau ar gyfer datgarboneiddio, a diweddaru'r llawlyfr gyda'r newidiadau sydd wedi digwydd ers 2016 pan gafodd ei ddiweddaru ddiwethaf.

Mae asedau megis strwythurau eisoes yn cael eu rheoli gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg ac mae gwaith pellach yn cael ei wneud ar hyn o bryd i symud i ddull seiliedig ar risg ar draws yr holl asedau eraill. Bydd y newidiadau hyn yn cael sylw mewn iteriadau blynyddol pellach o'r TRMM, a fyddai'n debygol o elwa ar her annibynnol.

Bydd pwyslais ac ysgogiad wrth ddatblygu’r gweithgareddau refeniw i:

(1) optimeiddio gwariant a gweithio tuag at sicrhau'r gwerth gorau o ran carbon a chost;

(2) mynd ati lle bynnag y bo modd i geisio defnyddio unrhyw gyfle i wario ar gynnal a chadw i gefnogi newid mewn dulliau teithio (er enghraifft, cynnal a chadw llwybr teithio llesol gydag awdurdod lleol ochr yn ochr ag unrhyw waith cyfagos ar yr SRN).

Wrth ddatblygu a chyhoeddi (Hydref 2023) *Llwybr Newydd i Natur*, ein Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, rydym wedi ystyried yr egwyddorion craidd a'r dull newydd a nodir yn adroddiad ac argymhellion y panel Adolygu Ffyrdd i gynnal a gwella bioamrywiaeth, a chynyddu gwytnwch ecosystemau drwy weithrediadau trafnidiaeth a phrosiectau seilwaith.

Mae *Llwybr Newydd i Natur* yn rhoi sylw i sut rydym yn meddwl am natur, yn cynllunio ar gyfer natur ac yn cyflawni ar gyfer natur, gan sbarduno newid sylweddol yn ein gwaith ar gyfer bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau ar ystad y Rhwydwaith ledled Cymru.

Bydd yn ymgorffori camau i ddiogelu a gwella natur fel egwyddor graidd pob agwedd ar ein gwaith, gan gryfhau'r gofynion am fesurau gwella bioamrywiaeth yn ein cynlluniau seilwaith ffyrdd; a darparu rhaglen uchelgeisiol o brosiectau adfer natur ar ein rhwydwaith presennol, a ariennir drwy ein rhaglen gyfalaf.

Mae amryw o raglenni’n cael eu darparu ar draws y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN) y bwriedir iddynt fod yn ataliol. Maent yn cynnwys:

- Clefyd Coed Ynn – Mesurau rhagweithiol i nodi a gwaredu coed sydd wedi’u heintio a allai achosi problemau diogelwch ar yr SRN.

- Triniaethau ataliol ar wynebau – Triniaethau ar wynebau sy’n ymestyn oes haen dreulio’r gerbytffordd, gan gynyddu mynychder ymyrraeth cynnal a chadw, gan leihau costau a charbon.

**Cyflwyno polisi teithio llesol – gan gynnwys crynodeb o weithgarwch a gynlluniwyd a thabl sy’n manylu ar gyfanswm y dyraniadau a’r dyraniadau y pen ar gyfer teithio llesol ar gyfer 2024-25, o gymharu â phob un o’r tair blynedd blaenorol. Dylai dyraniadau refeniw a chyfalaf fod yn glir ac wedi'u rhannu yn ôl ffrydiau cyllido unigol.**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dechrau mynd i'r afael â llawer o'r argymhellion a wnaed gan y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol yn ei adolygiad o'r Ddeddf, yn ogystal â chamau gweithredu eraill i gryfhau'r fframwaith cyflawni ar gyfer teithio llesol yn genedlaethol ac ar lefel leol. Mae hyn wedi arwain at ailstrwythuro'r Bwrdd Teithio Llesol drwy benodi aelodau annibynnol a gwaith craffu cryfach, yn ogystal â rôl yn wynebu'r cyhoedd. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi datblygu offeryn blaenoriaethu llwybrau ac wedi darparu'r gyfran gyntaf o hyfforddiant teithio llesol wedi'i deilwra i swyddogion ledled Cymru.

Dros 2024-25, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar ehangu ymhellach ystod a dyfnder y cymorth a'r offer sydd ar gael i awdurdodau lleol i gyflawni eu Rhwydweithiau Teithio Llesol, yn ogystal ag adeiladu arbenigedd canolog yn Trafnidiaeth Cymru a threialu dulliau cyflawni newydd mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol. Bydd ffocws penodol ar hyrwyddo teithio llesol yn fwy effeithiol, gan gynnwys datblygu canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar eu dyletswydd newydd i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer o ganlyniad i'r Ddeddf Ansawdd Aer a Seinweddau newydd. Mae monitro yn faes arall lle byddwn yn gwneud gwaith pellach gyda phartneriaid i wella cysondeb ymarfer

Mae teithio llesol yn parhau i fod yn ffocws ar gyfer buddsoddiad cyfalaf, yn enwedig drwy fecanwaith y Gronfa Teithio Llesol. I gydnabod natur leol seilwaith teithio llesol i raddau helaeth, mae'r rhan fwyaf o'r cyllid wedi'i gyfeirio at awdurdodau lleol.

Dyluniwyd y Gronfa Teithio Llesol i alluogi awdurdodau lleol i ddarparu'r rhwydweithiau llwybrau teithio llesol sydd newydd gael eu diweddaru ac a gymeradwywyd gan Weinidogion yn 2022. Mae'r Gronfa yn cynnwys dyraniad craidd ar gyfer pob awdurdod lleol ac elfen ariannu cystadleuol. Ategir y Gronfa gan raglenni cyllido ychwanegol llai.

Mae'r Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn canolbwyntio ar welliannau teithio i'r ysgol ac, yn ddaearyddol, nid yw wedi'i gyfyngu i'r trefi mwy sy'n ganolbwynt i'r Gronfa Teithio Llesol.

Bydd cyllid ar gyfer cynlluniau teithio llesol sydd ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol neu'n ei groesi yn cael ei flaenoriaethu a'i weithredu mewn deialog â'r awdurdodau lleol y maent wedi'u lleoli ynddynt. Bydd cynlluniau teithio llesol sy'n gysylltiedig â gweithredu cynigion Metro neu Gomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru hefyd yn cael eu datblygu ar y cyd yn y cyd-destunau hyn.

Bydd buddsoddiad cyfalaf yn cael ei ategu gan nifer fach o weithgareddau refeniw wedi'u targedu. Ein prif ffocws ar gyfer 2024-25, yn unol ag argymhellion a wnaed gan y Grŵp Trawsbleidiol a'r Bwrdd Teithio Llesol, yw parhau â'r cymorth a gwella'r cymorth ar gyfer ymyriadau sy'n cynyddu teithio llesol i'r ysgol, sy'n cael eu darparu gan bartneriaid yn y trydydd sector gan amlaf.

**Cymorth ar gyfer gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol, gan gynnwys crynodeb o weithgarwch a gynlluniwyd a thabl sy'n manylu ar gyfanswm y dyraniadau a'r dyraniadau y pen ar gyfer 2024-25 o gymharu â phob un o'r tair blynedd blaenorol. Dylai dyraniadau refeniw a chyfalaf fod yn glir a dylai'r tabl fod wedi'i rannu yn ôl ffrydiau cyllido unigol.**

Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth refeniw i'r diwydiant bysiau yn 2024-25. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, rydym wedi darparu cymorth refeniw uniongyrchol ar ôl COVID i weithredwyr bysiau o dan y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau a'r Gronfa Bontio ar gyfer Bysiau. Yn 2024-25, byddwn yn sefydlu Grant Cymorth y Rhwydwaith Bysiau, gan ariannu awdurdodau lleol i sicrhau'r gwasanaethau y maent yn credu sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol. Bydd y cynllun ariannu hwn yn cyd-fynd â'r Grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau hirsefydlog. Byddwn yn parhau i ddarparu cyllid i Trafnidiaeth Cymru ar gyfer gwaith paratoi ar gyfer masnachfreinio, rheoli ein rhwydwaith TrawsCymru, gwasanaethau Fflecsi a darparu gwybodaeth am amserlenni drwy Traveline Cymru.

| Cyfanswm y pen | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cymorth Refeniw Bysiau - 2021-22 i 2024-25 | | | | |
| | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
| Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn Cymru* | 3,107,500 | 3,105,000 | 3,105,000 | 3,105,000 |
| Grant Bus Users UK Cymru | £289,457 | £217,000 | £217,000 | - |
| Trafnidiaeth ysgol | £10,000 | £10,000 | £10,000 | - |
| CYMORTH REFENIW BYSIAU | £1,061,818 | £677,000 | £399,000 | - |
| Cysylltiedig â bysiau | - | - | - | £2,396,000 |
| Cymdeithas Cludiant Cymunedol - Cyllid Craidd | £285,482 | £285,482 | £193,000 | - |
| Grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau | £25,000,000 | £25,000,000 | £25,000,000 | £25,000,000 |
| Cymorth Refeniw Bysiau - Traws Cymru | £3,159,745 | £3,159,745 | - | - |
| Cymorth Trafnidiaeth Cymru | | | £9,459,000 | £9,459,000 |
| Traveline Cymru | £998,616 | £998,616 | - | - |
| Tocynnau teithio rhatach | £62,595,259 | £60,482,000 | £60,482,000 | £45,482,000 |
| Teithio Rhatach i Bobl Ifanc | £1,999,969 | £2,000,000 | £2,000,000 | £2,000,000 |
| Y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau - COVID | £59,099,546 | £28,000,000 | £28,000,000 | £39,000,000 |
| | | | | |
| Cyfanswm | £154,499,892 | £121,007,843 | £121,007,843 | £123,337,000 |
| Cyfanswm y pen | £49.72 | £38.97 | £38.97 | £39.72 |

**Cymorth ar gyfer blaenoriaethau trafnidiaeth lleol**

Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn cynlluniau lleol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Bydd cyllid yn y flwyddyn ariannol nesaf yn canolbwyntio ar gynlluniau i wella amseroedd teithio bysiau ac i helpu i gyflawni Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Byddwn yn bwrw ymlaen ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i foderneiddio grantiau trafnidiaeth wrth i ni bontio i ddull rhanbarthol ac wrth i'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol ddatblygu cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol.

| CLIMATE CHANGE - SUMMARY | 2023-24 Final Budget Feb 2023 Restated | 2024-25 Indicative Final Budget Feb 2023 Restated | Budget Reductions / Allocations | 2024-25 Changes | 2024-25 Draft Budget December 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Resource | 1,165,687 | 1,187,687 | -78 | 28,398 | 1,216,007 |
| Capital | 1,766,278 | 1,665,393 | 0 | -33,327 | 1,632,066 |
| **Total Resource & Capital** | **2,931,965** | **2,853,080** | **-78** | **-4,929** | **2,848,073** |
| | | | | | |
| **Total AME** | **57,477** | **-60,295** | **0** | **-2,871** | **-63,166** |
| | | | | | |
| **CLIMATE CHANGE - TOTAL BUDGET** | **2,989,442** | **2,792,785** | **-78** | **-7,800** | **2,784,907** |

| NEWID HINSAWDD - CRYNODEB | Cyllideb Derfynol 2023-24 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Gostyngiadau/ Dyraniadau Cyllideb | Newidiadau 2024-25 | Cyllideb Ddrafft 2024-25 Rhagfyr 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | | | | | |
| Cyfalaf | | | | | |
| **Cyfanswm Adnoddau a Chyfalaf** | | | | | |
| | | | | | |
| **Cyfanswm AME** | | | | | |
| | | | | | |
| **NEWID HINSAWDD – CYFANSWM Y GYLLIDEB** | | | | | |

# Atodiad A

## Tablau BEL ar gyfer y portffolio Newid Hinsawdd fel y'u cyhoeddwyd fel rhan o Gynigion Cyllideb Ddrafft Manwl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

*Rhagfyr 2023*

| NEWID HINSAWDD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CRYNODEB | 2023-24 | 2024-25 | | | |
| | Cyllideb Derfynol 2023-24 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Diwygiadau i Ddyraniadau Dangosol 2024-25 | Newidiadau Eraill | Cyllideb Ddrafft 2024-25 Ryagfyr 2023 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Adnoddau | 1,165,687 | 1,187,687 | (78) | 28,398 | 1,216,007 |
| Cyfalaf | 1,766,278 | 1,665,393 | (37,330) | 4,003 | 1,632,066 |
| **CYFANSWM ADNODDAU A CHYFALAF (AC EITHRIO AME)** | **2,931,965** | **2,853,080** | **(37,408)** | **32,401** | **2,848,073** |
| AME Adnoddau | 57,477 | (60,295) | - | (2,871) | (63,166) |
| AME Cyfalaf | - | - | - | - | - |
| **CYFANSWM AME** | **57,477** | **(60,295)** | **-** | **(2,871)** | **(63,166)** |
| **CYFANSWM NEWID HINSAWDD** | **2,989,442** | **2,792,785** | **(37,408)** | **29,530** | **2,784,907** |

| NEWID HINSAWDD | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ADNODDAU | | | | | | | |
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2023-24 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Diwygiadau i Ddyraniadau Dangosol 2024-25 | Trosglwyddiadau MEG i MEG | Trosglwyddiadau o fewn y MEG | Dyraniadau i'r / o'r Cronfeydd wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft 2024-25 Ryagfyr 2023 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Deddfwriaeth, Llywodraethiant a Chyfathrebu ym maes yr Amgylchedd | 226 | 226 | - | - | - | - | 226 |
| **Cam Gweithredu: Datblygu a gweithredu polisi a rhaglenni cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli cyfoeth naturiol** | **226** | **226** | **-** | **-** | **-** | **-** | **226** |
| Y Rhaglen Tlodi Tanwydd | 4,370 | 4,370 | - | - | - | - | 4,370 |
| **Cam Gweithredu: Y Rhaglen Tlodi Tanwydd** | **4,370** | **4,370** | **-** | **-** | **-** | **-** | **4,370** |
| Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 3,970 | 3,970 | - | - | - | - | 3,970 |
| Diogelu'r Amgylchedd | 6,200 | 6,650 | (250) | - | - | - | 6,400 |
| Ynni Glân | 9,767 | 10,767 | (5,400) | - | (2,470) | - | 2,897 |
| Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd | 4,486 | 5,486 | (1,900) | - | - | - | 3,586 |
| Ynni Cymru | - | - | - | - | 2,470 | - | 2,470 |
| Ynni Morol | - | - | (200) | - | - | 600 | 400 |
| **Cam Gweithredu: Datblygu a gweithredu polisi newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd** | **24,423** | **26,873** | **(7,750)** | **-** | **-** | **600** | **19,723** |
| Rheoli Risg Llifogydd a Chyflenwi Polisi Gwastraff | 43,840 | 52,390 | (8,500) | - | (25,000) | - | 18,890 |
| Cyflenwi Diogelwch Tomenni Glo | 4,000 | 4,500 | (700) | - | - | - | 3,800 |
| **Cam Gweithredu: Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth ynglŷn â'r perygl o lifogydd a'r perygl i'r arfordir, dŵr a charthion** | **47,840** | **56,890** | **(9,200)** | **-** | **(25,000)** | **-** | **22,690** |
| Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 1,500 | 1,500 | (1,000) | - | - | - | 500 |
| Galluogi Adnoddau Naturiol | 3,008 | 3,008 | (3,008) | - | - | - | - |
| Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion | 13,521 | 13,349 | (1,500) | - | - | - | 11,849 |
| Coedwigaeth | 5,320 | 9,151 | (2,715) | - | - | - | 6,436 |
| Coedwigaeth - heb fod yn arian parod | 83 | 83 | - | - | - | - | 83 |
| Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | 3,400 | 3,700 | (750) | - | - | - | 2,950 |
| Gweithredu Deddf yr Amgylchedd | 849 | 890 | - | - | - | - | 890 |

| NEWID HINSAWDD | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ADNODDAU | | | | | | | | |
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | | Cyllideb Derfynol 2023-24 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Diwygiadau i Ddyraniadau Dangosol 2024-25 | Trosglwyddiadau MEG i MEG | Trosglwyddiadau o fewn y MEG | Dyraniadau i'r / o'r Cronfeydd wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft 2024-25 Ryagfyr 2023 |
| | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Cam Gweithredu:** | **Darparu polisïau gwarchod natur a choedwigaeth a gwella'r amgylchedd lleol** | **27,681** | **31,681** | **(8,973)** | **-** | **-** | **-** | **22,708** |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | | 59,725 | 59,725 | (14,000) | - | 58,080 | 17,450 | 121,255 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru - heb fod yn arian parod | | 10,000 | 10,000 | - | - | - | - | 10,000 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru - Incwm o Bren | | - | - | - | - | (33,080) | - | (33,080) |
| Incwm Ffermydd Gwynt drwy CNC | | - | - | (10,000) | - | - | - | (10,000) |
| **Cam Gweithredu:** | **Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu** | **69,725** | **69,725** | **(24,000)** | **-** | **25,000** | **17,450** | **88,175** |
| Rheolaeth Amgylcheddol (Pwllperian) - heb fod yn arian parod | | 38 | 38 | - | - | - | - | 38 |
| **Cam Gweithredu:** | **Datblygu sylfaen dystiolaeth briodol er mwyn helpu gwaith yr Adran** | **38** | **38** | **-** | **-** | **-** | **-** | **38** |
| Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol | | 35,241 | 35,241 | (3,000) | - | - | 148 | 32,389 |
| **Cam Gweithredu:** | **Gwella Effeithlonrwydd Adnoddau a Chefnogi'r Newid i Economi Gylchol** | **35,241** | **35,241** | **(3,000)** | **-** | **-** | **148** | **32,389** |
| Cyllid Craidd Parciau Cenedlaethol | | 11,416 | 11,416 | - | - | - | - | 11,416 |
| **Cam Gweithredu:** | **Hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd** | **11,416** | **11,416** | **-** | **-** | **-** | **-** | **11,416** |
| Polisi Morol, Tystiolaeth ac Ariannu | | 1,911 | 1,911 | (250) | - | - | - | 1,661 |
| **Cam Gweithredu:** | **Adfer, Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Morol** | **1,911** | **1,911** | **(250)** | **-** | **-** | **-** | **1,661** |
| Cymorth ac Atal Digartrefedd | | 46,147 | 51,147 | (3,000) | - | 166,763 | - | 214,910 |
| **Cam Gweithredu:** | **Atal Digartrefedd** | **46,147** | **51,147** | **(3,000)** | **-** | **166,763** | **-** | **214,910** |
| Polisi Tai | | 6,471 | 6,471 | - | - | (5,103) | - | 1,368 |
| Grant Cymorth Tai | | 166,763 | 166,763 | - | - | (166,763) | - | - |
| Ymateb Cyflym i Fyw'n Annibynnol | | - | - | - | - | 5,103 | - | 5,103 |
| **Cam Gweithredu:** | **Byw'n Annibynnol** | **173,234** | **173,234** | **-** | **-** | **(166,763)** | **-** | **6,471** |
| Eiddo Preswyl - Datgarboneiddio ac Ansawdd | | 2,173 | 2,673 | (1,000) | - | - | - | 1,673 |
| **Cam Gweithredu:** | **Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel** | **2,173** | **2,673** | **(1,000)** | **-** | **-** | **-** | **1,673** |

## NEWID HINSAWDD

### ADNODDAU

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | | Cyllideb Derfynol 2023-24 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Diwygiadau i Ddyraniadau Dangosol 2024-25 | Trosglwyddiadau MEG i MEG | Trosglwyddiadau o fewn y MEG | Dyraniadau i'r / o'r Cronfeydd wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft 2024-25 Ryagfyr 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Diogelwch Adeiladau | | 6,000 | 6,500 | (2,000) | - | - | - | 4,500 |
| **Cam Gweithredu:** | **Diogelwch Adeiladau** | **6,000** | **6,500** | **(2,000)** | **-** | **-** | **-** | **4,500** |
| Grant Cyllid Tai | | 13,100 | 13,100 | (9,000) | - | - | - | 4,100 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy** | **13,100** | **13,100** | **(9,000)** | **-** | **-** | **-** | **4,100** |
| Cyllid Refeniw y Rhaglen Dai | | 173 | 173 | - | - | - | - | 173 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cyllid Refeniw Tai** | **173** | **173** | **-** | **-** | **-** | **-** | **173** |
| Cronfa Rhyddhau Tir | | 2,150 | 2,250 | (3,800) | - | - | - | (1,550) |
| **Cam Gweithredu:** | **Yr Is-adran Tir** | **2,150** | **2,250** | **(3,800)** | **-** | **-** | **-** | **(1,550)** |
| Adfywio | | 1,271 | 1,671 | (15,000) | - | - | - | (13,329) |
| Awdurdod Harbwr Caerdydd | | 5,400 | 5,400 | - | - | - | - | 5,400 |
| **Cam Gweithredu:** | **Adfywio** | **6,671** | **7,071** | **(15,000)** | **-** | **-** | **-** | **(7,929)** |
| Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru | | 2,997 | 2,997 | - | - | - | - | 2,997 |
| Gwariant Cynllunio a Rheoleiddio | | 2,099 | 2,099 | (100) | - | - | - | 1,999 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cynllunio a Rheoleiddio** | **5,096** | **5,096** | **(100)** | **-** | **-** | **-** | **4,996** |
| Datblygu Seilwaith Strategol | | 950 | 950 | - | - | - | - | 950 |
| **Cam Gweithredu:** | **Seilwaith Strategol** | **950** | **950** | **-** | **-** | **-** | **-** | **950** |
| Rheoli Asedau'r Rhwydwaith | | 4,481 | 4,481 | - | - | - | 5,200 | 9,681 |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith | | 66,023 | 66,023 | (16,855) | - | - | - | 49,168 |
| **Cam Gweithredu:** | **Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd** | **70,504** | **70,504** | **(16,855)** | **-** | **-** | **5,200** | **58,849** |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith - heb fod yn arian parod | | 188,691 | 188,691 | - | - | - | - | 188,691 |
| **Cam Gweithredu:** | **Gwella a Chynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd (Ffyrdd Domestig) - Adnoddau nad ydynt yn Arian Parod** | **188,691** | **188,691** | **-** | **-** | **-** | **-** | **188,691** |
| Hedfanaeth | | 4,402 | 2,422 | (1,250) | - | - | - | 1,172 |
| Gwasanaethau Rheilffyrdd Rheng Flaen | | 850 | 850 | (250) | - | - | - | 600 |

| NEWID HINSAWDD | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ADNODDAU | | | | | | | |
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2023-24 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Diwygiadau i Ddyraniadau Dangosol 2024-25 | Trosglwyddiadau MEG i MEG | Trosglwyddiadau o fewn y MEG | Dyraniadau i'r / o'r Cronfeydd wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft 2024-25 Ryagfyr 2023 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Trafnidiaeth Cymru | 254,258 | 256,238 | 110,750 | - | - | - | 366,988 |
| Trafnidiaeth Cymru - heb fod yn arian parod | 38,000 | 38,000 | - | - | - | - | 38,000 |
| **Cam Gweithredu: Gwasanaethau ar Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr a Buddsoddi** | **297,510** | **297,510** | **109,250** | **-** | **-** | **-** | **406,760** |
| Cymorth Bysiau | 61,005 | 61,005 | (150) | - | 62,482 | - | 123,337 |
| Tocynnau Teithio Rhatach | 60,482 | 60,482 | - | - | (60,482) | - | - |
| Cynllun Teithio Rhatach i Ieuenctid | 2,000 | 2,000 | - | - | (2,000) | - | - |
| Teithio Cynaliadwy a Llesol | 1,930 | 1,930 | (5,250) | - | - | 5,000 | 1,680 |
| **Cam Gweithredu: Teithio Cynaliadwy** | **125,417** | **125,417** | **(5,400)** | **-** | **-** | **5,000** | **125,017** |
| Diogelwch Ffyrdd | 5,000 | 5,000 | - | - | - | - | 5,000 |
| **Cam Gweithredu: Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd** | **5,000** | **5,000** | **-** | **-** | **-** | **-** | **5,000** |
| **MEG: NEWID HINSAWDD** | **1,165,687** | **1,187,687** | **(78)** | **-** | **-** | **28,398** | **1,216,007** |

| NEWID HINSAWDD | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYFALAF | | | | | | | |
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2023-24 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Diwygiadau i Ddyraniadau Dangosol 2024-25 | Trosglwyddiadau MEG i MEG | Trosglwyddiadau o fewn y MEG | Dyraniadau i'r / o'r Cronfeydd wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft 2024-25 Ryagfyr 2023 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Y Rhaglen Tlodi Tanwydd | 35,000 | 35,000 | - | - | - | - | 35,000 |
| **Cam Gweithredu: Y Rhaglen Tlodi Tanwydd** | **35,000** | **35,000** | **-** | **-** | **-** | **-** | **35,000** |
| Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 25,000 | 25,000 | - | - | (10,000) | 20,000 | 35,000 |
| Ynni Cymru | - | - | - | - | 10,000 | - | 10,000 |
| Ynni Morol | 7,000 | 10,000 | - | - | - | (600) | 9,400 |
| Diogelu'r Amgylchedd | 2,150 | 300 | - | - | - | - | 300 |
| **Cam Gweithredu: Datblygu a gweithredu polisi newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd** | **34,150** | **35,300** | **-** | **-** | **-** | **19,400** | **54,700** |
| Rheoli Risg Llifogydd a Chyflenwi Polisi Gwastraff | 49,000 | 49,000 | - | - | (22,000) | - | 27,000 |
| Cyflenwi Diogelwch Tomenni Glo | 11,000 | 10,300 | - | - | - | - | 10,300 |
| **Cam Gweithredu: Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth ynglŷn â'r perygl o lifogydd a'r perygl i'r arfordir, dŵr a charthion** | **60,000** | **59,300** | **-** | **-** | **(22,000)** | **-** | **37,300** |
| Galluogi Adnoddau Naturiol | 2,000 | 290 | - | - | - | (290) | - |
| Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion | 12,500 | 12,500 | - | - | - | - | 12,500 |
| Coedwigaeth | 14,900 | 9,310 | - | - | - | - | 9,310 |
| Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | 16,700 | 24,500 | - | - | - | (4,710) | 19,790 |
| **Cam Gweithredu: Darparu polisïau gwarchod natur a choedwigaeth a gwella'r amgylchedd lleol** | **46,100** | **46,600** | **-** | **-** | **-** | **(5,000)** | **41,600** |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | 2,358 | 2,356 | - | - | 22,750 | - | 25,106 |
| **Cam Gweithredu: Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu** | **2,358** | **2,356** | **-** | **-** | **22,750** | **-** | **25,106** |
| Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol | 60,000 | 60,000 | - | - | (750) | (12,397) | 46,853 |
| **Cam Gweithredu: Gwella Effeithlonrwydd Adnoddau a Chefnogi'r Newid i Economi Gylchol** | **60,000** | **60,000** | **-** | **-** | **(750)** | **(12,397)** | **46,853** |
| Tirwedd a Hamdden Awyr Agored | 8,900 | 8,900 | - | - | - | - | 8,900 |
| **Cam Gweithredu: Hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd** | **8,900** | **8,900** | **-** | **-** | **-** | **-** | **8,900** |

## NEWID HINSAWDD

### CYFALAF

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2023-24 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Diwygiadau i Ddyraniadau Dangosol 2024-25 | Trosglwyddiadau MEG i MEG | Trosglwyddiadau o fewn y MEG | Dyraniadau i'r / o'r Cronfeydd wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft 2024-25 Ryagfyr 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Y Rhaglen Addasiadau Cyflym | 19,500 | 19,500 | - | - | - | - | 19,500 |
| Y Sector Rhentu Preifat | 1,500 | 1,500 | - | - | - | - | 1,500 |
| **Cam Gweithredu: Byw'n Annibynnol** | **21,000** | **21,000** | **-** | **-** | **-** | **-** | **21,000** |
| Iechyd a Thai | 60,500 | 60,500 | - | - | - | - | 60,500 |
| **Cam Gweithredu: Y Gronfa Gofal Integredig** | **60,500** | **60,500** | **-** | **-** | **-** | **-** | **60,500** |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Chyllid Gwaddol | 108,000 | 108,000 | - | - | - | - | 108,000 |
| Eiddo Preswyl - Datgarboneiddio ac Ansawdd | 92,000 | 92,000 | - | - | - | - | 92,000 |
| **Cam Gweithredu: Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel** | **200,000** | **200,000** | **-** | **-** | **-** | **-** | **200,000** |
| Grantiau Tai Cymdeithasol | 370,000 | 365,000 | - | - | - | - | 365,000 |
| Tir ar gyfer Tai - Ad-dalau | (1,930) | (3,000) | - | - | - | - | (3,000) |
| **Cam Gweithredu: Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy** | **368,070** | **362,000** | **-** | **-** | **-** | **-** | **362,000** |
| Diogelwch Adeiladau | 135,000 | 165,000 | (37,330) | - | - | - | 127,670 |
| **Cam Gweithredu: Diogelwch Adeiladau** | **135,000** | **165,000** | **(37,330)** | **-** | **-** | **-** | **127,670** |
| Tai Marchnad a Chynlluniau Eraill | 67,000 | 65,000 | - | - | - | 7,000 | 72,000 |
| Tai Marchnad a Chynlluniau Eraill - Ad-dalu | (2,440) | (2,830) | - | - | - | - | (2,830) |
| Cymorth Prynu | 2,500 | 4,000 | - | - | - | - | 4,000 |
| **Cam Gweithredu: Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai'r Farchnad** | **67,060** | **66,170** | **-** | **-** | **-** | **7,000** | **73,170** |
| Cronfa Rhyddhau Tir | 20,000 | 25,000 | - | - | - | - | 25,000 |
| Cronfa Rhyddhau Tir - Ad-dalau | - | (9,361) | - | - | - | - | (9,361) |
| **Cam Gweithredu: Yr Is-adran Tir** | **20,000** | **15,639** | **-** | **-** | **-** | **-** | **15,639** |
| Adfywio | 50,000 | 50,000 | - | - | - | - | 50,000 |
| **Cam Gweithredu: Adfywio** | **50,000** | **50,000** | **-** | **-** | **-** | **-** | **50,000** |
| Datblygu Seilwaith Strategol | 14,500 | 5,000 | - | - | - | - | 5,000 |

| NEWID HINSAWDD | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYFALAF | | | | | | | | |
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | | Cyllideb Derfynol 2023-24 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Diwygiadau i Ddyraniadau Dangosol 2024-25 | Trosglwyddiadau MEG i MEG | Trosglwyddiadau o fewn y MEG | Dyraniadau i'r / o'r Cronfeydd wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft 2024-25 Ryagfyr 2023 |
| | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Cam Gweithredu:** | **Seilwaith Strategol** | **14,500** | **5,000** | **-** | **-** | **-** | **-** | **5,000** |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith | | 185,000 | 185,000 | - | - | - | - | 185,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd** | **185,000** | **185,000** | **-** | **-** | **-** | **-** | **185,000** |
| Hedfanaeth | | 13,328 | 1,783 | - | - | - | - | 1,783 |
| Trafnidiaeth Cymru | | 196,672 | 75,217 | - | - | - | - | 75,217 |
| **Cam Gweithredu:** | **Gwasanaethau ar Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr a Buddsoddi** | **210,000** | **77,000** | **-** | **-** | **-** | **-** | **77,000** |
| Cymorth Bysiau | | 58,000 | 68,000 | - | - | - | - | 68,000 |
| Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol | | 33,328 | 40,000 | - | - | - | - | 40,000 |
| Teithio Cynaliadwy a Llesol | | 93,672 | 99,000 | - | - | - | (5,000) | 94,000 |
| Teithio Cynaliadwy a Llesol - Ad-dalau | | (360) | (372) | - | - | - | - | (372) |
| **Cam Gweithredu:** | **Teithio Cynaliadwy** | **184,640** | **206,628** | **-** | **-** | **-** | **(5,000)** | **201,628** |
| Diogelwch Ffyrdd | | 4,000 | 4,000 | - | - | - | - | 4,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd** | **4,000** | **4,000** | **-** | **-** | **-** | **-** | **4,000** |
| **MEG:** | **NEWID HINSAWDD** | **1,766,278** | **1,665,393** | **(37,330)** | **-** | **-** | **4,003** | **1,632,066** |

| NEWID HINSAWDD | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AME - ADNODDAU | | | | | | |
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | | Cyllideb Derfynol 2023-24 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Chwefror 2023 Wedi'i Hailddatgan | Diwygiadau i Ddyraniadau Dangosol 2024-25 | Newidiadau Eraill | Cyllideb Ddrafft 2024-25 Ryagfyr 2023 |
| | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Tai Marchnad - AME | | (3,035) | (2,527) | - | (2,871) | (5,398) |
| **Cam Gweithredu:** | **Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai'r Farchnad** | **(3,035)** | **(2,527)** | **-** | **(2,871)** | **(5,398)** |
| Amhariadau Ffyrdd - AME | | 148,512 | 30,232 | - | - | 30,232 |
| **Cam Gweithredu:** | **Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd - Adnoddau nad ydynt yn Arian Parod** | **148,512** | **30,232** | **-** | **-** | **30,232** |
| Trafnidiaeth Cymru - AME | | 2,000 | 2,000 | - | - | 2,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Gwasanaethau ar Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr a Buddsoddi** | **2,000** | **2,000** | **-** | **-** | **2,000** |
| Darpariaeth Pensiynau Cyfoeth Naturiol Cymru - AME | | 10,000 | 10,000 | - | - | 10,000 |
| Amhariadau Asedau Coedwigaeth a Biolegol Cyfoeth Naturiol Cymru - AME | | (100,000) | (100,000) | - | - | (100,000) |
| **Cam Gweithredu:** | **Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu** | **(90,000)** | **(90,000)** | **-** | **-** | **(90,000)** |
| **MEG:** | **NEWID HINSAWDD** | **57,477** | **(60,295)** | **-** | **(2,871)** | **(63,166)** |